- Owen, Hywel Wyn, 'Pres'ta Tun?' *Llafar Gwlad*, 7, (Gwanwyn 1985), 8–9
- Owen, Hywel Wyn, 'Enwau Lleoedd yng Nghlwyd', *Llafar Gwlad*, (Haf 1985), 8–9
- Pierce, T. Jones, 'The Old Borough of Nefyn, 1355–1882', *TCHSG*, 18, (1957), 37–8
- Pierce, Gwynedd O., 'Enwau-Lleoedd Anghyfiaith yng Nghymru', *BBCS*, XVIII, (Tach. 1959), 252–65
- Richards, Gwynfryn, 'Chwareli Dyffryn Nantlle', *TCHSG*, 29, (1968), 5–24
- Richards, Gwynfryn, 'Rhanbarth Uchaf Dyffryn Nantlle: Nodion Daeryddol ac Amaethyddol', *TCHSG*, 34, (1973), 92–111
- Richards, Melville, 'The study of place-names', *Montgomeryshire Collections*, LIV, (1957), 95–102
- Richards, Melville, 'Hafod and hafoty in Welsh place-names: a semantic study', *Montgomeryshire Collections*, LVI, (1959), 13–20
- Richards, Melville, 'Gre, greon, greor, grewys mewn enwau lleoedd', *BBCS*, XVIII, (Mai 1959), 177–80
- Richards, Melville, 'Meifod, lluest, cynaeafdy and hendre in Welsh place-names', *Montgomeryshire Collections*, LVI, II, (1960), 177
- Richards, Melville, 'Rhai Enwau Lleoedd', *BBCS*, XIX, (Mai 1961), 91–101
- Richards, Melville, 'Welsh Rhyd 'Ford' in Place-names', *Études Celtiques*, X, (1962), 210–37
- Richards, Melville, 'Some medieval township and hamlet names', *BBCS*, XX, (1962), 49–58
- Richards, Melville, '-ddg > -rg-', *BBCS*, XX, (Mai 1963), 123–4
- Richards, Melville, 'Cae Mab Ynyr', *BBCS*, XX, (Mai 1964), 389–90
- Richards, Melville, 'The significance of *is* and *uwch* in Welsh commote and cantref names', *WHR*, II, (1964), 9–18
- Richards, Melville, 'Ffridd / ffrith as a Welsh place-name', *Studia Celtica*, II (1967), 29–90

- Richards, Melville, 'Welsh *Sarn*: Road, Causeway in Place-names', *Études Celtiques*, XI, (1967), 383–408
- Richards, Melville, 'Tri Enw: Cae Meta (Llanddeiniolen). Tyddyn Bisla (Llanrug). Maes Incla (Llanbeblig)', *TCHSG*, 29, (1968), 152
- Richards, Melville, 'Regal', *TCHSG*, 34, (1973), 161–2
- Richards, Melville, & Jones, Bedwyr Lewis, 'O Gwmpas Bangor', *TCHSG*, 52–3, (1991–2), 7–29
- Roberts, B. Dew, 'The Families of Bodvel and Jones of Cefnycoed', *TCHSG*, 5, (1944), 41–8
- Roberts, Glyn, 'The Glynnnes and Wynns of Glynllifon', *TCHSG*, 9, (1948), 25–39
- Roberts, G.T., 'Arfon (1759–1822)', *TCHSG*, (1939), 55–67
- Selwood, Nansi, 'Enwau Caeau ym Mhlwyfi Penderyn ac Ystradfellte', *Llafar Gwlad*, 11, (Gwanwyn 1986), 8–9
- Stevenson, W.H., "'Segontium'" and "'Seiont'", *Y Cymmrodor*, XXXIII, (1923), 177–86
- Thomas, Arthur, 'Enwau Caeau', *Llafar Gwlad*, 95 (Gaeaf, 2006–7), 8
- Thomas, Arthur, 'Hel Poethfoel (Poethwal)', *Llafar Gwlad*, 95 (Gaeaf, 2006–7), 18
- Thomas, Colin, 'Place-name Analysis in the Geographical Study of the Rural Landscape of Wales', *Studia Celtica*, VIII–IX, (1973–4), 299–318
- Thomas, Dafydd, 'Brenhines y Llynnoedd–Marged uch Ifan', *Llafar Gwlad*, 15, (Gaeaf 1986–7), 16
- Thomas, Dafydd Whiteside, 'Casglu', *Llafar Gwlad*, 24, (Haf 1989), 20
- Thomas, Dafydd Whiteside, 'Brenhines y Llynnoedd: Marged uch Ifan', *Llafar Gwlad*, 31, (Gwanwyn 1991), 14–15
- Thomas, D.W., 'Rhai Enwau Caeau Diddorol', *Llafar Gwlad*, 12, (Haf 1986), 21
- Thomas, R.J., 'Cyfatebiaeth rhwng Enwau Lleocdd Cymraeg a Saesneg', *BBCS*, VII, (Tach. 1933), 14–16
- Thomas, R.J., 'Enwau Afonydd â'r Ôlddodiad –wy', *BBCS*, VII, (Mai 1934), 117–33; *BBCS*, VIII, (Tach. 1935), 27–43
- Tomos, Dewi, 'Straeon Gwerin o Ddyffryn Nantlle', *Llafar Gwlad*, 28, (1990)
- Walters, Glenys Jones, 'Garreg Fawr, Waunfawr', *TCHSG*, 63, (2002), 9–17
- Williams, Ifor, 'Gogarth', *BBCS*, II, (Mai 1924), 112–13
- Williams, Ifor, '(G)allt y môr', *BBCS*, III, (Ion. 1926), 127–8.
- Williams, Ifor, 'Gogerdd, Gogarth, Gogerddan', *BBCS*, III, (Ion. 1926), 128–30
- Williams, Ifor, 'Gwyrfai', *BBCS*, II, (Mai 1924), 111–12
- Williams, Ifor, 'Beiston', *BBCS*, IV, (Mai 1929), 343
- Williams, Ifor, 'Claforawg', *BBCS*, VIII, (Tach. 1934), 277–8
- Williams, Ifor, 'Y Rug, Llanrug', *BBCS*, VIII, (Mai 1937), 330–1
- Williams, Ifor, 'Trwsgl, Trysglwyn', *BBCS*, XI, (Tach. 1944), 140–2

- Williams, Ifor, 'Trwfwl, tryfwl, cythrwfl' a 'tryfal', *BBCS*, XI, (Tach. 1944), 146–7
- Williams, Jac L., 'Rhai o Eiriau'r Clôs a'r Buarth'. *BBCS*, XIII, (Tach. 1949), 138–41
- Williams, J.E. Caerwyn, a Jones, D.M., 'W. medel, I. meithel, O.C. midil'. *BBCS*, XIII, (Tach. 1948), 23–5
- Williams, J.E. Caerwyn, 'Lleudir', *BBCS*, XXI, (Tach. 1965), 224–6
- Williams, J.E. Caerwyn, 'Ronwen: Rhawn Gwynion', *BBCS*, XXI, (Mai 1966), 301–3
- Williams, W. Gilbert, 'Ffrwd Cae-Du', *Caernarvon and Denbigh Herald*, 12 Mai, 1933. Ceir toriad o'r erthygl yn Bangor 21043.
- Williams, W. Gilbert, 'Y Tryfan', *TCHSG*, (1940), 58–70
- Williams, W. Gilbert, 'Morgan ap Huw Lewis, Hafod y Wern', *BBCS*, X, (Tach. 1940), 243–245
- Williams, W. Gilbert, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: I. Y Pengwern (1500–1800)', *TCHSG*, 4, (1942–3), 19–34
- Williams, W. Gilbert, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: II. Lewisiaid Plas-yn-Bont', *TCHSG*, 5, (1944), 41–8
- Williams, W. Gilbert, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: III. Huwsiaid Bodaden', *TCHSG*, 6, (1945), 23–31
- Williams, W. Gilbert, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: IV. Teulu'r Gadlys', *TCHSG*, 7, (1946), 20–3
- Williams, W. Gilbert, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: V. Teulu Rhedynog Felen', *TCHSG*, 8, (1947), 20–6
- Williams, W. Gilbert, 'Hen Deuluoedd Llanwnda: VI. Llwydiaid y Tryfan Bach', *TCHSG*, 9, (1948), 59–65

## LLYFRAU

- Ambrose, W.R., *Hynafiaethau, Cofiannau a Hanes Presennol Nant Nantlle*. (Pen-y-groes, 1872)
- ap Dafydd, Myrddin, *Enwau Cymraeg ar Dai*, (Llanrwst, 1997)
- Ar Lafar Ei Wlad*, Cyfrol Deyrnged John Owen Huws, (Llanrwst, 2002)
- Aycough, S., a Caley, J., (gol.), *Taxatio Ecclesiastica Angliae et Walliae, auctoritate Papae Nicholai IV, c. 1291*, (Llundain, 1802)
- Ballinger, J., (gol.), *Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers (1515–1690)*, (Aberystwyth, 1926)
- Banholzer, K.F., *Old Carnarvon – Outside the Town Walls*. (Wedi ei gyhoeddi'n breifat, 1998)
- Baring-Gould, J., a Fisher, John, *The Lives of the British Saints*. (Llundain, 1911)
- Bartrum, Peter C., *Early Welsh Genealogical Tracts*. (Caerdydd, 1966)



- Bartrum, Peter C., *Welsh Genealogies: A.D. 300–1400*, Cyf. 1–8, (Caerdydd, 1974)
- Bartrum, Peter C., *A Welsh Classical Dictionary*, (Ll.G.C., Aberystwyth, 1993)
- Bassett, T. M., a Davies, B.L., *Atlas Sir Gaernarfon*, (Caernarfon, 1976)
- Bennett's Business Directory (North Wales)*, (Birmingham, 1912)
- Bingley, William, *North Wales delineated from Two Excursions*. . .(Llundain, 1814)
- Booth, John, *Antique Maps of Wales*, (Montacute, Gwlad yr Haf, 1977)
- Borrow, George, *Wild Wales*, (Llundain a Glasgow, d.d.)
- Breese, Edward, *Kalendars of Gwynedd*, (Llundain, 1873)
- Bristow, Joy, *The Local Historian's Glossary of Words and Terms*, (Newbury, Berks., 2001)
- Bromwich, Rachel, (gol.), *Trioedd Ynys Prydain* (Caerdydd, 1961)
- Budenberg, Geoffrey F.(gol.), *Lewis Morris: Plans in St. George's Channel 1748* (Biwmares, 1987)
- Calendar of the Patent Rolls (PRO)* (Llundain, 1891–)
- Campbell-Culver, Maggie, *The Origin of Plants*, (Llundain, 2001)
- Cassey's Directory of Chester and North Wales*, (Caer, 1876)
- Charles, B.G., *The Place-Names of Pembrokeshire*, 2 gyf. (Aberystwyth, 1992)
- Charles, Thomas, *Geiriadur Ysgrythyrol*, (Bala, 1853)
- Cooke's Topographical Library or . . .County Directory (North Wales)*, (Llundain, d.d.)
- Copley, G.J., *Names and Places*, (Llundain, 1972)
- Davies, Dafydd, a Jones, Arthur, *Enwau Cymraeg ar Blanhigion*, (Caerdydd, 1995)
- Davies, Elwyn, (gol.), *Rhestr o Enwau Lleoedd / A Gazetteer of Welsh Place-Names*. (Caerdydd, 1967)
- Davies, Henry Rees, (gol.), *A Review of the Records of the Conway and the Menai Ferries*, (Caerdydd, 1942)
- Davies, R. Gwynn, *Y Waun a'i phobl*, (Waunfawr, 1996)
- Dodd, A.H., *The Industrial Revolution in North Wales*, (Caerdydd, 1951)
- Dodd, A.H., *A History of Caernarvonshire, 1284–1900*, (Caernarvonshire Historical Society, 1968)
- Dunkling, Leslie, a Wright, Gordon, *Dictionary of Pub Names*, (Ware, 1994)
- Edwards, Ifan ab Owen, *A Catalogue of Star Chamber Proceedings relating to Wales*, (Caerdydd, 1929)
- Edwards, J. Goronwy (gol.), *Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales*, (Caerdydd, 1935)
- Edwards, J. Goronwy (gol.), *Littere Walliae*, (Caerdydd, 1940)
- Edwards, Owen M., *Yn y Wlad*, (Wrecsam, 1921)
- Ekwall, Eilert, *The Concise Oxford Dictionary of English Place-names*. (4ydd arg., Rhydychen, 1991)

- Ellis, H., (gol.). *Registrum Vulgariter Nuncupatum: The Record of Caernarvon*, (Llundain, 1838)
- Evans, D. Simon, *A Grammar of Middle Welsh*, (Dulyn, 1964)
- Evans, H.T., *Wales and the Wars of the Roses*, (Stroud, 1995)
- Evans, Hugh, *Cwm Eithin*, (Lerpwl, 1931)
- Evans, Hugh, *Y Tylwyth Teg*, (Lerpwl, 1944)
- Evans, J. Gwenogvryn, *The Text of the Book of Llan Dâv*, (Rhydychen, 1893)
- Evans, J. Gwenogvryn, *The Black Book of Carmarthen*, (Pwllheli, 1907)
- Evans, Thomas, *Cambrian Itinerary or Welsh Tourist*, 2 gyfrol, (Llundain, 1801)
- Fenton, Richard, *Tours in Wales*, (gol. J. Fisher), (Llundain, 1917)
- Field, John, *A History of English Field Names*, (Harlow, 1993)
- Field, John, *English Field Names: A Dictionary*, (Newton Abbot, 1972)
- Fychan, Cledwyn, *Galwad y Blaidd*, (Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Gyf., 2006)
- Fynes-Clinton, O.H., *The Welsh Vocabulary of the Bangor District*, (Rhydychen, 1913; Adargraffiad Ffacsimile, Felinfach, 1995)
- Gelling, Margaret, *Signposts to the Past*, (Llundain, 1978)
- Gelling, Margaret, *Place-Names in the Landscape*, (Llundain, 1984)
- Gelling, Margaret, a Cole, Ann, *The Landscape of Place-Names*, (Stamford, 2000)
- Grieve, M., *A Modern Herbal*, (Llundain, 1994)
- Griffith, Ceinwen; Griffith, Elwyn Jones; Hughes, Mary; Jones, Bleddyn; Jones, Mari Vaughan; Williams, Wenna, *Hanes y Groeslon*, (wedi ei gyhoeddi'n breifat, 2000?)
- Griffith, J.E., *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families*, (Horncastle, 1914)
- Griffiths, Bruce (gol.), *Gwerin-eiriau Maldwyn*, (Bangor, 1981)
- Griffiths, R.A., (gol.), *Boroughs of Mediaeval Wales*, (Caerdydd, 1978)
- Gruffudd, Heini, *Enwau Cymraeg i Blant*, (Talybont, 1980)
- Gruffydd, Eirlys a Ken Lloyd, *Ffynhonnau Cymru*, Cyf. 2, (Llanrwst, 1999)
- Gruffydd, W. J., *Math vab Mathonwy*, (Caerdydd, 1928)
- Gruffydd, W.J., *Hen Atgofion*, (Aberystwyth, 1936)
- Gwilym, Siôn, *Dywediada Gwlad y Medra*, (Llanrwst, 1999)
- Hall, Edmund Hyde, [Jones, Emyr Gwynne, (gol.)], *A Description of Caernarvonshire*, (Caernarfon, 1952)
- Hanks, Patrick, a Hodges, Flavia, *A Dictionary of First Names*, (Rhydychen, 1991)
- Hanks, Patrick, a Hodges, Flavia, *A Dictionary of Surnames*, (Rhydychen, 1996)
- Hey, David, *The Oxford Companion to Local and Family History*, (Rhydychen, 1996)
- Hobley, William, *Hanes Methodistiaeth Arfon*, (Caernarfon: Dosbarth Clynnog (1910); Dosbarth Caernarfon, Ardaloedd Waenfawr a Beddgelert (1913); Dosbarth Caernarfon, Ardal Caernarfon (1915); Dosbarth Dinorwig (1921))

- Hookc, Della, a Postles, David, (gol.), *Names, Time and Place: Essays in Memory of Richard McKinley*, (Rhydychen, 2003)
- Howells, B.E., (gol.), *A Calendar of Letters relating to North Wales*, (Caerdydd, 1967)
- Hudson-Williams, T., *Atgofion am Gaernarfon*, (Llandysul, 1950)
- Hughes, Harold, a North, Herbert L., *The Old Cottages of Snowdonia*, (1908: Adargraffiad, Capel Curig, 1979)
- Hughes, Harold, a North, Herbert L., *The Old Churches of Snowdonia*, (Bangor, 1924)
- Hughes, John, *Methodistiaeth Cymru*, (Wrecsam, 1851)
- Hughes, T. Meirion, *Ffrwydriad y Powdwr Oil*, (Llanrwst, 2005)
- Hughes, T. Meirion, *Death Blast in Snowdonia*, (Cyhoeddwyd yn breifat gan yr awdur, 1994)
- Huws, Gwyn Pari, *Y Fenai*, (Llandysul, 2003)
- Huws, John Owen, *Y Tylwyth Teg*, (Llanrwst, 1987)
- Hyde, Ralph (gol.), *The A to Z of Georgian London*, (Lympne Castle, Caint, 1981)
- Ifans, Rhiannon, (gol.), *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, Cyfres Beirdd yr Uchelwyr, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, (Aberystwyth, 2005)
- An Inventory of the Ancient Monuments in Caernarvonshire*, Cyf. II, *Central*, RCAHM 1960
- Isaac, Evan, *Coelion Cymru*, (Aberystwyth, 1838)
- James, J. Spinther, *Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru . . .*, 4 cyfrol, (Caerfyrddin, 1899–1907)
- Jarman, A.O.H., (gol.), *Llyfr Du Caerfyrddin*, (Caerdydd, 1982)
- Jarvis, Branwen (gol.), *Syr Thomas Parry*, Cyfres Bro a Bywyd, (Cyngor Celfyddydau Cymru, 1987)
- Jenkins, David E., *Bedd Gelert: its Facts, Fairies and Folk-lore*, (Porthmadog, 1899)
- Jones, Bedwyr Lewis, *Iaith Sir Fôn*, (Bangor, 1983)
- Jones, Bedwyr Lewis, *Blas ar Iaith Llŷn ac Eifionydd*, (Llanrwst, 1987)
- Jones, Bedwyr Lewis, 'Yn Nhal-y-Sarn Ystalwm' (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1990)
- Jones, Bedwyr Lewis, *Enwau*, (Llanrwst, 1991)
- Jones, Bedwyr Lewis, *Yn ei Eifen*, (Llanrwst, 1992)
- Jones, Bedwyr Lewis, *R. Williams Parry*, (Caerdydd, 1997)
- Jones, Dafydd Glyn, *Y Bedwaredd Gainc*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1987), (Caernarfon, 1988)
- Jones, Dewi, *Cynghanedd, Cerdd a Thelyn yn Arfon*, (Llanrwst, 1998)
- Jones, D. Gwenallt, *Blodeugerdd o'r Ddeunawfed Ganrif*, (Caerdydd, 1953)
- Jones, Emyr Gwynnc. (gol.), *Exchequer Proceedings (Equity) concerning Wales, Henry VIII–Elizabeth*, (Caerdydd, 1939)
- Jones, Francis, *The Holy Wells of Wales*, (Caerdydd, 1992)
- Jones, G.P., ac Owen, Hugh (gol.), *Caernarvon Court Rolls, 1361–1402*, (Caernarfon 1951)

- Jones, Gwilym R., '*Yn Nhal-y-sarn ers talwm*' (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1968), (Caernarfon, 1971)
- Jones, Gwilym R., *Rhodd Enbyd*, (Y Bala, 1983)
- Jones, Gwilym T., *Afonydd Môn*, (Dinbych, 1990)
- Jones, Gwilym T., a Roberts, Tomos, *Enwau Lleoedd Môn*, (Bangor, 1996)
- Jones, Huw, *Cydymaith Byd Amaeth*, 4 cyfrol, (Llanrwst, 1999–2001)
- Jones, Ieuan Gwynedd, *The Religious Census of 1851: a Calendar of the Returns relating to Wales*, Cyf. II, (Caerdydd, 1981).
- Jones, Iwan Arfon, *Enwau Eryri*, (Talybont, 1998)
- Jones, John, (Myrddin Fardd), *Llên Gwerin Sir Gaernarfon*, (Caernarfon, 1908)
- Jones John, (Myrddin Fardd), *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes*, (Caernarfon, 1913)
- Jones John, (Myrddin Fardd), *Enwogion Sir Gaernarfon*, (Caernarfon, 1922)
- Jones John, (Myrddin Fardd), *Gwerin-eiriau Sir Gaernarfon: Eu Hystyr a'u Hanes*, (Adarg. Bangor, 1979)
- Jones, John Gwilym; Parry, Thomas a Roberts. Kate: pennod yr un yn *Atgofion I*, (Dinbych, 1972)
- Jones, John Gwilym, *Capel ac Ysgol*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1971–2), (Caernarfon, 1970)
- Jones, John Gwilym, *Ac Eto Nid Myfi*, (Dinbych, 1976)
- Jones, John Gwilym, *Ar Draws ac Ar Hyd*, (Caernarfon, 1986)
- Jones, Lisi, *Dwy Aelwyd*, (Pen-y-groes, 1984)
- Jones, Reg Chambers, '*Curiouser and Curiouser*': *Oddities in North-West Wales*, (Wrexham, 1998)
- Jones, Richard, (Gwyndaf Eryri), *Peroriaeth Awen*, (Caernarfon, 1818)
- Jones, R. Merfyn, *The North Wales Quarrymen, 1874–1922*, (Caerdydd, 1981)
- Jones, Tegwyn, *Ar Dafod Gwerin*, (Aberystwyth, 2004)
- Jones, T. Gwynn, (gol.), *Gwaith Tudur Aled*, 2 gyf. (Caerdydd, 1926)
- Jones, Thomas (gol.), *Brut y Tywysogyon . . . Red Book of Hergest Version*, (Caerdydd, 1955)
- Jones, T.I. Jeffreys, (gol.), *Exchequer Proceedings concerning Wales in tempore James I*, (Caerdydd, 1955)
- Jones, T.I. Jeffreys. (gol.), *Acts of Parliament concerning Wales, 1714–1901*, (Caerdydd, 1966)
- Jones, W.H., *Old Karnarvon*, (Caernarfon, 1889)
- Leland, John, [Smith, Lucy Toulmin (gol.)], *The Itinerary in Wales of John Leland*, (Llundain, 1906)
- Lewis, E.A., *Mediaeval Boroughs of Snowdonia*, (Llundain, 1912)

- Lewis, E.A., (gol.) *An Inventory of the Early Chancery Proceedings concerning Wales*. (Caerdydd, 1937)
- Lewis, E.A., a Davies, J. Conway, (gol.), *Records of the Court of Augmentations relating to Wales and Monmouthshire*, (Caerdydd, 1954)
- Lewis, Henry, *Yr Efen Ladin yn yr Iaith Gymraeg*, (Caerdydd, 1943)
- Lewis, Henry, *Datblygiad yr Iaith Gymraeg*, (Caerdydd, 1946)
- Lhuyd, Edward, *Parochialia*, Atodiad i *Arch. Camb.* 1909–11.
- Lloyd-Jones, J., *Enwau Lleoedd Sir Gaernarfon*, (Caerdydd, 1928)
- Lloyd-Jones, J., *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931)
- Llwyd, Alan, (gol.), *Cerddi R. Williams Parry: Y Casgliad Cyflawn*, (Dinbych, 1998)
- Llywelyn-Williams, Alun, *Crwydro Arfon*, (Llandybie, 1959)
- Millward, E.G., *Detholion o Ddyddiadur Eben Fardd*, (Caerdydd, 1968)
- Morgan, Derec Llwyd, (gol.), *Kate Roberts*, Cyfres Bro a Bywyd, (Cyngor Celfyddydau Cymru, 1981)
- Morgan, Richard, gydag Evans, G. G., *Enwau Lleoedd Buallt a Maesyfed*, (Llanrwst, 1993)
- Morgan, Richard, *Enwau Lleoedd ym Maldwyn*, (Llanrwst, 2002)
- Morgan, T.J., *Y Treigladau a'u Cystrawen*, (Caerdydd, 1952)
- Morgan, T.J., a Prys, *Welsh Surnames*, (Caerdydd, 1985)
- Morris-Jones, John, *A Welsh Grammar*, (Rhydychen, 1913)
- Munro, Richard, *Place Names of the Falkland Islands*, (Huntingdon, 1998)
- The New English Bible* (Rhydychen a Chaergrawnt, 1970)
- Nicholson, Y Parch. Emilius, *Cambrian Traveller's Guide in every Direction*, (Llundain, 1840)
- Owen, D. Huw, *Mapiau Printiedig Cynnar o Gymru / Early Printed Maps of Wales*, (LIGC, Aberystwyth, 1996)
- Owen, Elias, *Welsh Folk-Lore*, (Adarg. Ffacsimile, Felinfach, 1996)
- Owen, Emyr Hywel, a Thomas, Elfed, *Atlas Sir Gaernarfon*, (Caernarfon, 1954)
- Owen, Hugh (gol.), *Additional Letters of the Morrisises of Anglesey (1735–1786)*, (Llundain, 1947)
- Owen, Hywel Wyn, *Enwau Lleoedd Bro Dyfrdwy ac Alun*, (Llanrwst, 1991)
- Owen, Hywel Wyn, *The Place-Names of East Flintshire*, (Caerdydd, 1994)
- Owen, Hywel Wyn, *The Place Names of Wales*, (Caerdydd, 1998)
- Owen, Hywel Wyn, *Dehongli Enwau Lleoedd gyda golwg arbennig ar Faldwyn a'r Gororau*, (Bangor, 2005)
- Owen, William, *Chwedlau Pen Deitsh*. (Dinbych, 1960)
- Padel, O.J., *Cornish Place-Name Elements*, (Nottingham, 1991)
- Parry, Gruffudd, *Cofio'n Ôl*, (Caernarfon, 2000)

- Parry, Thomas, *Tŷ a Thyddyn*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1971–2), (Caernarfon, 1972)
- Parry, Thomas, *Amryw Bethau*, (Dinbych, 1996)
- Parry-Williams, T.H., *The English Element in Welsh*, (Llundain, 1923)
- Parry-Williams, T.H., *O'r Pedwar Gwynt*, (Llandysul, 1946)
- Parry-Williams, T.H., *Lloffion*, (Llandysul, 1947)
- Parry-Williams, T.H., *Cerddi*, (Llandysul, 1954)
- Parry-Williams, T.H., *Myfyrdodau*, (Llandysul, 1957)
- Parry-Williams, T.H., *Pensynnu*, (Llandysul, 1966)
- Peate, Iorwerth C., *Diwylliant Gwerin Cymru*, (Lerpwl, 1942)
- Pennant, Thomas, *A Tour in Wales*, (Llundain, 1783)
- Philip's Street Atlas of Anglesey, Conwy, Gwynedd*, (Llundain, 2004)
- Pierce, Gwynedd O., *The Place-names of Dinas Powys Hundred*, (Caerdydd, 1968)
- Pierce, Gwynedd O., *Place-Names in Glamorgan*, (Caerdydd, 2002)
- Pierce, Gwynedd O.; Roberts, Tomos, ac Owen, Hywel Wyn, *Ar Draw's Gwlad*, Cyf.1, (Llanrwst, 1997)
- Pierce, Gwynedd O., a Roberts, Tomos, *Ar Draw's Gwlad*, Cyf.2, (Llanrwst, 1999)
- Pigot & Co.'s National Commercial Directory*, (Llundain a Manceinion, 1835)
- Postal Directory of Carnarvonshire and Anglesey*, (Lerpwl, 1886)
- Pryce, Arthur Ivor, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century*, (Bangor, 1923)
- Pryce, Arthur Ivor, *The Diocese of Bangor during Three Centuries (Seventeenth to Nineteenth Century inclusive)*, (Caerdydd, 1929)
- Pryce, Huw (gol.), *The Acts of Welsh Rulers*, (Caerdydd, 2005)
- Pughe, David William, *History of Carnarvon Castle & Town* (Caernarfon, d.d.)
- [Pughe], William Owen, *A Welsh and English Dictionary*, (Llundain, 1793–1803)
- Rackham, Oliver, *The History of the Countryside*, (Llundain, 1987)
- Reaney, P.H., *The Origin of English Place-Names*, (Llundain, 1987)
- Reaney, P.H., *A Dictionary of British Surnames*, (Llundain, 1996)
- Redmonds, George, *Names and History: People, Places and Things*, (Llundain, 2004)
- Rees, T., a Thomas, J., *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, 4 cyfrol, (Lerpwl, 1871–5)
- Rees, William, (gol.), *Calendar of Ancient Petitions relating to Wales*, (Caerdydd, 1975)
- Richards, Emlyn, *Bywyd Gŵr Bonheddig*, (Caernarfon, 2002)
- Richards, Emlyn, *O'r Lôn i Fôn*, (Caernarfon, 2006)
- Richards, Gwynfryn, *A fyinn esgyn, mynn ysgol: Datblygiad Addysg yn Nyffryn Nantlle*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1979–80), (Cyngor Sir Gwynedd, 1980).
- Richards, Melville, *Welsh Administrative and Territorial Units*, (Caerdydd, 1969)
- Richards, Melville, *Enwau Tir a Gwlad*, (Caernarfon, 1998)

- Roberts, Elfed, *Hafn, Bwlch a Dyffryn*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1993), (Caernarfon, 1993)
- Roberts, Geraint, *The Lakes of Eryri*, (Llanrwst, 1995)
- Roberts, Kate, *O Gors y Bryniau*, (Wrecsam, 1925)
- Roberts, Kate, *Rhigolau Bywyd*, (Aberystwyth, 1929)
- Roberts, Kate, *Traed mewn Cyffion*, (Dinbych, 1936)
- Roberts, Kate, *Ffair Gaeaf a Storiâu Eraill*, (Dinbych, 1949)
- Roberts, Kate, *Te yn y Grug*, (Dinbych, 1959)
- Roberts, Kate, *Y Lôn Wen*, (Dinbych, 1960)
- Roberts, Kate, (gol. David Jenkins), *Erthyglau ac Ysgrifau Llenyddol Kate Roberts*, (Abertawe, 1978)
- Roberts, R. Alun, *Hafodydd Brithion*, (Lerpwl, 1947)
- Roberts, R.O., *Farming in Caernarvonshire around 1800*, (Caernarfon, 1973)
- Robson's Commercial Directory*, (Llundain, 1841)
- Room, Adrian, *Guide to British Place Names*, (Harlow, 1985)
- Rowlands, John a Sheila, *The Surnames of Wales*, (Birmingham, 1996)
- Rhŷs, John, *Celtic Folklore, Welsh and Manx*, 2 gyf. (Rhydychen, 1901)
- Rhys, Maureen, *Prifio*, (Llandysul, 2006)
- Scholes, P.A., *Oxford Companion to Music*, (Rhydychen, 1975)
- Siôn, Manon Wyn, (gol.), *John Gwilym Jones, Cyfres Bro a Bywyd*, (Cyhoeddiadau Barddas, 1993)
- Slater's National Commercial Directory of Liverpool . . .and North Wales*, (Manceinion, 1850)
- Smith, A.H. (gol.), *English Place-Name Elements*, (2 gyfrol), (Caergrawnt, 1956)
- Smith, Peter, *Houses of the Welsh Countryside*, (Llundain, 1988)
- Smith, Stephen, *Underground London*, (Llundain, 2004)
- Sutton's Directory of North Wales*, (Manceinion, 1889–90)
- Thomas, Alan R., *The Linguistic Geography of Wales*, (Caerdydd, 1973)
- Thomas, Beth, a Thomas, Peter Wynn, *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg. . .Cyflwyno'r Tafodieithoedd*, (Caerdydd, 1989)
- Thomas, David, (Dafydd Ddu Eryri), *Corph y Gaingc*, (Dolgellau, 1810)
- Thomas, John E., *A Geographical and Geological Description of Carnarvonshire* (Caerdydd a Chaernarfon, 1874?)
- Thomas, Peter Wynn, *Gramadeg y Gymraeg*, (Caerdydd, 1996)
- Thomas, R.J., *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru*, (Caerdydd, 1938)
- Tibbott, S. Minwel, *Geirfa'r Gegin*, (Amgueddfa Werin Cymru, 1983)
- Tomos, Dewi, *Llechi Lleu*, (Y Groeslon, 1980)

- Tomos, Dewi, *Crwydro Bro Lleu*, (Llanrwst, 1990)
- Tomos, Dewi, *Cerdded Gwynedd*, (Llanrwst, 1995)
- Tomos, Dewi, *Atgof Atgof Gynt*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1997), (Caernarfon, 1997)
- Tomos, Dewi, *Tyddynnod y Chwarelwyr*, (Llanrwst, 2004)
- Tomos, Dewi, *Eryri*, (Llanrwst, 2005)
- Tomos, Dewi, *Teulu: 'Ni welsom erioed gyfoeth'*, (Darlith Flynyddol Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, 2006), (Cyhoeddwyd gan y Ganolfan, 2006)
- Tudur, Gwilym, a Jones, Mair E., *Amen, Dyn Pren: Difyrrwch ein Hiaith ni*, (Caernarfon, 2004)
- Turner, Alun, *The Welsh Highland Railway: A History*, (Catrine, Ayrshire, 2003)
- Valor Ecclesiasticus. Tempus Henr. VIII* (1535), (Llundain, 1802)
- Vickery, Roy, *A Dictionary of Plant Lore*, (Rhydychen, 1995)
- Williams, Althea, *Codi Allorau: Datblygiad Crefydd yn Nyffryn Nantlle*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1981/2), (Caernarfon, 1982)
- Williams, Ashley Baynton, (gol.), *Town and City Maps of the British Isles, 1800–1855*, (Salford, 1992)
- Williams, Gruffydd Aled, (gol.), *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, (Caerdydd, 1986)
- Williams, Ifor, (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi*, (Caerdydd, 1951)
- Williams, Ifor, (gol.) *Canu Llywarch Hen*, (Caerdydd, 1953)
- Williams, Ifor, *Enwau Lleoedd*, (Lerpwl, 1962)
- Williams, Ifor, *Meddai Syr Ifor*, (Caernarfon, 1968)
- Williams, Iwan Llwyd, *Llwybro â Llafur at Lynllifon*, (Caernarfon, 1987)
- Williams, John Roberts, *Mil a Mwy*, (Pen-y-groes, 1996)
- Williams, Mair, *Ddoi di Dei? Llên gwerin blodau a llwyni*, (Llanrwst, 1998)
- Williams, Mair, *Yn ymyl Ty'n-y-coed: Llên gwerin planhigion a choed*, (Llanrwst, 1999)
- Williams, Owen, (Owain Gwyrfa), *Gemau Gwyrfa*, (Bala, 1904)
- Williams, Stephen J. a Powell, J. Enoch (gol.), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd*, (Caerdydd, 1942)
- Williams, W. Gilbert, *Moel Tryfan i'r Traeth*, (Pen-y-groes, 1983)
- Williams, W.I.Cynwil, (gol.) *Gwilym R. Jones, Cyfres Bro a Bywyd*, (Cyhoeddiadau Barddas, 2001)
- Williams, William, *Hynafiaethau a Thraddodiadau Plwyf Llanberis a'r Amgylchoedd*, (Llanberis, 1892)
- Williams, W. Ogwen, (gol.), *Calendar of the Caernarvonshire Quarter Sessions Records, 1541–1558* (Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon, 1956)



Willis, Browne, *A Survey of the Cathedral Church of Bangor and the Edifices belonging to it*, (Llundain, 1721)

Wmffre. Iwan, *Language and Place-Names in Wales: The Evidence of Toponymy in Cardiganshire*, (Caerdydd, 2003)

Wmffre, Iwan, *The Place-names of Cardiganshire*, 3 cyfrol, (Rhydychen, 2004)

*Worrall's Directory of North Wales*, (Oldham, 1874)

Wynn, Syr John, [Ballinger, John, gol.], *The History of the Gwydir Family*, (Caerdydd, 1927)

Wynne, Ellis (Donovan, Patrick J., a Thomas, Gwyn, gol.) *Gweledigaethau y Bardd Cwsg*, (Llandysul, 1991)

Wynne, John, *Hanes Sir a Thref Caernarfon*, (Caernarfon, 1861; arg. newydd, 1984)

## **CYLCHGRONAU, CYFNODOLION A PHAPURAU NEWYDD**

*Archæologia Cambrensis*

*The Bulletin of the Board of Celtic Studies / Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*

*Bye-gones relating to Wales and the Border Counties*

*Caernarfon & Denbigh Herald*

*Cambrian Register*

*Y Cymmrodor*

*Y Cymro*

*Cymru*

*Daily Post*

*English Place-Name Society Journal*

*Études Celtiques*

*Fferm a Thyddyn*

*Gwreiddiau Gwynedd Roots* (Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd)

*Llafar Gwlad*

*Llên Cymru*

*Y Llenor*

*Montgomeryshire Collections*

*Nomina: Journal of the Society for Name Studies in Britain and Ireland*

*Studia Celtica*

*Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon*

*Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*

*The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion / Trafodion Anrhydeddus*

*Gymdeithas y Cymmrodorion*

*Welsh History Review / Cylchgrawn Hanes Cymru*

## **RHAGYMDRODD**

*'Ni fedraf byth drafod enwau lleoedd heb gofio sylw a wnaeth fy hen athro, Syr John Morris-Jones, pan ofynnais iddo ryw dro beth oedd ei farn ef ar ystyr enw lle arbennig. Atebodd yntau yn sychlyd, ond gyda gwên yn ei lygaid, " 'Fydd 'na neb ond ffyliaid yn treio esbonio enwau lleoedd!'"*

*Syr Ifor Williams, Enwau Lleoedd, 5*

## Yr Ardal

Astudiaeth sydd yma o bum plwyf yn Arfon: Llanbeblig, Llandwrog, Llanfaglan, Llanrug a Llanwnda. I gwmpasu'r ardal dechreuir ar gyrion gogleddol tref Caernarfon a symud ar draws at afon Saint yng nghyffiniau Pont-rug. Cynhwysir pentrefan Pont-rug, pentref Llanrug a phentref Cwm-y-glo. Dilynir afon Saint i gychwyn ac yna afon Rhyddallt hyd at hanner ffordd ar draws llyn Padarn ar gyrion Llanberis, sef ffin plwyfi Llanrug a Llanberis. Mae'r drafodaeth hefyd yn cynnwys yr enwau yn y tir uchel rhwng y fan hyn a chyrion Waunfawr, pentref Waunfawr ei hun a phentrefanau Ceunant a Chaeathro. Cedwir at hen ffin plwyf Llanwnda, sef afon Gwyrfaï, felly cynhwysir cyrion Betws-Garmon a'r ucheldir rhwng y fan honno a Rhosgadfan. Cynhwysir pentrefi Rhosgadfan a Rhostryfan. O fynd ar hyd yr ucheldir i'r de o Rosgadfan symudir i blwyf Llandwrog a deuir i bentrefi Carmel a'r Fron ac ardal chwarelyddol y Cilgwyn, a thrafodir yr enwau yn y rhain i gyd. Oddi yno symudir i'r de-ddwyrain hyd at Ddrws-y-coed, ac yn ôl wedyn i'r gorllewin ar hyd Dyffryn Nantlle, gan gynnwys pentref Nantlle a'r rhan o Dal-y-sarn sydd ym mhlwyf Llandwrog. Cynhwysir yr enwau ym mhentrefi'r Groeslon a Llandwrog a phentrefan Dinas-Dinlle, cyn symud yn ôl i blwyf Llanwnda a phentrefanau Saron, Llanwnda, Glanrhyd a Dinas. Eir cyn belled â phentrefan Llanfaglan i'r gorllewin ac yn ôl i'r dwyrain hyd at bentref Bontnewydd cyn cyrraedd yn ôl i gyrion deheuol Caernarfon gan gwblhau'r cylch. Trafodir enwau'r holl blwyfi, pentrefi a phentrefanau eu hunain yn eu tro yn yr adran sydd ar ddechrau'r plwyf priodol.

Wrth ddosbarthu'r enwau dilynwyd dosbarthiad y plwyfi yn ôl Rhestrau Pennu'r Degwm, er nad yw hyn bob amser yn adlewyrchu'r ffiniau yn union fel y maent heddiw. Lluniwyd y rhestrau hynny yn y blynyddoedd a ganlyn: Llanfaglan, Llanrug a Llanwnda yn 1839, Llanbeblig yn 1841 a Llandwrog yn 1842. Gan y bu cymaint o fân newidiadau i ffiniau'r plwyfi dros y blynyddoedd byddai wedi peri dryswch mawr pe dilynasid pob newid yn y ffin. Oherwydd mai un plwyf oedd Llanbeblig a Waunfawr pan luniwyd Rhestr Pennu Degwm Llanbeblig yn 1841 rhestrwyd enwau lleoedd y ddau le hyn dan blwyf Llanbeblig, ond yma, er mwyn hwylustod wrth eu lleoli, gwahaniaethir y rhai sydd bellach ym mhlwyf Waunfawr. Bu'n rhaid ymwrthod â'r demtasiwn i gynnwys yr enwau a geir y tu mewn i dref Caernarfon ei hun gan y byddai hynny wedi gwneud y gwaith yn rhy hir. Mae'r enwau yn yr hen dref yn haeddu astudiaeth bellach annibynnol. Fodd bynnag, am resymau personol, dewiswyd Caernarfon fel y canolbwynt daearyddol, a hyn a bennodd ba blwyfi oedd i'w cynnwys yn yr astudiaeth.

## Yr enwau yn y detholiad

Detholwyd yr enwau yn bennaf ar sail Rhestrau Pennu'r Degwm a chofnodion cynharach. Fodd bynnag, cynhwyswyd ambell enw diweddarach yn ogystal os oedd unrhyw nodwedd arbennig o ddiddorol yn perthyn iddo. Ceisiwyd olrhain pob enw yn ôl ac ymlaen cyn belled ag y gellid. Penderfynwyd olrhain yr enwau ymlaen hyd ddechrau'r ganrif bresennol os oedd yn bosibl er mwyn dangos nid yn unig y parhad ond hefyd y newidiadau a ddigwyddodd yn weddol ddiweddar mewn rhai achosion

nes peri i'r enw gwreiddiol fynd yn angof. Gan fod nifer mor fawr o gofnodion ar gyfer yr ardal dan sylw bu'n rhaid dethol ryw gymaint pa anheddau i'w cynnwys, gan y byddai'r astudiaeth wedi mynd yn rhy fawr pe cynhwysid pob un hyd y dydd heddiw. Fodd bynnag, llwyddwyd i gynnwys yr holl brif anheddau a mwyafrif y caeau. Pan fu'n rhaid dethol gwnaethpwyd hynny ar sail nifer y cofnodion ac amrywiaeth ffurfiau'r enw, ar sail hynafiaeth a hefyd ddyddiadau'r cofnodion er mwyn cael parhad gweddol gyflawn. Ambell dro fe'u detholwyd ar sail hynodrwydd yr enw, ac ar sail ffynhonnell er mwyn ceisio dangos amrywiaeth y ffynonellau.

Y mae ystod yr astudiaeth yn cynnwys enwau'r plwyfi, y pentrefi a'r pentrefanau yn yr ardal dan sylw, ynghyd ag enwau mwyafrif yr anheddau a chaeau. Ceisir nodi lleoliad yr holl anheddau â chyfeiriad grid lle bo modd. Ni chynhwyswyd enwau afonydd, nentydd, mynyddoedd a bryniau fel y cyfryw, gan y byddai cynnwys y rhain i gyd mewn ardal sydd yn bur wyllt mewn mannau yn gwneud y gwaith yn rhy hir. Fodd bynnag, gan fod cymaint o enwau'r nodweddion daearyddol hyn hefyd yn elfennau yn enwau'r anheddau a'r caeau mae nifer helaeth iawn ohonynt yn cael eu trafod yn yr astudiaeth.

Ar gyfer penawdau enwau'r plwyfi, pentrefi, pentrefanau ac anheddau dilynir sillafiad y mapiau OS diweddaraf, neu fe ddilynir y patrwm a awgrymir yn *Rhestr o Enwau Lleoedd / A Gazetteer of Welsh Place-Names* lle gwyddys fod y ffurfiau hynny'n gywirach.

Astudiaeth doponymig yw hon yn bennaf, ond ar yr un pryd ceisir cynnwys unrhyw ffeithiau o ddiddordeb llenyddol, chwedlonol, hanesyddol neu ddaearyddol sydd ynghlwm wrth yr enwau eu hunain, a'r anheddau a'r caeau a drafodir. Mae'n bwysig cofio nad enwau yn unig sydd i'r mannau a drafodir, ond llw o draddodiadau a chysylltiadau o bob math. Fel y dywed John Field:

The names themselves are essentially words. Inevitably, therefore, the discussion of their individual development will be primarily in terms of language, although all place-names (including field-names) must be viewed in their historical and geographical contexts.' (*EFN*, 3)

Ceisir hefyd gyfeirio at enghreifftiau eraill o rai o'r enwau, o Gymru yn bennaf, ond cyfeirir at enghreifftiau cyfatebol yn Lloegr lle bo hynny'n berthnasol.

## Y Ffynonellau

Er mai milltir sgwâr yr awdur yw ardal yr astudiaeth a'i bod o'r herwydd yn gyfarwydd iddi, y cam cyntaf tuag at ymgynffwrdd â hi yn fwy trylwyr fu mynd yn fanwl drwy Restrau Pennu'r Degwm a'r mapiau sydd ynghlwm wrthynt i gasglu enwau'r anheddau a'r caeau a oedd mewn bodolaeth pan luniwyd y rhestrau hyn. Yr ail gam, ar ôl casglu enwau'r anheddau a'r caeau, oedd astudio'r mapiau OS dros y blynyddoedd i ddilyn hynt yr anheddau. Casglwyd y deunyddiau dogfennol eraill yn bennaf o weithredoedd, mapiau, a phapurau eraill y stadau sydd yn gysylltiedig â'r ardal, a chasgliadau o bapurau o swyddfeydd twrneiod lleol. Ymhlith papurau'r stadau y mwyaf cynhyrchiol oedd y rhai sydd yn delio â stad Glynllifon yng nghasgliad Newborough yn archifdy Gwasanaeth Archifau Gwynedd yng Nghaernarfon. Cafwyd llawer iawn o wybodaeth o bapurau stad y Faenol hefyd, yn

enwedig am blwyf Llanrug. Yn yr un archifdy bu casgliad stad Coed Helen hefyd yn gloddfa fuddiol, a chafwyd ychwaneg o dystiolaeth o bapurau stad Baron Hill, Biwmares, a gedwir yn archifau Prifysgol Cymru, Bangor. Cafwyd llawer iawn o wybodaeth, gan gynnwys rhai o'r cyfeiriadau cynharaf a gofnodir yma, o gasgliad anferth Llanfair a Brynodol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Papurau stadau a theuluoedd Griffith, Plas Llanfair, Llanfair-is-gaer, a Griffith, Brynodol, Llŷn, yw'r rhain.

Ymhlith casgliadau'r twrneiod mae papurau Porth yr Aur yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor, yn arbennig iawn, sef casgliad hynod swmpus o eitemau o swyddfa'r twrnai John Evans yng Nghaernarfon. Casgliad arall hynod werthfawr ar gyfer yr ardal dan sylw yw papurau'r twrnai Henry Rumsey Williams (1774–1841) o Gaernarfon a gedwir yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Mae'n cynnwys llawer o ddeunydd yn ymwneud â stad Glynllifon. Cafwyd cofnodion diddorol hefyd o gasgliad Poole, y cyfreithwyr o Gaernarfon, a gedwir yn yr archifdy Gwynedd yn y dref honno.

Ynghyd â'r rhain ceir ffynonellau 'swyddogol' gwerthfawr, megis Aseidiadau Treth y Tir, cofnodion y Cyfrifiadau a chofnodion yr Eglwys yng Nghymru, yn ogystal â chofnodion mwy 'personol' megis ewyllysiau ac arysgrifau ar gerrig beddau.

### **Nodweddion Ieithyddol yr Enwau**

Un fantais o gasglu cofnodion o ffynonellau llai safonol, megis dyddiaduron, llyfrau siop a hen gerrig beddi, yw eu bod yn aml iawn yn adlewyrchu'r ynganiad llafar naturiol a glywir yn yr ardal. Isod nodir rhai o'r prif nodweddion ieithyddol a glywir yn yr ardal dan sylw ac a nodwyd yn rhai o'r cofnodion. Detholiad yn unig o enghreifftiau a geir isod. Yn yr enghreifftiau a roddir, nodir enwau'r anheddau mewn print rhufeinig a'r caeau mewn print italig.

#### **Newidiadau yn y terfyniadau**

1. Colli'r *-u* yn y terfyniad *-au* mewn enw lluosog:

Cocsidiau > Cocsidia (Llb)

Henwaliau > Henwalia (Llb)

Talyrnau > Talyrna (Llb)

2. Colli'r *-u* yn y terfyniad *-au* mewn ansoddair:

e.e. *golau* > *gola*

Hafodola (Llb)

Bryngola (Llb, Lld)

Fron Ola (Llf)

Coedgola (Llr)

3. Newid y terfyniad *-ey* yn *-a* yn enwedig mewn e.p. Saesneg:

Cae Stanley > Caestanla (Llb)

Maes Hinckley > Maesinclla (Llb)

Tyddyn Bisley > Tyddyn-bisla (Llr)

Cae Ellen Bulkeley > Cae Elen bwgla / Bwela (Llw)

Ambell dro ceir yr un newid yn nherfyniad enw Cymraeg:

Glangwynney > Glangwna (Llr)

4. Colli'r -f derfynol:

Cefn-y-gof > Cefn-y-go (Llb)

Ceir hefyd lu o enghreifftiau o'r elfennau *isaf, uchaf, nesaf, pellaf* wedi eu nodi fel *isa, ucha, nesa, pella*.

### Nodweddion yn ymwneud â'r fannod

1. Cynnwys y fannod o flaen e.p. yn enwedig mewn e.p. Saesneg<sup>1</sup>:

Cae'r Bold (Llb)

Tyddyn Walsh > Tyddyn-y-Walch (Llb)

Tyddyn y Bisley (Llr)

Ambell dro ceir y fannod o flaen e.p. Cymraeg :

Cae'r Llowarch (Lld)

2. Colli'r fannod:

Pen-y-dalar > Pendalar (Llw)

Tyn-y-lôn > Tyn-lôn (Llb, Lld, Llf, Llw)

Tyn-y-rhos > Tyn-rhos (Llb, Lld, Llf, Llw)

Tyn-y-twll > Tyn-twll (Llb)

*Cae wrth y tŷ > Cae wrth tŷ (Lld)*

*Cae wrth y werglodd > Cae wrth werglodd (Lld)*

*Cefn y beudy > Cefn Beudy (Lld)*

### Newidiadau llafarog

1. -e- > -a-

carreg > carrag: Garrag fawr (Llb)

onnen > onnan: Tyn-y-ronan (Llb)

halen > halan: Cae-halan (Lld)

Hendre > Hendra (Lld, Llw)

Nantlle > Nantlla (Lld)

felen > felan: Rhedynog-felan (Llw)

acer > acar: Yr Acar (Llb)

capel > capal: Cae Capal bach (Llb)

coeden > coidan: Cae'r Goidan wen (Llb)

Yr Egel > Rhegal (Llb)

2. -a- > -e-

gwastad > gwasted: Gwastedfaes (Llb); Gwasted y cefn (Llr)

perllan > Y Berllen (Llr)

3. -aw- > -ow-

Cae'r fawnog > Cae'r fownog (Lld)

Ceir enghraifft o hyn mor gynnar â 1558 yn mownog y gasseg (Llr)

4. -ew > -aw mewn terfyniad

---

<sup>1</sup> Cf. PNDPH, xviii

Pydew > Pydaw (Llb)  
Tŷ-eiddew > Tŷ Iddaw (Llf)

5. -e > -ai mewn terfyniad

*ychen* > *ychain*: Beudy'r Ychain (Llf), *Cae Beudy'r Ychain* (Llf), *Rhos yr ychain* (Llr)

*merched* > *merchaid*: miria merchaid engan (Llw)

6. -wy- > -w-

Mae'r newid llafarog hwn yn nodwedd amlwg yn nhafodiaith tref Caernarfon

Hafod-yr-ŵydd > Hafodrwdd (Llb)

Tai-gwynion > Taigwnion (Lld)

Rhyd-y-cerrig-gwynion > Rhyd y cerrig gwnion (Llr)

Llanwyndaf > Llanwnda

*Cae'r-eglwys* > *Cae'r eglws* (Llb)

7. -w- > -wy-

Ceir enghraifft o'r newid llafarog uchod yn *trallwn* > *trallwyn* yn enw Bryntrallwyn (Lld). Mae'n debyg mai newid ymwybodol yw hwn mewn ymgais i esbonio'r elfen ddieithr *trallwn* / *trallwng* trwy ei chysylltu â'r elfen fwy cyfarwydd *llwyn*.

8. Colli y- gychwynnol

Ysbyty > Spytty / Spitty / Sputty (Llb)

Ysgawen > *Erow yr Scawen* (Llr)

Ysgubor > Sgubor goch (Llb); Sgubor wen (Llb); *Cae cefn sgubor* (Llb, Lld, Llr, Llw)

Gan fod *stabl* / *ystabl* a *stalwyn* / *ystalwyn* yr un mor dderbyniol â'i gilydd o gofio mai o'r Saes. *stable* a *stallion* y tarddodd yr enwau Cymraeg, efallai na ddylid ystyried ffurfiau megis *Cae talcen stabl* (Llb, Lld, Llr, Llw) yn enghreifftiau o'r nodwedd ieithyddol hon.

### Newidiadau cytseiniol

1. Ychwanegu cytseiniaid ymwithiol yng nghanol gair ar ôl -n-:

-nl- > -ndl-<sup>1</sup>

Cae Stanley > Caestandley (Llb)

-nhr- > -nthr-

Penrhyn > Penthryn (Llf)

*Cae'r Penrhyn* > *Cae'r Penthryn* (Llw)

2. -f- ac -w- yn ymgynffwrdd:

Cilcawoden > Cilfodan (Lld)

*Cae tywod* a *Cae tyfod ceirch* (Lld); *Yr Hengae Tyfod* (Llr)

3. Caledu cytseiniaid:

Cae'r Glyn > Cae'r clyn (Llb)

Bodrual > Botrual (Llb)

---

<sup>1</sup> Cf. EEW, 234

Pen-bryn-Bwlan > Pen Pryn Pwlan (Lld)  
Enghraifft o galedu ddwywaith yn yr un enw: Bodgadfan > Botcatfan (Llw)  
*Yr egel isaf > Yr hecal isaf (Llw)*

#### 4. Meddalu cytseiniaid

Yr Allt > Ralld (Llr)

Cae Ellen Bulkeley > Cae Elen bwgla

*Cae clover > Cae glover (Llb, Llr)*

Enghraifft o feddalu ddwywaith yn yr un enw: Pen-y-clip > Penglib (Llw). Ceir enghraifft o galedu a meddalu cytsain yn yr un enw yn Pen-y-gaerwen > ben y cyrwan (Llw) ac yn Betws > Pedws (Lld).

### **Nodweddion yn ymwneud â'r treigliadau**

#### 1. Colli'r fannod o flaen eb. un. ond cadw'r treiglad meddal

Ar ddechrau'r enw:

Y graig lwyd > Graig Lwyd (Llb)

Y garreg fawr > Garreg-fawr (Llb)

Y Wern / Y Wernddu > Wern / Wernddu (Llb)

Yng nghanol yr enw:

Pen-y-gelli > Pengelli (Llb)

Rhwng-y-ddwy-ryd > Rhwngddwryd (Llw)

#### 2. Treiglo afreolaidd :

Mae'n anodd esbonio'r tr. meddal ar ddechrau'r enwau isod gan na chollwyd bannod o'u blaen.

Melin-Forgan > Felin-Forgan (Lld)

Melinwnda > Felinwnda (Llw)

#### 3. Peidio â threiglo'r ans. *bach* ar ôl eb. un.:

Hafod-bach (Llb)

Rhos-bach (Llb)

Dôl-bach (Llf)

*Gors-bach (Llb, Lld, Llr, Llw)*

*Llain-bach (Llb, Lld, Llf, Llr)*

*Waun-bach (Llb, Llw)*

#### 4. Treiglo dwbl:

pig > big > fig / vig *Buarth y vig (Llb)*

crofft > grofft > rofft *Cae'r offt (Lld); Yr offt fain (Llr); Offt yr odyd (Llr)*

#### 5. Peidio â threiglo ans. ar ôl eb. un. pan geir y cyfuniad *n + l*:

Bron + llwyd > Fronllwyd (Llb) yn hytrach na Fronlwyd



## Cwtogi enwau

Ceir tuedd naturiol i gwtogi enw os yw'n rhy hir yn nhyb y siaradwr cyffredin, neu os yw'r enw gwreiddiol yn anodd i'w ynganu neu ei sillafu:

Pant-y-clafrdy > Pant (Llb)  
Rhos-Dican-goch > Rhosdican (Llb)  
Sarn-dŵr-garw > Sarn (Llb)  
Tyddyn-Elen-ddu > Tyddyn-Elen (Llb)  
Ysbyty'r-gwynt > Ysbyty (Llb)  
Ffrwd-ysgyfarnog > Ffrwd (Lld)  
Erw-styffylau > Erw (Llw)

## Llurgunio enwau

Weithiau mae'r cywasgu a llyncu sillafau a geir ar lafar yn llurgunio'r enw nes newid yr enw gwreiddiol fel na ellir ei adnabod mewn rhai achosion, a hyd yn oed greu synnwyr newydd ambell dro:

Cae Adda Goch > Gadda goch (Llb)  
Cae-llechfaen > Gellachfain (Llb)  
Cae Evan ab Adda > Cefn-badda > Cefn-y-beddau (Lld)  
Cae Siôn Dafydd > Ceision (ar lafar); Caesion (wrth ei ysgrifennu)(Lld)  
Rhiwafallen > Rhiwallen (Lld)  
Tyddyn Ednyfed ab Engan > Tyddyn-bengam (Lld)  
Cefnynysoedd (Llf) a *Cefnynysoedd* (Llb) > Cefnysoedd; Ynysoedd > Nysoedd (Lld)  
Cae-dôl-Bleddyn > Cae'r-glyddyn (Llr)  
Cae'r-wehyddes > Caer-weddus (Llr)  
Cefntresaint > Kent (Llr)  
Tai-melinyddion > Taimylyddion (Llr)  
Tai-newyddion > Tainwddion (Llr)  
Cae'r-helygen > Caerlygan (Llw)  
Rhedynog-felen > Dynog-felen (Llw)  
Tyddyn-Dôl-Guhelyn > Tyddyn-Heilyn (Llw)  
*Cae pren bendigaid* > *Caebrynddigod* (Llb)

## Seisnigo sillafiad yr enw Cymraeg

Ambell dro newidir sillafiad yr enw Cym. i gydymffurfio â'r Saes. wrth ei gofnodi. Ceir hyn yn arbennig yng nghofnodion RhPDegwm ym mhlwyf Llanbeblig, lle gellir tybio mai rhywun di-Gymraeg a'u copiodd:

Un enghraifft nodedig yw Ala-bowl > Yellow bowl (Llb)  
Feiston > Veiston / Vieston / Vaston (Llb)  
Gors > Gorse (Llb)  
Cwirciau > Quirkian (Llb)  
*Foel-fawr* > *Voil fawr* (Llb)  
Foryd > Voryd (Llw)

## Cymreigio sillafiad yr e. Saesneg

Ambell dro ceir y gwrthwyneb yn digwydd pan geisir cymreigio sillafiad enw Saesneg:

Foundry > Ffowndri (Llb)

Freeholder > Friddhowlder (Llf)

Slater > Tyddyn-sclaters (Llr); *Cae Sclater* (Llr)

Heater > *Cae hetar* (Llw)

## Enwau cryno ar gaeau

Nodwedd ddiddorol, a geir ym mhlwyf Llandwrog yn bennaf, yw'r arfer o ddefnyddio ansoddair, enw priod neu enw cyffredin ar ei ben ei hun fel enw cae:

Ansoddair yn unig : *Hen; Newydd; Hyll; Caled; Caledion*

Enw priod : *Dudur; Emrys; Forgan*

Enw cyffredin: *Haidd; Halen; Cyff*

Daw'r enghreifftiau uchod i gyd o blwyf Llandwrog.

## Hiwmor mewn enwau

Nid yw hon yn nodwedd ieithyddol fel y cyfryw, ond mae'n un ddiddorol y dylid ei nodi. Ym mhlwyf Llandwrog ceir dau annedd eithaf anghysbell yn ardal chwareli'r Cilgwyn, sef Greenland a Samaria. Ceir trafodaeth lawn o arwyddocâd yr enwau hyn dan yr enwau eu hunain yn yr adran ar Anheddau Llandwrog. Digon yma yw nodi mai'r bwriad yw cyfleu mor ddigroeso a diarffordd yw lleoliad yr anheddau hyn. Ceir hiwmor mwy cynnil yn yr enw Chatham ym mhlwyf Llanwnda. I ddeall yr ergyd yn yr enw hwn rhaid gwybod am iard longau fawr y Llynges yn Chatham yng Nghaint a'i chymharu â'r iard gychod fach a oedd yn Chatham, Llanwnda.

## Tystiolaeth yr Enwau<sup>1</sup>

Mewn tref mae rhif mewn stryd yn ddigon i wahaniaethu tŷ hwn-a-hwn oddi wrth dai ei gymdogion. Yng nghefn gwlad mae angen modd amgenach o wahaniaethu rhwng y naill annedd a'r llall, ac yn wir rhwng y naill gae a'r llall. Dyma swyddogaeth enwau'r anheddau a'r caeau. Prif bwrpas enw annedd neu gae yw ei wahaniaethu oddi wrth anheddau a chaeau cyfagos a gwneir hynny trwy bennu ei leoliad, neu roi disgrifiad ohono, neu nodi cartref ac eiddo pwy yw. Pennir lleoliad annedd neu gae mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, drwy ei leoli o ran ei berthynas â'r dirwedd o'i amgylch, a dyma'r math o enw topograffig a geir yn yr anheddau canlynol: Glan'rafon (Llb), Pen-y-gelli (Llb), Tyn-rhos (Llb), Baladeulyn (Lld), Drws-y-coed (Lld), Uwchlaw'r-rhos (Lld), Glan-y-môr (Llf), Cefn-ynyoedd (Llf), Drws-y-ddeugoed (Llr), Pen-y-bwlch (Llr), Cae'r-gors (Llw) a Pengwern (Llw). Pennir lleoliad lluo o gaeau yn yr un modd, e.e. *Cae pen y boncan* (Llb), *Cae coeden fawr* (Llb), *Parc tan y foel* (Lld), *Cae tan y geulan* (Lld), *Cae pen y morfa* (Llf), *Llain pen y werglodd* (Llr), *Cae bach yr afon* (Llw). Yn ail, gellir pennu lleoliad annedd neu gae o ran ei berthynas ag adeilad neu ryw nodwedd arall o law dyn, megis yn yr anheddau

<sup>1</sup> Yma eto defnyddir print rhufeinig ar gyfer enwau anheddau a phrint italig ar gyfer enwau caeau.

a ganlyn: Dolyfelin (Llb); Pant-y-clafrody (Llb), Tan-y-ffordd (Llb), Bryn'rodyn (Lld), Cae'r-eglwys (Lld), Cae'r-efail (Llf), Tyn-lôn (Llf), Bryn-llan (Llr), Tal-y-bont (Llr), Cae-ysgubor (Llw), Cefn-hengwrt (Llw). Ac fe ellir pennu lleoliad caeau hefyd o ran eu perthynas ag adeilad neu nodwedd arall o law dyn, e.e. *Cae cefn tŷ* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw), *Cae tan llidiart* (Llb), *Cae capel* (Lld, Llr), *Cae cefn gweithdy* (Lld, Llw), *Cae'r pandy* (Llb, Lld, Llr), *Llain tan stabal* (Llr), *Cae'r beudy* (Llb, Lld, Llf, Llr, Llw). Weithiau pennir lleoliad fferm mewn perthynas â fferm arall, neu gae mewn perthynas â chae arall. Gyda'r anheddau ceir sawl pâr o enwau, megis Treflan-isaf / Treflan-uchaf (Llb), Glan'rafon-bach / Glan'rafon-fawr (Llb), ac yn fwy diddychymyg fyth: Tŷ-isaf / Tŷ-canol / Tŷ-uchaf (Llr). Gellir cael clwstwr yn dwyn yr un enw gydag ansoddair i wahaniaethu rhyngddynt: Gwredog-bach, Gwredog-ganol, Gwredog-isaf, Gwredog-uchaf (Llw). Yn yr un modd ceir parau o enwau caeau, e.e. *Cae eithin nesaf* / *Cae eithin pellaf* (Llb), a *Cefn gwndwn isaf* / *Cefn gwndwn uchaf* (Llr). Gellir pennu lleoliad cae mewn perthynas â chae arall: *Cae nesa'r cae bach* (Llw), *Cae nesa'r mwyaf* (Lld), neu mewn perthynas ag annedd cyfagos: *Cae nesa i Llwyn-y-brain* (Llr), *Werglodd nesaf y Plas* (Llf).

Pwrpas arall i enw tŷ neu gae yw rhoi disgrifiad ohono, ac mewn rhai achosion mae'r disgrifiad yn ddigon i'w adnabod os nad oes annedd arall o'r un disgrifiad gerllaw, e.e. mae'r enw Tŷ-coch yn ddigon i roi arbenigrwydd i'r tŷ hwnnw os yw pob tŷ arall o'i amgylch yn wyngalchog. Mae'r enwau disgrifiadol hyn ymhlith y rhai symlaf; ambell dro nid ydynt yn ddim mwy nag enw + ansoddair, ac eto maent yn ddigon i roi stamp arbennig ar yr annedd neu'r cae. Gyda'r anheddau gall fod yn ddisgrifiad syml iawn o'r tŷ ei hun, megis Tŷ-coch (Llb, Llw), Tyddyn-hen (Llb), Plas-mawr (Lld), Plas-isaf (Llf), Tyddyn-mawr (Lld, Llr), Tyddyn-bychan (Llw). Dro arall mae'n ddisgrifiad o ryw nodwedd arbennig yng nghyffiniau'r tŷ a fyddai'n rhoi rhyw arbenigrwydd y gellid ei adnabod i'r tŷ a'i leoliad: Garnedd-wen (Llb), Garreg-fawr (Llb), Ysgubor-goch (Llb), Beudy-mawr (Lld), Clawdd-llwyd (Llr), Hen-gastell (Llw), Maen-gwyn (Llw). Ceir yr un cyfuniad syml o enw + ansoddair i ddisgrifio caeau: *Cae cam* (Llb), *Cae hyll* (Llb, Lld, Llf, Llw), *Fron heulog* (Lld), *Werglodd ddu* (Lld), *Clwt gwlyb* (Llf), *Cefn gwastad* (Llr), *Ffridd wyllt* (Llr), *Cae pigfain* (Llr), *Cae teg* (Llw), *Werglodd hirgam* (Llw). Ambell dro, yn enwedig ym mhlwyf Llandwrog, mae'r ansoddair ar ei ben ei hun yn ddigon i adnabod y cae: *Hen*, *Newydd*, *Hyll*, *Caled*.

Gall enw hefyd roi'r wybodaeth am bwy oedd biau'r annedd neu'r cae. Ambell dro enwir y perchennog wrth ei enw, dro arall wrth ei alwedigaeth. Ceir amryw ffyrdd o gofnodi'r enwau personol hyn. Weithiau ni cheir ond yr enw cyntaf fel yn Tyddyn-Alice (Llb a Llr) neu Cae-Iago (Lld). Gyda cyn lleied o wybodaeth, gan amlaf nid yw'n bosibl olrhain pwy oedd yr Alice neu'r Iago dan sylw. Dro arall ceir cryn dipyn o fanylder, megis yn enw'r annedd Tyddyn Rowland Griffith ap William (Llb) neu yn *Tir Hugh ap William ap Gruffydd ap Hwlcyn* (Llw). Ond nid yw hyn ychwaith yn golygu y gellir o anghenraid olrhain y bobl hyn. Fodd bynnag, gwyddom rywfaint am y Tegwared ap Hywel a roes ei enw i Muriau Tegwared ap Hywel (Llb); gwyddom rywfaint hefyd am Elin Bulkeley, er ei bod hithau bellach wedi diflannu wrth i enw Cae-Elin Bulkeley (Llw) droi'n Cae-Buckley. Gwyddom gryn dipyn am y gŵr y cofnodwyd ei enw yn RhPDegwm plwyf Llanbeblig yn *Cae Pierce Owen*. Mae'n bosibl hefyd ein bod wedi llwyddo i ddarganfod pwy oedd y Syll yn Gallt-y-sil (Llb) a'r Hwysgyn yn Tyddyn-Whiskin (Llr). Ambell dro mae'r enwau yn rhoi inni gipolwg o wedd rai o'r bobl hyn: merch â gwallt tywyll oedd y Nest a gofnodir yn

Tyddyn-Nest Ddu (Llw); felly hefyd yr Elen a gofféir yn Tyddyn-Elen-ddu [>Tyddyn-Elen] (Llb) a'r ddau Ddafydd a welir yn Tyddyn-Dafydd [Ddu] (Lld) ac *Ynys Dafydd ddu* (Llr). Cochyn oedd y Dican a gofféir yn Rhosdican-goch (Llb) a'r Adda a oedd yn byw yn Cae Adda-goch (Llb), ond nid oedd gan y gwŷr a gofféir yn *Cae Ieuan moel* (Llr) a Tyddyn Bleddyn foel (Llr) wallt o gwbl. Ni nodwyd enwau rhai unigolion, ond gadawsant eu hôl serch hynny: tybed pwy oedd y gwŷr llond ei groen yn *Cae dyn tew* (Llb), y gwŷr annymunol yn *Cae'r hen sinach* (Llb), yr hen ŵr musgrell yn *Waen cleiriach* (Llb), y gwŷr â'r coesau cam yn Cae'r-bongam (Lld), a'r gwŷr cefngrwm a gladdwyd yn *Bron bedd y crwth* (Llr). Tybed hefyd ewythr pwy yn hollol oedd Hugh yn *Cae f'ewyrth Hugh* (Llr), a nain pwy a gofféir yn *Cae Neina* (Llb).

Ffurf fachigol yr enw cyntaf a gawn ambell dro yn hytrach na'r enw llawn, e.e. Badi < Maredudd yn *Rhos Badi* (Llr), Dican (ai Richard ynteu Dafydd sydd yma?) yn Rhosdican (Llb), Guto / Gutun < Gruffydd yn *Cae Guto* (Lld), *Cae Guto'r Ddôl* (Llr) a *Gwerglodd Guttun Owain* (Llw). Ceir rhywfaint o gymysgu yn enw annedd Merddyn-Hwlcyn neu Merddyn-Wilkins (Llb): ffurf fachigol *Hywel* yw *Hwlcyn*, a ffurf fachigol *Will / Wil* < *William / Gwilym* yw *Wilkin*. Ceir Hwlcyn hefyd yn *Cae Hwlcyn* (Llw). Rhywun o'r enw Christopher yn ddiau a gofféir yn Cae-Cristo (Llb), ac mae'n bosib mai enw merch, sef Tangwystl wedi ei gwtogi i'r ffurf fachigol Tanw, a geir yn Tyddyn-Danw (Llb). Un o ffurfiau bachigol Iorwerth sydd yn *Pant Ieaws* (Lld), ac mae'n anodd dweud ai 'llwynog' ynteu ffurf fachigol yr enw Madog a geir yn yr enwau sydd yn cynnwys yr elfen *Madyn*.

Weithiau cyfenw yn unig a geir, megis yn Cae-Hampton (Llb), Cae-Bold (Llb), Cae-Stanley (Llb), Maesincla (Llb) < Hinkley, Tyddyn-Bisle (Llr) < Bisley, Tyddyn-parthle (Llw) < Bartley, *Cae Haslam* (Llb) a *Cae Hobson* (Llb). Bu'n bosibl darganfod dipyn go lew am deuluoedd Hampton, Bold, Bisley a Stanley, hyd yn oed os na wyddom yn union pa aelod a gofféir yn yr enwau hyn. Mae'n anodd weithiau sylweddoli mai enw personol sydd yn enw ambell annedd neu gae. Heb y cofnodion cynnar go brin y byddem wedi gweld mai gwŷr o'r enw Rhirid a roes ei enw i Tyddyn-rhyddid (Llr), na bod Ednyfed David ab Einion wedi ei guddio yn enw Tyddyn-bengan (Lld). Gwŷr o'r enw Hoydyn sydd yn Cae-hoeden (Llr), nid merch benchwiban; Evan ab Adda sydd yn Cefn-Badda (Lld), a gwyddom hefyd mai Evan oedd enw'r gwŷr a gofféir yn Cae mab-Ynyr (Llb). Fel y cofféir enw'r tad yn Cae mab-Ynyr, er bod enw'r mab bellach wedi ei golli, felly hefyd y cofféir enw'r tad yn unig yn Muriau Merched Engan (Llw).

Ambell dro, yn hytrach na nodi enw'r sawl oedd biau'r annedd neu'r tir, nodir ei alwedigaeth. Mae'r enwau hyn yn arbennig o ddiddorol gan eu bod yn rhoi syniad inni o'r crefftau a'r diwydiannau a gysylltid â lle arbennig. Cofféir athro yn Caethro (Llb), a llwyddodd yr Athro Melville Richards i olrhain rhai o ddisgynyddion y gwŷr hwn. Mae'n bosibl hefyd ein bod yn gwybod pwy oedd y doctor yn y ddau *Gae-doctor* yn Llandwrog, ac nad meddyg sydd yma o gwbl. Ond yr oedd yna feddygon, mae'n debyg, yn Llain-meddygon (Llb). Gwehyddes sydd yn cuddio yn enw Caer-weddus (Llr), a cheir cyfeiriad at un arall a oedd yn rhan o'r broses o baratoi brethyn yn *Coed y pannwr* (Llb). Wedyn byddai'r brethyn yn mynd at y teiliwr ac mae hwnnw yma hefyd, yn Tyddyn-teiliwr (Llr) ac yn *Cae'r teiliwr* (Lld). Rhaid oedd cael esgidiau yn ogystal â dillad, a chofféir y barcer a baratoai'r lledr yn Maes-y-barcer (Llb), a'r crydd wedyn yn *Dôl y crydd* (Llw). Gyda'r holl felinau a gofnodwyd yn y

plwyfi dan sylw nid oes ryfedd fod cofnod hefyd o'r sawl a'u gweithiai yn Taimelinyddion, *Cae melinydd*, *Hen gae melinydd*, a *Werglodd y melinydd*, i gyd ym mhlwyf Llanrug. Cwnstabl y plwyf yn ddiâu a gofféir yn Cae-Constable (Lld); cyfeirir at dincer yn Tyddyn-tincer (Llb), at y gof yn Cefn-y-gof (Llb), ac yn *Cae'r gof* a *Buarth cae'r gof* yn yr un plwyf, ac at y gwŷr a oedd yn toi tai yn Tyddyn-sclaters (Llr) a *Cae sclater* (Llb). Byddai'n rhaid cael clochydd yn yr eglwys a chofféir hwnnw yn Tyddyn-clochydd (Llf). Mewn ardal lle megid cymaint o ddefaid nid yw'n rhyfedd fod y bugail yn cael ei gofio yn Bryn-bugeiliaid (Lld) a *Cae bugeiliaid* yn yr un plwyf, ac efallai mai rhyw fath o fugail sydd hefyd yn Greuor (Llr). Mae'n bosibl fod cryn hynafiaeth i enw *Cae Arddwr* (Lld) ac mai cyfeiriad at aradrwr sydd yma. Tybed ai crythor sydd yn *Llain crother* (Llf): yn ddiâu ceir pibydd yn *Bryn Pibor* neu *Bryn pipion* (Lld). Byddai'n ddiddorol gwybod pwy oedd yr ynad a gofnodwyd yn enw *Erw yr ynad* yn Llanrug yn 1558, a chael gwybod rhywfaint o hanes y palmer y cyfeirir ato yn *Erow y palmer* yn nhrefgordd Treflan yn yr un flwyddyn.

Cyfeiriwyd uchod at y crefftwyr a weithiai yn yr ardal yn y gorffennol, ond ceir cyfeiriadau eraill hefyd at weithgareddau a diwydiant. Gwelir isod sawl cyfeiriad at yr odyngalch, a cheir cyfeiriadau mynych at yr efail (Lld×7, Llwx2, Llb) a'r felin (Llwx8, Llb×5, Lld×5, Llr). Melinau malu ŷd ar gyfer blawd oedd y mwyafrif: melinau blawd, er enghraifft, oedd Melinwnda (Llw), Melin-Forgan (Lld), Melin Bodrual (Llr) a'r felin ar y Morfa ar gyrion Caernarfon (Llb). Fodd bynnag, ceir cyfeiriad at felin-frag yn Llanwnda, a melin bapur yn Llanbeblig. Ceir cyfeiriad at bandy ym mhob plwyf ac eithrio Llanfaglan. Ardal chwarelyddol yw hon, ac yn ogystal a'r chwareli mawr yn Nyffryn Nantlle ceir cyfeiriad at chwareli llai ym mhlwyfi Llanbelig a Llanrug, ac at y Foundry (Llb) lle defnyddid y cynnyrch i wneud llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion. Ceir sawl cyfeiriad at dyfu cywarch, a chynnyrch hwnnw oedd y rhaffau a gâi eu dirwyn yn y *Rope Walk* (Llb). Golosg, nid glo, a gynhyrchid yng Ngarth-y-glo (Llw) ac yng Nghwm-y-glo (Llr). Er caleded oedd y gwaith ceid cyfle i ymlacio, o bosib yn y Dafarn-dywyrch (Lld), neu mewn oes ddiweddarach yn y Rifleman's Arms (Llb), neu'n grandiach fyth, yn yr Uxbridge Hotel (Llb). Wedi sobri gellid mynd i chwarae bowliau yn Ala-bowl (Llb), neu ym mlynnyddoedd cynnar yr 20g i chwarae tennis ar y *Cae tennis* yn Rhosgadfan.

Gadawodd crefydd ei ôl yn yr elfen 'llan' yn enwau'r plwyfi wrth reswm a hefyd yn enwau'r pentrefi a'r pentrefannau a enwyd ar ôl capeli, megis Carmel (Lld), Cesarea (Lld) a Saron (Llw). Mae'r enw anghyffredin Appii Forum (Lld) hefyd yn dyst i wybodaeth drylwyr yr hen drigolion o'r Beibl. Ond rywsut byddid wedi disgwyl gweld mwy o ôl y llan a'r capel yn yr enwau, er ei fod yno mewn enwau megis anheddau Cae'r-eglwys (Llb), Cae'r-llan (Lld), Tŷ-mawr-y-llan (Llw), Bryn-llan (Llr), ac yn y caeau: *Cae'r capel* (Llb×2, Lld, Llr); *Cae'r eglwys* (Llb×2, Llf) neu *Cae'r llan* (Llw×3, Llb, Lld, Llr). Ceir atgof am y tir a oedd yn eiddo'r eglwys mewn enwau megis *Cae Ficar* (Llw), *Parciau Esgob* (Lld) a *Caeau'r Esgob* (Llf).

Ychydig o dai mawr iawn sydd yn ardal yr astudiaeth. Prin yw'r plastai mawr, er y ceir Glynllifon ym mhlwyf Llandwrog, a chastell ffug-hynafol Bryn-bras a phlasty Glan-gwna ym mhlwyf Llanrug. Ychydig o anheddau a ystyriwyd yn ddigon pwysig i arddel yr enw 'plas' o'r cychwyn: tai megis Plas-isaf a Phlas-Llanfaglan ym mhlwyf Llanfaglan; Plas-Llanwnda a Phlas-yn-bont yn Llanwnda, Plas-mawr, Plas-newydd a Phlas Tal-y-sarn yn Llandwrog, a Phlas-tirion a Phlas-gwyn yn Llanrug.

Ymddyrchafodd llawer o dai go helaeth tua diwedd y 19g a dechrau'r 20g a phenderfynu ychwanegu 'plas', neu'n dybiedig grandiach fyth, 'hall' at yr enw gwreiddiol, e.e. Rhosdican (Llb) > Plas Rhosdican a Glyn-afon (Llb) > Plas Glyn-afon; Pantafon (Llr) > Plas Pantafon; Bodaden (Llw) > Plas Bodaden, a Dinas (Llw) > Plas-Dinas; Cibyn (Llb) > Cibyn Hall a Tryfan (Lld) > Tryfan Hall. Mae'n wir y ceir rhai tai sylweddol eraill, megis Coed-Helen, Glanrafon-fawr, Tŷ-coch a Chastellmai ym mhlwyf Llanbeblig, Mount-hazel ym mhlwyf Llandwrog a Phrysgol ym mhlwyf Llanrug, ond prin yw'r ffermydd gwirioneddol fawr. Yn ôl tystiolaeth Rhestrau Pennu'r Degwm ychydig iawn ohonynt oedd dros gan acer. Ymhlith y rhai â thiroedd go helaeth gellid rhestru Glan'rafon-fawr, Pen-y-gelli a Gwastadfaes ym mhlwyf Llanbeblig, Gelli-ffrydau yn Llandwrog a Phlas-Llanwnda yn Llanwnda.

Yr oedd y tir gorau, wrth reswm, ar lawr gwlad yn yr iseldir ac fel yr eid yn uwch i'r ucheldir ceid mwy a mwy o waundir a mawnog. Fodd bynnag, yr oedd modd gwella'r math hwn o dir drwy hwsmonaeth ofalus, ac yma y codwyd y tyddynnod ar lethrau'r mynyddoedd a'r bryniau yn ardaloedd Waunfawr (Llb), Rhosgadfan (Llw), Ceunant (Llr) a Charmel a'r cyffiniau (Lld). Tir comin oedd llawer o'r tir i gychwyn, ond yn raddol crebachodd y comin fwy-fwy fel y codwyd rhagor o dyddynnod arno. Gan nad astudiaeth hanesyddol o'r ardal dan sylw yw hon yn bennaf, nid hwn yw'r lle i drafod holl helyntion cau'r tiroedd comin. Digon yw dweud mai'r holl ddatblygiadau mewn amaethyddiaeth yn ystod y ddeunawfed ganrif a thwf y chwareli yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a roes fodolaeth i'r patrwm o fân dyddynnod a geir yn yr ucheldir.

Nid oedd bywyd yn hawdd ar y llethrau hyn i'r tyddynwyr. Cyn mynd i'r afael â'r tir gwael yr oedd yn rhaid brwydro â'r elfennau, fel y dywed Kate Roberts yn ei disgrifiad o fro ei mebyd:

'Pentref amlwg, digysgod oedd Rhosgadfan, y mynyddoedd i'r de inni a'r môr i'r gogledd. Wynebem wynt y Gogledd a gwynt y Gorllewin; yr oeddem o fewn tair milltir i'r môr, yn ddigon agos i'w heli lynu yn ein ffenestri pan chwythai o'r cyfeiriad hwnnw. Caem fwy o eira na'r lleoedd rhyngom â'r môr, a chryfach glaw a gwynt. Gwynt oer a daear lwyd yn y gaeaf' (LW, 30)

Clywir sŵn y gwynt mewn enwau anheddau megis Llys-y-gwynt (Llb). Ysbyty'r-gwynt (Llb) a Bwlchgwnnog (Llr), a'r oerni yn enwau Penrhyn-oer (Llf), ac yn arbennig yn Greenland (Lld). 'Mae enwau'r tai yn dystion i'r tir a'r tywydd'. meddai Kate Roberts eto, gan gyfeirio at enw ei chartref hi ei hun, sef *Cae'r-gors* a sawl un arall yn cynnwys elfennau megis *cors*, *mawnog*, *rhos*, *gwynt* (ibid.). Ac yn wir, wrth astudio'r enwau yn yr astudiaeth hon, dyma'r argraff gryfaf a geir yn llawer iawn o'r enwau, nid yn unig yn ardal Rhosgadfan ac ucheldir plwyf Llanwnda ond yn y plwyfi eraill i gyd. Gwelsom uchod ddylanwad y tywydd ar yr enwau, a thystia enwau nifer o'r anheddau i nodweddion gerwin y dirwedd: Glan-y-gors (Llb); Gors-y-waun (Llb); Ystum-brwynog (Llw); Bryniau-fawnog (Llr). Ceir pum enghraifft o *Rhos* ymhlith caeau Llanbeblig, tair ar ddeg yn Llandwrog, wyth *Cae rhos* yn Llanfaglan a naw *Ffridd* yn Llanwnda. Tir llwm sydd yma ar y cyfan gyda'i gorsydd (pedair enghraifft ar ddeg o *Gors* ymhlith Caeau Llanbeblig a'r un nifer yn Llanwnda, pedair ar bymtheg yn Llandwrog, a deg yn Llanrug, yn ogystal â sawl enghraifft o'r elfen *cors* wedi ei chyfuno ag ansoddair, e.e. *Gors bach*, *Gors bellaf* etc.) a'i gaeau garw, caregog (naw *Cae cerrig* a phedwar *Cae garw* ym mhlwyf Llanbeblig a phedwar *Cae*

garw yn Llanwnda). Er y ceir ambell dinc o ganmoliaeth mewn enwau caeau megis *Cae teg* (Llw), *Fron dirion* (Lld), a *Gors fwyn hyfryd* (Llb), ar y cyfan llafur caled yw ffermio yn yr ardal, a'r ymdrech i'w chlywed yn glir iawn yn yr enwau eu hunain, megis yn anheddau Cae-caled (Llb), Cae Halen-mawr / bach (Lld), a chaeau *Drafferth* a *Fron duchan* (Lld), *Buarth hir drin* (Llb), *Cae sâl* (Llw 2, Lld) a *Cae llwm* (Llw, Llf a Lld). Ni cheir llawer o anwylddeb wrth ddisgrifio'r caeau: ceir tri *Cae hyll* ym mhlwyf Llanbeblig; pedwar *Cae hyll*, un *Llain hyll* ac un *Hyll* yn Llandwrog, a dau *Cae hyll* eto yn Llanwnda. *Main*, *tenau*, *caled*, *crin*, *llwyd* a *chras* yw'r ansoddeiriau eraill a ddewisir i'w disgrifio.

Eto i gyd, yr oedd y caeau oer a llwm hyn yn foddion cynhaliaeth i'r chwarelwyr a'u teuluoedd. Meddai Syr Thomas Parry am ei fagwraeth yn y Gwyndy, Carmel, ac mae'r hyn a ddywed yn wir am y rhan fwyaf o'r tyddynnod eraill yn yr ardal:

'Rhyw bedair neu bum acer, ar y mwyaf, wedi ei ennill o'r mynydd oedd y tyddyn, ac nid oedd y pridd fawr fwy na dyfnder rhaw, ond yn rhyfedd o doreithiog oherwydd yr aredig cyfnodol a'r gwrteithio rheolaidd. Gwair oedd y prif gnwd, ond tyfu hefyd ddigon o datws am y flwyddyn a rwdins a moron a ffa a phys.'<sup>1</sup>

Yr oedd teulu Thomas Parry yn cadw gwartheg, a theulu Kate Roberts yn cadw dwy fuwch, dau fochyn a ieir, yn ogystal â thyfu ceirch a thatws ar ryw hanner dwsin o gaeau bychain<sup>2</sup>. Ategir yr hyn a ddywed Thomas Parry a Kate Roberts gan dystiolaeth enwau'r caeau yn yr astudiaeth hon. Ceir cyfeiriadau at y gwahanol gnydau: e.e. *Cae porfa / Porfa* (Llb×10, Llw×6, Llr, Llf, Lld); *Cae gwair* (Llb, Lld, Llw, Llr); *Buarth maip* (Llb); *Cae ceirch* (Llb, Llw), *Cae bras geirch* (Llw); *Cae gwenith* (Lld), *Bryn gwenith* (Lld); *Cae clofer / meillion* (Lld×5, Llb×3, Llr×2, Llw, Llf); *Cae tatws* (Llb×3, Lld); *Cae rwdins* (Llb); Hafod-y-rhyg-uchaf (Llb), Hafod-y-rhyg-isaf (Llr), *Cae rhyg* (Lld); *Ddôl haidd* (Lld) / *Cae haidd* (Llr) / *Cae barley* (Llw), yn ogystal ag ambell gnwd llai arferol megis cywarch a llin (Llw).

Sonia Thomas Parry am y modd y gellid gwella'r tir salaf drwy fynych wrteithio. Ceir sôn am hyn hefyd yn enwau'r anheddau a'r caeau. Byddai'r da byw a gedwid yn darparu gwrtaith naturiol, a cheir cyfeiriad at hyn yn *Cae tail* (Llr). Defnyddid calch i felysu'r borfa, a cheir enghreifftiau o *Cae calch* (Llb) a *Cae pwll calch* (Llr). Yr oedd sawl o dyn galch ym mhob plwyf: cyfeirir atynt yn enwau'r anheddau Bryn'rodyn (Lld) a Cae'r-odyn (Llw), a cheir un ar ddeg cyfeiriad at o dyn yn enwau'r caeau ym mhlwyf Llanwnda, deg cyfeiriad yn Llanbeblig, wyth yn Llandwrog, a chwech yn Llanrug. Ffordd arall o wella'r tir oedd defnyddio marl, sef cymysgedd o bridd a chlai a chalch. Ceir sawl cyfeiriad at farl neu at y pwll marl yn enwau'r caeau: (Lld×4, Llw×4, Llf).

Oddi wrth atgofion Kate Roberts a Thomas Parry gwelir fod y tyddynwyr yn medru cadw rhywfaint o dda byw ar eu caeau prin. Ceir sawl cyfeiriad at yr anifeiliaid hyn yn enwau'r anheddau a'r caeau, nid yn unig yn nhyddynnod yr ucheldir ond yn y ffermydd yn gyffredinol. Ychydig yw'r cyfeiriadau at y da byw yn enwau'r anheddau, mae'n wir, ond ceir Waun-wartheg, Hafod-yr-wyn a Phant-y-defaid, i gyd ym mhlwyf Llanbeblig, *Cae-geifr* (Lld), *Mur-moch* (Llr) a *Beudy-ychain* (Llf). Mae'r

<sup>1</sup> Thomas Parry, 'Tŷ a Thyddyn', Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1972. (Caernarfon, 1972).

18

<sup>2</sup> Kate Roberts, *Atgofion*, 12

cyfeiriadau'n llawer mwy niferus yn enwau'r caeau. Sonnir am wartheg (Llw×6, Lld×4, Llb×2, Llf, Llr) neu loiau (Llb×14, Lld×11, Llw×10, Llr×7, Llf×3). Cyfeirir at ddefaid ac ŵyn (Llb×6, Llw×3, Lld×2, Llf, Llr), ac at foch (Llb×3, Lld×2, Llw). Ceir rhai cyfeiriadau at geffylau, ebolion a chesig, neu ferlynnod (Lld×10, Llw×4, Llb×3, Llr×3, Llf) ac at ambell ful (Llb, Llf). Mae'n amlwg oddi wrth enw'r annedd Cocsidia (Llb), a *Cae buarth y petrisiaid* (Llf) y ceid rhywfaint o fagu adar ar gyfer eu hela, ac mae enw'r annedd Warring (Llw) a *Cae gwaring* (Llr) yn dangos fod cwningod hefyd yn cael eu magu ar gyfer y bwrdd bwyd. Ceir sôn am ambell gryw ar gyfer dal pysgod, fel yn Cwellyn (Llw) a *Pwll y cawell* (Llf), ac at gadw gwenyn yn *Gardd y gwenyn* (Llb). Mae hefyd yn bosibl mai colomennod ar gyfer y bwrdd oedd yn *Bryn colomendy* (Lld).

Dengys yr enwau ymwybyddiaeth nid yn unig o anifeiliaid y fferm a'r tyddyn, ond o anifeiliaid gwyllt ac adar yn gyffredinol. Cyfeirir at anifeiliaid gwyllt mewn enw sawl annedd: Llwyn-yr-iwrch (Llb), Fron-iwrch a Glyn-iwrch (Lld), ac yn amlach fyth yn enwau'r caeau. Cyfeirir at y llwynog yn *Cae daear y llwynogod* a *Daear llwynog* (Lld), *Waun llwynog* (Llr), ac mae'n bosibl mai cyfeiriad at y llwynog a geir yn yr enwau sydd yn cynnwys yr elfen *madyn*, yn hytrach na ffurf fachigol yr enw Madog. Oherwydd cyflymdra ei llif, mae'n debyg, y galwyd y ffrwd a roes ei henw i'r annedd yn Llandwrog yn Ffrwd-ysgyfarnog. Byddai'n ddiddorol gwybod pa anifail bychan a gofféir yn enw Gallt-y-pryf (Lld), ac a oedd yna 'neidr' ynteu 'naid hir' yn Bryn-naid-hir yn yr un plwyf. Mae rhai o'r enwau hyn yn mynd yn ôl ganrifoedd lawer, oherwydd sonnir am faedd gwyllt neu hwch goed yn enw annedd Cilgwythwch (Llr), a cheir atgof am hela bleiddiaid trwy gloddio twll i'w dal yn enw *Cae pwll y bleiddie* (Lld). Mae enwau adar hefyd yn elfennau amlwg: yn yr anheddau Bryngwylan (Llb), Bron'hedydd (Lld), Llwyn-y-gwalch (Lld), Llwyn-y-piod (Lld). Mae'r frân yn cael sylw arbennig: yn Coed-y-brain (Lld), a dwywaith ym mhlwyf Llanrug, yn Carreg-y-frân a Llwyn-y-brain. Fodd bynnag, mae'n amheus a fu eryr erioed ar gyfyl Bryn-yr-eryr (Llr). Ceir rhagor o gyfeiriadau at adar yn enwau'r caeau: *Buarth dylluan* (Llb), *Cae'r golomen* (Llb), *Dôl y wennol* (Llw) ac *Egal ynys dryw* (Llr).

Nid oedd y tir i gyd wedi ei ddefnyddio ar gyfer cnydau a da byw. Ceir lluo o gyfeiriadau at erddi a pherllannau. Fe'u gwelir yn enwau anheddau Cae'r-berllan (Llb) a Tyn-y-gerddi (Llb), a chyfeirir at ardd mewn sawl llain o dir (Llb×39, Lld×4, Llr, Llf); felly hefyd at berllannau (Llb×16, Lld×3, Llf×2, Llw, Llr). Mae cryn ymwybyddiaeth o wahanol blanhigion a choed i'w gweld yn yr enwau. Er mai agored a digysgod yw'r ucheldir ar y cyfan, ceir sawl cyfeiriad at goed yn yr ardal yn gyffredinol: e.e. yn anheddau Coedmarian (Llb), Coed-mawr (Llb), Pen-y-gelli (Llb), Drws-y-coed (Lld), Coed-y-brain (Lld), Cefn-y-coed (Llf), Drws-y-ddeugoed (Llr) a Planwydd (Llw), a'r caeau: *Cae'r coed* (Llw×9, Llb×7, Lld×6), a cheir deuddeg enghraifft o *Winllan* yn yr ystyr o goedlan yn Llanbeblig, pedair yn Llandwrog, tair yn Llanrug a Llanwnda, a dwy yn Llanfaglan. Ambell dro enwir coed arbennig: e.e. yr onnen yn Tyn-yr-onnen (Llb), Llwyn-ynn (Llf), *Cae'r onnen* (Llb, Lld); y gollen yn Collfryn a Mount-hazel (Lld), *Cae'r gollen* (Llb); yr helygen yn Caerhelygen (Llw), Dôl-helyg (Llr), *Winllan helyg* (Llb), *Cae helyg* (Llr); y fedwen yn Llwyn-bedw (Llw), Bryn-y-fedwen (Llr), *Buarth y bedw* (Llb), *Buarth y fedwen* (Llw), *Rhos bedw* (Llb), *Gallt y fedw* (Lld); y dderwen yn *Cae llwyn derw* (Llb, Lld), *Cae'r dderwen* (Llb×2, Llw×2), *Cae'r dderwen-deg* (Llw); *Cae'r dderwen gam* (Llw); *Cefn derwen* (Llr); yr ysgawen yn Rhosgawen (Llw), y griafolen yn *Buarth y griafolen* (Llr), yr



afallen yn Rhiwfallen (Lld) a *Werglodd afallen* (Llf), a'r aethnen yn *Cae'r aethnen* (Llr).

Cyfeirir at blanhigion a blodau hefyd wrth eu henwau. Ar dir gweddol sâl ceir sawl cyfeiriad at eithin: Bryn-eithin (Llb, Lld), Pen-das-eithin (Llb), Cefn-eithin (Lld), Eithin-duon (Llr), Cae-eithin (Llf); ac ymhlith y caeau: *Cae eithin* (Lld×13, Llb×8, Llwx8, Llf×7, Llr×4), *Buarth eithinog* (Llb), *Bryn eithin* (Lld×2), *Piga eithin* (Lld), *Allt eithin* (Llf, Llr). Ar dir digynnyrch sonnir hefyd am redyn: yn Rhedynog-felen (Llw), Brynrhedyn (Llw), *Cae rhedyn* (Lld×4, Llb, Llf, Llr), ac am fieri, drain ac ysgall: Dreinias (Llf), *Buarth mieri* (Llb×3, Llr), *Cae'r drain* (Llw×3, Llb×2), *Llain ddreiniog* (Llr), *Cae ysgallog* (Llb); am gelyn ac eiddew: Llwyn-celyn (Llw), Pant-celyn (Llw), Tan-y-gelynnen (Llw), Tŷ-eiddew (Llf). Llain ddigon diffaith oedd yr egal hefyd, yn llawn o chwyn a drain (Llb×5, Llwx3, Llr×4). Ond mae yma gyfeiriadau at blanhigion mwy ecsotig megis synamon: Cae-synamon (Llb), ac mae'n bosib mai rhyw fath o bupur sydd yn Llain-bupur (Llb). Yn sicr yr oedd ein hynafiaid yn ymwybodol iawn o rinweddau meddyginiaethol ambell blanhigyn a chyfeirir at rai ohonynt: garleg, a ddefnyddir wrth goginio, yn ogystal ag fel gwrth-heintiwr ac fel powltis, yn Grafog (Lld); cwmin, a ddefnyddid gynt at leddfau gwynt yn y cylla, yn *Cae cwmin* (Llb). Mae'n bosibl mai'r hyn a geir yn *Bryn bystwn* (Lld) yw cyfeiriad at blanhigyn o'r enw *llysiâu'r bystwn*, a ystyrir yn dda at wella'r bystwn, neu'r ewinor, sef chwydd poenus o gwmpas ewin. Efallai mai'r bendigeidlys, neu ddail y fendigaidd, oedd yn tyfu yn *Cae pren bendigaidd* (Llb). Credid fod gan y planhigyn hwn allu rhyfeddol i amddiffyn rhag ysbrydion dieflig, yn ogystal â bod yn feddyginiaeth at y felan a phob math o wahanol anhwylderau'r ysgyfaint, y perfedd a'r bledren.

Pe methai'r meddyginiaethau cefn gwlad gellid bob amser droi at ddŵr y ffynnon am iachâd. Yr oedd y ffynnon, wrth gwrs, yn holl bwysig ers talwm gan mai oddi yno y cyrchid y dŵr at holl ddibenion y cartref. Tystia'r llu enghreifftiau o enw *Cae'r ffynnon* i hyn (Llb×24, Llwx12, Lld×11, Llr×4, Llf×4) yn ogystal â'r holl enwau eraill gyda 'ffynnon' yn un elfen ynddynt. Ond y mae rhagor rhwng ffynnon a ffynnon. Ffynhonnau 'at iws' oedd y rhan fwyaf o'r rhain, tra bo gan rai eraill rinweddau meddyginiaethol arbennig. Honnid fod *Ffynnon Faglan* (Llf) yn gwella llygaid poenus a defaid ar y dwylo. Er na wyddom rinweddau neilltuol y ffynhonnau eraill ceir sawl un a gysylltid â sant neu unigolyn arbennig: *Ffynnon Helen* (Llb), *Ffynnon Adda* (Lld), *Ffynnon Hoedlyw* (Lld), *Ffynnon Twrog* (Lld), *Ffynnon Wnda* (Llw), *Ffynnon Beuno* (Llw), *Ffynnon Ririd* (Llr). Mae rhywfaint o hanes *Ffynnon Beuno* (Llw) wedi ei gadw, ond mae llu o enwau eraill yn yr ardal sydd yn rhoi rhyw gipolwg pryfoclyd inni o hen hanesion a aeth i ebargofiant. Sut y collwyd y gwaed yn *Dryllie gwaedlyd* a *Maes gwaed* ym mhlwyf Llandwrog? Tybed pwy oedd y wrach yn Nhyddyn-y-wrach (Llw), y lleidr yn *Llac y lleidr* (Lld) a'r dihiryn ym Mraich-y-trigwr (Lld)? Ceir atgof o hen gwerylon ac anghydfod mewn enwau megis Cae-ymryson (Llb a Llwx) a Chae-ciprys (Llw). Cofir o hyd yn lleol hanes y tair chwaer a gofféir ym Medd-Gwenan, Rhos-Maelan a Thyddyn-Elen ym mhlwyf Llandwrog, a bu rhyw chwiw ryfeddol o droi bob Elen yn Helen dan ddylanwad hanes Elen Luyddog. Fodd bynnag, gwelir hen olion hanesyddol go iawn mewn enwau megis Pant-y-clafrdy (Llb), Hengaer (Llb) a Henwalia (Llb). Bryn-beddau (Llw), Hengastell (Llw) a Cefn-hengwrt (Llw), a gwelir olion hanes diweddarach mewn enwau megis *Fortfield* (Lld), ac mae'r dystiolaeth werthfawr hon yn un o'r bendithion pennaf a geir o astudio enwau lleoedd.



Llanfelec

Aber

Llanllechid

Capel C

Beddgelert

Bethesda

Llandegai

Llanberis

Bangor

Pentir

Llanddeiniolen

Llanrug

Llanbeblig

Llanwnda

Llandwrog

Llanllyfni

Dolbenmaen

Clynnog

Llanfaglan

Llanaelhaearn

Carnguwch

Beaumaris

Llandegfan

Llanfyllen

Llanfihangel

Llangefni

Llangystion

Llangadwaladr

Llanfair-y-n-Rowyn

Ceirchion

Llanfihangel-y-n-Rowyn

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanddaron  
Faber

Llanddaron  
Faber

Llangadwaladr

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Llanfihangel  
Esgelfiog

Third Party material excluded from digitised copy.  
Please refer to original text to see this material.

## ANHEDDAU LLANBEBLIG

*‘Hyfryd iawn yw gwybod ystyron hen enwau hynod o gwmpas eich cartref. Hyfryd hefyd yw meddwl eich bod yn gwybod.’*

*Syr Ifor Williams, Enwau Lleoedd, 11*

## Llanbeblig

<i>Ecclia de Lanpoblyk</i>	1291	<i>Tax. Nich.</i>	291
<i>Limpeblic</i>	1291	<i>Tax. Nich.</i>	294
<i>chapel of St. Peplicius</i>	1332	<i>Cal. Chart. Rolls</i>	IV, 269
<i>Capella S<sup>t</sup> Peblici de Caern</i>	1347–8	<i>Rec. C.</i>	148
<i>Lambeblic</i>	[1349]	<i>Rec. C.</i>	95
<i>Lanbeblig / Lanbeblyk</i>	1352	<i>Rec. C.</i>	21, 22
<i>Llanbeblig</i>	1386	<i>Cal./Parl. R. 1385–9</i>	207
<i>ch. of St. Beblorius in Arvon</i>	1388	<i>Cal./Parl. R. 1385–9</i>	530–1
<i>Lanpoblick</i>	1394	<i>Cal. Pat. R. 1391–6</i>	413
<i>St. Beblig</i>	1504–13	<i>E.Ch.Pro.</i>	15
<i>the cross of Saint Beblig</i>	1517	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D925
<i>Llan Beblig</i>	1535	<i>Val. Ecc.</i>	IV, 421
<i>Llanpeblike</i>	1556	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	15
<i>Llanbeblig</i>	1558	<i>CCQSR</i>	188
<i>Llanbeblig</i>	1564/5	<i>Rec. C. Aug</i>	295
<i>Llanbeblig</i>	1566	<i>Cal. Pat. R. 1563–6</i>	391
<i>parish church of Saint Beblig</i>	1568	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D936
<i>Llanpeblike</i>	1572	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	21
<i>llanbeblyk</i>	1583	<i>P. yr Aur Add.</i>	724
<i>Llanbeblig</i>	1604	<i>EmThos</i>	M/34 7
<i>church of Llanpeblig</i>	1609	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D939
<i>Llanbeblig / Lone Peblike</i>	1610	<i>Speed</i>	
<i>Llanbeblig</i>	1610	<i>Saxton</i>	
<i>Llanpeblig</i>	1613	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	35
<i>Llanbeblig</i>	1618/19	<i>Ex. P. J.</i>	78
<i>Llan Peblick</i>	1629–30	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D161
<i>Llanbeblig</i>	1636–7	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 7641
<i>Llanbeblig</i>	1645	<i>Blaeu</i>	
<i>Llanbeblig</i>	1658	<i>Thorowgood</i>	27
<i>Llanbeblig</i>	1673	<i>Map Richard Blome</i>	AMW, 53
<i>Llanbeblig</i>	1677	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D946
<i>Llanbeblig</i>	1694	<i>Thorowgood</i>	6, 10
<i>Llanpeblig</i>	1695–1701	<i>Paroch.</i>	III, 51
<i>Llanpeblig</i>	1698	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D631
<i>Llanbeblig</i>	1698	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D956
<i>Llanbiblicke</i>	1716	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D979
<i>Llanbeblig</i>	1720	<i>Baron Hill</i>	3260
<i>Llanbeblig</i>	1724	<i>Henblas B.</i>	164
<i>Llanbeblig</i>	1737	<i>El. Jo.</i>	136
<i>Llanbeblig alias Llanpiblick</i>	1737–8	<i>El. Jo.</i>	137
<i>Llanbeblig</i>	1744	<i>Thorowgood</i>	44
<i>Llanbeblig</i>	1746–7	<i>Tynyngogl</i>	346
<i>Llanbeblig</i>	1752	<i>Thorowgood</i>	192
<i>Llanbeblig</i>	1769	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 8709
<i>Llanbeblig</i>	1771	<i>Tynyngogl</i>	408
<i>Llanbeblig</i>	1780	<i>P. yr Aur</i>	15805
<i>Llan Beblig</i>	1783	<i>Pennant</i>	II, 228
<i>Llanpublic</i>	1795	<i>JE/MNW</i>	
<i>Llanbeblig</i>	1798	<i>Rumsey Wms</i>	1645–6
<i>Llanpublic</i>	1809	<i>Brayley</i>	

<i>Llanbeblig</i>	1809–11	<i>Des. Caern.</i>	187
<i>Llanbeblig otherwise Llanpeplick</i>	1814	Rumsey Wms	881
<i>Llanbeblig</i>	1816–20	Dawson. Bangor	f34081. D1
<i>Llanbeblig</i>	1861	<i>HSThC</i>	37
<i>Llanbeblig</i>	1889	<i>OK</i>	142
<i>Llanbeblig</i>	1967	<i>RhELI</i>	57

### *llan, e.p. Peblig*

Mae plwyf Llanbeblig bellach yn un gweddol fychan o ran maint, ond hwn yw'r mwyaf poblog o'r plwyfi a astudir yma gan ei fod yn cynnwys tref Caernarfon<sup>1</sup>. Ar un adeg cynhwysai plwyf Llanbeblig yr ardal sydd heddiw yn ffurfio plwyf Waunfawr. Lluniwyd Rhestr Pennu'r Degwm ar gyfer plwyf Llanbeblig yn 1841, a'r adeg honno yr oedd y plwyf yn ymestyn o lannau'r Fenai yng Nghaernarfon y tu draw i Waunfawr hyd at gyrion pentref Betws Garmon. Pan ffurfiwyd plwyf sifil newydd Waunfawr cymerwyd darnau o blwyfi Llanbeblig a Betws Garmon ac o drefi degwm Castellmai, Rhuddallt a Threflan. (*ETG*, 123, 135). Y mae plwyf Llanbeblig yn dal i rannu ffin â phlwyfi Llanwnda, Llanfaglan, Llanfair-is-gaer a Llanrug

Saif eglwys blwyf Llanbeblig ar gyrion tref Caernarfon, ychydig yn is na chaer Rufeinig Segontium wrth fynd ar yr A4085 tuag at Gaeathro a Waunfawr<sup>2</sup>. Ei nawdd sant yw Peblig. Yn draddodiadol ystyrid mai 3 Gorffennaf yw gŵyl mabsant y plwyf (*LBS*, 86–7). Oherwydd agosrwydd yr olion Rhufeinig tyfodd traddodiad mai Rhufeiniwr, a mab i Facsen Wledig ac Elen Luyddog oedd Peblig ac mai enw Lladin oedd ganddo, sef Publicius. Anghytuna MR yn llwyr â hyn, gan honni: "Enw Cymraeg pur yw *Peblig* wedi ei adeiladu ar yr ansoddair *pabl* 'bywiog, nwyfus'." (*ETG*, 136). Nid yw *GPC* yn cofnodi unrhyw ddefnydd o *pabl* cyn y 14g., ond ni fyddai Publicius ychwaith wedi rhoi'r ffurf Peblig yn Gymraeg. (*El.Ladin*, 5–6).

<b>Ala-bowl</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Yellow bowl</i>	1831	Bangor 8554
<i>Alabowl</i>	1841	RhPDegwm
<i>Ala Bowl</i>	1847	Bangor 3906
<i>Ala Bowl</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Ala bowl</i>	1853	Bangor 8555
<i>Alabowl</i>	1855	Bangor 3932
<i>Ala Bowl</i>	1874	Worrall 212
<i>Alabowl</i>	1878	Bangor 8555
<i>Ala Bowl</i>	1886	Postal Dir. 140
<i>Ala Bowl</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Ala-bow</i>	1891	Map OS XVI S.W.
<i>Ala-bowl</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Ala bow</i>	1930–1	Bangor 8592
<i>'Rala</i>	1960	<i>LW</i> 126
<i>Rala</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

### *ala, e. Saes. bowl*

Ar gyrion gogledd-orllewinol pentref Waunfawr. Mae'r elfen gyntaf *ala* yn dynodi llwybr cul, fel ag a geir yn *Ala-las* (Caernarfon) q.v. Cf. *Alafynydd* (Llanfair-yng-Nghornwy) (*AMR*); *Lôn-yr-ala* (Pwllheli) a *Phenyrala* (Tre-garth) (*GPC*). Fodd bynnag, o gyfuno *ala* â'r elfen *bowl* mae i'r enw cyfan ystyr arbenigol ac anarferol, sef llain o dir ar gyfer chwarae bowliau. Rhydd *GPC* y ffurf *bowl alai* yn ogystal. Ceir y ffurf *Alafowlia* yn Ninbych, tra

<sup>1</sup> Nid yw'n fwriad trafod enwau o fewn yr hen dref ei hun yn yr astudiaeth hon gan fod Caernarfon yn haeddu astudiaeth annibynnol drylwyr.

<sup>2</sup> Am ddisgrifiad o'r eglwys gweler *LAMC*, 119–22; lluniau ar blatiau 9, 17–19, 21, 32–3.

datblygodd yr un enw i fod yn *Ael-y-bowl* ar annedd yn Llanfair Pwllgwyngyll<sup>1</sup>. Dengys ffurf Saesneg 1831 ymgais ddoniol i ddechongli enw Cymraeg pur ddieithr. Erbyn heddiw collwyd yr ail elfen ac ymgorfforwyd y fannod fel rhan o'r elfen gyntaf.

<b>Ala-las<sup>2</sup></b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4863</b>
<i>Alla las</i>	1841	Cyfrifiad
<i>Alalas</i>	1847	Bangor
<i>Ala Las</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Alalas</i>	1855	Bangor
<i>Ala Las</i>	1950	AAG
<i>Ala Las</i>	2000	CCPost

### **ala, glas**

Mae hwn bellach yn enw ar glwstwr bychan o dai modern ar y chwith i'r A487 wrth fynd allan o Gaernarfon tuag at y Felinheli. Cyn adeiladu'r tai hyn cyfeiriai'r enw at y llwybr cul sydd yn dal i fynd o'r ffordd fawr dros bont yr hen reilffordd i lawr at lan y môr ac at y rhimyn o draeth sydd yn mynd tuag at Waterloo Port (atgof personol). Mae'n amlwg o gofnodion y Cyfrifiad fod *Ala-las* yn enw ar annedd hefyd ar un adeg. Am ymdriniaeth o *ala* gweler *Ala-bowl* uchod.

<b>Bontnewydd</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4859</b>
<i>Bontnewith</i>	1536–7	Leland
<i>'the new brige'</i>	1582	CCQSR
<i>Y Bont Newydd</i>	1582	P. yr Aur Add.
<i>Pont newydd</i>	1644	Baron Hill
<i>Tythyn y Bont Newydd</i>	1646/7	Baron Hill
<i>Pontnewydd</i>	1655	Baron Hill
<i>Pont Newydd</i>	1667/8	Ll&Brynodol
<i>Pont Newydd</i>	1667/8	Dolfrïog
<i>pontnywh</i>	1671/2	Ll&Brynodol
<i>Tythyn y bont Newydd</i>	1677	NewGlynllifon
<i>Tythyn y bont newydd</i>	1680/1	NewGlynllifon
<i>Tythyn Roger or Tythyn pont newydd</i>	1685	NewGlynllifon
<i>Tythyn Roger alias Tythyn y pont newydd</i>	1685–6	NewGlynllifon
<i>Pont-newydd</i>	1695	P. yr Aur Add.
<i>Bontnewydd</i>	18g	Ll&Brynodol
<i>Pontnewydd</i>	18g	Ll&Brynodol
<i>Pont Newydd</i>	1701	Ll&Brynodol
<i>Pontnewydd</i>	1704	P. yr Aur
<i>Pant Newydd</i>	1712	EwBangor
<i>Pontnewidd</i>	1716	Henblas B
<i>Pontnewidd</i>	1716	Thorowgood
<i>Pontnewydd</i>	1721	EwBangor
<i>Pont Newydd</i>	1724–5	Ll&Brynodol
<i>Pont newydd</i>	1732	EwBangor
<i>Pont Newydd</i>	1734	Constable Ellis
<i>Pontnewydd /Pontnewydd Bridge</i>	1735	Henblas B
<i>Pontnewydd</i>	1736	Henblas B

<sup>1</sup>Gwybodaeth bersonol. Ceir yr un ystyr yn *Chwt Powlio* ym Mhenrhyndeudraeth (Colofn Farwolaethau y *Daily Post*, 12 Ionawr, 2006).

<sup>2</sup>'Lalalas' oedd ynganiad plant Caernarfon o'r enw hwn.

<i>Pontnewydd</i>	1744	EwBangor	B1744/66 100629
<i>Pontnewydd</i>	1748	Ll&Brynodol	D402-3
<i>Pontnewydd /Pontnewydd Bridge</i>	1749/50	Henblas B	168
<i>Pontnewydd</i>	1765	Ll&Brynodol	D435
<i>Bontnewydd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont Newydd</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Pond newydd</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>bond newydd</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/5
<i>Pont-newydd</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84(60)
<i>Bontnewydd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Bontnewydd</i>	1783	NewGlynllifon	XD2 / 7847
<i>Pont Newydd</i>	1783	Pennant	II, 223
<i>Bontnewydd</i>	1788	OK	176
<i>Pont Newydd</i>	1793-5	Gwyneddon	12 (105)
<i>Pontnewydd Bridge</i>	1798	P. yr Aur	3607
<i>Bont / Bontnewydd</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Pontnewydd / Pont newydd</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Bont Newydd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>y Bontnewydd (pentref)</i>	1861	HSThC	81
<i>Bontnewydd (pentref)</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Bont-newydd (pentref)</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bontnewydd (pentref)</i>	2000	CCPost	

**(y), pont, newydd**

Enw ar bentref rhwng Caernarfon a Llanwnda yw *Bontnewydd* bellach, ond mae'n tarddu o enw'r bont sydd yn croesi afon Gwyrfaï yn y fan hon. Ceir cofnod o'r bont newydd ei hun yn 1536-9, pan gyfeiriodd Leland ati fel hyn: 'There cummith a water caullid Avon Guiruy thorough a bridg caullid Bontnewith ...' Erbyn 1646/7 rhoesai ei henw i anedd, *Tythyn y Bont Newydd*. Mae'r ans. *newydd* yn awgrymu bod hen bont wedi bodoli cynt, ond ni welwyd cofnod ohoni hyd yma. Honna William Hopley mai yn nechrau'r 18g yr adeiladwyd y bont sylweddol gyntaf ac mai troed-bont oedd yno cyn hynny ar ffurf cerrig hirion wedi eu doddi ar ben cerrig a osodwyd yn yr afon<sup>1</sup>. Yn raddol daeth enw'r bont yn enw ar y pentref a dyfodd o amgylch y safle. Datblygiad gweddol ddiweddar yw treiglo'r gytsain ddechreuol yn gyson, er y ceir ambell enghraifft gynharach, gan ddeall yr enw llawn fel *Y Bontnewydd* a'r fannod wedi ei gollwng yn amlach na pheidio.

<b>Bryneithin</b>		<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Brynn Eithin</i>	1783	EwBangor	B1783/92 5938
<i>Bryneithin</i>	1799	Rumsey Wms	761
<i>Bryn Eithyn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Bryneithin</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Bryn-eithyn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Bryneithin</i>	1853-9	C.Vincent	2219
<i>Bryneithin at Waunfawr</i>	1859	C.Vincent	2223
<i>Pentre-bryn-yr-eithin</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Bryneithin</i>	1930/1	Bangor	8592
<i>Bryn Eithin</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Pentre Bryn yr Eithen</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

**bryn, eithin**

Yn Waunfawr, yn yr ardal a enwyd ar ei ôl, sef *Pentre-bryn-yr-eithin*.

<sup>1</sup> *HMethA: Dos Cfon. Ardal Cfon* (1915), 126



<b>Bryn-glas</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 5063</b>
<i>Bryn Glas</i>	1831	P. yr Aur	21465
<i>Bryn-glâs</i>	1838	Map OS	78
<i>Brynglas</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Bryn-glas</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Brynglas</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

***bryn, glas***

Ar y lôn sydd yn troi oddi ar yr A4086 ac yn rhedeg yn gyfochrog â hi yn Rhosbodruall ar gyrion Caernarfon. Yr ans. *glas* yn yr ystyr o liw gwyrdd gwellt a dail ir sydd yn yr ail elfen.

<b>Bryngolau</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5259</b>
<i>Bryngoleu</i>	1829	EwBangor	B1829/94 13410
<i>Bryngola</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Bryngoleu</i>	1867	C.Vincent	2224
<i>Bryn Golau</i>	1889	Myn. Moriah	29
<i>Bryn-goleu</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Bryn Golau</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***bryn, golau***

Ar y ffordd sydd yn troi i'r chwith oddi ar yr A4085 yng nghanol pentref Waunfawr i gyfeiriad Groeslon (Waunfawr). Sillefir yr ail elfen yn ôl ei hynganiad lleol yng nghofnod 1841; yn 1829, 1851, 1867 a 1919 ceir y ffurf ffug-hynafol *goleu*, ac erbyn 2000 dilynir yr orgraff safonol.

<b>Bryngwylan</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5259</b>
<i>Bryn Cwylan</i>	1841	Cyfrifiad	
<i>Brynygwylan</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Bryngwylan</i>	1855	Bangor	3932
<i>Bryn Gwylan</i>	1977	Myn. Cae.	G159
<i>Bryn Gwylan</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***bryn, gwylan***

Yng nghanol pentref Waunfawr.

<b>Brynhyfryd</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 5160 (W) / SH 4960 (C)</b>
<i>Brynhypyd</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Brynhyfryd</i>	1857	EwBangor	B1857/99 19445
<i>Brynhyfryd</i>	1859	Bangor	4081
<i>Bryn-hyfryd (W)</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Bryn-hyfryd (C)</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Bryn Hyfryd (W)</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Bryn Hyfryd (C)</i>	2000	CCPost	(Caethro)

***bryn, hyfryd***

Ceir un annedd (W) o'r enw hwn ar y dde oddi ar yr A4085 wrth ddynesu at Groesywaun o gyfeiriad Caernarfon, ac un arall (C) yng nghyffiniau Castellmai ger pentref Caethro. Mae'n amlwg mai camgopio a geir yn yr ail elfen yng nghofnod 1841.

<b>Bryn Seiont</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>Bryn Saint</i>	1819	Rumsey Wms 592
<i>Bryn Seiont</i>	1819	Rumsey Wms 919
<i>Bryn Seiont</i>	1838	Map OS 78
<i>Brynsciont</i>	1841	RhPDegwm
<i>Brynseiont</i>	1847	Bangor 3906
<i>Bryn Seiont</i>	1850	Slater 19
<i>Bryn Seiont</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Bryn Seiont</i>	1861	<i>HSThC</i> 81
<i>Bryn Seiont</i>	1861	Myn. Llb. G031
<i>Bryn Seiont</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Bryn Seiont</i>	1990	<i>CBLleu</i> 27
<i>Ysbyty Bryn Seiont</i>	2004	Map PSA

### ***bryn*, e.p. *Seiont***

Ar Lôn Pant wedi troi i'r dde oddi ar yr A487 wrth ochr Pont Saint ar gyrion deheuol tref Caernarfon. Trowyd y tŷ yn ysbyty yn 1916 ac ymgeleddwyd milwyr y Rhyfel Mawr yno (*Eryri*, 66). Cadwyd yr enw *Bryn Seiont* ar yr ysbyty. Ffurf ffug-hynafol yw'r ail elfen ar enw'r afon sydd yn llifo islaw y bryn lle saif y tŷ, sef *Saint. Caer Saint* oedd yr hen enw ar dref Caernarfon: yng 'Kaer Seint yn Arvon' yr oedd Bendigeidfran pan ddaeth drudwy Branwen â'i neges hi iddo (*PKM*, 38)<sup>1</sup>. *Segontium* oedd yr enw a roes y Rhufeiniaid ar eu caer hwy uwchlaw'r dref bresennol, ond benthycar enw oddi ar y brodorion lleol a wnaethant, oddi ar enw gwreiddiol yr afon, sef *Segonti*. Gwraidd Celteg yr enw hwn oedd *seg-*, a roes *hy* yn Gymraeg, gan gyfeirio, o bosib, at lif ffyrnig yr afon (*TCHSG*, 52–3, (1991–2). 18: *ELISG*, 100–1; *Enwau*, 22–3).

*Saint* yw enw'r afon yn y cofnodion cynnar, a *Saint* a geir hyd heddiw ar lafar yn lleol yn enw *Pont Saint* (q.v.) Mae'n anodd dweud ymhle mae tarddiad yr afon: *Rhythallt* yw enw'r afon sydd yn llifo o Lyn Padarn yn Llanberis, ond o Bont Rhythallt ymlaen fe'i nodir fel *Saint*, neu *Seiont* fel rheol, ar y mapiau. Wedyn mae'n mynd drwy Bont-rug a chyrrion Caethro i Gaernarfon ac allan i afon Menai dan Bont yr Aber ger y castell.

Mae'n amlwg mai camgopïo a geir yn yr ail elfen yng nghofnod 1841.

<b>Bryn-y-pistyll</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5359</b>
<i>Bryn pistill otherwise Rhwng y ddwryd farm</i>	1827	Rumsey Wms 981
<i>Bryn y Pustill</i>	1831	Bangor 8554
<i>Bryn pistill</i>	1841	RhPDegwm
<i>Bryn y Pistill</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Bryn y pistyll</i>	1857	EwBangor B1857/93 19439
<i>Bryn-y-pistyll</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Brynpistyll</i>	1930–1	Bangor 8592
<i>Bryn y Pistyll</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

### ***bryn*, y, *pistyll***

Ar adeg llunio RhPDegwm mae'n amlwg fod annedd o'r enw hwn yn bodoli. Yn ddiweddarach rhoes ei enw i ardal ar gyrion dwyreinol pentref Waunfawr ac mae'n debyg mai yno oedd yr annedd gwreiddiol. Fodd bynnag, mae cyd-destun cofnod 1827 yn awgrymu fod annedd arall o'r un enw, ac mai *Bryn-pistyll* oedd enw gwreiddiol *Rhwngyddwryd* sydd yn bodoli hyd heddiw ar ochr arall y pentref i gyfeiriad Ceunant. Yr ail elfen yw *pistyll*, a all fod yn ddisgyniad o ddŵr mor fawr â rhaeadr neu mor fychan fel y gellid dal llestr dano.

<sup>1</sup> Cedwir yr enw *Caer Saint* ar lôn yn stad dai Ysgubor-goch yng Nghaernarfon.

<b>Cae-Adda-goch</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5359</b>
<i>kay atha goz</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>Gadda gôch</i>	1781	P. yr Aur 4058
<i>Cae adda Goch</i>	1791	EwBangor B1791/50 7049
<i>Cae Ardde goch otherwise Ty yn y</i>	1805	Rumsey Wms 391
<i>Cae newydd</i>		
<i>Tu adda goch otherwise Cae adda goch</i>	1822	Rumsey Wms 394
<i>Gadda goch</i>	1824	P. yr Aur 4100
<i>Ty adda Goch otherwise Cae adda Goch</i>	1827	Rumsey Wms 396
<i>Gadda Goch</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae adda goch</i>	1841	RhPDegwm
<i>Cae Adda Goch</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae adda goch</i>	1859	Bangor 4081
<i>Car-addagoch / Gadda coch</i>	1886	Postal Dir. 140, 191
<i>Cae adda goch</i>	1890/1	Bangor 8560
<i>Cae-Adda-gôch</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Cae Adda Goch</i>	1930/1	Bangor 8592
<i>Cae Adda Goch</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

#### **cae, e.p. Adda, coch**

Ar gyrion dwyreiniol pentref Waunfawr. Yn y ffurf *gadda* (1781, 1824, 1831) llynewyd yr elfen *cae* gan adael meddaliad o'r *c-* gychwynnol yn unig ar ôl. Ni wyddys pwy oedd *Adda Goch*. Ceir cyfeiriad at *Hywel ab Adda Goch* yng Nghaernarfon yn 1362 (CCR, 17), at *Tang' ferch Adda Goch* yno yn 1378 (ibid., 108), ac at *Gr'ff' ap Hywel ab Adda Goch* yno yn 1396 (ibid., 139). Gwyddys hefyd fod *Eign' ap Ieuan ap Ath' Goch* yn byw yn nhrefgordd Rhuddallt yn 1443 (P.S. Peniarth, DC7), ond gan ei fod yn enw gweddol gyffredin ni ellir profi mai'r un *Adda Goch* oedd cyndad y bobl hyn. Mae cofnod 1805 yn cyfeirio at 'a lane called *Lon Ardda goch*'. Symudwyd beudy *Cae-Adda-goch* i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan a'i ailagor yno yn 2004.

<b>Cae-bach</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260 (W)</b>
<i>Cae bach (C)</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Caebâch</i>	1788	OK 171,174
<i>Caebach (C)</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Cae bach (C)</i>	1827	Bangor 8554
<i>Caebach nr Llanbeblig (C)</i>	1836	Bangor 5302
<i>Cae bach</i>	1841	RhPDegwm
<i>Cae-bâch (W)</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Cae Bach (W)</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

#### **cae, bach**

Ceir annedd o'r enw hwn ar gyrion pentref Waunfawr (W) rhwng Croesywaun a Groeslon. Waunfawr, ond mae cofnod 1836 yn cyfeirio at 'Caebach near Llanbeblig' (C). Tybed ai'r un lle oedd y *Cae-bach* ger Llanbeblig â'r *Little Hey* y cofnodwyd ei fod yng nghyffiniau Maes-y-barcer a Choedmarian yn 1569 (PSPeniarth DC25).

<b>Cae-Bold</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4963</b>
<i>Kay Bould</i>	1613	Ll&Brynodol D154
<i>Cae Bold Uchaph / C[ ]e Bold Isaph</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Cae Bold</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Cae Bold</i>	1734-5	Ll&Brynodol D980
<i>Cae Bold otherwise Caya Bold</i>	1762	P. yr Aur Fur. Add. 2143

<i>Cae'r Bold</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Bwld</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r bwld</i>	1788	OK	176
<i>Caer bwld or Cae bold</i>	1793	NewGlynllifon	XD2 / 6612
<i>Cae'r Bwl</i>	1799	Cynhaiarn	B111
<i>Cae Bold</i>	1800	Poole	4135
<i>Cae Bold</i>	1801	AlPryce	769
<i>Cae Bold</i>	1801	C. in W. R.	B/DL/989
<i>Caybwld</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae bwld</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D1
<i>Cae'r-bwlt</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae y Bwlt</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Cae y Bwlt</i>	1853	Kinmel	S1755
<i>Cae y bwlt</i>	1859	Bangor	4081
<i>Cae Bold</i>	1863–4	Kinmel	S1761
<i>Cae-Bull</i>	1884–5	<i>Bye-gones</i>	1884–5, 19
<i>Cae Bwl</i>	20g	Atgof personol <sup>1</sup>	
<i>Cae Bold</i>	2000	CCPost	

#### *cae*, e.p. **Bould / Bold**

Anedd gynt, ond stad o dai o'r un enw bellach, ar gyrion tref Caernarfon ar ochr dde'r ffordd B4366 wrth fynd tuag at Bethel. Cyfenw yw'r *Bold* yn yr ail elfen. Yr oedd y teulu Bold yn flaenllaw yng Nghaernarfon, Biwmares a Chonwy yn yr oesoedd canol. Ceir *Cae Mr Bold* ym mhlwyf Pentraeth (AMR), a thafarn y *Bold Arms* ym Miwmares. Yr oedd *John Bolde* yn gwnstabl castell Caernarfon adeg ymosodiad Glyndŵr yn 1403 (OK, 36), a *Syr Henry Bolde* yn Siryf Caernarfon o 1461–73 (KG,50). Cofnodir enw *William Bolde* yng Nghaernarfon yn 1474/5 (LI&Brynodol, D918) a *Grace Boold* yn 1583 (LI&Brynodol B5). Ceir *William Bolde* arall yn y dref yn 1542 (Sotheby, 152), a chofnodir un arall eto fel *William Bowld* yn 1585/6 (Baron Hill 3180). Cyfeirir yn 1613 at *Thomas Bould* a'i fam *Ales Bould* (LI&Brynodol D154), ac at dir *John Bould* yno yn 1639 (New.Glynllifon 6466). Claddwyd Ales neu Alice ym 1646 a Thomas ym 1657 (JGPed. 159: mae ach y teulu Bold yma)<sup>2</sup>. Mae'n eithaf cyffredin cael y fannod o flaen e.p. i ddangos meddiant, fel ag a geir uchod yn y ffurfiau *Cae'r Bold / Cae'r bwld*: cf. *Tyddyn y Bisley* ym mhlwyf Llanrug, a *Cae'r Llowarch* yn Llandwrog (ADG2, 25).

<b>Cae-caled</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Kae Kaled</i>	1579	Wynnstay 67/173
<i>Kae Kaled</i>	1604	Wynnstay 67/190
<i>Cae Caled</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae-caled</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Cae Caled</i>	1930–1	Bangor 8592
<i>Cae Caled</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

#### *cae*, **caled**

Ar gyrion gogleddol pentref Waunfawr. Mae'n debyg fod yr ans. *caled* yn cyfeirio at ansawdd anhydryn y tir.

<sup>1</sup> Hon oedd y ffurf a ddefnyddiai tad awdur yr astudiaeth hon bob amser. Mae'n debyg ei bod yn ffurf a arferid yn gyffredin gan frodorion Caernarfon ar un adeg, ond cyfrannodd at gymylu gwir ystyr yr enw. Cyfeiria W.J.Gruffydd at 'hen frawd a fu'n byw ei oes o fewn tafliad carreg i'r tŷ hwn' a fynnai fod yno dafarn ers talwm o'r enw 'The Bull'! (WJG, 42, Rhan 4, 1)

<sup>2</sup> Yn ôl DS mae *Bould* a *Bolt* yn amrywiadau cydnabyddedig ar yr e.p. *Bold*. Mae'r CCQSR am 1541–8 y cofnodi'r enw yn y ffurfiau *Bolde*, *Bolld*, *Boold*, *Bould* a *Boweld*. Byddai'r ffurfiau *Boold* 1583 a *Bould* 1613 yn esgor ar y ffurfiau *Bwld*, *Bwlt* a *Bwl* yn Gym.

**Cae-cerrig****Llanbeblig**

<i>Cae Cerrig</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caer Cerrig</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae Cerig</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae Cerrig</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caecerrig</i>	1788	OK	176
<i>Cae cerrig</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae Gerig</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae geric</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae Cerrig</i>	1824	P. yr Aur	4098

**cae, carreg, llu. cerrig**

Ni lwyddwyd i'w leoli, ac eithrio fod yr ATT yn nodi ei fod yn nhrefgordd Trellan. Mae cofnod yn Bangor f33976 (1904) yn dweud ei fod yn rhan o 'Caerberllan', ond hyd yn hyn ni lwyddwyd i leoli hwnnw'n bendant ychwaith.

**Cae-Cristo****Llanbeblig****SH 4863**

<i>Cae r Cristol</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cristol</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cristol</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caecristol</i>	1788	OK	169
<i>Caycristor</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caycristar</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Crestu</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae cristal</i>	1820	TCHSG	32. (1971). 65
<i>Caeristor</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caerister</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cristor</i>	1827	Bangor	8554
<i>Cae-Cristo</i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Cae-Cristo</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Cae Cristo</i>	1926	Myn. Llb.	M128
<i>Caecristo</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Cae Cristo</i>	2006	gwybodaeth bersonol	

**cae, e.p. Cristo(l)**

Ar y chwith i'r ffordd B4366 ar gyrion tref Caernarfon wrth fynd i gyfeiriad Bethel. Mae'r ail elfen yn ddiddorol. Ceir y ffurf *crystal* yng nghofnod 1820, ac mae'r eg. *crystal* yn digwydd yn Gym. gyda'r ystyr 'grisial', sef benth. o'r Saes. *crystal*. Fodd bynnag, ceir mwy o enghreifftiau o -o- yn ail sillaf yr elfen hon: *Cristol*, *Cristor*, *Cristo*, sydd yn awgrymu nad *crystal* sydd yma. Tybed nad enw personol sydd yma: ceir y ffurfiau *Cristol* a *Cristo* yn Sbaen a'r Eidal fel ffurfiau bachigol ar yr enw yn ei ffurfiau *Cristóbal* a *Cristoforo* (DFN. 63; DS. 110), ac ymddengys fod *Cristo* a *Cristor* yn ffurfiau bachigol yng Nghymru hefyd ar un adeg<sup>1</sup>. Rhestrir annedd o'r enw 'Mur Crysdo' yng Nghaernarfon yng Nghyfrifiad 1841, ond ni lwyddwyd i'w leoli: mae'n bosib mai camgymeriad am *Gae-Cristo* sydd yma. Ceir tyddyn o'r enw *Mur Cristo* yn ardal Llangybi<sup>2</sup> a *Cristo* yn Llwythgoed, Sir Ddinbych (AMR).

Efallai ei fod yn enw anwes ar rywun o'r enw Christopher a oedd yn gysylltiedig â'r llecyn hwn, ond ni lwyddwyd i'w olrhain hyd yn hyn. Fodd bynnag, ceir sawl cyfeiriad at *Gae*

<sup>1</sup> Ceir cofnod o ŵr o'r enw Nycholas ap Christo ap John yn ardal Y Rhyl yn 1550 (AMR yn PCB: Mostyn B 2639), ac o ddau ŵr, Oweyn ap Thomas ap Cristor a William ap Ieuan ap Cristor yn Llanellian, Môn, yn 1532 (Sotheby, 124).

<sup>2</sup> Thomas Prys Jones, 'Diogelu Enwau Caeau', *LlafarGwlad*, 10, Gaeaf 1985-6, 18.

*Boulton* yn nhref Caernarfon, ac yn 1653/4 ceir cyfeiriad at *Kae Crystopher Boulton* (Ll&Brynodol, B17). Efallai mai hwn yw'r Christopher y cyfeirir ato yma. Gallai'r fannod a welir yng nghofnod 1770 yn hawdd ddigwydd o flaen e.p., cf. *Cae'r Bold*, *Cae'r Llowarch*.

<b>Cae-Darby</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4962</b>
<i>Kae Derby</i>	1607	Penrhyn 302
<i>Kay Darby</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Cae Derby</i>	1718	Coed Helen 3
<i>Cae Derby</i>	1770	Coed Helen 35-6
<i>Cae Darby</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Cae Darby</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Cae Darby</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cay Darby</i>	1786	Plas Newydd IX, 5942
<i>Cae Darby</i>	1788	OK 169
<i>Cae Derby</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Cae darby</i>	1812	Rumsey Wms 292
<i>Cae Darby</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Ceaderby</i>	1827	Bangor 8554
<i>Cae Darby</i>	1838	Map OS 78
<i>Cae Darby</i>	1839	Myn. Llb. F070
<i>Cae derby</i>	1841	Cyfrifiad
<i>Cae Darby</i>	1841	RhPDegwm
<i>Caederby</i>	1883	Myn. Llb. G378
<i>Cae Darby</i>	1890/1	Bangor 8560
<i>Cae-Darby</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Caedarbi</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Lon Cae Darbi</i>	2004	Map PSA

**cae, e.p. *Darby/Derby***

Oddi ar ffordd yr A4086 ar gyrion tref Caernarfon wrth fynd tuag at Bont-rug yn yr ardal lle saif stad ddiwydiannol Cibyn heddiw. Enw priod yn ddiau sydd yn yr ail elfen, ond mae'n anodd penderfynu ai cyfenw ynteu enw lle sydd yma. Sillefir y cyfenw fel rheol yn *Darby* (*DS*, 139) tra mai *Derby* a geir yn enw'r dref a'r sir yn Lloegr. Mae'r ffurf *Darby* yn digwydd ddwywaith gymaint â *Derby* yn yr enw uchod, ond mae'n anodd dweud a oes arwyddocâd i hynny. Nid oes modd ychwaith gysylltu'r lle â ieirll Derby: Ardalydd Môn oedd perchennog y tir yn 1841 (RhPDegwm).

<b>Cae-Francis</b>	<b>Llanbeblig</b>	
<i>Caeffrancos</i>	1788	OK 175
<i>Cae Francis</i>	1841	RhPDegwm
<i>Cae Francis</i>	1847	Bangor 3906
<i>Cae Francis</i>	1855	Bangor 3932
<i>Crug pt of Cae Francis</i>	1867/8	Bangor 8555
<i>Cae Francis</i>	1890/1	Bangor 8560

**cae, e.p. *Francis***

Ni lwyddwyd i'w leoli'n bendant, ond mae nodyn 1867/8 yn ddiddorol. Byddai'n haws credu fod *Cae-Francis* yn rhan o *Crug* gan fod hwnnw'n safle hen iawn. Mae'n bosib mai 'Crug + rhan o Gae Francis' yw'r ystyr yma. Os gellir dibynnu ar y cofnod hwn, yr oedd *Cae-Francis* bron iawn ym mhlwyf Llanfair-is-gaer. Ni wyddys pwy oedd *Francis*, ond yr oedd yn gyfenw eithaf cyffredin yng nghyffiniau Caernarfon ar un adeg.

<b>Cae-garw</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4963</b>
<i>Kay garrw</i>	1659	Coleman D.D. 1033
<i>Cay garrou</i>	1698	Coleman D.D. 1034
<i>Cae Garw</i>	1801	Poole 4211
<i>Caegarw</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Cae-garw</i>	1838	Map OS 78
<i>Cae Garw</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae Garw</i>	1903	Myn. Llb. J041
<i>Cae-garw</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Cae-garw</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Cae Garw</i>	2000	CCPost

#### **cae, garw**

Mae annedd o'r enw hwn heddiw ar lôn fechan sydd yn troi i'r chwith oddi ar yr A4086 yn Rhosbodruall ar gyrion tref Caernarfon. Ni ellir profi mai'r un lle sydd yn y ddau gyfeiriad cynharaf gan ei fod yn enw eithaf cyffredin ar annedd a chae. Defnyddir yr ans. *garw* i ddynodi tir anwastad neu dir heb ei drin.

<b>Cae-glas</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Cae glâs</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae glas</i>	1793	EwBangor B1793/108 7381
<i>Cae glas</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1
<i>Caeglas</i>	1824	P. yr Aur 4100
<i>Cae Glas</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae glas</i>	1841	RhPDegwm
<i>Caeglas</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Cae Glas</i>	1930–1	Bangor 8592

#### **cae, glas**

Mae map Robert Dawson (1816–20) yn nodi un annedd o'r enw hwn ar gyrion Waunfawr yng nghyffiniau Pont Cynant, ond mae'n amlwg fod mwy nag un annedd ag enw mor gyffredin â hwn. Mae map y Degwm yn nodi annedd o'r un enw fwy yng nghanol y pentref, i'r gorllewin o Gefn-y-waun.

<b>Cae-glyn / Tyn-y-glyn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4863</b>
<i>Caer Glynn</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>Caer Glynn</i>	1779	NewGlynllifon XD2 / 8220
<i>Caeglynne</i>	1836	NewGlynllifon XD2 / 6449
<i>Cau glyn</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyddynyglyn</i>	1847	Bangor 3906
<i>Tyn y Glyn</i>	1853	Myn. Llb. B541
<i>Tyddynyglyn</i>	1855	Bangor 3932
<i>Cae Glyn</i>	1859	Bangor 4081
<i>Tyr Glyn</i>	1872	NewGlynllifon XD2 / 6454
<i>Caean post or Tyr Glyn</i>	1878	NewGlynllifon XD2 / 8544
<i>Ty'n-y-glyn</i>	1891	Map OS XV N.E.
<i>Tyn y Glyn</i>	1900	Myn. Llb. J235
<i>Ty'n-y-glyn</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Y Glyn</i>	2004	Map PSA

#### **cae, glyn**

Mae cae o'r enw hwn yn bodoli hyd heddiw ar y dde i'r B4366 ar gyrion Caernarfon wrth fynd tuag at Bethel, gyda stad dai *Y Glyn* yn gyfochrog ag ef (gwybodaeth bersonol). Nid oes annedd o'r enw hwn bellach, ond mae map y Degwm yn nodi annedd *Cau glyn* yn agos iawn at *Lodging Hall* q.v. Ambell dro cyfeirir at annedd o'r enw *Tyn-y-glyn* yn yr un ardal, ac mae'n anodd dweud ai'r un lle yw hwn ynteu annedd gwahanol cyfagos.

Ystyr *glyn* yw pantle hir a chul, er nad yw hwn yn ddisgrifiad addas o'r safle gan ei fod ar dir gweddol wastad gyda gogwydd am i lawr at ddyffryn Afon Cadnant i'r de a'r dwyrain<sup>1</sup>. Fodd bynnag, gan fod y cofnodion cynharaf a dau gofnod diweddarach o'r lle hwn yn dod o gasgliad Newborough (Glynllifon), mae'n bosib nad nodwedd ddaearyddol sydd yma o gwbl ond cyfeiriad at deulu Glynne Glynllifon, ac mai 'cae teulu Glynne' neu 'dyddyn Y Glyn' (sef yr enw lleol am Lynllifon) yw'r ystyr. Yn sicr, Arglwydd Newborough, Glynllifon, oedd y perchennog yn 1841 (RhDegwm).

<b>Cae-gwyn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4963</b>
<i>Cae-Gwyn</i>	1733	EwBangor B1733/93 98818
<i>Cae Gwyn</i>	1736	EwBangor B1736/76 99395
<i>Caugwin</i>	1752	EwBangor B1752/99 369
<i>Caegwin</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Cae Gwyn</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Caegwyn</i>	1788	OK 168
<i>Cae Gwyn</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Cae Gwyn</i>	1805	Roger Lloyd II 189-90
<i>Cae Gwyn</i>	1814	Baron Hill 4619
<i>Caegwynissa / Caegwynucha</i>	1816	Roger Lloyd II 213
<i>Cae Gwyn</i>	1816	Vaynol 121
<i>Caegwynucha</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Caegwyn</i>	1835	Pigot 690
<i>Cae gwyn</i>	1838	Rumsey Wms 690
<i>Cae gwyn</i>	1838	Map OS 78
<i>Cae gwyn</i>	1841	RhPDegwm
<i>Calgwyn</i>	1841	Robson 9
<i>Cae Gwyn</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae Gwyn</i>	1869	Tregaian 62
<i>Cae Gwyn</i>	1869	Bangor f33975
<i>Caegwyn</i>	1869	Vaynol 969
<i>Caegwyn</i>	1874	Worrall 209
<i>Cae Gwyn</i>	1904	Bangor f33976
<i>Cae-gwyn</i>	1920	Map OS XI S.W.
<i>Cae-gwyn</i> (fferm)	1960	Map OS SH 46
<i>Cae Gwyn</i> (fferm)	2000	CCPost
<i>Cae Gwyn</i> (stad dai)	2000	CCPost
<i>Cae-gwyn</i> (fferm)	2004	Map PSA
<i>Cae Gwyn</i> (stad dai)	2004	Map PSA

#### **cae, gwyn**

Mae'r fynedfa i fferm *Cae-gwyn* ar y chwith ar y B4366 ar gyrion Caernarfon wrth fynd tuag at Bethel, a'r tŷ ei hun yn y caeau hanner ffordd rhwng y lôn hon a'r A487. Mae stad dai *Cae Gwyn* ar y dde oddi ar yr A487 ar gyrion y dref wrth fynd tuag at Felinheli. Adeiladwyd y stad hon ar safle tŷ mawr o'r un enw a ddymchwelwyd: yr oedd yn adfail yn niwedd y 1940au (atgof personol), ond fe'i nodir ar fap OS 1960.

<sup>1</sup> Gweler trafodaeth Tomos Roberts o'r elfen *glyn* yn *ADG 1*, 50.



Mae'n anodd penderfynu pam y disgrifir cae â lliw arbennig megis 'coch', 'melyn', 'du' neu 'wyn': gallai gyfeirio at gnwd neu lysdyfiant megis rhedyn neu feillion a fyddai'n rhoi'r lliw arbennig iddo.

Camgopio a geir yng nghofnodion 1752 a 1770; mae digon o dystiolaeth mai gwyn yw'r ail elfen. Mae map Robert Dawson 1816–20 yn nodi *Ty gwyn* ar safle *Cae-gwyn*, ond mae'n amlwg mai gwall yw hwn.

Nodir annedd arall o'r enw *Cae-gwyn* yn Waunfawr ar fap OS 1919.

<b>Cae-haidd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH5260</b>
<i>Cae haidd Glas</i>	1681	Thorowgood	183 (i)
<i>Cae haidd</i>	1700	ATT GAG	
<i>Cae haidd</i>	1841	RhPDegwm	

#### **cae, haidd, glas**

Mae map y Degwm yn lleoli'r annedd hwn nid nepell o *Bant-cae-haidd* q.v. Yr ail elfen yw *haidd* = 'barlys' + yr ans. *glas* yng nghofnod 1681.

<b>Cae-Hampton</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4862</b>
<i>Kae Hampton</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Cae Hampton</i>	1741	Dinam Hall	34
<i>Caehampton</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae hampton</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caehampton</i>	1788	OK	167
<i>Cae Hampton</i>	1791	P. yr Aur	18607
<i>Cae Hampton</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Hampton</i>	1797	Poole	3819
<i>Cae Hampton</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae Hampton</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae Hampton</i>	1890/1	Bangor	8560
<i>Cae-Hampton</i>	1919	Map OS	XV N.E.
<i>Ffordd Hampton/Hampton Road</i>	2000	CCPost	

#### **cae, e.p. Hampton**

Ar safle *Ffordd Hampton/Hampton Road* heddiw, sef y ffordd sydd yn arwain i'r B4366 (Ffordd Bethel) ar gyrion Caernarfon. Yr ail elfen yw'r e.p. *Hampton*. Yr oedd y teulu *Hampton* yn flaenllaw yng Nghaernarfon yn y 14g, ond ni cheir sôn amdanynt ar ôl y 15g (*BMW*, 83). Mae'n debyg mai'r un enw oedd *Hampton* a *Haunton*. Ceir cofnod o *Hugh de Haunton* yn y dref yn 1318 (Penrhyn 282) a Mae'r 'William, son of Walter *Haunton*' a gofnodir yn 1370 wedi dod yn William ap Wat erbyn 1395 ac yn Gwilym ap Wat yn 1396 (*BMW*, 95). Ond fe'i nodir hefyd yn 1396 fel *William ap Wat de Haunton* (*CCR*.118). Tybed ai enw arall ar yr un gŵr oedd y *Wilcok ap Wathampton* a gofnodwyd yn 1406? (*BBCS*, XV, (1952), 47). Ceir cyfeiriad hefyd at ryw *John de Haunton* yng Nghaernarfon yn 1336 (Penrhyn 283; Elwes, 10), ac mae'n bosib mai'r un gŵr yw'r *John de Hamton* a gofnodir yn 1340 (Penrhyn 284). Felly, mae digon o dystiolaeth gynnar am yr enw yn y dref.

<b>Cae-hil</b>	<b>Llanbeblig</b>		
<i>Cae Hil</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cae hil</i>	1859	Bangor	4081

#### **cae, hil**

Ni lwyddwyd i'w leoli. Anodd yw esbonio'r ail elfen *hil*, onid *hil ceirch* neu *hilgeirch* sydd yma, sef y ceirch a'r eisin sydd yn weddill yn y gogr ar ôl rhidyllu (*CB Amaeth* 2. 343). Ceir *Allt-yr-hil* yn Llangathen, Caerf. (AMR).

<b>Cae-hir</b>	<b>Llanbeblig</b>		
<i>Cae-hir</i>	1724	Henblas B	164
<i>Cae hir</i>	1736	Henblas B	160–2
<i>Cae-hir</i>	1743	Henblas B	168
<i>Cae-hîr</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae hir</i>	1788	OK	177
<i>Cae Hir</i>	1796	Poole	3801
<i>Cae hir</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 /6697
<i>Caehir</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Cae hir</i>	1831	Bangor	8554
<i>Caehir</i>	1853	Bangor	8555
<i>Cae hir</i>	1890/1	Bangor	8560

#### **cae, hir**

Ni lwyddwyd i'w leoli'n bendant ac eithrio fod cofnodion 1783, 1788 a 1831 yn nodi ei fod yn nhrefgordd Castellmai, a chofnod 1788 yn ei restru gydag anheddau yng nghyffiniau Bontnewydd.

<b>Cae-Hopsyn</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4961</b>
<i>Cae Hopsyn</i>	1814	Rumsey Wms	881–2
<i>Caehopsun</i>	1847	Bangor	3906
<i>Cae hopsun</i>	1855	Bangor	3932
<i>Cae Hopsyn</i>	1862	Myn. Cae.	A035a
<i>Cae Hopsyn</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Cae Hopsyn</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Cae Hopsyn</i>	2000	CCPost	(Caeathro)

#### **cae, hopsyn**

Ar lôn fechan yn troi i'r dde oddi ar y lôn gefn sydd yn arwain o'r A487 ger Pont Saint yng Nghaernarfon i gyrion pentref Caeathro. Awgrymodd W.J.Gruffydd mai'r e.p. *Hobson* sydd yma (*Llenor*, VII (1928), 244). Ceir cae o'r enw *Cae Hobson* yn Nhredefaid (RhPDegwm Llanbeblig, 1841, rhif 1114), ac mae'r amrywiad *Hopson* yn digwydd gyda'r e.p. hwn. Mae'r -b- yng nghofnod 1862 yn tueddu i gadarnhau'r awgrym mai *Hobson* sydd yma. Ar y llaw arall gellid cynnig mai'r enw cyff. Cym. *hopsyn* sydd yma, sef ffurf un. *hopys*, y planhigyn o deulu'r cywarch a ddefnyddir i fragu cwrw (Saes. *hops*). Byddai'n rhyfedd cael y ffurf un. *hopsyn* yn hytrach na'r llu. *hopys*<sup>1</sup>, ac mae'n fwy na thebyg mai'r cyfenw sydd yma.

<b>Caellechfaen</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4860</b>
<i>Cae-llechfay</i>	1700/1	Ll&Brynodol	D1178
<i>Cae Llechfay</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Cae Llechfain</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Llech fain</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caellechfaen</i>	1788	OK	176
<i>Cae Llechfain</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Lethfai otherwise Llethfain</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Cae Llechfaen</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1

<sup>1</sup> Fodd bynnag, gweler y nodyn ar *Cibyn* isod.

<i>Gellachfain</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Gellechfain</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cae Llechfaen</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Caellechfaen</i>	1850	Myn. Llb.	K081
<i>Gellachfain</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae llech fain</i>	1859	Bangor	4081
<i>Cae llechfaen, Bontnewydd</i>	1877	Myn. Llb.	F035
<i>Cae Llechwain</i>	1887	Myn. ENLlf.	034
<i>Caellechfaen</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cae-llechfaen</i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Cae Llechfaen, Bontnewydd</i>	1903	Myn. Llb.	F067
<i>Cae Llechfaen</i>	1930–1	Bangor	8592

### **cae, llechfaen**

Mae map OS rhagbaratoawl Robert Dawson, map y Degwm, a map OS 1891 yn nodi *Caellechfaen* yng nghyffiniau Tyddyn Elen ar gyrion Bontnewydd wrth ddod o Gaernarfon. Er yr amrywiaeth a welir yn sillafiad yr ail elfen, mae'n debyg mai *llechfaen* yw'r ffurf ddilys, sef cleifaen neu lechen. Gall hefyd olygu darn o lechen a ddefnyddid fel gradell i grasu bara. Byddai'n hawdd tybio mai annedd cwbl wahanol oedd y *Gellachfain* a geir yng nghofnodion 1824, 1831 a 1851, ond awgryma safle'r enw ar y rhestrau mai'r un lle yw hwn â *Chaellechfaen*, a gellir gweld y byddai'r ynganiad yn gallu datblygu fel hyn ar lafar. Ceir anheddau o'r enw *Llechfaen* hefyd ym Mreudeth, Penf. a Llanhamlach, Brych. (AMR). Gweler ymdriniaeth yr Athro Gwynedd O. Pierce o *llechwen*, sef amrywiad ar *llechfaen* (PNGlam, 114–5; ADG2, 60).

### **Caelleuar / Cae-llenor**

### **Llanbeblig**

Gweler *Cae Lleuar* yn yr adran ar Gaeau Llanbeblig.

### **Cae-mab-Ynyr**

### **Llanbeblig (Waunfawr)**

### **SH 5159**

<i>Kay Jevan ap Yner</i>	1541	Vaynol	1392
<i>Kay Jevan ap Yner</i>	1564	Vaynol	1410
<i>Kay Evan ap Ynyr</i>	1659	Coleman	D.D. 1033
<i>Kay Evan ap Ynyr</i>	1698	Coleman	D.D. 1034
<i>Cae mab Ynur</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae mab yner</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caebynŷr</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Cae mab ynyr</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae mab ynyr</i>	1803	EwBangor	B1803/73 8933
<i>Caemabynir</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caemabynur</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caemabumur</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caemabynar</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Cae mabyr</i>	1830	EwBangor	B1830/82 13579
<i>Cae mab ymyr</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cam-bynnar</i>	1838	Map OS	78
<i>Caemabyny</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cae Mabynwr</i>	1847	Bangor	3906
<i>Caemabunyr</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae Mabynir</i>	1886	Postal Dir.	140
<i>Caemabynir</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cae-Mab-Bynner</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae Mabynir</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Cae-Mab-Bynner</i>	1957	Map OS	SH 55

<i>Cae Mab Ynnyr</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Caemabynyr</i>	2004	Map PSA	

**cae, mab, e.p. Ynyr**

Ar gyrion pentref Waunfawr oddi ar yr A4085 wrth fynd tuag at Groesywaun<sup>1</sup>. Er mai *ap* a geir yn y ffurfiau cynharaf, erbyn 1770 fe'i disodlwyd gan *mab*. Erbyn hynny collwyd yr *Ieuan* o'r enw gwreiddiol. Mae'r ffurfiau *Caebynyr* (1780–7) a *Cam-bynnar* 1838 yn dangos y cywasgu a fu yn yr ynganiad, tra bo colli'r *-r* derfynol yn y ffurf *Caemabyny* 1841 yn awgrymu ynganiad Seisnig gan y sawl a'i cofnododd. Ni wyddys pwy oedd *Ieuan ab Ynyr*.

<b>Cae-main</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5160</b>
<i>Cae Main</i>	1767	EwBangor 1767/79 3225
<i>Cae Main</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Cae main</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Cae-Main</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (61)
<i>Cae Main</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae Main</i>	1783	Ll&Brynodol R163
<i>Caemain</i>	1788	OK 177
<i>Cae main</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Cae Main</i>	1813	Rumsey Wms 517
<i>Gae-main</i>	1816	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Cae Main</i>	1818	Rumsey Wms 521
<i>Cae main</i>	1820	EwBangor B1820/68 11821
<i>Caermain</i>	1824	P. yr Aur 4100
<i>Cae Main</i>	1824	Rumsey Wms 245
<i>Cae Main</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae Main</i>	1835	Rumsey Wms 534
<i>Cae-main</i>	1838	Map OS 78
<i>Cae main</i>	1841	RhPDegwm
<i>Caemain</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae main</i>	1869	Bangor f33975
<i>Cae Main</i>	1904	Bangor f33976
<i>Cae-main</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Cae Main</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

**cae, main**

Ar y dde oddi ar yr A4085 wrth agosáu at Waunfawr o gyfeiriad Caethro. Yr ans. *main* yw'r ail elfen, a ddefnyddir i ddisgrifio tir gwael, digynnyrch, neu fe allai hefyd gyfeirio at siâp hirgul y cae.

<b>Cae-mawr</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5259 (W) / SH 4862 (C) / SH 4861 (B1) / SH 4959 (B2)</b>
<i>Tuthyn y Kae mawr</i>	1582	Nannau 3113
<i>Tythy y Cae Malore</i>	1684	P. yr Aur Add. 2169
<i>Tyddyn y Cae Mawr</i>	1694	P. yr Aur Add. 1658
<i>Cae Mawr</i>	1696	Vaynol 3743
<i>Tuthin Cae mawr</i>	1698	Thorowgood 112
<i>Cae Mawr (C)</i>	1722	NewGlynllifon XD2 / 6488
<i>Cae Mawr (C)</i>	1740	Coed Helen 14–15
<i>Cae mawr</i>	1752	Thorowgood 192

<sup>1</sup> Ceir trafodaeth ar y newidiadau yn ffurfiau'r enw hwn ac eraill tebyg iddo gan MR yn *BBCS*. XX. Mai 1964, 388.

<i>Cae Mawr</i>	1776/7	Vaynol	4054
<i>Cae Mawr</i> (C)	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caemawr</i>	1788	OK	167
<i>Caemawr</i> (W)	1788	OK	176
<i>Cae Mawr</i>	1790	EwBangor	B1790/80 6863
<i>Caemawr</i> (B1)	1815	Poole	4034
<i>Caemawr</i> (B1?)	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae Mawr</i> (C)	1827	Bangor	8554
<i>Caemawr</i>	1828	Vaynol	126
<i>Caemawr</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cae-mawr</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae mawr</i>	1841	RhPDechw	
<i>Cae Mawr or Tyddyn y cae mawr</i>	1841	Laurie	WDT/2503
<i>Cae Mawr</i> (C)	1854	Wood	
<i>Cae mawr</i> (C)	1869	Bangor	f33975
<i>Cae mawr</i> (W)	1869	Bangor	f33975
<i>Cae mawr</i> (C)	1869	Vaynol	970, 973
<i>Cae Mawr</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Cae mawr</i> (W)	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae-mawr</i> (B2)	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cae-mawr</i> (C)	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Cae-mawr</i> (B1)	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Cae Mawr</i> (W)	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Cae Mawr</i> (B2)	2000	CCPost	(Bontnewydd)

#### *cae, mawr*

Ar un adeg yr oedd o leiaf dri annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llanbeblig cyn ffurfio plwyf Waunfawr, sydd yn ei gwneud yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt oni nodir mwy o fanylion yn y cofnod nag enw'r plwyf yn unig. Lle bu modd gwahaniaethu, nodir hynny yn y tabl â (C) am yr un ar gyrion tref Caernarfon, (W) am yr un yn Waunfawr, a (B1) a (B2) am y rhai yng nghyffiniau Bontnewydd. Saif *Cae-mawr* (W) ar y ffordd sydd yn mynd trwy Bentre Bryn-eithin o ganol Waunfawr. Mae *Cae-mawr* (B1) oddi ar un o'r lonydd cul sydd yn arwain o Bont Saint i Gaeathro. Saif *Cae-mawr* (B2) nid nepell o afon Gwyrfaidd oddi ar y lôn gul sydd yn arwain o bentref Bontnewydd i gyfeiriad Cyffordd Tryfan gynt ar Reilffordd Eryri. Mae'n debyg fod yr annedd ei hun yn yr achos hwn ym mhlwyf Llanwnda, ond bod peth o'i dir ym mhlwyf Llanbeblig<sup>1</sup>. Safai *Cae-mawr* (C) ar y chwith oddi ar Ffordd Llanbeblig ger caer Segontium.

<b>Cae-mur</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4863</b>
<i>Cae mur</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Cae Mûr</i>	1743/5	Ll&Brynodol D980
<i>Cae mûr</i>	1762	P. yr Aur Add. 2143
<i>Cae'r Mûr</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Caermur</i>	1814	EwBangor B1814/74 10821
<i>Caer Mur</i>	1834	Myn. Llb. B446
<i>Caermur</i>	1847	Bangor 3906
<i>Cae'r Mur</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae Mur</i>	1855	Bangor 3932
<i>Cae-mûr</i>	1920	Map OS X S.E.
<i>Cae Mur</i>	2000	CCPost

<sup>1</sup> Gweler *Cae-mawr* dan Anheddau Llanwnda, gan ei bod yn bosib fod B2 wedi ei gofnodi dan blwyf Llanbeblig a Llanwnda oherwydd fod ei dir ar ffin y ddau blwyf.

**cae, mur**

Mae annedd *Cae-mur* bellach wedi diflannu, ond cedwir yr enw ar ffordd sydd ar yr un safle yn stad dai Maesincla oddi ar y B4366 ar gyrion Caernarfon. Yn 1727 ceir cyfeiriad at *Tythyn y Môr* wedi ei gyplysu â Chae-Bold (Ll&Brynodol R155). Tybed ai'r un lle yw hwn â *Chae-mur*? Yr oedd hwnnw hefyd yn agos iawn at Gae-Bold.

<b>Cae-Philip</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4961</b>
<i>Cae Philip</i>	1768	Coed Helen 24-5
<i>Cae Philip</i>	1795	Poole 3797
<i>Cae Phyllyp</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae Philip</i>	1835	Cof. Ethol.
<i>Caephilip</i>	1853	Bangor 8555
<i>Cae Phillip</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Cae-Phillip</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Cae Phillip</i>	1930-1	Bangor 8592
<i>Cae Phylip</i>	1932	Myn. Cae. G024
<i>Cae-Phillip</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Cae Phillip</i>	2000	CCPost (Caeathro)

**cae, e.p. Philip**

Ar lôn fechan sydd yn arwain o Bont Saint ar yr A487 ar gyrion Caernarfon i'r ffordd rhwng Caethro a Bontnewydd. Ni wyddys pwy oedd y *Philip* a goffêir yn yr ail elfen.

<b>Caepysgodlyn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4864</b>
<i>Cae Pysgodlin</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Caepysgodlun</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Cae posgodlun</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Caepysgodlyn</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cay Pysgodlyn</i>	1786	Plas Newydd IX, 5942
<i>Pysgodlyn ffields</i>	1788	OK 170
<i>Cae-Pyscodlyn</i>	1794	Poole 4203
<i>Caypyscodlyn</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Caepyscodlyn</i>	1819	P. yr Aur 19102
<i>Caepyscodlin</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Cae Pyscodlin</i>	1841	RhPDegwm
<i>Caepysgodlyn</i>	1847	Bangor 3906
<i>Caepysgodlyn</i>	1855	Bangor 3932
<i>Cae Piscodlin</i>	1859	Bangor 4081
<i>Cae Pysgodlyn</i>	2007	gwybodaeth bersonol

**cae, pysgodlyn**

Ar y chwith i'r lôn fechan sydd yn arwain o'r A487 ar gyrion Caernarfon at lannau Afon Menai yn Waterloo Port. Yr ail elfen yw *pysgodlyn*, sef llyn ar gyfer magu neu gadw pysgod. Nodir llyn bychan ar fap OS 1920 yn y cae gyferbyn â'r tŷ yr ochr draw i'r lôn. Heddiw, o'r lôn gellir gweld pantle yn y fan, ond mae'n amhosibl dweud a oes dŵr yn y pant ai peidio gan fod tyfiant braidd yn wyllt o'i gwmpas. Ceir *Cae'r-pysgodlyn* yn Llanelidan. Dinb. ac *Erw'r Pysgodlyn* yng Nghoed-llai, Fflit. (AMR).

<b>Cae'r-allt</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4864 (C)</b>
<i>Cae r allt (C)</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Cae'r allt (W)</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Cae'r Allt</i>	1783	P. yr Aur 4058

<i>Caer Allt</i> (W)	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Cae'r allt</i> (W)	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae'r allt or Caepysgodlyn</i> (C)	1788	OK	172
<i>Cae'rallt</i> (W)	1788	OK	178
<i>Cae'r allt</i> (W)	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caerhallt</i> (W)	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caerallt</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Cae Rallt</i>	1831	Bangor	8554
<i>Caerallt</i>	1930-1	Bangor	8592

### *cae, yr, allt*

Mae'n amlwg fod annedd o'r enw hwn ar un adeg yn Waunfawr (W), er na lwyddwyd i'w leoli ac eithrio ei fod wedi ei nodi yn nhrefgordd Treflan. Mae OK, fodd bynnag, yn dweud fod *Cae'r-allt* hefyd yn enw arall ar *Gaepysgodlyn* (q.v.).

### **Caerberllan**

### **Llanbeblig**

<i>Cae r berllan</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Cae r Berllan</i>	1723	Ll&Brynodol	D349
<i>Cae'r Berllan</i>	1776/9	Vaynol	4054
<i>Cae'r Berllan</i>	1798-9	Vaynol	4059
<i>Cae'r Berllan</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Caer Berllen</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Cae'rberllan</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cae'r berllan</i>	1867/8	Bangor	8555
<i>Caerberllan</i>	1869	Vaynol	969
<i>Caerbellan</i>	1904	Bangor	f33976

### *cae, y, berllan*

Ni lwyddwyd i'w leoli. Yr unig *Gae Berllan* a gofnodir heddiw ar gyfer plwyf Llanbeblig yn y CCPost yw stad o dai oddi ar lôn Bethel ar gyrion Caernarfon, a saif honno ar safle perllan Lodging Hall (q.v.) gynt. Ceir cyfeiriad at 'Y Berllan ger Bont Seiont' mewn arysgrif ar fedd ym mynwent Llanbeblig (J315) ac mae tŷ o'r enw Orchard House o hyd ger Pont Saint.

### **Cae'r-capel**

### **Llanbeblig**

### **SH 4861**

<i>Kae'r chapple alias Kae bryn llewenydd</i>	1636/7	NewGlynllifon	XD2 / 7641
<i>Kae r Cappell / Cae r cappell</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Kae Chappel or Kae Bryn Llewenydd or Kae Pen y morva field called Cae r Capell</i>	1685	NewGlynllifon	XD2 / 7646/7
<i>Cae'r Cappel</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cae'r Cappel</i>	1776/7	Vaynol	4054
<i>Cae'r Cappel</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caecapel</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Cappel</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 6697
<i>Caycapal</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cay'rcapel</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Capel</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae Capel / Cae'r Capel</i>	1827	Bangor	8554
<i>Cae Capel bach</i> (cae yn Nhyddyn Llwydyn)	1841	RhPdegwm	1491
<i>Cae Capal bach</i> (annedd)	1841	RhPdegwm	
<i>Cae capel St Helens</i> (cae yn Nhyddyn Llwydyn)	1869	Bangor	f33975

### *cae, y, capel*

Ni lwyddwyd leoli *Cae'r-capel* yn bendant, ond mae'r enw *Kae Pen y Morfa* 1685 a chofnod 1869 sydd yn lleoli cae o'r enw *Cae capel St Helens* ar dir Tyddyn-llwydyn yn awgrymu y gallasai fod yng nghyffiniau'r Morfa uwchlaw'r Parc Cyhoeddus heddiw ar gyrion Caernarfon. Yn sicr yr oedd cae o'r enw 'Cae Capel bach' ar dir Tyddyn-llwydyn gynt (gweler cofnod 1841 a Bangor f33976), ond ni wyddys ai'r un lle oedd hwn. Mae cofnod 1696 ac un o gofnodion 1841 yn cyfeirio ato fel cae, ond mae cofnodion eraill yn awgrymu fod annedd o'r enw hwn yn ogystal. Yn RhPDegwm 1841 rhestrir annedd o'r enw *Cae Capal bach* fel 'poor cottage'. Ceir cyfeiriad yn 1763 at *Leiniau'r Cappell* ym mhlwyf Llanbeblig (Tynyngogl 382), ac at *Leiniau Capel St. Helen* yn 1825 (ibid. 565/6) a *Lleiniau St. Helen* yn 1840 (ibid. 577). Mae'n bosib fod Capel Helen yn gysylltiedig â Ffynnon Helen (OCS. 236/7)<sup>1</sup>. Mae'r ffynnon hon ar dir preifat yng ngardd tŷ ar y lôn sydd yn arwain allan o Gaernarfon i gyfeiriad Pont Saint uwchben afon Saint (*Ffyn. Cym.* 2, 36–7; *HWW*, 151, *Eryri*, 20), a gallasai'r 'capel' fod wedi bod yn rhyw fath o gell fechan fel ag a geir gerllaw cynifer o ffynhonnau. Fodd bynnag, mae lle i gredu mai capel anwes i Lanbeblig oedd hwn wedi ei gyflwyno i Elen/Helen (*OK*, 163–4). Mae map Speed 1612 yn nodi *St. Elyn* gyda symbol o eglwys, ac mae map Blaeu 1645 hefyd yn nodi *S. Elyn*, ond maent yn llawer rhy amhendiant i alluogi pennu'r union leoliad.

Mae'n anodd esbonio'r enw *Bryn Llewenydd*. Nodir *llewenydd* yn *GPC* fel amr. ar *llawenydd*, ond mae hefyd yn digwydd yn yr ystyr o 'machlud haul neu orllewin'. Fe'i ceir hefyd fel amr. ar *Lleweni* (*EANC*, 157; *LPNW*, 301), a chred MR mai'r e.p. *Llawen* yw sail yr enw hwnnw (*ETG*, 16). Ceir *Llewenid* yng Nghanu Llywarch Hen, ac awgrymodd Syr Ifor mai enw llwyth neu fro sydd yno (*CLIH*, 11), ond cyfeiria Bartrum ato fel un o feibion Llywarch (*WCD*, 413; *EWGT*, 86). Cofnodwyd *Tythyn braych llewenydd* ym Mallwyd yn 1624 (AIPryce, 14), ac mae nant o'r enw *Llywenydd* yn llifo i mewn i afon Dyfi y tu uchaf i Aberangell (*EANC*, 157). Mae'n bosib, felly, mai e.p. sydd ym *Mryn Llewenydd*.

<b>Cae'r-cock</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4760</b>
<i>Kae(r) Cocke</i> <sup>2</sup>	1673	Ll&Brynodol D943
<i>Cae'r Cock</i>	1776–9	Vaynol 4054
<i>Cae'r Cock</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae'r Cock</i>	1798/9	Vaynol 4059
<i>Cae'r Cock</i>	1799	Vaynol 3751
<i>Cae Cock</i>	1807	NewGlynllifon XD2 / 7871
<i>Caer cock</i>	1810/11	Vaynol 4063
<i>Caercock</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Caer Cock</i>	1827	Bangor 8554
<i>Caecock</i>	1829	EwBangor B1829/88 13404
<i>Caecock</i>	1836	Bangor 5302
<i>Cae y Cock</i>	1841	RhPDegwm
<i>Caer Coch</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae Cock</i>	1869	Bangor f33975
<i>Cae'r coke</i>	1886	Postal Dir. 181
<i>Cae Cock</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Cae-Cock</i>	1891	Map OS XV N.E.
<i>Bronydd or Caecock</i>	1904	NewGlynllifon XD2 / 6457
<i>Bronnydd</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

### *cae, y, Saes. cock*

<sup>1</sup> Yr oedd y ffynnon hon yn darparu 'dwfr rhagorol' i drigolion yr holl gymdogaeth ar un adeg (*HSThC*, 80).

<sup>2</sup> Nid at annedd y mae hwn yn cyfeirio, ond at ddarn o dir a ddisgrifir fel 'arable pasture'.



Mae cofnod 1904 yn dweud mai'r un lle yw *Cae'r-cock* â *Bronnydd*. Os felly, lleolir yr annedd hwn rhwng Lôn Pant a Rheilffordd Eryri wrth fynd o Bont Saint tuag at bentrefan Llanfaglan. Fe'i nodir yno fel *Cae-Cock* ar fap OS 1891 ac fel *Bronnydd* ar fap OS 2002. Mae'n debyg mai'r hyn a geir yn y drydedd elfen yw'r gair Saes. *cock*, a fenthycwyd hefyd i'r Gym. fel *coc*, sef twmpath o wair fel rheol, er y gall ambell dro gyfeirio at fwdwl o wenith. Cadwyd y sillafiad Saes. yn yr enghreifftiau a nodwyd. Ceir *Cae Bryn y Cock* ym Modedern, Môn, ac mae'n digwydd hefyd yn y ffurf fachigol *cocyn*, e.e. *Cocyn Perthi* a *Cocyn Craflwyn* ger Beddgelert, a *Bryn Cocyn* yn Nhregarth (*ELISG*,40).

Fodd bynnag, yn achos *Cae'r-cock* uchod, gellid hefyd gynnig mai e.p. yw *Cock* yma: ceir cofnod o *John Cok / Koc* yng Nghaernarfon yn 1362, *Gregory le Coke* yno yn 1365, *William le Coke* yn 1371, *Margery le Coke* yn 1396 (*CCR*, passim), a *Lawrence Cocke* yn 1422 (Baron Hill 3163). Gellir cael y fannod o flaen e.p. mewn e.lle.

### Cae'r-cwriwr

### Llanbeblig

<i>Cae'r Cwriwr</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Cwriwr</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Cwriwr</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6

### cae, yr, cwriwr

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn, gan mai'r cofnodion uchod yw'r unig rai a welwyd ohono. Yr un yw'r ystyr yn union â *Maes-y-Barcer* (q.v). Benth. o'r Saes. *currier* yw *cwriwr*, sef 'barcer'.

### Cae'r-eglwys

### Llanbeblig

### SH 4862

<i>Church Hey</i>	1567/8	P.S. Peniarth	DC22
<i>Cae'r Eglwys</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Eglwys</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae'r Eglwys</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Eglwys</i>	diwedd y 18g	Vaynol	4222
<i>Caer Eglwys</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Cae'r Eglwys</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae'r Eglwys</i>	1827	Bangor	8554
<i>Cae'reglwys</i>	1836	Bangor	5302
<i>Caereglwys</i>	1869	Vaynol	978
<i>Caer Eglwys</i>	1890-1	Bangor	8560

### cae, yr, eglwys

Ni lwyddwyd i'w leoli'n hollol bendant, ond mae'r elfen *eglwys* yn arwyddocaol, a cheir cofnod o ddiwedd y 18g. yn ei osod gydag anheddau a thir 'around Llanbeblig Church'. Mae'r enwau a restrir gydag ef yng nghofnod 1836 hefyd yng nghyffiniau eglwys Llanbeblig. Yn sicr yr oedd yna gae o'r enw *Church Hey* ar gyrion gogleddol mynwent Llanbeblig yn 1567/8 (P.S.Peniarth, DC 22) ac mae'n bosib fod annedd wedi ei adeiladu yno yn ddiweddarach.

### Cae'r-groes / Cae -croes

### Llanbeblig

<i>Kay yr Groys</i>	1604	EmThos	M/34 7
<i>Kae r groes</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Cae r Groyse</i>	1696	Vaynol	3743 / 4
<i>Caergroes</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r groes</i>	diwedd y 18g	Vaynol	4222
<i>Caygroes</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caer Groes</i>	1810/11	Vaynol	4063

<i>Caygrois</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caygras</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae grais</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caergroes</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae'r Groes</i>	1827	Bangor	8554
<i>Cae Croes</i>	1950	AAG	20

#### *cae, y, groes*

Mae'r Athro T. Hudson-Williams (AAG, 20) yn sôn amdano'i hun yn chwarae yn y *Cae Croes*, a oedd ar y safle lle adeiladwyd Capel Beulah wedyn, sef oddi ar Henwalia (q.v.) yn gyfochrog â Lôn Parc yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, ni ellir profi mai'r un lle oedd *Cae Croes* â *Chae'r-groes*. Mae'r cofnod yn Vaynol 4222 yn cynnwys *Cae'r-groes* gyda'r anheddau a'r caeau o gwmpas eglwys Llanbeblig. Mae'n amlwg fod y cofnodion uchod yn cynnwys cyfeiriadau at gae ac at annedd, ond nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhyngddynt. Gweler hefyd *Cae'r-groes* yn yr adran ar Gaeau Llanbeblig.

<b>Cae'r-pant</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5260</b>
<i>Caer Pant</i>	1840	Ll&Brynodol	D966
<i>Cae'r pant</i>	1846	Ll&Brynodol	D527

#### *cae, y, pant*

Ar gyrion gogleddol Waunfawr wrth fynd tuag at Geunant. Yn ôl cyd-destun cofnod 1846 yr un lle oedd *Cae'r-pant*, *Trosygors* a *Garnedd-wen* (q.v.)

<b>Cae'r-wal</b>	<b>Llanbeblig</b>		
<i>Cae r Wale</i>	1696	Vaynol	3743/4
<i>Cae y Wale</i>	1741	Dinam Hall	34
<i>Cae r Wale</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae y Wal</i>	1774	P. yr Aur	18604
<i>Cae'r wal</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r wale</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Wall</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae'r wal</i>	1788	OK	171
<i>Cae'r Wal</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caer Wall</i>	1797	Poole	3819

#### *cae, y, wal*

Ni lwyddwyd i'w leoli. Ni ellir cymryd yn ganiataol mai *wal* = 'mur' sydd yma. Ceir sawl cyfeiriad at ŵr o'r enw *Thomas Wall / Wale / Walle* yng Nghaernarfon yn y 1550au (CCQSR, 58 a passim) felly mae'n bosibl mai'r e.p. hwn + y fannod sydd yma. Gwyddom fod gan *Thomas Walle* annedd yn y dref ei hun yn 1557. rywle yng nghyffiniau Stryd-yr-Eglwys heddiw (P.S.Peniarth, DC18), ond ni wyddys a oedd ganddo annedd arall y tu allan i'r dref.

<b>Cae'r-waun</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH5259</b>
<i>Cae'r Waun</i>	1750	EwBangor	B1750/56 56
<i>Cae'r Weyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae'r Weyne</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Cae Weyne</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Caewaen</i>	1835	Cof. Ethol.	
<i>Caer wain</i>	1836	Rumsey Wms	116
<i>Cae Waun / Cae waun / Cae y waun</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cae yr Waun</i>	1851	Cyfrifiad	

<i>Caerwaun</i>	1855	EwBangor	B1855/136 18966
<i>Cae Waun</i>	1859	Bangor	4081
<i>Caerwarn</i>	1886	Postal Dir.	140
<i>Cae'r-waen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Caerwaen</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Cae'r Waun</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

### **cae, y, gwaun**

Ar fap OS 1919 nodir tair enghraifft o'r enw hwn yng nghyffiniau Waunfawr. Mae'r *Cae'r-waun* a nodir yng nghofnod 2000 yn rhan ogleddol Waunfawr wrth fynd tuag at Groeslon Waunfawr. Ar ddechrau'r 19g. ceir nifer o gyfeiriadau yn yr ATT at *Gae Owen*, ac mae rheswm i gredu oddi wrth safle'r cofnodion yn nhrefn y rhestrau mai datblygiad o'r enw *Caerwaun* yw hwn. Mae *GPC* yn cynnig sawl ystyr i *gwaun*: yn eu plith ceir gwastatir uchel gwlyb a brwynog; ucheldir agored; tir grugog; tir isel gwlyb; doldir a gweirglodd.

### **Cae'r-ymryson**

### **Llanbeblig**

### **SH 4862**

<i>Cae r ymryson</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cae mryson</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae ymryson</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae'r Ymryson</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caeymryson</i>	1788	OK	166
<i>Cae ymryision</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caer ymryson</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Caemryson</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caer Ymryson</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Caymryson</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caemresson</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caemrysen</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae'rymryson</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cae myryson</i>	1847	Bangor	3906
<i>Cae'mryson</i>	1855	Bangor	3932
<i>Caerymryson</i>	1869	Vaynol	977
<i>Cae'r Ymryson</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Cae'r Ymryson</i> (stad dai)	2000	CCPost	

### **cae, yr, ymryson**

Mae'r annedd gwreiddiol bellach wedi diflannu, ond heddiw ceir ffordd o'r un enw ar y safle. Eir ati drwy droi i'r dde ger eglwys Llanbeblig wrth fynd allan o Gaernarfon tua Waunfawr ar yr A4085. Awgryma ail elfen yr enw bod ymryson neu anghydfod wedi bod ryw bryd ynglŷn â pherchnogaeth y tir. Mae'n elfen sydd yn digwydd yn aml mewn enwau lleoedd ar ffin rhwng dau ddaliad tir. Cf. *Cae-ymryson* yn Rhostryfan<sup>1</sup>, a *Tiryryson* ar y ffin rhwng plwyfi Aberffraw a Llangwyfan ym Môn (*ELIMôn*, 84). Ceir cae o'r enw *Maes-ymryson* ar dir Prysgol yn Llanrug (Vaynol 4059, 4062, 4073, 4199; Bangor f33975). *Dol Kay yr dadle* yn Llangernyw (AMR, Trofarth 415)<sup>2</sup>, *Bryn-twrw* ar gyrion Tregarth (*PSA*, 149) a *Chae-ciprys* yn Llanwnda (q.v.). Cyfeiria'r Athro Gwynedd O. Pierce hefyd at *Drehwbwb* ym Mro Morgannwg a *Chwmwbwb* ar Fynydd Caerffili, a cheir *Tire y dadley* yn Aberdâr, *Tir llwyn y Dadley* ym Mhenfro, a *Brynygydden* a *Chae Scandal* ym Morgannwg (*PNGlam*, 199, 23-4:

<sup>1</sup> Am hanes yr ymryson hwn gweler David Gwyn, 'Resistance to Enclosure: the Moel Tryfan Commons', *TCHSG*, 62, (2001), 82-3.

<sup>2</sup> Fodd bynnag, mae Bedwyr Lewis Jones yn cynnig mai 'man cyfarfod' yw'r ystyr yn rhai o'r enwau sydd yn cynnwys yr elfen 'dadlau', e.e. *Bryn-dadlau*, ('Cynnadl, dadl mewn enwau lleoedd', *BBCS*, XL, (1993), 120-1).

ADG2, 15). Ceir enwau tebyg yn Lloegr, e.e. *Disputforlang* yn Swydd Rhydychen c.1205 (EFN, 147).

Fodd bynnag, am gysylltiad posibl yr enw hwn â thwrneimant y 'Rotunda Tabula' gweler y cofnod ar *Round Table* dan Gaeau Llanbeblig.

### Cae-Saeson

### Llanbeblig

<i>Kae Saeson</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Caesaeson</i>	1788	OK	175
<i>Cae saison</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Sayson</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caesayson</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caysaison</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caesaison</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae Saeson</i>	1890-1	Bangor	8560

### *cae, Sais, llu. Saeson*

Ni lwyddwyd i'w leoli, ond mae wedi ei restru yn yr ATT gydag anheddau yng nghyffiniau tref Caernarfon. Ceir sawl enghraifft yng Nghymru o *Cae-Sais*, ond mae'r ffurf luosog *Saeson* yn fwy anghyffredin.

### Cae-Samuel / Cae-Samol / Tyddyn-Ismel

### Llanbeblig

### SH 4759

<i>Cay Samuel</i>	1668-9	Ll&Brynodol	R16
<i>Cae Samuel</i>	1691	Bodorgan	112
<i>Cae Samuell</i>	1699	Ll&Brynodol	D978
<i>Cae Samuel</i>	1700	Ll&Brynodol	D1178
<i>Cae Samuell</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Cae Samuel</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Samol</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Samol</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Samuel</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caesamol</i>	1788	OK	177
<i>Cae Samuel</i>	1801	Rumsey Wms	765
<i>Cae Samol</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Samuel</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Cae Samuel</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Caesamuel</i>	1811	EwBangor	B1811/60 10224
<i>Caesamael</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Causamuel</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cae Samol</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Cae Samol</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cae Samol</i>	1833	Myn. Llb.	F032
<i>Cae Samol</i>	1838	Map OS	78
<i>Cae Samuel</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Caesamol</i>	1849	Bangor	8555
<i>Cae Samol</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae Samuel</i>	1859	Bangor	4081
<i>Cae Samoel</i>	1860	Myn. Llb.	G318
<i>Caesamol</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Cae-Samol</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Samuel</i>	1900	NewGlynllifon	XD2 / 6465
<i>Cae-Samuel</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Cae Samol</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Cae-Samuel</i>	1959	Map OS	SH 45

**cae, samwl / e.p. Samuel**

I'r chwith oddi ar y lôn sydd yn arwain o ganol pentref Bontnewydd wrth fynd tuag at bentrefan Llanfaglan. Rhaid tybio mai'r un lle yw *Cae-Samol* a *Chae-Samuel* gan fod y ddau enw wedi eu nodi ar yr annedd yn y llecyn hwn mewn mapiau ar wahanol adegau. Mae'n anodd esbonio *samol*. Ceir y ffurf *samwl* (sef benth. o'r Llad. *samōlus*) yn enw ar y planhigyn 'claerlllys' neu 'ffrydllys', sef *Samolus valerandi*, 'brookweed' neu 'water pimpernel'. Ceir y ffurf fachigol *samylen* hefyd (*GPC; ECB, 142*). Gallai hyn wneud synnwyr mewn e.lle ar ôl yr elfen *cae*, ond nid yw *GPC* yn crybwyll *samol* fel ffurf lafar ar yr enw. Os derbynnir mai'r enw anghyffredin *samwl* sydd yn yr ail elfen, gallai'r ffurfiau *Samuel* fod yn ymgais i resymoli ac esbonio gair eithaf dieithr. Os mai'r e.p. *Samuel* oedd y ffurf gysefin ni fuasai'n debygol o beri penbleth gan y buasai'r rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd ag ef o'r Beibl, felly ni fuasai angen ceisio ei resymoli na'i newid. Yr unig esboniad arall yw nad *samol* na *Samuel* sydd yma. Awgrymodd MR mai *Tyddyn-Ismael* oedd yr enw gwreiddiol (*AMR*). Os yw'n anodd dadlau hyn ar sail ieithyddol mae'n bosibl gwneud hynny ar sail ddaeryddol, a cheisir gwneud hynny isod.

<i>Tethyn Ismell</i>	1512	Vaynol	1363
<i>Tuthyn Ismel</i>	1513	Vaynol	1365
<i>Kay Yssmel</i>	1574	Vaynol	1412

Ceir y cyfeiriadau uchod at yr annedd hwn yn y gweithredoedd sydd yn ymwneud â stad Plas Glanrafon (q.v.). Nodant ei fod yn *Kay y Mayn Lloyd* yn nhrefgordd Castellmai. Ar yr olwg gyntaf, mae'r ail elfen yn awgrymu'r e.p. *Ismael*, sef enw mab Abraham a Hagar yn Gen. XVI, 15. Gallai gyfeirio at rywun o'r enw hwn a oedd yn gysylltiedig â'r annedd yn y 16g. Fodd bynnag, wrth drafod yr enw *Llanismel* yn siroedd Caerfyrddin a Phenfro mae MR yn gwrthod tarddu *Ismel* o *Ismael* ac yn awgrymu mai'r hen enw Cymraeg *Osmail* a geir yno (*ETG, 188*). Tybed ai'r un enw oedd yn y *Tyddyn-Ismel* uchod hefyd? Mae MR hefyd yn awgrymu y gallai fod cysylltiad rhwng yr enw hwn â *Chae-Samol / Samuel* (*AMR*). Yn wir, mae'n hollol bosibl mai'r un lle yw *Cae Samuel* a *Thyddyn-Ismel* gan fod yna gysylltiad daeryddol rhwng y ddau le. Ymhlith caeau *Cae Samuel* ceir cae o'r enw *Cae'r Cummin / cwmmin* (*RhPdegwm 1213; NewGlynllifon XD2 / 6460 (q.v.)*). Yn yr 16g yr oedd cae o'r enw *Kay Commeney / Comonyth / Commenythe* yn nhrefgordd Castellmai (*Vaynol 1363, 1365, 1412*). Os mai'r un cae sydd yn y cofnodion o'r 16g a'r rhai o *RhPdegwm* mae sail ddaeryddol gref dros gysylltu *Cae Samuel* â *Thyddyn-Ismel*. Mae cofnod 1512 (*Vaynol 1363*) yn cyfeirio at *Kay y Commeney* fel dau dŷ 'beside Glan yr afon bach' ynghyd â thŷ arall, sef *Tethyn Ismell* yn nhrefgordd Castellmai, ac mae cofnod 1513 (*Vaynol 1365*) hefyd yn cyplysu *Cay yr Comonyth* â *Tuthyn Ismell* ac yn eu lleoli 'beside yr Afon bagh'. Yr elfen bwysig yn y cyfeiriadau hyn yw'r lleoliad ar 'lan yr afon bach', oherwydd yr annedd agosaf at *Gae-Samuel* hyd y dydd heddiw yw *Glan'rafon-bach*.

<b>Cae-Spencer</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4860</b>
<i>Cae Spencer</i>	1859	NewGlynllifon XD2 / 6453
<i>Cae-Spencer</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Cae Spencer</i>	2000	CCPost (Bontnewydd)

**cae, e.p. Spencer**

Yn rhan ogleddol Bontnewydd, ar y dde i'r A487 wrth fynd i mewn i'r pentref o gyfeiriad Caernarfon. Yr oedd *Spencer* yn enw a ddefnyddid yn rheulu'r Arglwyddi Newborough a oedd yn dirfeddianwyr dylanwadol yn yr ardal. Spencer Bulkeley Wynne oedd enw'r Arglwydd Newborough adeg llunio *RhPdegwm* plwyf Llanbeblig yn 1841.

<b>Cae-Stanley</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH4860</b>
<i>Caê Stanley</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84(58)
<i>Cae Standle</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae Standle</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Cae Stanley</i>	1788	OK 170
<i>Cae Standle</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Caestanla</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Caestandley</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Caesdandly</i>	1820	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Caestantley</i>	1821	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Cae Stanley</i>	1824	P. yr Aur 4099
<i>Cae Standle</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae Stanley</i>	1841	RhPdegwm
<i>Cae Stanley</i>	1874	Worrall 212
<i>Cae Stanley</i>	1898	NewGlynllifon XD2 / 8551
<i>Cae-Stanley</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Cae-Stanley</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Cae Stanley</i>	2000	CCPost (Bontnewydd)

#### *cae, e.p. Stanley*

Ar y dde oddi ar y lôn sydd yn arwain o ganol pentref Bontnewydd wrth fynd tuag at Gaeathro. Yr e.p. *Stanley* sydd yn yr ail elfen. Mae'r *-d-* ymwithiol a welir yng nghanol yr enw mewn sawl cofnod yn nodwedd o'r Gymraeg hyd heddiw, nid yn unig mewn benthyciadau o'r Saes. e.e. *Henry* > *Hendri* (EEW, 234) ond hefyd mewn enwau Cym. e.e. *Penrhyn* > *Pendryn* ar lafar yn ardal Penrhyndeudraeth. Mae'r ffurf *Caestanla* yn 1793 hefyd yn ddiddorol gan ei bod yn dangos y duedd i droi *-ey* Saes. yn *-a* yn Gymraeg; cf. *Bisley* > *Bisla*; *Bulkeley* > *Bwcla*; *Hinckley* > *Incla* sydd i gyd i'w gweld yn yr astudiaeth hon, yn glŷn ag eraill a glywir ar lafar, megis *Sydney* > *Sydna*; *Humphrey* > *Wmffra*; *Wesley* > *Wesla*.

Yr oedd *Stanley* yn hen enw yng nghyffiniau Caernarfon: cofnodir *John de Stanley* fel cwnstabl castell Caernarfon a maer y dref yn 1430 (P.S.Peniarth DC2; KG, 126) ac yn y ffurf *John Stanley* yn 1438–9 (Penrhyn 288), yn 1444 (Baron Hill 3168), ac eto yn 1446 (Penrhyn 289) a 1457–8 (Penrhyn 292). *William Stanley* oedd enw cwnstabl y castell yn 1484 a 1486 (KG, 126). Yr oedd gŵr o'r enw *Rowland Stanley* yn dyst i weithred yng Nghaernarfon yn 1444 (Baron Hill 3168), ac yr oedd *Margaret Stanley* a *Margerie Stanley* yn byw yn nhrefgordd Castellmai yn 1539 (Vaynol 1387) a 1542 (CCQSR, 15).

<b>Cae-Steel</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Cae Steel</i>	1831	Bangor 8554
<i>Cae y Steel</i>	1841	Cyfrifiad
<i>Cae'stil</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae Steel</i>	1853	Bangor 8555
<i>Cae Steel</i>	1855	Bangor 3932
<i>Caesteel</i>	1878	Bangor 8555
<i>Cae Steel</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Cae Steel</i>	1930–1	Bangor 8592
<i>Cae Steel</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

#### *cae, steel/ e.p. Steel / ystil*

Yng nghanol pentref Waunfawr. Mae cysondeb y sillafiad yn tueddu i awgrymu mai'r gair Saes. *steel* sydd yma. Mae'n anodd credu ei fod yn cyfeirio at galedwch y tir. Efallai ei fod yn gyfenw rhywun a oedd rywbyrd yn berchen ar y tir. Ceir sawl cyfeiriad at ŵr o'r enw *John Stel* yng Nghaernarfon yn y 1360au (CCR, 15, 23, 42 a passim). Nid oes modd ei gysylltu â'r lle hwn, ond dengys ei fod yn enw a fodolai unwaith yng nghyffiniau Caernarfon.

Fodd bynnag, mae cofnod 1851 yn ddiddorol, gan ei fod yn awgrymu mai *'stil* sydd yma, neu *ystil* (a fyddai'n esbonio'r collnod). Benthyciad o'r Saes. *still* yw hwn = llestr distyllio. Yr unig broblem yw mai *ĩ* sydd yn y gair hwnnw tra bo'r sillafiad *steel* yn awgrymu *ĩ*, ond efallai y byddai'n bosib i'r *ĩ* ddatblygu i fod yn *ĩ*, mewn ymgais i resymoli'r enw. Mae'n ddiddorol mai *Cae ystil* yw'r ffurf a ddefnyddia William Hopley yntau ((*HMethA*, Dos. Caernarfon, Ardal Waunfawr (Caernarfon, 1913) 53). Ond y tebygolrwydd cryfaf yw mai e.p. sydd yma.

### Cae-Stoddart

### Llanbeblig

<i>Cae Capel Stodart</i>	1663–4	Presaddfed	196–7
<i>Cae Hodard</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Stodart</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Stodart</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Stodart</i>	1788	OK	172
<i>Cae Stodart</i>	1802	P. yr Aur	24676
<i>Cae Stodart</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 6697
<i>Caystodart</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caestoddard</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Stoddart</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cae Stoddart</i>	1869	Vaynol	968
<i>Cae Stoddart</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cae Stoddart</i>	1904	Bangor	f33976

### *cae, e.p. Stoddart*

Ni lwyddwyd i'w leoli. Yr e.p. *Stoddart* sydd yn yr ail elfen. Camgopio a barodd yr *H-gychwynnol* yng nghofnod 1770. Mae *Stoddart* yn enw sydd yn digwydd yn gynnar yn hanes tref Caernarfon ac yn parhau yno am gyfnod maith: yn ôl gweithred o 1467–8 yr oedd gŵr o'r enw *Hugh Stodart* yn berchen ar dir yn y dref ei hun (Baron Hill 3171); ceir cyfeiriad at *Hugh Stodart* arall yng Nghaernarfon yn 1646 (GGR II, Rhif 47, (2004), 56). Yr oedd *Richard Stodart* yno yn 1551 (CCQSR, 84) ac yn 1570 (Ll&Brynodol D967), a *William Stodart* yno yn 1657/8 (CQSR, XQS 1657/8). Mae cofnod 1663–4 uchod yn nodi mai gŵr o'r enw *Robert Stodart* oedd yn berchen ar yr annedd hwn yr adeg honno. Mae'n debyg fod gan y teulu gysylltiadau â Biwmares gan y ceir yr enw *Cae-Stodart* yno hefyd. Ni wyddys beth yw arwyddocâd y 'capel' yng nghofnod 1663–4.

### Cae-Synamon

### Llanbeblig

### SH 4863

<i>Cae Sinamon</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Kay Sinamund</i>	1663/4	Presaeddfed	196
<i>Cae Cinnamon</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cinnaman</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cinnman</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cinmon</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cae Cinimon</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Caecinnamon</i>	1788	OK	166
<i>Cae Cinnamon</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 6697
<i>Cae Cinammon</i>	1814	Baron Hill	4619
<i>Cae Synamon</i>	1819	Nanhoron	630
<i>Cae Sinamon/Cinamon</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cae Sinimund</i>	1843	Baron Hill	4646–7
<i>Cae Cenamon / Cae Synamon</i>	1850	Slater	19
<i>Cae Cinnamon / Cae Cinnamon Isa</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae cinamon</i>	1867–8	Bangor	8555
<i>Cae Synamon</i>	1874	Worrall	209
<i>Cae Synamon Cottage</i>	1912	Myn. Llb.	N073

<i>Cae Synamon</i>	1920	Map OS	X S.E.
<i>Cae Synamon</i>	1921	Myn. Llb.	N045
<i>Cae Synamon</i>	2000	CCPost	

**cae, sinamon**

Ar ochr chwith yr A487 ar gyrion Caernarfon wrth fynd i gyfeiriad y Felinheli. Mae'r ffurfiau *sinamon* / *sinamwn* i'w cael yn y Gymraeg ers y 15g. am y planhigyn brodorol o'r India *Cinnamomum zeylanicum* a ddefnyddir fel sbeis. Fodd bynnag, mae'n anodd credu y gellid tyfu'r planhigyn hwn mewn unrhyw gae ym mhlwyf Llanbeblig. Efallai ei fod yn cyfeirio at liw'r cae, sef melyngoch neu lwydfelyn, neu o bosib gallai *Sinamon* fod yn llysenw ar rywun a chanddo groen melyngoch neu lwydfelyn. Mae'r ymgyfnewid rhwng *-c* a *-s* ar ddechrau'r ail elfen yn awgrymu adnabyddiaeth o ffurf ysgrifenedig yr e. Saes. *cinnamon*. Sylwer ar y ffurfiau *sinamund* 1663/4 a *sinimund* 1843: tystia GPC i'r ffurfiau *sinamwnd*, *sinamwnt*, *sinamond*, sef bnth. o'r Saes. Diw. Cyn. *cinnamond*, sydd yn amrywiad ar *cinnamon*. Mae cyfeiriad at y planhigyn *sinamon* yn digwydd yn ogystal mewn e.lleoedd yn Sir Benfro: ceir *Cinnamon Hill* (1745) a *Cinnamon Grove* (1817) yn St. Thomas (*PNPem*, 651).

<b>Castellmai</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4960</b>
<i>Castellmey</i>	1335	WChComm. 49
<i>Castell Meir</i>	1352	Rec. C. 96
<i>Castellmay</i>	1398/9	Rec. C. 232
<i>Castellmay</i>	1399	WChComm. 24 <sup>b</sup>
<i>Kystellthmay</i>	1482	Mostyn B 1335
<i>Kastellthmay</i>	1497-8	Mostyn B 1336
<i>Kystellmai</i>	1498	Mostyn B 1337
<i>Kystellmay</i>	1498/9	Mostyn B 1338
<i>Castellmay</i>	1505	Vaynol 1357
<i>Castellmay</i>	1512	Vaynol 1363
<i>Castellmay / Kefn Castellmay</i>	1517	Vaynol 1370
<i>Castellmay</i>	1519	Vaynol 1373
<i>Castellmay</i>	1539	Vaynol 1387
<i>Castellmay / Castellmay</i>	1542	CCQSR 15
<i>Castellmay</i>	1547	P. yr Aur Add. 259
<i>Castellmay</i>	1574	Vaynol 1412
<i>Castellmaye</i>	1582	Nannau 3113
<i>Castellmay</i>	1585	Ll&Brynodol D103
<i>Castellmay</i>	1636-7	NewGlynllifon XD2 / 7641
<i>Castellmay</i>	1645	EwBangor B1645/24
<i>Castellmai</i>	1650	P. yr Aur Add. 1090
<i>Castellmay</i>	1667-8	Dolfrïog 343, 501
<i>Castellmaj</i>	1668	Baron Hill 3249
<i>Castellmai</i>	1679	NewGlynllifon XD2 / 7407
<i>Castellmay</i>	1685/6	NewGlynllifon XD2 / 7646-7
<i>Castellmai</i>	1699	NewGlynllifon XD2 / 7408
<i>Castell May</i>	1711	NewGlynllifon XD2 / 7412-13
<i>Castellmai</i>	1711	Garthewin 2091-5
<i>Castellmai</i>	1736	EwBangor B1736/75 99394
<i>Castellmai</i>	1749	EwBangor B1749/49 101267
<i>Castellmain</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Castellmai</i>	1788	OK 176
<i>Castell Mai Ucha</i>	1788	Myn. Llb. D045
<i>Castell Mair</i> (annedd)	1797	Poole 3819
<i>Castellmay</i> (trefgordd)	1797	Poole 3819
<i>Castellmai</i>	1812	Rumsey Wms 854



<i>Castellmai</i>	1820	NewGlynllifon	XD2 / 7417
<i>Castellmai</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Castellmai</i>	1831	Bangor	8554
<i>Castellmai</i>	1838	Map OS	78
<i>Castle mai</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Castlemawr</i>	1859	Bangor	4081
<i>Castell-mai</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Castell Mai</i>	2000	CCPost	(Caeathro)
<i>Castellmai</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

***castell, mai/ e.p. Mai?***

Saif annedd *Castellmai* ar lôn gul sydd yn troi i'r chwith oddi ar y ffordd wrth fynd o Gaeathro i Bontnewydd. Yr oedd *Castellmai* hefyd yn enw ar y drefgordd gynt yn yr un ardal. Mae'r ffurfiau yn weddol gyson dros y canrifoedd ac eithrio'r *Meir* yn 1352. *Mair* yn 1797 a *-main* yn 1783, a allai fod yn ymgais i resymoli'r ail elfen, a'r ffurf gwbl gyfeiliornus *Castlemawr* yn 1859. Nodwedd orgraffyddol yn unig yw'r *j* yng nghofnod 1668. Sillefir yr enw yn un gair fel rheol, ac mae hynny'n adlewyrchu'r ynganiad gan fod yr acen yn disgyn ar y goben: *Castéllmai*. *Castell* yn ddiau yw'r elfen gyntaf, ond mae'n anodd esbonio'r ail elfen *-mai*. Gallai fod yn ffurf draws ar yr hen enw *ma* = 'maes neu wastadedd' (cf. *Myddfai*, *Machynlleth*; gweler hefyd *ELleoedd*, 39). Fodd bynnag, mae Syr Ifor Williams yn awgrymu mai enw personol sydd yma, gan gyfeirio at yr enghraifft o 'Mei mab yr esgob' ('Mei filius episcopi') y sonnir amdano yn Llyfr Llandaf (*BLL*, 273; *ELleoedd*, 41) ac mae *GPC* yn ategu hyn. Mae'r un enw, sef *castell mei*, ond nid yr un fan, hefyd yn digwydd yn Llyfr Llandaf (op. cit., 124; 366). Ceir cofnod yn 1517 o dir a thŷ o'r enw *Kefn Castellmay* (Vaynol 1370), ond ni welwyd cyfeiriad arall at y rhain.

<b>Cefn-hendre</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Cefn Hendre</i>	1825	NewGlynllifon XD2 / 6444
<i>Cefn hendre</i>	1828	Rumsey Wms 21
<i>Cefnhendre</i>	1828	NewGlynllifon XD2 / 6445
<i>Cefn yr hendref</i>	1828	P. yr Aur Add. 1914
<i>Cefnhendre</i>	1831	Bangor 24744
<i>Cefn Hendref</i>	1831	Bangor 24745
<i>Cefn yr Hendre</i>	1835	Pigot 690
<i>Cefn hendre'</i>	1838	Map OS 78
<i>Cefn Hendref</i>	1847	Coed Helen 142
<i>Cefnhendra</i>	1847	Bangor 3906
<i>Cefnhendref / Cefn Hendre</i>	1851	C. Vincent 2215
<i>Cefn Hendref</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cefn Hendre</i>	1857	C. Vincent 2222
<i>Cefn Hendre</i>	1874	C. Vincent 2065
<i>Cefn Hendre Cottage</i>	1920	Myn. Llb. C189
<i>Cefn-hendre</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Cefn Hendre</i> (stad dai)	2000	CCPost

***cefn, hendref***

Mae cofnod 1855 yn nodi lleoliad annedd *Cefn-hendre* yn 'Llanbeblig Fields', ac er bod yr annedd bellach wedi diflannu mae'r stad dai a enwyd ar ei ôl yn sefyll gyferbyn ag eglwys Llanbeblig oddi ar yr A4085 ar gyrion Caernarfon. Fel rheol, ystyr *hendref* yw trigfan gaeaf y teulu a'r anifeiliaid ar lawr gwlad, a gallai olygu hynny yma gan ei fod yn cefnu ar dir fferm o'r enw *Hendre*. Gellid cynnig hefyd y gallai'r *hen dref* o bosib gyfeirio at hen gaer Rufeinig Segontium sydd yn agos iawn at y safle, yn ogystal ag olion Rhufeinig Henwaliau ar yr ochr arall. Mae'r cofnod o 1847 (Bangor 3906) yn adlewyrchu'r ynganiad lleol yn y terfyniad.

**Cefn-Henry****Llanbeblig**

<i>Cefn Henry</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Cefn Henry</i>	1859	Bangor	4081

***cefn, e.p. Henry? hendref?***

Ni lwyddwyd i leoli annedd o'r enw hwn. Tybed nad *Cefn-hendre* sydd yma? Byddai'n hawdd cymysgu'r ddau enw, yn enwedig o gofio bod tuedd ar lafar yn yr ardal i ddweud *Hendry* am Henry. Nid yw'r ffaith fod yr enw wedi ei gofnodi eilwaith yn Bangor 4081 yn brawf pellach o'i fodolaeth: rhestr brisiant yw hon ac y mae'n tueddu i ddilyn RhPdegwm yn gaeth. Os mai *hendre* > *Hendry* > *Henry* sydd yma, digwyddodd yr un peth o chwith yn achos *Castell Hendre* yn Sir Benfro. Enw Cymraeg ar *Henry's Moat* yw hwn, felly yno cawn *Henry* > *Hendry* > *Hendre* (PNPem, 63; ADG 1, 49).

**Cefn-y-gof****Llanbeblig****SH 4961**

<i>Cefn y Go</i>	1763	NewGlynllifon	XD2 / 6440
<i>geven go</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Ceven Go</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cefn y go</i>	1777	EwBangor	B1777/82 4906
<i>Cefen go</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cefnygo</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84(58)
<i>Cefn y go</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cefn y go</i>	1783	EwBangor	B1783/93 5939
<i>Cefn y go</i>	1783	NewGlynllifon	XD2 / 7847
<i>Cefn y Gôf</i>	1783	Myn.Llb	D009
<i>Cefan y go</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Cefnygô</i>	1788	OK	173
<i>Cefnygo</i>	c.1795	JE/C&A	
<i>Cefnygof</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Cefn y Gofe</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cefn y Gof</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Cefn y Gof</i>	1846	EwBangor	B1846/112 16791
<i>Cefn y gof</i>	1853	Bangor	8555
<i>Cefn y Gof</i>	1878	Bangor	8555
<i>Cefngof</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cefn-y-gof</i>	1898	NewGlynllifon	XD2 / 8548
<i>Cefn-y-gof</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Cefn-y-gof</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

***cefn, y, gof***

Ar gyrion pentref Caethro wrth fynd tuag at Bontnewydd. Byddai nodi gweithdy'r gof, yr efail, yn fwy arferol mewn e.lle, ond mae'r fannod yma yn *Cefn-y-gof* yn awgrymu fod y lle wedi bod yn gysylltiedig â gof penodol ar un adeg.

**Cefn-y-waun****Llanbeblig (Waunfawr)****SH 5259**

<i>kefn y weyn vawr</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Cefn y Waun / Cefny Waun / Cefn y wain</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Cefn y Waen</i>	1853	Bangor	8555
<i>Cefn y waun</i>	1859	Bangor	4081
<i>Cefny wain</i>	1878	Bangor	8555
<i>Cefn-y-waen uchaf / Cefn-y-waen isaf</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Cefnywaen</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Cefn y Waen Uchaf / Cefn y Waen Isaf</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

**cefn, y, gwaun**

Yng nghanol pentref Waunfawr i gyfeiriad Groeslon (Waunfawr).

<b>Cefn-y-werglodd</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4760</b>
<i>Cefn y Werglodd</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cefn y Werglodd</i>	1859	Bangor	4081

**cefn, y, gweirglodd**

Dengys map y Degwm fod yr annedd hwn ar gyrion gorllewinol Bontnewydd wrth ymyl *Sarn-dŵr-garw* (q.v.).

<b>Cibyn</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4962</b>
<i>Kebyn</i>	1552	CCQSR	I. 88
<i>Kybyn</i>	1552	CCQSR	I. 160
<i>kybyn moore</i>	1598	P.yr Aur Add.	1989
<i>Cyfin Moore</i>	1627	Baron Hill	3185
<i>Keevyn Moore</i>	1628	Baron Hill	3186
<i>Kibin moore</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Kevyn Moore</i>	1673	Ll&Brynodol	D943
<i>Cybbyn more</i>	1673	Ll&Brynodol	B21
<i>Kybin Moore</i>	1696	Ll&Brynodol	B30
<i>Kibbin Moore</i>	1764	NewGlynllifon	XD2 / 6441
<i>Kibbin moor</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Kibin More</i>	1779	NewGlynllifon	XD2 / 8220
<i>Kippin moore</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cibbin moore</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Kibbin</i>	1788	OK	173
<i>Cibbin y Mwr</i>	1801	Vaynol	30
<i>Cibynmur</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cibynmore</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cibynmwr</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Kibbin y Mwr</i>	1810	Poole	3990
<i>Cibbin y Mur</i>	1812	Poole	2377
<i>Cibynmawr</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Cibbin Mur</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Kibbin</i>	1827	Bangor	8554
<i>Cibyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Cibin y mivr</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cibin y Moor</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cibu y mur</i>	1859	Bangor	4081
<i>Cibin y mwr</i>	1867/8	Bangor	8555
<i>Cibyn y mur</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Cibyn y mur</i>	1869	Vaynol	986
<i>Cibyn y mur</i>	1884	Vaynol	250
<i>Cibbyn Farm</i>	1886	Vaynol	254
<i>Cibynymur</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Cibyn Hall</i>	1892	Myn. Cae.	C032
<i>Cibyn Hall</i>	1917	Myn.Lib.	N022
<i>Cibyn</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Cibyn</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Cibyn Bungalow / Cibyn Industrial Estate</i>	2000	CCPost	

***cibyn*, Saes. *moor***

Ar gyrion tref Caernarfon ar y dde oddi ar yr A4086 wrth fynd i gyfeiriad Pont-rug. Mae'n bosib mai *cibyn* (ffurf fachigol *cib*) yn yr ystyr o gawg neu lestr sydd yma. Efallai fod yma unwaith bantle bach ar ffurf llestr o'r fath; ni ellir dweud bellach gan fod yr holl ardal wedi ei llyncu gan stad ddiwydiannol fawr. Ceir yr un elfen yn enw'r plasty bychan *Tre-gib* ger Llandeilo. Awgryma MR fod gwely'r nant *Cib* sydd yn llifo gerllaw *Tre-gib* wedi atgoffa'r sawl a'i henwodd o gawg yn dal dŵr y ffrwd (*EGT*, 112). Ar y llaw arall, gellir awgrymu mai'r eg. un. *cibyn*, sef 'plisgyn' neu 'goden', sydd yn yr enw ym mhlwyf Llanbeblig. Y ddadl yn erbyn yr awgrym hwn yw y byddai'n rhyfedd cael yr unigol gyda rhywbeth fel 'cibau' lle ceir llawer ohonynt gyda'i gilydd fel rheol. Mwy naturiol fyddai'r lluosog fel ag a welir yn *Pwll-y-cibau* nid nepell o Lanfair Talhaearn. Ond wedi dweud hynny, ceir ffurfiau unigol tebyg yn *Maes-y-geirchen* ger Bangor<sup>1</sup>, ac yn *Copa Heidden* (gweler isod dan Gacau Llandwrog), lle byddid wedi disgwyl cael *ceirch* a *haidd*.

Cymhlethwyd enw *Cibyn* trwy ychwanegu yn gynnar ato y gair Saes. *moor*. Mae'n amlwg oddi wrth y lleoliad mai estyniad o'r rhos gerllaw yn *Rhosbodruall* yw'r *moor* y cyfeirir ato. Mewn ymgais i gymreigio'r cyfuniad dwyieithog hwn trodd yr enw yn *Kibbin y Mwr* (1810). Yn ddiweddarach ceisiwyd ei resymoli neu ei gymreigio ymhellach a chafwyd *mur* yn hytrach na *mwr*, ond mae'n hollol bosib fod yr ystyr wreiddiol wedi mynd yn angof erbyn hynny. Cafwyd un enghraifft o geisio cael gwared o'r cymysgu rhwng *mur* a *mwr* drwy gynnig *mawr* yn 1818.

Mae ystyr arall hefyd i *kebyn* / *cibyn*, sef mesur o hanner bwsiel, ond mae hynny'n gwneud llai byth o synnwyr yn y cyd-destun.

**Cil-y-llidiart**

**Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Cil Llidiart</i>	1832	Rumsey Wms	1027
<i>Cil Llidiart</i>	1835	Cof. Ethol.	
<i>Cil y Llidiart</i>	1840	Ll&Brynodol	D966
<i>Cil y Llidiart</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cily llidiart</i>	1853	Bangor	8555
<i>Cil y llidiart</i>	1878	Bangor	8555

***cil*, *y*, *llidiart***

Ni lwyddwyd i'w leoli ac eithrio ei fod yn Waunfawr.

**Cocsidia**

**Llanbeblig**

**SH 4861**

<i>Cocksidie</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Cocksidia</i>	1665	Ll&Brynodol	D839
<i>Cocksidia</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Cock sidia</i>	1774	XQA/LT 6/6	XQA/LT 6/6
<i>Cock Sidia</i>	1776/9	Vaynol	4054
<i>Cocsidia</i>	1778	Bangor	572
<i>cock sida</i>	1779	XQA/LT 6/6	XQA/LT 6/6
<i>Cocksidia</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Coxsidiau</i>	1788	OK	167
<i>Cocksidia</i>	1798-9	Vaynol	4059
<i>Cocksidea</i>	1807	XQA/LT 6/6	XQA/LT 6/6
<i>Cocksidia</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Cock Sidia</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Cocksidie</i>	1832	Vaynol	133

<sup>1</sup> Fodd bynnag, dangosodd MR mai *Maes y Ceirchiau* oedd enw gwreiddiol y lle hwn (*TCHSG*, 52-3 (1991-2), 17).

<i>Coehsidid</i>	1833	Rumsey Wms	1034-5
<i>Cocksidia</i>	1836	Rumsey Wms	1072-3
<i>Cocksidia</i>	1836	Bangor	5302
<i>Cocsidia</i>	1837	Vaynol	137
<i>Coxidia</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Coridia</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cogsidid</i>	1853	EwBangor	B1853/121 18446
<i>Cock Sidia</i>	1867-8	Bangor	
<i>Cocksidia</i>	1869	Vaynol	982/3
<i>Cocksiddid</i>	1874	Worrall	209
<i>Cocksiddid</i>	1876	Cassey	226
<i>Cocksidia</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Cocksidia</i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Cocksidia</i>	1901	Vaynol	293
'part of <i>Cocksidia</i> or <i>Murian</i> '	1904	Bangor	f33976

### *cocsut/ cocsid, llu. cocsidiau*

Mae'r enw hwn a'r annedd bellach wedi eu colli, ond lleolid yr annedd ar gyrion tref Caernarfon ar ochr dde Ffordd Pont Saint wrth fynd o Gaernarfon i Bontnewydd yng nghyffiniau stad dai Parc Muriau heddiw<sup>1</sup>. Ffurf luosog yr eg. un. *cocsut* sydd yma, er nad yw *GPC* yn cynnig unrhyw ffurf luosog. Er mai *cocsit* yw'r ffurf un. amlaf yn AMR, cofnodir ffurfiau un. megis *Cae-cocsied* yn Llangrallo. *Cae-cocsyd* yn Y Waun, a *Cocsid* yng Nghasnewydd sydd yn tystio i ffurf un. â'r terfyniad *-d* a fyddai'n rhoi'r llu. *cocsidiau* > *cocsidia* ar lafar. Cofnod 1788 yw'r unig un i gadw'r terfyniad llu.llawn. Benthyciad ydyw o'r Saes. *cockshoot*, sef llannerch goed lle delid cyffyllogod neu adar eraill. Llannerch naturiol oedd y *cockshoot*, yn aml iawn o goed derw, tra mai *cockroad* oedd yr enw am lannerch wedi ei chreu'n arbennig i ddal yr adar (*EFN*, 77). Yn Arfon ceir *Bryn-cocksydd* ym mharc Glynllifon, Llandwrog q.v., a *Chloddfa-cocsith* yn chwarel y Cilgwyn (*TCHSG*, (2001), 84). Mae AMR yn nodi nifer fawr o e.lleoedd yn cynnwys ffurf unigol yr enw ond hon yw'r unig enghraifft a welwyd hyd yn hyn o'r ffurf luosog mewn e.lle. Gweler hefyd *PNPem*. 546; *PNEF* 347; *PNDPH* 213. Ceir sawl enghraifft o *cockshut / cockshot* mewn e.lleoedd yn Lloegr (*EFND*, 49-50).

Coed-Alun / Coed-Helen	Llanbeblig		SH 4762
<i>Maynawr Coet Alun</i>	13g	<i>PKM</i>	72, 262
<i>Coytalen</i>	1353	<i>BBCS</i>	IX, 243
<i>Coydalen</i>	1378	<i>CCR</i>	114
<i>coyd aleyn</i>	1388/9	Baron Hill	3160
<i>Kenalem</i>	1550	<i>Rec.C.Aug.</i>	273
<i>coied alen</i>	1554/5	Wynnstay	67/174
<i>Keuddalleu</i>	1590	Ll&Brynodol	D938
<i>Kondallen</i>	1590	<i>Rec.C.Aug.</i>	284
<i>Coedalen</i>	1610	ERD	17
<i>Kendallen</i>	1610	Plas Coch	3033
<i>Coed Alyn</i>	1613	ERD	20
<i>Coed Allen</i>	1623-4	<i>Ex. P.J.</i>	84
<i>Coedalen</i>	1644	ERD	36
<i>Coed Alin / Coed Alyn</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Coedallin</i>	1669/70	EwBangor	B1669/73
<i>Coedallen</i>	1671	ERD	50
<i>Coydallai / Coydallin</i>	1671/2	Ll&Brynodol	R149

<sup>1</sup> Enwyd Parc Muriau ar ôl tŷ o'r enw Muriau gerllaw. Dyma'r 'Murian' y cyfeirir ato yng nghofnod 1904.

<i>Coed Allen</i>	1715	Tynygongl	296
<i>Coed Allen alias Iseallen</i>	1716	ERD	71
<i>Coydalen</i>	1720	Ll&Brynodol	D345
<i>Coed Alen</i>	1724-5	Ll&Brynodol	D351-2
<i>Coed allen alias Isallen</i>	1729	ERD	80
<i>Coed Alen o. Coed Helen</i>	1740	Coed Helen	14-15
<i>Coed Alin</i>	1761	Ll&Brynodol	D652
<i>Coed Alen</i>	1761	Ll&Brynodol	D653-4
<i>Coed allen alias Issallen</i>	1762	ERD	87
<i>Coedalen</i>	1764	EwBangor	B1764/92 2604
<i>Coedalen otherwise Coed Helen</i>	1770	Ll&Brynodol	D657-8
<i>Coed Helen</i>	1770	Rumsey Wms	147
<i>Coedalen</i>	1770	Cynhaiarn	470-1
<i>Coed Helen</i>	1774	AI Pryce	705
<i>Coedhelen</i>	1775	Coed Helen	37
<i>Coedalun</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Coed Alin</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Coedalen</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Coed Helen</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Coedhelen</i>	1788	OK	165
<i>Coedhelan</i>	1788	OK	169, 171, 173, 175
<i>Coedelan / Coedelen</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Coedhelen</i>	1789	AI Pryce	730
<i>Coed helen</i>	1795	Rumsey Wms	148
<i>Coed Helen</i>	1799	Myn.Llb.	B391
<i>Coed Helen</i>	1809-11	<i>Des. Caerns.</i>	187
<i>Coed alun otherwise Coed Helen</i>	1812	Coed Helen	85
<i>Coedalin alias Coedhelen</i>	1812	Plas Coch	3166
<i>Coedhellin</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Coedhelen</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Coedhelen</i>	1838	Map OS	78
<i>Coed Helen</i>	1840	Coed Helen	125
<i>Coed Helen</i>	1841	RhPDeqwm	
<i>Coedhelen</i>	1841	Nanhoron	805
<i>Coedholen</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Coed Helen</i>	1867-8	Bangor	8555
<i>Coed-Helen</i>	1919	Map OS	XV N.E.
<i>Coed Helen</i>	1920	LI.LI.J	1
<i>Coed Helen</i>	1934-5	C.Vincent	2075
<i>Coed-Helen</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Coed Helen</i>	2004	Map PSA	

***coed, e.p. Alun/Helen***

Mae tir stad *Coed-Helen* gyferbyn â'r Cei Llechi yng Nghaernarfon ar draws aber yr afon Saint, ond *Coed-Alun* yw'r enw ar lafar. Ffurf gynharaf yr ail elfen yw *Alun*, er mai amrywiadau ar *Alen* fu'r sillafiad am ganrifoedd. Tua chanol y 18g gwelir yr elfen *Helen* yn dechrau disodli *Alun*, yn ddiau dan ddylanwad y traddodiadau a dyfodd am gysylltiad Elen Luyddog a Maccsen Wledig â thref Caernarfon. Dywed T. Hudson-Williams: '...gymaint oedd clod Elen fel y newidiodd rhyw gnaf enw *Coed Alun* a geir yn y *Mabinogi* a'i droi yn *Coed Helen*, enw swyddogol yr ystad heddiw; ond *Coed Alun* a ddywed pobl y dref' (AAG, 10).

Mae'r enw *Alun* yn ddiau yn tarddu o'r gwraidd Celtaeg *Alaun*: yr oedd duw Celtaidd o'r enw *Alaunos* (*ELleoedd*, 46-7). Sylwodd Syr Ifor Williams fod *Coed Alun* yn cyfateb yn hollol i'r *Alauna Silva* y cyfeirir ati ym Myd-ddarlun Ravenna yn y 7g. (*ELleoedd*, 47). Ceir afon *Alun* yn Sir Ddinbych a Morgannwg, ac afon *Alun / Alan* yn Nhyddewi (AMR), ac yn Lloegr a'r Alban hefyd ceir yr afonydd *Aln*, *Ayle*, *Allen* ac *Allan* (*CODEPN*, 7; *PNPen*, 3). Fodd bynnag,

yr unig afon heddiw yng nghyffiniau *Coed-Alun* yw'r Saint. Yn ddiâu *Coed-Alun* sydd dan sylw yn y cyfeiriad at *Keuddalleu* ar yr afon *Sainte* yn 1590 (Ll&Brynodol D938), y cyfeiriad at dair cored o'r enw *Kenalem* yn 1550 (*Rec. C. Aug.* 273) a nodir fel *Kondallen* yn 1590 (*ibid.* 284), ac at dri phwll neu dair cored ar yr afon Saint o'r enw *Kendallen* yn 1610 (Plas Coch, 3033). Cyfeirir atynt eto yn 1623/4 fel 'brooks or weares called Coed Allen lying in the river of Saint' (*Ex. P. J.* 84).

Er y cyfeirir at *Goed-Alun* ac *Isalun* fel pe baent yr un lle yn 1716 a 1729, mae *Isalun* neu *Ishelen* yn annedd ar wahân (q.v.). Am ddisgrifiad o blas *Coed-Helen* gweler *IAMC*, 158.

Coed-marian	Llanbeblig	SH 4962
<i>Coed Marrion</i>	1569	P.S.Peniarth DC25
<i>Coed Marrion</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Coyd Morion</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Coed mariwn</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Coed mariwn</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Coed y Marrian</i>	1776-9	Vaynol 4054
<i>Coed mariwn</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Coed Marrion</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Coed morwn</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Coed y Marrian / Coed y Marian</i>	1788	Bangor 572
<i>Coed y Marian</i>	1790	EwBangor B1815/88 10975
<i>Coedmorwn</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Coed y Marian</i>	1798-9	Vaynol 4059
<i>Coed y marian</i>	1799	Vaynol 3751
<i>Coedmarion</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Coed Marion</i>	1810/11	Vaynol 4063
<i>Coed y marian</i>	1811	Rumsey Wms 2576
<i>Coed-y-marian</i>	1815	EwBangor B1815/88 10975
<i>Coed y marion</i>	1824	P. yr Aur 4058
<i>Coed y marian</i>	1827	Bangor 8554
<i>Coedymarion</i>	1836	Bangor 5302
<i>Coed-y-marian</i>	1838	Map OS 78
<i>Coed y Marian</i>	1855	Myn.Llb. G196
<i>Coedymarion</i>	1869	Vaynol 981
<i>Coed y marian</i>	1869	Bangor 133975
<i>Coedmarion</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Coed-marian</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Coedmarian</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Ffordd Coed Marion</i>	2000	CCPost

### **coed, y, marian**

Mae'r annedd hwn ar gyrion Caernarfon bellach wedi ei lyncu gan stad ddiwydiannol Cibyn, ond coffeir yr enw yn *Ffordd Coed Marion* ar y safle. Ystyr arferol *marian* yw 'cerrig mân', ac mae'n debyg mai dyma'r ystyr yn yr achos hwn. Gall olygu 'traeth graeanog', ac fe'i ceir mewn e.lleoedd ym Môn yn arbennig, e.e. *Marian-glas*. Gall hefyd gyfeirio at gerrig bras ar ochr mynydd: 'scree slope', ac mae Tomos Roberts yn cynnig mai benthyciad o bosib o'r Sacs. *moraine* sydd yma (*ADG2*, 65). Ceir cryn ymgynnewid rhwng y ffurfiau *marian* a *marion* yn achos *Coed-marian*, gyda *marion* yn fwy arferol ar lafar (gwybodaeth bersonol). Mae *GPC* yn cadarnhau fod y ffurf *marion* yn digwydd ar lafar yn Arfon, ac mae cofnod o'r ffurf hon hefyd yn 1798 yn *Ffridd gwaen y marion* yn Nwygyfylchi (*AMR*). Mae'n anodd esbonio'r ffurfiau *mariwn* a *morwn* a geir yn yr ATT ar ddiwedd y 18g.

<b>Coed-mawr</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4963</b>
<i>Coed mawr</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Coed mawr</i>	1658	Thorowgood 27
<i>Coed mawr</i>	1694	Thorowgood 10
<i>Coed Mawr</i>	1696	Dinam Hall 204
<i>Coed Mawr</i>	1715	Thorowgood 65
<i>Coed mawr</i>	1756	Thorowgood 46
<i>Coedmawr</i>	1771	Rumsey Wms 2544-5
<i>Coed Mawr</i>	1783	P. yr Aur 4048
<i>Coedmawr</i>	1793	Poole 3055
<i>Coed Mawr</i>	1795	Rumsey Wms 79, 80
<i>Coed Mawr</i>	1796	C.Vincent 2201
<i>Coedmawr</i>	1799	Cynhaiarn B111
<i>Coedmawr</i>	1819	C.Vincent 2204
<i>Coed Mawr</i>	1820	Rumsey Wms 87
<i>Coedmawr</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Coed Mawr</i>	1824	Myn.Llb. C190
<i>Coed-mawr</i>	1838	Map OS 78
<i>Coed mawr</i>	1841	RhPDegwm
<i>Coed Mawr</i>	1874	Worrall 209
<i>Coedmawr</i>	1879	DWms 2
<i>Coedmawr Cottage</i>	1888	Myn. Llb. E036
<i>Coed-mawr</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Coed-mawr</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Coed Mawr</i>	2002	Map OS Explorer OL17

***coed, mawr***

Ar y chwith i'r A4086 yn ardal Rhosbodruall wrth fynd o Gaernarfon tuag at Bont-rug.

<b>Collfryn</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Collfryn</i>	1835	Cof. Ethol.
<i>Collfryn</i>	1836	Rumsey Wms 1069
<i>Collfryn</i>	1841	RhPDegwm
<i>Collfryd</i>	1890-1	Bangor 8560
<i>Collfryn/ Collfryn-isaf</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Collfryn</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

***collfryn***

Yng nghanol pentref Waunfawr wrth fynd i gyfeiriad Groeslon Waunfawr. Enw cyfansawdd sydd yma: *coll*, sef enw torfol am lwyni o goed cyll neu goed cnau + *bryn*, wedi ei dreiglo'n feddal ar ddechrau ail elfen gair cyfansawdd. Ceir camgopio yng nghofnodion 1841 ac 1890-1. Mae'r enw yn digwydd hefyd ym mhlwyf Llandwrog (q.v.).

<b>Croesywaun</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Troys y Wyen bach</i>	1541	Vaynol 1392
<i>Croys y Wern Vawr</i>	1544	Vaynol 1401
<i>Croys y Wyen vawr</i>	1564	Vaynol 1410
<i>Croise y Weyrne Vawr</i>	1599	Vaynol 1419
<i>Croes y Weyn</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Croes y weyn</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Groes y weyn</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Groes y Wain</i>	1783	P. yr Aur 4058



<i>Croes y Waen</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Croes y Weyne</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Ygroeswen</i>	c.1795	JE/C&A	
<i>Croes y Wain</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Crous y Wain</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Croeswaen</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Croes wein</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Croswain</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Croes y waun</i>	1813	Rumsey Wms	517
<i>Croes y Wean</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Grosywaen</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Croes y Waen</i>	1827	Myn.Llb.	C188
<i>Croes y waun</i>	1831	Bangor	8554
<i>Croes y Wern</i>	1835	Rumsey Wms	534, 535
<i>Croes y Waun</i>	1836	Rumsey Wms	116
<i>Crossywaun</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Croes y Waun</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Crosywaen</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Croes-y-waen</i> (ardal)	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Croesywaen</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Croesywaun</i> (ardal)	2002	Map OS	Explorer OL17

### ***croes, y, gwaun***

Dyma bellach enw rhan gyntaf pentref Waunfawr wrth ddod o Gaeathro ar yr A4085, ond mae'n amlwg fod annedd o'r un enw yno ar un adeg. Gellid tybio mai elfen gyntaf yr enw yw *croes* yn yr ystyr o 'groesffordd', ond mae cofnod 1599 yn cyfeirio at diroedd 'on both sides of the Crosse called Croise y Weyrne Vawr'. Ai croesffordd a olygir yma hefyd neu a oedd yma groes o bren neu garreg ar un adeg? Defnyddid croesau gynt i ddynodi ffin, a gall yr elfen gael yr ystyr hon mewn e.lle ambell waith (*ADG*, 31; *ADG2*, 49). Mae'n ddiddorol gweld mai'r '*Wern Vawr*' sydd yng nghofnod 1544 a 1599, a bod y '*Wern*' yn ailymddangos yng nghofnod 1835. Gweler hefyd y cofnod ar *Waunfawr*.

<b>Cwellyn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Quellyn 'farm'</i>	1831	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Quellyn</i>	1835	Pigot 690
<i>Quellyn Farm</i>	1835	Cof. Ethol.
<i>Quellyn farm</i>	1837	Rumsey Wms 599
<i>Cwellyn</i>	1838	Map OS 78
<i>Cawellyn</i>	1841	RhPDegwm
<i>Quellin</i>	1841	Robson 9
<i>Quellyn</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Quellyn</i>	1854	Wood
<i>Cawellyn</i>	1859	Bangor 4081
<i>Quellyn</i>	1869	Coed Helen 166
<i>Quellyn</i>	1919	Map OS
<i>Cwellyn</i>	1960	Map OS

### ***cawell, llyn?***

Saif y tŷ o'r enw *Cwellyn* hyd heddiw ar y chwith i'r A4086 uwchlaw afon Cadnant ar gyrion Caernarfon wrth fynd i gyfeiriad Rhosbodrual. Mae J.Lloyd-Jones yn tarddu'r enw'n ddibetrus o *cawell + llyn* (*ELISG*, 51, 61), felly hefyd *EEryri*, 142. Efallai mai llyn yn afon Cadnant ar ffurf cawell a olygir, neu gallai gyfeirio at gawell a osodwyd yn y llyn i ddal pysgod. Fodd bynnag, mae'n bosib fod yr annedd wedi cael ei enwi ar ôl yr annedd Cwellyn

neu Lyn Cwellyn ym Metws Garmon. Am y *Cwellyn* ger Llyn Cwellyn ac ymdriniaeth bellach o'r enw gweler dan Anheddau Llanwnda.

<b>Cyrnant</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5258</b>
<i>Crynant</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Crynnant</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynant</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynant</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crunant</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynnant</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Crunant</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Crynnant</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynant</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynnant</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84(56)
<i>Cryn nant</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Cyrnant</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Crynant</i>	1788	OK 178
<i>Crynnant</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Crynant</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynnant</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Tyddyn y Gyrnant</i>	c. 1795	Ll&Brynodol M187
<i>Curnant</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Crynant</i>	1810	CyGTan
<i>Curnant</i>	1811	ATT GAG XQA/LT 5/5
<i>Craunant Lodge / Pont y Craunant</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1, D4
<i>Crynnant</i>	1834	Bangor 8554
<i>Cyrnant Lodge</i>	1841	RhPDegwm
<i>Caernant Lodge</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cornant Lodge</i>	1855	EwBangor B1855/139 18969
<i>Cyrnant Lodge</i>	1859	Bangor 4081
<i>Cyrnant/Coed Cyrnant/Pont Cyrnant</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Cyrnant</i>	1960	LW 23, 122, 132–3
<i>Cyrnant/CyrnantLodge/Plas Cyrnant</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

#### ***cyrnant /crynant?***

Mae *Cyrnant* a *Choed Cyrnant* rhwng afon Gwyrfai a Rheilffordd Eryri a'r lôn gul sydd yn arwain o gyffiniau gorsaf Rheilffordd Eryri yn Waunfawr dros Fraich Moel Smytho i Rosgadfan. Rhestrir *Cyrnant* ei hun hefyd dan blwyf Llanwnda yn ATT. Mae *Pont Cyrnant* yn croesi afon Gwyrfai ar gyrion deheuol Waunfawr. Mae'n anodd esbonio tarddiad yr enw. Bellach y ffurf arferol yw *Cyrnant*, a fyddai'n awgrymu *cwr* + *nant*, ond mae cofnodion cynharach yn rhoi *Crynant*. Mae'n bosibl fod rhywfaint o gymysgu wedi digwydd â'r gair *cornant*, sef *nant* fechan. Rhestrir '*Gweirglodd y Crunnant*' ar dir Garreg Fawr yn 1714, a honnir mai enw ar afon oedd *Curnant* neu *Crunnant* gynt<sup>1</sup>. Gwelir ymgais i resymoli'r enw yng nghofnodion 1816–20, 1851 a 1855.

<b>Dolyfelin</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>dôl y felyn</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Dol y felin</i>	1795	NewGlynllifon XD2 / 6443
<i>Dolyfelin</i>	1796	NewGlynllifon XD2 / 6614
<i>Dolyfelin</i>	1799	NewGlynllifon XD2 / 6442

<sup>1</sup> Glenys Jones Walters, *TCHSG*, 63, (2002), 9–15. Gweler cyfeiriad pellach at yr erthygl hon dan *Garreg-fawr* isod.

<i>Dol y Felin</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 7871
<i>Dôl y Felin</i>	c. 1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Dolfelin / Dolyfelin</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Dolfelinseiont</i>	1847	Bangor	3906
<i>Dolyfelin Seiont</i>	1855	Bangor	3932
<i>Dolfelyn</i>	1859	Bangor	4081
<i>Dolyfelin Seiont</i>	1880	NewGlynllifon	XD2 / 6455

### ***dôl, y, melin***

Mae map y Degwm yn nodi'r annedd hwn ger y llecyn lle mae'r Parc Cyhoeddus heddiw ar gyrion Caernarfon, tra bo cofnod c.1815 yn nodi ei fod ar y Morfa. Er mai'r tir uwchlaw y Parc a elwir bellach wrth yr enw Morfa, yr oedd y Morfa gynt wedi ei rannu yn Forfa-isaf a Morfa-uchaf. Byddai'r annedd hwn ar y rhan isaf, nid nepell o'r fan lle mae'r gwaith bries heddiw. Ceir nodyn mewn pensil wrth gofnod 1859 yn dweud 'or Penymorfa', sydd yn awgrymu ei fod ar ben eithaf y Morfa., ac mae cofnodion 1847 a 1880 hefyd yn dangos ei fod ar yr afon Saint.

### **Dôl-y-llyn-du**

### **Llanbeblig**

### **SH 4861**

<i>Dol llyndu</i>	1808	AlPryce	805
<i>Doly llyndu</i>	1827	Rumsey Wms	2614
<i>Dolyllyndue</i>	1828	JTR	19
<i>Llyn Du</i>	1950	AAG	50, 57

### ***dôl, y, llyn, du***

Disgrifir yr annedd hwn yng nghyd-destun cofnod 1827 fel fferm ger Pont Saint ar gyrion Caernarfon. Mae cofnod 1828 hefyd yn ei leoli ger Pont Saint, ac mae cyd-destun hwn yn rhoi enw arall iddo yn ogystal, sef *The Rifleman's Arms* (q.v.), sydd yn awgrymu ei fod yn dafarn. Nid oes annedd o'r naill enw na'r llall yno heddiw. Rhan araf o afon Saint yw'r *Llyn Du*. Sonia'r Athro T. Hudson-Williams am hogiau'r dref yn mynd yno i nofio (AAG, 50, 57).

### **Dôl-y-pandy**

### **Llanbeblig**

### **SH 4859**

<i>Dole y pandy</i>	1698	Coleman	D.D. 1034
<i>gwern Dol y pandy</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwern Dol y Pandy</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Dol y Pandy</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Dol y pandu</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Dolpandŷ</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Dolupandu</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Dolywandu</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Dol y pandu</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pandy alias Dol y Pandy</i>	1890	Vaynol	2118
<i>Dôl-y-pandy</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Dôl-y-pandy</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Dol Pandy Farm</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

### ***dôl, y, pandy***

Ar afon Gwyrfaï nid nepell o ganol pentref Bontnewydd. Y pandy oedd yr adeilad lle curid y defnydd er mwyn ei lanhau a'i dewhau<sup>1</sup>. Mae map Dawson 1816–20 yn nodi annedd o'r enw *Pandy* gerllaw, felly hefyd fap OS 1838, ac ar fap OS 1919 nodir bod ffatri wlân yn bur agos<sup>2</sup>. Mae'n amlwg mai camgopïo sydd yng nghofnod 1824. Rhaid amau nad yr un lle yw'r un a

<sup>1</sup> Am ddisgrifiad llawn o'r broses bannu gweler *CEithin*, 91–2.

<sup>2</sup> Gellir gweld yr adeilad hwn hyd heddiw.

restrir yn ATT yn y 1770au gan fod hwnnw yn nhrefgordd Treflan, tra byddai'r un ym Montnewydd yn ddiâu yn nhrefgordd Castellmai.

<b>Erw-Gynrig</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4960</b>
<i>Erw Cynrug</i>	1836	Bangor 5302
<i>Erw Gunric</i>	1841	RhPDegwm
<i>Erwgynhrig</i>	1847	Bangor 3906
<i>Erw</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Erwgynrhyg</i>	1855	Bangor 3932
<i>Erw Cynrug</i>	1869	Bangor f33975
<i>Erw Cynrug</i>	1890	Vaynol 2118
<i>Erw, Caeathro</i>	1904	Myn.Llb. J109
<i>Erw</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Erw</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Erw Cottage</i>	2000	CCPost (Caeathro)

**erw, e.p.Cynrig**

Mae map y Degwm yn dangos mai'r un lle yw *Erw-Gynrig* â'r annedd y cyfeirir ato ar y mapiau OS yn syml fel *Erw*, a'i fod wedi ei leoli oddi ar y lôn sydd yn mynd rhwng Bontnewydd a Chaeathro. Elfennau'r enw yw *erw* + yr e.p. *Cynrig* neu *Cynwrig*; cf. *Cefn-Cynrig*, Llanfair-is-gaer. Yn 1442 ceir cyfeiriad at annedd o'r enw *Tythyn yr Hen Erw* yn nhrefgordd Rhuddallt (P.S. Peniarth, DC 6), ond ni ellir profi mai'r un lle oedd hwn.

<b>Feiston</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4762</b>
<i>Glan y Veiston</i> (Llf.)	1700–01	Ll&Brynodol D1178
<i>Tyddyn y Veiston</i> (Llb.)	1722	NewGlynllifon XD2 / 6488
<i>Y Feiston</i> (Llb.)	1740	Coed Helen 14–15
<i>Feistdon</i> (Llb.)	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Feistdon</i> (Llf.)	1770	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Vieston</i> (Llf.)	1771	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Fiston</i> (Llb.)	1772	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Viston</i> (Llb.)	1773	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Feieston</i> (Llf.)	1773	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Glan y Veiston</i> (Llf.)	1773	NewGlynllifon XD2 / 6733
<i>Veiston</i> (Llb.)	1775	Plas Coch 3143
<i>Feiston</i> (Llb.)	1778	Coed Helen 38–9
<i>Vaeston</i> (Llf.)	1783	P. yr Aur 4058
<i>Vaston</i> (Llb.)	1788	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Veiston</i> (Llb.)	1790	Henllys 1183
<i>Neiston</i> (Llb.)	1795	Poole 3797
<i>Feiston</i>	1812	Coed Helen 85
<i>Feiston</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081. D1
<i>Feiston</i> (Llf.)	1820	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Vayston</i> (Llb.)	1821	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Faeston</i> (Llf.)	1822	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Feiston</i> (Llb.)	1824	P. yr Aur 4098
<i>Foesdon</i> (Llf.)	1826	ATT GAG XQA/LT 6/11
<i>Vieston</i> (Llb.)	1827	Bangor 8554
<i>Feistdon</i> (Llf.)	1831	Bangor 8554
<i>Vieston</i>	1849	Coed Helen 172
<i>Feiston</i> (Llf.)	1852	Bangor 8555
<i>Feiston</i> (Llb.)	1867/8	Bangor 8555
<i>Fiston</i> (Llf.)	1878	Bangor 8555

<i>Feiston</i> (Llf.)	1890–1	Bangor	8560
<i>Feiston</i> (Llf.)	1930–1	Bangor	8592

**y, *beiston***

Mae map Robert Dawson (1816–20) yn lleoli'r annedd hwn oddi ar y lôn sydd yn mynd hyd lannau afon Menai, nid nepell o aber afon Saint yng Nghaernarfon. Defnyddir *beiston* yn Arfon a Môn am y rhimyn o dir glas rhwng y gorllanw a'r tir sydd wedi ei drin (*BBCS*, IV, 343), cf. *Tan-y-feisdon* yn Ninas Dinlle (Map OS 1891). *Cae feistwn* yn Lleiniau. Llanwnda (RhPDegwm), *Cae Feiston* ym Mryntrefeilir. Llandwrog (RhPDegwm). a *Feisdon* a *Feisdon Bach* yn Nhrefdraeth, Môn (pers. comm.<sup>1</sup>)<sup>2</sup>. Mewn gwahanol ffynonellau rhestrir *Feisdon* dan blwyf Llanbeblig (Llb.) a phlwyf Llanfaglan (Llf.), felly mae'n debyg ei fod wedi ei leoli ar ffin y ddau blwyf hyn. Pan fo'n bosibl nodir uchod y plwyf y cofnodwyd *Feisdon* ynddo bob tro.

<b>Foundry</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>	
<i>Foundary</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Ffowndri Morfa</i>	1950	AAG	21

**Saes. *foundry***

Yr c. Saes. *foundry* sydd yma, sef todd-dy lle gwneir gwaith metel. Lleolid y gwaith hwn yng nghyffiniau'r fan lle mae'r Parc Cyhoeddus heddiw ar lannau afon Saint ar gyrion Caernarfon. Dywed T. Hudson-Williams yr arferid cynhyrchu llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion yno (AAG, 21). Mae'n debyg mai hwn oedd Roberts, Griffiths & Co., Glanmorva Slate Works sydd yn hysbysebu eu 'writing slates' yn 1874<sup>3</sup> (Worrall, 77, 218). Cyfeirir hefyd ato fel 'Seiont Foundry' ar fap Degwm 1841.

<b>Four Crosses</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>	
<i>Four Crosses</i>	1833	Rumsey Wms	727
<i>Four Crosses</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Four crosser or Waen</i>	1847	Bangor	3906
<i>Four Crosses</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Four Crosses</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**Saes. *four*, Saes. *cross*, llu. *crosses***

Ar y ffordd allan o Waunfawr i gyfeiriad Ceunant. Mae'n enw Saes. eithaf cyffredin yng Nghymru; cf. Y Ffôr ger Pwllheli, a'r groesffordd a'r dafarn ar gyrion Porthaethwy, Môn. Yr ystyr yw croesffordd.

<b>Fron-goch</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4760</b>	
<i>Fron-gôch</i>	1838	Map OS	78
<i>Fron goch</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Frongoch</i>	1844	Ll&Brynodol	D526
<i>Vron Coch</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Fron Gouch</i>	1859	Bangor	4081
<i>Fron goch</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Fron-gôch</i>	1920	Map OS	XV N.E.

<sup>1</sup> 'Rwy'n ddiolchgar i Mr Tomos Roberts, Llangejni, am dynnu fy sylw at yr enwau ym Môn.

<sup>2</sup> Cf. 'Onid allai'r fad felen, a ddifethodd Faelgwn Gwynedd, eich lladd chwithau ar y *feiston*'. *Bardd Cwsg*, 67.

<sup>3</sup> 'Orders forwarded by Sea and Land to all parts of the World', (Worrall, 77)

*Fron Goch* 2000 CCPost

**bron, coch**

Ar y chwith ar Lôn Pant wrth fynd o Bont Saint yng Nghaernarfon i gyferiad pentrefan Llanfaglan. Mae canolfan arddio fawr ar y safle heddiw.

<b>Fron-llwyd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>
<i>Vron llwyd</i>	1841	RhPDegwm
<i>Fronllwyd</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Vron llwyd</i>	1859	Bangor 4081
<i>Fron-lwyd</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Fronllwyd</i>	1959	CA 146
<i>Fron Llwyd</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

**bron, llwyd**

Ar y lôn sydd yn arwain o ardal Groeslon Waunfawr i gyfeiriad Ceunant. Dyma hen gartref John Owen Griffith (Ioan Arfon), 1828–81, y bardd a'r beirniad (*Byw.* 276). Ellennau'r enw yw *bron*, eb. un. wedi ei dreiglo'n feddal ar ôl y fannod a gollwyd + yr ans. *llwyd*. Sylwer, fodd bynnag, yn wahanol i *Fron-goch* uchod, ym mwyafrif y cofnodion ni threiglir yr ans. *llwyd* ar ôl yr eb. un. Mae'n debyg mai'r rheswm dros hyn yw fod yr enw yn taro'r glust fel gair cyfansawdd ac mae tuedd i galedu'r ail gytsain pan geir y cyfuniad *n + l*; cf. *Henllan, gwinllan, tanllwyth* (*TC*, 27–8).

<b>Gadlas / Tyn-gadlas</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5359</b>
<i>Gadlas</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyn y Gadlas</i>	1853	Bangor 8555
<i>Gadlas</i>	1859	Bangor 4081
<i>Tynygadlas</i>	1878	Bangor 8555
<i>Tyddyn Gadlas</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Tyn Gadlas</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

**cadlas**

Mae *Tyn-gadlas* ar gyrion gogleddol Waunfawr. Rhaid tybio mai'r un lle yw hwn â *Gadlas*. Eb.un. yw *cadlas* wedi ei dreiglo'n feddal ar ôl y fannod a gollwyd. Mae sawl ystyr iddo: llannerch, gardd, buarth, ydlan. Yr ystyr fwyaf cyffredin yw 'buarth' neu 'iard' (*CB Amaeth*, 1. 161).

<b>Gallt-y-sil / Coed-sil</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Gallt y Sill</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Gallt y Sill</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Gallt y Shill</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Gallt y Shill</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Galltysil</i>	1788	OK 172
<i>Gallt y Sil</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Gallt y Sil</i>	1827	Bangor 8554
<i>Gallt y Sil</i>	1841	RhPDegwm
<i>Galltysil</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Gallt y cil</i>	1869	Bangor f33975
<i>Galltsil</i>	1869	Vaynol 979
<i>Gallt y Sil</i>	1890–1	Bangor
<i>Galltzel</i>	1904	Bangor
<i>Gallt-y-Sil Farm</i>	2002	Map OS Explorer OL17

<i>Gallt y Sil</i> (ffordd mewn stad o dai)	2004	Map PSA	
<i>Coedzill</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Coedzill</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Coedzil</i>	1836	Bangor	5302

***gallt, coed, y, e.p. Sill / Syll, sil***

Ar y dde ar yr A4085 cyn cyrraedd Pont Peblig wrth fynd o Gaernarfon i gyfeiriad Caeathro. Ar un adeg yr oedd yma fferm ac ysbyty clefydau heintus o'r un enw ac yn awr mae stad fechan o dai o'r un enw ar y safle.

Yn ôl *GPC* un ystyr i *sil* yw pysgod ieuainc, yn enwedig eogiaid neu frithyllod<sup>1</sup>. Gallai'r elfen *sil* gyfeirio yma at bysgod gan fod *Gallt y-sil* yn agos iawn at afon Saint ac mae gallt yn mynd i lawr ati. Ond gellid efallai ystyried yma yr ystyr arall a rydd *GPC* i *sil*, sef eisinyn neu gibyn, o gofio fod *Cibyn* gwta chwarter milltir i ffwrdd, os gellir derbyn mai 'codau' neu 'blisg' sydd yn yr enw hwnnw (q.v.). Cyfeiria'r Athro Gwynedd O. Pierce at enghreifftiau o *Erw'r Sill* a *Cae'r Sill* yn Ninas Powys ac mae ef yn derbyn mai 'eisin' yw'r ystyr yno (*PNDPH*, 334). Mae *Bach-y-sil* yn digwydd yn Llangelynnin; *Bryn-sil* ym Mhen-rhys, Morgannwg; a *Rhyd-sil* yn Llangoedmor, Ceredigion (AMR). Ceir dau gae hefyd ar dir Plas Dinas, Llanwnda, sef *Cae'r Sil* a *Coedgae Sil* (q.v. dan Gaeau Llanwnda).

Fodd bynnag, mae un posibilrwydd arwyddocaol arall i'r elfen *sil* yn *Gallt y-sil*. Yr oedd gwŷr o'r enw *Harri Sill* yng Nghaernarfon yn 1552 (*CCQSR*, 224), ac mae'n debyg mai ef oedd yr 'Henry Syll of Rhythallt, yeoman' a gofnodir yn 1555 (*ibid.*, 138). Ceir cyfeiriad hefyd at *Robert Sylle* a oedd yn feili yng Nghaernarfon yn 1551 (*ibid.*, 84 a passim) a chyfeiriad arall ato fel *Robert Sill* yn 1552 (P.S.Peniarth, DC 17). Mae yn bosibl mai'r e.p. hwn sydd yma gyda'r fannod o'i flaen, a byddai'r atgof am yr enw hwn efallai yn esbonio'r / ddwbl yn y cofnodion cynharach<sup>2</sup>.

Ni wyddys beth oedd *Coed-sil*, ai annedd ynteu coedlan. Mae'n ddiddorol mai z a geir yn yr enw hwn bob tro, er mai'r un elfen sydd yma, mae'n debyg, ag yng *Ngallt-y-sil*. Cofnodir un enghraifft uchod (1904) o'r z yn enw'r annedd hwnnw.

<b>Garneddwen</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>
<i>Garneddwen</i>	1805	EwBangor B1805/52 9307
<i>Carneddwen</i>	1835	Cof. Ethol.
<i>Garneddwen</i>	1841	RhPDegwm
<i>Garneddwen</i>	1846	Ll&Brynodol D527
<i>Garnedd-wen</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Garnedd Wen</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

***carnedd, gwyn, ben. gwen***

Ar gyrion Waunfawr wrth fynd tuag at Geunant. Mae cofnod 1846 yn ei ddisgrifio fel annedd a elwir hefyd yn *Trosygors* ac yn *Cae'r pant*. Elfenn gyntaf yr enw yw *carnedd*, sef pentwr o gerrig, ac mae'n debyg i'r annedd gael ei enw o'r olion hynafol a ddarganfuwyd ar y safle (*Arch. Camb.*, (1855), 178).

<b>Garreg-fawr</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5358</b>
<i>Castell Crwn</i>	1661	Gwydir (B.R.A.) 6
<i>Castell Crwn or Garreg Vawr</i>	1690	Wynnstay R8. 1690
<i>Castell Crwn als. Garreg Vawr</i>	1698	Wynnstay J1698

<sup>1</sup> Achosodd yr elfen hon gryn benbleth i MR wrth iddo drafod yr enw *Siliwen* (Bangor) yn *TCHSG*, 52 3, (1991-2), 16.

<sup>2</sup> Gweler hefyd ragair Syr Ifor Williams i *RhELL*, viii

<i>Garreg Fawr farne</i>	1714	Wynnstay	J1714
<i>Garreg Fawr</i>	1736	Wynnstay	R14, 1736
<i>Y Garregfawr</i>	1737	El. Jo.	136
<i>Y Garreg Fawr</i>	1767	Rumsey Wms	1355–6
<i>Tyddyn y garreg fawr</i>	1767	EwBangor	B1809/57 9884
<i>Gareg fawr</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Garrag fawr</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Carreg fawr</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Carregfawr</i>	c.1795	JE/C&A	
<i>Carreg fawr</i>	1803	Rumsey Wms	783
<i>Tyddyn y garreg fawr</i>	1809	EwBangor	B1809/57 9884
<i>Garagfawr</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Garreg fawr</i>	1815	EwBangor	B1815/86 10973
<i>Garregfawr</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Garregfawr</i>	1831	Bangor	8554
<i>Gareg-fawr</i>	1838	Map OS	78
<i>Gareg-fawr</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Garreg Fawr</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Garreg fawr</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

### **carreg, mawr**

Ym mhen deheuol eithaf Waunfawr, yn edrych tuag at Fetws Garmon. Enw cynnar ar yr annedd yn y lle hwn oedd *Castell Crwn*, cyfeiriad yn ddiau at y gaer gron a oedd yno gynt<sup>1</sup>. Yn ddiweddarach, yr enw oedd *Tyddyn Gruffydd ap Ieuan*. Adeiladwyd hen dŷ *Garreg-fawr* yn 1544 gan John Wyn ap Maredudd. Mae'r enw *Garreg-fawr*, yn cyfeirio at graig y tu ôl i'r tŷ (*AmgWC*, 38). Symudwyd yr hen dŷ i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan a'i ailgodi yno yn 1984, ond mae tŷ o'r un enw ar y safle gwreiddiol hyd heddiw. Mae cofnodion 1737 a 1767 yn cynnwys y fannod a barodd y treigladd meddal ar ddechrau'r enw.

### **Glanafon**

### **Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Glannafon</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Glannafon</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Glanafon</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Glanafon</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 6/8

### **glan, afon**

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn ac eithrio fod ATT yn ei restru dan drefgordd Treflan. Mae'n bosibl fod enw'r annedd wedi cael ei newid rhag cymysgu â *Glanrafon* a *Glyn Afon*.

### **Glan-Beuno**

### **Llanbeblig**

### **SH 4860**

<i>Glanbeuno</i>	1835	Cof.Ethol.	
<i>Glan-beuno</i>	1838	Map OS	78
<i>Glanbuno</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Glanbuno</i>	1859	Bangor	4081
<i>Glanbeuno</i>	1861	<i>HSThC</i>	81
<i>Glanbeuno</i>	1892	Myn.Llb.	J003
<i>Glan-Beuno / Pont Glan-Beuno</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Glan Beuno</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Glan Beuno Est.</i>	2000	CCPost	(Bontnewydd)

### **glan, e.p. Beuno**

<sup>1</sup> Glenys Jones Walters, 'Garreg Fawr, Waunfawr', *TCHSG*, 63, (2002), 9–15.



Ar y chwith oddi ar yr A487 yng nghanol pentref Bontnewydd wrth fynd i gyfeiriad Caernarfon. Safai'r annedd gynt ar lan yr afon Beuno, ac mae stad o dai o'r un enw yno heddiw.

<b>Glanraber</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4762</b>
<i>Glanraber</i>	1807	Coed Helen 78
<i>Glanyraber</i>	1812	Coed Helen 85
<i>Glanraber</i>	1812	Plas Coch 3166
<i>Glan'r Aber</i>	1821	Myn.Llb. C132
<i>Glanraber</i>	1849	Coed Helen 172
<i>Glan Aber</i>	1857	Myn.Llb. H198

**glan, yr, aber**

Mae cofnod 1807 yn disgrifio'r annedd hwn fel 'the ferry house'. Mae'n amlwg ei fod ar aber afon Saint yng Nghaernarfon lle mae Pont yr Aber heddiw. Ceir cyfeiriad at annedd o'r enw *Aber Ferry* yn 1846 (Myn.Llb, C160<sup>1</sup>) ac yng Nghyfrifiad 1851, ac mae'n debyg mai'r un annedd oedd hwn.

<b>Glan'rafon</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5059(1)/SH 4759(2)/SH 5160(3)</b>
<i>Glan yr afon bach</i>	1512	Vaynol 1363
<i>Tythyn yr avon bach</i>	1516	Vaynol 1368a
<i>Tythyn yr afon bach</i>	1518	Vaynol 1368b
<i>Tythyn avon bagh</i>	1519	Vaynol 1371
<i>Glan r afon bach</i>	1659	Coleman D.D. 1033
<i>Glan'r Afon alias Tythyn y Barkeddy</i>	1686	P. yr Aur 15805
<i>Glan r afon bach</i>	1698	Coleman D.D. 1034
<i>Glan'r Avon</i>	1700	EwBangor 1700/39 94737
<i>Glan-yr-afon Bach</i>	1701-2	Garthewin 2085-9
<i>Glanyrarafon</i>	1743	EwBangor B1743/90 100464
<i>Glanravan</i>	1748	EwBangor B1748/54 101137
<i>Glanyrarafon</i>	1755	EwBangor B1755/69 845
<i>Glanravan</i>	1760	EwBangor B1760/71 1700
<i>Glan yr afon alias Glanravan</i>	1768	P. yr Aur Fur. Add. 2178-9
<i>Glan rafen</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Glanravan</i>	1775	P. yr Aur Add. 2111
<i>Glanravan</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Glan'rafon otherwise Tyddyny Park dy</i>	1780	P. yr Aur 15805
<i>Glanrafon bach</i>	1780-7	P.S.Glynllifon 84 (61)
<i>Glan'rafon / Glan'rafon bach</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Glanrafon</i>	1788	Myn.Llb. B136
<i>Glan'r afon</i>	1804	EwBangor B1804/86 9140
<i>Glanrafon</i>	1814	C.Vincent 3222
<i>Glanrafon</i>	1818	Rumsey Wms 393
<i>Glanrafon bach</i>	1818	Rumsey Wms 521
<i>Glanravan otherwise Tyddyn y Park du</i>	1820	Rumsey Wms 405
<i>Glanrafon</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Glanrafonfawr / Glanrafonbach</i>	1824	P. yr Aur 4099
<i>Glanrafon</i>	1827	Bangor 8554

<sup>1</sup> Ar garreg fedd yn hen fynwent Llanfaglan disgrifir yr annedd fel *Coed Helen Ferry* (Myn. Llf. B017). Bedd David Pritchard (m. 1884) a'i deulu yw hwn, sef 'Dafydd 'Rabar' yr anfarwolwyd ei gwch a'i benwaig cochion mewn cân boblogaidd yn nhref Caernarfon. Felly, mae'n debyg mai 'Yr Aber' oedd yr enw lleol ar yr annedd hwn.

<i>Glanrafon</i>	1828	C.Vincent	2207
<i>Glanrafon bach</i>	1831	Bangor	8554
<i>Glanravon bach</i>	1832	Rumsey Wms	215
<i>Glan'rafon</i>	1838	Map OS	78
<i>Glanrafon / Glanrafon fawr</i> <i>/Glanrafon bach</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Glanrafon</i>	1841	EwBangor	B1841/211 15891
<i>Glanrafon / Glanrafon fawr</i> <i>/Glanrafon bach</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Glanrafon fawr</i>	1859	Bangor	4081
<i>Glanrafon bach</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Glanrafon / Glanrafon fawr</i> <i>/Glanrafon bach</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Glan-yr-afon / Glan-yr-afon bâch</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Plas Glan-yr-afon</i>	1990	<i>CBLleu</i>	32
<i>Plas Glan yr Afon</i>	2000	CCPost	(Caethro)
<i>Glanrafon Bach</i>	2000	CCPost	(Caethro)
<i>Glanrafon Fawr</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

### **glan, yr, afon, mawr, bach**

Saif yr annedd y cyfeirir ato fel *Glan'rafon Fawr* neu *Blas Glan-yr-afon* uwchben afon Gwyrfai ar y lôn fach gul sydd yn arwain o Bontnewydd i Waunfawr. Mae'n dŷ hynafol, yn dyddio o ddiwedd y 17g a dechrau'r 18g. (*IAMC*, 251–2; lluniau ar blatiau 62, 76, 79). Mae un *Glan'rafon-bach* ar lan afon Gwyrfai ar y lôn sydd yn mynd o ganol Bontnewydd i bentrefan Llanfaglan, ac mae'r *Glan'rafon-bach* arall ar y dde oddi ar yr A4085 wrth fynd o Gaethro i Waunfawr. Daw'r cofnodion cynnar yng nghasgliad Vaynol o weithredoedd yn ymwneud â stad *Glan'rafon-fawr*. Mae'n anodd gwybod pa un o'r anheddau hyn yw *Glanrafon* ynteu a yw'n cyfeirio at annedd arall eto. Gydag enw mor gyffredin nid oes modd penderfynu. Fodd bynnag, mae rhai cofnodion uchod yn rhestru'r tri enw gyda'i gilydd. Mae cyd-destun cofnod 1818 yn cyfeirio at annedd a elwid yn '*Tyddyn y Cadis*, otherwise *Tyddyn Cadis*, otherwise *Glanrafon*' (q.v.). Cyfeiria cofnod 1686 at '*y Barkeddy*' ond mae'r '*barkeddy*' wedi troi'n '*Park du*' erbyn 1820.

<b>Glyn-afon</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Glynn Afon</i>	1703	EwBangor B1703/63 95034
<i>Glynn-afon</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Glynafon</i>	1812	Rumsey Wms 852
<i>Glynafon</i>	1813	Rumsey Wms 402
<i>Glunafon</i>	1817	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Glynn Afon</i>	1821	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Glyn Afon</i>	1831	Bangor 8554
<i>Glyn-afon</i>	1838	Map OS 78
<i>Glynafon</i>	1841	RhPDegwm
<i>Glynafon</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Glynafon</i>	1859	Bangor 4081
<i>Glynafon</i>	1874	Worrall 209
<i>Glyn Afon / Glynafon</i>	1879	DWms 1
<i>Glynafon</i>	1880	AlPryce 594
<i>Glynafon Issa</i>	1893	DWms 21
<i>Plas Glynafon</i>	1913	DWms 30
<i>Plas-glyn-afon</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Plas Glyn Afon</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

### **glyn, afon**

Ar y dde oddi ar yr A4085 yng nghanol pentref Waunfawr wrth fynd tuag at Fetws Garmon. Gwyrfai yw'r afon y cyfeirir ati yn yr enw.

<b>Gors</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5360</b>
<i>Gorse</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tanymarion or Gors</i>	1847	Bangor	3906
<i>Gors</i>	1859	Bangor	4081
<i>Gors</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Gors</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

#### ***cors***

Er bod cofnod 1847 yn uniaethu *Gors* â *Thanymarion*, ar fap OS 1919 ceir dau annedd o'r enw *Gors* a *Than-y-marian* ar wahân ond yn lled agos at ei gilydd ar gyrion Waunfawr wrth fynd i gyfeiriad Ceunant. Ceir treigladd meddal ar ddechrau'r eb. un. yn *Gors* oherwydd y fannod a gollwyd o'i flaen. Cymysgu â'r gair Saes. *gorse* (eithin) yn ddiau a ddylanwadodd ar y sillafu yng nghofnod 1841. Mae tystiolaeth fewnol helaeth yn RhPDegwm plwyf Llanbeblig 1841 i awgrymu mai rhywun di-Gymraeg a'i copiodd.

<b>Gors-y-waun</b>	<b>Llanbeblig</b>		
<i>Gors y waun</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Grosswaen</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Gors y Waun</i>	1859	Bangor	4081

#### ***cors, y, gwaun***

Ni lwyddwyd i'w leoli. Mae'r tr. meddal ar ddechrau'r elfen gyntaf yn taro'n chwithig ar y glust gan na chollwyd y fannod o'i blaen yn y gystrawen hon i beri treiglo. Mae'n debyg mai *Gors y Waun* yw'r *Grosswaen* yng nghofnod 1851, gan y nodir *Croes y Waun* ar wahân yn y Cyfrifiad.

<b>Graig-lwyd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5359</b>
<i>Graig Lwyd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Graig Lwyd</i>	1801	EwBangor	B1801/56 8584
<i>Graiglwud</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Graiglwyd</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Graiglwyd</i>	1832	EwBangor	B1832/80 13922
<i>Graig lwyd</i>	1835	Cof.Ethol.	
<i>Graiglwyd</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Graig Llwyd</i>	1874	Worrall	213
<i>Craig Lwyd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Graig Lwyd Farm</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

#### ***craig, llwyd***

Ar gyrion dwyreiniol uchaf Waunfawr. Dylanwad y fannod a gollwyd sydd yn peri'r tr. meddal ar ddechrau'r eb. un. *craig* yn yr elfen gyntaf.

<b>Gwastadfaes</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5359</b>
<i>Gwastod vaes</i>	1579	Wynnstay	67/173
<i>Gwasted faes</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwastead fais</i>	1781	EwBangor	B1781/68 5545
<i>Gwastedfaes</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Gwastedfaes</i>	1788	OK	177

<i>Gwasedfaes</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwastadfaes</i>	1790	EwBangor	B1790/82 6865
<i>Gwastedfaes</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwastedfaes</i>	1800	P. yr Aur	18654
<i>Gwastadfaes</i>	1800	EwBangor	B1800/26 8402
<i>Gwastedfaes</i>	1803	P. yr Aur	19970
<i>Gwasted faes</i>	1803	Rumsey Wms	783
<i>Gwastedfaes</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwastad faes</i>	1809	P. yr Aur	19896
<i>Gwastadfaes</i>	1813	P. yr Aur	21022
<i>Gwasdadfaes</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwasdadyfaes</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Gwastadfaes</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Gwastadfaes</i>	1835	Cof.Ethol.	
<i>Gwasted-faes</i>	1838	Map OS	78
<i>Gwastad foes</i>	1838	Rumsey Wms	1097
<i>Gwastad faes</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Gwasted faes</i>	1859	Bangor	4081
<i>Gwastfaes</i>	1891	Map OS	XVI S.W.
<i>Gwastad-faes</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Gwastad Faes</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

### **gwastadfaes**

Ar gyron dwyreiniol pentref Waunfawr yn ardal Pentre'r Waun. Mae'r enw cyfansawdd *gwastadfaes*, sef 'gwastadedd, tir agored', yn digwydd, a dyma yn ddiaw a geir yma, er gwaethaf yr enghreifftiau o sillafu'r enw fel dau air<sup>1</sup>. Ceir annedd o'r un enw yng Ngharmel (Mapiau OS) ac yng Ngharwedfynydd, Dinb. (AMR). Mae'r acen yn disgyn ar yr ail *-a-*. Ceir sawl enghraifft uchod o wahanol ffynonellau o sillafu'r elfen gyntaf yn *gwasted*, ac mae'n anodd esbonio hyn. Nid yw *ae* yn y sillaf olaf yn peri gwyriad yn y goben fel rheol, ond mae cael cynifer o enghreifftiau yn awgrymu fod yma ryw duedd ar lafar i newid sain yr ail *-a-* > *-e*, er nad yw'r newid hwn yn gyfarwydd i'r awdur, a fagwyd nid nepell o'r ardal hon. Ceir yr un newid yn y ffurf *Gwasted y cefn* ar dir Tyddyn-Whisgin-uchaf ym mhlwyf Llanrug yn 1869 (Bangor f33975).

### **Hafod-bach**

### **Llanbeblig**

<i>Hafodbach</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Hafodbach</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Hafod bach</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Hafodbach</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/6

### **hafod, bach**

Ni lwyddwyd i'w leoli, ond gweler *Hafodrwydd Bach*. Yr elfen gyntaf yw *hafod* < *haf* + *bod*, sef llety'r haf lle arferai'r ffermwyr a'u da symud yn yr haf, fel rheol o Galan Mai hyd Awst neu Fedi<sup>2</sup>. Yr oedd yr hafodydd ar y cyfan ar dir rhwng 600 troedfedd a 1000 troedfedd ar

<sup>1</sup> Mae gan W.J.Gruffydd nodyn ar y rheswm dros sillafu'r enw fel dau air. Dywed fod yn rhaid mynd yn ôl fil o flynyddoedd am yr esboniad: 'Y pryd hynny fe yngenedid y gair *Maes* yn *Maës* yn ddwy sillaf, felly yr oedd *Gwastad faës* yn aceniad rheolaidd yn yr oes honno. Dyna brofi felly bod enw'r tyddyn hwn, neu o leiaf enw'r lle yr adeiladwyd ef yn fwy na mil o flynyddoedd oed'. (WJG, 42, Rhan 4, 4-5). Yn sicr, mae digon o dystiolaeth fod *maes* ar un adeg yn air deusill, ond ei fod wedi ei gywasgu'n unsill erbyn cyfnod y Gogynfeirdd (*PKM*, xviii-xix). Daw'r cofnod cynharaf o'r enw cyff. *gwastadfaes* fel un gair yn *GPC* o'r 16g.

<sup>2</sup> Am drafodaeth gynhwysfawr o'r system Hendre/Hafod gweler Elwyn Davies, 'Hendre and Hafod in Caernarvonshire', *TCHSG*, 40, (1979), 17-46. Gweler hefyd *CB Amaeth*, II, 310; *HB*, 61, *TyCh*, 25.

ymlon ffridd neu lechwedd mynydd. Mae'n amlwg fod llawer annedd o'r enw *hafod* ar dir is na hyn, a rhaid casglu nad yw'r rhain yn hafodydd yng ngwir ystyr yr enw, ond yn hytrach wedi eu henwi ar ôl porfa arbennig, neu am nad yw'n ddim mwy nag enw dymunol.<sup>1</sup>

### Hafod-Laurence

### Llanbeblig

<i>havot laurance</i>	1438/9	Penrhyn	287
-----------------------	--------	---------	-----

### *hafod, e.p. Laurence*

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn na darganfod pwy oedd *Laurence*. Mae'r cofnod uchod, fodd bynnag, yn nodi fod yr annedd 'ar ochr arall yr afon Saint', hynny yw, nid ar yr un ochr â'r dref. Ceir *Tyddyn Laurence* ym mhlwyf Llandwrog hefyd (q.v.). Cofnodir enw *Rob't Lorance / Robert Lawrence* yng Nghaernarfon yn 1543 (*CQSR*, XQS/1543, 196) ond ni wyddys a oedd hwn yn perthyn i'r sawl a roes ei enw i *Hafod Laurence*.

### Hafod-olau

### Llanbeblig (Waunfawr)

### SH 5359

<i>havod ole</i>	1519	Wynnstay	67/181
<i>havot ole / havot oley</i>	1538	Wynnstay	67/180
<i>havod ole</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Hafod olaf</i>	1815	EwBangor	B1815/92 10979
<i>Hafodola</i>	1835	Cof.Ethol.	
<i>Hafod oleu</i>	1835	EwBangor	B1835/115 14487
<i>Hafod olan / Hafod olen nesa</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Hafodolen</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Hafod olyn nesa</i>	1859	Bangor	4081
<i>Hafodolau</i>	1870	Myn. Moriah	17
<i>Hafod-oleu</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Hafodolau</i>	1959	CA	146-7
<i>Hafod Oleu Isaf / Hafod Oleu Uchaf</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Hafod Oleu (ardal)</i>	2002	Map OS Explorer	OL17

### *hafod, golau, ans. agos, isel, uchel, gradd eithaf nesaf, isaf, uchaf*

Mae Alun Llywelyn-Williams yn adrodd ei hanes yn mynd ar drywydd John Evans (1770–99), yr anturiaethwr a aeth i America ar daith ofer i chwilio am ddisgynyddion Madog ab Owain Gwynedd (CA, 144–8). *Hafod-olau* oedd cartref mebyd John Evans. Dywed ALIW iddo ddod o hyd i dri annedd o'r un enw yn agos at ei gilydd. Saif dau ohonynt hyd heddiw mewn ardal a elwir yn *Hafod Olau* ar gyrion uchaf dwyreiniol Waunfawr<sup>2</sup>. Yn un o'r tair *Hafod-olau* hefyd y ganwyd y bardd Griffith Williams (Gutyn Peris) (1769–1838). Mae'n amlwg mai camgopïo sydd i gyfrif am yr *olaf* yn yr ail elfen yng nghofnod 1815, yr *olan / olen* yng nghofnodion 1841 a'r *olyn* yn 1859.

### Hafod-yr-wydd

### Llanbeblig

### SH 4862

<i>havod rwydd</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>havod r rwydd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Hafod yr wydd</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>havod yr wydd</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Havod yr wydd</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Havod yr wydd</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Havod r'wydd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Hafodywydd</i>	1788	OK	168

<sup>1</sup> Elwyn Davies, op. cit. 43.

<sup>2</sup> Elwyn Davies, 'Hendre and Hafod in Caernarvonshire', op. cit. 39.

<i>Hafodrwdd</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Hafodrwydd /Hafodrwyddbach</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Hafodwryydd/ Hafodwryydd bach</i>	1824	P. yr Aur	4098

***hafod, yr, gŵydd, bach***

Ni lwyddwyd i leoli'r anheddau hyn, ond mae cofnodion 1773 a 1778 yn cyplysu *Hafod-yr-wydd* â *Thŷ-gwyn* (q.v.) sydd yn awgrymu efallai fod hwnnw yng nghyffiniau eglwys Llanbeblig. Mewn cofnodion diweddarach rhestrir *Hafod-yr-wydd* a *Hafod-bach* (q.v.) ar ôl ei gilydd sydd yn awgrymu o bosib mai'r un lle oedd *Hafodrwydd-bach* a *Hafod-bach*. Mae'n debyg mai'r aderyn *gŵydd* sydd yn y drydedd elfen. Byddai cofnod 1809 yn ategu hyn gan ei fod yn dangos ynganiad tref Caernarfon o'r gair *gŵydd*. Efallai y gwelir ymgais i fireinio'r enw yng nghofnod 1824, neu fe all fod yn wall sillafu.

**Hafod-y-rhyg-uchaf**

**Llanbeblig (Waunfawr)**

**SH 5260**

<i>Havod Rhyge</i>	1605	Ll&Brynodol	D139
<i>Havod y Rhug</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Hafod y Rug</i>	1750	EwBangor	B1750/53 53
<i>Havod y Rhyg</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Havod y rhŷg</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Havodrhyg</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Hafodyrhûg</i>	1788	OK	177
<i>Hafod y Rhŷg Uchaf</i>	1798–9	Vaynol	4059
<i>Hafod Rug uchaf</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Hafodyrhug</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Hafod y Rhyg Uchaf</i>	1836	Bangor	5302
<i>Hafodyrugucha</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Hafod y rhyg uchaf</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Hafod yr hyg Uchaf</i>	1869	Vaynol	987
<i>Hafodyrhyg Uchaf</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Hafod-rhûg-uchaf</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Hafod y Rhug</i>	1959	CA	146
<i>Hafod Rhug Uchaf</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***hafod, y, rhyg, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Ar gyrion gogledd-orllewinol eithaf Waunfawr i gyfeiriad Ceunant; mae *Hafod-y-rhyg-isaf* (q.v.) ym mhlwyf Llanrug. Mae'n debyg mai *rhyg* yw'r drydedd elfen, sef yr ŷd gwydn, *Secale cereale*, a ddefnyddir i borthi anifeiliaid. Defnyddir ei rawn hefyd i wneud blawd a chwisgi.

**Hendy**

**Llanbeblig**

**SH 4761**

<i>yr Hen Du</i>	1722	NewGlynllifon	XD2 / 6488
<i>Hen Du</i>	1740	Coed Helen	14–15
<i>Hen dy</i>	1778	Coed Helen	38–9
<i>Hendy</i>	1778	Coed Helen	43
<i>Hen dû</i>	1778	Plas Coch	3142
<i>Hendy</i>	1780	EwBangor	B1780/71 5390
<i>Hendû</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Hendy</i>	1784	EwBangor	B1784/94 6123
<i>Hendu</i>	1795	Poole	3797
<i>Hendy</i>	1807	Coed Helen	78
<i>Hendy</i>	1812	Coed Helen	85
<i>Hendû</i>	1815	Rumsey Wms	403–4
<i>Hên Ty</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1

<i>Hendu</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Hendy</i>	c.1826	Coed Helen	169
<i>Hen du</i>	1827	Bangor	8554
<i>Hendy / Hendu</i>	1831	Coed Helen	101
<i>Yr hên dŷ</i>	1838	Map OS	78
<i>Hendy / Hendy Gatehouse</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Gate House, Hendy</i>	1865	Myn.Llb.	G498
<i>Hên-dy</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Hendy</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Hendy</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

### *hen, tŷ*

Ar gyrion Caernarfon, ar y dde oddi ar Lôn Pant wrth fynd i gyfeiriad Llanfaglan; mae'r lôn gul i'r annedd yn cychwyn ar Groesfan Pant Rheilffordd Eryri. Y tŷ bychan wrth y groesfan yn ddiau oedd y 'gatehouse'. Er ei sillafu'n un gair fel rheol, yr ynganiad lleol yw 'hen dŷ', gyda'r pwyslais ar yr ail air. Mae Tomos Roberts yn trafod arwyddocâd yr elfen *hen* mewn e.lleoedd, a honna fod gwahaniaeth ystyr rhwng *Hendy* a *Tŷ-hen*. Dywed mai'r ystyr fel elfen gyntaf yw 'cyn' (*former*), ac fel ail elfen mai 'hynafol' yw'r ystyr (*ADG* 2, 54).

<b>Hengaer</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>hengaer</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Hengaer</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Hengaer</i>	1727	Ll&Brynodol R155
<i>Hengaer</i>	1734/5	Ll&Brynodol D980
<i>Lleinia'r hen gaerau</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Lleinia'r hen gaera</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Hengaer</i>	1776-9	Vaynol 4054
<i>Lleunia rhen gaerua</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Hen gaerau</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Hengaerau / Lleiniau Hengaerau</i>	1788	OK 166, 167
<i>Hengair</i>	1799	Vaynol 3751
<i>Hengaura</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Hengauray</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Hengar / Hengair</i>	1810/11	Vaynol 4063
<i>Hengaur</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Hengaira</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Nengaer</i>	1823	Vaynol 125
<i>Hengaer</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Hengaura</i>	1827	Bangor 8554

### *hen, caer / caerau*

Ar y dde ar Lôn Parc wrth fynd allan o Gaernarfon i gyfeiriad Pont Saint. Nid oes annedd o'r enw hwn yno bellach, ond mae'r olion Rhufeinig a gofféir yn yr enw i'w gweld o bobtu'r lôn. Yr un olion a gofféir yn *Henwalia* (q.v. isod). Mae cofnod 1823 yn disgrifio'r fan fel 'the lower fortification in p. of Llanbeblig'. Er nad yw'n enwi'r lle, mae Thomas Pennant yn rhoi disgrifiad manwl o'r olion (Pennant, II, 229). Camgopïo sydd i gyfrif am yr *N-* gychwynnol yng nghofnod 1823.

<b>Hen-hafod</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4762</b>
<i>hên havod</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>hena-havod</i>	1671/2	Ll&Brynodol R149
<i>Hen Havod</i>	1691	Ll&Brynodol D954
<i>Hen Hafod</i>	18g	Ll&Brynodol P11

<i>Hen havod</i>	1724–5	Ll&Brynodol	D351–2
<i>Hen lewod in Coed Allen</i>	1747–8	Ll&Brynodol	D399
<i>Henhavod in Coed Allen</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Hen hafon in Coed Helen</i>	1796	Poole	3802

### **hen. hafod**

Noda amryw o'r cofnodion uchod fod yr annedd hwn ar dir *Coed-Alun/Helen*. Mae cofnod 1653/4 yn llawn yn dweud 'Tythin Thos ap Jo' in Coed Alin sometimes called hên havod' ac mae'r cofnod diddyddiad o'r 18g. yn ychwanegu 'otherwise Tythyn Thomas John, part of the Coedallen estate'. Tybed ai'r un lle yw'r *Hafod Allyn* a gofnodwyd yn 1859? (Bangor 4081) Cafwyd camgopio go ddybryd yng nghofnod 1747–8. Ceir enw Saes. cyfatebol o ran ystyr yn *Ancient Homestead* yn Buckminster, Swydd Gaerlŷr (*EFND*, 4).

<b>Henwalia</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Hen Walia</i>	1798	Myn. Llb. F163
<i>Hen Walia</i>	1829	P. yr Aur 21427
<i>Henwalia</i>	1859	Bangor 4081
<i>Henwaliau</i>	1861	<i>HSThC</i> 80
<i>Henwale / Henwalia</i>	1867/8	Bangor 8555
<i>Henwalia</i>	1890–1	Bangor 8560
<i>Henwalia</i> (stryd)	2000	CCPost

### **hen, waliau**

Nid oes annedd o'r enw hwn bellach, ond mae cofnod 1861 yn cyfeirio at ffermdy *Henwaliau*. Heddiw mae stryd o'r un enw yn rhedeg yn gyfochrog â Lôn Parc yng Nghaernarfon. Gweler hefyd *Hengaer*. Yr 'hen waliau' yw olion y muriau Rhufeinig gerllaw: mae yma ddarn helaeth o fur 16 troedfedd o uchder a'i drwch yn fwy na 6 throedfedd (*IAMC*, 164). Mae'r terfyniad *-a* yn hytrach nag *-au* yn yr ail elfen yn adlewyrchu'r ynganiad lleol.

<b>Is-Alun / Is-Helen</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4662</b>
<i>Coed Allen alias Iseallen</i>	1716	ERD 71
<i>Issalen</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Isalen</i>	1724–5	Ll&Brynodol D351–2
<i>Coedallen alias Isallen</i>	1729	ERD 80
<i>lands called Isalen</i>	1747–8	Ll&Brynodol D399
<i>Isaleu</i>	1748	Ll&Brynodol D402–3
<i>Is Alin</i>	1752	EwBangor B1752/10 371
<i>Coed allen alias Issallen</i>	1762	ERD 87
<i>Isalan</i>	1765	Ll&Brynodol D435
<i>Is alen</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>ys Alen</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>ys Alin</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Issalin</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Is Helen</i>	1787	Myn.Llb. C059
<i>Isalŷn</i>	1788	OK 175
<i>Ysalin</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Isalun</i>	1790	Coed Helen 62
<i>Ysalyn</i>	1793	EwBangor B1793/106 7378
<i>Ysalyn</i>	1793	EwBangor B1793/106 7379
<i>Isalon</i>	1796	ERD 103
<i>Is allen</i>	1805	EwBangor B1805/51 9306
<i>Isalun otherwise Ishelen</i>	1812	Coed Helen 85



<i>Isalen or Ishelen</i>	1812	Plas Coch	3166
<i>Isalen</i>	1818	Rumsey Wms	915
<i>Isalen</i>	1818	C. in W.R.	B/PDM/120
<i>Isalyn</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Isallen</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Ishelen</i>	1825	EwBangor	B1825/100 12595
<i>Ishelen</i>	1827	Bangor	8554
<i>Iselen</i>	1838	Map OS	78
<i>Isalun</i>	1840	Coed Helen	85
<i>Isalen</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Ishelen</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Is helen</i>	1856	EwBangor	B1856/92 19215
<i>Is-Helen</i>	1920	Map OS	XV N.E.; XVI N.W.
<i>Is-Helen</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Is Helen</i>	2000	CCPost	

**is, e.p. Alun/Helen**

Ar y chwith oddi ar Ffordd yr Aber sydd yn rhedeg hyd lannau'r Fenai o Bont yr Aber yng Nghaernarfon tuag at y Foryd. Mae'n agos at *Goed-Helen* (q.v.), ac mae ail elfen y ddau enw'n datblygu'n raddol yn yr un modd o fod yn *Alen/Alun* i fod yn *Helen*, er bod y newid wedi digwydd rai blynyddoedd yn ddiweddarach yn achos *Is-Helen*. Mae'n amlwg mai 'islaw Coed-Helen' yw ystyr yr enw. Camgopio sydd i gyfrif am ffurf 1748.

**Lodging Hall**

**Llanbeblig**

**SH 4863**

<i>Lodging Hall</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Lodginghall</i>	1847	Bangor	3906
<i>Lodging Hall</i>	1855	Bangor	3932
<i>Lodging Hall</i>	1859	Bangor	4081
<i>Lodging Hall</i>	1867-8	Bangor	8555
<i>Lodging Hall</i>	1950au	atgof personol	

**Saes. lodging, hall**

Safai'r annedd hwn gynt ar y dde i'r B4366 (Ffordd Bethel) wrth fynd allan o Gaernarfon. Tŷ bychan ydoedd a pherllan fawr y tu ôl iddo (atgof personol, canol y 20g.). Mae stad dai *Cae Berllan* ar y safle heddiw. Mae'n bosib fod awgrym o ddychan yn yr ail elfen *hall* gan mai annedd digon distadl oedd hwn<sup>1</sup>.

**Llainbupur**

**Llanbeblig**

**SH 4861**

<i>Helen Bank alias Llainbupur</i>	1828	Bangor	26520
<i>Llain Pepper</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Llain bupur</i>	1847	Bangor	3906
<i>Llainpupur</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Llanbubur Cottage</i>	1889	Myn.Lib.	J176
<i>Llainbupur Cottage</i>	1889	Myn.Lib.	M174
<i>Llanbubur Bank</i>	1935	Myn.Lib.	J176
<i>Lanbupur Terrace</i>	canol y 20g.	atgof personol	

**llain, e.p. Pepper**

Arferai rhes fechan o dai o'r enw hwn sefyll ar droad y lôn ger Pont Saint ar gyrion Caernarfon. Trodd yr elfen gyntaf ar lafar gwlad yn *Llainbupur Terrace* (atgof personol, canol

<sup>1</sup> Yn ôl B.G. Charles: 'Humble dwellings and sites are often facetiously or derisively given pretentious and grandiose names in compounds containing *castell*, *castle*, *hall*, *llys* and *plas*.' (PNPem, lxi)

y 20g.). Gwelir y ffurf lafar hon hefyd mewn dau o'r arysgrifau ym mynwent Llanbeblig. Mae cofnod RhPDegwm o bosib yn awgrymu mai'r cyfenw *Pepper* sydd yn yr ail elfen, ac mae hwn yn gyfenw a geir yng Nghaernarfon hyd heddiw. Ceir *Pepper Lane* hefyd o fewn i furiau tref Caernarfon. Fodd bynnag, ni ellir diystyru'r posibilrwydd fod lleiniau lle tyfid pupurau o ryw fath yn y manau hyn, neu efallai fod naill ai'r planhigyn mintys poeth (*Mentha piperita*) neu bupurlys y maes (*Lepidium campestre*) yn tyfu'n wyllt yno. Er bod cofnod 1828 yn nodi mai'r un lle oedd *Llainbupur* â *Helen Bank* mae Cyfrifiad 1851 yn rhestru *Llainpapur* a *Holen* [sic] *Bank* ar wahân.

Llain-meddygon	Llanbeblig		SH 4961
<i>Llain Myddygon</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Llain Meddygon</i>	1831	Bangor	8554
<i>Llainfeddygon</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Llainmeddyg</i>	1853	Bangor	8555
<i>Llainmeddegon</i>	1878	Bangor	8555
<i>Llainmeddygon</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Llain-meddygon</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Llain Meddygon</i>	2000	CCPost	(Caethro)

#### *llain, meddyg, llu. meddygon*

Rhyw hanner ffordd ar hyd y lôn sydd yn mynd o Gaeathro i Bontnewydd. Gallai fod wedi bod yn gartref i deulu o feddygon ar un adeg. Mewn e.lleoedd yn gyffredinol mae'r ffurf unigol *meddyg* yn fwy arferol na'r lluosog *meddygon* yn yr ail elfen. Y lluosog a geir yma ac eithrio yng nghofnod 1853. Ceir yr unigol mewn enwau megis *Cae-doctor-mawr/bach*<sup>1</sup> yn Llandwrog, a cheir sawl *Doctor's Close* a *Doctor's Field* yn Lloegr, er nad yw ar y cyfan yn bosibl bellach olrhain y meddyg dan sylw (*EFN*, 176). Mae'r treigladd meddal ar ddechrau'r ail elfen yng nghofnod 1851 yn fwy naturiol ar lafar, ac eto hon yw'r unig enghraifft a gofnodwyd o'r meddalu hwn.

Lledwigan	Llanbeblig		SH 4861
<i>Lled-wygan</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Lledwigan</i>	1847	Bangor	3906
<i>Lledwigan</i>	1919	Map OS	XV N.E.
<i>Lledwigan</i>	2005	gwybodaeth bersonol	

#### *lle(d), gwigan/e.p. Gwigan*

Ar lan afon Saint ger y Parc Cyhoeddus yng Nghaernarfon. Mae'r dyddiad 'c.1749' wedi ei gerfio ar wal y tŷ (gwybodaeth bersonol). Ceir *Lledwigan* hefyd yn Llanrhychwyn, Caern., a *Lledwigan-llys* a *Lledwigan-llan* ym Môn. Mae Tomos Roberts a Gwilym T. Jones yn awgrymu mai *lle* + yr e.p. *Gwigan* o bosib sydd yma, gan gyfeirio hefyd at *Bodwigan* (Llanddeusant) i gadarnhau'r ddamcaniaeth hon (*ELIMôn*, 7). Awgrymir mai'r un elfen a welir yn *Wigan*, Sir Gaerhirfryn ac mai e.p. sydd yma hefyd (*CODEPN*, 517). Mae MR. fodd bynnag, yn cynnig mai ffurf fachigol *gwig*, sef 'coedwig fechan' yw *gwigan* (*ETG*, 98). Mae glan yr afon Saint yn bur goediog ger y llecyn hwn.

Lleiod	Llanbeblig		SH 4862
<i>the Valiod</i>	1613	Ll&Brynodol	D154
<i>Oleuod</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Oleuod</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/6

<sup>1</sup> Ond gweler *Cae-doctor* dan Anheddau Llandwrog lle trafodir ai meddyg sydd yn yr enw hwn ai peidio.

<i>Oleuod land</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Oleuod Land</i>	1788	OK	170
<i>Oleyod Lands</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Lyod</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Lyod</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Lyod</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Lliod</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Lyod</i>	1847	Bangor	3906
<i>Leiiod</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Lliod</i>	1853	Kinmel	S1758
<i>Liod</i>	1854	Myn.Llb.	G403
<i>Leiiod</i>	1855	Bangor	3932
<i>Lyod</i>	1863	Bangor	28503
<i>Lyod</i>	1863–4	Kinmel	S1758
<i>Lleiod</i>	1907	Myn.Llb.	J165
<i>Leiiod</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Lleiod House</i>	2000	CCPost	

### *oleuod?*

Ar y chwith ar yr A4086 ar gyrion tref Caernarfon wrth fynd tuag at Bont-rug. Mae'n enw anodd iawn i'w ddehongli. Er mai'r sillafiad bellach yw *Lleiod*, yr ynganiad lleol yw *Liod*, gyda'r acen ar yr *i*, a sain *l* nid *ll* ar y dechrau. Nid oes prawf mai'r un lle yw *the Valiod* yng nghofnod 1613, ond ni ellir anwybyddu'r cyfeiriad anesboniadwy hwn. Ni welwyd enghraifft arall ohono. Y ffurf nesaf a gofnodir yw *Oleuod*. Mae'n anodd esbonio sut y byddai'r sain *eu* yn *Oleuod* yn datblygu i fod yn *i* weddol fain fel ag a geir yn yr enw *Lleiod* heddiw, yn enwedig o gofio acen tref Caernarfon â'i llafariad agored. Gellid awgrymu efallai fod yma gysylltiad â *lleu*. Mae *GPC* yn nodi *lleu / lleudir* yn yr ystyr o dir agored (gw. hefyd *BBCS*, XXI, 224–6). Fodd bynnag, mae rhan helaeth o dir *Lleiod* yn gorwedd yn nyffryn cul afon Cadnant ac ni fyddai'r disgrifiad yn gweddu iddo. Rhaid cofio hefyd, er y ceir *ll* yn y ffurfiâu ysgrifenedig na cheir y sain *ll* yn yr ynganiad llafar.

Gellir cynnig yn betrus awgrym arall: ceir y ffurf *Olo Bach* (RhPdegwm, Llanbeblig, 1841, 81) yn enw ar gae, er nad yw'n gysylltiedig â *Lleiod*, a gellir awgrymu mai benth. o'r Saes *hollow* sydd yma. Tybed a ellid cael ffurf luosog lafar debyg i *olouod* neu *oleuod*? Byddai 'pantleoedd' yn sicr yn disgrifio tir *Lleiod* hyd ddyffryn afon Cadnant.

<b>Llety</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5060</b>
<i>lletty gwenlliain</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Lletty Gwenlliain</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Llettu gwenllian</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>lletty</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Lletty gwen lliau</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>lletty Gwenllian</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Lletty</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Lletty</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Lletty Bach</i>	1822	Myn. Llb. F078
<i>Lletty</i>	1824	P. yr Aur 4099
<i>Lletty</i>	1831	Bangor 8554
<i>Lletty</i>	1838	Map OS 78
<i>Lletty</i>	1841	RhPdegwm
<i>Lletty / Llety</i>	1887	NewGlynllifon XD2 / 7419
<i>Lletty formerly called Lletty Mawr and Lletty Bach</i>	1887	NewGlynllifon XD2 / 7419
<i>Lletty</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Lletty</i>	2000	CCPost (Caethro)

***llety, e.p.Gwenllian***

Mewn llecyn diarffordd oddi ar y lôn sydd yn mynd o Gaethro i Bontnewydd. Gwelir o'r cofnodion cynharaf uchod mai'r enw llawn ar un adeg oedd *Llety Gwenllian*, ond ni wyddys pwy oedd *Gwenllian*, a chollwyd yr elfen hon o'r enw yn y 1770au. Yr oedd y tŷ a'r enw mewn bodolaeth cyn y cofnodion cynharaf uchod gan fod cofnod ar glawr am wraig o'r enw Jane Owen o *Llety Gwenllian* a gladdwyd ym mynwent Llanbeblig ym mis Tachwedd 1699 (*JEGPed*, 384). Er ei bod yn wybyddus bellach na cheir cyfuniad o ddwy *t* yn y Gymraeg, maent wedi glynu trwy'r blynyddoedd yn yr elfen *llety*, a hyd yn oed heddiw ceir simsanu ynglyn â'r sillafiad: ceir *Llety* (2000) a *Lletty* (2002). Mae rhai wedi awgrymu mai annedd rhwng yr hendre a'r hafod oedd y *llety* (GAF, 116), ond os oedd y teulu a'r anifeiliaid yn yr hendre dros y gaeaf ac yn yr hafod dros yr haf, mae'n anodd gweld pa bryd y byddent yn y *llety*, oni bai nad oedd yn ddim mwy na rhywle i aros dros nos ar y daith o'r naill le i'r llall.

**Llidiart-gwyn****Llanbeblig****SH 5359 (W) / SH 4759 (B)**

<i>Llydiart Gwyn</i>	1668–9	Ll&Brynodol	R16
<i>Llidiart Gwyn</i>	1700/1	Ll&Brynodol	D1178
<i>Y Llidiart Gwyn</i>	1716	Ll&Brynodol	D979
<i>Llidiart Gwyw</i>	1809	Rumsey Wms	424
<i>Cae-llidiart-gwyn</i> (B)	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Llydiart Wyn</i> (W)	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Llidiart Gwyn</i> (B)	2000	CCPost	(Bontnewydd)

***llidiart, gwyn***

Mae un annedd o'r enw hwn ar gyrion dwyreiniol pentref Waunfawr (W), ac un arall, a enwid gynt yn *Cae-llidiart-gwyn*, rhwng Bontnewydd a Llanfaglan (B). Mae'n amlwg mai camgopio a roes y 'gwyw' yng nghofnod 1809.

**Llwyn-yr-iwrch****Llanbeblig**

<i>Tythyn Uch alias Llwyn yr Iwrch</i> <i>alias Tyn y Coed</i>	1815	C.Vincent	2946
---	------	-----------	------

***llwyn, yr, iwrch***

Hwn yw'r unig gyfeiriad a welwyd at yr enw hwn. Gweler *Tyn-y-coed* isod. Math o garw bychan yw *iwrch*. Ceir *Bron-iwrch* a *Glyn-iwrch* ym mhlwyf Llandwrog (q.v.).

**Llys-y-gwynt****Llanbeblig (Waunfawr) SH 5259**

<i>Llys y Gwynt / Llysy gwynt</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Lys y Gwynt</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Llysy Gwynt</i>	1859	Bangor	4081
<i>Llys-y-gwynt</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Llys Gwynt</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***llys, y, gwynt***

Yng nghanol pentref Waunfawr. Mae MR yn awgrymu mai enw gwatwarus yw *Llys-y-gwynt* ar batrwm enwau megis *Llys-y-frân* (*ETG*, 86), ond eto mae'n enw disgrifiadol digon naturiol mewn ardal foel fynyddig.

**Maesincla****Llanbeblig****SH 4863 / SH 4962**

<i>hyngekelesfylde</i>	1438–9	Penrhyn	287
------------------------	--------	---------	-----

<i>Maysynclle</i>	1584	Ll&Brynodol	D937
<i>Maes Hinkle</i>	1634	Ll&Brynodol	D972
<i>Mays Hinkley</i>	1637	Ll&Brynodol	D972
<i>Maysinkle</i>	1671–2	Ll&Brynodol	R149
<i>Maes Inkle Spicer</i>	1677	Dolfrïog	257
<i>Maesinkley</i>	1677	Ll&Brynodol	D946
<i>Maes Inkley Spicer</i>	1685	Ll&Brynodol	D950
<i>Maes Inkle</i>	1691	Ll&Brynodol	D954
<i>Maes Inkle Spicer</i>	1703	Ll&Brynodol	D635
<i>Mase Inkle Spicer</i>	1722	Ll&Brynodol	D642
<i>Maes Incle</i>	1734–5	Ll&Brynodol	D980
<i>maes Inkla</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>maesinkle</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>maes Inkle</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Mases Incle / Maes Incle</i>	1783	P.yr Aur	4058
<i>Maes Inkla</i>	1788	OK	168
<i>Maes Incle</i>	1789	Poole	3704
<i>Maes Incle</i>	1790	Rumsey Wms	322
<i>Maes Incle</i>	1795	AI Pryce	185, 732
<i>Maes Incle</i>	1795	Poole	3705
<i>Maysinle</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Maes-incle</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Maesynclle / Maesincla</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Maesincla</i>	1827	Bangor	8554
<i>Maes Incla</i>	1831	Vaynol	132
<i>Maesincla</i>	1831	Myn.Llb.	B196
<i>Maesincla</i>	1833	Myn.Llb.	D018
<i>Maes Incla</i>	1833	C.Vincent	2208
<i>Maesincla</i>	1834	EwBangor	B1834/74 14280
<i>Maesincla</i>	1835	C.Vincent	2211
<i>Maesincla</i>	1835	Ll&Brynodol	D514–5 / D1122–3
<i>Maesinle</i>	1835	Cof. Ethol.	
<i>Maesincla</i>	1835	Pigot	690
<i>Maes Ingle</i>	1841	RhP Degwm	
<i>Maesincla</i>	1841	Robson	9
<i>Maesinecla</i>	1850	Slater	19
<i>Maesincla / Maesincla Isa</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Maesingle</i>	1859	Bangor	4081
<i>Maesincla</i>	1867–8	Bangor	8555
<i>Maesincla</i>	1874	Worrall	209
<i>Maes-ingle</i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Plas Maesincla</i>	1894	Myn.Llb.	H257
<i>Maesincla Lodge</i>	1917	Myn.Llb.	H231
<i>Maes-incla / Plâs Maesincla / Maes-incla-bâch (2)</i>	1919	Map OS	XV N.E./XVI N.W.
<i>Plâs Maesincla</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Plas Maesincla / Maesincla / Maesincla Lane</i>	2000	CCPost	
<i>Maesincla / Maesincla Lane</i>	2004	Map PSA	

***maes*, e.p. *Hinckley***

Cedwir yr enw hwn mewn sawl man heddiw: ym *Mhlas Maesincla*, sydd bellach yn gartref i'r henoed, ar y dde i'r ala a elwir ar lafar gwlad yn *Lôn Bach Maesincla (Maesincla Lane)* wrth fynd ar draws o Ffordd Bethel (B4366) i Ffordd Llanberis (A4086) ar gyrion Caernarfon gan groesi rhyd ar afon Cadnant dros *Bont Maesincla*. Gyferbyn â'r bont mae fferm *Maesincla*,

ac ar gefnen uwchlaw'r afon mae *Ysgol Gynradd Maesincla*. Gyferbyn â mynedfa'r ysgol, yn gyfochrog â'r lôn bach, mae *Ffordd Maesincla*. Ceir cyfeiriad at ddau *Maesincla-bach* ar fap OS 1919: y naill yn cyfateb i'r annedd *Maesincla* presennol a'r llall yn annedd bychan sydd bellach wedi ei ddymchwel ar safle *Cae-glyn* (q.v.). Ar fap y Degwm mae'r enw *Maesingle* wedi ei nodi bedair gwaith yn y gwahanol safleoedd hyn.

Daw'r elfen *Incla* o'r cyfenw Saes. *Hinkley*. Mae W.J.Gruffydd yn honni mai ar ôl gŵr o'r enw *Humphrey de Hunkeley* yr enwyd yr annedd ac mai ef oedd ei berchennog ryw bryd yn y 14g. (WJG, 42, Rhan 2, 2). Fodd bynnag, y ffurf Saes. *hyngekelesfylde* yn 1438–9 yw'r cofnod pendant cynharaf a welwyd hyd yma. Yr oedd gŵr o'r enw *Peter de Hunkelegh* yn dal wyth erw o dir yng Nghaernarfon am ddwy geiniog y flwyddyn yn 1306 a 1308 (MBS, 47). Mae MR yn cyfeirio at gofnod ohono fel *Petrum de Hinkleia* yn 1304/5 ac yn awgrymu ei fod yn aelod o deulu o Saeson a ddaethai i Gaernarfon yn sgîl y Gonwest, o bosib o Hinckley, Swydd Gaerlŷr (TCHSG 29, (1968), 153–4). Nodir enw *Peter de Hinkle* fel cwnstabl Castell Caernarfon yn 1306–7 (KG, 125). Yn ôl cyfeiriad arall, honnir fod *Peter de Hinkley* yn berchen ar drigain erw o dir (BMW, 87). Cyfeiria MR hefyd at gofnod o ryw *Gwilym Hinkley* yn 1344, ac mae'r enw *Gwilym* yn awgrymu fod y teulu wedi ei gymreigio, efallai trwy briodas (TCHSG 52–3, (1991–2), 27–8). Daw cofnod 1685 o brofeb ewylllys William Spicer yr Hynaf a ddyddiwyd 1677. Roedd y teulu Spicer yn flaenllaw yn y dref yn y cyfnod hwn, ac yr oedd *Maesincla* yn eu meddiant hwy ar y pryd, fel y tystia cofnodion 1703 a 1722 yn ogystal.

Gydag amser gwelir cymreigio'r terfyniad yn yr e.p. o *-ey > -e > -a*, cf. *Bisley > Bisla* yn *Nhyddyn Bisla /Bisle* ym mhlwyf Llanrug. Digwyddodd newid tebyg pan drodd y cyfenw *Rawley* yn *Rala* i roi *Cwrtyrala* ym Morgannwg (PNGlam, 60–1; ADGI, 36).

O ystyried y modd y collwyd gwir darddiad enw *Maesincla* yn gynnar efallai y gellid i raddau faddau am unwaith i Fyrddin Fardd am gyfeiliorni yn ei esboniad o'r enw hwn, ond go brin y gallai ef hyd yn oed gredu mewn gwirionedd mai'r ystyr oedd 'Maes-sang-le . . . sef maes wedi ei sangu, ei sathru.' (MFardd/ELISG, 242).

### Maes-y-Barcer

### Llanbeblig

### SH 4862

<i>Maes Barker</i>	1567/8	P.S.Peniarth	DC 22
<i>Maes y Barker</i>	1569	P.S.Peniarth	DC 25
<i>Maes Parker</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Maes Barker</i>	1658	Thorowgood	27
<i>Maes Barker</i>	1673	Ll&Brynodol	D943
<i>Maes-y-Parker</i>	1696	Dinam Hall	204
<i>Maes y Barker</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Maes y Barker</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Maesyparker</i>	1788	OK	167
<i>Maesparke</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Maysparker</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Maes y Barker</i>	1810	P. yr Aur	18744
<i>Maes y Barker</i>	1810	Poole	4171
<i>Measyparker</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Maes y Barker</i>	1824	Poole	4098
<i>Maes y Barker</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Maesyparkia</i>	1847	Bangor	3906
<i>Maes y barker</i>	1859	Bangor	4081
<i>Maes y Barker</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Maes y Barcer</i>	1919	Myn. Cae.	D054
<i>Maes-y-Barker</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Ffordd Maes Barcer</i>	2000	CCPost	

*maes, y, barcer*

Mae'r annedd o'r enw hwn bellach wedi diflannu, ond cadwyd yr enw ar y ffordd sydd yn mynd heibio i'r safle ar y dde oddi ar yr A4086 wrth adael tref Caernarfon i gyfeiriad Pont-rug. Benthyciad o'r Saes. Can. *barker* yw *barcer* (EEW, 68). Mae'r ffurf Gym. *barcer* yn bodoli ers yn gynnar yn y 17g. ac ynganiad Cym. sydd bellach i'r elfen yn enw'r lle hwn. Fodd bynnag, mae'r ffurf ysgrifenedig Saes. *barker* a gofnodwyd yn yr enw dros ganrifoedd yn codi'r cwestiwn ai'r ynganiad Saes. oedd iddo i gychwyn. Gellir esbonio'r ffurfiau *Parker* gan fod rhywfaint o ymglyfnewid ar lafar rhwng *b* a *p* ar ôl *s*. cf. *ysbyty* / *yspyty*. Y *barcer* fyddai'n trin lledr trwy ei drochi yn gyntaf mewn pwll calch i gael gwared o'r blew cyn ei fwydo wedyn mewn trwyth o ddŵr oer a rhisgl derw. Y rhisgl hwn (*bark*) a roddodd y gair *barker* yn Saes. Gweler hefyd MR, TCHSG 52-3, (1991-2), 23. Awgryma'r fannod a gadwyd yn yr enw dros y blynyddoedd fod yr enw yn wreiddiol yn cyfeirio at farcer penodol. Cf. *Barkers Field* yn Garton, Swydd Efrog (EFND, 13).

Maes-y-merddyn	Llanbeblig		SH 4960
<i>Maes y mirddin</i>	1765	EwBangor	B1765/90 2817
<i>Maes y Merddyn</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>maiss merddyn</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>maes merdden</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Maesmyrddyn / Maesmyrdyn</i> <i>/Maesymyrddyn</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84(58)
<i>Maes y Mithen</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Maesymerthyn</i>	1783	NewGlynllifon	XD2 / 7847
<i>Maes y Merthyr</i>	1788	Myn.Llb.	C162
<i>Maes y murddyn</i>	1797	EwBangor	B1797/45 7954
<i>Maes y Merddun</i>	1801	EwBangor	B1801/52 8580
<i>Maes y merddyn</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Maes y Merddyn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Maesymerddyn / Maesmerddyn</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Maes y Merddyn</i>	1843	NewGlynllifon	XD2 / 6452
<i>Maes Merddyn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Maes merthyn</i>	1853	Bangor	8555
<i>Maesmerddyn</i>	1874	NewGlynllifon	XD2 / 8542
<i>Maesmerddyn</i>	1874	Worrall	213
<i>Mas-y-marddun</i>	1886	Postal Dir.	181
<i>Maes-Merddin</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Maes Merddyn</i>	2000	CCPost	(Caethro)

#### *maes, y, murddun*

Ar y lôn sydd yn mynd o Gaethro i Bontnewydd. *Murddun / murddyn* yw'r drydedd elfen, sef adeilad wedi mynd â'i ben iddo. Mae GPC yn nodi'r ffurf *merddyn* fel amrywiad ym Mhenllyn, ond mae'n gyffredin yn Arfon (cf. *Merddyn Wilkins* isod) ac yn digwydd mewn rhannau eraill o Gymru, e.e. ceir *Coetcae Merddun* yn Estyn, Sir Fflint (PNEF, 239, 396).

Merddyn / Merddyn-Wilkins	Llanbeblig		SH 4760
<i>Murthyn</i>	1542	CCQSR	19
<i>Mir Wilkin</i>	1795	Ll&Brynodol	R81
<i>Mur Watkin</i>	1797	Ll&Brynodol	R81
<i>Mur Watkins</i>	1804	Ll&Brynodol	R90
<i>Merddyn</i>	1833	Myn. ENLlf.	015
<i>Merddyn</i>	1835	Myn. Llb.	F121
<i>Merddyn Wilkins</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Mûr hwlcyn or Tyddyn Wilkin</i>	canol y 19g.	Ll&Brynodol	D535
<i>Merthynwlcyn</i>	1847	Bangor	3906

<i>Merddyn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Murhwlcyn otherwise Tythyn Wilkin</i>	1853	Ll&Brynodol	D552
<i>Merddynhwlcyn</i>	1855	Bangor	3932
<i>Murhwlcyn</i>	1857	Ll&Brynodol	D560
<i>Merddyn Wilkins</i>	1859	Bangor	4081
<i>Merddyn</i>	1919	Map OS	XV S.E

***murddun, e.p. Wilkins / Hwlcyn***

Os mai amrywiol enwau ar yr un lle a geir uchod, safai'r annedd hwn ryw hanner ffordd ar hyd y lôn sydd yn mynd o ganol pentref Bontnewydd i bentrefan Llanfaglan. Mae cofnod 1542 hefyd yn lleoli *Murhyn* yn nhrefgordd Castellmai. Ffurf lafar *murddun* yw'r elfen gyntaf, er y ceir ambell enghraifft o *mur* yn ogystal. Yr e.p. *Wilkin(s) / Hwlcyn* yw'r ail elfen. Er bod tebygrwydd sain rhwng yr enwau *Hwlcyn* a *Wilkin*, maent yn ddau enw hollol wahanol. Ffurf fachigol *Hywel* yw *Hwlcyn*, a ffurf fachigol *Will / Wil* < *William / Gwilym* yw *Wilkin*. Yn Ll&Brynodol R81 newidiodd *Mir Wilkin* yn *Mur Watkin* o fewn blwyddyn<sup>1</sup>.

<b>Mount Pleasant</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>	
<i>Mount Pleasant</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Cae Hampton &amp; Mount Pleasant</i>	1847	Bangor	3906
<i>Mount Pleasant</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae Hampton &amp; Mount Pleasant</i>	1855	Bangor	3932
<i>Mount Pleasant</i>	1859	Bangor	4081

***Saes. mount, pleasant***

Ni lwyddwyd i leoli'n bendant yr annedd hwn. Yr unig enghraifft o'r enw bellach yn y plwyf yw *Mount Pleasant Square*, sef enw swyddogol Sgwâr Twthill yn yr ardal honno o Gaernarfon. Fodd bynnag, yng nghofnodion 1847 a 1855 mae *Mount Pleasant* wedi ei gyplysu â *Chae Hampton* (q.v.) a oedd yn agos iawn at y *Mount Pleasant Square* presennol. Mae'n enw hynod o gyffredin yng Nghymru a Lloegr (*EFN*, 110–111). Fe'i ceid hefyd yn enw ar dafarn gynt yn Llanwnda q.v.

<b>Mur-Mathew</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4961</b>	
<i>Mûr Mathew</i>	1769	P. yr Aur	23402
<i>Mûr Matthew</i>	1788	OK	178
<i>Mur Mathew</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Myn mathew</i>	1849	Bangor	8555
<i>Mor Mathew</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Mûr Mathew</i>	1857	C. Vincent Fur.Add.	4274
<i>Mur Matthew</i>	1874	Worrall	209
<i>Mûr-Mathew</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Mur Mathew</i>	2000	CCPost	(Caethro)

***mur, e.p. Mathew***

Ar y chwith i'r A4085 wrth fynd o Gaethro i gyfeiriad Caernarfon. Ni lwyddwyd i ddarganfod pwy oedd y *Mathew* hwn.

<b>Muriau Einion</b>	<b>Llanbeblig</b>		
<i>Murie Eign'</i>	1517	Vaynol	1370

<sup>1</sup> Am drafodaeth o'r elfen hon mewn enwau lleoedd yng ngogledd Cymru gweler Bedwyr Lewis Jones, 'Murddyn mewn enwau lleoedd', *BBCS*, XL, (1993), 119–20.



**mur, llu. muriau, e.p. Einion**

Ni wyddys dim oll am y lle hwn ac eithrio ei fod yn nhrefgordd Castellmai. Ni wyddys dim ychwaith am *Einion*.

**Muriau Tegwared ap Hywel**

**Llanbeblig**

*mirie tegwared ap hoell* 1558 Ll&Brynodol M18

**mur, llu. muriau, e.p. Tegwared ap Hywel**

Ni wyddys ymhle yr oedd y lle hwn ac eithrio ei fod yn nhrefgordd Treflan. Fodd bynnag, yr oedd gŵr o'r enw Tegwared ap Hywel, a lisenwid 'Craghbough', yn byw cyn 1352 yn yr ardal a elwid yn Llanfair Prysgol (*Rec. C.* 19)<sup>1</sup>. Ceir cyfeiriad yn 1558 at 'half a wele called *Cragh bough*' a '*Tythin Crach y bothe*' (*Rec. C. Aug.*, 286), ac yn yr un flwyddyn ceir cyfeiriad at *Gavell Crach y Bwch* yn Llanfair-isaf (Ll&Brynodol M18), ac at *Gavell Crach y bouche* yn 1584 (*ibid.* D1006). Cyfeirir at *Tithin Crache y beche* yn 1607 (*ibid.* D1164), ac at gae o'r enw *Crach y bwch* ym mhlwyf Llanfair-is-gaer mor ddiweddar â 1839 (RhPdegwm, 127a-128a).

Felly, gellid tybio y byddai *Muriau Tegwared ap Hywel* yn y rhan honno o blwyf Llanbeblig a fyddai'n ffinio â Llanfair-is-gaer neu Lanrug gan mai yno yr oedd cynelfin y gŵr hwn.

**Pant-cae-haidd**

**Llanbeblig (Waunfawr)**

**SH 5160**

<i>pant y Cae haidd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Pantycæhaidd</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>pant y cae haidd</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Pant y Cae haidd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pant Cae Haidd</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Pantcæhaidd</i>	1788	OK	177
<i>Pant y Cæhaidd</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Pant Cæhaidd</i>	1815	Poole	4176
<i>Pant Gaehardd</i>	1816	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Pant y Cae Haidd</i>	1821	C. in W. R.	B/DL 330-1
<i>Pant y Cae haidd</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Pant Cae haidd</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pantcæhaidd</i>	1835	Cof.Ethol.	
<i>Pant cae haidd</i>	1838	Map OS	78
<i>Pant Cae Hardd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pant Cae Haidd</i>	1874	Worrall	213
<i>Pont-cae-haidd</i>	1886	Postal Dir.	140
<i>Pant-cae-haidd</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pant Cae Haidd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**pant, (y), cae, haidd**

Ar y chwith oddi ar yr A4085 wrth agosáu at Waunfawr o gyfeiriad Caethro. Gwall neu ymgais i fireinio'r enw sydd i gyfrif am yr *hardd* yng nghofnodion 1816 a 1851: mae'r cofnodion eraill yn gwbl gyson. Gwall hefyd yw *pont* yng nghofnod 1886.

**Pant-gwyn**

**Llanbeblig (Waunfawr)**

**SH 5259**

<i>Pant gwyn</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Pant Gwyn</i>	1859	Bangor	4081
<i>Pant-gwyn</i>	1919	Map OS	XVI S.W.

<sup>1</sup> Gweler dechrau'r adran ar blwyf Lanrug.

*Pant Gwyn* 2000 CCPost (Waunfawr)

***pant, gwyn***

Yng nghanol Waunfawr wrth fynd tuag at Groeslon Waunfawr.

<b>Pant-y-cerrig</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>
<i>Pant y cerrig</i>	1810	CyGTan
<i>Pant y garreg</i>	1833	Rumsey Wms 723
<i>Pant y Garreg</i>	1833	Rumsey Wms 727
<i>Panty garreg</i>	1841	RhPDegwm
<i>Pant Tugerig</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Pant-y-cerig</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Pant y Cerrig</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

***pant, y, carreg, llu. cerrig***

Ar gyrion gogledd-orllewinol Waunfawr. Rhaid tybio mai'r un annedd yw *Pant-y-garreg* â *Pant-y-cerrig*.

<b>Pant-y-clafrdy</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4761</b>
<i>domum leprosorum</i>	1336	Penrhyn 283
<i>pant y Klafdu</i>	1623	Ll&Brynodol B11
<i>Pant y klafdu</i>	1625	Ll&Brynodol D941
<i>Pant y Clafdu</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Pant-y: Clavdu</i>	1671/2	Ll&Brynodol R149
<i>pant y Clavrdy</i>	1677	Ll&Brynodol B21
<i>Pant y Claverdu</i>	1695	Ll&Brynodol B30
<i>Pant y clafrdy / Pant y clafr du</i>	1701	Ll&Brynodol D689
<i>Pant y clafrdû</i>	1701	Ll&Brynodol D272
<i>Pant y clafrdy</i>	1704	Ll&Brynodol D279
<i>Pant y clafrdy</i>	1717	Ll&Brynodol B118
<i>Pant y Clafrdû alias Tyddyn Howell</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Pant y Clafrdy</i>	1734-5	Ll&Brynodol D980
<i>Pant y Clafrdy</i>	1749	NewGlynllifon XD2 / 6491
<i>Pant y Clafrdy</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Pant Clafrdy</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Howel or Pant</i>	1775	JTR 5
<i>Tyddyn Howel or Pant</i>	1775	Coed Helen 37
<i>Pant y clafrdy</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Pant y Clafrdû</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Pant y clafrdy</i>	1812	Poole 2377
<i>Pant y Clafferty</i>	1816-20	Bangor f34081. D1
<i>Pant y Clafdy</i>	c. 1826	Coed Helen 169
<i>Pant</i>	1828	Myn.Lib. C143
<i>Pant y Clafrdy</i>	1830	EwBangor B1830/81 13578
<i>Clafrdy</i>	1841	RhPDegwm
<i>Pant y clawdd-du</i>	1843	Coed Helen 141
<i>Pant y Clafog</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Pant</i>	1859	Coed Helen 158
<i>Pant y Clafrdy</i>	1880?	Vaynol 29
<i>Pant</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Pant Road</i>	2000	CCPost
<i>Pant Farm</i>	2002	Map OS Explorer OL17

### ***pant, y, clafrdy***

Y cyfeiriad cynharaf a welwyd hyd yn hyn at y 'clafrdy' yw'r un o 1336 sydd yn sôn am bum acer o dir ger 'y clafrdy y tu hwnt i'r afon Saint' ('*domum leprosum ultra aquam de seint*'). Ni ellir pennu union leoliad y clafrdy ei hun ond mae'r annedd a elwir bellach yn *Pant* ar y gyffordd lle mae'r lôn gul i Bontnewydd yn fforchio oddi ar y ffordd o Gaernarfon i Lanfaglan ychydig y tu draw i groesfan *Pant* ar Reilffordd Eryri. Gellid disgrifio'r fan hon fel 'tu hwnt i'r afon Saint' o safbwynt y dref ei hun.

Er bod MR yn honni bod 'clafrdy yn tueddu i droi'n *clafdy*' (*TCHSG*, 52-3, (1991-2), 17), y gwrthwyneb a ddigwyddodd yma yn yr enw hwn. A hynny sydd yn naturiol mewn gwirionedd gan fod y ffurf *clafdy* yn digwydd yn gynharach yn y Gymraeg na *clafrdy*. Mae *GPC* yn cofnodi enghreifftiau o *clafdy* o'r 14g, ond 1604 yw'r cofnod cyntaf a geir ynddo ar gyfer *clafrdy*. Mae'r ffurf *Pant y clawdd-du* 1843 yn awgrymu fod arwyddocâd yr enw gwreiddiol yn dechrau mynd yn angof a bod yma ymgais i'w resymoli. Ac eto gellid tybio y byddai'r elfen *clafrdy* / *clafdy* yn un gyfarwydd: ceir *Rhydyclafdy* ger Pwllheli. *Clafrdy* yn Llanbadrig, Môn ac yn Llanllyfni, *Clafdy* ger Aberffraw, a *Ffridd y Clafrdy* yn Llandygái (*AMR*). Mae ffurf 1851 uchod yn dangos mwy byth o ddryswch.

Ysbyty oedd y clafrdy a leolid fel rheol mewn llecyn neilltuedig ar gyrion cymuned fel y mae yma. Cf. *Pest-house Close* yn Highworth, Wiltshire, a *Pest-house Field* yn Steeple Acton, Swydd Rhydychen (*EFND*, 165). Ni ddylid dehongli *leprosus* yn llythrennol fel gwahanglwyf. Dywed y Dr. Glyn Penrhyn Jones y byddai'r cleifion yn cynnwys rhai â phob math o glefydau'r croen a chanserau, yn ogystal ag anffodusion eraill a oedd yn wrthun gan gymdeithas (*TCHSG*, 23, (1962), 71).

Yn y cofnodion am 1775 awgrymir mai'r un lle yw *Pant* â *Thyddyn-Howel*, ond ceir nifer o gyfeiriadau at *Dyddyn-Howel* fel annedd annibynnol (q.v.).

<b>Pant-y-defaid</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>
<i>Pantdefaid</i>	1835	Cof.Ethol.
<i>Pant-y-defaid</i>	1838	Map OS 78
<i>Pant y defaid / Panty defaid</i>	1841	RhPDeqwm
<i>Pant y Dafad</i>	1843	Sprott 79
<i>Pant y Dafid or Pant y defaid</i>	1843?	Sprott 81
<i>Pant y Defaid</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Panty defaid</i>	1859	Bangor 4081
<i>Pant y Defaid</i>	1866	Myn. Moriah 08
<i>Pant-y-Defaid</i>	1874	Worrall 213
<i>Pantydefaid</i>	1887	NewGlynllifon XD2 / 7419
<i>Pant-y-Defaid / Pont y Defaid</i>	1893	NewGlynllifon XD2 / 7421
<i>Pant-y-defaid</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Pant y Defaid</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

### ***pant, y, dafad, llu. defaid***

Ar gyrion gogleddol Waunfawr oddi ar y ffordd sydd yn mynd i Geunant.

<b>Pant-y-gro</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Pant y gro</i>	1837	Rumsey Wms 1085
<i>Pant y go</i>	1837	Rumsey Wms 1091
<i>Pant y Gro</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

### ***pant, y, gro / gof***

Yng nghanol pentref Waunfawr. Mae'n debyg ei fod yn cyfeirio at bwll y tynnid graean neu ro ohono.

<b>Pant-y-waun</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5259</b>
<i>Pant y waun</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Pant-y-waun</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pant y waen</i>	1853	EwBangor	B1853/124 18449
<i>Pant y Waun</i>	1859	Bangor	4081
<i>Pant-y-waen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pant Waen</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***pant, y, gwaun***

Ar yr A4085 yng nghanol pentref Waunfawr.

<b>Pen-das-eithin</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5360</b>
<i>Pendaseithin</i>	1830	Rumsey Wms	2658
<i>Pendas eithin</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Pen Dar Eithin</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pen-das-eithin</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pendas Eithin</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***pen, das, eithin***

Ar gyrion gogledd-ddwyreiniol eithaf Waunfawr. Yr ail elfen yw *das / tas*, sef pentwr. Mae'r ddwy ffurf yn digwydd er bod *tas* o bosib yn fwy arferol yn yr ardal dan sylw; cf. *tas wair*.

<b>Pen-dŵr-oyer</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5260</b>
<i>Pen y dur oer</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Pen y dor oer</i>	1859	Bangor	4081
<i>Pen-dŵr-oyer</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Pendwroer</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***pen, y, dŵr, oer***

Ym mhen gogleddol Waunfawr i gyfeiriad Ceunant. Cyfeiria William Hopley at yr annedd hwn yn syml fel 'Dwr oer' (*HMethA*, Dos. Caernarfon, Ardal Waunfawr (Caernarfon, 1913) 47).

<b>Penfforddfangor</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH5259</b>
<i>Pen ffordd fangor</i>	1831	Bangor	8554
<i>Penyffordd Bangor</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Penffordd Fangor</i>	1841	Cyfrifiad	
<i>Penfforddfangor</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Penfforddfangor</i>	1853	Bangor	8555
<i>Penffordd Fangor</i>	1855	Bangor	3932
<i>Pen y fford Bangor</i>	1859	Bangor	4081
<i>Penfforddfangor</i>	1878	Bangor	8555
<i>Penffordd Fangor</i>	1930–1	Bangor	8592

***pen, ffordd, e.p. Bangor***

Yng nghanol pentref Waunfawr, i'r gorllewin o Gefn-y-waun. Mae'n anodd deall grym yr elfen *Bangor*. Mae'n bosib nad enw'r dref *Bangor* sydd yma, ond fod *bangor* yn ei ystyr wreiddiol o 'wrych' neu 'ffens'.

<b>Penmorfa /Morfa Seiont</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4861</b>
<i>Tythyn pen y Morva</i>	1677	NewGlynllifon	XD2 / 7644
<i>Tyddyn pen y morva</i>	1680-1	NewGlynllifon	XD2 / 7645
<i>Pen y Morfa</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Morfa</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddun y Morva / Cae pen y Morva</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Pen morfa</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen Morfa</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Penmorfa</i>	1801	Rumsey Wms	765
<i>Penmorfa</i>	1810	Myn.Llb.	B021
<i>Penmorfa / Morfa Saint</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Pen y Morfa Seiont</i>	1819	Myn.Llb.	B021
<i>Morfa Seiont</i>	1824	Myn.Llb.	B209
<i>Penmorfa</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Morfa Seiont</i>	1845	Myn.Llb.	K187
<i>Penmorfa Cottages</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Morfa Seiont</i>	1876	Myn.Llb.	D146
<i>Morfa Common</i>	2004	Map PSA	

#### **pen, morfa**

Nodir yr annedd hwn ar fap Degwm 1841 ar y Morfa, ac mae'r cofnod c.1815 yn nodi ei fod ar *Morfa Saint*, sef yr ardal sydd yn ymestyn uwchben y Parc Cyhoeddus ar gyrion Caernarfon lle saif Ysbyty Eryri heddiw, ond a oedd gynt hefyd yn cynnwys y pant lle mae'r Parc erbyn hyn. Gweler *Morfa Saint* hefyd dan Gaeau Llanbeblig isod.

<b>Penrhos</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4961</b>
<i>Penrhos y Gwalie</i>	1693	Coed Helen	2
<i>Pen'rhos</i>	1718	Coed Helen	3
<i>Pen y Rhos</i>	1763	EwBangor	B1763/196 2361
<i>Penrhos</i>	1778	Coed Helen	38-9
<i>Pen Rose</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Penrhos</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Penrhos</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Pen Rhos</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pen-rhos</i>	1838	Map OS	78
<i>Penrhos</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Penrhos / Penrhos Bach</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pen-rhos</i>	1903	Map OS	
<i>Pen-rhos</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Penrhos</i>	2000	CCPost	(Caethro)
<i>Penrhôs</i>	2004	Map PSA	

#### **pen, rhos**

Ar gyrion pentref Caethro ar y lôn sydd yn mynd tuag at Bontnewydd. Mae cofnod 1693 yn awgrymu mai'r ystyr yw 'pen Rhos y Gwaliau'. Gw. *Rhosygwaliau*.

<b>Pentre'r-waun</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5359</b>
<i>Pentre waun</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Pentre Waun</i>	1859	Bangor	4081
<i>Pentre'r-waen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Pentre'r Waun</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

**pentref, y, gwaun**

Nodir yr enw hwn bellach (1919 a 2002) fel enw ar ardal ar gyrion de-ddwyreiniol eithaf Waunfawr.

<b>Pen-y-bont</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Penybont</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Pen y bont</i>	1818	Rumsey Wms 393
<i>Penybont</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Pen y Bont</i>	1827	Bangor 8554
<i>Pen y bont</i>	1835	Rumsey Wms 597
<i>Pen y Bont</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Pen y Bont, Waunfawr</i>	1885	Myn.Llb. L172
<i>Penybont, Bontnewydd</i>	1899	Myn.Llb. L235
<i>Pen-y-bont (W)</i>	1959	CA 145
<i>Penybont</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

**pen, y, pont**

Ceir un annedd o'r enw hwn ar yr A4085 ym mhen deheuol Waunfawr. Yr oedd hwn gynt yn gartref i'r bardd David Thomas (Dafydd Ddu Eryri) (1759–1822), a choffeir hyn ar gofeb uwchben y drws. Mae'r bont y cyfeirir ati yn croesi afon Gwyrfa. Mae hwn yn enw poblogaidd iawn: noda'r CCPost (2000) dri annedd o'r un enw ym Montnewydd, a chofnodir tafarn *Penybont Inn* yng Nghaernarfon yn 1797 (Myn.Llb.B246).

<b>Pen-y-bryn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>Tyn y Lon or Penbryn Seiont</i>	1833	Vaynol 134
<i>Penbrynsiont / Penbryn</i>	1841	RhPDegwm
<i>Penbryn Seiont</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Penbryn Seiont</i>	1861	HSThC 81
<i>Penbryn Seiont</i>	1869	Bangor f33975
<i>Penbryn Seiont</i>	1874	Worrall 209
<i>Pen Bryn</i>	1880	NewGlynllifon XD2 / 6455
<i>Penbrynseiont</i>	1904	Bangor f33976
<i>Pen-y-bryn</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Pen-y-bryn</i>	2002	Map OS Explorer OL17
<i>Pen-y-bryn / FforddPenybryn</i>	2004	Map PSA

**pen, y, bryn, e.p. Saint**

Ar ddechrau'r lôn fechan sydd yn troi oddi ar yr A487 am Gaeathro ger Pont Saint ar gyrion Caernarfon. Yr oedd yr enw gwreiddiol yn disgrifio i'r dim safle'r annedd: ar ben y bryn sydd yn codi o afon Saint. Heddiw saif clwstwr bach o dai o'r enw *Pen-y-bryn* ar y safle. Sylwer fod cofnod 1833 yn nodi y gelwid *Penbryn Seiont* hefyd yn *Tyn-y-lôn* (q.v.).

<b>Pen-y-cefn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5160</b>
<i>Pen y Cefn</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Pen y Cefn</i>	1773	EwBangor B1773/87 4243
<i>Pen y Cefn</i>	1776–9	Vaynol 4054
<i>Peny Cefn</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Pen y Cefn</i>	1798–9	Vaynol 4059
<i>Pen y Cefn</i>	1799	Vaynol 3751
<i>Pen y Cefn</i>	1801	EwBangor B1801/58 8586
<i>Peny Cefn</i>	1810/11	Vaynol 4063
<i>Pen y gefn</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081

<i>Penycefn</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Pen y Cefn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pen-cefn</i>	1838	Map OS	78
<i>Pen y cefn</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Pen y cefn</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Penycefn</i>	1904	Bangor	f33976

***pen, y, cefn***

Mae map Robert Dawson, map y Degwm a map OS 1838 yn nodi lleoliad yr annedd hwn rhwng Caethro a Waunfawr.

<b>Pen-y-cock</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4963</b>
<i>Tythyn Cocke in Penygelli</i>	1583	ERD 4
<i>Pen y Cock</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Pen y cock</i>	1827	Bangor 8554
<i>Pen-cock</i>	1838	Map OS 78
<i>Penycock / Pen y Cock</i>	1841	RhPDegwm
<i>Pen y Cock</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Caе pen y cock</i>	1869	Bangor f33975
<i>Caepenycok</i>	1869	Vaynol 976
<i>Caepenycok</i>	1904	Bangor f33976
<i>Pen-y-cock</i>	1920	Map OS XI S.W.
<i>Pen-y-cock</i>	1960	Map OS SH 46

***pen, y, Saes. cock***

Mae safle'r annedd hwn ar y map yn awgrymu mai'r un lle yw â'r annedd a elwir yn awr yn *Hafod*. Mae hwnnw ar y dde i'r B4366 ar gyrion Caernarfon wrth fynd i gyfeiriad Bethel. Byddai hynny'n cyd-fynd â'r disgrifiad o *Tyddyn Cock* 'in Penygelli' yng nghofnod 1583, gan y byddai tir yr annedd hwn yn ffinio ar dir Pen-y-gelli. Ceir sawl cyfeiriad hefyd at annedd o'r enw *Caе-pen-y-cock*, ac mae'n bosib mai amrywiad ar yr enw yw hwnnw. Gweler *Caе'r-cock* uchod am esboniad o'r drydedd elfen.

<b>Pen-y-gelli</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5064 (1 a 2) / SH 4963 (3)</b>
<i>Penygally</i>	1574/5	<i>Star Ch. Pro.</i> 36
<i>Pennygelly</i>	1584	Ll&Brynodol D937
<i>Peny gelli</i>	1585-6	Baron Hill 3180
<i>Pen y gelly</i>	1599	Baron Hill 3182
<i>Tythyn pen y gelli</i>	1636/7	NewGlynllifon XD2 / 7641
<i>Tuthin Pen y gelly</i>	1651	Ll&Brynodol D171
<i>Penygelli</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Penagelly</i>	1671/2	Ll&Brynodol R149
<i>Pen y Gelly</i>	1673	Ll&Brynodol D943
<i>Tythyn penygelly</i>	1677	NewGlynllifon XD2 / 7644
<i>tyddyn pen y Gelly</i>	1680/1	NewGlynllifon XD2 / 7645
<i>Tythyn pen y Gelli</i>	1685/6	NewGlynllifon XD2 / 7646/7
<i>Pen y Gelly</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Pen y Gelli</i>	1698	Ll&Brynodol D631, D956
<i>Penygelly</i>	1698	Ll&Brynodol D632
<i>Pen y gelly</i>	1701	Ll&Brynodol D272
<i>Pen y Gelly</i>	1705	Ll&Brynodol D283
<i>Peny Gelli</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Pen y Gelly</i>	1724-5	Ll&Brynodol D351-2
<i>Penygelly</i>	1741	Dinam Hall 34

<i>Pen y Gelly</i>	1743	EwBangor	B1743/86 100460
<i>Pen y Gelli / Peny Gelli</i>	1748	Ll&Brynodol	D402-3
<i>Penygelly</i>	1750	EwBangor	B1750/57 57
<i>Pen y Gelli</i>	1758	EwBangor	B1758/71 1328
<i>Pen y Gelli Issa otherwise Tu yn y twll</i>	1767	Dinam Hall	36
<i>Pen y Gelly</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y gelli</i>	1775	EwBangor	B1775/66 4572
<i>Penygelli</i>	1778	Myn.Llb.	D034
<i>Pengelli</i>	1778	EwBangor	B1778/64 5060
<i>Pen y Gelli</i>	1778	EwBangor	B1778/65 5061
<i>Pen y Gelly / Pen y Gelly gwyn</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y Gelli / Pen y Gelli gwyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pen y Gelli</i>	1798-9	Vaynol	4059
<i>Pen y Gelli Gwyn</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Penygelli</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Pen y Gelli</i>	1827	Bangor	8554
<i>Pen y gelli otherwise Gelli ganol</i>	1827	Rumsey Wms	2614
<i>Pen y Gelli or Gelli Ganol</i>	1828	JTR	19
<i>Pen y gelli otherwise Gelli ganol</i>	1835	Rumsey Wms	1054-5
<i>Pen y gelli</i>	1840	CVincent	2214
<i>Pen y gelli/ Penygelli / Penygelli wyn</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Penygelli-issaf otherwise Ty yn twll</i>	1847	Dinam Hall	155
<i>Penygelli/ Penygelli Ganol</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>/PengelliWynn</i>			
<i>Peny gelli gwyn</i>	1851	Ll&Brynodol	D542
<i>Pen y Gelliwen</i>	1865	Myn.Llb.	G378
<i>Penygelli</i>	1869	Coed Helen	165
<i>Pen y gelli Bank / Pen y Gelli wyn</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Penygelibank /Penygellegwyn</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Pengelli Bank</i>	1907	Myn. Cae	D037
<i>Pen-y-gelli /Pen-y-gelli-gwyn /Pen-y-gelli-banc</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Pengelli / Pengelli Isaf / Pengelli Wyn Est</i>	2000	CCPost	
<i>Pen-y-Gelli</i>	2002	Map OS	Explorer OL17
<i>Pen-y-Gelli / Pengelli-isaf / Pengelli-wyn</i>	2004	Map PSA	

### **pen, y, celli**

Yr oedd yr holl anheddau uchod gynt oddi ar y B4366 wrth fynd o Gaernarfon i Fethel ychydig cyn cyrraedd y groeslon am Crug ar y chwith a Phont-rug ar y dde. Bellach *Pengelli* (1) a *Phengelli Isaf* (2) yn unig a nodir yn y CCPost, ynghyd â stad o dai ar safle *Pengelli Wyn* (3). Trydedd elfen yr enw yw'r eb. *celli*, sef llwyn o goed neu goedlan, er nad oes unrhyw gelli amlwg i'w gweld o gwmpas y lle heddiw. Ym map OS 1920 cofnodir dau annedd â'r enw *Pen-y-gelli*, er eu bod led dau gae oddi wrth ei gilydd. Er bod cofnodion 1767 a 1847 yn awgrymu mai'r un annedd oedd *Penygelli Isaf* a *Thy'n Twll*, maent bellach yn ddau annedd ar wahân (CCPost). Cofnodwyd dros ddwsin o enghreifftiau o'r enw Cern. cyfatebol *Pengelly* yng Nghernyw (*Corn. PNE*, 180).

### **Pen-y-gongl**

### **Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Penygonol</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y Congol</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y Gongol</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Penygonl</i>	1783	P. yr Aur	4058



<i>Pen y Gongol</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y gongl</i>	1841	Cyfrifiad	
<i>Pen y Gongl</i>	1851	Cyfrifiad	

***pen, y, congl***

Ni lwyddwyd i'w leoli'n bendant, ac eithrio ei fod yn Waunfawr yn ôl cofnodion y Cyfrifiad.

<b>Pen-y-graig</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5359</b>
<i>Pen y Graig</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Penygraig</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Pen y Graig</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pen y Graig</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***pen, y, craig***

Ym mhen dwyreiniol pentref Waunfawr, ond efallai fod cofnod 1783 yn cyfeirio at annedd gynt o'r un enw yn nhref Caernarfon.

<b>Pen-y-lan</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4861</b>
<i>Pen y Lan</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Penlan</i>	1776/7	Vaynol	4054
<i>Pen y Lan</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y Lán</i>	1798-9	Vaynol	4059
<i>pen y Llan / pen y Llann</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Pen y Llann</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Peny Llann</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Penylan</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Pen y lan</i>	1827	Bangor	8554
<i>Tyn lon alias Pen y lan</i>	1869	Bangor	133975
<i>Penylan or Tynlon</i>	1869	Vaynol	983

***pen, y, glan***

Mae'r ddau gofnod o 1869 yn dweud mai'r un lle oedd *Penylan* a *Thyn Lôn* (q.v.). Mae un cofnod yn ei restru gyda Chocsidia a rhannau o Rhuddallt. Ceir cofnod arall o 1833 sydd yn uniaethu *Tyn Lôn* â Phenbryn Seiont (Vaynol 134). Felly, gellir yn weddol bendant leoli'r annedd hwn gynt yn yr ardal o gwmpas yr allt sydd yn mynd i fyny o Bont Saint tuag at Bontnewydd a dechrau'r lon sydd yn arwain oddi yno i Gaeathro. Er bod sawl enghraifft o *llan* uchod mae'n debyg mai *glan* sydd yn y drydedd elfen, sef glan afon Saint. er na fyddai *Pen-y-llan* yn anaddas ychwaith gan ei fod ar gyrion pellaf tref Caernarfon.

<b>Pen-y-wrach</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 5064</b>
<i>tythin pen y wrach</i>	1599	Baron Hill	3182
<i>pen y wrach</i>	1602	Baron Hill	4693
<i>Pen y wrâch</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>pen y wrach</i>	1677	Ll&Brynodol	B21
<i>Penywrach</i>	1741	Dinam Hall	34
<i>Penywrach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>pen y wrch</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y Wrach</i>	1776-9	Vaynol	4054
<i>Pen y Wrâch</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Penywrach</i>	1788	OK	175
<i>Pen y Wrach</i>	1792	EwBangor	B1792/58 7183
<i>Penywrach</i>	1797	Poole	3819

<i>Pen y Wrâch</i>	1798–9	Vaynol	4059
<i>Pen y Wrach</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Peny Wrach</i>	1810/11	Vaynol	4063
<i>Penywrach</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pen y wrach</i>	1822	EwBangor	B1822/82 12130
<i>Penywrach</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Pen y Wrach</i>	1827	Bangor	8554
<i>Pen y Wrach</i>	1828	P. yr Aur Add.	1914
<i>Pen-gwrach</i>	1838	Map OS	78
<i>Pen y wrach</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Penywrach</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pengwrach</i>	1867–8	Bangor	8555
<i>Pen y wrach</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Penywrach</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Pen-y-wrâch</i>	1920	Map OS	XI S.W.

### ***pen, y, gwrach***

Safai'r annedd hwn gynt ar y chwith oddi ar Ffordd Bethel y B4366 gyferbyn â Phen-y-gelli-banc. Gallai'r enw gyfeirio at garreg ar siâp pen hen wraig. Ystyr arferol *gwrach* yw gwiddon neu ddewines, ond fe'i defnyddir yn drosiadol ambell dro am rywbeth sydd yn hen neu'n hagr, megis adeilad wedi mynd â'i ben iddo. Fe'i defnyddir hefyd am ysgubau hir o redyn neu wellt a osodid ar ben tas wair neu ar ben to gwellt, neu dwmpath o wair mynydd wedi ei hel â chribyn.

<b>Pont Saint</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>Pont Saint</i>	1763	Myn.Llb. D070
<i>Pent y Saint</i>	1767	Myn.Llb. B033
<i>Pant y Saint</i>	1768	Coed Helen 24–5
<i>Pont Sanct</i>	c. 1795	JE/C&A
<i>Pont y Saint</i>	1802	Myn.Llb. B049
<i>Pont y Seiont / Glan y Seiont</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1
<i>Pont Seiont</i>	1835	Myn.Llb. F083
<i>Pont Seiont</i>	1838	EwBangor B1838/95 15144
<i>Bont Seiont</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Pont seont</i>	1859	Bangor 4081
<i>Glanseiont or Pont Seiont</i>	1882	Vaynol 112
<i>Pont Seiont</i>	1895	Myn.Llb. J315
<i>Ffordd Bont Saint</i>	2004	Map PSA

### ***pont, y, e.p. Saint***

Mae map Robert Dawson 1816–20 yn nodi'r annedd hwn yng nghyffiniau'r bont o'r un enw sydd yn croesi afon Saint hyd heddiw wrth ymyl y Parc Cyhoeddus ar gyrion deheuol Caernarfon. Ceir gwall yn yr elfen gyntaf yng nghofnod 1767, ac mae'n debyg mai *Pont* yw'r elfen gyntaf yng nghofnod 1768 hefyd gan na welwyd unrhyw gyfeiriad arall at *Bant y Saint*. (Am drafodaeth o'r elfen *Saint* gweler uchod dan *Bryn-Seiont*; am drafodaeth bellach o enw *Pont Saint* gweler *Mil a Mwy*, 106). Ffurf ffug yw *Seiont: Pont Saint* a ddywedir hyd heddiw ar lafar.

<b>Pwll-y-gro</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>Pwll y Gro or Gallt y Bont</i>	1855	Bangor 3932
<i>Pwll Gro</i>	1885	Myn.Lblig K144
<i>Pwll-y-gro</i>	1891	Map OS XV N.E.
<i>Pwll y gro or Tanybryn</i>	1904	Bangor f33976

**pwll, y, gro**

Gweler *Tan-y-bryn*.

**Pydew**

**Llanbeblig**

<i>Pudew</i>	18g	Ll&Brynodol	D268
<i>Pydew</i>	18g	Ll&Brynodol	P14
<i>Pydew</i>	1701	Ll&Brynodol	D272
<i>Pydew</i>	1720	Ll&Brynodol	D345
<i>Pydew</i>	1724–5	Ll&Brynodol	D351–2
<i>Pydew</i>	1747–8	Ll&Brynodol	D399
<i>Pydew</i>	1748	Ll&Brynodol	D402–3
<i>Pudew</i>	1765	Ll&Brynodol	D435
<i>Pydaw</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydew</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydw</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydw</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydaw</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pydew</i>	1788	OK	175
<i>Pedew</i>	1797	Ll&Brynodol	R81
<i>Pydew</i>	1811	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydaw</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydaw</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Pydeu</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6

**pydew**

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn. Ceir anheddau o'r un enw hefyd yn Heneglwys, Môn, a Llangystennin, Caern. (AMR). Mae sawl ystyr i *pydew*: siafft a dorrwyd i gyrraedd at ddŵr; pwll neu danc dŵr.

**Richmond Hill**

**Llanbeblig**

**SH 4863**

<i>Richmond Hill</i>	1816	Roger Lloyd II	213
<i>Cae Gwyn (Richmond Hill)</i>	1816	Vaynol	121
<i>Richmond Hill</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Richmond Hill</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Richmond Hill</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Richmond Hill</i>	1840	Map OS	

*e.lle. Saes. Richmond Hill*

Mae Map OS 1840 yn nodi safle'r annedd hwn ar y dde oddi ar Ffordd Bangor ar gyrion y dref yn y fan lle saif stad dai Cae Gwyn heddiw. Nid oes sôn am unrhyw annedd o'r enw hwn bellach, ond arferid cyfeirio at fynd am dro ar lwybr a arweiniai o'r B4366 gan ddilyn cyrion meysydd chwarae Ysgol Syr Hugh Owen i lawr at yr A487 fel 'mynd rownd Richmond Hill' (atgof personol, 20g.).

Tybed a gafodd y lle ei enw o'r gân '*Lass of Richmond Hill*'? Cyfeiria honno at y Richmond yn Swydd Efrog, nid yr un yn Surrey<sup>1</sup>.

<sup>1</sup> Mae geiriau'r gân gan Leonard McNally a'r alaw gan James Hook. Fe'i perfformiwyd yn gyntaf yn 1789 a daeth yn boblogaidd iawn. (*OCM*, 566). Honna rhai mai Frances L'Anson, a oedd yn byw yn Hill House, Richmond, Swydd Efrog, oedd y ferch dan sylw (Leslie Dunkling a Gordon Wright, *Dictionary of Pub Names*, 181).



<i>Rhosdican</i>	1874	Worrall	209
<i>Rhosdican</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Rhosdiccan</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Rhôs-Dican</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Rhôs-Dican</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Plas Rhosdican</i>	2000	CCPost	

***rhos*, e.p. *Dicin/Dicyn*, *coch***

Ar ochr chwith y ffordd wrth fynd o Gaernarfon tuag at bentrefan Llanfaglan. Mae'r e.p. Dafydd yn esgor ar y ffurfiau bachigol *Deicyn* a *Dykan* (*WS*, 84), ac mae'r e.p. Richard hefyd yn esgor ar y ffurfiau bachigol *Dickon* a *Dickin* (*ES*, 450), felly mae'n anodd dweud ai Dafydd ynteu Richard oedd y gŵr hwn. Credai J. Lloyd-Jones mai ffurf anwes ar Richard yw *Dican* (*ELISG*, 34), a honnai W.J. Gruffydd yntau mai ffurf fachigol Gymraeg o *Dic* sydd yma (*WJG*, 42, Rhan 7, Atodiad). Ceir cyfeiriad gan MR at ŵr o'r enw Dacyn ap Llel Goch yng Nghaernarfon ym 1515. (*TCHSG*. 52–3, (1991–2), 27). Efallai mai hwn yw *Dicon* / *Dicin* / *Dican* Goch, yn enwedig os oedd ei dad yn bengoch. Cymharer *Tyddyn Dican* yn Nolbenmaen a *Chae Deicyn* ym Merriw, Ellesmere, Dudleston, Llanddwywe, Maes-glas a Llanfairfechan (AMR). Ymgais i resymoli'r enw a geir yn *Rhosdirion* 1851.

**Rhosygwaliau**

**Llanbeblig**

**SH 4960**

<i>Rhos y gwalliau</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Rhosgowlia</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Rhosygwalia</i>	1817	NewGlynllifon	XD2 / 7416
<i>Tyn rhos Gwalia</i>	1831	Bangor	8554
<i>Rhos y gwalia</i>	1838	C.Vincent	2213
<i>Rhosgwalia</i>	1864	C.in W.R.	B/DL/131

***rhos*, *y*, *gwal*, *llu*, *gwaliau***

Ni wyddys ai hwn oedd enw llawn *Rhos* (q.v.), ond yn sicr yr oedd cae o'r enw hwn yn *Llety* sydd yn yr un ardal. Mae map Robert Dawson (1816–20) yn nodi *Rhosgowlia* fel ardal yn ymestyn yn gyfochrog â'r lôn sydd yn mynd o Gaethro i Bontnewydd, ac mae'r cofnod c. 1815 yn disgrifio'r tir o'r enw hwn fel comin. Mae'n anodd esbonio *gwaliau*. Os mai 'muriâu' sydd yma, mae'r ffurf 'waliau' heb yr g ddechreuol yn llawer mwy arferol yn Arfon. Ceir *Rhosygwaliau* hefyd yn Llanfor, Meirionnydd.

**Rhuddallt**

**Llanbeblig**

**SH 4961 (1) / SH 4861 (2 a 3)**

<i>Rudallt</i>	1349	<i>Rec. C.</i>	97
<i>Ruall</i>	1398/9	<i>Rec. C.</i>	232
<i>Rudallt</i>	1399	W.Ch.Comm.	I. 259
<i>Yrudallt</i>	1426	P.S. Peniarth	DC1
<i>Yrudallt</i>	1431	P.S.Peniarth	DC3
<i>Ruddhalt</i>	1441	P.S. Peniarth	DC5
<i>Ruthallt</i>	1538	P.S.Peniarth	DC15
<i>Ruthallt</i>	1571	P.S. Peniarth	DC29
<i>Tuthyn Jeu[a]n lloide or Rhuddallt</i>	1603	Ll&Brynodol	D130
<i>Rhudalt</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Rhuddallt / Tythin y Rhûddallt</i>	1712	P. yr Aur Fur. Add	2138–9
<i>Reddallt</i>	1713	NewGlynllifon	XD2 6479
<i>Rhûddallt / Tythin y Rhûdd allt</i>	1735	P.yr Aur Fur. Add.	2141–2
<i>Tyddyn y Rhyddallt</i>	1735	P. yr Aur	19192
<i>Tyddyn Rhyddallt</i>	1739	P. yr Aur	19194
<i>Rhyddallt</i>	1739	P. yr Aur	19195
<i>Ryddallt</i>	1742	EwBangor	B1742/85 100274

<i>Rhydd allt fawr</i>	1761	EwBangor	B1761/71 1858
<i>Rhyddallt Bach</i>	1769	EwBangor	B1769/62 3569
<i>Rhyddallt fawr / Rhyddallt bach</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Rhyddallt fawr</i>	1788	OK	176
<i>Rhyddallt</i>	1797	Myn.Llb.	B187
<i>Rhyddallt</i>	1801	Thorowgood	140
<i>Rhydd allt</i>	1809	EwBangor	B1809/56 9883
<i>Rhyddallt</i>	1814	Rumsey Wms	1873
<i>Rhyddallt</i>	1822	P.yr Aur Fur.Add.	2144
<i>Rhyddallt / Rhyddallt bach</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Rhyddallt bach / Rhyddallt Ganol</i>	1831	Bangor	8554
<i>Rhyddallt</i>	1832	EwBangor	B1832/86 13928
<i>Rhyddallt Bach</i>	1834	Myn.Llb.	C064
<i>Rhuddallt</i>	1838	Map OS	78
<i>Rhyddallt fawr / Rhyddallt-bach / Rhydd allt ganol</i>	1841	RhPDegwm	
<i>rhyddallt fawr</i>	1849	Myn.Llb.	C062
<i>Ryddalld Bach / Ryddalld Ganol</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Rhyddallt</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Rhyddallt Ganol</i>	1879	DWms	2
<i>Rhyddallt</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Rhyddallt-ganol / Rhyddallt Lodge</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Rhyddallt-bach / Rhyddallt-fawr</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Rhuddallt Bach / Rhyddallt Ganol</i>	2000	CCPost	(Caethro)

### ***rhudd, gallt***

Mae'r anheddau sydd yn cynnwys yr elfen *Rhuddallt*, sef *Rhuddallt-fawr*, *Rhuddallt-bach* a *Rhuddallt-ganol*, oddi ar y ffordd rhwng Caethro a Bontnewydd, ond yr oedd *Rhuddallt* hefyd yn enw ar y drefgordd, a chyfeiriadau at y drefgordd yw llawer o'r cofnodion cynnar uchod. Dengys y cofnodion cynharaf mai *rhudd + gallt* yw elfennau'r enw, ond newidiwyd y sillafiad dros y blynyddoedd a'i droi'n *Rhyddallt*. Mae cofnod 1603 yn rhoi enw arall ar annedd *Rhuddallt* sef *Tythyn Ieuan Lloyd*, a rhydd cofnod arall o'r un flwyddyn enw'r gŵr hwn yn llawnach: Ieuan Lloyd ap William Thomas (LI&Brynodol D131).

### **Rhwngyddwryd**

### **Llanbeblig (Waunfawr)**

### **SH 5260**

<i>Rhwngyddwryd</i>	1801	P. yr Aur	20702
<i>Rhwngddwrydd</i>	1824	P. yr Aur Add.	1967
<i>Rhwng y ddwryd farm</i>	1827	Rumsey Wms	981
<i>Rhwng y ddwryd</i>	1830	Rumsey Wms	2658
<i>Rhwng y ddwyrhyd</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Rhwngddwryd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Rhwng-y-ddwryd</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Rhwng Y Ddwryd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

### ***rhwng, y, dwy, rhyd***

Ar gyrion gogleddol pentref Waunfawr. Mae cofnod 1827 yn nodi 'Bryn pistill otherwise Rhwng y ddwryd farm'. Gweler *Bryn-y-pistyll* uchod. Ceir yr un enw yn Rhos-isaf (gweler Anheddau Llanwnda). Cf. *Tweenabrooks* yn Islington, Dyfnaint, am enw Saes. tebyg.

### **Sarn-dŵr-garw**

### **Llanbeblig**

### **SH 4760**

<i>Sarn y Dwggarw</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Sarn Dwr Garw</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Sarnwydwr Garw</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84(60)

<i>Sarndwrgarw</i>	1783	NewGlynllifon	XD2 / 7847
<i>Sarn y dur Garw</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>sarn y dwr garrw</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Sarndwrgarw</i>	1788	OK	176
<i>Sarn y dwr garw</i>	1804	EwBangor	B1804/88 9142
<i>Sarndwrgarw</i>	1813	EwBangor	B1813/92 10606
<i>Sarn Dur Garw</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Sarn dwr Garw</i>	1831	Bangor	8554
<i>Sarn</i>	1838	Map OS	78
<i>Sanddwr garw</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Sarn Dwr Garn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Sand drw garw</i>	1859	Bangor	4081
<i>Sarn Dwr Garw, Bontnewydd</i>	1896	Myn.Llb.	G189
<i>Sarn-dŵr-garw</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Sarnduongarw</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Sarn</i>	2000	CCPost	(Bontnewydd)

***sarn, dŵr, garw***

Oddi ar y lôn sydd yn mynd o ganol Bontnewydd i bentrefan Llanfaglan. Mae afon Beuno yn llifo i mewn i afon Gwyrfaï yn agos at yr annedd hwn, felly gallai cymer y ddwy afon beri fod yn dŵr yn fwy garw yn y fan hon. Llwybr ar godiad yw *sarn*.

<b>Tai-isaf</b>		<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5358</b>
<i>Tau Isa</i>	1750	EwBangor	B1750/55 55
<i>Tai issa</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Tai-issa</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Tai isa</i>	1782	EwBangor	B1782/114 5738
<i>Tai issa</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tai Isa</i>	1785	EwBangor	B1785/68 6282
<i>Tai Issa</i>	1788	OK	177
<i>Tai issa</i>	1801	Rumsey Wms	765
<i>Tai issa</i>	1803	Rumsey Wms	783
<i>Tai Issa</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 7871
<i>Tai isaf</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Tai Issa</i>	1824	Rumsey Wms	952
<i>Tai Issaf</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tau-isa'</i>	1838	Map OS	78
<i>Tai Isaf</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tai Isaf</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tai Isaf</i>	1859	Bangor	4081
<i>Tai Isaf</i>	1874	Worrall	213
<i>Tai-isaf</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tai Isaf</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***tŷ, llu. tai, ans. isel, gradd eithaf isaf***

Ar gyrion de-ddwyreiniol Waunfawr.

<b>Talwrnau</b>		<b>Llanbeblig</b>	
<i>Talwrna</i>	1722	NewGlynllifon	XD2 / 6488
<i>Talwrna</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Talwrna</i>	1795	Poole	3797

***talwrn, llu. talwrnau***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn. Gallai fod yng nghyffiniau Coed-Helen a Than-yr-allt gan fod cae o'r enw *Werglodd talerna* yn Nhan-yr-allt (gweler Caeau Llanbeblig). Lluosog yr eg. *talwrn* sydd yma gyda'r -u derfynol wedi ei cholli yn ôl arfer llafar yr ardal. Mae sawl ystyr i *talwrn*: maes, llain, cwrt, lle i gynnal gornestau ymladd ceiliogod, llawr dymu.

<b>Tan-y-bryn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>	
<i>Tan y bryn</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tan y bryn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pwll y gro or Tanybryn</i>	1904	Bangor	133976
<i>Tan-y-bryn</i>	1920	Map OS	XV N.E.

**tan, y, bryn**

Safai'r annedd hwn ar yr allt sydd yn mynd i lawr o gyffiniau Parc Muriau heddiw tuag at Bont Saint ar yr A487 ar gyrion Caernarfon. Enw arall arno oedd *Pwll-y-gro* (q.v.). Mae cofnod 1904 yn ei ddisgrifio fel 'Cottage on Cocksidia'. Mae Cocsidia (q.v.) hefyd bellach wedi diflannu.

<b>Tan-y-ffordd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>	
<i>Tyn y ffordd</i>	1828	EwBangor	B1828/98 13206
<i>Tan y Ffordd</i>	1829	EwBangor	B1829/115 13431
<i>Tan y ffordd</i>	1830	Rumsey Wms	2658
<i>Tan y ffordd, Waenfawr</i>	1833	Rumsey Wms	643
<i>Tan y ffordd</i>	1833	Rumsey Wms	727
<i>Tan-y-ffordd</i>	1919	Map OS	XVI N.W.

**tan, y, ffordd**

Ar gyrion gogleddol eithaf Waunfawr ar y ffordd i Geunant. Mae'n debyg mai'r un lle yw *Tyn-y-ffordd* a *Than-y-ffordd*: mae *tyn* a *tan* yn ymgynffwrdd weithiau mewn enwau lleoedd.

<b>Tan-y-garreg-fawr</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5358</b>	
<i>Tan y Gareg fawr</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tan y Carreg fawr</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tan y Gaereg fawr</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>tan y Carreg fawr</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tan y garreg fawr</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tan y garreg fawr</i>	1859	Bangor	4081

**tan, y, carreg, mawr**

I'r gogledd-ddwyrain o *Garreg-fawr* (q.v.). sydd yn rhoi ei henw iddo, ac i'r de o Dreflan ar gyrion Waunfawr.

<b>Tan-y-graig-lwyd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH5359</b>	
<i>Tanygraighwyd</i>	1841	RhPDegwm	

**tan, y, craig, llwyd**

Cyplysir yr enw hwn â *Graig-lwyd* (q.v.): mae'r annedd uchod i'r gogledd o'r annedd hwnnw.

<b>Tan-y-waun</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5159</b>	
<i>Tan y Weyn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tan y weyn</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/8



<i>Tan y weyn</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tanywaen</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Tanyweyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddun Tan y Waen</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>tan y weyn</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tan y Wain</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tan y Wean</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tanywaen</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Tany Waun</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tan y Wain</i>	1835	Rumsey Wms	598
<i>Tan-y-waen</i>	1838	Map OS	78
<i>Tan-y-waen</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tan y Waen</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**tan, y, gwaun**

Rhwng afon Gwyrfaï a Chroesywaun.

<b>Tan-y-wern / Ty'n-y-wern</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5358</b>
<i>Tan y wern, otherwise Tyddyn wern</i>	1823	Rumsey Wms 395
<i>Ty'n-y-wern</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Ty'n Wern</i>	2000	CCPost (Waunfawr)

**tan/tyddyn / tyn, y, gwern**

Os gellir dibynnu ar gofnod 1823 ac mai'r un lle yw *Tan y Wern* â *Thyddyn Wern*, yna mae'r annedd hwn ar gyrion de-ddwyreiniol eithaf Waunfawr i gyfeiriad Betws Garmon. Yn ddiweddarach disodlwyd yr elfen *tyddyn* gan y ffurf gywasgedig *ty*.

<b>Traean</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4960</b>
<i>Traian alias Tyddyn ucha</i>	1771	Tynyngongl 408
<i>Trayan</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (61)
<i>Trayan</i>	1783	Ll&Brynodol R163
<i>Trauen</i>	1804	Myn.Llb. C136
<i>Trauan</i>	1804	EwBangor B1804/90 9144
<i>Traian</i>	1823	EwBangor B1823/67 12271
<i>Truan</i>	1831	Bangor 8554
<i>Treian</i>	1838	Map OS 78
<i>Truan</i>	1841	RhPDegwm
<i>Traian</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Treuan</i>	1853	Bangor 8555
<i>Treuan</i>	1878	Bangor 8555
<i>Truan</i>	1890–1	Bangor 8560

**traean**

Mae Map OS 1838 a map Degwm 1841 yn nodi *Treian* yng nghyffiniau Castellmai rhwng Caecathro a Bontnewydd. Mae CCPost 2000 yn nodi annedd o'r enw *Tyddyn Ucha* yn yr un ardal sydd yn ategu cofnod 1771, felly rhaid casglu mai yma y safai *Traean* gynt. Ystyr *traean* yw un rhan o dair, ond mae iddo ystyron arbennig mewn daliadaeth tir. Gall olygu un o dri rhaniad ardal weinyddol, neu gall olygu cyfran gwraig weddw o stad ei gŵr am ei hoes.

<b>Trawsgae</b>	<b>Llanbeblig</b>	
<i>Trousgae</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Trawsgae</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/7

<i>Trowsgae</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Traws Gae</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Draws Cae</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Traws Cae</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Trawcae</i>	1788	OK	177
<i>Glanrafon alias Trosgae</i>	1797	EwBangor	B1797/51 7960
<i>Trawsgae</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Trawsycae</i>	1847	Bangor	3906
<i>Trawsycae</i>	1855	Bangor	3932
<i>Trawsgae</i>	1859	Bangor	4081

#### **traws, cae**

Mae map y Degwm yn nodi'r annedd hwn rhwng *Sarn-dŵr-garw* a *Chae-Samuel* (q.v.) ar y ffordd sydd yn mynd o Bontnewydd i bentrefan Llanfaglan. Ceir y ffurf *Trawscae* a *Trawsgae*. Dywed yr Athro T.J. Morgan ei bod yn anodd i'r glust benderfynu ai *g, b, d, ynteu c, p, t* a ddylai ddilyn *s ac ll* (TC, 192).

#### **Tredefaid / Treddafydd**

#### **Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Tredefaid</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tre Ddafydd</i>	1841	Cyfrifiad	
<i>Treddafydd</i>	1847	Bangor	3906
<i>Treddafydd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Treddafydd</i>	1855	Bangor	3932
<i>Treddafydd</i>	1886	Postal Dir.	140

#### **tre, defaid/ e.p. Dafydd**

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn, ond mae Cyfrifiad 1841 yn ei restru yn Waunfawr. Nodir yn RhPDegwm bod cae o'r enw *Gardd tre dafydd* yn perthyn i *Tredefaid*, felly mae'n debyg mai'r un lle yw *Tredefaid* â'r *Treddafydd* a gofnodir yn ddiweddarach. Mae'n bosib mai ymgais i barchuso *Tredefaid* yw *Treddafydd*: mae MR yn cyfeirio at *Trefydefaid* > *Treddafydd* yn Llantwyd, Penfro (ETG, 105).

#### **Treflan**

#### **Llanbeblig (Waunfawr)**

#### **SH 5358**

<i>Treflan</i>	1352	Rec.C.	20
<i>Treflan</i>	1444/5	Wynnstay	67/172
<i>Treflan</i>	1519	Wynnstay	67/181
<i>Treflan</i>	1525	Penrhyn	298
<i>v. Treflan</i>	1528	Penrhyn	298
<i>Treflan</i>	1538	Wynnstay	67/180
<i>Treflan</i>	1544	CCQSR	i. 210
<i>Treflan</i>	1547	P. yr Aur Add.	318
<i>treflan</i>	1551/2	Baron Hill	8
<i>treflan uchaph</i>	1558	Ll&Brynodol	M18
<i>Treflan</i>	1579	Wynnstay	67/173
<i>Trefflane</i>	1595	Rec. C. Aug.	281
<i>Treflan</i>	1605	Wynnstay	67/182
<i>Trefflan</i>	1647/8	EwBangor	B1647/28
<i>Treflan</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7. 20
<i>Trefflan</i>	1683	EwBangor	B1683/33
<i>Treflan</i>	1721	EwBangor	B1721/43 96602
<i>Treflan</i>	1783	EwBangor	B1783/73 5919
<i>Treflan</i>	1788	OK	165
<i>Dreflan</i>	1790	EwBangor	B1790/81 6864

<i>Tyddyn heilin alias Treflan</i>	1803	P. yr Aur	19970
<i>Treflan Ucha</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Treflan ucha</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Treflan Ucha</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Tyddyn heilyn otherwise Treflan Issa</i>	1824	Rumsey Wms	783
<i>Treflan Uchaf</i>	1828	EwBangor	B1828/85 13193
<i>Treflan Uchaf</i>	1831	Bangor	8554
<i>Treflan Issa</i>	1837	Bangor	19968
<i>Treflan-uchaf</i>	1838	Map OS	78
<i>Treflan / Treflan Isa</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Treflan Isaf / Treflan Ucha</i>	1874	Worrall	212
<i>Treflan-isaf / Treflan-uchaf</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Treflan Isaf / Treflan Uchaf</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Treflan-isaf</i>	2004	Map PSA	

***treflan*, ans. *isel*, gradd eithaf *isaf*, ans. *uchel*, gradd eithaf *uchaf***

Saif *Treflan-uchaf* a *Threflan-isaf* ar gwr de-ddwyreiniol eithaf Waunfawr i gyfeiriad Betws Garmon. Mae MR yn esbonio'r enw fel cyfansoddair tynn gyda'r ystyr 'tre'r llan, sef y dref o gwmpas eglwys y plwyf'. Mae'n bosib mai eglwys Betws-Garmon a olygir yma gan ei bod yn llawer nes at yr anheddau hyn nag eglwys Llanbeblig. Fodd bynnag, yr oedd *Treflan* gynt yn enw ar drefgordd ym mhlwyf Llanbeblig, ac mae'n debyg mai cymryd eu henwau o'r drefgordd honno a wnaeth yr anheddau *Treflan-isaf* a *Threflan-uchaf*. Gw. hefyd *Tyddyn-Heilin*.

<b>Treflanbeblig</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4961</b>
<i>Tre Llanbeblig</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Tre Beblig</i>	1727	Ll&Brynodol R155
<i>Trepeblig</i>	1734-5	Ll&Brynodol D980
<i>tre Lanbeblig</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tre beblig</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tref Beblig</i>	1779	Myn.Llb. F106
<i>Trebeblig</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Trellanbeblig</i>	1788	OK 166
<i>Trefbeblig</i>	1790	P. yr Aur Fur.Add. 2118
<i>Trebeblig</i>	1790	EwBangor B1790/86 6869
<i>Trellanbeblig otherwise Trebeblig otherwise Trefbeblig</i>	1792	Nanhoron 420
<i>Trebeblig</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Trefbeblig</i>	1795	Sprott 42
<i>Trelanbeblig</i>	1804	EwBangor B1804/91 9145
<i>Tref Beblig</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Trebeblig</i>	1816-20	Dawson, Bangor f34081. D1
<i>Treflan beblig</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Treflanbeblig</i>	1824	P. yr Aur 4100
<i>Treflanbeblig</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tre'Llanbeblig</i>	1838	Map OS 78
<i>Trellanbeblig</i>	1841	RhPDegwm
<i>Trefbeblig</i>	1847	C.Vincent Fur.Add. 4274
<i>Trefbeblig Farm</i>	1857	C.Vincent Fur.Add. 4274
<i>Trefbeblig</i>	1861	Sprott 91, 97
<i>Plâs-treflan</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Treflan Peblig</i>	1930-1	Bangor 8592
<i>Plas Treflan</i>	2000	CCPost

**tref, e.ll. Llanbeblig**

Safai'r annedd hwn gynt rhwng eglwys Llanbeblig a Chaethro y tu hwnt i afon Saint. Ceir tŷ mawr o'r enw *Plas Treflan* heddiw rhwng Caethro ac eglwys Llanbeblig ac mae'n bosib fod hwn ar safle *Trefllanbeblig*. Ystyr 'tref' yn wreiddiol oedd 'fferm' neu 'annedd' a cheir sawl enghraifft o gyfuno'r elfen ag enw priod mewn e.lleoedd, e.e. *Trefednyfed*, *Treddolffin* a *Trearddur* ym Môn. Felly hefyd *Trebeblig* uchod. Arferid galw'r tiroedd o gwmpas eglwys y plwyf yn 'dre'r llan' mewn llawer o blwyfi (*ETG*, 118).

<b>Tros-y-gors</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>	
<i>Trosy gors</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Trosygors</i>	1846	Ll&Brynodol	D527
<i>Trosygroes</i>	1847	Bangor	3906
<i>Tros-y-gors</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tros y Gors</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**tros, y, cors**

Ar gyrion gogleddol eithaf Waunfawr ar y ffordd i Geunant. Mae cofnod 1846 yn dweud mai'r un lle oedd *Trosygors*, *Cae'r Pant* a *Garneddwen*, ond mae map 1919 yn nodi *Tros-y-gors* a *Garnedd-wen* fel dau annedd ar wahân er eu bod yn agos i'w gilydd, ac fe'u nodir fel dau annedd yn CCPost 2000.

<b>Tu-ucha'r-ffordd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>	
<i>Ty ucha'r ffordd</i>	1818	Rumsey Wms	393
<i>Ty ucha'r ffordd</i>	1831	EwBangor	B1831/67 13738
<i>Ty uchar ffordd</i>	1835	Rumsey Wms	597
<i>Tai ucha ffordd /Ty ucha r ffordd</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tyuchairffordd</i>	1847	Bangor	3906
<i>Ty uchar ffordd</i>	1853	EwBangor	B1853/129 18454
<i>Tu'cha'r ffordd</i>	1855	Bangor	3932
<i>Tyucha ffordd</i>	1859	Bangor	4081
<i>Tyucharffordd</i>	1930-1	Bangor	8592
<i>Ty Uchar Ffordd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**tŷ, llu. tai/ tu, ans. uchel, gradd eithaf uchaf, ffordd**

Yng nghanol pentref Waunfawr<sup>1</sup>. Bu Owen Williams (Owain Gwyrfaï) (1790-1874), cowper, bardd a hynafiaethydd (*Byw*, 998-9; *CCThA*, 90-6) yn byw yma ar ôl priodi â Margaret Lloyd, merch Pen-y-bryn, Llanwnda (q.v.)<sup>2</sup>. Er mai tŷ a gofnodir gan amlaf yn yr elfen gyntaf, mae'n debyg mai *tu* sydd yma mewn gwirionedd. Yr unig un o'r cofnodion uchod i gydnabod hyn yw'r un o 1855 ond mae'r ystyr yn amlwg yn ffurf 1847.

<b>Twthill</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4863</b>	
<i>Tuttehulle</i>	1401-2	TNA	SC6/1216/1
<i>Tuttle Strete</i>	1610	Speed	
<i>the Tutehill</i>	1643	Baron Hill	3188
<i>ye Toothill</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17

<sup>1</sup> Bu'r Methodistiaid Calfinaidd yn defnyddio'r tŷ hwn fel man cyfarfod rhwng 1750 a 1784; nid oedd neb yn byw yno yr adeg honno (W. Hopley, *HMethA*, Dos. Caernarfon, Ardal Waunfawr, 26)

<sup>2</sup> Ceir cerddi moliant i Waunfawr gan Owen Williams (Owain Gwyrfaï) yn *Gemau Gwyrfaï*, 95, 129-31.

<i>tuthill</i>	1671/2	Ll&Brynodol	R149
<i>the Tuthill</i>	1673	Ll&Brynodol	D943
<i>Caie r Twhill</i>	1722	NewGlynllifon	XD2 / 6488
<i>Cae r Twthil Ucha / Cae r Twthill issa</i>	1740	Coed Helen	14-15
<i>Twthill</i>	1741	Dinam Hall	34
<i>Cae sgybor Fawr otherwise Cae Tuthill Issa</i>	1770	Coed Helen	35-6
<i>Cae'r Tuthill ucha / Cae'r Tuthill isa</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tuthill / Cae Tuthill</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Twthill</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cay'r Twthill</i>	1786/7	Plas Newydd	IX. 5942
<i>Cae-twthill</i>	1788	OK	172
<i>Caer Twthill / Cae Twthill isa</i>	1795	Poole	3797
<i>Tott Hill otherwise Twt Hill</i>	1801	Thorowgood	58
<i>Cae twthill</i>	1806	P. yr Aur	20831
<i>Cae Twt hill / Caeau Twt Hill ucha</i>	1808	P. yr Aur	21170
<i>Cae twthill / Caeau twt hill ucha</i>	1808	Rumsey Wms	812
<i>Tott Hill or Twthill</i>	1812	Poole	2377
<i>Twthill / Cae twthill</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Toothill / Caetwthill</i>	1827	Bangor	8554
<i>Twthill cottage</i>	1833	Rumsey Wms	596
<i>Twtel / Cae twtell</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Twthill</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Twthill bach</i>	1854	Vaynol	167
<i>Twthill Bach</i>	1854	Wood	
<i>Twthill Cottage</i>	1864	RHE	139
<i>Cae Twthill / Twthill Bach</i>	1867/8	Bangor	8555
<i>Twthill Bach</i>	1885	Myn. Cae.	C004
<i>Cae Twthill / Twthill Bach</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Twthill-bâch</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Twthill East / Twthill West</i>	2000	CCPost	
<i>Twthill Cottage</i>	2004	gwybodaeth bersonol	
<i>Gorllewin Twthill / Lon Twthill</i>	2004	Map PSA	

### **Saes.tuthill / toothill**

Craig fawr a'r ardal oddi tani yng Nghaernarfon yw *Twthill* bellach, ond mae'n amlwg fod pedwar annedd yn dwyn yr enw ar un adeg, sef *Twthill*, *Cae-Twthill-ucha*, *Cae-Twthill-isa* a *Thwthill-bach*. Yr oedd *Twthill-bach*, tyddyn bychan wrth odre'r graig, yno yng nghanol y 20g. (atgof personol). Benthyciad o'r Saes. *toothill*, Hen Saes. \**tōt-hyll*, sef 'gwylyfa ar fryn' yw'r enw (gweler hefyd *PNDPH*, 191). Mae'n gweddu'n dda iawn i'r safle gan y ceir golygfeydd gwych i bob cyfeiriad o ben y graig. Mae'r enw *Twthill* yn digwydd hefyd yn Rhuddlan, Harlech a Chonwy, hwythau i gyd, fel Caernarfon, yn drefi â chestyll a garsiwn ynddynt lle byddai galw am wylfa i rybuddio am ddyfodiad y gelyn. (Gweler *ELleoedd*, 30; *TCHSG*, 52-3, (1991-2), 25). Bu cryn amrywio ar y sillafiad dros y blynyddoedd: mae'r sillafiad arferol bellach yn cyfuno Cymreigiad o'r sillaf gyntaf > *twt*, ac yn cadw'r ffurf Saes. yn yr ail sillaf *hill*.

### **Tŷ-coch**

### **Llanbeblig**

### **SH 4864**

<i>Tycoch</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Ty coch</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Ty côch</i>	1788	OK	166
<i>Ty Coch</i>	1796	C. Vincent	2201
<i>Ty Coch</i>	1807	P. yr Aur	20879
<i>Ty Coch</i>	1808	C. Vincent	2202

<i>Tycoch</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Ty coch</i>	1827	Bangor	8554
<i>Tŷ-côch</i>	1838	Map OS	78
<i>Tycoch / Ty coch</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Caea Llanfair or Ty coch</i>	1841	Laurie	WDT/2503
<i>Ty Coch</i>	1842	EwBangor	B1842/75 15968
<i>Tycoch</i>	1874	Worrall	209
<i>Tŷ-côch</i>	1920	Map OS	X S.E.
<i>Ty Coch Farm</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17
<i>Ty Coch Farm</i>	2004	Map PSA	

### **tŷ, coch**

Saif *Tŷ-coch* ar y chwith i'r A487 wrth fynd allan o Gaernarfon i gyfeiriad y Felinheli. Mae ar y ffin rhwng plwyfi Llanbeblig a Llanfair-is-gaer.

<b>Tŷ-gwyn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Tu Gwyn</i>	1719	P.S.Peniarth DC176
<i>Tû Gwyn</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Tû Gwin</i>	1727	Ll&Brynodol R155
<i>Ty Gwyn</i>	1741	P. yr Aur 20510
<i>Ty Gwin</i>	1754	NewGlynllifon XD2 / 6611
<i>Ty Gwynn</i>	1762	Coed Helen 21
<i>Ty gwyn</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Ty Gwyn</i>	1778	Coed Helen 38-9
<i>Ty Gwyn</i>	1778	Plas Coch 3142/3
<i>Ty gwyn</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tygywn</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ty gwyn / Tygywn</i>	1788	OK 175
<i>Ty-gwyn</i>	1804	P. yr Aur 20348
<i>Ty gwyn</i>	1805	Poole 4161
<i>Tygywn</i>	1812	Coed Helen 85
<i>Tygywn</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Tygywn</i>	c.1826	Coed Helen 169
<i>Ty-gwyn</i>	1838	Map OS 78
<i>Tygywn / Ty gwyn</i>	1841	RhPDegwm
<i>Ty gwyn</i>	1843	Coed Helen 141
<i>Ty gwyn bach</i>	1869	Bangor f33975
<i>Tygywn / Tygywnbach</i>	1904	Bangor f33976
<i>Ty-gwyn</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Ty Gwyn</i>	2000	CCPost (Caernarfon)
<i>Ty Gwyn</i>	2000	CCPost (Waunfawr)
<i>Lon Ty Gwyn</i>	2004	Map PSA

### **tŷ, gwyn**

Er bod CCPost 2000 yn rhestru un *Tŷ-gwyn* yng Nghaernarfon ac un arall yn Waunfawr, mae'n debyg fod mwyafrif y cofnodion eraill uchod yn cyfeirio at yr un ar gyrion Caernarfon. Safai gynt yng nghanol y caeau y tu cefn i eglwys Llanbeblig, ond bellach fe'i llyncwyd gan stad dai lle cedwir yr enw yn *Lôn Tŷ Gwyn*. Mae'r cofnod cynharaf uchod o 1719 yn ei ddisgrifio fel 'Tu Gwyn or Welsh Hayes lying near the church in p. Llanbeblig' (P.S.Peniarth, DC176). Mae map OS 1838 yn nodi'r annedd uchod yn ogystal â *Tŷ-gwyn* arall ar safle Lodging Hall oddi ar Ffordd Bethel, ond mae'n debyg mai camgymeriad am *Tŷ-glyn* yw'r ail gyfeiriad hwn. Ar fap Dawson 1816-20 camleolir *Ty gwyn* ar safle *Cae-gwyn*. Mae cofnod 1869 yn disgrifio *Tŷ gwyn bach* fel 'cottage and garden' ar dir Tyddyn-pandy.

<b>Tyddyn-Alice</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4761</b>
<i>Tythin Alis</i>	1575/6	Baron Hill 3179
<i>Tythyn Allice</i>	1628	Baron Hill 4701
<i>Tythin Alis</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Tuddin Alice</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Alies</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Alice</i>	1776-9	Vaynol 4054
<i>Tyddyn Alice</i>	1781	EwBangor B1781/66 5543
<i>Tyddyn Alice</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn Alice</i>	1788	OK 175
<i>Tyddyn alice</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Alice</i>	1801	EwBangor B1801/54 8582
<i>Tyddynalis</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddynalis</i>	1811	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Alice</i>	1823	EwBangor B1823/66 12270
<i>Tyddynalice</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Tyddun Alis</i>	1827	Bangor 8554
<i>Tyddyn Alis</i>	1835	EwBangor B1835/109 14481
<i>Tyddyn Alis</i>	1835	EwBangor B1835/110 14482
<i>Tyddyn Alice</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn Alice</i>	1841	RhPdegwm
<i>Tyddynalus</i>	1847	Bangor 3906
<i>Tyddyn Alice</i>	1869	Bangor f33975
<i>Tyddyn-Alice</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Tyddyn Alys</i>	2000	CCPost (Llanfaglan)
<i>Tyddyn-Alice Farm</i>	2004	Map PSA

***tyddyn, e.p. Alice***

Ar y dde oddi ar y lôn wrth fynd o Gaernarfon i gyfeiriad pentrefan Llanfaglan. Er bod y CCPost yn ei leoli yn Llanfaglan mae'r annedd ar ochr Llanbeblig i'r ffin rhwng y ddau blwyf. Ni wyddys pwy oedd *Alice*.

<b>Tyddyn-bach</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861 (CN) / SH 5061 (CO)</b>
<i>Tythyn bach in Tythyn lloydyn (CN)</i>	1636/7	NewGlynllifon XD2 / 7641
<i>Tythin bach</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Tythyn bach in Tyddy[ ]Llaydyn (CN)</i>	1685/6	NewGlynllifon XD2 / 7646/47
<i>Tyddyn bach</i>	1693	Coed Helen 2
<i>Tyddyn Bach</i>	1718	Coed Helen 3
<i>Tyddyn bach</i>	1770	EwBangor B1770/78 3755
<i>Tyddyn Bach</i>	1778	Coed Helen 38-9
<i>Tyddyn Bach</i>	1778	Plas Coch 3143
<i>Tyddyn Morfa</i>	1780-7	P.S.Glynllifon 84 (61)
<i>Tyddyn bach by morfa (CN)</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn[ ] bach (CO)</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn bach Morfa(CN)</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn bach</i>	1785	EwBangor B1785/69 6283
<i>Tyddyn bach</i>	1788	OK 168, 176
<i>Tyddyn bach by morfa (CN)</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>y Tyddyn bach</i>	1795	JE/MNW
<i>Tyddyn Bach</i>	1812	Plas Coch 3166
<i>Tyddyn bach</i>	1812	Coed Helen 85
<i>Tyddyn bach</i>	1822	EwBangor B1822/78 12126
<i>Tyddynbach (CN)</i>	1824	P. yr Aur 4099

<i>Tyddyn Bach / Tyddyn bach</i>	1828	Coed Helen	94
<i>Tyddyn bach</i> (CO)	1831	Bangor	8554
<i>Tyddyn bach</i>	1841	RhPDechw	
<i>Tyddyn Bach</i>	1881	Vaynol	245
<i>Tyddyn-bâch</i> (CO)	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tyddyn Bach</i> (CO)	2000	CCPost	(Caeathro)
<i>Tyddyn Bach</i> (CO)	2004	Map PSA	

### **tyddyn, bach**

Mae'r cyfeiriadau cynharaf uchod yn cyfeirio at annedd o'r enw hwn ar dir Tyddyn-llwydyn (q.v.) a oedd ar y Morfa rhwng safle'r Parc Cyhoeddus heddiw yng Nghaernarfon ac eglwys Llanbeblig, ac mae'n debyg mai hwn hefyd oedd y *Tyddyn bach by morfa* a gofnodir yn ATT. Mae'r cofnodion diweddarach yn fwy tebygol o fod yn cyfeirio at annedd arall o'r un enw ar gyrion Caeathro. Lle bo modd gwahaniaethu'n bendant rhyngddynt nodwyd yr un yng Nghaernarfon â CN, a'r un yng Nghaeathro â CO.

### **Tyddyn-Cadis**

### **Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Tyddyn y Cadis, otherwise Tyddyn Cadis, otherwise Glanrafon</i>	1818	Rumsey Wms	393
<i>Tyddyn y Cadis, otherwise Tyddyn gwladis otherwise Glyn afon</i>	1835	Rumsey Wms	597

### **tyddyn, e.p. Cadi?/ Gwladus?**

Casgliad Rumsey Williams (LIGC) yw'r unig ffynhonnell a welwyd yn cyfeirio at yr annedd hwn, ac mae hwnnw yn dweud mai enw ar *Glanrafon* (q.v.) ydoedd yn 1818 ac enw ar *Glyn -afon* (q.v.) yn 1835. Ffurf fachigol *Catrin* yw *Cadi*, ond nid yw *Cadis* yn arferol; fodd bynnag, mae cofnod 1835 yn awgrymu mai'r enw *Gwladus* sydd yma.

### **Tyddyn-Danw**

### **Llanbeblig**

<i>Ty dannw, otherwise Tyddyn dannw otherwise Trauan Ty dannw</i>	1818	Rumsey Wms	393
<i>Ty danw, otherwise Tyddyn danw, otherwise Trauan Ty danw</i>	1835	Rumsey Wms	597

### **tyddyn / tŷ, e.p. Tanw?**

Mae'n anodd esbonio'r ail elfen oni cheir yma'r e.p. *Tanw* wedi ei dreiglo'n feddal. Mae'r enw *Tanno* yn digwydd yn eithaf aml yn yr oesoedd canol fel ffurf fachigol ar yr e.p. ben. *Tangwystl*. Cyfeiria MR at *Tanno ferch Cynrig ap Tegwared* yng Nghaernarfon yn 1395 (*TCHSG*, 52-3, (1991-2), 25), ac yr oedd *Tanws ferch Dafydd ap Tegwared* ym Mathafarn Eithaf ym Môn yn 1413-14 (*TNA*, S.C.6/1152/5). Mae'n debyg fod *Tanw* hefyd yn ffurf fachigol ar *Tangwystl*: mae -w yn derfyniad bachigol ben. cf. *Begw*, *Nanw*, a cheir cyfeiriad at ryw ferch o'r enw *Tannow ferch Teg [wared]* yng Nghaernarfon yn 1371 (*CCR*, 60). Mae'r ffurf -danw yn digwydd fel elfen mewn e.lleoedd mewn manau eraill: *Plas Brondanw* yn Llanfrothen, *Brondanw* yn Niwbwrch a *Dryll Danw* yn Nolbenmaen (*AMR*). Ni wyddys ai'r *Traean* (q.v.) yng Nghaeathro oedd y *Trauan* hwn. Fodd bynnag, yn RhPDechw Llanbeblig 1841 rhestrir cae o'r enw *Cae ty danw* dan Glyn-afon, Waunfawr.

### **Tyddyn-Dicws**

### **Llanbeblig**

<i>Tythyn Dicus y vedow</i>	1592	Ll&Brynodol	D113
-----------------------------	------	-------------	------

### **tyddyn, e.p. Dicws, y, bedw?**



Heb ei leoli. Ffurf fachigol ar yr e.p. Dafydd yw *Dicws / Deicws*. Anodd yw esbonio'r elfen *vedow*: mae'n bosib mai 'bedw' sydd yma, ond ni ddisgwylid cael tr. meddal yn *bedw*, os mai ffurf luosog *bedwen* sydd yma.

<b>Tyddyn-du</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4860</b>
<i>Tyddyn du</i>	1781	NewGlynllifon XD2 / 7658
<i>Tyddyn du</i>	1782	NewGlynllifon XD2 / 7661-2
<i>Tyddyn dû</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn dû</i>	1788	OK 165
<i>Tyddyn da</i>	1810	NewGlynllifon XD2 / 7670
<i>Tyddyn du</i>	1810	NewGlynllifon XD2 / 7671
<i>tyddyn du</i>	1813	NewGlynllifon XD2 / 7673
<i>Tyddyn dû otherwise Tyddyndy</i>	1817	NewGlynllifon XD2 / 7679
<i>Tyddyn du</i>	1824	P. yr Aur 4099
<i>Tyddyn du</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyddyn du</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn du</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyddyn Du</i>	1874	Worrall 213
<i>Tyddyn-dû</i>	1920	Map OS XV N.E.
<i>Tyddyn-du</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Tyddyn Du</i>	2000	CCPost (Bontnewydd)

#### **tyddyn, du**

Ar gyrion Bontnewydd ar y dde i'r A487 wrth fynd o Gaernarfon i Bontnewydd.

<b>Tyddyn-dŵr-tonnau</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		
<i>Tyddyn y dwr tena</i>	1767	EwBangor	B1767/80 3226
<i>Tyddyn dwr tonna</i>	1788	OK	178

#### **tyddyn, dŵr, ton, llu. tonnau? tenau?**

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn, ond mae cyd-destun y cofnod yn *OK* yn awgrymu ei fod yn Waunfawr. Mae'n anodd penderfynu hyd yn oed beth oedd yr enw dilys.

<b>Tyddyn-Elen</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4860</b>
<i>Tyddyn Elen ddu</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Elan ddu</i>	1772	P. yr Aur 14311
<i>Tyddin Elen Du</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Ellanddû</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn Elan ddy</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Elanddû</i>	1788	OK 177
<i>Tyddynhelenddu</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddynhelen</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Elen Ddu</i>	1807	Rumsey Wms 2647
<i>Tyddynhelendu</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddynhelenddy</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Elen Du</i>	1814	Rumsey Wms 2580
<i>Tyddyn Helen</i>	1816-20	Dawson. Bangor f34081. D1
<i>Tyddynelenddu</i>	1824	P. yr Aur 4099
<i>Tyddun Elen Ddu</i>	1825	Myn.Llb. B125
<i>Tyddyn Elen ddu</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyddyn Elan</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn elen</i>	1841	RhPDegwm

<i>Tyddyn Elen</i>	1860	Myn.Llb.	G058
<i>Tyddyn Elen</i>	1861	<i>HSThC</i>	81
<i>Tyddyn Helen</i>	1897	Myn.Llb.	K206
<i>Tyddyn Helen</i>	1904	Myn.Llb.	K240
<i>Tyddyn-Elen</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Tyddyn Elen</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Tyddyn Elen / Tyddyn Elen Lodge</i>	2000	CCPost	

***tyddyn, e.p. Elen, du***

Oddi ar ochr chwith yr A487 wrth nesáu at bentref Bontnewydd o gyfeiriad Caernarfon. Collwyd yr ansoddair ben. *ddu* wrth i'r enw gael ei gwtogi gyda threigl amser, cf. y '*coch*' yn enw *Rhosdican* (q.v.). Ceir rhywfaint o ymgynfnewid rhwng *Elen* a *Helen*, yn ddiau dan ddylanwad hanes Elen Luyddog, cf. *Coed-Alun / Helen* (q.v.). Yn 1653/4 ceir cyfeiriad at annedd o'r enw *Tythin Ellin verch Ieuan* (Ll&Brynodol, B17). ond ni wyddys ai'r un lle oedd hwn.

**Tyddyn-Fletcher**

**Llanbeblig**

<i>Tythin ffletcher</i>	1741	Dinam Hall	34
<i>Tuddinflecher</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Flatcher</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Flacher</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn y Flacher</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Fetcher</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn fletcher</i>	1788	<i>OK</i>	168
<i>Tyddyn Fletcher</i>	1791	P. yr Aur	18607
<i>Tythin Fletcher</i>	1797	Poole	3819
<i>Tyddyn Fletcher</i>	1810	P. yr Aur	18744
<i>Tyddyn fletcher</i>	1810	Poole	4171
<i>Tyddynfladger</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddunfletcher</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn ffletcher</i>	1824	P. yr Aur	4098

***tyddyn, e.p. Fletcher***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn ond mae ATT yn ei leoli yng nghyffiniau tref Caernarfon. Gallai'r ail elfen fod yn enw cyff. yn dynodi gwaith y sawl oedd biau'r annedd ar un adeg. cf. *Tyddyn-clochydd* (Llanwnda) a *Maes-y-Barcer*. Enw Saes.yw *fletcher* am wneuthurwr saethau. Fodd bynnag, datblygodd yn gyfenw yn gynnar, a cheir sawl enghraifft ohono fel e.p. yng Nghaernarfon: *Roger le Fletcher* yn 1372 (CCR, 83) a *Wilhelmus Flecher* a oedd yn fwrdaes yn y dref yn 1510 (Ll&Brynodol D921). Ceir cyfeiriad at *Jankyn Fletcher* yn 1544 (Ll&Brynodol, D932) ac eto fel *Jenkyn Flatcher* yn 1567 (P.S.Peniarth, DC 21)<sup>1</sup>. Yn ei hewyllys yn 1568 mynegodd *Ales Fletcher* ei dymuniad i gael ei chladdu yn 'the parish church of Saint Beblycke' (Ll&Brynodol D936). Ceir cyfeiriad yn 1653/4 at *Kae Ffletcher* (Ll&Brynodol, B17). Felly, gallai'r ail elfen yn hawdd fod yn gyfenw.

**Tyddyn-Heilin**

**Llanbeblig (Waunfawr)**

**SH 5358**

<i>Tyddyn helyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn heilin alias Treflan</i>	1803	P. yr Aur	19970
<i>Tyddyn heilyn</i>	1803	Rumsey Wms	783
<i>Tyddynheilin</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Tyddyn heilyn otherwise Treflan Issa</i>	1824	Rumsey Wms	952

<sup>1</sup> Yn y CCQSR am 1541-8 cofnodir y ffurfiau canlynol ar y cyfenw hwn: *Fletcher*, *Flettcher*, *Flachare*, *Flacher* a *Flecher*.

<i>Tyddyn heilyn</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyddyn hoelin</i>	1853	Bangor	8555

**tyddyn, e.p.Heilin / Heilyn**

Mae un o gofnodion 1824 yn nodi mai'r un lle oedd hwn â *Threflan-isaf* (q.v.) ac mae un o gofnodion 1803 hefyd yn nodi *Treflan*. Ni wyddys pwy oedd *Heilin*, ond ceir sawl cyfeiriad yn ATT a manau eraill at *Dŷ Esgob Heilin* yn nhref Caernarfon, er na lwyddwyd i olrhain unrhyw esgob o'r enw hwn yn esgobaeth Bangor na Llanelwy.

<b>Tyddyn-hen</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5064</b>
<i>Tothen heanne</i>	[1560]	Penrhyn 1613
<i>tythen hen alias tythen du in Pen y Gelly</i>	1601	Poole 3359
<i>Tythin hen</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Tyddyn hên</i>	1694	P. yr Aur Add. 1814
<i>Tuddinhen</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn hen</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn hên</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn hên</i>	1788	OK 175
<i>Tyddyn hen</i>	1813	EwBangor B1813/90 10604
<i>Tyddynhen</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Tyddun Hen</i>	1827	Bangor 8554
<i>Tyddyn Hen</i>	1834	C. Vincent 2046
<i>Tythyn hen</i>	1835	Ll&Brynodol D514-5
<i>Tyddyn hen</i>	1835	Ll&Brynodol D1112-3
<i>Tyddyn hen</i>	1840	EwBangor B1840/95 15555
<i>Tyddyn hen</i>	1840	EwBangor B1840/96 15556
<i>Tyddyn hen</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyddyn hen</i>	1841	Laurie WDT/2503
<i>Tyddyn-hên</i>	1851	Ll&Brynodol D541
<i>Tyddyn-hên</i>	1920	Map OS XI S.W.
<i>Tyddyn Hen</i>	2000	CCPost
<i>Tyddyn Hen</i>	2004	Map PSA

**tyddyn, hen**

Ar groesffordd ar y B4366 rhwng Caernarfon a Bethel sydd yn arwain i Bont-rug ar y naill law ac i Grug a Ffordd Bangor ar y llall. Mae'r annedd hwn yn ffinio ar dir Pen-y-gelli, ac mae cofnod 1601 yn awgrymu ei fod unwaith wedi bod yn rhan o Ben-y-gelli.

<b>Tyddyn-Howel</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4761</b>
<i>Tythyn howell</i>	1613	Ll&Brynodol D154
<i>Pant y Clafrdû alias Tyddyn Howell</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>Tyddyn Howel</i>	1762	Coed Helen 21
<i>Tyddyn Howel</i>	1770	Ll&Brynodol D661
<i>Tyddyn Howel</i>	1770	Coed Helen 34
<i>Tuddyn howel</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Howell</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Howel or Pant</i>	1775	Coed Helen 37
<i>Tyddyn Howel or Pant</i>	1775	JTR 5
<i>Tyddyn Howell</i>	1778	Coed Helen 38-9
<i>Tyddyn Howell</i>	1778	Plas Coch 3142
<i>Tyddyn Howel</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn Howell</i>	1788	OK 175
<i>Tyddyn Howel</i>	1812	Plas Coch 3166

*Tyddyn Howell* 1812 Coed Helen 85

***tyddyn, e.p. Hywel > Howell***

Mae cofnod 1720 a dau gofnod 1775 yn nodi mai'r un lle yw hwn â Phant-y-clafdrdy (q.v.), ond mae'n debyg mai annedd ar wahân ond cyfagos ydoedd. Ni wyddys pwy oedd yr *Hywel* hwn.

Ceir cyfeiriad yn 1558 at le o'r enw *Tythyn hoell howrs* yn nhrefgordd Treflan (Ll&Brynodol M18). Ni wyddys pwy oedd yr *Hywel* hwnnw ychwaith na beth oedd ystyr *howrs*. Byddai hwnnw, fodd bynnag, yng nghyffiniau Waunfawr.

<b>Tyddyn-Hwfa</b>	<b>Llanbeblig</b>		
<i>Tyddynhafa</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddhafa</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddynhwyfan</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Tyddun Hwfa</i>	1827	Bangor	8554

***tyddyn, e.p. Hwfa***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn. Yr e.p. gwr. *Hwfa* yw'r ail elfen, ond mae'n anodd esbonio'r ffurf *hwyfan*. Ni wyddys pwy oedd *Hwfa*. Mae'n enw sydd yn digwydd yn aml ym Môn, e.e. Rhostrehwfa.

**Tyddyn-Ismel Llanbeblig**

Gweler dan *Cae Samol / Samuel / Tyddyn-Ismel* uchod.

<b>Tyddyn-Llanbeblig</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Meadow hay alias TythynLlanbeblig</i>	1685/6	NewGlynllifon XD2 / 7646/7
<i>Tyn lan</i>	1803	EwBangor B1803/72 8932
<i>Ty Llanbeblig</i>	1825	EwBangor B1825/62 12557

***tyddyn, e.ll. Llanbeblig***

Ni wyddys lleoliad *Tyddyn-Llanbeblig* ond mae'r enw yn awgrymu ei fod yng nghyffiniau eglwys y plwyf. Mae cael enw Saes. fel *Meadow Hay* yn anarferol ym mhlwyf Llanbeblig, ond yn llai annisgwyl yn y dref ei hun. Ceir cyfeiriad at *Tre meadow hay* yn 1636/7 (NewGlynllifon 7641) ac efallai fod y gair *Tre* yn awgrymu mai'r un lle oedd hwn â *Trellanbeblig* (q.v.).

Mae'n debyg mai annedd gwahanol yw *Tŷ Llanbeblig/Tyn-Ilan*. Gallai hwn gyfeirio at y tŷ bychan sydd wrth giât yr eglwys hyd heddiw. Yr enw arferol ar yr annedd hwn yn ei ddydd oedd *Bwthyn Llanbeblig* (gwybodaeth bersonol), a hwn, mae'n debyg, oedd y 'Llanbeblig Cottage' a restrir yng Nghyfrifiad 1841, a'r 'Cottage Llanbeblig' a restrir yng Nghyfrifiad 1851.

<b>Tyddyn-Llwydyn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>Tythyn lwyddyn</i>	1609	Ll&Brynodol D939
<i>Tythyn bach in Tythyn lloydyn</i>	1636/7	NewGlynllifon XD2 / 7641
<i>Tythin Lloydin</i>	1653/4	Ll&Brynodol B17
<i>Tythyn bach in Tyddy[ ] Llaydyn</i>	1685/6	NewGlynllifon XD2 / 7646/47
<i>Tithin Llwydin</i>	1712	P. yr Aur Fur.Add. 2138-9
<i>Tythyn Llwydin</i>	c.1719	Thorowgood 119
<i>Tythyn Llwydin</i>	1724	Henblas B 164
<i>Tythyn Llwydin</i>	1725	Cynhaiarn 472
<i>Tyddin llwydin</i>	1735	P. yr Aur 19192

<i>Tythin Llwydin</i>	1735	P. yr Aur Fur.Add.	2141
<i>Tythyn Llwydyn</i>	1736	Henblas B	160
<i>Tythyn Llwydin</i>	1743	Henblas B	168
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	1760	Henblas B	175
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Llwydyn/Tyddyn Llwydyn bach</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Llwydun/Tyddyn Llwydun bach</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Llwydyn bach</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Tyddyn Llwydwn</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Llwydun</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddyn llwydyn / Tyddyn llwydyn bâch</i>	1788	OK	175
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	1790	EwBangor	B1790/83 6866
<i>Tyddyn llwydir</i>	1796	Poole	3801
<i>Tyddyn llwydyn</i>	1805	Henblas B	290
<i>Tynllwyden</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn llwydin</i>	1821	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Tyddun llwydun</i>	1827	Bangor	8554
<i>Tyddyn Llwydyn Bach</i>	1828	P. yr Aur	21435
<i>Tyddynllwydyn</i>	1836	Bangor	5302
<i>Ty'n-llwydyn</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn Llwyddyn</i>	1840	Myn.Llb.	D202
<i>Tynllydyn / Tynlly-din / Tyddyn llwydyn</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	1857	Myn.Llb.	F249
<i>Tynlly dyn</i>	1859	Bangor	4081
<i>Tyddyn llwydyn</i>	1867–8	Bangor	8555
<i>Tyddyn-llwydyn ×2<sup>1</sup></i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Tyddynllwdyn</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Tyddyn-llwydyn</i>	1920	Map OS	XV N.E.
<i>Tyddynllwydyn</i>	1960	Map OS	SH 46
<i>Tyddyn Llwydyn</i>	2000	CCPost	
<i>Tyddyn-llwydyn (stad dai)</i>	2004	Map PSA	

### **tyddyn, e.p. Llwydyn**

Bellach llyncwyd yr annedd hwn gan stad fawr o dai modern, ond cadwyd yr enw ar lôn yn stad dai yr Hendre sydd yn cefnu ar y Morfa uwchlaw'r Parc Cyhoeddus ar gyrion Caernarfon. Yr oedd gŵr o'r enw *Llwydyn ap Penmarch* yng Nghaernarfon yn 1365 (CCR 36) ac yn 1372 (ibid. 69), a cheir sôn am *Ieuan Llwydyn* a *Dafydd Llwydyn* yno yn 1368 (ibid. 41, 48). Mae cyfeiriadau hefyd at *Gyfnertth Lwydyn/Llwydyn* rhwng 1371 a 1375 (ibid. 56, 72, 75, 94), *Elena ferch Loydyn* yn 1370/1 (ibid. 64) a *Deiws ap Llwydyn* yn 1374-5 (ibid. 94), ond ni lwyddwyd hyd yma i gysylltu'r un o'r bobl hyn â'r lle hwn. Ni fu *Llwydyn* erioed yn enw arbennig o gyffredin yng Nghymru, felly ni ellir diystyru'r posibilrwydd mai un o'r gwŷr hyn a gofféir yn enw *Tyddyn-llwydyn*. Fodd bynnag, mae'r enw yn digwydd mewn ambell i fan arall: ceir *Tyddyn-llwydyn* ar gyrion Bangor (Map OS 1913) ac yn Llannor (GGR, II, (2003), Rhif 45, 25).

### **Tyddyn-llwyn**

### **Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Tyddyn y llwyn</i>	1693	Coed Helen	2
<i>Tyddyn llwyn</i>	1778	Plas Coch	3142/3
<i>Ty'n Llwyn</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

<sup>1</sup> Nodir dau annedd o'r enw hwn yn agos at ei gilydd ar y map.

**tyddyn, llwyn**

Yr unig enghraifft o'r enw hwn bellach yn yr ardal dan sylw yw *Ty'n Llwyn* yng nghanol pentref Waunfawr, ond ni ellir profi mai'r un safle yw hwn â'r un yn y cofnodion cynharach. Mae'n bosib fod peth cymysgu wedi bod â *Thyddyn-llwyni* isod yn y ddau gofnod cynharaf.

<b>Tyddyn-llwyni</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4960</b>
<i>Tyddyn y Llwyni</i>	1718	Coed Helen 3
<i>Ty'n y llwyni</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>tyn y llwyni</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Llwyni</i>	1778	Coed Helen 38-9
<i>Ty'n Llwni</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn Llwynu</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ty'n Llwynu</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Ty'n llwyni</i>	1788	OK 176
<i>Ty'n Llwiini</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn llwini</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyn llwini</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Tyddyn llwyni</i>	1812	Plas Coch 3166
<i>Tyddyn Llwyni</i>	1824	Bangor 4099
<i>Tyddyn llwyni</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyddyn Llwyni</i>	1836	EwBangor B1836/113 14691
<i>Ty'n-llwyni</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn Llwyni</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyddyn-llwyni</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Tyddyn Llwyni</i>	2000	CCPost (Caeathro)

**tyddyn, llwyn, llu. llwyni**

Rhwng Caeathro a Bontnewydd yng nghyffiniau Castellmai. Ambell dro mae'r elfen gyntaf yn y ffurf gywasgedig *Tyn*.

<b>Tyddyn-pandy</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>
<i>Tythyn y pandie</i>	1628	Baron Hill 4701
<i>Tyddyn Pandu</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn y Pandy</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddynpandy</i>	1788	OK 169
<i>Tyddyn y Pandy</i>	1816	Myn.Lib. F076
<i>Tyddunypendu</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Pandy</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Tyddun y Pandu</i>	1827	Bangor 8554
<i>Tyddyn pandy</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn pandy</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyddyn Pandy</i>	1869	Bangor f33975
<i>Tyddyn Pandy</i>	1904	Bangor f33976
<i>Tyddyn-pandy</i>	1920	Map OS XV N.E
<i>Tyddyn Pandy</i>	2000	CCPost

**tyddyn, pandy**

Ar yr A4085 rhwng eglwys Llanbeblig ac afon Saint ar gyrion Caernarfon. Arferid cyfeirio at yr annedd hwn ambell dro fel *Tyddyn Pandy Rogers* (atgof personol, canol y 20g.). Yr oedd gwraig o'r enw Jane Rogers yn denant yno yn 1904 (Bangor f33976). Am yr elfen *pandy* gweler *Dôl-y-pandy* uchod.

<b>Tyddyn-Sais</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4960</b>
<i>Tythyn y Sais</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>Tyddyn Sais</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn y Sais</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Sais</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (61)
<i>Tyddyn y Sais</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddun y Sais</i>	1783	Ll&Brynodol R163
<i>Tyddyn y sais</i>	1788	OK 177
<i>Tyddunsais</i>	1815	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Sais</i>	1815	Poole 4176
<i>Tuddun y sais</i>	1817	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Sais</i>	1824	P. yr Aur 4100
<i>Tyddynsaise</i>	1827	Rumsey Wms 2824
<i>Tyddyn Sais</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyddyn Sais</i>	1838	Map OS 78
<i>Tyddyn Sais</i>	1841	RhPdegwm
<i>Tyddyn Sais</i>	1853	EwBangor B1853/123 18448
<i>Tyddyn Sais</i>	1864	Myn. Cae. A021
<i>Tyddynsais</i>	1930–1	Bangor 8592

### ***tyddyn, y, Sais***

Nodir yr annedd hwn ar fap OS 1838 rhwng Caeathro a Bontnewydd. Mae'n amlwg oddi wrth y fannod yn y cofnodion cynharaf mai Sais penodol a olygid yma, ar adeg pan oedd cael Sais yn denant neu berchennog yn rhywbeth gwerth ei nodi. Dywed William Hobley fod enw *Tyddyn-Sais* wedi ei newid i *Bodwyn*, ac mae hyn yn hollol bosibl gan fod annedd o'r enw *Bodwyn* ar y safle hwn heddiw (*HMethA*: Dos. Caernarfon, Ardal Caernarfon (1915), 129)

<b>Tyddyn-tincer</b>	<b>Llanbeblig</b>	
<i>Tyddyn Tinker</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Tingker</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Tinker</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn Tinker</i>	1788	OK 176
<i>Tyddyn Tyngker</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Tincer</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn y Tincer</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn Tincar</i>	1811	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddun tingen</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddun y dinger</i>	1815	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn y tingcar</i>	1816	ATT GAG XQA/LT 6/8

### ***tyddyn, tincer***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn, ond mae wedi ei gyplysu ag *Ysbyty* (q.v.) yng nghofnod 1788, sydd yn awgrymu efallai ei fod yn agos at hwnnw, sef rhwng Caeathro a Bontnewydd. Yr oedd *Ysbyty* yn nhrefgordd Castellmai, tra rhestrir *Tyddyn-tincer* dan drefgordd Treflan, ond mae'n bosib ei fod ar y ffin. Crefftwr, teithiol gan amlaf, a drwsiai offer metel oedd y tincer.

<b>Tyddyn-uchaf</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5360 (W) / SH 4960 (C)</b>
<i>Tyddyn Ucha (W)</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Traian alias Tyddyn ucha (C)</i>	1771	Tynyngogl 408
<i>Tyddyn Ucha (W)</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn y ucha (C)</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 6/8

<i>Tyddyn-Ucha</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Tyddyn Ucha</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddynucha (C)</i>	1788	OK	178
<i>Tyddyn Uchaf</i>	1795	AI Pryce	207, 712
<i>Tyddyn ychaf (C)</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tyddyn ucha (W)</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tyddynucha</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Tyddyn-ucha (C)</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyddyn ucha</i>	1841	RhP Degwm	
<i>Tyddyn-uchaf (W) / Tyddyn-uchaf (C)</i>	1919	Map OS	XVI S.W.; XVI N.W.
<i>Tyddyn Uchaf (W)</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Tyddyn Uchaf (C)</i>	2000	CCPost	(Caethro)

***tyddyn, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Mae dau annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llanbeblig. Saif y naill ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Waunfawr (W) a'r llall rhwng Caethro a Bontnewydd (C).

**Tyddyn-wal**

**Llanbeblig**

<i>Tyddyn wal</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn wal</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6

***tyddyn, wal***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn, ond mae wedi ei restru yng nghyffiniau tref Caernarfon yn ATT. Efallai mai'r un lle oedd hwn â *Chae'r Wal* (q.v.) uchod.

**Tyddyn-Walsh**

**Llanbeblig**

<i>Tyddyn Wals</i>	1776/9	Vaynol	4054
<i>Tyddyn y walch</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn y walch</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn y walch</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyddyn Walsh</i>	1788	OK	166, 171
<i>Tyddyn Walsh</i>	diwedd y 18g	Vaynol	4222
<i>Tyddyn Wals</i>	diwedd y 18g	Vaynol	4199

***tyddyn, e.p. Walsh?***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn yn bendant, ond fe'i rhestrir yng nghyffiniau tref Caernarfon yn ATT. Mae'n bosibl ei fod ar ddarn o dir a gofnodwyd yn 1569/70 fel *The Walshehaye* (P.S. Peniarth, DC 27). Yn ôl Vaynol 4222 yr oedd ymhlith y tir a'r anheddau 'around Llanbeblig Church', ac mae nodyn bach wedi ei ychwanegu at y cofnod yn Vaynol 4199 i ddweud: 'this is not the ffield adjoining to the Church yard.' Fodd bynnag, ymddengys nad oedd nepell o'r eglwys. Mae'n debyg mai cyfenw yw *Walsh*.

**Tyddyn-Wilkin**

**Llanbeblig**

Gweler *Merddyn*.

**Tyddyn William ap Hugh ap David ap Harry**

**Llanbeblig**

<i>Tythyn William ap Hugh ap David ap Harry</i>	1661	Gwydir (B.R.A.)	6
---	------	-----------------	---

***tyddyn, ep. William ap Hugh ap David ap Harry***

Ni wyddys lleoliad yr annedd hwn ac cithrio ei fod yn nhrefgordd Treffan.



**Tyddyn-y-cae-coch****Llanbeblig**

<i>Tythyn y Kay Coch</i>	1519	Vaynol	1372
<i>Y Cae Coch</i>	1544	Vaynol	1401

**tyddyn, y, cae, coch**

Ni wyddys dim am y lle hwn ac eithrio ei fod yn nhrefgordd Treflan.

**Tyddyn-y-corn****Llanbeblig**

<i>Tythyn y Corne</i>	1505	Vaynol	1357
<i>Tythyn y Corne</i>	1519	Vaynol	1373
<i>Tythyn y Corn</i>	1539	Vaynol	1387

**tyddyn, y, corn**

Yr unig beth a wyddom am yr annedd hwn yw ei fod wedi bod yn nhrefgordd Castellmai. Ceir annedd o'r un enw ym mhlwyf Llanrug.

**Tyddyn yr Hen Erw****Llanbeblig**

<i>Tythyn yr Hen Erw</i>	1442	P.S.Peniarth	DC6
--------------------------	------	--------------	-----

**tyddyn, yr, hen, erw**

Ni wyddys union leoliad yr annedd hwn ac eithrio ei fod yn nhrefgordd Rhuddallt. Mae'n bosib mai'r un lle oedd hwn ag Erw Gynrig (q.v. uchod).

**Tyn-cae-newydd****Llanbeblig (Waunfawr)****SH 5359**

<i>Tyn y Cae Newydd</i>	1784	EwBangor	B1784/95 6124
<i>Ty'n Cae Newydd</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tyn y cae newydd</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1
<i>Tingaenewudd</i>	1817	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tyn Cae Newydd</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyncae newydd</i>	1841	RhPDeqwm	
<i>Tycaenewydd</i>	1847	Bangor	3906
<i>Ty'n Caenewydd</i>	1852	EwBangor	B1852/118 18203
<i>Ty'n-cae-newydd</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyn Cae Newydd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**tyn, cae, newydd**

Saif yr annedd hwn ychydig i'r dwyrain o ganol pentref Waunfawr.

**Tyn-dryfwl****Llanbeblig (Waunfawr)****SH 5360**

<i>Tyn dryfol</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tandryfol</i>	1841	RhPDeqwm	
<i>Ty'ndrwfwl</i>	1853	Bangor	8555
<i>Tyndrwfwl</i>	1878	Bangor	8555
<i>Ty'n-dryfwl</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyndrwfwl</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyn Drwfl</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

**tyn, tryfwl**

Ar gyrion gogleddol Waunfawr yn ardal Groeslon Waunfawr. Honna J. Lloyd-Jones mai *Ty'n y Drwfwl* yw ffurf gywir, ac mae'n cynnig mai tarddiad yr enw yw *tryfwl / tryfol* o'r Llad. *tribulum* = 'thrashing-sledge' [sic], gan ei gymharu â *Dindrwwl* ym Môn (*ELISG*, 122). Nid yw *GPC* yn cynnig yr ystyr hon; noda *tryfwl / trwfwl* â'r ystyr 'pentwr'. Mae hyn yn cydfynd â damcaniaeth Syr Ifor Williams (*BBCS*, XI, Tach. 1944, 146–7) a'r Athro O. H. Fynes-Clinton (*WVBD*, 551) mai'r ystyr yw twmpath o gerrig, gan ei darddu o'r Llad. *turbula* (ffurf fachigol *turba*, sef torf fechan). Ceir *Tandryfol* yn 1841; ceir rhywfaint o ymglyfnewid rhwng *tan* a *tyn*; cf. *Tanycoed* a *Tyncoed* (q.v.).

<b>Tyn-lôn</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4861</b>
<i>Ty'n y Lôn</i>	1741	Dinam Hall 34
<i>Tuddyn y Lone</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Ty'n y Lon</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyn y lon</i>	1772	P. yr Aur 20591
<i>Ty'n Lon</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Ty'y y Lôn</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ty'n y lôn</i>	1788	OK 175
<i>Tyn y Lôn</i>	1791	P. yr Aur 18607
<i>Tynylon alias Tun y lone</i>	1797	Poole 3821
<i>Tynlone</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Tyn lôn</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1
<i>Tynylon / Tynlon</i>	1824	P. yr Aur 4098
<i>Tyn y lon</i>	1827	Bangor 8554
<i>Tyn y Lon or Penbryn Seiont</i>	1833	Vaynol 134
<i>Ty'n lon</i>	1838	Map OS 78
<i>Tynlon</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyn lon alias Pen y lan</i>	1869	Bangor f33975

#### ***tyn, y, lôn***

Safai'r annedd hwn gynt ar y lôn sydd yn arwain o Bont Saint ar gyrion Caernarfon i Gaethro. Gw. hefyd *Pen-y-lan* a *Phen-y-bryn*.

<b>Tyn-pwll</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4859</b>
<i>Tyn y pwll</i>	1771	Rumsey Wms 157
<i>Tyn y Pwll</i>	1807	Rumsey Wms 2647
<i>Ty'n y pwll</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D1
<i>Tynpwll</i>	1841	RhPDegwm

#### ***tyn, y, pwll***

Mae map Dawson 1816–20 yn lleoli'r annedd hwn yng nghanol Bontnewydd. Dywed cofnod 1807 fod capel i'r Methodistiaid Calfinaidd wedi ei godi ar y tir.

<b>Tyn'rallt</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4761</b>
<i>Ty'n rallt</i>	1783	ATT GAG XQA/LT 6/6
<i>Ty'n Rallt</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ty'n'rallt</i>	1788	OK 175
<i>Ty'n 'rallt</i>	1838	Map OS 78
<i>Tynallt</i>	1843	Coed Helen 141
<i>Tynrallt</i>	1849	EwBangor B1849/100 17519
<i>Tynrallt</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Tyn yr allt</i>	1859	Coed Helen 158
<i>Ty'n-yr-allt</i>	1920	Map OS XV N.E.

<i>Ty'n-yr-allt</i>	1960	Map OS	46
<i>Tanrallt</i>	2000	CCPost	(Lôn Pant)

***tyn, yr, gallt***

Mae'r mapiau OS yn lleoli'r annedd hwn ar y lôn rhwng Pont Saint a Llanfaglan wrth ymyl Pant y Clafrdy, ond mae'n bosibl fod annedd arall o'r un enw yn Nhwthill ar un adeg: yn RhPDegwm 1841 ceir *Cae bach tyn'rallt* a *Cae pen tyrallt* dan *Twthill*. Yn CCPost 2000 nodir yr enw fel *Tanrallt*.

<b>Tyn-rhodd</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>		<b>SH 5260</b>
<i>Tynrhodd</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tyrhodd</i>	1847	Bangor	3906
<i>Tŷ rhodd</i>	1855	Bangor	3932
<i>Ty'n- rhôdd</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Tyn Rhodd</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

***tyn, rhodd***

Ar gyrion gorllewinol uchaf Waunfawr rhwng Croesywaun a Groeslon Waunfawr. Mae'n anodd gweld beth yw arwyddocâd y *rhodd* yn yr ail elfen

<b>Tyn-rhos</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4962</b>
<i>Tyn-rhos</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Tynyrhos</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Tyn rhos</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tynrhos</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tynrhos</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Ty'n-rhôs</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Tynrhos</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyn Rhos Farm</i>	2000	CCPost	(Rhosbodrual)

***tyn, rhos***

Yn ardal *Rhosbodrual* (q.v.) ar gyrion Caernarfon ar y ffordd i Bont-rug. Y *rhos* yn yr ail elfen yw *Rhosbodrual*.

<b>Tyn-twill</b>	<b>Llanbeblig</b>		<b>SH 4963 (C) / SH 5260 (W)</b>
<i>Tû yn y Twll alias Tin y maen hir</i>	1720	Baron Hill	3260
<i>Tû yn Twll</i>	1727	Ll&Brynodol	R155
<i>Ty yn y twll</i>	1734/5	Ll&Brynodol	D980
<i>Pen y Gelli Issa otherwise Tu yn y twll (C)</i>	1767	Dinam Hall	36
<i>Ty'n twll (W)</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Ty'n Twll (C)</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Tyntwill (W)</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (61)
<i>Ty Twll (C)</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyn y Twll (W)</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tunytwill (W)</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Ty'n y twll (C)</i>	1788	OK	171
<i>Ty'ntwill (W)</i>	1788	OK	177
<i>Tyn y twll (C)</i>	1803	EwBangor	B1803/65 8925
<i>Ty'n y twll (C)</i>	1812	EwBangor	B1812/54 10417
<i>Tuntwill (W)</i>	1815	ATT GAG	XQA/LT 6/8
<i>Tyntwill (W)</i>	1824	P. yr Aur	4100

<i>Ty yn y twll otherwise Ty tan y twll</i>	1824	Rumsey Wms	528–9
<i>Tyntwll</i>	1827	Rumsey Wms	978
<i>Tyn twll (W)</i>	1831	Bangor	8554
<i>Ty'n twll (C)</i>	1838	Map OS	78
<i>Tyntwell / Tyntwll</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tyn twll</i>	1842	Rumsey Wms	1113
<i>Penygelli-issaf otherwise Ty yn twll(C)</i>	1847	Dinam Hall	155
<i>Tyntwll (C)</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyntwll</i>	1852	C. Vincent	2218
<i>Tyntwell</i>	1859	Bangor	4081
<i>Tyntwll (C)</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Ty'n-twll (W)</i>	1919	Map OS	XVI S.W.
<i>Ty'n-y-twll (C)</i>	1920	Map OS	XI S.W.
<i>Tyn twll</i>	1930–1	Bangor	8592
<i>Tyn Twll / Tyn Twll Bach / Tyn Twll Mawr (W)</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)
<i>Tyn Twll (C)</i>	2000	CCPost	(Caernarfon)

#### *tŷ / tyn, yn, y, twll*

Mae cofnodion 1767 a 1847 yn lleoli'r *Tyn-twll* ar gyrion Caernarfon (C) ym Mhen-y-gelli-issaf (q.v.) ar Ffordd Bethel, a dengys map Degwm 1841 ei fod ychydig i'r gorllewin o Ben-y-gelli ar yr un ochr i'r ffordd. Mae'r *Tyn-twll* sydd yn Waunfawr (W) ar gyrion gogledd-orllewinol y pentref yn ardal Croesywaun.

#### **Tyn-y-bont**

#### **Llanbeblig**

#### **SH 4962**

<i>y Tythyn ymphen y bont ar Saint</i>	1592	Ll&Brynodol	D113
<i>Ty'n y bont</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D1

#### *tythyn / tyn, y, bont*

Fel rheol deallir y 'bont ar Saint' fel y bont a adwaenir hyd heddiw fel *Pont Saint*, sydd yn croesi'r afon ar y ffordd i Bontnewydd ar gyrion deheuol y dref. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd yn ganiataol mai hon yw'r bont yng nghofnod 1592. Mae'n rhaid croesi afon Saint hefyd y tu draw i Lanbeblig i fynd i Gaeathro. Cyfeirir at y bont honno bellach fel *Pont Pebblig*, ond mae hithau'n ddiau yn 'bont ar Saint', ac wrth y bont hon y nodir *Ty'n y bont* ar fap Robert Dawson.

#### **Tyn-y-ceunant**

#### **Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Tyn y cae nant</i>	1824	Rumsey Wms	952
<i>Tyn y Caenant</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Tynycaenant</i>	1855	Bangor	3932
<i>Ty'n y Ceunant</i>	2000	CCPost	(Waunfawr)

#### *tyn, y, ceunant*

Mae annedd o'r enw hwn wedi ei nodi heddiw yn y CCPost ar gyrion deheuol eithaf Waunfawr y tu hwnt i afon Gwyrfa. Fodd bynnag, byddai hwn yn wreiddiol ym mhlwyf Llanwnda gan mai afon Gwyrfa oedd y ffin. Felly, mae'n fwy na thebyg nad yr annedd hwn sydd yn y cofnodion cynharach, ond ni lwyddwyd i olrhain annedd arall o'r un enw. Mae'n debyg mai *ceunant* sydd yn y drydedd elfen er gwaethaf y sillafiad yng nghofnodion 1824, 1841 a 1855. Ni ellir ystyried y rheini fel ymgais i resymoli'r enw gan y byddai'r enw *Ceunant* yn gyfarwydd iawn i frodorion yr ardal fel enw ardal rhwng Waunfawr a phentref Llanrug.

<b>Tyn-y-coed</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4961 (B)</b>
<i>Tû yn y Coed</i>	1720	Baron Hill 3260
<i>tyn y coed (W)</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tyn y Coed</i>	1774	Tynyngogl 420
<i>Tyncoed</i>	1780-7	P.S.Glynllifon 84 (61)
<i>Ty'n y Coed (W)</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn y Coed (W)</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 6/8
<i>Tynycoed</i>	1815	Poole 4176
<i>Tythyn Uch alias Llwyn yr Iwrch alias Tyn y Coed</i>	1815	C. Vincent 2946
<i>Tyn y coed</i>	1823	EwBangor B1823/65 12269
<i>Tynycoed</i>	1824	P. yr Aur 4100
<i>Tyn y Coed</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyn y coed</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyn y Coed</i>	1859	Bangor 4081
<i>Tyn-y-coed (B)</i>	1960	Map OS SH 46
<i>Ty'n y Coed (W)</i>	2000	CCPost (Waunfawr)
<i>Tyn Y Coed (B)</i>	2000	CCPost (Caethro)

#### **tyddyn / tyn, y, coed**

Mae un annedd o'r enw hwn (W) ar gyrion deheuol eithaf Waunfawr, ond, er iddo gael ei restru dan Waunfawr yn y CCPost, mae'n debyg fod hwn yn wreiddiol ym mhlwyf Llanwnda, gan ei fod y tu draw i'r afon Gwyrfai. Nid oes modd tadogi'r cyfeiriadau i gyd gydag enw mor gyffredin â hwn heblaw fod cofnodion 1773, 1783 a 1795 yn nodi fod *Tyn-y-coed* yn nhrefgordd Treflan. Fodd bynnag mae annedd arall o'r un enw (B) rhwng afonydd Beuno a Gwyrfai ar gyrion dwyreiniol eithaf Bontnewydd.

<b>Tyn-y-gerddi</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5259</b>
<i>Tyn y gerddi</i>	1816	Rumsey Wms 895
<i>Tynygerddu</i>	1841	RhPDegwm
<i>Tyn y gerddi</i>	1841	EwBangor B1841/91 15771
<i>Tyn y Gerddi, Waenfawr</i>	1841	Rumsey Wms 1110
<i>Tyn y Gerddu</i>	1859	Bangor 4081

#### **tyn, y, gerddi**

Yng nghanol pentref Waunfawr. Daeth yn ddiweddarach yn enw ar ardal yn Waunfawr ac mae'n debyg fod yr ardal wedi ei henw ar ôl yr annedd (*TyCh*, 92).

<b>Tyn-y-gors</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4960</b>
<i>Ty'n Gors</i>	1753	EwBangor B1753/65 525
<i>Tyn gors</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Ty'n y Gors</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>tyn y Gors</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 6/7
<i>Ty'n y Gors</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddynyngors</i>	1824	P. yr Aur 4099
<i>Tyddyn Gors</i>	1831	Bangor 8554
<i>Tyn y gors</i>	1841	RhPDegwm
<i>Ty'n-y-gors</i>	1919	Map OS XVI N.W.
<i>Tyn Gors Newydd</i>	2000	CCPost (Caethro)

#### **tyn, y, cors**

Ger afon Beuno rhwng Caethro a Bontnewydd.

<b>Tyn-yr-onnen</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5358</b>
<i>Ty'r onnen</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081. D4
<i>Tyn yr onnen</i>	1824	Rumsey Wms 952
<i>Tynyronnen</i>	1841	RhPDegwm
<i>Ty'n y 'Ronan</i>	1841	Cyfrifiad
<i>Tyn-y-ronan</i>	1886	Postal Dir. 191
<i>Ty'n-yr-onen</i>	1919	Map OS XVI S.W.

***tyn, yr, onnen***

Ar gyrion dwyreiniol Waunfawr<sup>1</sup>.

<b>Waterloo Port</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4864</b>
<i>Waterloo Port</i>	1841	RhPDegwm
<i>Waterloo Port</i>	1847	Bangor 3906
<i>Waterloo Port</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Waterloo Port</i> (ardal)	1960	Map OS SH 46

***e.ll. Waterloo, Saes. port***

Mae hwn bellach yn enw ar ardal ar gyrion gogleddol Caernarfon sydd yn ffinio ar afon Menai oddi ar Ffordd Bangor. Mae'n debyg fod yno annedd o'r un enw yn 1841 a'i fod, fel sawl man arall yng Nghymru a Lloegr, yn coffáu brwydr Waterloo (1815). Cf. *Waterloo* yn Dalston, Cumberland, a *Waterloo Wood* yn Harthill, Swydd Derby (*EFND*, 249).

<b>Waun</b>	<b>Llanbeblig (Waunfawr)</b>	<b>SH 5260</b>
<i>Waun</i>	1841	RhPDegwm
<i>Four Crosses or Waen</i>	1847	Bangor 3906

***gwaun***

Ar gyrion gogleddol Waunfawr ar y ffordd i Geunant. Gweler *Four Crosses*.

<b>Waunfawr</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 5161 – SH 5461</b>
<i>Wayn Vawr</i>	1479–80	Vaynol 1351
<i>Y weyne Vawr issaphe</i>	1519	Vaynol 1373
<i>Weun Vawr Issa</i>	1522	Vaynol 1376
<i>Y Wyen Vaur</i>	1541	Vaynol 1392
<i>Croys y Wern Vawr</i>	1544	Vaynol 1401
<i>y weyn fawr</i>	1558	Ll&Brynodol M18
<i>y wyen vawr</i>	1564	Vaynol 1410
<i>y Weyne Vawr/ Croise y Weyne Vawr</i>	1599	Vaynol 1419
<i>Waunfawr</i>	1788	OK 177
<i>Wenfawr</i>	1795	JE/MNW
<i>Waenfawr</i>	1837	P. yr Aur 19968
<i>Waenfawr</i>	1861	HSThC 86
<i>Waenfawr</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Waunfawr</i>	2002	Map OS Explorer OL 17

<sup>1</sup>Yr oedd gŵr o'r enw anghyffredin Abelonaca Hughes yn byw yn yr annedd hwn yn 1841 (RhPDegwm).

**gwaun, mawr**

Enw ar nodwedd ddaearyddol oedd hwn i gychwyn, cyn iddo ddod yn enw ar ardal ac yn ddiweddarach ar y pentref ei hun. Mae'r ffurf *Wern Vawr* yng nghofnod 1544 yn ddiddorol gan mai hon yw'r ffurf a ddefnyddiodd Edmund Hyde Hall yntau mor ddiweddar â 1809–11. Meddai: 'The common of Wern Fawr, covered with little encroachments by the poor, is peculiarly bare' (*Des. Caerns.* 187). Fodd bynnag, *Waunfawr* neu *Y Waun* yw'r enw a glywir yn lleol bob amser. Mae'r pentref rhwng Caeathro a Betws Garmon. I'r de mae'r mynydd a elwir yn lleol yn Alltgoedmawr, er bod hwn, o gyrraedd ei gopa, yn troi'n Mynydd Grug fel y nesâ at y Lôn Wen a anfarwolwyd gan Kate Roberts (*LW* passim; *Y Waun*, 13). I'r gogledd mae mynydd Cefn-du, ac eir dros hwnnw i Gwm-y-glo. Yn wreiddiol nid oedd ar y waun ddim mwy na chlystyrau yma ac acw o anheddau a elwid yn 'bentrefi'. er mai rhyw hanner dwsin, os hynny, o dai oedd ym mhob un i gychwyn. Fe'u henwyd ar ôl anheddau unigol: *Hafod Olau*, *Treflan*, *Bryn Pistyll*, *Bryn Eithin* (q.v.). Tyfodd pentref *Waunfawr* ei hun yn sgîl chwareli Cefn-du, Cors y Bryniau, *Hafod-y-wern*, *Treflan a'r Garreg-fawr* (q.v.), a rheilffordd Eryri. Yn nechrau'r ugeinfed ganrif daeth diwydiant newydd iawn i fynydd Cefn-du pan adeiladwyd gorsaf radio Marconi ar ei lechweddau. Bu ei mastiau uchel yn dir-nod amlwg yn yr ardal am flynyddoedd (*Y Waun*, 27–8).

**Waun-wartheq****Llanbeblig (Waunfawr)**

<i>Waun Wartheq</i>	1831	Bangor	8554
<i>Waen Wartheq</i>	1853	Bangor	8555
<i>Wainwartheq</i>	1878	Bangor	8555

**gwaun, gwartheq**

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn ac eithrio ei fod yn nhrefgordd Treflan. Ceir yr un elfennau yn union, sef *goon* + *guartheq* yn y Gern. mewn enw cae, *Goenwarrack* (*Corn. PNE*, 115).

**Wern****Llanbeblig****SH 5061**

<i>Y werne</i>	1698	Coleman	D.D. 1034
<i>Wern</i>	1759	EwBangor	B1759/78 1521
<i>Wern</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84(58)
<i>Wern</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Wern</i>	1824	P. yr Aur	4099
<i>Wern</i>	1831	Bangor	8554
<i>Wern</i>	1841	RhPdegwm	
<i>Wern</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Wern</i>	2000	CCPost	(Caeathro)

**gwern**

Ar gyrion deheuol pellaf Caeathro. Mae ffurf 2000 a 2004 yr enw wedi adfer y fannod a achosodd y tr. meddal ar ddechrau'r eb. un. *gwern*. Ystyr *gwernen*, llu. *gwern* yw coed o deulu'r fedwen ('alder') sydd yn tyfu ar dir gwlyb, ond fel rheol mewn e.lle ystyr *gwern* yw man lle mae llawer o'r coed hyn yn tyfu, sef gweirglodd laith neu gors.

**Wernddu****Llanbeblig****SH 5064**

<i>werne ddu / y wern ddu</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>y wern ddu</i>	1658	Thorowgood	27
<i>y wern ddu</i>	1694	Thorowgood	10
<i>y Wern-ddu</i>	1696	Dinam Hall	204
<i>Wern ddu</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Wern ddu</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Wern Ddu</i>	1776–9	Vaynol	4054

<i>wern ddu</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Wernddu</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Wern ddu</i>	1788	OK	175
<i>Wernddu</i>	1790	Henllys	1183
<i>Wern ddû</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Wernddu</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Y Wern Ddû</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Wernddu</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Wern ddu</i>	1827	Bangor	8554
<i>Werndu</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Wernddu</i>	1841	Laurie	WDT/2503
<i>Wern ddu</i>	1855	Bangor	3932
<i>Wernddu</i>	1867–8	Bangor	8555

### **gwern, du**

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn yn bendant, ond mae ATT yn dangos ei fod yng nghyffiniau tref Caernarfon ac o bosib i gyfeiriad Ffordd Bethel. Mae cofnod 1653/4 yn ei gyplysu â Phen-y-gelli a cheir nodyn yn Vaynol 4199 yn ei gyplysu â Phen-y-wrach, sydd yn awgrymu'r un lleoliad.

### **Ysbyty**

### **Llanbeblig**

### **SH 5060**

<i>Spytty r Gwynt</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Spytty'r Gwynt</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Spyttu'r Gwynt</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Sputty'r Gwynt</i>	1776–9	Vaynol	4054
<i>Spytty</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Spitty Gwynt</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Sputty Gwynt</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Spitty</i>	1785	EwBangor	B1785/63 6277
<i>Ysputty</i>	1788	OK	176
<i>Spitty</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Sputty</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Ysbydy'r gwynt</i>	1799	Vaynol	3751
<i>Ysbydyr Gwynt</i>	1809	Vaynol	4062
<i>Ysbydy'r Gwynt</i>	1810–11	Vaynol	4063
<i>Ysbyty'r Gwynt</i>	1812	ATT GAG	XQA/LT 6/7
<i>Ysputtu</i>	1813	EwBangor	B1813/88 10602
<i>Ysputti</i>	1824	P. yr Aur	4100
<i>Ysputty</i>	1831	Bangor	8554
<i>Ysputty</i>	1838	Map OS	78
<i>Ysbyty</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Sputty</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Ysputty r gwynt</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Ysputtyrgwynt</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Ysbyty</i>	1919	Map OS	XVI N.W.
<i>Ysbyty Farm / Ysbyty House</i>	2000	CCPost	(Caethro)

### **ysbyty, yr, gwynt**

Rhwng Caethro a Bontnewydd yng nghyffiniau Castellmai. Ar un adeg yr oedd ysbyty neilltuo rhwng Caethro a Waunfawr (Map OS 1919) yn ogystal â'r un ddiweddarach yng Ngallt-y-Sil (q.v), ond byddai braidd yn rhy bell oddi wrth yr annedd hwn i fod wedi dylanwadu ar yr enw, ac wedi ei sefydlu'n rhy ddiweddar hefyd. Mae GPC yn rhoi'r ystyr ffigurol o 'dŷ fferm' i ysbyty, ond defnydd geiriadurol yn bennaf sydd i hwn yn hytrach nag arfer ar lafar. Mae'n bosib, yn enwedig o gyplysu'r elfen â gwynt, fod yr enw hwn yn yr un



categori ag enwau megis *Llys-y-gwynt* a *Chastell-y-gwynt* a geir mewn ambell fan, ac mai'r ystyr yw 'Llety'r Gwynt', sef enw disgrifiadol i gyfleu annedd mewn man agored a digysgod.

<b>Ysgubor-goch</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4862</b>	
<i>Scybor Coch</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Ysguborgoch</i>	1847	Bangor	3906
<i>Sgubor goch</i>	1869	Bangor	f33975
<i>Ysguborgoch</i>	1869	Vaynol	999
<i>Ysgubor Goch</i>	1880	Myn. Llb.	H145
<i>Ysguborgoch</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Ysgubor-gôch</i>	1891	Map OS	XV N.E.
<i>Ysguborgoch</i>	1904	Bangor	f33976
<i>Ffordd Ysgubor Goch</i>	2000	CCPost	

#### ***ysgubor, coch***

Nid oes annedd o'r enw hwn bellach ond cadwyd yr enw ar stad o dai ar y safle oddi ar yr A4086 ar gyrion Caernarfon wrth fynd tuag at Bont-rug<sup>1</sup>.

<b>Ysgubor-wen</b>	<b>Llanbeblig</b>	<b>SH 4863</b>	
<i>Skybor wenn</i>	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Sgybor wen</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Sgubor wen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Sguborwen</i>	1783	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Scybor wên</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Scubor Wen</i>	1788	OK	168
<i>Skyborwen</i>	1789	C.Vincent Fur.Add.	4297
<i>Yscobor Wen</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Yscuborwen</i>	1816	Roger Lloyd II	213
<i>Ysgubor wen</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081
<i>Yscyborwen</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Scuborwen</i>	1824	P. yr Aur	4098
<i>Ysgubor-wen</i>	1838	Map OS	78
<i>Ysgubor Wen</i>	1839	AlPryce	120
<i>Ysgyborwen</i>	1841	RhPDegwm	
<i>Ysguborwen</i>	1847	Bangor	3906
<i>Scyborwen</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Ysgubor Wen</i>	1860	Myn. Llb.	G459
<i>Ysgubor Wen</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Lon Ysgubor Wen</i>	2000	CCPost	

#### ***ysgubor, gwyn, ans. ben. gwen***

Ar gyrion tref Caernarfon ar yr A487 wrth fynd tuag at y Felinheli. Yr oedd hon yn un o ddwy ysgubor ddegwm plwyf Llanbeblig (OK, 168). Cedwir yr enw yn *Lôn Ysgubor Wen*, sef yr enw Cymraeg ar England Road North yn y cyffiniau.

<sup>1</sup> Mae hon yn stad dai bur enwog yng Nghaernarfon, a chyfeirir yn gellweirus at y trigolion fel 'Y Sgubs' (gwybodaeth bersonol).

## CAEAU LLANBEBLIG

*Roedd enwau i gaeau gynt  
a gwraidd i'n geiriau oeddynt  
enwau ar goll yn nhro'r gwynt.*

*Tudur Dylan Jones, 'Gorwelion' (Awdl Fuddugol Eisteddfod Genedlaethol Cymru  
Eryri a'r Cyffiniau, 2005)*

<b>Acar / Acre</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Acre</i>	Cae-mawr	1841	RhPdegwm	1886
<i>Yr Acar</i>	Glyn-afon	1841	RhPdegwm	457
<i>Acre</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPdegwm	1612
<b><i>acar / Saes. acre</i></b>				

<b>Allt / Gallt</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Yr Allt</i>	Coed-marian	1798-9	Vaynol	4059
<i>Yr Allt</i>	Coed-marian	1809	Vaynol	4062
<i>yr allt</i>	Coed-marian	1869	Bangor	f33975
<i>Yr allt</i>	Maesincla	1841	RhPdegwm	1857, 1862
<i>Allt</i>	Pen-y-cock	1869	Bangor	f33975
<i>Yr Allt</i>	Rhuddallt / Pen-y-lan	1798-9	Vaynol	4059
<i>Yr Allt</i>	Rhuddallt / Pen-y-lan	1809	Vaynol	4062
<i>Yr allt</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPdegwm	1110
<i>Yr Allt</i>	Tan-y-garreg-fawr	1841	RhPdegwm	58
<i>Gallt</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPdegwm	1471
<i>Yr Allt</i>	Tyddyn-pandy	1798-9	Vaynol	4059
<i>Yr allt</i>	Tyddyn-pandy	1809	Vaynol	4062
<b><i>yr, allt / gallt</i></b>				

<i>Yr allt bach</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPdegwm	1459
<i>Yr allt bach</i>	Twthill	1841	RhPdegwm	31
<i>Yr Allt bach</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPdegwm	1476
<i>Yr allt bach</i>	Tyddyn-pandy/Gallt-y-sil	1869	Bangor	f33975
<i>Yr allt bach</i>	Ysgubor-wen	1841	RhPdegwm	1927
<b><i>yr, allt / gallt, bach</i></b>				

Sylwer ar y duedd i beidio â threiglo *bach* > *fach* ar ôl eb. un., nodwedd sydd yn gyffredin iawn yn nhafodiaith Gwynedd (TC, 56; GG, 199). Cf. *Yr ardd bach* a sawl enghraifft arall.

<i>Yr allt bella</i>	Gallt-y-sil	1841	RhPdegwm	1526
<i>Yr allt bella</i>	Maesincla	1841	RhPdegwm	1858
<b><i>yr, allt / gallt, ans. pell, gradd. eithaf pellaf</i></b>				

<i>Yr allt bont</i>	Tyddyn-pandy	1841	RhPdegwm	1531
<b><i>yr, allt / gallt, pont</i></b>				

Pont Peblig dros yr afon Saint yw'r bont. Nid oes angen y fannod yn y gystrawen hon: *Allt bont* fyddai'n naturiol.

<i>Yr allt eithin</i>	Coed-marian	1841	RhPdegwm	1586
<i>Yr allt eithin</i>	Foundry	1841	RhPdegwm	1454
<i>Rallt Eithin</i>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2/ 7445
<i>Yr allt eithin</i>	Graig-lwyd	1841	RhPdegwm	199
<i>Rallt eithin</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPdegwm	1083
<b><i>yr, allt / gallt, eithin</i></b>				

<i>Yr allt fain</i>	Foundry	1841	RhPdegwm	1461
<b><i>yr, allt / gallt, main</i></b>				

<i>Yr allt fawr</i>	Coed-marian	1841	RhPdegwm	1581
<i>Yr allt fawr</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPdegwm	1460
<i>Yr allt fawr</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPdegwm	1305
<i>Yr allt fawr</i>	Tyddyn-pandy/Gallt-y-sil	1869	Bangor	f33975

*yr, allt / gallt, mawr*

<i>Yr allt ganol</i>	Gallt-y-sil	1841	RhPDegwm	1527
<i>Yr allt gannol</i>	Tyddyn-pandy/Gallt-y-sil	1869	Bangor	133975

*yr, allt / gallt, canol*

<i>Allt Goch</i>	Pant-y-clafrdy	1778	Coed Helen	43
------------------	----------------	------	------------	----

*allt / gallt, coch*

<i>Yr allt Goed</i>	Cae-Stanley	1841	RhPDegwm	967
<i>Yr allt goed</i>	Coed-marian	1841	RhPDegwm	1583
<i>Yr allt coed</i>	Coed-marian	1869	Bangor	133975

*yr, allt / gallt, coed*

<i>Rallt lwyd</i>	Twthill	1841	RhPDegwm	3
-------------------	---------	------	----------	---

*yr, allt / gallt, llwyd*

<i>Yr allt pandy</i>	Tyddyn-pandy	1841	RhPDegwm	1532
----------------------	--------------	------	----------	------

*yr, allt / gallt, pandy*

Nid oes angen y fannod yn y gystrawen hon: *Allt pandy* fyddai'n naturiol.

<i>Yr allt ucha</i>	Pant-y-clafrdy	1841	RhPDegwm	1293
---------------------	----------------	------	----------	------

*yr, allt / gallt, ans. uchel, gradd eithaf uchaf*

<i>Gallt Coed Rhyddallt</i>	Rhuddallt -bach	1841	RhPDegwm	1109
-----------------------------	-----------------	------	----------	------

*allt / gallt, coed, e.ll. Rhuddallt*

<i>Gallt Sil</i>	Gallt-y-sil	1841	RhPDegwm	1530
------------------	-------------	------	----------	------

*gallt, sil / e.p. Sill*

Gweler *Gallt-y-sil* yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig.

<i>Gallt y chwarel</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1300
------------------------	-------------	------	----------	------

*allt / gallt, y, chwarel*

Gweler *Cae Bach y Chwarel* isod.

<i>Gallt y pistill</i>	rhan o Ruddallt	1798-9	Vaynol	4059
<i>Gallt y Pistill</i>	rhan o Ruddallt	1809	Vaynol	4062
<i>Gallt y pistill</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPDegwm	1094

*allt / gallt, y, pistyll*

<i>Gallt y prif</i>	Cae-gwyn	1841	RhPDegwm	1806
<i>Gallt y prif</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1086

*allt / gallt, y, prif*

Mae'n bosib mai *Gallt-y-pryf* sydd yma, gan fod hwnnw'n enw sydd yn digwydd hefyd yn Llandwrog (am drafodaeth o'r enw, gweler dan Anheddau Llandwrog), a cheir *Coed-y-pry*, cartref Syr O.M.Edwards, yn Llanuwchllyn. Ar y llaw arall, ceir lloc hynafol o'r enw *Dinas-y-prif* ym mhlwyf Llanwnda, a byddai'n rhaid deall *prif* yno yn yr ystyr o 'arglwydd' neu 'bennaeth'.

<i>Gallt y waun</i>	Dolyfelin	1841	RhPDegwm	942
---------------------	-----------	------	----------	-----

*allt / gallt, y, gwaun*

**Banc Llanbeblig**

<i>Bank</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1391
-------------	-------------	------	----------	------

**banc**

**Beudy**

**Llanbeblig**

*Beyduy Cay yr Tuthyn* ? 1668 Baron Hill 3249  
*beudy, cae, y, tyddyn*

**Bron**

**Llanbeblig**

*Y fron* Castellmai 1841 RhPDegwm 870  
*Fron* Coed-mawr 1841 RhPDegwm 1643  
*bron*

**Bronfa**

**Llanbeblig**

*Bronfa* Fron-llwyd 1841 RhPDegwm 287  
*bron-fa*

Nid yw *bronfa* yn GPC. Mae'n debyg ei fod wedi ei lunio o *bron* ar batrwm enwau anheddau megis 'Disgwylfa' ac 'Arosfa'.

**Brwynog**

**Llanbeblig**

*Brwynog* Tyn-rhos 1841 RhPDegwm 1628  
*brwynog*

Mae'r enw hwn yn perthyn i'r math o enw sydd yn disgrifio man lle tyf llawer iawn o blanhigyn arbennig; cf. *eithin* > *Eithinog*; *rhedyn* > *Rhedynog*; *Celyn* > *celynnog* > *Clynnog*. Gweler *YEE*, 69. Yma mae'n cyfeirio at fan lle ceir llawer o frwyn yn tyfu.

**Bryn**

**Llanbeblig**

*Bryn* Bryn-Seiont 1841 RhPDegwm 1412  
*Bryn* Fron-llwyd 1841 RhPDegwm 282  
*Bryn* Hafod-y-rhyg-uchaf 1869 Bangor 133975  
*Bryn* Tŷ-gwyn 1841 RhPDegwm 1270  
*bryn*

*Y bryn cae hysp* Hafod-y-rhyg-uchaf 1841 RhPDegwm 621  
*y, bryn, cae, hysb*

Nid oes angen y fannod yn y gystrawen hon.

*Bryn Clowarch* Tan-yr-allt 1841 RhPDegwm 1385  
*bryn, cywarch*

Bu cymysgu yn yr ail elfen rhwng *cywarch* a'r e.p. *Llywarch*. Sillefir y ddau enw yn aml ag o yn hytrach nag y yn y sillaf gyntaf yn yr ardal hon. Mae'n debyg mai *cywarch* sydd yma.

*Bryn Eithin* Bryn-eithin 1841 RhPDegwm 1215  
*Bryn Eithin* Cae-Samuel 1878 NewGlynllifon XD2/ 6460  
*Bryn Eithin* Cae-Samuel 1841 RhPDegwm 351, 369  
*bryn, eithin*

*Bryn llwyd* Pant-y-clafrdy 1841 RhPDegwm 1350  
*bryn, llwyd*

*Bryn Mafon* Glanrafon-fawr 1841 RhPDegwm 809  
*Bryn mafon* Glanrafon-fawr 1859 Bangor 4081 809

*bryn, mafonen, llu. mafon*

<b>Buarth</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Y Buarth</i>	Cae-main	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	659
<i>Buarth</i>	Maes-y-merddyn	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	902
<i>Barth</i>	Tyddyn-hen	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	1737
<i>Buarth</i>	Tyn-y-ceunant	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	146
<i>Y Buarth</i>	Wern	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	736
<b><i>buarth</i></b>				
<i>Buarth bach</i>	Coed-mawr	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	1642
<i>Buarth bach</i>	Glyn-afon	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	445
<i>Buarth Bâch</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Buarth bach</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1809	Vaynol	4062
<i>Buarth bach</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	1475
<i>Buarth bach</i>	Tyn-cae-newydd	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	189
<b><i>buarth, bach</i></b>				
<i>Buarth bach Tan'r Ardd</i>	Coed-marian	1798-9	Vaynol	4059
<i>Buarth bach tan'r ardd</i>	Coed-marian	1809	Vaynol	4062
<b><i>buarth, bach, tan, yr, gardd</i></b>				
<i>Buarth Cae dormos</i>	Glyn-afon	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	465
<b><i>buarth, cae, dormos</i></b>				
Ni wyddys beth yw <i>dormos</i> . Ceir <i>Cae dormos</i> ymhlith caeau'r un annedd. Cofnodir sawl enghraifft o <i>Buarth</i> + <i>Cae</i> + elfen arall. Gall y ddwy elfen gyntaf yn y rhain fod yn air cyfansawdd, sef <i>buarthgae</i> = lle caeëdig.				
<i>Buarth cae glas</i>	Twthill	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	37
<b><i>buarth, cae / buarthgae, glas</i></b>				
<i>Buarth cae hir</i>	Twthill	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	10
<b><i>buarth, cae / buarthgae, hir</i></b>				
<i>Buarth Cae'r Mydyla</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Buarth Cae'r Mydyla</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1809	Vaynol	4062
<i>Buarth Cae m[ ]dyla</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	126
<b><i>buarth, cae / buarthgae, mwdwl, llu.mydylau, neu berfenw mydyla</i></b>				
Gallai <i>mydyla</i> fod yn ferfenw, er bod <i>mydylu</i> yn fwy arferol. Yr ystyr yw pentyrru gwair yn fwdwl neu gocyn. Fodd bynnag, gallai fod yn ffurf lafar ar <i>mydylau</i> , sef ffurf lu. <i>mwdwl</i> .				
<i>Buarth cae mydylu gosaf</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1869	Bangor	f33975
<b><i>buarth, cae / buarthgae, mydylu, ans. agos, gradd eithaf agosaf</i></b>				
<i>Buarth Cae m[ ]dylabella</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	625
<b><i>buarth, cae / buarthgae, mydyla, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>				
<i>Buarth Cae Newydd</i>	Gwastadfaes	1837	NewGlynllifon	XD2/ 7445
<b><i>buarth, cae / buarthgae, newydd</i></b>				
<i>Buarth gae'r gof</i>	Twthill	1841	RhPDe <sub>g</sub> wm	14
<b><i>buarth, cae / buarthgae, y, gof</i></b>				

Mae'r tr. meddal ar ddechrau'r ail elfen yn awgrymu'n gryf mai *buarthgae* sydd yma.

<i>Buarth cae Scybor</i> <b><i>buarth, cae / buarthgae, ysgubor</i></b>	Twthill	1841	RhPDegwm	17
<i>Buarth Canol</i> <b><i>buarth, canol</i></b>	Castellmai	1668	Baron Hill	3249
<i>Buarth cefn bendy</i> <b><i>buarth, cefn, beudy</i></b>	Maes-y-merddyn	1841	RhPDegwm	904
Diffyg dealltwriaeth o'r Gymraeg a barodd y gwall sillafu yn y drydedd elfen. Mae tystiolaeth fewnol yn awgrymu mai rhywun di-Gymraeg a gopiodd RhPDegwm Llanbeblig 1841.				
<i>Buarth Crîn</i> <i>Buarth Crîn</i> <b><i>buarth, crin</i></b>	Cocsidia	1798-9	Vaynol	4059
	Cocsidia	1809	Vaynol	4062
<i>Buarth Dwr</i> <b><i>buarth, dŵr</i></b>	?	1771	Rumsey Wms	157
<i>Buarth dyllyan</i> <b><i>buarth, tylluan</i></b>	Twthill	1841	RhPDegwm	30
<i>Buarth Ethynog</i> <b><i>buarth, eithinog</i></b>	Coed-Helen	1729	ERD	80
<i>Buarth ganol y wern</i> <b><i>buarth, canol, y, gwern</i></b>	Treflan	1841	RhPDegwm	74
<i>buarth glas</i> <b><i>buarth, glas</i></b>	?	1771	Rumsey Wms	157
<i>Buarth Gwlyb</i> <b><i>buarth, gwlyb</i></b>	Cyrnant Lodge	1841	RhPDegwm	177
<i>Buarth Gwyn</i> <i>Buarth Gwyn</i> <b><i>buarth, gwyn</i></b>	Gwastadfaes	1837	NewGlynllifon	XD2/ 7445
	Gwastadfaes	1841	RhPDegwm	154
<i>Buarth hir drin</i> <b><i>buarth, hir, trin</i></b>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	135
Mae hwn yn y categori o enwau difriol ar gaeau, cf. <i>Drafferth a Fron Duchan</i> dan Gaeau Llandwrog isod. Ceir <i>Weirglodd Ffwdan</i> ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa <sup>1</sup> , a <i>Troublesome a Hard Struggle</i> yn Swydd Gaerloyw a Chernyw ( <i>EFN</i> , 106).				
<i>Buarth isa</i> <b><i>buarth, ans. isel, gr. eithaf isaf</i></b>	Twthill	1841	RhPDegwm	40
<i>Byarth Llwyd</i> <b><i>buarth, llwyd</i></b>	?	1771	Rumsey Wms	157
<i>Buarth Llyn y Caumant</i>	Tai-isaf	1837	P. yr Aur	21473

<sup>1</sup> Alwyn Hughes, 'Enwau Caeau yng Nghyffiniau Llwydiarth a Dolanog', *Llafar Gwlad*, 81. (Awst 2003) 22

<i>Buarth y Ceunant</i> <b><i>buarth, llyn, y, ceunant</i></b>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	130
<i>Buarth Main</i> <i>Buarth main</i> <i>Buarth main</i> <b><i>buarth, main</i></b>	Hafod-y-rhyg-uchaf Hafod-y-rhyg-uchaf Hafod-y-rhyg-uchaf	1798–9 1809 1841	Vaynol Vaynol RhPDegwm	4059 4062 629
<i>Buarth Maip</i> <i>Buarth Maip</i> <b><i>buarth, meipen, llu. maip</i></b>	Treflan? Treflan	1837 1841	P. yr Aur RhPDegwm	21473 76
Mae MR yn cyfeirio at ohebiaeth yn <i>Arch. Camb.</i> yn 1880, lle honnwyd mai yn y 18g. y daethpwyd â maip i Gymru yn gyntaf ( <i>TCHSG</i> , 52–3, (1991–2). 19). Ond mae ef yn cyfeirio at gofnodion o'r 16g. o enwau megis <i>Cae Maip</i> , <i>Drylliau'r Maip</i> , <i>Bron y Maip</i> a'r <i>Ardd Faip</i> .				
<i>Buarth Mary</i> <b><i>buarth, e.p. Mary / neu efallai &lt; miaren, llu. mieri</i></b>	Treflan?	1837	P. yr Aur	21473
Mae'n fwy na thebyg mai <i>mieri</i> sydd yma: ceir <i>Buarth Mieri</i> yn Nhreflan. Gweler isod.				
<i>Buarth mawr</i> <b><i>buarth, mawr</i></b>	Glyn-afon	1841	RhPDegwm	447
<i>Buarth mieri</i> <i>Buarth Mieri</i> <i>Buarth y mieri</i> <b><i>buarth, miaren, llu. mieri</i></b>	Cae-mawr Treflan Twthill	1841 1841 1841	RhPDegwm RhPDegwm RhPDegwm	1121 75 9
<i>Buarth Pella</i> <i>Buarth pellaf</i> <i>Buarth pella</i> <b><i>buarth, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>	Cae-bach Hafod-y-rhyg-uchaf Tyddyn-hen	1841 1869 1841	RhPDegwm Bangor RhPDegwm	558 133975 1738
<i>Buarth tan lon</i> <i>Buarth tan lon</i> <b><i>buarth, tan, lôn</i></b>	Cyrnant Lodge Cyrnant Lodge	1841 1859	RhPDegwm Bangor 4081	176 176
<i>Buarth twnti yr ffos</i> <b><i>buarth, tu, hwnt, i, y, ffos</i></b>	?	1771	Rumsey Wms	157
<i>Buarth ucha</i> <b><i>buarth, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>	Pant-y-cerrig	1841	RhPDegwm	595
<i>Byarth yr ardd las</i> <b><i>buarth, yr, gardd, glas</i></b>	?	1771	Rumsey Wms	157
<i>Buarth yr Aur</i> <i>Buarth yr Awr</i> <b><i>buarth, yr, aur/awr</i></b>	Tai-isaf Tai-isaf	1837 1841	P. yr Aur RhPDegwm	21473 106–7
Mae <i>aur</i> yn fwy tebygol yn y drydedd elfen. Byddai'n ddisgrifiad canmoliaethus: defnyddir <i>golden hefyd</i> yn Saes. i ddynodi tir da, ffrwythlon. e.e. <i>Golden Acre</i> yn Swydd Gaerloyw ( <i>EFN</i> , 33–4).				
<i>Buarth y bedw</i> <b><i>buarth, y, bedwen, llu. bedw</i></b>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1341



*Buarth y delyn* Glyn-afon 1841 RhPdegwm 466–7

***buarth, y, telyn***

Disgrifiad o siâp y cae a geir yn y drydedd elfen. Mae'n ddefnydd pur gyffredin: ceir *Llain* (y) *Delyn* ym mhlwyfi Llanwnda a Llanfair-is-gaer a *Telyn* ym mhlwyf Llandwrog. Ceir yr un defnydd yn Lloegr: e.e. *Harp Field, Harp Mead, Welsh Harp Piece* (EFN. 138).

*Buarth y Vig* Cynant Lodge 1841 RhPdegwm 179

*Buarth y Vig* Cynant Lodge 1859 Bangor 4081 179

***buarth, y, big?***

Mae'n anodd gweld beth yw *vig*, onid yw'n dreigladd dwbl gwallus. h.y. *pig* > *big* > *fig*.

*buarth y ffynon* ? yn nhrefgordd Castellmai 1668 Baron Hill 3249

***buarth, y, ffynnon***

*Buarth o dyn* Maes-y-merddyn 1841 RhPdegwm 903

*Buarth yr Odyn* Tai-isaf 1837 P. yr Aur 21473

*Buarth yr o dyn* Tai-isaf 1841 RhPdegwm 116

***buarth, yr, o dyn***

Er y gellir cael o dynau ar gyfer llosgi a sychu gwahanol ddefnyddiau, fel rheol, os na nodir yn fwy manwl, e.e. gydag o dyn fragu ('malt-kiln'), mae'r o dyn yn o dyn galch ar gyfer prosesu calch i'w ddefnyddio yn wrtaith ar y tir.

*Buarth y pistill* Hafod-y-rhyg-uchaf 1798–9 Vaynol 4059

*Buarth y Pistill* Hafod-y-rhyg-uchaf 1809 Vaynol 4062

*Buarth y pistill* Glan y Gors 1841 RhPdegwm 577

*Buarth y pistill* Hafod-y-rhyg-uchaf 1841 RhPdegwm 628

*Buarth y pistill* Hafod-y-rhyg-uchaf 1869 Bangor 133975

***buarth, y, pistill***

*Buarth wern* ? 1771 Rumsey Wms 157

*Buarth y wern* ? 1837 P. yr Aur 21473

*Buarth Wern* Wern-ddu 1841 RhPdegwm 1776

*Buarth y wern* Tyn-yr-onnen 1841 RhPdegwm 92

***buarth, y, gwern***

*Buarthau* Tyddyn-pandy 1798–9 Vaynol 4059

*Buarthau* Tyddyn-pandy 1809 Vaynol 4062

***buarth, llu. buarthau***

*Buarthau'r Lôn* Cocsidia 1798–9 Vaynol 4059

*Buarthau'r Lôn* Cocsidia 1809 Vaynol 4062

***buarth, llu. buarthau, y, lôn***

**Buches Llanbeblig**

*Fuches* Pen-y-gelli 1841 RhPdegwm 1703

***buches***

Er ein bod yn fwy tueddol o feddwl am *fuches* fel 'gyr o wartheg', e.e. 'buches odro', gall hefyd olygu'r buarth lle cesglir y gwartheg i'w godro, ac mae'n debyg mai'r ystyr hon sydd yma. (Gweler MR yn *TCHSG*, 52–3, (1991–2), 20).

**Bwlt Llanbeblig**

*Bwlt* Cae-Bold 1841 RhPdegwm 1835

***e.p.Bwlt***

Ffurf lafar yw *Bwlt* ar y cyfenw *Bold*, ail elfen enw'r annedd lle yr oedd y cae hwn (gw. *Cae-Bold* dan Anheddau Llanbeblig). *Cae y Bwlt* oedd y ffurf a ddefnyddiwyd ar enw'r annedd yn RhPDegwm.

**Byrdir Llanbeblig**

<i>Birdir</i>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	121
---------------	----------	------	----------	-----

**byrdir?**

Mae'n debyg mai'r enw cyfansawdd *byrdir* sydd yma. Mae *Y Byrdir* yn digwydd yn yr Wyddgrug, Caerwys, Sychdyn a mannau eraill (AMR). Ceir y gwrthwyneb, sef *Hirdir* ym mhlwyfi Llanwnda a Llanfair-is-gaer.

**Cadnant Llanbeblig**

<i>Kadnant &amp; ye medow</i>	?	1653/4	Ll&Brynodol	B17
<i>Cadnant</i>	?	1665-9	Ll&Brynodol	B20
<i>Cadnant</i>	?	1673	Ll&Brynodol	D943
<i>Cadnant Filde</i>	?	1792	ATT GAG	XQA/LT 6/6

**e.p. Cadnant**

Mae cofnod 1673 yn disgrifio hwn fel 'a piece of pasture'. Ceir sawl cyfeiriad at *Cadnant Field(s)* yn ATT. Enw afon yw *Cadnant*. Mae'n amlwg fod y caeau hyn yn ymestyn hyd y rhan honno o'r afon sydd ar gyrion dwyreiniol Caernarfon, gan fynd drwy dir Lleiod a Maesincla i gyfeiriad Rhosbodrual. Mae'r afon yn tarddu ym Methel ac yn llifo drwy dref Caernarfon, er na ellir mo'i gweld yn y dref ei hun bellach. Gellir olrhain ei chwrs yn glir ar fap Speed 1610. Ers talwm yr oedd wedi ei chronni yn llyn yn yr ardal lle mae Pen-llyn a Stryd y Llyn heddiw. Arferai orlifo ac achosi llifogydd yng nghyffiniau Ffordd Balaclava ar un adeg (atgof personol). Mae'n llifo allan i afon Menai drwy Ddoc Fictoria. Yr un *cad-* ag a geir yn 'cadarn' sydd yn *Cadnant*, yn disgrifio llif cryf yr afon yn hytrach nag unrhyw awgrym o frwydr a ymladdwyd ar ei glannau<sup>1</sup> (*ELleoedd*, 53; *TCHSG*, 52-3. (1991-2), 18; *ELISG*, 97;12).

**Cae Llanbeblig**

<i>Y Cae</i>	Tan-y-bryn	1841	RhPDegwm	250
--------------	------------	------	----------	-----

**y, cae**

<i>Cae gosar garn</i>	Glan-y-gors	1869	Bangor	f33975
-----------------------	-------------	------	--------	--------

**cae, ans. agos, gradd eithaf agosaf, (i')r, carn**

<i>Cae gosar rhyddol</i>	Erw-Gynrig	1841	RhPDegwm	993
--------------------------	------------	------	----------	-----

**cae, ans. agos, gradd eithaf agosaf, (i')r, rhyddol**

Ni wyddys beth yw *rhyddol*. Nis nodir yn *GPC* fel enw cyffredin, ac nid oes cofnod ohono fel enw annedd yng nghyffiniau *Erw Gynrig*. Gallai fod yn *rhudd + dôl*, ar batrwm *Rhuddallt* sydd yn yr un ardal.

<i>Cae Alsi</i>	Tyddyn-du	1841	RhPDegwm	1159
-----------------	-----------	------	----------	------

**cae, e.p. Alsi**

Gallai'r ail elfen fod yn gamgymeriad am yr e.p *Alis*, neu fe allai fod yn ffurf fachigol ar ryw enw arall, megis *Alswn* (Saes. *Alison*). Mae'r ffurf *Alsi* yn digwydd: cyfeiria W. Gilbert Williams at ryw *Alsi ferch Rhisiart* (*MTT*, 43).

----------------------	-----------------	------	----------	------

*cae, rhos, bach*

<i>Cae Rheol</i>	?	1696	Vaynol	3743
<i>Cae ryal</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	793
<i>Cae Ryal</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	793
<i>Cae ruan</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPDegwm	682

*cae, rhual? rhiwal*

Mae'n anodd esbonio *rhual*, ond gweler *Bodrual* yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig. Ar y llaw arall, yma gallai fod yn ymgais i ddynodi'r gair *rhiwal* sydd yn digwydd fel ffurf lafar ar 'yr hoywal' = cwt (*CBAMAeth*, 398). Defnyddir *hiwal* a *rhiwal* ym Môn am gwt i gadw trol (*ISF*, 48). Mae'n debyg mai *rual* yn hytrach na *ruan* a ddylai fod hefyd yng nghofnod *Glanrafon-bach*.

<i>Cae rug</i>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2 / 7445
<i>Caer rhyg</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDegwm	216
<i>Cae Rhug</i>	Rhosbodrual	1841	RhPDegwm	1609–11
<i>Caer rhug</i>	Tyn-twill	1841	RhPDegwm	1672

*cae, y, rhyg*

Mae'n debyg mai *rhyg* yw'r drydedd elfen, sef yr ŷd gwydn, *Secale cereale*, a ddefnyddir i borthi anifeiliaid. Defnyddir ei rawn hefyd i wneud blawd a chwisgi.

<i>Cae rhyddan</i>	Pen-y-gelli-banc	1869	Bangor	f33975
<i>Cae rhydan</i>	Rhosbodrual	1841	RhPDegwm	1623

*cae, rhyd, llu. rhydau*

Mae annedd o'r enw *Rhydau* (ym mhlwyf Llanrug) yn ffinio ar *Ben-y-gelli-banc* a *Rhosbodrual*. Unwaith eto gwelir camddarllen *n* am *u* yn RhPDegwm 1841.

*Cae rhyd Rhys* Tyddyn-hen 1841 RhPDegwm 1728  
*cae, rhyd, e.p. Rhys*

*Cae Sclater* Rhosbodrual 1841 RhPDegwm 1656  
*cae, sclater*

Daw *sclater/sglater* o'r Saes. *sclater*, amrywiad ar *slater*, sef crefftwr sydd yn toi â llechi. Mae *Tŷ-slater*, neu *Tyddyn-sclaters* heddiw (q.v.) ym mhlwyf Llanrug yng nghyffiniau Rhosbodrual; cf. *Cae-sclater/Cae-slater* yn Llangaffo, Môn (Dinam. 158); *Tyddyn-sglatas*, Bangor; *Tŷ-slatas*, Llandegfan a Llanllechid (Gw. MR yn *TCHSG* 52-3. (1991-2), 23).

*Cae Scybor* Bryn-Seiont 1841 RhPDegwm 1411  
*Cae Scubor* Cae-Stanley 1841 RhPDegwm 963  
*Cae Scybor* Castellmai 1841 RhPDegwm 865  
*Caer Scybor* Cefn-y-gof 1841 RhPDegwm 851  
*Cae'r scybor* Coed-Helen 1716 ERD 71  
*Cae Skybor* Coed-Helen 1729 ERD 80  
*Cae Scubor* Glanrafon-bach 1841 RhPDegwm 677  
*Caer Scybor* Glyn-afon 1841 RhPDegwm 476  
*Cae Scybor* Newborough Arms 1841 RhPDegwm 948  
*Cae Scybor* Rhuddallt-fawr 1841 RhPDegwm 1082  
*Cae Scybor* Tyddyn-bach 1841 RhPDegwm 714  
*Cae Scybor* Tyddyn-du 1841 RhPDegwm 1151  
*Cae Scybor* Tyddyn-hen 1841 RhPDegwm 1910  
*Cae Scybor* Tyddyn-llwydyn 1841 RhPDegwm 1481  
*Cae Scybor* Tyddyn-uchaf 1841 RhPDegwm 893  
*Cae Scybor* Tyn-twill 1841 RhPDegwm 549  
*Cae Scybor* Tyn-twill 1841 Bangor 4081 549  
*cae, yr, ysgubor*

*Cae Sgybor fawr* Twthill? 1770 Coed Helen 35-6  
*cae, ysgubor, mawr*  
 Rhoddir *Cae Twthill Isa* fel enw arall ar y cae hwn.

*Cae Scybor newydd* Twthill 1841 RhPDegwm 18  
*cae, ysgubor, newydd*

*Cae'r Sernydd* Cocsidia 1798-9 Vaynol 4059  
*Cae Sernydd* Cocsidia 1809 Vaynol 4062  
*cae, y, sarn, llu. sernydd*  
 Mac *GPC* yn nodi *sernydd* fel ffurf luosog brin i *sarn*.

*Cae square* Maes-y-Barcer 1841 RhPDegwm 1556  
*Cae Square* Rhuddallt-fawr 1841 RhPDegwm 1072  
*Cae Square* Tan-y-garreg-fawr 1841 RhPDegwm 49  
*cae, ans. Saes. square*

Gan fod tystiolaeth fewnol yn awgrymu mai rhywun di-Gymraeg a gopiodd RhPDegwm Llanbeblig 1841, efallai mai hynny sydd i gyfrif am ffurf Saes. *square*. Mae'n hollol bosib mai 'sgwâr' oedd yr ynganiad lleol.

*Cae sion prichard* Pant-y-defaid 1841 RhPDegwm 263  
*cae, e.p. Sion Prichard*  
 Ni wyddys pwy oedd *Sion Prichard*.

*cae soft* ? 1771 Rumsey Wms 157

**cae, sofflyn, llu. sofl**

Bonion, yn enwedig yd, a adewir ar y cae ar ôl y cynhaeaf yw'r *sofl*.

*Cae 3 acres* Coed-marian 1841 RhPDegwm 1589  
**cae, tair, Saes. acres**

*Cae tair gongl* Pant-y-cerrig 1841 RhPDegwm 598  
**cae, tair, congl**

Cf. *Triangle Close, Three Corner'd Piece, Three Nook Piece, Three-Point Field* mewn gwahanol rannau o Loegr (EFN, 133)..

*Caer talcen* Cae-Samuel 1841 RhPDegwm 1216

*Cae talcen* Cae-Samuel 1878 NewGlynllifon XD2 / 6460

*Cae Talcen* Cae-Samuel 1900 NewGlynllifon XD2 / 6465

*Cae talchen* Cocsidia 1869 Bangor f33975

*Cae talcen* Glan-y-gors 1841 RhPDegwm 310, 575

*Caer talcen* Pen-y-gelli 1841 RhPDegwm 1698

*Cae talcen* Tan-yr-allt 1841 RhPDegwm 1338

**cae, y, talcen**

*Cae Talcen Stabl* Cae-Darby 1841 RhPDegwm 1597

**cae, talcen, ystabl**

*Cae talcenty* Ala-bowl 1841 RhPDegwm 511

*Cae talcen ty* Cae-mawr 1841 RhPDegwm 1117

*Cae talcen ty* Erw-Gynrig 1841 RhPDegwm 992

*Cae'r Talcen y Tŷ* Pen-y-gelli diwedd y 18g. Vaynol 4199

*Cae talcen ty* Tŷ-gwyn 1841 RhPDegwm 1268

*Cae talcen ty* Tyddyn-bach 1841 RhPDegwm 716

*Cae talcen ty* Tyddyn-pandy 1869 Bangor f33975

**cae, talcen, tŷ**

Nid oes angen y fannod gyntaf yn y gystrawen hon yng nghofnod Pen-y-gelli uchod.

*Cae tan berllan* Rhuddallt-fawr 1841 RhPDegwm 1081

*Cae tan y berllan* Tyddyn-Alice 1869 Bangor f33975

**cae, tan, y, perllan**

*Cae tan drws* Glan-y-gors 1869 Bangor f33975

*Cae tan drws* Tros-y-gors 1841 RhPDegwm 295

*Cae tan drws* Ysbyty 1869 Bangor f33975

**cae, tan, drws**

*Cae tan lon* Cocsidia 1841 RhPDegwm 1420

*Cae tan lon* Maesincla 1841 RhPDegwm 1851

**cae, tan, lôn**

*Cae tan llidiart* Graig-lwyd 1841 RhPDegwm 214

**cae, tan, llidiart**

*Cae tan rallt* Rhuddallt-fawr 1841 RhPDegwm 1873

*Cae tan rallt* Tan-yr-allt 1841 RhPDegwm 1380

**cae, tan, yr, allt / gallt**

*Cae tan ty* Bryn-golau 1841 RhPDegwm 435

*Cae tan ty* Cae-pen-y-cock 1869 Bangor f33975

<i>Cae tan ty</i>	Cefn-y-waun	1841	RhPdegwm	346
<i>Cae tan ty</i>	Cyrnant Lodge	1841	RhPdegwm	175
<i>Cae tan ty</i>	Cyrnant Lodge	1859	Bangor 4081	175
<i>Cae tan ty</i>	Glyn-afon	1841	RhPdegwm	479
<i>Cae tan ty</i>	Gors-y-waun	1841	RhPdegwm	522
<i>Cae tan ty</i>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2 / 7445
<i>Cae tan ty</i>	Graig-lwyd	1841	RhPdegwm	204
<i>Cae Tan Ty</i>	Gwastadfaes	1837	NewGlynllifon	XD2 / 7445
<i>Cae tan ty</i>	Gwastadfaes	1841	RhPdegwm	163
<i>Cae tan ty</i>	Maesincla	1841	RhPdegwm	1847
<i>Cae tan ty</i>	Maesincla	1859	Bangor 4081	1847
<i>Cae tan ty</i>	Pant-y-defaid	1841	RhPdegwm	260
<i>Caer tan ty</i>	Pen-y-cefn et al.	1869	Bangor	£33975
<i>Cae tan ty</i>	Pen-y-cock	1841	RhPdegwm	1673, 1684
<i>Cae tan ty</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPdegwm	1725
<i>Cae tan ty</i>	Rhwngyddwryd	1841	RhPdegwm	560
<i>Cae tan ty</i>	Tŷ-gwyn	1841	RhPdegwm	1269
<i>Cae tan ty</i>	Tyddyn-Sais	1841	RhPdegwm	912
<i>Cae tan ty</i>	Tyddyn-uchaf	1841	RhPdegwm	896
<i>Cae tan ty</i>	Ysbyty	1841	RhPdegwm	831

**cae, tan, tŷ**

<i>Cae tan bendy</i>	Caellechfaen	1841	RhPdegwm	1162
<i>Cae tan y beudy</i>	Cae-mawr	1841	RhPdegwm	1120
<i>Cae tan y Beudû</i>	Cae'r-cock	1798-9	Vaynol	4059
<i>Cae tan y Beudû /</i>	Cae'r-cock	1809	Vaynol	4062
<i>Cae tan y Beudy</i>				
<i>Cae tan y bendy</i>	Cae'r-cock	1841	RhPdegwm	1257
<i>Cae tan y beudy</i>	Cae'r-cock	1869	Bangor	£33975
<i>Cae tan y bendy</i>	Cyrnant Lodge	1841	RhPdegwm	174
<i>Cae tan y bendy</i>	Cyrnant Lodge	1859	Bangor 4081	174
<i>Cae tan bendy</i>	Tyn-yr-onnen	1841	RhPdegwm	86

**cae, tan, y, beudy**

Sylwer ar y cymysgu unwaith eto rhwng yr *n a'r u yn beudy*.

<i>Cae Tan y Clogwyn</i>	Tan-y-garreg-fawr	1841	RhPdegwm	65
--------------------------	-------------------	------	----------	----

**cae, tan, y, clogwyn**

<i>Cae dan y Voel</i>	?	1720	Ll&Brynodol	D344-5
<i>Cae tan y voel</i>	Coed-Helen	1740	Coed Helen	14-15

**cae, tan, y, moel**

*Y Foel* yw'r bryn crwn ar dir Coed-Helen sydd yn dirnod amlwg gyda'r tŵr bach ar ei gopa.

Gweler *Summer House Foel*.

<i>Cae tan y ffynon</i>	Cae-gwyn	1841	RhPdegwm	1805
-------------------------	----------	------	----------	------

**cae, tan, y, ffynnon**

<i>Cae lan yr ardd</i>	Cae-gwyn	1841	RhPdegwm	1801, 1815
<i>Cae tan yr ardd</i>	Cae'r-cock	1841	RhPdegwm	1256
<i>Cae tan yr ardd</i>	Coed-marian	1869	Bangor	£33975
<i>Cae tan yr ardd</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	679
<i>Cae tan r ardd</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPdegwm	1079

**cae, tan, yr, gardd**

Mae'n amlwg mai gwall am *tan* yw'r *lan* yng nghofnod *Cae-gwyn*, gan nad yw *lan*, sef 'i fyny' yn rhan o dafodiaith Arfon.

<i>Cae tan r yard</i> <b>cae, tan, yr, Saes. yard</b>	Tyddyn-du	1841	RhPdegwm	1154
<i>Cae tan y Scybor</i> <b>cae, tan, yr, ysgubor</b>	Ysgubor-wen	1841	RhPdegwm	1922
<i>Cae Tan y Weirglodd</i>	Tyddyn-Alice	1798–9	Vaynol	4059
<i>Cae tan y Werglodd</i>	Tyddyn-Alice	1809	Vaynol	4062
<i>Cae tan y Werglodd</i> <b>cae, tan, y, gweirglodd</b>	Pen-y-gelli	1841	RhPdegwm	1701
<i>Cae tatws</i>	Bryn-melyn	1841	RhPdegwm	428
<i>Cae tatws</i>	Erw-Gynrig	1869	Bangor	£33975
<i>Cae Tatws</i> <b>cae, taten / tatysen, llu. tatws</b>	Pant-y-cerrig	1841	RhPdegwm	593
<i>Cae davarn isa</i>	Pen-y-cefn	1809	Vaynol	4062
<i>Cae tavern isa</i> <b>cae, tafarn, ans. isel, gradd eithaf isaf</b>	Pen-y-cefn	1841	RhPdegwm	705
<i>Cae tavern ucha</i> <b>cae, Saes. tavern, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</b>	Pen-y-cefn	1841	RhPdegwm	705
Mae'n bosib mai'r copiwr di-Gymraeg sydd yn gyfrifol am nodi'r ail elfen fel <i>tavern</i> yn hytrach na <i>tafarn</i> .				
<i>Cay Thomas</i>	?	1522	Vaynol	1376
<i>Cae Thomas</i>	?	1544	Vaynol	1401
<i>Cae Thomas</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPdegwm	789
<i>Cae Thomas</i> <b>cae, e.p.Thomas</b>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	789
Mae'n debyg mai'r un cae y cyfeirir ato yn yr holl gofnodion uchod, gan fod cofnodion 1522 a 1544 yn dod o weithredoedd yn ymwneud â <i>Glanrafon-fawr</i> . Dywed cofnod 1544 fod y cae wrth ymyl 'yr avon bach' yn nhrefgordd Treflan. Ni wyddys pwy oedd <i>Thomas</i> .				
<i>Cae Thomas bach</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPdegwm	792
<i>Cae Thomas bach</i> <b>cae, e.p.Thomas, bach</b>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	792
<i>Cae trevor</i> <b>cae, e.p.Trefor</b>	Tan-y-garreg-fawr	1841	RhPdegwm	210
Ni wyddys ai unigolyn ynteu lle oedd <i>Trefor</i> .				
<i>Cae tros lon</i>	Cocsidia	1841	RhPdegwm	1435
<i>Cae tros lon</i> <b>cae, tros, lôn</b>	Pant-y-defaid	1841	RhPdegwm	264
<i>Cae tros y ffordd</i> <b>cae, tros, y, ffordd</b>	Tan-yr-allt	1841	RhPdegwm	1403, 1405
<i>Cae tros y gort</i> <b>cae, tros, y, cors</b>	Tros-y-gors	1841	RhPdegwm	302
Mae'n amlwg mai gwall am <i>gors</i> yw <i>gort</i> .				
<i>Cae ty isar lon</i>	Cae-Stanley	1841	RhPdegwm	957

**cae, tu, ans. isel, gradd eithaf isaf, i'r, lôn**

Gwall am tu yw'r ffurf ty yn y cofnod uchod ac yn y tri enw a ganlyn isod.

*Cae ty ucha merddyn* Llety 1841 RhPDegwm 752

**cae, tu, ans. uchel, gradd eithaf uchaf, merddyn**

Am merddyn gweler *Maes-y-merddyn* dan Anheddau Llanbeblig.

*Cae ty uchai lon* Cae-Adda-goch 1841 RhPDegwm 185

**cae, tu, ans. uchel, gradd eithaf uchaf, i, lôn**

*Cae ty uchai ty* Cae-gwyn 1841 RhPDegwm 584

*Cae ty uchar ty* Pant-y-defaid 1841 RhPDegwm 261

*Cae ty uchar ty* Penyfforddfangor 1841 RhPDegwm 420

**cae, tu, ans. uchel, gradd eithaf uchaf, i'r, tŷ**

*Cae twll gro* Bryn-Seiont 1841 RhPDegwm 1417

*Cae twll gro* Cae-haidd 1841 RhPDegwm 610

*Cae twll gro* Pen-y-cefn et al. 1869 Bangor f33975

*Cae twll gro* Trellanbeblig 1841 RhPDegwm 1053

**cae, twll, gro**

Yr ystyr yw pwll y cloddir graean a cherrig mân ohono.

*Cae twrn* Cae-mawr 1841 RhPDegwm 1128

**cae, twrn**

Benth. yw *twrn* o'r Saes. *turn* ac fe'i defnyddir yn yr un modd. Mae'n anodd gweld beth yw ei arwyddocâd yma.

*Cae'r Twthil Ucha* Twthill 1740 Coed Helen 14-15

*/Cae'r Twthil Isa*

*Cae Sgybor fawr* Twthill 1770 Coed Helen 35-6

*otherwise Cae*

*Twthill Isa*

*Cae Twthill / Cae* Twthill 1788 Coed Helen 60

*Twthill Ucha*

*Coetwthill* Cae-Twthill 1791 Poole 2116

*Twthill Rock /* Twthill 1800 Poole 6046/7

*Twthill field*

*a field called Tott* Twthill 1801 Vaynol 32

*hill or Twthill*

*field called twthill* Twthill 1809 Coed Helen 81

*Cae twtell, Tutil* Cae-Twthill 1841 RhPDegwm 1893, 1894

*Field*

*Cae Twthill* Twthill 1889 OK 83

**cae, twthill**

Am ymdriniaeth o'r ail elfen gweler *Twthill* yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig. Adeiladwyd Pafiliwn enwog Caernarfon ar *Gae-Twthill* (OK, 83). Rice Thomas, Coed-Helen oedd biau'r cae: dyna pam y ceir cymaint o'r cofnodion ym mhapurau stad Coed-Helen. Mae cofnod 1791 yn nodi fod y cae hwn 'laid out as a bowling green and fives grounds'. Yr oedd lleiniau bowlio a chyrtau tenis ar y safle ymhell i'r 20g. (atgof personol).

*Cae ty Cerrig* Cae-haidd 1841 RhPDegwm 605

**cae, tŷ, cerrig**

*Cae ty danw* Glyn-afon 1841 RhPDegwm 460

**cae, tŷ, Tanw?**

Am drafodaeth o *danw* gweler *Tyddyn-Danw* yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig.

*Cae tyddyn Adda* Llety 1841 RhPDegwm 758  
**cae, e.ll. Tyddyn-Adda**

Ni welwyd cofnod o annedd o'r enw *Tyddyn-Adda* yng nghyffiniau *Llety*.

*Cae tyddyn Alis* Tan-yr-allt 1841 RhPDegwm 1313  
**cae, e.ll. Tyddyn-Alice**

Mae'n bosibl mai *Tyn-rallt* ar ffordd Llanfaglan yw'r annedd a olygir yma. Byddai caeau hwnnw yn ffinio â rhai *Tyddyn-Alice*. Gweler ymdriniaeth o *Tyddyn-Alice* yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig.

*Cae tydden Baste* Rhosbodruaal 1841 RhPDegwm 1622  
**cae, e.ll. Tyddyn Bisle**

Llurguniad o *Tyddyn-Bisle* sydd yma. Mae *Tyddyn-Bisle* ei hun ym mhlwyf Llanrug (q.v.) er ei fod yn ffinio â Rhosbodruaal. Trydedd elfen yr enw yw'r c.p. *Bisley*.

*Cae tyddyn Elan* Cae-mawr 1841 RhPDegwm 1129  
*Cae Tyddyn Elan* Glan-Beuno 1841 RhPDegwm 1100  
**cae, e.ll. Tyddyn-Elen**

Am yr amrywiad *Elan/Elen* ac ymdriniaeth o'r enw gweler *Tyddyn-Elen* yn yr adrannau ar Anheddau Llanbeblig a Llanrug.

*Cae ty ddyn hen* Pen-y-gelli 1841 RhPDegwm 1718  
**cae, e.ll. Tyddyn-hen**

Mae caeau *Tyddyn-hen* yn ffinio â chaeau *Pen-y-gelli*.

*Cae tyddyn isa* Rhuddallt-bach 1841 RhPDegwm 1097  
*Cae tyddyn isaf* Rhuddallt 1869 Bangor f33975  
**cae, e.ll. tyddyn, ans. isel, gradd eithaf isaf**

Ni welwyd cofnod o *Dyddyn-isaf* yng nghyffiniau *Rhuddallt-bach*, ac mae'n bosibl mai'r enwau cyff. *cae* a *thyddyn* + yr ansoddeiriau *isaf* / *uchaf* sydd yma yn hytrach nag enw ar annedd arall. Gweler *Cae tyddyn uchaf* isod.

*Cae tyddyn poeth* Glanrafon 1841 RhPDegwm 1218  
**cae, e.ll. Tyddyn-poeth**

Nid oes cofnod o annedd o'r enw *Tyddyn-poeth* yng nghyffiniau *Glanrafon* yn RhPDegwm.

*Cae tyddyn uchaf* Rhuddallt 1869 Bangor f33975  
**cae, e.ll. tyddyn, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

*Kay Tythyn y Korr* Glanrafon? 1514 Vaynol 1366  
**cae, tyddyn, y, corr**

Daw'r cofnod hwn o weithred yn ymwneud â stad Glanrafon-fawr. Ystyr *cor* yw 'corrach'.

*Cae tyddyn y dincer* Ysbyty 1841 RhPDegwm 826  
**cae, e.ll. Tyddyn-tincer**

Yr oedd *Tyddyn-tinker* yng nghyffiniau *Ysbyty*. Gweler Anheddau Llanbeblig.

*Cae ty ffynon* Rhuddallt-fawr 1841 RhPDegwm 1085  
**cae, tŷ, ffynnon**

*Cae ty Gwyn* Rhosdican 1841 RhPDegwm 1272  
*Cae ty gwyn* Rhosdican 1869 Bangor f33975  
**cae, e.ll. Tŷ-gwyn**



Nid y *Tŷ-gwyn* ger eglwys Llanbeblig sydd yma, ond *Tŷ-gwyn-bach* a nodir ar fap OS 1920 yng nghyffiniau Rhosdican.

<i>Cae tandir</i>	Pen-y-cefn	1809	Vaynol	4062
<i>Cae tyndir</i>	Tyddyn-Elen	1841	RhPDegwm	1138–40
<b><i>cae, tyndir</i></b>				
Tir glas heb ei aredig ers rhai blynyddoedd yw <i>tyndir</i> ( <i>CB Amaeth</i> , 4. 269).				
<i>Cae tyn lon</i>	Tyddyn-bach	1841	RhPDegwm	712
<i>Cae tyn lon</i>	Tyn-lôn	1841	RhPDegwm	1447
<b><i>cae, e.ll. Tyn-lôn</i></b>				
Gweler <i>Tyn-lôn</i> yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig.				
<i>Cae ty newydd</i>	Cibyn	1841	RhPDegwm	1565
<i>Cae ty newydd</i>	Tŷ-newydd	1841	RhPDegwm	1605
<b><i>cae, e.ll. Tŷ-newydd</i></b>				
<i>Cae Tyn gors</i>	Traean	1841	RhPDegwm	1015
<b><i>cae, e.ll. Tyn-gors</i></b>				
<i>Cae tyn Rhos</i>	Cibyn	1841	RhPDegwm	1566
<i>Cae tyn rhos</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1075
<b><i>cae, e.ll. Tyn-rhos</i></b>				
<i>Cae Tynsclaters</i>	Rhosbodruall	1841	RhPDegwm	1620
<b><i>cae, e.ll. Tyn-sclaters</i></b>				
Am esboniad o'r enw gweler <i>Cae-sclater</i> uchod.				
<i>Cae tyn y pwll</i>	Cefn-y-werglodd	1841	RhPDegwm	1180
<b><i>cae, e.ll. Tyn-pwll</i></b>				
<i>Cae Tŷ'r stabler</i>	Pen-y-gelli?	1705	Ll&Brynodol	D283
<b><i>cae, tŷ, y, Saes. stabler</i></b>				
Y dyn a ofalai am y ceffylau oedd y <i>stabler</i> . Mae'n derm cithaf dieithr; byddai <i>stable-man</i> yn fwy arferol yn Saes. a <i>stablwr</i> yn Gym.				
<i>Cae ty ucha</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPDegwm	1096
<b><i>cae, tŷ, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>				
<i>Y Kay Ughaphe</i>	yn nhrefgordd Treflan	1541	Vaynol	1392
<i>Y Kay Ughape</i>	yn nhrefgordd Treflan	1541	Vaynol	1393
<i>Kay Ughap</i>	yn nhrefgordd Treflan	1541	Vaynol	1394
<i>Y Kay Ughaphe</i>	yn nhrefgordd Treflan	1564	Vaynol	1410
<i>Kay Uchaph</i>	yn nhrefgordd Treflan	1599	Vaynol	1419
<i>Cae ucha</i>	Bryn-golau	1841	RhPDegwm	433
<i>Cae ucha</i>	Brynhyfryd	1841	RhPDegwm	883
<i>Cae ucha</i>	Cae-gwyn	1841	RhPDegwm	1822
<i>Cae ucha</i>	Cae-main	1824	Rumsey Wms	245
<i>Cae ucha</i>	Cae-mawr	1841	RhPDegwm	330
<i>Cae ucha</i>	Cae'r-waun	1836	Rumsey Wms	116
<i>Cae ucha</i>	Cae'r-waun	1841	RhPDegwm	430–1
<i>Cae ucha</i>	Dolyfelin	1841	RhPDegwm	940
<i>Cae ucha</i>	Four Crosses	1841	RhPDegwm	324
<i>Cae ucha</i>	Fron-llwyd	1841	RhPDegwm	285
<i>Cae ucha</i>	Garnedd-wen	1841	RhPDegwm	300

<i>Cae ucha</i>	Glan-y-gors	1841	RhPDegwm	580
<i>Cae ucha'</i>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2 / 7445
<i>Cae uchaf</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1798-9	Vaynol	4059
<i>Cae uchaf</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1809	Vaynol	4062
<i>Cae ucha</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1841	RhPDegwm	627
<i>Cae uchaf</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1869	Bangor	133975
<i>Cae ucha</i>	Maesincla	1841	RhPDegwm	1907
<i>Cae ucha</i>	Merddyn-Wilkins	1841	RhPDegwm	1207
<i>Cae ucha</i>	Pant-gwyn	1841	RhPDegwm	334
<i>Caeuca</i>	Pen-y-bryn	1841	RhPDegwm	366
<i>Cae ucha</i>	Penyfforddfangor	1841	RhPDegwm	42
<i>Cae ucha</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1558
<i>Cae ucha</i>	Tai-hen	1841	RhPDegwm	440
<i>Cae ucha</i>	Tai-newydd	1841	RhPDegwm	341
<i>Cae ucha</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1332-3, 1392
<i>Cae Uchaf</i>	Tyddyn-Alice	1798-9	Vaynol	4059
<i>Cae uchaf</i>	Tyddyn-Alice	1809	Vaynol	4062
<i>Cae uchaf</i>	Tyddyn-Alice	1869	Bangor	133975
<i>Cae ucha</i>	Tyddyn-bach	1841	RhPDegwm	710
<i>Cae ucha</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPDegwm	1487
<i>Cae uchaf</i>	Tyddyn-llwydyn	1869	Bangor	133975
<i>Cae uchaf</i>	Tyddyn-pandy	1869	Bangor	133975
<i>Cae ucha</i>	Tyn-cae-newydd	1841	RhPDegwm	196
<i>Cae ucha</i>	Tyn-y-coed	1841	RhPDegwm	924

*cae. ans. uchel, gradd eithaf uchaf*

<i>Cae ucha cae main</i>	Merddyn-Wilkins	1841	RhPDegwm	1243
--------------------------	-----------------	------	----------	------

*cae. ans. uchel, gradd eithaf uchaf, cae, main*

<i>Cae uwch ben y Werglodd</i>	Maes-y-merddyn	1841	RhPDegwm	976
--------------------------------	----------------	------	----------	-----

*cae, uwchben, y, gweirglodd*

<i>Cae uchfyfnon</i>	Glan-y-gors	1841	RhPDegwm	306
----------------------	-------------	------	----------	-----

*cae, uwch, y, ffynnon*

<i>Cae Varling</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDegwm	226
--------------------	------------	------	----------	-----

*cae, ffyrlling?*

Tybed ai *ffyrlling*, benth. o'r Saes. *farthing*, sydd yn yr ail elfen: mae'n eithaf cyffredin cael cyfeiriadau at ddarnau arian mewn e.lleoedd. Yn aml mae'r arian yn cyfeirio'n bendant at y rhent a delid am y tir, dro arall mae'n awgrym o werth tybiedig y tir. Ceir *Llain Swllt* yn Llangoed. Môn. *Llain y Geiniog* yn Rhoscolyn, Môn, a *Chorlan Ganpunt* yn Nantglyn, Dinb. (AMR). Cyfeiria'r Athro Gwynedd Pierce at yr enw *Nantffyllon* ym Morgannwg, a ddatblygodd o *Nant firlling* (1570) (*PNGlam* 132-3; *ADG*, 77). Os mai *ffyrlling* sydd yma yn *Cae Varling*, yna byddai'n gae digon sâl gan mai hwn oedd y darn arian isaf ei werth. sef chwarter hen geiniog. Fodd bynnag, mae John Field yn dweud fod ystyr arall yn aml i gaeau yn Lloegr a elwid yn *Farthing Close*, sef tir a rannwyd yn bedair rhan, neu dir a oedd yn chwarter firgat o ran maint (*EFN*, 194).

<i>Cae wall wen</i>	Bryn-Seiont	1841	RhPDegwm	1415
---------------------	-------------	------	----------	------

*cae, wal, ans. gwyn, ben. gwen*

<i>Cae wain isa</i>	Glyn-afon	1841	RhPDegwm	462
---------------------	-----------	------	----------	-----

*cae, gwaun, ans. isel, gradd eithaf isaf*

<i>Cae waun ucha</i>	Glyn-afon	1841	RhPDeegwm	444
<i>Cae waun ucha</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDeegwm	207
<b>cae, gwaun, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</b>				
<i>Cae wern ddu</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDeegwm	1369
<b>cae, gwern, du</b>				
<i>Kay William ap John</i>	yn nhrefgordd Castellmai	1514	Vaynol	1366
<i>Kay William ap John</i>	yn nhrefgordd Castellmai	1519	Vaynol	1373
<b>cae, e.p. William ap John</b>				
Ni wyddys pwy oedd <i>William ap John</i> .				
<i>Cae W<sup>m</sup>. Owen</i>	Cae'r-waun	1841	RhPDeegwm	432
<b>cae, e.p. William Owen</b>				
William Owen oedd enw'r gŵr a oedd yn dal y cae hwn pan luniwyd RhPDeegwm yn 1841.				
<i>Cae y chen</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDeegwm	1370
<b>cae, ych, llu. ychen</b>				
Mae'n debyg mai <i>ychen</i> sydd yma er gwaethaf rhaniad yr enw yn y cofnod.				
<i>Cae y ddol isa'</i>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2/ 7445
<i>Cae dolla isa</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDeegwm	200
<b>cae, dôl, llu. dolau, ans. isel, gradd eithaf isaf</b>				
Mae'n debyg mai <i>dolau</i> yw'r ail elfen yng nghofnod 1841.				
<i>Cae yr Ymryson</i>	rhan o Ruddallt	1798-9	Vaynol	4059
<i>Cae yr Ymryson</i>	rhan o Ruddallt	1809	Vaynol	4062
<i>Cae ymryson</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPDeegwm	1089
<i>Cae mryson</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPDeegwm	1502
<i>Cae myryson</i>	Tyddyn-llwydyn	1869	Bangor	133975
<b>cae, ymryson</b>				
Am esboniad o'r enw gweler <i>Cae'r-ymryson</i> yn yr adran ar Anheddau Llanbeblig.				
<i>Cae Asgallog</i>	Wern	1841	RhPDeegwm	743
<b>cae, ysgallog</b>				
Mae'n debyg mai <i>ysgallog</i> sydd yn yr ail elfen, sef cae ag ynddo lawer o ysgall. Mae Syr Ifor Williams yn dweud y ceir cymysgu yng Ngwynedd rhwng <i>ysgall</i> ac <i>asgell</i> , gan esgor ar y ffurf <i>asgall</i> ( <i>ELleoedd</i> , 68). Ceir <i>Ysgello</i> yn Amlwch ( <i>GPC</i> ).				
<i>Cay Yscybor Bach</i>	yn nhrefgordd Castellmai	1519	Vaynol	1373
<b>cae, ysgubor, bach</b>				
<i>Cae Scybor goch</i>	Cae-mawr	1841	RhPDeegwm	1883
<b>cae, e.ll. Ysgubor Goch</b>				
Y <i>Cae-mawr</i> ger caer Segontium ar gyrion Caernarfon sydd yma, gan y byddai caeau hwnnw yn ffinio ar rai <i>Ysgubor-goch</i> gynt.				
<i>Cayer Calloyn</i>	yn nhrefgordd Treflan	1479-80	Vaynol	1351
<b>cae, llu. caeau, y, collwyn?</b>				
Mae'n bosib mai <i>collwyn</i> sydd yn yr ail elfen: mae'n air y ceir cofnod ohono mor gynnar â 1200 ( <i>GPC</i> ) yn yr ystyr o lwyn o goed cyll. Gallai, o bosib, fod yn e.p.: cofnodir yr enw yn <i>Collwyn ap Tangno</i> , sefydlydd un o lwythau Gwynedd.				
<i>Caeau davern wen</i>	Pen-y-cefn	1809	Vaynol	4062
<b>cae, llu.caeau, tafarn, ans. gwyn, ben. gwen</b>				

<i>Caean frost</i>	?	1841	RhPDegwm	1809-10
--------------------	---	------	----------	---------

**cae, llu. caeau, e.p. Frost?**

*Caeau* yw'r elfen gyntaf; cf. *Caean Llanbeblig* uchod. Mae'n bosib mai cyfenw yw *Frost*. Ni lwyddwyd i leoli'r caeau hyn.

<i>Caean Llanbeblig</i> /		1841	RhPDegwm	1515-21
---------------------------	--	------	----------	---------

*Cacan Llanbeblig*

<i>Llanbeblig Fields</i>		1847	C.Vincent	2215
--------------------------	--	------	-----------	------

<i>Llanbeblig Fields</i>		1855	C.Vincent	2222
--------------------------	--	------	-----------	------

**cae, llu. caeau, e.ll. Llanbeblig**

Gwall copio sydd yn yr elfen gyntaf yng nghofnodion 1841: mae'r ffurfiau a geir yn RhPDegwm yn awgrymu mai rhywun di-Gymraeg a gopiodd y rhestr hon. Noda cofnod 1855 fod annedd *Cefn-hendre* (q.v.) wedi ei adeiladu ar y caeau hyn, ac mae map degwm 1841 yn nodi fod rhai ohonynt ar safle caer Segontium.

### Caerlan                      Llanbeblig

<i>Caerlan Tibot</i>		1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D1
----------------------	--	---------	----------------	------------

<i>Gerllan Dippock</i>	Cae-Francis	1841	RhPDegwm	1742
------------------------	-------------	------	----------	------

<i>Caerlan Tibot</i>		1960	IAMC	158
----------------------	--	------	------	-----

<i>Caerlan Tibot</i>		2002	MapOSExplorer	OL 17
----------------------	--	------	---------------	-------

**caerlan, e.p Tibot? topiog?**

Cofnodwyd yr enw *Caerlan Tibot* ar fap OS rhagbaratoawl Dawson yn 1816-20 (Bangor f34081.D1) ond nid yw ar fap OS 1838. Mae olion hynafol ar y safle, sef clawdd a ffos (*IAMC*, 158). Yn RhPDegwm 1841 y ffurf yw *Gerllan Dippock*, ond mae'n amlwg mai'r un lle sydd yma gan y nodir yno ei fod yng *Nghae-Francis* (q.v. dan Anheddau Llanbeblig) sydd yn ei osod yn yr un lleoliad.

Nid yw'r ffurf *caerlan* yn *GPC*, ac o ystyried y ffurf *gerllan* yn RhPDegwm, mae'n debyg mai *cerlan* sydd yma. Ceir esboniad o *cerlan* gan Syr Ifor Williams: cyfuniad yw o ddau air cyfystyr: 'cerdd' a 'glan', y ddau yn golygu codiad tir (*ELleoedd*, 24).

Mae'n anodd esbonio'r ail elfen. Mae'n bosib mai e.p. sydd yma: mae *Tibot* yn gyfenw, yn e.p. gwr. a ben.<sup>1</sup> Ceir cyfeiriad at 'alt Tibbott in Essingreg in Rewke' yn 1595 (*Rec. C. Aug.*, 281), ac at *Allt Tibott* yn nhrefgordd Rug yn 1607 (Ll&Brynodol D1164). Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried y ffurf *Dippock* (1841). Nodir y ffurf *Werglodd Daibock* (q.v.) hefyd yng *Nghae-Francis* (RhPDegwm, 1841). Mae'n bosib mai *Weirglodd Doppog* sydd yno fel ag a geir yn Hafod-y-rhyg-uchaf (q.v.). Ceir *Y Wern Doppiog* a *Gors Doppog* hefyd ym mhlwyf Llanwnda (Gw. Caeau Llanwnda). Ans. yw *topiog* yn disgrifio rhywbeth 'ac iddo dop' (*GPC*). Efallai fod ychydig o boncen yn y weirglodd, y wern a'r gors hynny, ac yn sicr ceir banc hynafol tua phedair troedfedd o uchder yma yng Nghaerlan Tibot (*IAMC*, 158). Felly, os mai *Cerlan dopiog* sydd yma, mae dwy elfen yr enw'n gyfystyr.

Yn sicr, mae'r ail elfen wedi peri mwy o benbleth na hyd yn oed y gyntaf. Awgrymwyd mai 'di-bont' oedd yr ystyr gan un hynafiaethydd, ond ni cheisiodd esbonio pam y dylai'r lle gael pont o gwbl<sup>2</sup>.

### Carreg                      Llanbeblig

<i>Garreg y Gath</i>	Tŷ-coch	1841	RhPDegwm	1790
----------------------	---------	------	----------	------

**carreg, y, cath**

<sup>1</sup> Ceir cofnod o *Tibot* fel enw merch yn *Tibot ferch Ieuan ab Iorwerth* yng Nghaernarfon yn 1402 (*CCR*, 172). Ceir cyfeiriad yno hefyd at rywun o'r enw *Tibot Sparow* yn 1401 (*ibid.* 167) ac eto yn 1402 (*ibid.* 176); wrth gwrs, mae'n bosib mai merch Ieuan ab Iorwerth oedd honno.

<sup>2</sup> W. Wynn Williams, 'Mona Antiqua', *Arch. Camb.* (1871), 36; gweler hefyd Aneurin Williams, 'Gaer Gerlan Ddibod', *Arch. Camb.*, (1922), 158.

Mae annedd o'r enw hwn nid nepell o *Dŷ-coch* hyd heddiw, ond bellach trodd yr enw yn *Carreg y Garth* (CCPost, 2000).

<b>Castell</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Castell</i>	Cyrnant Lodge	1841	RhPdegwm	172
<i>Castell</i>	Cyrnant Lodge	1859	Bangor 4081	172

**castell**

Ystyr arferol *castell* yw 'caer', ond yn ôl *GPC* gall hefyd olygu mesur o dir, er nad yw'n nodi ei faint.

<i>Castell Gardd</i>	Cae-hil	1841	RhPdegwm	407
----------------------	---------	------	----------	-----

**castell, gardd**

**Cefn**

**Llanbeblig**

<i>Cefn adlog</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPdegwm	816
<i>Cefn adlog</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	816

**cefn, adlog**

Yr unig ystyr a rydd *GPC* i *adlog* yw 'llog cyfansawdd', a hynny ar sail *P* 1793, sydd yn anodd ei esbonio yn y cyswllt hwn. Efallai mai gwall am *adlodd* sydd yma.

<i>Cefn dwr oer</i>	?	1833	Rumsey Wms	726
---------------------	---	------	------------	-----

**cefn, dŵr, oer**

<i>Cefn eithin</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	667
--------------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, eithin**

<i>Cefn isa</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	666
-----------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, ans. isel, gradd eithaf isaf**

<i>Cefn mury ffordd</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	669
-------------------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, mur, y, ffordd**

<i>Cefn Tyddyn hen</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPdegwm	1752
<i>Cefn tyddyn hen</i>	Tyddyn-hen	1841	RhPdegwm	1740-1

**cefn, e.ll. Tyddyn-hen**

Y mae caeau *Pen-y-gelli* a *Thyddyn-hen* yn ffinio â'i gilydd.

<i>Cefn ucha</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	668
------------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

<i>Cefn y bach</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	664
--------------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, y, bach**

Mae diffyg tr. meddal ar ol y fannod yn awgrymu nad yr eb. *bach* = 'cornel. cilfach' sydd yma. Mae'n anodd gweld arwyddocâd i'r eg. *bach* = 'bachyn'.

<i>Cefn y garw</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	603
--------------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, y, garw**

Er mai fel ans. yr ystyriwn *garw* fel rheol, mae hefyd yn eg. = tir garw, fel ag a geir yn yr ymadrodd 'torri'r garw'.

<i>Cefn y gwair</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPdegwm	665
---------------------	----------------	------	----------	-----

**cefn, y, gwair**

<i>Cefn ysoedd</i>	Wern	1841	RhPDeegwm	727
--------------------	------	------	-----------	-----

***cefn, ynysoedd***

Nid oes raid i ynys fod wedi ei hamgylchynu gan y môr; gall hefyd fod yn dir sych yng nghanol cors. (*ELleoedd*, 36–7). Mae'n debyg mai tir corsiog fyddai yma, o golïo enw'r annedd, sef *Wern*. Gwelir defnyddio *island* â'r un ystyr mewn caeau fel *Island*, *Island Field* ac *Island Close* mewn sawl lle yn Lloegr (*EFND*, 115). Ceir cywasgu yn y ffurf *ysoedd*. Mae aceniad y sillaf o flaen yr acen yn tueddu i fod yn wan yn y Gymraeg, ac yma mae'r *n* yn *Cefn* a'r *n* yn *Ynysoedd* wedi eu cyfuno ar lafar nes llyncu'r sillaf ragobennol yn llwyr.

<i>Cefnytyndir</i>	?	1841	RhPDeegwm	157
--------------------	---	------	-----------	-----

***cefn, y, tyndir***

Am yr ystyr gweler *Cae Tyndir* uchod.

**Celli                      Llanbeblig**

<i>Gell forch Evan</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDeegwm	805
<i>Gell forch Evan</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	805

***celli?, merch, Evan***

Mae'n debyg mai 'celli' yn hytrach na 'cell' sydd yn yr elfen gyntaf, ac mai 'ferch' yn hytrach na 'fforch' sydd yn yr ail. Mae'r Rhestr Brisiant yn Bangor 4081 bron yn ddiethriad yn dilyn RhPDeegwm yn hollol gaeth, felly os oes gwall yn y naill fe'i hailadroddir yn ddi-feth yn y llall.

**Cellar                      Llanbeblig**

<i>Cellar</i>	Maes-y-merddyn	1841	RhPDeegwm	978–9
---------------	----------------	------	-----------	-------

***Saes. cellar***

Fel rheol, yr ystyr yw ystafell dan lefel y ddaear a ddefnyddir fel storfa. Cf. *Selar ddu* ger Llanaelhaearn; *Carreg Selar* ym Maenan, a *Hendre Selar* ger Tremadog (*ELISG*, 43). Gweler hefyd *Cae'r Cellar* dan Gaeau Llanfaglan. Mae'n anodd iawn derbyn awgrym W.J. Gruffydd mai'r e.p. *Sellar* sydd yn yr e.lleoedd yn cynnwys *cellar* (*Llenor*, VII, (1928), 245).

**Ceulan                      Llanbeblig**

<i>Cenlennydd isa</i>	Tyddyn-uchaf	1841	RhPDeegwm	889
-----------------------	--------------	------	-----------	-----

***ceulan, llu. ceulennydd, ans. isel, gradd eithaf isaf***

Torlan neu lan serth yw *ceulan*. Yma, ac isod, gwelir camddarllen *n* am *u*.

<i>Cenlennydd ucha</i>	Tyddyn-uchaf	1841	RhPDeegwm	888
------------------------	--------------	------	-----------	-----

***ceulan, llu. ceulennydd, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

**Clogwyn                      Llanbeblig**

<i>Clogwyn</i>	Tan-y-garreg-fawr	1841	RhPDeegwm	64
----------------	-------------------	------	-----------	----

***clogwyn***

<i>Clogwyn r ody</i>	Twthill	1841	RhPDeegwm	21
----------------------	---------	------	-----------	----

***clogwyn, yr, ody***

<i>Tan y clogwyn</i>	Treflan	1841	RhPDeegwm	69
----------------------	---------	------	-----------	----

***tan, y, clogwyn***

**Cob                              Llanbeblig**

<i>Cob</i>	Tai-isaf	1841	RhPDeegwm	111
------------	----------	------	-----------	-----

**cob**

Ystyr arferol *cob* yw rhyw fath ar argae.

<i>Cob bach</i>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	110
<b><i>cob, bach</i></b>				

**Coch**                      **Llanbeblig**

<i>Goch YKyllell</i>	yn nhrefgordd Rhuddallt	1442	P.S.Peniarth	DC3
<b><i>coch, y, cyllell</i></b>				

Hwn yw'r unig gyfeiriad a welwyd at y darn hwn o dir. Mae'n amhosibl esbonio ystyr yr enw.

**Coed**                      **Llanbeblig**

<i>Y Coed</i>	Castellmai	1841	RhPDegwm	859
<i>Coed</i>	Glanrafon	1841	RhPDegwm	1233-4
<i>Yr Coed</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPDegwm	684
<i>Coed</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1381
<b><i>coed</i></b>				

<i>Coed bryn bella</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	788
<i>Coed bryn bella</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	788
<b><i>coed, bryn, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>				

<i>Coed helen</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1407
<b><i>e.ll. Coed-Helen</i></b>				

Yr oedd *Tan-yr-allt* naill ai'n ffinio â thir *Coed-Helen* neu wedi ei adeiladu arno.

<i>Coed Hwa</i>	?	1768	Coed Helen	24-5
<i>Coed hiva</i>	?	1795	Poole	3797

***cae, e.p. Hwfa***

Mae'n debyg mai'r e.p. *Hwfa* yw'r ail elfen yn y ddau gofnod uchod: mae tuedd i ynganu *Hwfa* fel *Hwa*, fel ag a geir yn *Tre-Hwa*, Môn (GM-J, 36).

<i>Coed mafon</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	808
<i>Coed mafon</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	808
<b><i>coed, mafonen, llu. mafon</i></b>				

Ffrwythau'r *Rubus idaeus* ('raspberry') yw *mafon*.

<i>Coed y Bont</i>	Cyrnant Lodge	1841	RhPDegwm	170
<i>Coed y bont</i>	Cyrnant Lodge	1859	Bangor 4081	170
<b><i>coed, y, bont</i></b>				

<i>Coed y Pannwr</i>	Twthill	1841	RhPDegwm	25
<b><i>coed, y, pannwr</i></b>				

Y pannwr fyddai'n curo defnydd er mwyn ei dewhau a'i lanhau, a gwneid hynny mewn *pandy*. Ni welwyd cofnod o bandy yng nghyffiniau Twthill: yr oedd un ar lan afon Saint nid nepell o eglwys Llanbeblig, ac un arall ym Montnewydd. Ceir cyfeiriad at ŵr o'r enw *Goronwy Pannwr* ['Pannour'] yng Nghaernarfon yn 1371 (CCR, 61).

<i>Coed yrhen dai</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	806
<i>Coed yen dai</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	806
<b><i>coed, yr, hen, tŷ, llu. tai</i></b>				

<i>Coed yr ody</i> <i>coed, yr, ody</i>	Twthill	1841	RhPDegwm	22, 23
--	---------	------	----------	--------

**Comins                      Llanbeblig**

<i>Cornmis</i>	Pen-y-wrach	1841	RhPDegwm	1772
<i>Comins</i> <i>comin, llu. comins</i>	Pen-y-wrach	1869	Bangor	£33975

Mae'n debyg mai ffurf 1869 sydd yn gywir, ac mai cytir neu dir a ddelid yn gyffredin gan drigolion ardal arbennig sydd yma.

**Corn Garden                Llanbeblig**

<i>Corn Garden</i> <i>Saes. corn, garden</i>	Trellanbeblig	1841	RhPDegwm	1057
---	---------------	------	----------	------

Tybed ai cyfieithiad o'r Gym. 'gardd yd', sef 'ydlan' sydd yma, h.y. iard lle cedwid teisi gwair ac yd. 'Rar-yd' yw gair y Monwysion am hon (*ISF*, 63).

**Cors                            Llanbeblig**

<i>Gors</i>	Bryn-eithin	1841	RhPDegwm	368
<i>Gors</i>	Brynhyfryd	1841	RhPDegwm	877
<i>Gors</i>	Cae-gwyn	1841	RhPDegwm	1812
<i>Gors</i>	Cae-mawr	1841	RhPDegwm	1130
<i>Gors</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDegwm	213
<i>Y Gors</i>	Llety	1841	RhPDegwm	744
<i>Gors</i>	Pen-y-dŵr-oer	1841	RhPDegwm	317
<i>Gors</i>	Pen-y-gelli-banc	1869	Bangor	£33975
<i>Y Gors</i>	Tai-newydd	1841	RhPDegwm	601
<i>Gors</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1378
<i>Gors</i>	Tyddyn-hen	1841	RhPDegwm	1736
<i>Gorse</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPDegwm	1470
<i>Gors</i>	Tyn-dryfwl	1841	RhPDegwm	257, 377
<i>Gors</i>	Tyn-lôn	1841	RhPDegwm	1450

***cors***

Achosir y tr. meddal dechreuol gan y fannod a gollwyd o flaen yr eb. un. Gwelir yr un peth mewn nifer o'r enghreifftiau isod hefyd. Soniwn am *gorsennau* yn tyfu ar dir gwlyb: ffurfiau llu. eraill ar *corsen* yw *cyr*s a *cors*. Ond nid yw hyn yn esbonio 'y gors'. Cred Syr Ifor mai eb. sydd yma am fan lle mae llawer o gorsennau yn tyfu. Cf. *y wern* am lecyn lle ceir llawer o wernenni; *y rug* lle ceir llawer o rug, a'r *ro* lle ceir digonedd o ro (*ELleoedd*, 61).

<i>Gors bach</i>	Cae-Stanley	1841	RhPDegwm	971
<i>Gors bach</i>	Caeau Llanbeblig	1841	RhPDegwm	1518
<i>Gors bach</i>	Castellmai	1841	RhPDegwm	875-6
<i>Gors bach</i>	Maes-y-merddyn	1841	RhPDegwm	899
<i>Gors bach</i>	Pen-y-cefn et al.	1869	Bangor	£33975
<i>Gors bach</i>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1276
<i>Gors bach</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1312
<i>Gors bach</i>	Tyddyn-llwyni	1841	RhPDegwm	840

***cors, bach***

Unwaith eto gwelir hepgor y tr. meddal ar ddechrau'r ans. *bach* ar ôl eb. un. (*TC*, 56: *GG*, 199).

<i>Y Gors pella</i>	Cae-main	1841	RhPDegwm	662
<i>Gors bella</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1067



*cors, ans. pell, gradd eithaf pellaf*

<i>Gors bigfain</i> <i>cors, pigfain</i> Mae'r ail elfen yn disgrifio siâp y gors.	Cefn-y-werglodd	1841	RhPDegwm	1192
<i>Gors borfa</i> <i>cors, porfa</i>	Glan-y-gors	1841	RhPDegwm	573
<i>Gors bryn eithin</i> <i>cors, e.ll. Bryn-eithin</i> Ardal ac annedd (q.v.) yn Waunfawr yw <i>Bryn-eithin</i> .	Bryn-eithin	1841	RhPDegwm	376
<i>Gors Cae Clover</i> <i>Gors Cae Clover</i> <i>cors, cae, Saes. clover</i>	Ysbyty	1809	Vaynol	4062
	Ysbyty	1841	RhPDegwm	818
<i>Gors Caer Ty</i> <i>cors, cae, y, tŷ</i>	Ysbyty	1841	RhPDegwm	823
<i>Gors Cae rhos</i> <i>cors, cae, rhos</i>	Castellmai	1841	RhPDegwm	1020
<i>Gors cefn ty</i> <i>cors, cefn, tŷ</i>	Ysbyty	1841	RhPDegwm	829
<i>Gors drainiog</i> <i>cors, dreiniog</i> Mae'n debyg mai ans. yn golygu 'llawn o ddrain' sydd yn yr ail elfen, er y disgwylid cael treigladd meddal mewn ans. ar ôl eb. un.	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1328
<i>Gors eithin</i> <i>cors, eithin</i>	Tyddyn-hen	1841	RhPDegwm	1735
<i>Gors eithin mân</i> <i>cors, eithin, mân</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1373
<i>Gors fain</i> <i>Gors vain</i> <i>Gors fain</i> <i>cors, main</i>	Cefn-y-werglodd	1841	RhPDegwm	1191
	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1379
	Tyddyn-Elen	1841	RhPDegwm	1144
<i>Gors fawr</i> <i>Gors fawr</i> <i>Y Gors fawr</i> <i>Gors fawr</i> <i>cors, mawr</i>	Cae-gwyn	1841	RhPDegwm	1808
	Cefn-y-werglodd	1841	RhPDegwm	1194
	Llety	1841	RhPDegwm	770
	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1088
<i>Gors voyn hyfryd</i> <i>cors, mwyn, hyfryd</i>	Tyddyn-uchaf	1841	RhPDegwm	884
<i>Gors ffynon</i> <i>Y Gors ffynon</i> <i>Gorsy fynon</i> <i>Gors ffynon</i>	Cae'r-cock	1841	RhPDegwm	1253
	Llety	1841	RhPDegwm	756
	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1699
	Ysgubor-wen	1841	RhPDegwm	1918

*cors, ffynnon*

<i>Gors ganol</i>	Cae-gwyn	1841	RhPDegwm	1807
<i>Y Gors Ganol</i>	Cae-main	1841	RhPDegwm	649
<i>Gors Ganol</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1087

*cors, canol*

<i>Gors gerrig</i>	Tyddyn-llwyni	1841	RhPDegwm	884
--------------------	---------------	------	----------	-----

*cors, carreg, llu. cerrig*

<i>Gors isa</i>	Bryn-eithin	1841	RhPDegwm	372
<i>Gors isa</i>	Brynhyfryd	1841	RhPDegwm	878
<i>Gors isaf</i>	Cocsidia	1869	Bangor	133975
<i>Gors isa</i>	Pen-y-bryn	1841	RhPDegwm	367
<i>Gors isaf</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1371
<i>Gors isa</i>	Tyddyn-uchaf	1841	RhPDegwm	898

*cors, ans. isel, gradd eithaf isaf*

<i>Gors topia isa</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1375
-----------------------	-------------	------	----------	------

*cors, top, llu. topiau, ans. isel, gradd eithaf isaf*

Mewn e.lle gall *top,-iau* olygu tir bryniog. Mae'r cyfuniad o *topiau* ac *isaf* yn swnio fel petai'n gwrthddweud ei gilydd, ond mae'n gwneud synnwyr o'i wrthgyferbynnu â *Gors topia ucha* (q.v. isod).

<i>Gors topia ucha</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1374
------------------------	-------------	------	----------	------

*cors, top, llu. topiau, ans. uchel, gradd eithaf uchaf*

<i>Gors uchaf</i>	Cocsidia	1869	Bangor	133975
<i>Y Gors ucha</i>	Tyddyn-llwyni	1841	RhPDegwm	839
<i>Gors ucha</i>	Tyddyn-uchaf	1841	RhPDegwm	897

*cors, ans. uchel, gradd eithaf uchaf*

<i>Gors wair</i>	Glan-y-gors	1841	RhPDegwm	574
------------------	-------------	------	----------	-----

*cors, gwair*

<i>Big Gors</i>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	104
-----------------	----------	------	----------	-----

*pig, cors*

*Pig*, sef 'pen blaenllym' yw'r elfen gyntaf.

**Court**                      **Llanbeblig**

<i>Court</i>	Trellanbeblig	1841	RhPDegwm	1058
--------------	---------------	------	----------	------

*Saes. court*

Yn aml ceir yr enw hwn yn ei ffurf Gym. *cwrt*, sef clos fferm neu fuarth gydag adeiladau o'i amgylch.

<i>Court yr afon</i>	Glanrafon-bach	1841	RhPDegwm	678
----------------------	----------------	------	----------	-----

*Saes. court, yr. afon*

**Croes**                      **Llanbeblig**

<i>Crossywaun</i>	Croesywaun	1841	RhPDegwm	486
-------------------	------------	------	----------	-----

*croes, y, waun*

Gweler *Croesywaun* dan Anheddau Llanbeblig.

**Cwirc****Llanbeblig**

<i>Quirkian</i>	Ysbyty	1841	RhPDeagwm	834
<i>Crowkai</i>	Ysbyty	1869	Bangor	133975

***cwirc, llu. cwirciau***

Ymhlith yr ystyron a rydd *GPC* i *cwirc*, eg. (benth. o'r Saes. *quirk*) ceir 'tro sydyn': neu'n ffigurol, odrwydd mewn cymeriad, cast neu branc. Efallai fod y tir yn anhydrin mewn rhyw fodd. Gall *cwirc* hefyd olygu patrwm wedi ei frodio ar ffêr neu ochr hosan. Tybed a ddefnyddiwyd yr un gair yn ffigurol yma i olygu brithdir? Ceir hefyd *Gardd y Cwirciau* a *Chwirciau Bach* ym Mrynteg, Llanfaglan, yn RhPDeagwm 1839 (q.v.). Mae sillafiad Seisnig cofnod 1841 yn ymddangos yn ddieithr iawn, yn enwedig gan fod camddarllen *n* am *u* yn y terfyniad.

**Dôl****Llanbeblig**

<i>Y Ddôl</i>	Coed-marian	1798–9	Vaynol	4059
<i>Y Ddôl</i>	Coed-marian	1809	Vaynol	4062
<i>Ddol</i>	Coed-marian	1869	Bangor	133975
<i>Ddol</i>	Maesincla	1841	RhPDeagwm	1864
<i>Dol</i>	Pant-y-defaid	1841	RhPDeagwm	268
<i>Y Ddol</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPDeagwm	1093
<i>Ddol</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPDeagwm	1478

***dôl***

<i>Ddol bach</i>	Pant-y-clafrdy	1841	RhPDeagwm	1295
<i>Ddol Vach</i>	Coed-marian	1841	RhPDeagwm	1584
<i>Ddol bach</i>	Coed-marian	1869	Bangor	133975

***dôl, bach***

Yma eto gwelir hepgor y tr. meddal ar ddechrau *bach* ar ôl eb. un. (*TC*, 56; *GG*, 199).

<i>Y Ddôl Bellaf</i>	Rhuddallt / Pen-y-lan	1798–9	Vaynol	4059
<i>Y Ddol Bellaf</i>	Rhuddallt / Pen-y-lan	1809	Vaynol	4062
<i>Doll bella</i>	Maesincla	1841	RhPDeagwm	1904

***dôl, ans. pell, gradd eithaf pellaf***

<i>Ddol eirin</i>	Pant-y-clafrdy	1841	RhPDeagwm	1294
-------------------	----------------	------	-----------	------

***dôl, eirinen, llu. eirin***

<i>Dole Evan</i>	?	1668	Baron Hill	3249
<i>Dol Evan</i>	Glanrafon	1841	RhPDeagwm	1229

***dôl, e.p. Evan***

Ni wyddys pwy oedd *Evan*. Tybed ai'r un gŵr yw hwn ag a geir yng *Nghelli ferch Evan* uchod sydd hefyd yng *Nglanrafon*?

<i>Ddol ganol</i>	Maesincla	1841	RhPDeagwm	1863
<i>Y Ddol ganol</i>	Rhuddallt-bach	1841	RhPDeagwm	1092

***dôl, canol***

<i>Ddol gerrig</i>	Tai-isaf	1841	RhPDeagwm	115
--------------------	----------	------	-----------	-----

***dôl, carreg, llu. cerrig***

<i>Ddol Gynryg</i>	Glanrafon	1841	RhPDeagwm	1219
--------------------	-----------	------	-----------	------

***dôl, e.p. Cynrig***

Ni wyddys pwy oedd y *Cynrig* hwn.

<i>Ddol haf</i> <b><i>dôl, haf</i></b>	Glanrafon	1841	RhPDegwm	1224
<i>Dolisa</i>	Coed-marian	1841	RhPDegwm	1585
<i>Dol isa</i>	Glyn-afon	1841	RhPDegwm	452
<i>y Ddôl Issaf</i>	Rhuddallt	1798–9	Vaynol	4059
<i>y Ddôl Isaf</i>	Rhuddallt	1809	Vaynol	4062
<b><i>dôl, ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>				
<i>Ddol ucha</i>	Coed-marian	1841	RhPDegwm	1588
<i>Y Ddôl uchaf</i>	Rhuddallt	1798–9	Vaynol	4059
<i>Y Ddol uchaf</i>	Rhuddallt	1809	Vaynol	4062
<b><i>dôl, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>				
<i>Doly bont</i> <b><i>dôl, y, pont</i></b>	Treflan-isaf	1841	RhPDegwm	95
<i>Doly felin</i> <b><i>dôl, y, melin</i></b>	Melin Peblig	1841	RhPDegwm	1064
<i>Dol y clochydd</i> <b><i>dôl, y, clochydd</i></b>	Trellanbeblig	1841	RhPDegwm	1043

### Dryll

### Llanbeblig

<i>Dryll Gwynn</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1798–9	Vaynol	4059
<i>Dryll Gwynn</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1809	Vaynol	4062
<i>Dryll gwyn</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1841	RhPDegwm	640
<i>Dryll gwyn</i>	Twthill	1841	RhPDegwm	34

### ***dryll, gwyn***

Un ystyr i *dryll* yw 'darn bychan'; mewn e.lle cyfeiria at ddarn bychan o dir.

### Egel

### Llanbeblig

<i>Yr egal</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1841	RhPDegwm	620
<i>Rhegal</i>	Hafod-y-rhyg-uchaf	1869	Bangor	f33975
<i>Yr Egal</i>	Llety	1841	RhPDegwm	754
<i>Egal, Yr egal</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1706, 1750
<i>Rhegal</i>	Tyddyn-pandy	1869	Bangor	f33975
<i>Yr egal</i>	Wern	1841	RhPDegwm	

### ***egal***

Ystyr *egal* yw llysiuyn o rywogaeth y *Cyclamen*: sef bara'r hwch, 'sowbread'<sup>1</sup>. Cyfeiria'r Athro Bedwyr Lewis Jones at y defnydd o *rhegal* yn nhafodiaith ardal Llandwrog am sribyn bach o dir wâst (*BBCS*, XXVIII, (Mai 1980), 600–01), a chyfeiria hefyd at ychwanegiadau'r Athro O.H. Fynes-Clinton i'w waith *WVBD* lle mae'n diffinio *regal* fel 'a place where there is a great deal of brushwood, hazel, bushes etc.' (Bangor 15681, tt. 404–5). Defnyddir *regal* mewn rhannau o Fôn am lain gul o dir yn arwain at afon (*ISF*, 63). Ceir tyddyn o'r enw *Regal* ar y ffordd i lawr o Rosgadfan i Waunfawr<sup>2</sup>, a cheir *Llain yr Egal* yng Nghlynnog (AMR). O weld yr enw yn y ffurf *hegal* ceisiodd BLJ ei gysylltu â'r gair *hegl, heglau*, sef coes neu

<sup>1</sup> Gweler trafodaeth MR o'r enw hwn yn *TCHSG*, 34, (1973), 161–2, ac ymdriniaeth yr Athro Gwynedd O. Pierce yn *ADG* 2, 12.

<sup>2</sup> *LW*, 119. Yma dywed Kate Roberts fod W.J. Gruffydd yn tarddu'r enw hwn o 'Yr Eagle'.

esgair, a thybio ei fod yn cyfeirio at siâp y darn tir dan sylw (ADG 2, 12). Mae'n wir fod y ffurf *hegal* yn digwydd: gweler *Rhegal* yn y cofnodion uchod: mae yna *Hegal* yn Aberdaron (AMR; Plas Carreg, 153) a cheir cyfeiriad at 'yr *hegal pystir*' rywle ym mhlwyf Llanbeblig yn 1771 (Rumsey Wms, 157). Fodd bynnag, mae'n debyg mai ffurf lafar leol y gair *egel* yw *hegal*, sef llysiuyn 'bara'r hwch', a dim mwy na hynny.

Erw	Llanbeblig			
<i>Errow goodach</i> <b><i>erw, goodach?</i></b> Ni lwyddwyd i esbonio'r ail elfen.	yn nhrefgordd Treflan	1558	LI&Brynodol	M18
<i>Erwy Wrach Lwyd</i> <b><i>erw, y, gwrach, llwyd</i></b>	yn nhrefgordd Treflan	1448/9	Vaynol	1350
<i>Erw wen</i> <b><i>erw, ans. gwyn, ben. gwen</i></b>	Tyddyn-hen	1841	RhPDegwm	1729
<i>Erw wen isa'</i> <b><i>erw, ans. gwyn, ben. gwen, ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>	Tyddyn-hen	1841	RhPDegwm	1729
<i>Erro Castell</i> <i>Erow y Castell</i> <b><i>erw, y, castell</i></b>	yn nhrefgordd Treflan yn nhrefgordd Treflan	1519 1558	Vaynol LI&Brynodol	1372 M18
<i>Erow y palmer</i> <b><i>erw, y, palmer</i></b> Benth. o'r Ffrangeg, o bosib trwy Saes. Can., yw <i>palmer</i> . Yr ystyr fel rheol yw 'pererin', ond gall hefyd olygu mynach dan lw o dlodi. Yn ddiweddarach mae'n datblygu i fod yn gyfenw. Ceir cyfeiriad at <i>William le Palmer</i> yng Nghaernarfon yn 1362 (CCR, 17, 18).	yn nhrefgordd Treflan	1558	LI&Brynodol	M18

Ffridd	Llanbeblig			
<i>Ffridd</i> <b><i>ffridd</i></b>	Tyn-yr-onnen	1841	RhPDegwm	83
<i>Ffridd bach</i> <i>Ffridd bach</i> <b><i>ffridd, bach</i></b> Yma eto gwelwn hepgor y tr. meddal yn <i>bach</i> ar ôl eb. un. (TC, 56; GG, 199).	Graig-lwyd Tai-isaf	1841 1841	RhPDegwm RhPDegwm	208 142
<i>Ffridd ddu</i> <b><i>ffridd, du</i></b>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2/ 7445
<i>Ffridd Emwnt</i> <i>Ffridd Edmond</i> <b><i>ffridd, e.p. Emwnt / Edmond</i></b> Ni wyddys pwy oedd <i>Emwnt / Edmond</i> . Mae'n ddiddorol gweld y seisnigo yn yr enw o fewn pedair blynedd.	Gwastadfaes Gwastadfaes	1837 1841	NewGlynllifon RhPDegwm	XD2/ 7445 148
<i>Ffridd fain</i> <b><i>ffridd, main</i></b>	Glyn-afon	1841	RhPDegwm	483
<i>Ffridd fawnog</i> <i>Ffridd y fawnog</i>	Tan-y-garreg-fawr Twthill	1841 1841	RhPDegwm RhPDegwm	47 46

<i>Ffridd fawnog</i> <b><i>ffridd, y, mawnog</i></b>	Tyn-yr-onnen	1841	RhPDeagwm	80
<i>Ffridd fawr</i> <i>Ffridd fawr</i> <b><i>ffridd, mawr</i></b>	Glyn-afon Twthill	1841 1841	RhPDeagwm RhPDeagwm	484 2
<i>Ffridd felen</i> <b><i>ffridd, ans. melyn, ben. melen</i></b>	Tai-isaf	1841	RhPDeagwm	125
<i>Ffridd buchod</i> <i>Ffridd fuchod</i> <b><i>ffridd, buwch, llu. buchod</i></b>	Tan-y-garreg-fawr Tyn-yr-onnen	1841 1841	RhPDeagwm RhPDeagwm	48 84
<i>Ffridd isa'</i> <i>Ffridd isa</i> <b><i>ffridd, ans.isel, gradd eithaf isaf</i></b>	Graig-lwyd Graig-lwyd	1837 1841	NewGlynllifon RhPDeagwm	XD2/ 7445 209
<i>Ffridd ucha'</i> <b><i>ffridd, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>	Graig-lwyd	1837	NewGlynllifon	XD2/ 7445
<i>Ffridd wair</i> <i>Ffridd wair</i> <b><i>ffridd, gwair</i></b>	Tai-isaf Tyn-yr-onnen	1841 1841	RhPDeagwm RhPDeagwm	141 79
<i>ffrith y gwir melynion</i> <b><i>ffridd, y, gŵr, llu. gwŷr, ans. melyn, llu. melynion</i></b>	yn nhrefgordd Treflan	1558	Ll&Brynodol	M18

Mae'n anodd deall pam yr oedd y gwŷr hyn i gyd yn felynyon: gallai fod yn duedd a redai mewn teulu eu bod yn salw eu croen, neu efallai mai dynion arbennig o benfelyn oeddynt.

### **Gadre Llanbeblig**

<i>Gadre</i>	Maesincla	1841	RhPDeagwm	1854
 Efallai fod yr enw yn disgrifio darn o dir ac iddo siâp blaenllym fel gwaywffon neu bicell. Gweler hefyd *Cae nesa'r bigell* dan Gaeau Llanwnda.

**Pig**

**Llanbeblig**

<i>Pig y rhos</i>	Tyn-y-gors	1841	RhPdegwm	857
-------------------	------------	------	----------	-----

**pig, y, rhos**  
 Gall *pig* olygu pen blaenllym neu gopa pigfain mewn e.lle.

<i>Big y Werglodd</i>	Maes-y-merddyn	1841	RhPdegwm	981
-----------------------	----------------	------	----------	-----

**pig, y, gweirglodd**

**Pladur**

**Llanbeblig**

<i>Pladwr Siman</i>	Tyn-yr-onnen	1841	RhPdegwm	89
---------------------	--------------	------	----------	----

**pladur, e.p.Siman**

Mae'n bosibl mai *pladur* sydd yn yr elfen gyntaf, sef yr offeryn a ddefnyddid gynt i ladd gwair a medi, ac mai'r ystyr yw'r maint o dir y gallai pladurwr ei dorri mewn amser arbennig. Mae mesuriadau eraill tebyg i'w cael mewn enwau caeau, e.e. *Gwaith dau wr*, *Gwaith pump gwr* a *Gwaith Deng wr* ar gaeau yn fferm Argoed ym mhlwyf Llanafan Fawr (GAF, 195). Cf. *Five Days Math* a *Five Days Work* a gofnodwyd mewn amryw fannau yn Lloegr (EFND, 78). Ar y llaw arall gallai olygu mesuriad y cae ei hun. Ambell dro defnyddid y gair *swathe* yn Saesneg i fesur doldir. Fel rheol, lled y *swathe* oedd deg troedfedd, sef y pellter y medrai pladurwr ei gyrraedd o'r naill ochr a'r llall, e.e. *Three Swathes* yn Owersbury, Swydd Lincoln, 1607 (EFN, 126). Rhaid tybio mai'r e.p. *Simon* sydd yn yr ail elfen. Cymharer *Pladyr Bulkeley* yng Nghaerhun, Caern. yn 1775 (Baron Hill 3304), *Pedair Pladur*, hefyd yng Nghaerhun (AMR), a *Gwaith Pladyr* yn Llanberis (Vaynol 4059).

<b>Ponc</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Ponc dan Ganol</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	783
<i>Ponc dan ganol</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	783
<b><i>ponc, dan, canol</i></b>				
<i>Pencan berth ddu</i>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	128
<b><i>poncen, perth, du</i></b>				
Ffurf fachigol <i>ponc</i> yw <i>poncen</i> , ac mae'n debyg mai hyn sydd yn yr elfen gyntaf yma.				
<i>Bonkian</i>	Maesincla	1841	RhPDegwm	1856
<b><i>ponc, llu. ponciau</i></b>				
Camddarllenwyd <i>n</i> am <i>u</i> a geir yn y terfyniad.				

<b>Pont</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Pont Seiont</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDegwm	1408
<b><i>pont, e. afon Saint</i></b>				
Mae'n rhyfedd gweld y ffurf <i>Seiont</i> yma: er ei bod wedi disodli'r hen ffurf <i>Saint</i> mewn cynifer o achosion fe gedwir <i>Saint</i> yn ddieithriad bron wrth gyfeirio at <i>Bont Saint</i> . (Gweler hefyd ymdriniaeth o'r enw dan <i>Bryn-Seiont</i> a <i>Phont Saint</i> yn Anheddau Llanbeblig).				

<b>Pool</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Pool</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	802
<i>Pool</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	802
<b><i>Saes. pool</i></b>				

<b>Pwll</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>pwll mawr</i>	Cae-Adda-goch	1841	RhPDegwm	181
<b><i>pwll, mawr</i></b>				

<b>Quarry</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Quarry</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1309
<b><i>Saes. quarry</i></b>				
Gweler <i>Gallt y Chwarel</i> a <i>Cae Bach y Chwarel</i> hefyd yn Nhan-yr-allt				

<b>Quellyn</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Quellyn Field</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1870
<b><i>e.ll Quellyn / Cwellyn</i></b>				
Gweler ymdriniaeth o'r elfen gyntaf dan <i>Cwellyn</i> yn Anheddau Llanbeblig. Mae'n anodd gwybod pam y cafodd y cae hwn yr enw <i>Quellyn</i> , gan nad yw'n agos at yr annedd o'r enw hwn sydd ym mhlwyf Llanbeblig na'r un ym mhlwyf Llanwnda. Yr oedd <i>Quellyn</i> yn gyfenw, ac o bosib bu'r cae hwn ym meddiant un o'r teulu hwnnw ar un adeg.				

<b>Robyns / Robbins</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Robins lands in coed</i>	[Coed-Helen]	1691	Ll&Brynodol	D954
<i>Allen</i>				
<i>Robyns Lands</i>	Coed-Helen	1724-5	Ll&Brynodol	D351-2
<b><i>Saes. Robins, lands</i></b>				

Cyfenw yw'r elfen gyntaf. Bu gan y teulu Robyns / Robbins gysylltiad hir â phlwyf Llanbeblig. Mae sôn am 'Henry Robyns' a 'Richard Robyns' yng Nghaernarfon yn 1549 (LI&Brynodol, D933), am 'Henry Robyns' eto yn 1562 (*Rec. C. Aug.*, 298), a 'Maurice Robyns' yn nhrefgordd Treflan yn 1655 (LI&Brynodol, D975). Ceir cofnod o 'John Robbins of Glan yr Afon' a fu farw yn 1796 (JEGPed. 190). Gwerthodd ei fab William Robbins (m. 1823) stad Glan'rafon i Owen Humphreys o Lanfaglan (ibid.). Claddwyd sawl aelod o'r teulu Robyns ym mynwent Llanfaglan yn ystod y 18g. (*OK*, 185) Ceir cofnod hefyd naill ai o deulu arall o'r un enw neu gangen arall o'r un teulu yn gysylltiedig â Phen-y-gelli. Cymynwyd Pen-y-gelli a throedd eraill yn ewyllys William Robyns yn 1677 (JEGPed. 207). Yr oeddynt yn y dref mor ddiweddar ag 1861, pan oedd gŵr o'r enw William Robyns yn swyddog tollau yno (*HSThC*, 46).

### Rope Walk

### Llanbeblig

<i>Rope Walk</i>	Castle Hotel	1841	RhPDegwm	1890
<i>Rope Walk</i>	?	1847	Bangor	3906
<i>Rope Walk on the Marsh</i>	?	1869	Vaynol	1107

### Saes. rope, walk

Cwt hir neu lain gul oedd y *rope-walk*. Cyfeiriad sydd yma at y diwydiant cynhyrchu rhaffau o gywarch. Cyfeiria T. Hudson-Williams at 'wôc William Ethall' ar ben allt Llanbeblig ar gyrion Caernarfon, lle gwelid y gweithwyr yn cerdded yn wysg eu cefnau wrth blethu'r rhaffau (*AAG*, 20). Yr oedd y darn tir hwn, er ei fod gryn bellter o'r *Castle Hotel* yn y Maes, yn amlwg yn eiddo'r gwesty. Yr oedd llain o dir a neilltuid i'r pwrpas hwn yn nodwedd gyffredin mewn sawl man ar un adeg. Nodir cynifer ag un enghraifft ar ddeg o *Rope Walk* yn Llundain yn 1747 (*AZGL*, passim). Cofnodir *Rope Walk* yn Llangynnwr (*AMR*), a hefyd yn Bollington, Sir Gaer, ac yn Bakewell, Castleton a Derby, Swydd Derby (*EFND*, 184). Mewn porthladd fel Caernarfon byddai galw mawr am raffau i'r llongau a'r cychod. Mae'n debyg mai'r un grefft a gofféir yn *Tyddyn-rhaffwr* ger Brynsiencyn, Môn (*GM-J*, 254).

### Round Table

### Llanbeblig

<i>Le Roundtable</i>	?	1353	BMW	94
<i>Round table bach</i>	?	1696	Vaynol	3744
<i>Rownd Table</i>	?	1778	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Round Table</i>	?	1780	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Rownd Table</i>	?	1781	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Rownd Tabl</i>	?	1782	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Round Table</i>	?	1783	P. yr Aur	4058
<i>Rownd Table</i>	?	1789	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Round Table</i>	?	1799	Vaynol	3751
<i>Round Table</i>	?	1809	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Round Table</i>	?	1810/11	Vaynol	4063
<i>Round Table</i>	?	1818	ATT GAG	XQA/LT 6/6
<i>Raenol Table</i>	?	1824	P. yr Aur	4098
<i>Round Table</i>	?	1827	Bangor	8554
<i>Round Table Cae</i>	Tyddyn-llwydyn	1841	RhPDegwm	1501
<i>Round Table</i>	?	1867-8	Bangor	8555
<i>Round Table (part)</i>	Cae-mawr	1869	Bangor	133975
<i>Round Table</i>	?	1890-1	Bangor	8560

### Saes. round, table

Cysylltir yr enw hwn gan amlaf â'r Ford Gron chwedlonol yr eisteddai'r marchogion o'i chwmpas yn llys y Brenin Arthur. Mae'r enw yn digwydd mewn mannau eraill: cf. *Le Rounde Table* (1544) yn Beausale, Swydd Warwick; *The Round Table Meadow* (1660) yn Ecclesfield; a *Round Table* yn Essington, Swydd Stafford (*EFN*, 134). Gellid tybio mai enw ar gae crwn

fyddai hwn, ond o edrych ar fap y Degwm ar gyfer plwyf Llanbeblig fe welir nad oedd y *Round Table* a gofnodir uchod yn gae crwn. Rhaid chwilio am esboniad arall i'r enw.

Mae'r Athro Bedwyr Lewis Jones yn trafod twrneimant a gynhaliwyd yn Nefyn yn 1284. 'Twrneimant' yw'r enw ar y digwyddiad hwn yn y Brut Cymraeg, ond *Rotunda Tabula*, neu'r Ford Gron, a geir yng nghroniclau'r Saeson bron i gyd. Rhyw basiant o dwrneimant lle ymleddid ag arfau pŵl yn hytrach na rhai miniog oedd y Ford Gron. Awgrymodd yr Athro T. Jones Pierce mai olion brwydrau defodol y Ford Gron a geir yn enw'r 'Cae Ymryson' sydd ar dir Botacho-ddu yn ardal Nefyn<sup>2</sup>. Os yw hyn yn wir, tybed a yw'n arwyddocaol fod y *Round Table* ym mhlwyf Llanbeblig ar dir Tyddyn-llwydyn, gan fod hwnnw hefyd yn ffinio â *Chae'r Ymryson* (gweler *Cae'r Ymryson* dan Anheddau Llanbeblig). Eto, ni welwyd cyfeiriad at dwrneimant y Ford Gron yng Nghaernarfon.

Camddarlenn dybryd a geir yn yr elfen gyntaf yng nghofnod 1824: gellir gweld sut y gellid camddeall y *d* ar ddiwedd *round* am *ol*, ond aeth yr holl air ar ddisberod yma.

<b>Rhos</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Y rhôs</i>	Pen-y-cock	1869	Bangor	f33975
<i>Rhos</i>	Rhuddallt-ganol	1841	RhPDegwm	998
<i>Rhos</i>	Tŷ-coch	1841	RhPDegwm	1780
<i>Y rhos</i>	Ysbyty	1869	Bangor	f33975
<i>Rhos</i>	Ysgubor-goch	1841	RhPDegwm	1880
<b><i>rhos</i></b>				
<i>Rhos bach</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1768
<i>Rhos Bach</i>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1281
<b><i>rhos, bach</i></b>				
<i>Rhos badi</i>	Tyddyn-Sais	1841	RhPDegwm	913
<b><i>rhos, e.p. Badi</i></b>				
Ffurf fachigol ar yr e.p. <i>Maredudd</i> yw <i>Badi</i> . Ceir y ffurfiau <i>Bedo</i> a <i>Badyn</i> hefyd. Cyfeiria MR at annedd o'r enw <i>Tyddyn-Badi</i> ym mhlwyf Llanddeiniolen ( <i>TCHSG</i> , 52-3, (1991-2), 27) a cheir <i>Allt y Badi</i> yn Llangollen a <i>Gwern y badi</i> yn Llanaber. Meir. (AMR).				
<i>Rhos bedw</i>	Cae'r-cock	1841	RhPDegwm	1247
<b><i>rhos, bedwen, llu. bedw</i></b>				
<i>Rhos Bella</i>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1275
<i>Rhôs bellaf</i>	Rhosdican	1869	Bangor	f33975
<b><i>rhos, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>				
<i>Rhos Brynglas</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1713
<b><i>rhos, e.ll. Bryn-glas</i></b>				
Byddai tir yr annedd <i>Bryn-glas</i> yn Rhosbodruall yn ffinio ar dir <i>Pen-y-gelli</i> . (Gweler <i>Bryn-glas</i> dan Anheddau Llanbeblig). Rhannau o'r rhos yn Rhosbodruall fyddai hwn a <i>Rhos Cae Darby</i> a <i>Rhos Cae Garw</i> isod gan eu bod i gyd yn yr un ardal.				
<i>Rhos Cae Darby</i>	Cae-Darby	1841	RhPDegwm	1603
<b><i>rhos, e.ll. Cae-Darby</i></b>				
<i>Rhos Cae Garw</i>	Coed-mawr	1841	RhPDegwm	1652-4
<i>Rhos cae garw</i>	Cae-pen-y-cock	1869	Bangor	f33975

<sup>1</sup> 'Rotunda Tabula' neu Dwrneimant yn Nefyn yn 1284', *TCHSG*, 34, (1973), 23-9. Gweler hefyd nodyn gan Ioan Mai: 'Twrnament Nefyn 1284', *Llafar Gwlad*, 52, (Haf 1996), 8-9

<sup>2</sup> T. Jones Pierce, 'The Old Borough of Nefyn, 1355-1882', *TCHSG*, 18, (1957), 37-8

*rhos, e.ll. Cae-garw*

<i>Rhôs cefn ty</i> <i>rhos, cefn, tŷ</i>	Rhosdican	1869	Bangor	f33975
<i>Rhos fain</i> <i>rhos, main</i>	Tyn-twill	1841	RhPDegwm	1660
<i>Rhos fawr</i> <i>rhos, mawr</i>	Rhosdican	1869	Bangor	f33975
<i>Rhos ffynon</i> <i>rhos, ffynnon</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1751
<i>Rhôs gannol</i>	Cae-pen-y-cock	1869	Bangor	f33975
<i>Rhos ganol</i>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1274
<i>Rhos ganol</i>	Rhwngyddwryd	1841	RhPDegwm	569
<i>rhos, canol</i>				
<i>Rhos geirch</i> <i>rhos, ceirch</i>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1273
<i>Rhos goch isa</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	784
<i>Rhos goch isa</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	784
<i>rhos, coch, ans. isel, gradd eithaf isaf</i>				
<i>Rhos goch ucha</i>	Glanrafon-fawr	1841	RhPDegwm	786
<i>Rhos goch ucha</i>	Glanrafon-fawr	1859	Bangor 4081	786
<i>rhos, coch, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i>				
<i>Rhos hir</i> <i>rhos, hir</i>	Tyn-twill	1841	RhPDegwm	1661
<i>Rhos isa</i>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1279
<i>Rhôs isaf</i>	Tyn-rhos	1869	Bangor	f33975
<i>rhos, ans. isel, gradd eithaf isaf</i>				
<i>Rhos newydd</i> <i>rhos, newydd</i>	Tyddyn-Sais	1841	RhPDegwm	921
<i>Rhos Pencock</i>	Pen-y-cock	1841	RhPDegwm	1681
<i>Rhos Pencock</i>	Rhosbodrual	1841	RhPDegwm	1624
<i>rhos, e.ll. Pen- y-cock</i>				
<i>Rhos penywrach</i> <i>rhos, e.ll. Pen-y-wrach</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1769
Gweler <i>Pen-y-wrach</i> dan Anheddau Llanbeblig				
<i>Rhos pwll cowarch</i> <i>rhos, pwll, cywarch</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1749

Tylid cywarch i wneud rhaffau a defnydd cryf ar gyfer hwyliau. Ar ôl cynaeafu'r cywarch fe'i trochid mewn pwll i wahanu'r ffeibrau. Ceir sawl cyfeiriad at byllau cywarch mewn e. lleoedd yng Nghymru a Lloegr: e.e. *Hemp Dubb, Hemp Pool* (EFN, 99). Ceir erthygl ar y pwll cywarch gan W. Gilbert Williams yn dangos pwysigrwydd y diwydiant cywarch yn y



gorffennol (GAG XD4, 7; nodyn yn *MTT*, 84–5). Credid hefyd fod rhinwedd yn nŵr y pwll cywarch i wella anystwythder yn y pennau gliniau o drochi'r coesau yn y pwll (*MTT*, 85).

<i>Rhos Smith</i> <b><i>rhos, e.p.Smith</i></b>	Rhosbodruaal	1841	RhPDegwm	1677–9
Thomas Assheton Smith, Y Faenol, oedd perchennog y rhan hon o Rosbodruaal yn 1841.				
<i>Rhos tyn twll</i> <b><i>rhos, e.ll.Tyn-twll</i></b>	Tyn-twll	1841	RhPDegwm	1661
Gweler <i>Tyn-twll</i> dan Anheddau Llanbeblig.				
<i>Rhos ucha</i> <b><i>rhos, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>	Rhwngyddwryd	1841	RhPDegwm	568
<i>Rhôs wair</i> <i>Rhos Wair</i> <b><i>rhos, gwair</i></b>	Cae-pen-y-cock Rhosdican	1869 1841	Bangor RhPDegwm	£33975 1280
<i>Rhôs y bonc</i> <i>Rhosy bonc</i> <b><i>rhos, y, ponc</i></b>	Cae-pen-y-cock Pen-y-gelli	1869 1841	Bangor RhPDegwm	£33975 1767
<i>Rhos y ffordd</i> <b><i>rhos, y, ffordd</i></b>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1278
<i>Rhos gwalian</i> <i>Rhosygwalia</i> <i>Rhos-y-Gwalian</i> <b><i>rhos, y, gwal, llu. gwaliau</i></b>	Llety Llety Wern	1841 1887 1841	RhPDegwm NewGlynllifon RhPDegwm	762 XD2 / 7420 846
Gweler <i>Rhos-y-gwaliau</i> dan Anheddau Llanbeblig. Yma eto gwelir cymysgu rhwng <i>n</i> ac <i>u</i> .				
<i>Rhos y pwll</i> <b><i>rhos, y, pwll</i></b>	Rhosdican	1841	RhPDegwm	1277
<i>Ben rhos</i> <b><i>pen, rhos</i></b>	Gors-y-waun	1841	RhPDegwm	519
<b>Sling</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Sling</i>	Castellmai	1841	RhPDegwm	871
<i>Sling</i>	Foundry	1841	RhPDegwm	1455
<i>Sling</i>	Graig-lwyd	1841	RhPDegwm	211
<i>Sling</i>	Pebelig Mill	1841	RhPDegwm	1062
<i>Sling</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1722
<i>Sling</i>	Rhosbodruaal	1841	RhPDegwm	1619
<i>Sling</i> <b><i>sling</i></b>	Tai-isaf	1841	RhPDegwm	126
Defnyddir <i>sling</i> a <i>slang</i> (benth. o'r Saes. <i>sling, slang</i> ) am rimyn o dir, yn aml o siâp hirgul. Mae John Field yn awgrymu mai siâp fel ffon dafl ( <i>sling</i> ) ydoedd ( <i>EFN</i> , 132). (Gweler <i>ELleoedd</i> , 81; <i>YEE</i> , 82).				
<b>Sportsman</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Sportsman's Garden</i> <i>Sportsman Garden</i>	Cae-gwyn	1841 1841	RhPDegwm Cyfrifiad	1801

& Cottage

Saes. *Sportman's, garden*

Mae'n debyg mai gerddi gwesty'r *Sportsman* a oedd gynt yn Stryd y Castell, Caernarfon, oedd y tir hwn yn wreiddiol. Hyd yn weddol ddiweddar safai tŷ bychan o'r enw *Sportsman's Cottage* yng nghyffiniau *Cae-gwyn* ar Ffordd Bangor ar gyrion Caernarfon.

**Stackyard Llanbeblig**

*Stack yard Field* Tan-yr-allt 1841 RhPDegwm 1356

Saes. *stackyard, field*

'Ydlan' yw *stackyard*. Yma eto, ac isod, gwelir hoffter perchenogion *Tan-yr-allt* o enwau Saes.

**Summer-house Llanbeblig**

*Summer house voel* Tan-yr-allt 1841 RhPDegwm 1358

Saes. *summer, house, moel*

Mae'r llecyn hwn yn dir-nod amlwg ac adnabyddus yng Nghaernarfon: y *Foel* yw'r bryn crwn sydd yn codi yng nghyffiniau Coed-Alun ac a welir yn glir o sawl man yn y dref. Ar ei ben saif y *summer house*, sef adeilad bychan gwyngalchog tebyg i dŵr castell. Yr enw lleol arno erbyn heddiw yw 'Castell Bach Coed Alun'. Byddai tir-nod o'r fath yn rhywbeth go anghyffredin, mae'n debyg, ac yn haeddu ei gofnodi mewn enw; cf. *Gazebo Piece* yn Egham, Surrey (*EFND*, 87). Ar fap OS 1891 nodir 'Flagstaff Summer-house' yn yr un llecyn ar dir Coed-Helen (Map OS. 1891, Ang. XXV N.E. / Caerns. XV N.E.)

**Talpish / Tolpish Llanbeblig**

<i>meadow called the turff-pittes</i>	?	1545	LI&Brynodol	B2
<i>meadow called Twrffe pitts</i>	?	1623	LI&Brynodol	D941
<i>Turfepitts</i>	?	1623	LI&Brynodol	B11
<i>Talpish</i>	?	1701	LI&Brynodol	D272
<i>Tolpish</i>	?	1701	LI&Brynodol	D689
<i>Talpish</i>	Pen-y-gelli?	1705	LI&Brynodol	D283
<i>Turfe Pits</i>	?	1717	LI&Brynodol	B118
<i>Tanpitts</i>	?	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>The Turf Pitts</i>	?	1816	Roger Lloyd II	140
<i>otherwise the Toll Pitts</i>				
<i>Tolfris</i>	Cae-gwyn	1841	RhPDegwm	1811
<i>Cae Tolpis</i>	?	1950	AAG	45

Saes. *turf, pits*

Mae'r enw uchod yn y ffurf *Talpish / Tolpish* yn peri cryn benbleth. Yr unig awgrym i geisio'i ddatrys yw cofnod 1816 sydd yn rhoi *Toll Pitts* fel amrywiad ar *Turf Pitts*. Mae'n bosibl y gallai *Toll Pitts* ddatblygu i fod yn *Tolpish* ar lafar yn Gymraeg, er bod colli'r sain *t* yn y terfyniad yn anarferol. Fodd bynnag, mae'n anodd esbonio'r cysylltiad rhwng *toll* a *turf* yn y Saesneg, ac yn anodd iawn gweld unrhyw ddatblygiad ffonolegol lle byddai *turf* yn esgor ar *toll*. Mae'r *OED* yn cynnwys *turf-pit*, ond nid oes awgrym yno o unrhyw ystyr tebyg i *turf* yn yr adran ar *toll*. Awgrymir tir *Pen-y-gelli* neu *Gae-gwyn* fel lleoliad *Talpish / Talpish*. Mae T. Hudson-Williams yn ei leoli yn y 'cae milisia' uwchben yr orsaf reilffordd ar gyrion gogleddol Caernarfon (AAG, 45). Gallai hwn yn hawdd fod yn dir *Cae-gwyn*. Y *turf pits* fyddai'r pyllau lle cloddid mawn ar gyfer tanwydd.

<b>Tir</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>tir Egnn' ap yner</i>	yn nhrefgordd Treflan	1558	LI&Brynodol	M18
<b><i>tir, e.p. Einion ab Ynyr</i></b>				
Ni wyddys pwy oedd <i>Einion ab Ynyr</i> .				
<i>Teyr Jevan ap Edmund</i>	yn nhrefgordd Treflan	1519	Vaynol	1371
<b><i>tir, e.p. Ieuan ab Edmund</i></b>				
Ni wyddys pwy oedd <i>Ieuan ab Edmund</i> .				
<b>Traeth</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Fraeth</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1348
<b><i>traeth</i></b>				
Er gwaethaf y camgopïo yn y cofnod, mae'n amlwg mai <i>traeth</i> a olygir yma. Yr oedd tir <i>Tan-yr-allt</i> , fel <i>Coed-Helen</i> , yn ffinio ar lan y môr yng nghyffiniau aber yr afon Saint.				
<b>Tref</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Tref</i>	Treflan	1841	RhPDegwm	70
<b><i>tref</i></b>				
Gall <i>tref</i> olygu annedd a'r tir o'i gwmpas: 'homestead'.				
<b>Tŷ</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Ty coch</i>	Twthill	1841	RhPDegwm	13
<b><i>tŷ, coch</i></b>				
Mae'n amlwg oddi wrth ei leoliad nad oes a wnelo'r <i>Tŷ-coch</i> hwn ddim â'r annedd <i>Tŷ-coch</i> (q.v.) ar Ffordd Bangor ar y ffin â phlwyf Llanfair-is-gaer.				
<i>Ty rhos</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1076
<b><i>tŷ, rhos</i></b>				
<i>Ty Saint Michael</i>	yn nhrefgordd Treflan	1519	Vaynol	1372
<b><i>tŷ, e.p. Saes. Saint Michael</i></b>				
Disgrifir hwn fel darn o dir yn hytrach na thŷ. Efallai ei fod yn y rhan o drefgordd Treflan a oedd yn ffinio â Rug, gan mai Mihangel oedd nawdd sant Llanrug.				
<b>Tyddyn / Tyn</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Tyddyndu nesa</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1715
<b><i>tyddyn, du, ans. agos, gradd eithaf nesaf</i></b>				
<i>Tyddyndu pella</i>	Pen-y-gelli	1841	RhPDegwm	1714
<b><i>tyddyn, du, ans. pell, gradd eithaf pellaf</i></b>				
<i>Tynpwll</i>	Tyn-pwll	1841	RhPDegwm	378
<b><i>e.ll. Tyn-pwll</i></b>				
Gweler <i>Tyn-pwll</i> dan Anheddau Llanbeblig.				
<b>Walk</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Walk</i>	Rhuddallt-fawr	1841	RhPDegwm	1874
<i>Walk</i>	Tŷ-coch	1841	RhPDegwm	1789
<b><i>Saes. walk</i></b>				

Gallai *walk* gyfeirio at rodfa ddymunol i fwynhau golygfa. Byddai *hyn* yn sier yn gweddu yn achos *Tŷ-coch* gan fod ei dir yn mynd i lawr at lannau afon Menai.

<b>Yard</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Yard</i>	Cae-Darby	1841	RhPDegwm	1596
<i>Yard</i>	Caellechfaen	1841	RhPDegwm	1167
<i>Yard</i>	Tan-yr-allt	1841	RhPDegwm	1337
<i>Yard</i>	Treflan	1841	RhPDegwm	71
<i>Yard</i>	Tŷ-gwyn	1841	RhPDegwm	1544
<i>Yard</i>	Tyddyn-pandy	1841	RhPDegwm	1535
<i>Yard</i>	Tyn-rhos	1841	RhPDegwm	1635
<i>Saes. yard</i>				

<i>Yard Foundry</i>	Foundry	1841	RhPDegwm	1457
---------------------	---------	------	----------	------

*Saes. yard, e.ll. Foundry*

Gweler *Foundry* dan Anheddau Llanbeblig. Er mai *Saes.* yw dwy elfen yr enw, mae trefn yr elfennau yn dilyn y gystrawen Gym. gan mai *Foundry Yard* a ddisgwyliid yn *Saes.*

<b>Ynys</b>	<b>Llanbeblig</b>			
<i>Ynys</i>	Glanrafon	1841	RhPDegwm	1226
<i>Ynys</i>	Peblig Mill	1841	RhPDegwm	1066
<i>Ynys</i>	Trellanbeblig	1841	RhPDegwm	1226
<i>ynys</i>				

Un ystyr i *ynys* yw doldir ar lan afon, a byddai'r ystyr hon yn gweddu yma gan fod tir yr anheddau hyn i gyd yn dilyn glannau afon: afon Gwyrfaï yn achos Glanrafon, ac afon Saint yn achos y ddau arall.

<i>Ynys y Bowl</i>	?	1681	Thorowgood	183 i
<i>Ynysy bowl</i>	Cefn-y-werglodd	1841	RhPDegwm	1181

*ynys, y, bowl*

Mae'n anodd gweld ystyr y drydedd elfen. Mae lle o'r enw *Ynys-y-bwl* ym Morgannwg, a gallai fod rhyw gysylltiad na wyddom amdano â'r lle hwnnw. Efallai mai cyfeirio at siâp crwn y cae a wna *bwl*, sef 'pêl'.

## ANHEDDAU LLANDWROG

*'Rhyw bedair neu bum acer, ar y mwyaf, wedi ei ennill o'r mynydd oedd y tyddyn, ac nid oedd y pridd fawr fwy na dyfnder rhaw, ond yn rhyfedd o doreithiog oherwydd yr aredig cyfnodol a'r gwrteithio rheolaidd'.*

*Thomas Parry, 'Tŷ a Thyddyn', Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1972.  
(Caernarfon, 1972), 18*

## Llandwrog

<i>Llam'urok</i>	1291	<i>Tax. Nich.</i>	294
<i>Llandwrok</i>	1397	<i>Cal.Pat.R. 1396-9</i>	225
<i>Llan Turok</i>	1535	<i>Val. Ecc.</i>	IV, 421
<i>Llantoroke</i>	1537	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	8
<i>Llantorog</i>	1561	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	17
<i>Llantorog</i>	1568/9	Ll&Brynodol	D78
<i>Llandurog</i>	1610	Speed	
<i>Llandurog</i>	1610	Saxton	
<i>llandorogg</i>	1613-14	Bangor	5150 (31)
<i>Llandwroge</i>	1635-6	Ll&Brynodol	D162
<i>Llandwrog</i>	1637	<i>Dioc. Ban.16c.</i>	46
<i>Llandowrog</i>	1643	CQSR	XQS/1643, 12
<i>Llandurog</i>	1645	Blacu	
<i>llandwrogg</i>	1660	P. yr Aur	16801b
<i>Llandwrogge</i>	1665	Ll&Brynodol	D182
<i>Llandwrog</i>	1673	Ll&Brynodol	D184
<i>Llandurog</i>	1673	Map Richard Blome	AMW, 53
<i>Llandwrogg</i>	1696	Vaynol	3744
<i>Llandrorog</i>	1699	Ll&Brynodol	D979
<i>Llandwrog</i>	1719-20	Tynygongl	495
<i>Llandurog</i>	1766/9	Map John Ellis	AMW, 85
<i>Landwrog</i>	c.1790	Map Thomas Conder	AMW, 90
<i>Llandwrog</i>	1783	Tynygongl	465
<i>Llandwrog</i>	1795	JE/MNW	
<i>Llandwrog</i>	1809-11	<i>Des. Caerns.</i>	212-15
<i>Llandurog</i>	1830	Map John Cary	AMW, 99
<i>Llan durog</i>	1831	Bangor	8554
<i>Llandurog</i>	1836	Vaynol	492
<i>Llandwrog</i>	1838	Map OS	75
<i>Llandwrog</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Llandwrog</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Llandwrog</i>	2002	Map OS	Explorer OL17

### *llan + e.p. Twrog*

Mae Llandwrog yn blwyf mawr sydd yn rhannu ffiniau helaeth â phlwyfi Llanllyfni a Llanwnda, rhywfaint â Chlynnog, ac ychydig bach hyd yn oed â Beddgelert. Mae'n ymestyn o'r tir gwastad ar arfordir Bae Caernarfon hyd at y mynydd-dir yn Nyffryn Nantlle, ac yn cynnwys pentref Llandwrog, rhywfaint o ran isaf Rhos-isaf (Rhostryfan), Y Groeslon<sup>1</sup>, Carmel, Y Fron, Nantlle, cyrion Talysarn, a Drws-y-coed, yn ogystal â'r strïbed o dai ar hyd glan y môr yn Ninas Dinlle.

Er bod pentref bychan wedi bod o amgylch yr eglwys yn Llandwrog yn gynharach, ehangodd trwy ddylanwad stad Glynllifon, a thair stad oedd llawer o dai bach deniadol y pentref yn wreiddiol. Datblygodd yr ardal tua'r ucheldir yn bennaf yn sgîl twf y diwydiant llechi yn ail hanner y 19g, a phentrefi cymharol ifainc yw'r Fron a Charmel a rhai Dyffryn Nantlle. Y Fron oedd yr enw cynhenid, ond ar un adeg cyfeirid at ardal Y Fron fel Cesarea ar ôl capel y Methodistiaid Calфинаidd o'r un enw a adeiladwyd yn 1839<sup>2</sup>. Tua 1835 nid oedd yna ond

<sup>1</sup> Daw enw'r *Groeslon* o'r groesffordd yng ngwaelod y pentref lle yr oedd yr orsaf reilffordd gynt. Cyn adeiladu'r lôn newydd yr oedd y brif ffordd o Gaernarfon i Borthmadog yn mynd drwy'r rhan hon o'r pentref gydag un lôn yn fforchïo oddi arni i Landwrog i'r gorllewin a lôn arall yn mynd i fyny trwy bentref Y Groeslon ei hun i Garmel i'r dwyrain.

<sup>2</sup>*Rel. Cens.*, 318. Enw Beiblaidd yw *Cesarea*: ceir cryn sôn am y porthladd hwn yn Llyfr yr Actau. Ceir sôn hefyd yn efengylau Mathew a Marc am y *Cesarea* arall, sef *Cesarea Philippi*. Gweler disgrifiad

rhyw ddau neu dri o dai moel, ond cynyddodd y boblogaeth gyda thwf y chwareli (*HMethA*, Dos. Clynnog (Caernarfon, 1910) 255). Yn ddiweddarach, ac yn grandiach, sonnid am 'Upper Llandwrog'. Ambell dro cyfeirid at yr ardal fel Bron-y-Foel, ac mae'n debyg mai o'r enw hwn y daeth enw'r Fron. O gapel y cafodd Carmel ei enw hefyd, sef capel y Methodistiaid Calфинаidd a adeiladwyd yn 1826<sup>1</sup> (*TyCh*, 102)<sup>2</sup>. Ceir disgrifiad o'r daith droed o Ddinas Dinlle i ben Carmel gan Syr O.M. Edwards (*YYW*, 96–100). Myfyria ar natur yr enwau o'i amgylch fel y symuda o gysylltiadau paganaidd Dinas Dinlle i ardal capeli'r bryniau: 'Y mae'r hen dduwiau wedi diflannu o'r wlad mor llwyr fel na wyddir enwau ond ychydig ohonynt, ac mae Duw Elias wedi cymeryd eu lle.' (*ibid.*, 97). Synnai pe gwelai'r ardal heddiw: o'r 14 capel a fu unwaith yn ardal Rhostryfan, Rhosgadfan, Carmel a'r Fron, rhyw ddau yn unig sydd yn dal i ffynnu. Dymchwelwyd y gweddill neu eu troi'n dai preifat (*TyCh*, 102–3).

Daw enw *Llandwrog* ei hun o enw nawdd sant y llan, sef *Twrog*. Yn ôl y traddodiad yr oedd *Twrog* yn ddisgybl i Beuno, sydd â'i eglwys gerllaw yng Nghlynnog. Coffeir yr un sant ym Maentwrog, ac o bosib ym Modwrog, Môn. Honnid ei fod yn fab i Ithel Hael ac yn frawd i Tegai, Trillo a Llechid, ac y cynhelid ei wyl mabsant ar 26 Mehefin (*LBS*, 279–82). Mae'n bur debyg fod yr e.p. *Twrog* yn dod o *Ty-wrog*, sef *Gwrog* gyda'r rhagddodiad *ty-* a ddefnyddid i ddynodi parch (*ETG*, 145, 172; *PNGlam* 194). Credai Syr John Morris-Jones mai'r un gŵr oedd *Twrog* a *Mwrog* ond bod y rhagddodiad parch ar ffurf *Ty-* yn y naill ac ar ffurf *My-* yn y llall (*PKM*, 265). Gwelir y rhagddodiaid parch hyn mewn enw sawl sant, e.e. *Dy -/ Ty- + Cai* yn Llandygái. Ceir rhagddodiaid parch cyffelyb gydag enwau seintiau mewn Hen Gernyweg a Hen Lydaweg (*Corn. PNE*, 218–9).

Appii Forum	Llandwrog		SH 4855
<i>Epiffori</i>	1839	Bangor	1065
<i>Epiffori</i>	1840	Bangor	1065
<i>Abiffori</i>	1842	RhPDeqwm	
<i>Appifforum</i>	1845	Bangor	1084
<i>Appi Fferam</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Appiforum</i>	1854	Bangor	1094
<i>Appii Forum</i>	1891	Map OS	XX N.E.
<i>Appi Forum</i>	1896	RDE	56
<i>Appii Forum</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Appi Forum</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

**Appii**, ffurf enidol yr e.p. Llad. *Appius, forum*, e.un. diryw Llad.= *marchnad*  
Ym mhentref Y Groeslon, ar lôn fach gul o droi i'r dde oddi ar y ffordd wrth fynd o'r Groeslon tua Charnel gyferbyn â hen ysgol Penfforddfelen. Daw'r enw *Appii Forum* o Lyfr yr Actau 28.15: mae'n cyfeirio at y man, 40–50 milltir o Rufain, lle daeth Cristionogion

---

byr o bentref Y Fron yn *Eryri*, 107. Am hanes yr achos gweler William Hopley, *HMethA*, Dos. Clynnog, 255–70. Yr oedd W.J.Gruffydd yn gryf o blaid cadw'r hen enwau Beiblaidd hyn. Meddai: 'Tuedd pobl yn ddiweddar yw bod yn snobaidd anfaddeuol at yr enwau hyn; y mae arnynt gywilydd o *Ebenezer* ac enwau cyffelyb, ac yn aml y maent yn ceisio ei newid i ryw hen enw tybiedig neu enw newydd. Ond coeliwch fi, snobri yw hyn ac nid dim arall'. (*WJG*, 42, Rhan 6, 7).

<sup>1</sup> *Rel. Cens.*, 319. Am hanes yr achos gweler William Hopley, *HMethA*, Dos. Clynnog (Caernarfon, 1910) 238–54

<sup>2</sup> Rhes o fryniau yn ymestyn tua'r môr yn Haifa yw *Carmel*: yma yr ymgodymodd y proffwyd Elias â phroffwydi Baal (*1Bren.* 18, 17–46).

Rhufain i gyfarfod â Paul<sup>1</sup>. Mae'r enw hwn ychydig yn anarferol gan na cheir enw lle Beiblaidd yn aml yng Nghymru heb fod capel o'r un enw yn gysylltiedig â'r man<sup>2</sup>.

Yn ôl Mr Dafydd Glyn Jones, Bangor, ynganiad lleol Appii Forum yw 'Happy Florin'. (pers.com.). Cofnodion 1891 a 1920 uchod yw'r unig rai sydd wedi eu nodi'n gywir: mae dwy *i* yn y cyflwr genidol gan mai *Appius* yw'r cyflwr enwol. Gwelir camddehongli'r ail elfen fel y gair mwy cyfarwydd *fferam* yng nghofnod 1851.

Ymddengys fod hanesyn ar lafar yn lleol am sut y cafodd y tŷ ei enw anarferol. Dywedir bod y tŷ wedi cael ei adeiladu ond heb ei enwi pan ymgynullodd y teulu ynghyd â theuluoedd dwy fferm arall i ddatlu priodas. Holwyd perchennog y tŷ newydd, William Williams (1824–84), gan glochudd Llandwrog beth fyddai enw'r tŷ. Daeth yr adnod o Lyfr yr Actau 28.15 i feddwl William Williams, a chyn iddo gael cyfle i ailfeddwl yr oedd y clochudd wedi torri potel o gwrw yn erbyn talcen y tŷ a'i fedyddio yn *Appii Forum* (HyG, 16).

Baladeulyn	Llandwrog		SH 5153
' <i>rwng deu lenn</i> '	c. 1200	<i>PKM</i>	89
<i>Baladeulyn</i>	1305	<i>Rec. C.</i>	220
<i>Boladulinne / Boladulynne</i>	1536–9	Leland	82
<i>Bala dylun</i>	c.1600	<i>Hist. Gwyd.</i>	7
<i>Llynhaladoylen</i>	1610	Speed	
<i>Llynbaladoylen</i>	1645	Blaeu	
<i>Bala deu Lyn</i>	1783	Pennant	II, 189
<i>Bala-daulyn</i>	1838	Map OS	75
<i>Baladeulyn</i>	1839	Bangor	1065
<i>Bladeulun</i>	1845	Bangor	1084
<i>Baladeulyn</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Baladeulyn</i>	1920	Map OS	XXI S.W.
<i>Pont Baladeulyn</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Bala Deulyn Ter.</i>	2000	CCPost	(Nantlle)
<i>Pont Baladeulyn</i>	2002	Map OS Explorer	OL 17

### *bala, dau, lyn*

Mae'r enw hwn yn peri problem. Ceir nifer o gyfeiriadau at *Faladeulyn* yn AMR, ac er eu bod i gyd wedi eu priodoli yno i'r *Baladeulyn* ym mhlwyf Llandwrog, mae lle i gredu bod rhai ohonynt, yn enwedig y rhai cynnar, yn cyfeirio at le arall o'r un enw. I gymhlethu pethau, yr oedd hwnnw hefyd yn sir Gaernarfon. Yr ystyr a gysylltir gan amlaf â'r enw *bala* yw'r fan lle mae afon yn rhedeg allan o lyn, ond o astudio'r dystiolaeth o'r e.lleoedd sydd yn cynnwys yr elfen *bala* yn AMR, cred yr Athro Hywel Wyn Owen ei fod hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at lwybr i groesi tir corsiog<sup>3</sup>. *Baladeulyn*, felly, yw'r fan lle gellir croesi rhwng dau lyn. Yn achos y *Baladeulyn* ym mhlwyf Llandwrog, y ddau lyn oedd Llyn Nantlle Uchaf a Llyn Nantlle Isaf, ac erbyn heddiw mae pont yn croesi afon Llyfni yn y *bala* rhwng y llynnoedd. Ceir cyfeiriad at y ddau lyn yn *PKM*: yma, yn ôl yr hanes, y daeth Gwydion o hyd i Leu Llaw Gyffes ar lun eryr yn y dderwen (*PKM*, 89, 291n). Yng ngherdd R. Williams Parry 'Dyffryn Nantlle Ddoe a Heddiw' ceir adlais o 'rwng deu lenn' y Pedair Caine pan sonia am Wydion yn creu 'Dyn o aderyn yma *rhwng dau lyn*'. Ond daeth tro ar fyd, a dywed 'Does ond un llyn ym Maladeulyn mwy' (*CRWP*, 139). Erbyn hyn, mae'r Llyn Isaf wedi ei ddraenio

<sup>1</sup> Gw. hefyd *GCharles* 71. Yn y BCN cyfeirir ato fel 'Marchnad Apius a'r Tair Tafarn' a rhydd y NEB 'Appii Forum and Tres Tabernae'.

<sup>2</sup> Fodd bynnag, mae ynys fechan yn afon Irfon yn Llanddewi Abergwesyn a elwir yn Ynys Patmos (Dat.1.9) ac un arall o'r un enw yng nghronfa Nant y Moch, Ceredigion, a enwyd mor ddiweddar â'r 1960au (GAF 388). Cyfeiriodd Mr Tomos Roberts, Llangefni, hefyd at nifer o enghreifftiau o'r 19g. o dai o'r enw Pros Kairon (Cor. 2, 4, 18) (pers.com.).

<sup>3</sup> Hywel Wyn Owen, 'Bala revisited' yn 'Archif Melville Richards: A Place-name Resource Database for Wales', *Nomina*, 29, (2006), 90–6



a'i lenwi â rwbwl o chwarel Dorothea a rhai o'r chwareli eraill gerllaw, ond gelwir yr ardal yn *Baladeulyn* o hyd.

Nid yw enw'r *Baladeulyn* arall yn sir Gaernarfon mor gyfarwydd bellach, ond crys y bala a'r ddau lyn hyd heddiw. Llyn Padarn a Llyn Peris yn Llanberis yw'r llynnoedd hynny, ac uwchben y bala rhyngddynt saif castell Dolbadarn. Cred haneswyr mai hwn oedd y *Baladeulyn* y cyfeirir ato yn y cofnodion sydd yn ymwneud â thaith Edward I drwy Gymru yn 1284, ac mewn rhai o'r cofnodion cynnar eraill. Wedi'r cwbl, oherwydd y castell, yr oedd y *Baladeulyn* hwnnw yn safle llawer mwy arwyddocaol na'r un yn nyffryn Nantlle. Felly, ni nodwyd uchod ond y cofnodion hynny y gellir bod yn eithaf sicr eu bod yn cyfeirio at y *Baladeulyn* ym mhlwyf Llandwrog. Y *Baladeulyn* ym mhlwyf Llandwrog sydd dan sylw gan Pennant, gan ei fod yn cyfeirio at 'Llynieu Nanlle', ond mae yntau'n credu mai yma y bu Edward I. (Gweler hefyd AMR; ADG 1, 11; ETG, 227; Enwau, 16).

<b>Beddgwenan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556</b>
<i>Bedd Gwennan / Bedd Gwennan Issaphe</i>	1604	Nannau 1603
<i>Bedd Gwennan</i>	1625	Mostyn B 409
<i>Beth Gwenan</i>	1658	Mostyn B 1391
<i>beth gwenan</i>	1658	Nannau 1894
<i>Redd Gwenan</i>	1749	EwBangor B1749/54 101272
<i>Beddgwenan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Beddgenan</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bedd Wenan</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>bedd gwenan</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bedd gwenan</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Beddgwenan</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Beddgwenan</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bedd gwennan</i>	1795	LI&Brynodol M187
<i>Beddgwenan</i>	1799	EwBangor B1799/57 8297
<i>Peddgwenan</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Beddgwernan</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bedd Gwennan</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Beddgwennan</i>	1813	EwBangor B1813/104 10618
<i>Beddgwenan</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Beddgwenan</i>	1831	Bangor 8554
<i>Bedd-gwernan</i>	1838	Map OS 75
<i>Beddgwenan</i>	1839	Bangor 1065
<i>Bedd gwenan</i>	1842	RhPDegwm
<i>Beddgwenan</i>	1845	Bangor 1084
<i>Beddgwenan</i>	1854	Bangor 1094
<i>Gwennan farm</i>	1883	NewGlynllifon XD2 / 6669
<i>Beddgwenan</i>	1886	NewGlynllifon XD2 / 6671
<i>Bedd-Gwenan</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Beddgwenan Est.</i>	2000	CCPost

#### ***bedd, e.p. Gwenan / Gwennan***

Ar gyrion gogleddol pentref Llandwrog. Enw merch, Gwennan, sydd yn yr ail elfen. Mae John Gwilym Jones, y dramodydd (y bu ei ewythr yn byw yn yr annedd hwn ar un adeg (ADaAH, 15)) yn rhoi'r hanes lleol amdani, fel y clywodd ef gan ei nain, yn enau ei arwr, Huw, yn ei ddrama *Ac Eto Nid Myfi*: 'Ac felly dod i wybod am Elen a Maelen a Gwennan, y tair chwaer oedd ar y tir mawr pan foddwyd Caer Arianrhod, ac yn gadael y cof amdanynt eu hunain yn Nhyddyn Elen, a Rhos Maelen a Bedd Gwennan' (AENM, 29)<sup>1</sup>. Mae John Rhys yn

<sup>1</sup> Mae awdur y traethawd hwn yn cofio clywed yr un hanes yn union gan ei nain hithau, a oedd wedi ei magu y drws nesaf i fam John Gwilym Jones yn Llandwrog ac yn ffrind iddi gydol ei hoes.

adrodd yr un hanes, gan honni iddo ei glywed gan William Thomas Solomon, garddwr yng Nglynllifon (*Cel. Fol.* 208). Yr oedd hwnnw'n cyfeirio at y chwiorydd fel 'Gwennan bi Dôn. Elan bi Dôn a Maelan bi Dôn' (gw. hefyd *WCD*, 87; *Math*, 188, n.59). Pwy bynnag oedd Gwennan mewn gwirionedd, yn sicr yr oedd y traddodiad amdani yn fyw o leiaf hyd at yr 20g. er mae'n debyg mai chwedl onomastig yw hon. Gweler hefyd *Tyddyn Elan a Rhosmaelan* isod. Darganfuwyd olion rhyw fath o gladdedigaeth ar safle *Beddgwenan*, sydd yn esbonio'r elfen *bedd* (*Arch. Camb.*, 1855, 178)

**Belan-las** **Llandwrog** **SH 4358**

Gweler *Bryntrefeilir* isod.

**Belmount** **Llandwrog** **SH 4953**

<i>Bellymount</i>	1839	Bangor	1065
<i>Belmount</i>	1845	Bangor	1084
<i>Bell Mount</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Belmount</i>	1920	Map OS	XXI N.W.

*Saes.* **Belmount**

Yn ardal y Cilgwyn. Mae hwn yn enw a geir yn eithaf aml, naill ai yn y ffurf *Belmount* fel uchod neu yn y ffurf *Belmont*<sup>1</sup>. 'Bryn neu fynydd hardd' yw'r ystyr. Diddorol yw sylwi ar y ffurf yng nghofnod 1839.

**Benallt** **Llandwrog** **SH 4657**

<i>Bennallt</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>benallt</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Benall</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Benallt</i>	1775	EwBangor <sup>2</sup>	B1775/71 4577
<i>Benallt</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Benallt</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Benalld</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Benalld</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>y Pennallt</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Benallt</i>	1807	Rumsey Wms	810
<i>Benallt</i>	1810	Rumsey Wms	831
<i>Benallt</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Penallt</i>	1836	EwBangor	B1836/127 14705
<i>Tynewydd benallt</i>	1839	Bangor	1065
<i>Benallt isa / Benallt uchaf</i>	1839	Bangor	1065
<i>Benallt</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Benallt</i>	1845	Bangor	1084
<i>Benallt</i>	1848	EwBangor	B1848/102 17296
<i>Benallt</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Benallt</i>	2000	CCPost	(Llanwnda)

**pen, allt**

Ar y dde oddi ar yr A499 wrth fynd o bentref Llanwnda i gyfeiriad Bethesda-bach. Er ei fod wedi ei restru dan Llanwnda yn y CCPost, mae *Benallt* dros y ffin ym mhlwyf Llandwrog.

<sup>1</sup> Cf. ym Mangor yr oedd tŷ gynt o'r enw *Belmont*, yr enwir strydoedd ar y safle ar ei ôl heddiw, a hefyd dafarn ar un adeg ym Mhenrhos-garnedd o'r enw *Bell Mount* (Map OS Arg. Taf. 1898-1900).

<sup>2</sup> Ewyllys Cadwgan Brereton, sydd yn dangos presenoldeb y cyfenw hwn ym mhlwyf Llandwrog yn ogystal â Llanbeblig, Llanwnda a Llanfair-is-gaer.

Betws Gwe(r)nrhiw	Llandwrog	SH 4555
'a litle chapel caullid Bethouse'	1536–9	Leland 86
Bettus Gwenrhiw	1644	Baron Hill 3233
Bettus Gwenrhiw	1654	CCQSR 1, xlix
Bettws	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
Bottews	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettws	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettws	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
Pettws	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
Pedws	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettws	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (48)
Bettws	1782	Ll&Brynodol R161
Bettus	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettws	1789	P. yr Aur 4062a
Bettws Gwen rhyw	1793–5	Gwynedd 12 (106)
Bettws	1794	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettus	1805	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettws	1809	ATT GAG XQA/LT 5/3
Bettws	1824	P. yr Aur 4101
Bettws	1839	Bangor 1065
Bettws	1845	Bangor 1084
Bettws	1920	Map OS XX N.E.
Bettws	1959	Map OS SH45
Bettws	2002	Map OS Explorer 254

### *betws, gwern, rhiw*

Mae Leland yn lleoli *Betws Gwernrhiw*, 'a litle chapel caullid Bethouse', y tu hwnt i 'Frode Skeuernok', a ddisgrifia fel 'a litle broke'<sup>1</sup>. Saif annedd *Ffrwd Ysgyfarnog*, neu *Ffrwd* (q.v.), rhwng pentref Llandwrog a'r A499 ger Glynllifon. Mewn ysgrif ar *Betws Gwernrhiw* dywed W. Gilbert Williams fod cof am y *Betws* wedi ei golli bron yn llwyr 'hyd yn oed yn Llandwrog ei hun' (*MTT*, 27), ond dywed fod sylfeini'r annedd i'w gweld yng nghanol drysi ryw ganllath o borth mawr Glynllifon (ibid., 31; *HCHPNN*, 20–21). Yn sicr mae mapiau OS 1920, 1959 a 2002 yn nodi llecyn o'r enw *Bettws* oddi mewn i barc Glynllifon. Dywed W. Gilbert Williams fod cae o'r enw *Cae Capel* yn gysylltiedig â'r *Betws* ar un adeg<sup>2</sup>. Yn wir, mae'r enw 'betws' ei hun yn awgrymu rhyw swyddogaeth grefyddol. Benthyciad o'r gair Hen Saes. *bed-hūs* sydd yma. Caledodd y Cymry y *d > t* o flaen yr *h*, gan roi *betws*. Tŷ gweddi oedd y *betws* a godid mewn plwyfi mawr neu wasgaredig er mwyn i'r plwyfolion fedru encilio iddo i ddweud eu paderau os byddai eglwys y plwyf yn rhy bell iddynt fynd iddi yn rheolaidd (*ELleoedd*, 71; *MSI*, 112–14).

Yn ddiweddarach, fodd bynnag, daeth yr annedd uchod yn westy i letya teithiwy'r ar eu ffordd o Gaernarfon i Lŷn. Pan adeiladwyd ffordd newydd, caewyd yr hen ffordd, a'r *Betws* gyda hi, oddi mewn i furiau parc Glynllifon.

Enw'r ardal oedd *Gwe(r)nrhiw*. Yn ei farwnad i Elin Bwclai mae Tudur Aled yn cyfeirio at yr ardal wrth yr enw hwn<sup>3</sup>. Wrth sôn am fagwraeth foethus meibion Elin i fod yn bendefigion, dywed: 'Bro *Wenrhiw* aeth fal bron Rhin / Bryn siwgr i brins a'i egin' (*GTA*, 306). Methodd

<sup>1</sup> Leland, 86. Mae golygydd Leland, sef Lucy Toulmin Smith, yn awgrymu'n betrus mewn cyfeiriad troednodyn at *Bethouse*: '?Betws Garmon', ond mae Leland yn ei leoli'n bur gywir.

<sup>2</sup> Hwn yn ddiau yw'r *Cae Cappel* a restrir yn Bangor 5679 yn 1751 (q.v. dan Gaeau Llandwrog). Gweler hefyd *HCHPNN*, 20–21.

<sup>3</sup> Rhif LXXVI: 'Lle'n troe amdo'n llawn trymder'. (Gw. *Cae-Elen Bulkeley* dan Anheddau Llanwnda am y wraig hon).

T.Gwynn Jones, golygydd y gyfrol, â gweld arwyddocâd yr enw hwn, ac mae'n cyfeirio at LWS, gan honni am ryw reswm mai trefddegwm *Gwenrhiw* yng Ngheri a olygir (ibid., 613). Mae'n ddiddorol sylwi mai *Gwenrhiw*, yn hytrach na *Gwenrhiw* sydd gan Tudur Aled, ac efallai mai hon oedd ffurf wreiddiol yr enw. Yn sicr, hon yw'r ffurf a gydnabyddid gan MR (ETG, 209). Daw cofnod 1793–5 o nodiadau a wnaed gan Peter Bailey Williams, yr offeiriad llengar, ar henebion ym mhlwyfi Llandwrog a Llanwnda, a gwelir mai 'Gwen rhyw' yw'r ffurf a nodwyd ganddo yntau (Gwyneddion 12 (106)).

<b>Bethesda-bach</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4657</b>
<i>Bethesda-bâch</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bethesda-bâch</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bethesda Bach</i>	2000	CCPost	(Bethesda-bach)
<i>Bethesda</i>	2002	Map OS	Explorer 254

*e.ll.***Bethesda, bach**

Enw'r ardal o bobtu'r A499 wrth fynd o bentref Llanwnda tuag at Lynllifon, ar y groesffordd sydd yn arwain i Dyn-lôn ar y dde ac ar draws gwlad at yr A487 ar y chwith. Mae cofnod 2002 yn awgrymu mai *Bethesda* yw'r enw dilys, ond fod yr ans. *bach* o bosib wedi ei ychwanegu i wahaniaethu rhyngddo â'r *Bethesda* mwy enwog yn Nyffryn Ogwen. E.ile yn y Beibl oedd *Bethesda* yn wreiddiol. Ceir cyfeiriad ato yn Ioan 5. 2–9, fel llyn lle ymgasglai'r cleifion a'r anabl yn y gred bod angel ar adegau yn cynhyrfu'r dyfroedd ac y câi'r cyntaf i ymdrochi yn y llyn bryd hynny ei iacháu.

<b>Beudy-isaf</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4856</b>
<i>Beudyisaf</i>	1839	Bangor	1065
<i>Beudy isa'</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Beudyisaf</i>	1845	Bangor	1084
<i>Beudyisaf</i>	1854	Bangor	1094
<i>Beudy-isaf</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Beudy Isaf</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

*beudy, ans. isel, gradd eithaf isaf*

Oddi ar y lôn sydd yn cychwyn gyferbyn â mynwent Bryn'rodyn rhwng Dolydd a'r Groeslon ac yn arwain yn droellog iawn i Garmel.

<b>Beudy-mawr</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5152</b>
<i>y Beudu Mawr</i>	1696	Mostyn B	1401
<i>Beudy Mawr</i>	1863–4	Kinmel	S1761

*y, beudy, mawr*

I'r gogledd o Faladeulyn ac i'r de o chwarel Pen-yr-orsedd.

<b>Beudy-newydd</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4856</b>
<i>Beudy-newydd</i>	1790	EwBangor	B1790/90 6873
<i>Beudy newydd</i>	1818	Rumsey Wms	1912
<i>Beudy-newydd</i>	1838	Map OS	75
<i>Beudynewydd</i>	1839	Bangor	1065
<i>Beudy-newydd</i>	1841	Tryfan	102
<i>Beudy newydd</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Beudynewydd</i>	1845	Bangor	1084
<i>Beudynewydd</i>	1854	Bangor	1094

<i>Beudy-newydd</i>	1856	Tryfan	106
<i>Bendy Mewydd</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Beudy-newydd</i>	1920	Map OS	XX N.E.

***beudy, newydd***

Nid nepell oddi wrth *Beudy-isaf*, ychydig i'r gogledd-ddwyrain, ond ar yr un lôn. Ym mhapurau teulu Tryfan (GAG) ceir nodyn wedi ei ddyddio 1819: 'part of Caetorydwr later called Beudynewydd' (Tryfan, 101): gweler *Cae-tor-y-dŵr* isod.

<b>Blaen-y-fferam</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5155</b>	
<i>Blaen y fferam</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Blanfferam</i>	1854	Bangor	1094
<i>Blaen-y-fferam</i>	1920	Map OS	XXI N.W.

***blaen, y, fferam***

Mewn llecyn diarffordd i'r gogledd-ddwyrain o bentrefan Y Fron ac i'r de o chwareli Moel Tryfan a chwarel Bryn-fferam. Mae'r ffurf *fferam* yn ddiddorol. Yr ystyr yw *fferm*, ond y ffurf *fferm* neu *ffarm* a glywir fel rheol yn Arfon tra bo *fferam* yn llawer mwy nodweddiadol o Sir Fôn.

<b>Bodfan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4455</b>	
<i>Bodvan</i>	1711	EwBangor	B1711/20 95624
<i>Bodvan</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Bodvan</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Bodvan</i>	1767	EwBangor	B1767/88 3234
<i>Bodvan</i>	1771	EwBangor	B1771/65 3926
<i>bodvan</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bodvan</i>	1772	EwBangor	B1772/72 4069
<i>Podvan</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Fodfan</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Boddvan</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bodvan</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>bodfen</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bodvan</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Bodvan</i>	1781	EwBangor	1781/74 5551
<i>Bodwan</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bodfan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Bodfan</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Bodvan</i>	1800	EwBangor	B1800/75 8451
<i>Bodfain</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Bodfan</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Bodvan</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Bodfan</i>	1838	Map OS	75
<i>Bodvan</i>	1839	Bangor	1065
<i>Bodfan</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bodfan</i>	1845	Bangor	1084
<i>Bodvan</i>	1874	Worrall	213
<i>Bodfan</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bodfan</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bodfan</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***bod, fan***

I'r de-orllewin o bentref Llandwrog, rhwng yr A499 a'r môr. Yr oedd y plasty bychan hwn yn eiddo i deulu Griffith, Bodfel yn y 17g. (*Eryri*, 31). Mae Myrddin Fardd yn ei ffordd ddihafal yn cynnig ystyr yr enw fel 'man neu le i fôd dynol' (*MFardd/ELISG*, 226). Fodd bynnag, mae'n anodd cynnig unrhyw ystyr fawr amgenach na 'phreswylfa' i'r enw hwn. Am ddisgrifiad o'r tŷ gweler *IAMC*, 184–5.

<b>Bodryn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4456</b>
<i>Tythyn Modryn</i>	1549	<i>Cal. Pat. R.Edw. VI</i> V. 324
<i>Modryn</i>	1682?	EwBangor B1682/44
<i>Modryn</i>	1725	NewGlynllifon XD2 / 7655
<i>Modrin</i>	1764	EwBangor B1764/101 2613
<i>Modrin</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>modrun</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>modrwn</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>modryn</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>modrun</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>madrwn</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bodrun / fodryn</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Modryn</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Modryn</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>modrin</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bodrhyn</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Modryn</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Modrun</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bodrun</i>	1810	EwBangor B1810/62 10043
<i>Modryn</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hodrin</i>	1814	Rumsey Wms 875
<i>Bodon</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Modryn</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Modryn</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Modryn</i>	1831	Bangor 8554
<i>Bodryn</i>	1838	Map OS 75
<i>Modryn</i>	1839	Bangor 1065
<i>Bodrin</i>	1842	RhPDeGwm
<i>Modryn</i>	1845	Bangor 1084
<i>Modryn</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Bodrin</i>	1853	Kinmel S1755
<i>Modryn</i>	1854	Bangor 1094
<i>Bodrwyn</i>	1863	Bangor 28503
<i>Bodrwyn</i>	1863	Kinmel S1758
<i>Modrwyn farm</i>	1865	NewGlynllifon XD2 / 6652
<i>Bodryn</i>	1889–90	Sutton 139
<i>Bodryn</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Bodryn</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Bodryn</i>	2000	CCPost (Llandwrog)

***bod, rhyn? e.p. Rhun? yr? onnen, llu. ynn?***

Rhwng pentref Llandwrog a Dinas Dinlle. Rhaid tybio mai *bod* yw'r elfen gyntaf, ar batrwm sawl enw arall yn yr ardal a manau eraill, megis *Bodfan*, *Bodaden* a *Bodellog*. Fodd bynnag, yn achos *Bodryn*, yn wahanol i'r enwau eraill yn cynnwys *bod* sydd yn yr astudiaeth hon, mae'n amlwg mai'r ynganiad llafar hyd yn gymharol ddiweddar oedd *Modryn*, gydag *m* ddechreuol yn hytrach na *b*. Noda *GPC* y gellir cael *mod* fel amrywiad ar *bod*. Mae J. Lloyd-Jones yn cynnig ystyr o naill ai *bod* (preswylfa) + *rhyn*, sef 'blaen neu big', neu *bod* + yr e.p. *Rhun* (*ELISG*, 53, 108). Yn ôl *GPC* un ystyr i *rhyn* fel enw yw 'pentir, bryn neu dwyn'. Mae

hefyd yn nodi *rhyn* fel enw yn yr ystyr o 'oerfel', ac fel ans. yn yr ystyr o 'oerllyd, rhylllyd', felly gallai o bosib olygu 'lle oer'. Gellir cynnig un posibilrwydd arall, sef *bod + yr + ynn* yn golygu 'man lle mae coed ynn yn tyfu'. Sylwer bod cofnodion 1863 yn cynnig *Bodrwyn*, ymgais o bosib i'w esbonio fel *bod + yr + wynn*.

Braich-y-trigwr	Llandwrog		SH 4956
<i>bache trugwyre</i>	1613–14	Bangor	5150 (31)
<i>Tythyn Bach Drygwyr</i>	1614–15	Bangor	5150 (32)
<i>Bachedrwygwr</i>	1635	Ll&Brynodol	D162
<i>bach try gwr</i>	1658	Mostyn B	1391
<i>Brauch y Drygwr issa / Brauch y Drygwr ucha</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>bach y Drygwr Isaf / bach y Drygwr ucha</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bach y Drygwr Isaf / Bach y Drygwr Uchaf</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bach y Drygwr Isaf / Bach y Drygwr Uchaf</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bach y Drygwr Isaf / Bach y Drygwr Ucha</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bach Drygwr</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>bach y Drygwr</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauch Drugwr</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauch bregur / Brauch brugur</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauch Brugen / Brauch brugin</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Braych Bregwr</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braichydrygŵr / Braich y Brogŵr</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich y Drygwr / Braich y Bregwr</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich y drygwr / Braich y Bregar</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Brauchdrugwr</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauchdrygwr</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauch y Drygwr / Brauch y Drygwr ucha</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Braichydrygwr / Braich y drygwr ucha</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich y Trigwr Bach / Braich Trigwr Uchaf</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich Drigwr / Braich trigwr bach</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauch y Drygwr Isa / Brauch y Drygwr ucha</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich y Tri Gwr / Braich Trigwr</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich trigwr ma. / Braich Tri Gwr</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich y drygwr mawr</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D4
<i>Braich y drygwrog bach</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D4
<i>Brauchdrygwr uchaf</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Brauch drygwr isaf / Brauchdrygwr ucha</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauchtygwg / Braichtrigwr mawr</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Braichytrigwr / Braich trigwr Isaf</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauchtrigwr / Braich trigwrisaf</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brauch y Trigwr Issaf / Brauchytrigur Uwchaf</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Braich y trigwr ucha</i>	1831	Watkin	78
<i>Brauch y trigwr</i>	1833	Watkin	83

<i>Brauch y trigwr</i>	1833	EwBangor	B1833/104 14132
<i>Brauch y trigwr bach / Brauch y trigwr mawr</i>	1839	Bangor	1065
<i>Braich y drygwr</i>	1841	C. Vincent	2529
<i>Braich y trigwr isa' / Braich y trigwr ucha'</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Braichytrigwrisa</i>	1845	Watkin	95
<i>Brauchytrygwr isaf</i>	1845	Bangor	1084
<i>Braich y Frigan / Braich y Frigan Mawr / -Ucha</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Brauch trygwr / Brauch trygwr isaf</i>	1854	Bangor	1094
<i>Braichtryewrycha</i>	1858-9	Bangor	534
<i>Braich y trigwr isaf</i>	1868-9	Bangor	8555
<i>Braichytrigwr</i>	1878	Bangor	8555
<i>Braich-tri-gwr</i>	1886	Postal Dir.	167
<i>Braich-y-tri-gwr-bâch</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Braich y Trigwr Bach / Braich-tri-gwr-mawr</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Braich y Trigwr Bach</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)
<i>Braich Trigwr Mawr</i>	2000	CCPost	(Carmel)
<i>Braich Trigwr Uchaf</i>	2000	CCPost	(Carmel)

***bach, y, drygwr, bach, mawr, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Cyfeirir at sawl annedd o'r enw hwn ar wahanol adegau gyda'r ansoddeiriau *mawr, bach, uchaf, isaf* ynghlwm wrtho. Erbyn 2000 nodir *Braich Trigwr Bach, Braich Trigwr Mawr* a *Braich Trigwr Uchaf* yn y CCPost. Lleolir yr anheddau hyn rhwng pentrefi Carmel a Rhostryfan. Os ystyrir y cofnodion cynharaf, nid *braich* sydd yma ond *bach*. Ystyr *bach* yw 'cilfach', ac mae'n elfen gyffredin mewn e.lleoedd, e.e. *Y Fachwen* (mewn sawl lle), *Bach Glas*, Llanycil (AMR). Os derbynnir mai *drygwr* yw'r drydedd elfen, gellir cael rhyw ystyr i'r enw. Mae *drygwr* yn hen air yn Gym. am 'ddihyrn' neu 'ddrwgweithredwr', neu hyd yn oed am y Diafol. Gallai'r enw gyfeiro'n llythrennol at guddfau rhyw ddihyrn. Ceir *Cil-drygwr* yng Ngolan ger Garndolbenmaen (*ELISG*, 110; AMR). Mae *cil* a *bach* fel ei gilydd yn awgrymu rhyw guddfau gyfrwys. Ar y llaw arall, gallai gyfeirio at dir mor wael nes y credid ei fod yn eiddo'r Diafol: ceir *Devil's Den* yn yr ystyr hon yn Berkshire, Surrey a Swydd Amwythig (*EFN*, 248). Ystyr arall i *bach* yw 'tro sydyn', ac o'i gyfuno â *drygwr* byddai'n cyfateb i'r syniad a geir yn yr enw *Devil's Elbow* yn Minchinhampton, Swydd Gaerloyw (*EFN*, 139).

Os oedd y trigolion cynnar yn ymwybodol o arwyddocâd sinistr yr enw, byddai'n naturiol iddynt geisio ei barchuso rywfaint a throi *drygwr* > *trigwr* = 'preswylwr'. neu *tri gŵr*. Efallai bod y newid hwn yn un ymwybodol, ond mae'n debyg mai newid naturiol a drodd *bach* > *braich*, cf. *Bach y Saint*, Cricieth > *Braich y Saint*, a *Bachriffri* (< *bach* + yr e.p. Griffri). Llanddeiniolen > *Braich yr Hilfri* (AMR). Mae enw *Braich-y-trigwr* yn mynd ar chwâl yn llwyr am gyfnod yng nghofnodion y 1780au ond yn cael ei adfer i raddau drachefn. Gellir tybio mai camgyfuno'r elfennau *-drygwr* â *-twrog* o *Landwrog* a arweiniodd at y ffurf ryfedd *drygwrog* yng nghofnod 1816-20.

**Bron-iwrch**

**Llandwrog**

**SH 4755**

<i>Bryniwrch</i>	1821	Rumsey Wms	936
<i>Bryn ywrch</i>	1832	Rumsey Wms	1024
<i>Froniwrch</i>	1839	Bangor	1065
<i>Fron iwrch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Broniwrch</i>	1854	Bangor	1094
<i>Bryn-iwrch</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bron Iwrch</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)



<b>Bryn-du</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>	
<i>Bryndu</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bryn-dû</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bryn Du</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***bryn, du***

Ar gyrion de-orllewinol pentref Y Groeslon.

<b>Brynengan</b>	<b>Llandwrog</b>		
<i>Brynengen</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brynengan</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bryn Enan</i>	1851	Cyfrifiad	

***bryn, engan***

Heb ei leoli. Fodd bynnag, mae'n bur debyg mai'r un lle yw *Brynengan* â'r *Bryn-nenan* a nodir ar fap OS 1920 (SH 4856) a'r *Bryn-nennau* a nodir ar yr un safle ar fap y Degwm. Os felly, gweler *Bryn-nennau* isod. Os mai lle gwahanol sydd yn y ddau gofnod cyntaf uchod gallai'r ail elfen fod yn llurguniad o'r e.p. *Einion*, ond yn nhafodiaith Arfon mae *engan* hefyd yn ffurf lafar ar yr eb.g. *eingion*, sef y blocyn haearn a ddefnyddir gan of i guro'r metel arno (WVBD, 123).

<b>Bryn-glas</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4456</b>	
<i>Brynglasse</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Brynglas</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Bryn glass</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bryn Glas</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brynglaes</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>prunglas</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brynglase</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Bryn Glas</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Bryn Glase</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bryn Glas</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Brynyglas</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brynglass</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Bryn Glas</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Bryn Glas</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brynglas</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Brenglas / Brenglas bach</i>	1839	Bangor	1065
<i>Bryn glas</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Brynglas</i>	1845	Bangor	1084
<i>Brynglas</i>	1854	Bangor	1094
<i>Bryn-glas-bâch / Bryn-glas-mawr</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bryn-glas-mawr</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bryn Glas Bach / Bryn Glas Mawr</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***bryn, glas, bach, mawr***

Ar gyrion gorllewinol pentref Llandwrog.

<b>Bryn-golau</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH4856</b>	
<i>Bryngola</i>	1777	Ew Bangor	1777/90 4914
<i>Bryngole</i>	1777	Ew Bangor	1777/91 4915

**bron / bryn, iwrch**

Dywed cofnod 1821 fod yr annedd hwn ar 'Rhosynenau'. Mae map y Degwm 1842, map OS 1920 a'r CCPost yn ei leoli yn yr un lle, sef yn rhan ddeheuol Y Groeslon. Felly, er gwaethaf yr amrywiad yn yr enw, mae'n amlwg mai'r un annedd sydd yn yr holl gofnodion uchod. Mae *bryn* a *bron* yn ymglyfnwid ambell dro mewn e.lleoedd; cf. *Bron /Bryn-Llywelyn* ym mhlwyf Llanfaglan (q.v.). Yr ail elfen yw *iwrch*, math o garw bychan. Ceir *Glyn-iwrch* hefyd ym mhlwyf Llandwrog (q.v.). Mae *Cefn-iwrch* yn digwydd yn Llanfair Mathafarn Eithaf, Môn (*ELleoedd*, 73) a hefyd ger Rhydyclafdy a Chricieth; *Nant-yr-iwrch* ym Mhenmachno; *Pant-yr-iwrch* ger Llanbedrycennin, a'r ffurf luosog yng *Ngherrig-yr-ieirch* rhwng Ysbyty Ifan a Llan Ffestiniog (*ELISG*, 18).

<b>Bron-rhiw</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5054</b>	
<i>Bron rhiw</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bron Rhiw</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)

**bron, rhiw**

Rhwng Carmel a'r Fron.

<b>Bryn-bugeiliaid</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5055</b>	
<i>Brynbugeiliaid / Brynbugeiliaid bach</i>	1839	Bangor	1065
<i>Brynbugeiliaid bach</i>	1845	Bangor	1084
<i>Bryn bugeiliad</i>	1847	EwBangor	B1847/136 17044
<i>Bryn Buggiliad Coch /Bryn Bugyeilian / Bryn Bugyilan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Brynbugeiliaid bach /Brynbugeiliaid mawr</i>	1854	Bangor	1094
<i>Bryn-bugeiliaid</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Bryn Bugeiliad (1)</i>	2000	CCPost	(Carmel)
<i>Bryn Bugeiliaid (2)</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)

**bryn, bugail, llu. bugeiliaid**

Yn ardal Cim, i'r gogledd-ddwyrain o Garmel a'r gogledd-orllewin o'r Fron. Heddiw ceir dau annedd o'r un enw yn agos iawn at ei gilydd heb unrhyw ans. megis 'mawr / bach' neu 'uchaf / isaf' wedi ei ychwanegu atynt<sup>1</sup>. Eto, ar un adeg defnyddid yr ansoddeiriau *bach* a *mawr* a hyd yn oed *coch* i wahaniaethu rhyngddynt. Mae cambrint yn yr ail elfen yn y CCPost yng nghofnod Carmel: mae'r ddau enw yr un fath mewn gwirionedd.

<b>Bryn-coch</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>	
<i>Bryn coch / Bryn Coch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bryn-côch</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Bryn Coch</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**bryn, coch**

Ar gyrion Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf, eithr yn y rhan fechan honno o Rostryfan sydd dros y ffin ym mhlwyf Llandwrog.

<sup>1</sup> Dywed Mrs Nia Roberts, a fagwyd ym *Mryn Bugeiliaid (2)*, fod y ddau annedd 'o fewn taflriad carreg i'w gilydd' ond nad oedd erioed yn cofio unrhyw ans. wedi ei ychwanegu i wahaniaethu rhyngddynt.

<i>Bryngoleu</i>	1836	Tynyngongl	572
<i>Bryngola</i>	1839	Bangor	1065
<i>Bryngolau</i>	1842	RhPDechwym	
<i>Bryngola bach</i>	1845	Bangor	1084
<i>Bryngola</i>	1874	Worrall	213
<i>Bryn-goleu</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bryn-goleu</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bryn Goleu</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***bryn, golau***

Ar gyrion gogleddol eithaf Y Groeslon.

<b>Bryngwyn</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4956</b>
<i>Bryngwin</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Brungwun</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brungwyn</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Brungwun</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bryngwyn</i>	1779	Ll&Brynodol	D1097-8
<i>Bryn Gwynn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Bryngwyn</i>	1787	Ll&Brynodol	D1102-3
<i>Bryngwyn</i>	1787	Tryfan	95-6
<i>Bryn gwyn</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Bryn Gwyn</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Bryngwyn</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bryngwyn</i>	1811	Ll&Brynodol	D1110-11
<i>Bryngwyn</i>	1811	Tryfan	97
<i>Bryn gwyn</i>	1816-20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Bryngwyn</i>	1818	Rumsey Wms	1912
<i>Bryngwyn</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Bryngwyn</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Bryn-gwyn</i>	1838	Map OS	75
<i>Bryngwyn</i>	1839	Bangor	1065
<i>Bryngwyn</i>	1842	RhPDechwym	
<i>Bryngwn</i>	1845	Bangor	1084
<i>Bryngwyn-bâch</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Bryngwyn-bâch</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bryn Gwyn Cottage</i>	2000	CCPost	(Carmel)
<i>Bryngwyn</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

***bryn, gwyn***

Rhwng cyrion deheuol Rhostryfan a chyrion gogleddol Carmel ar y lôn sydd yn arwain o Fryn'rodyn i Garmel. Cofir yr enw yn bennaf fel gorsaf ar Reilffordd Eryri ar y lein a arweiniai gynt o Gyffordd Tryfan i gyfeiriad Cim a chyrion gogledd-ddwyreiniol Carmel i wasanaethu'r chwareli llechi yn yr ardal honno (*TWHR*, 32-3).

<b>Brynhedydd / Bron'hedydd</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5154</b>
<i>Bron 'hedydd</i>	1842	RhPDechwym	
<i>Bryn Rhedydd</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Bryn hedydd</i>	1852	Ew Bangor	B1852/127 18212

***bryn / bron, ehedydd***

Yn Y Fron. Aderyn a chanddo gân hyfryd sydd yn nythu ar weundir yw'r *ehedydd*.

<b>Bryn-naid-hir</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4855</b>
<i>Brynyneidr</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>bryn y naid hire</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn y Naid hir</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brun y Naid hire</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn y Neidr</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Brun naid hire</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brunynider</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bruny neidar</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brun y Naud here</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brun y naidher</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryny-Naid hir</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (50)
<i>Brunynaidher</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brunynaidhir</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn Nanthir</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Bryn y naid hir</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Brunynaidhir</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>brynaidher</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn Naid hir</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn naid hir</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn naid hir</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Brynneuder</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Brynaidhir</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn-neidr</i>	1838	Map OS 75
<i>Brynynaidhir</i>	1842	RhPDegwm
<i>Bryn Naidir</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Bryn-naidhir</i>	1886	Postal Dir. 167
<i>Bryn-y-naid-hîr</i>	1891	Map OS XX N.E.
<i>Bryn-neidr</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Brynnaidhir</i>	2000	CCPost (Carmel)

### ***bryn, naid, hir / neidr***

Rhwng Y Groeslon a Charmel. 'Bryn-neidar' yw enw'r annedd hwn ar lafar, ac yn ysgrifenedig mewn rhai cofnodion. Hon yw'r ffurf gynharaf a nodwyd uchod. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ysgrifenedig gref ar gyfer 'Bryn-naid-hir'. O ran datblygiad llafar naturiol byddai'n llawer haws i'r enw hwnnw droi'n 'Bryn-neidr', nag i'r broses ddigwydd o chwith. Ar y llaw arall, os mai *Bryn-neidr* oedd y ffurf wreiddiol, mae'n bosib na fyddai'r elfen 'neidr' yn gymeradwy mewn enw annedd, a bod ymgais wedi bod i'w newid yn fwriadol, gan efallai greu hanes onomastig am ryw gamp orchestol o naid hir. Gwelir ymgais i ymyrryd â'r enw yng nghofnod 1783 o gasgliad Porth yr Aur gan gynnig 'Bryn Nanthir'.

<b>Bryn-nennau</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4856</b>
<i>Bryn Nennau</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn Nenan</i>	1831	Bangor 8554
<i>Brynenau</i>	1834	Rumsey Wms 1046
<i>Bryn nennau</i>	1842	RhPDegwm
<i>Bryn-nenan</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Bryn Ennan</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

### ***bryn, onennau?***

Mae CCPost 2000 yn nodi annedd o'r enw *Bryn Ennan* yn Y Groeslon. Mae'n fwy na thebyg mai'r un lle yw *Bryn Ennan* â'r annedd a gofnodir yn y cofnodion cynharach uchod. Nodir *Bryn-nenan* ar fap OS 1920, a cheir *Bryn-nennau* ar yr un safle ar fap y Degwm. Ceir *Rhos-*

*nennau*, *Cefn-rhos-nennau*, *Dolnennau*<sup>1</sup> a *Phenrhos-nenan* hefyd yn ardal Y Groeslon. Mae'n anodd esbonio'r ail elfen. Tybed ai 'onennau', sef ffurf luosog brin ar 'onnen' sydd yma? Gweler *Penrhos-nenan* isod am drafodaeth lawnach o'r ail elfen. Hefyd *ELleoedd*, 68. Gweler *Brynengan* uchod gan ei bod yn eithaf posibl mai *Bryn-nennau* sydd yma hefyd.

<b>Bryn'rodyn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4756</b>
<i>Brynrodyn</i>	1668	P. yr Aur Add. 1464
<i>Brynrodyn</i>	1671	P. yr Aur Add. 1464
<i>Bryn r Odin</i>	1678	EwBangor B1678/28
<i>Bryn 'r Odin</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>brun yr odun</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn yr odun</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brun Rodun</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brynrodyn</i>	1778	P. yr Aur Add. 19691
<i>Brunroden</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brynrodyn</i>	1783	P.yr Aur 4058
<i>Bryn y odyn</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Brunrhodun</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Brynrodyn</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn yr odyn</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Bryn yr odyn</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Brynrodyn</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Bryn'rodyn</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Bryn-'r-odyn</i>	1838	Map OS 75
<i>Bryn 'rodyn</i>	1842	RhPDegwm
<i>Bryn Rodyn</i>	1874	Worrall 213
<i>Bryn-yr-odyn</i>	1891	Map OS XX N.E.
<i>Bryn-yr-odyn</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Bryn-yr-odyn</i>	1959	Map OS SH 45

### ***bryn, yr, odyn***

Anedd, capel a mynwent o'r un enw ar gyrion eithaf plwyf Llandwrog yn ardal y Dolydd rhwng Glanrhyd a'r Groeslon. Capel y Methodistiaid Calfinaidd oedd hwn a adeiladwyd yn gyntaf yn 1790, a'i ailadeiladu yn 1830<sup>2</sup>. Dymchwelwyd y capel yn weddol ddiweddar, ond erys yr ysgoldy. Mae *Bryn'rodyn* ar godiad tir nid nepell o odyn Felin Forgan gynt.

<b>Bryn-teg</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4855</b>
<i>Bryn teg</i>	1842	RhPDegwm
<i>Bryn-têg</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Bryn-teg</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

### ***bryn, teg***

Ar gyrion deheuol Y Groeslon.

<b>Bryntirion</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4954</b>
<i>Bryntirion</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryn tirion</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Bryntirion</i>	1844	EwBangor B1844/119 16375

<sup>1</sup> Cyfeirir at hwn fel *Dol Nenan* yng Nghyfrifiad 1851, enghraifft arall o'r cymysgu rhwng *-au* ac *-an* yn y terfyniad.

<sup>2</sup> *Rel. Cens.*, 318

<i>Bryntirion</i>	1846	EwBangor	B1846/124 16803
<i>Bryn Tirion</i>	2000	CCPost	(Cilgwyn, Carmel)

***bryn, tirion***

Yn ardal y Cilgwyn ger Mynydd Cilgwyn i'r de o Garmel.

<b>Bryn-trallwyn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4954</b>	
<i>Bryn trallwyn</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bryn-trallwyn</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Bryn Trallwyn Isaf</i>	2000	CCPost	(Carmel)
<i>Bryn Trallwyn Uchaf</i>	2000	CCPost	(Cilgwyn, Carmel)

***bryn, trallwn?***

Ar gyrion deheuol Carmel yn ardal y Cilgwyn. Ceir yr enw hefyd yn *Rhesdai Trallwyn* yn yr un ardal. Mae'r enw hwn yn digwydd mewn sawl lle: ceir *Bryntrallwyn* yn Llansanffraid Glan Conwy, yn Llanllyfni a Llangelynnin, a *Thrallwyn* yn Llanybi, Llanaelhaearn, Llannor a manau eraill (AMR). Nid yw *GPC* yn nodi'r ffurf *trallwyn*, ac mae'n anodd ei hesbonio ar yr olwg gyntaf. Fodd bynnag, mae *GPC* yn nodi'r ffurf *trallwn* fel amrywiad ar *trallwng*, sef pwll budr neu fan corsiog; cf. *Y Trallwng* (Welshpool). Daw o *tra* + *llwnc*, sef man gwlyb sydd yn llyncu dŵr, gyda'r *tra* yn cryfhau'r ystyr. Meddai Syr Ifor Williams: 'Tybiaf y gall *Trallwyn* ger Llanaelhaearn fod yn amrywiad arall ar *Trallwn(g)*' (*ELleoedd*, 61), ac mae'n awgrym derbyniol iawn, gan nad yw'r cyfuniad o *tra* + *llwyn* yn gwneud fawr o synnwyr. Tybed nad lle budr corsiog sydd yma yng Ngharmel hefyd yn hytrach na llwyn? (Gweler hefyd *Enwau*, 43-4; *ELIMald*, 168-70).

<b>Bryntrefeilir</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4358</b>	
<i>Bryn Trefailir</i>	1837	EwBangor	B1837/114 14933
<i>Bryn Trefeilir</i>	1837	P. yr Aur	19968
<i>Bryn-trefeilir</i>	1838	Map OS	78
<i>Bryntrefeilir</i>	1838	NewGlynllifon	XD2 / 7446
<i>Bryntrefeilir</i>	1839	Bangor	1065
<i>Bryn tre feilir</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bryn Tre Feilor</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Bryntrefeilir or Belanlas</i>	1885	NewGlynllifon	XD2 / 7451
<i>Bryntrefeilir or Bellan Las</i>	1916	NewGlynllifon	XD2 / 7457

***bryn, tref, e.p. Meilir***

Ar gyrion y penrhyn a lunnir gan aber y Foryd lle saif caer Belan. Yng nghofnod 1838 fe'i disgrifir fel 'message or tenement and lands formerly called Morfa but now called Bryntrefeilir'. Ni wyddys pwy oedd *Meilir*.

<b>Bryn-Twrog</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5054</b>	
<i>Bryn Twrog</i>	1840	EwBangor	B1840/11 15571
<i>Bryn-Twrog</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Bryn-Twrog</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Bryn Twrog Cottages</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)
<i>Bryntwrog Cottages/Bryntwrog Terrace</i>	2002	Map OS	Explorer OL 17

***bryn, e.p. Twrog***

Anedd unigol, rhesdai ac ardal ar gyrion de-orllewinol Y Fron. Am yr ail elfen gweler *Llandwrog* uchod.

<b>Buarth-newydd</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5055</b>
<i>Buarth Newydd</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Buarth Newydd</i>	1848	Myn. Pisgah	041
<i>Buarth newydd</i>	1853	EwBangor	B1853/140 18465
<i>Buarth-newydd</i>	1920	Map OS	XX N.W.
<i>Buarth Newydd</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)

***buarth, newydd***

Rhwng cyrion dwyreiniol Carmel a chyrrion gogledd-orllewinol Y Fron.

<b>Bwlan</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4556</b>
<i>Bwlan / Bwlan-bach</i>	1724	Henblas B	164
<i>Bwlan</i>	1736	Henblas B	160
<i>Bwlan / Bwlan bach</i>	1743	Henblas B	168
<i>Bwlan</i>	1760	Henblas B	175
<i>Tythin Bwlan</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Bwlan</i>	1765	EwBangor	B1765/98 2825
<i>Bwlan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Boolan</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bwlan</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>bwlan</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pwlan</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>pwlan</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bwlan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Bwlan</i>	1802	P. yr Aur	24676
<i>Bwlan</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Bwlan</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Bulan Warren</i>	1824	Rumsey Wms	2013
<i>Bwllan farm</i>	1839	NewGlynllifon	XD2 / 6643
<i>Bwlan</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Bwlan</i>	1874	Worrall	213
<i>Bwlan</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Bwlan Farm / Capel Bwlan</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bwlan Farm</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Bwlan Farm</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***bwlan***

Enw ar annedd a chapel i'r gogledd-ddwyrain o bentref Llandwrog. Capel y Methodistiaid Calфинаidd yw hwn a adeiladwyd yn 1814<sup>1</sup>. Enw cyff. yw *bwlan* (amr. *bylan*), â'r ystyr o lestr neu faseded gron i ddal grawn yd neu wlan. Y syniad yw rhywbeth bollog a chrwn, ac mewn c. lleoedd mae'n cyfeirio fel rheol at fryncyn crwn. Ceir *Blaen Bwlan* yng nghantref Cilgerran (*PNPem.* 367), ac yn y ffurf *Y Bylan* ger Dolgellau (*GPC*). Mae Myrddin Fardd am unwaith yn dehongli'r enw'n gywir (*MFardd/ELISG*, 226–7), felly hefyd William Hoble (*HMethA.* Dos. Clynnog, 172).

<b>Bwlch-y-ffordd</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5055</b>
<i>Bwlchyffordd</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bwlch y Ffordd</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Bwlch-y-ffordd</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Bwlch y Ffordd</i>	2000	CCPost	(Carmel)

<sup>1</sup> *Rel. Cens.* 318

***bwlch, y, ffordd***

Rhwng Carmel a'r Fron.

<b>Cae-Constable</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4855</b>
<i>Caecownstable</i>	1839	Bangor	1065
<i>Caecownstabl</i>	1845	Bangor	1084
<i>Cae'r Constable</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Caeconstable</i>	1854	Bangor	1094
<i>Cae-Constable</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae Cwnstabl</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***cae, Saes. constable***

Ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Y Groeslon. Pe bai'r enw hwn yn digwydd yn nhref Caernarfon a chofnodion cynnar ohono ar gael, gellid tybio mai tŷ cwnstabl neu lywodraethwr y castell a olygid<sup>1</sup>, ond mae'r ffaith fod yr annedd hwn mor bell o'r dref a diffyg cofnodion cynnar yn dangos nad yr un ystyr sydd yma. Mae'n bosibl, felly, fod yr annedd hwn ar un adeg yn gysylltiedig â chwnstabl plwyf Llandwrog. Yr oedd gan gwnstabiliaid plwyfi nifer o swyddogaethau: roeddent yn gyfrifol am gadw cyfraith a threfn, am oruchwylio'r tlodion a symudiadau cardotwyr. Ceir *Constable Piece* yn Boylestone, Swydd Derby, a *Constable Dole* yn Everton, Swydd Nottingham, lle gwyddys fod y tir wedi ei neilltuo ar gyfer cwnstabiliaid y plwyf (*EFND*, 53). Fodd bynnag, gellid cynnig yn betrus mai'r cyfenw *Constable* sydd yn *Cae Constable*, ond nid oes cofnod heddiw o'r cyfenw hwn yn digwydd yn lleol.

<b>Cae-cregyn</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4755</b>
<i>Cae Cregin</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Cae Gregin</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cae-cregyn</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae Gregin</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***cae, cragen, llu. cregyn***

Yn rhan dde-orllewinol Y Groeslon. Mae'n anodd deall ystyr *cregyn* yma. Mewn cae ar lan y môr gellid deall yr elfen fel cyfeiriad at gregyn molysgiaid y traeth, ond mae'r annedd hwn gryn bellter o'r môr. Mae *GPC* yn nodi *cragen* yn yr ystyr o blisgyn neu gibyn had, ond ni fyddai hyn yn ddefnydd arferol o'r gair yn Arfon.

<b>Cae-cyd</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4855</b>
<i>Cae cyd</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae-cŷd</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae Cyd</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***cae, cyd***

Ar gyrion dwyreiniol eithaf Y Groeslon. Yr un *cyd* sydd yn yr ail elfen ag a geir yn y rhagddodiad *cyd-* ac yn yr ymadrodd 'ar y *cyd*', sef y weithred o rannu rhywbeth yn gyffredin. Ceir yr ymadrodd *tir cyd* hefyd, a'i amrywiad *cytir*, am dir comin.

<sup>1</sup> Ceir cofnod o 'Tu'r Constable' yn nhref Caernarfon ei hun yn dyddio o 1685/6 (New Glynllifon . XD2 / 7646-8).



<b>Cae-doctor</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556 (1) / SH 4557 (2)</b>	
<i>Caer Doctor bach</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Cae Doctor / Cae Doctor bach</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Caer Doctor Bach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer doctor bach</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>car dogdor Bach</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>care Dogdor Bach</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caur Docdor bach</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Doctor Bach</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Caer Doctor</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Doctor / Cae doctor bach</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Doctor</i>	1795	JE/MNW	
<i>Cae Doctor / Cae Doctor bach</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Cae doctor / Caer Doctor</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae doctor bach</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Doctor</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Caerdoctor / Caerdocdobach</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerdoctor / Caerdoctorbach</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Caer Doctor mawr / Caer Doctor bach</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae-doctor</i>	1838	Map OS	75
<i>Caerdoctor / Caerdoctor bach</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae Doctor Mawr / Cae Doctor Bach</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Caerdoctor mawr / Caer doctor bach</i>	1845	Bangor	1084
<i>Caerdoctor mawr / Caerdoctor bach</i>	1854	Bangor	1094
<i>Cae-doctor-bâch</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Caer Doctor Bach</i>	2006	gwybodaeth bersonol	

### **cae, y, Saes. doctor, bach, mawr**

Yr oedd *Cae-doctor* (1) ar gyrion gogleddol pentref Llandwrog, ac mae *Cae-doctor-bach* (2) ymhellach i'r gogledd nid nepell o Afon Carrog, sef y ffin rhwng plwyf Llandwrog a phlwyf Llanwnda. Mae lle i ofni mai'r un annedd yw *Cae-doctor* (1) â'r *Cae Meddyg* a restrir yn CCPost 2000, a bod ymgais wedi bod i gymreigio hen enw cwbl naturiol. Beth hynny, nid oes prawf mai meddyg oedd y doctor hwn. Mae'r cofnod cynharaf uchod o 1725 yn dod o oes pan fyddai meddyg gwledig o bosib yn apothecari a ddatblygodd ei fedrau, yn hytrach na meddyg a arddelai'r teitl 'doctor'. Rhaid ystyried, efallai, mai cyfeiriad at rywun a chanddo radd doethur yn y gyfraith neu mewn diwinyddiaeth sydd yma. O gofio cysylltiad clos yr ardal â theulu dylanwadol Glynllifon mae hyn yn fwy na phosibl. Gellir cynnig sawl 'doctor' o'r teulu hwnnw, gwŷr megis Morris Glyn, LL.D. Archddiacon Meirionnydd (m. 1525), neu, efallai, ac yntau'n gwasanaethu'n nes at Landwrog, Wiliam Glyn, LL.D. Archddiacon Môn a rheithor Clynnog (m. 1557) (*JEGPed*, 172–3). Yr oedd hwn yn fab i Robert ap Maredudd ap Hwlcyn Llwyd ac Elen Bwclai o Fiwmares, a gofféir yn enw *Cae-Elen Bulkeley* ym mhlwyf Llanwnda (q.v.). Yr oedd Wiliam<sup>1</sup> yn ddoethur mewn cyfraith ganonaidd ac yn enwog am ei ddysg<sup>2</sup>. Nid yw'r ffaith mai 1725 yw dyddiad y cofnod cynharaf a nodwyd uchod yn golygu nad oedd yr enw mewn bodolaeth cyn hynny, gan mai 1725 hefyd yw'r cofnod cynharaf sydd gennym hefyd ar gyfer *Cae-Elen Bulkeley*.

<sup>1</sup> Canodd Syr Dafydd Trefor gywydd i ddiolch am nawdd y seintiau i William Glyn pan gafodd anaf yn Llundain, gan enwi Dwynwen, Beuno, Baglan, Engan a Deiniol, ac, ar nodyn cartrefol iawn, y seintiau lleol: 'Gwnda a wylia ei wŷr, / Twrog a gatwo cryr.' (Rhiannon Ifans, *GSDT*, 27; A. Cynfael Lake, 'Dau Gywydd i'r Doctor Wiliam Glyn', *TCHSG*, 54, (1993), 104).

<sup>2</sup> 'Rhuddin ar bob rhyw addysg / O'r Glyn y ddi'r glain aur dysg' (*GSDT*, 27)

Gwelir ynganiad lleol enw'r annedd uchod wedi ei gyfleu'n hynod o gartrefol yng nghofnodion 1779 ac 1818. Anfarwolwyd *Cae-doctor* gan yr awdur a'r dramodydd John Gwilym Jones yn ei ysgrifau. Dyma gartref y nain a oedd mor annwyl iddo, ac yr oedd ganddo atgofion melys iawn am *Gae-doctor*, 'mangre fy oes aur i' (*Atgofion*, 92; gweler hefyd *ADaAH*, 20-1, *BaB / JGJ*, 20-1).

### Cae Evan Bleddyn

### Llandwrog

<i>Cae Evan Blethyn</i>	1695	Dolfriog	326
<i>Cae Evan Blethyn</i>	1717	Dolfriog	539

### *cae*, ep. *Evan Bleddyn*

Heb ei leoli. Ni wyddys chwaith pwy oedd *Evan Bleddyn*.

### Cae-Forgan

### Llandwrog

### SH 4854

<i>Cae-forgan</i>	1838	Map OS	75
<i>Cae forgan</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Cae forgan</i>	1889-90	Sutton	139
<i>Cae-Forgan</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae-Forgan</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Forgan</i>	2000	CCPost	(Carmel)

### *cae*, e.p. *Morgan*

Ar gyrion de-orllewinol eithaf Carmel. Ni wyddys pwy oedd *Morgan*.

### Cae-garw

### Llandwrog

### SH 4656

<i>Cae Garw</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Câe Carw</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Carw</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Caerw</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>care garry</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caegarrw</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Garw</i>	1785	AlPryce	30
<i>Cae garrw</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Caegarw</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caugarw</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Garw</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caegarw</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Cae garw</i>	1832	EwBangor	B1832/93 13935
<i>Cae-garw</i>	1838	Map OS	75
<i>Caegarw</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae Garw</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Caegeirw</i>	1845	Bangor	1084
<i>Caegarw</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Caegarw</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Garw</i>	2000	CCPost	(Bethesda-bach)

### *cae*, *garw*

Yn ardal Bethesda-bach rhwng pentref Llanwnda a chyrion dwyreiniol pentref Llandwrog. Er gwaethaf y ffurfiau yng nghofnodion 1772, 1774, 1775, 1780 ac 1845, mae'n amlwg mai'r ans. *garw* sydd yn yr ail elfen. Mae hwn yn enw pur gyffredin ar gae ac annedd.

<b>Cae-geifr</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>
<i>Caegeifr</i>	1839	Bangor 1065
<i>Cae Geifr</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cae-geifr / Coed Cae-geifr</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Coed Cae-geifr</i>	1959	Map OS SH 45

***cae, gafr, llu. geifr***

Ar gyrion gogleddol Parc Glynllifon a chyrrion gorllewin Y Groeslon.

<b>Cae-Gronw Goch</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5055</b>
<i>Cae Renio goch</i>	1725	NewGlynllifon XD2 / 7655
<i>Cae Ronw</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Cae gronw goch</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Ronw</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Gronw Goch</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae ronw</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Cronw Coch</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Cronw Coch</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Gronw</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Cronw Coch</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Cronw</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Cronw Coch</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Reniogoch</i>	1782	NewGlynllifon XD2 / 7661-2
<i>Cau Gronw</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Ronw</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Cae Ronw</i>	1816-20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Cae gronwy</i>	1842	RhPDegwm

***cae, e.p. Gronw, coch***

Mae map y Degwm yn lleoli'r annedd hwn yn rhan ogleddol Y Fron. Ni wyddys ai'r un gwŷr a gofféir yma â'r *Gronwy* sydd yng *Nghaeronwy* (q.v.). Er mai *Cae gronwy* a nodir yn RhPDegwm, *Cae Gronw* yw'r ffurf ar fap y Degwm.

<b>Cae-haidd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4956</b>
<i>Kay hayith</i>	1548	Mostyn B 1182
<i>Cae Haidd</i>	1685	Mostyn B 1394
<i>Cae haidd</i>	1700	Nannau 456
<i>Cae Hardd</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Cae haidd</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae haidd mawr</i>	1771	EwBangor B1771/66 3927
<i>Cau haidd</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae haidd</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae naidd bach</i>	1787	Ll&Brynodol D1102-3
<i>Cae haidd bach</i>	1787	Tryfan 95-6
<i>Cae haidd</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Gauhaidd</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Haidd</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Cae-haidd-mawr</i>	1805	EwBangor B1805/59 9314
<i>Cae haidd mawr</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae haidd mawr</i>	1809	EwBangor B1809/64 9891
<i>Cahaidd bach</i>	1811	Ll&Brynodol D110-1
<i>Cae haidd bach</i>	1811	Tryfan 97

<i>Cae haidd Mawr</i>	1811	Tryfan	99
<i>Cae haidd bach / Cae haidd mawr</i>	1816–20	Dawson	Bangor. f34081, D4
<i>Cae haidd mawr</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Caehaiddmawr</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Cae Haidd Mawr</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae-haidd</i>	1838	Map OS	75
<i>Caehaidd / Caehaidd bach / Caehaidd mawr</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae haidd bach / Cae haidd mawr</i>	1842	RhPDegw m	
<i>Cae haidd otherwise Panty Cae haidd otherwise Caehaiddmawr / Caehaidd otherwise Caehaidd bach Caehaidd mawr</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Cae-haidd-bach / Cae-haidd-mawr</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Cae Haidd / Cae Haidd Bach / Cae Haidd Mawr</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Haidd / Cae Haidd Bach</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***cae, heiddyn / heidden, llu. haidd, bach, mawr***

Mewn ardal ddiarffordd rhwng cyrion deheuol Rhostryfan a chyrion gogleddol Carmel. Ail elfen yr enw yw *haidd*, sef barlys, yr *ÿd* barfog a ddefnyddir yn bennaf i borthi anifeiliaid, ond hefyd i fragu. Mae'n anodd esbonio'r *Cae Hardd* (1764); go brin y byddai angen ceisio rhesymoli'r enw trwy ei newid i *hardd* gan fod *haidd* yn air mor gyffredin: mae'n bosib mai camgopio a geir yma. Camgopio yn sicr sydd i gyfrif am y *naidd* yng nghofnod 1787 (Ll&Brynodol).

<b>Cae-halen</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556</b>
<i>Cae Halen</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Caer halan bach / caer halan mawr</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caer halan Bach / Caer halan mawr</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r Helen</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Caer Helan</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (50)
<i>cau Ralan Bach / Caer Halan Mawr</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>cau ralan Mawr</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r halan bach / Caerhalen Mawr</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Cae halen</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Caerhalan</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae halen</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Halan</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caerhalenbach / Caehalenmawr</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Caerhalan</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cahalen bach</i>	1836	NewGlynllifon XD2/6639
<i>Caehalenbach / Caehalenmawr</i>	1839	Bangor 1065
<i>Cae-halen-bâch / Cae-halen-mawr</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Cae Halen Bach / Cae Halen Mawr</i>	2000	CCPost (Llandwrog)

***cae, halen, bach, mawr***

I'r gogledd o bentref Llandwrog. Mae'n debyg mai tir hallt oedd yma: ceir y ffurf *halendir* i ddisgrifio tir gwael a hallt (*CBAMAeth* 2, 317). Gwelir yr un syniad yn *Saltgrass* yng Nghaer, sef porfa hallt (*EFN*, 92). Yn sawl un o'r cofnodion uchod ceir y ffurf lafar leol *halan*. Sylwer ar y ffurf *Cae'r Helen* (1773): yr oedd rhyw obsesiwn yn y rhan hon o Arfon ag Elen Luyddog ac fe lusgid ei henw i mewn i enwau lleoedd ar bob cyfle.

<b>Cae-Iago</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>
<i>Kay Jago</i>	1625 ?	Mostyn B 409
<i>Kay Iago</i>	1658	Mostyn B 1391
<i>Cae Iago</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Cae Iago</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Iago</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Iago</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau Iago</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Iago</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cae iago</i>	1787	EwBangor B1787/56 6553
<i>Cae Iago</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Cau Iago</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Iago</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Cae Iago</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae iago</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Cae Iago</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Cae Iago</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Iago</i>	1842	RhPdegwm
<i>Cae Iago</i>	1846	EwBangor B1846/122 16801
<i>Cae Iago</i>	1846	EwBangor B1846/125 16804
<i>Cae-Iago</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Cae Iago</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

***cae, e.p. Iago***

Yng nghanol pentref Y Groeslon. Ni wyddys pwy oedd *Iago*.

<b>Cae-llan</b>	<b>Llandwrog</b>	
<i>Cae y Llan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Llan</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ca y Llan</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caer llan</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r llan</i>	1788	EwBangor B1788/72 6674
<i>Cae'r llan</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Cae'r Llan</i>	1793	EwBangor B1793/120 7393
<i>Caer llan</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Callan</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cai Llan</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r llan</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caerllan</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Caellan</i>	1839	Bangor 1065

***cae, y, llan***

Heb ei leoli, ond mae'r elfen *llan* yn awgrymu mai eglwys Llandwrog sydd yma. Pentrefi newydd ac iddynt eglwysi newydd yw'r pentrefi eraill ym mhlwyf Llandwrog. Er bod eglwys bresennol Llandwrog ei hun yn fodern, yn dyddio o 1860, yr oedd yna eglwys blwyf arall gynharach cyn hynny (*IAMC*, 182). Efallai fod yr annedd hwn wedi ei adeiladu ar y tir a oedd yn perthyn i'r eglwys (*glebe*).

<b>Cae-Llywarch</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656</b>
<i>Cae Llowarch bach / Cae Llowarch fawr</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Cae Llowarth / Cae Llowarch Bach</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae Llowarch / Cae Llowarch Bach</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3

<i>Cae Llowarch / Cae Llowarch Bach</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae lowarch / Cae lowarch Bach</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>cae Lowergh / cae Llowrch Pach</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>cae lowerch Pach / Care Lowerch mawr</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>calowarch</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Calowarch</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Lowarch / Cae'r Llowarch</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Llowarch bach / Cae Llowarch fawr</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Gailowarch</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae louch / Cai lowarch</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Llowarch</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Caellowarch / Caellowarch</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Cae Llywarch</i>	1838	Map OS	75
<i>Caellywarch mawr</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae Llywarch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Caellowarch mawr</i>	1845	Bangor	1084
<i>Cae Lwrach / Cae Lwrach Bach</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Caellowarch mawr</i>	1854	Bangor	1094
<i>Caellowarch</i>	1862	NewGlynllifon	XD2 / 10877
<i>Cae Lywarch</i>	1882	NewGlynllifon	XD2 / 6667
<i>Cae-Llywarch / Cae-Llywarch-bâch</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae-Llywarch / Cae-Llywarch-bâch</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Llywarch Bach</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***cae, e.p. Llywarch, bach, mawr***

Ar y chwith oddi ar yr A499 wrth fynd o Bethesda-bach i gyfeiriad Glynllifon. Ni wyddys pwy oedd y *Llywarch* a gofféir yn yr enw.

<b>Cae-maen / Cae-main</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>
<i>Cae main</i>	1722	P. yr Aur 16801c
<i>Cae main</i>	1758	P. yr Aur 16801d
<i>Cae-maen</i>	1920	Map OS XV S.E.
<i>Cae Maen</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

***cae, maen / main***

*Cae-main* sydd yn y ddau gofnod cynharaf, sef cae â thir gwael iddo. neu efallai gae hirgul. Ni cheir cofnod diweddar o annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llandwrog. Fodd bynnag, fel y dengys y ddau gofnod diweddar uchod, mae yna annedd o'r enw *Cae-maen*, sef cae â maen neu garreg arbennig ynddo. Er mai'r ddau gofnod cynharach yn y ffurf *Cae main* a nodir yn AMR, mae MR yn lleoli'r annedd yn SH 4857, sef lleoliad *Cae-maen* heddiw. sydd ar gyrion de-orllewinol eithaf Rhos-isaf.

<b>Cae-maen-llwyd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4454</b>
<i>Caemaenllwyd</i>	1839	Bangor 1065
<i>Caemanllwyd + Cefny maes</i>	1845	Bangor 1084
<i>Cae-maen-llwyd Lodge</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Cae Maen Llwyd Lodge</i>	2000	CCPost (Ffordd Clynnog)

***cae, maen, llwyd***

Mae'r annedd hwn yn un o borthordai plas Glynllifon. Nodir y *Maen Llwyd* ei hun ar fapiau OS fel heneb o fewn i barc y plas. Maen hir yw hwn, naw troedfedd a hanner o uchder. Cloddiwyd o'i gwmpas yn 1875 a darganfod olion claddedigaeth a ddyddiwyd i'r Oes Efydd Gynnar (IAMC, 198; llun: Plât 1).

**Cae-Morfudd****Llandwrog****SH 4857**

<i>Kay Morvydd</i>	1625	Mostyn B	409
<i>Kay morvydd</i>	1658	Mostyn B	1391
<i>Kae morvydd</i>	1658	Nannau	1894
<i>Cae Morfur</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Morfudd</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cau morfudd</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caumorfydd</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cau y morfudd</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caud morfudd</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Morfydd</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Morfudd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Caumorfudd</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caemorfydd</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Morfydd</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer morfydd</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Caermorfydd</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caumorfydd</i>	1821	EwBangor	B1821/71 11984
<i>Caemorfydd</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Caemorfydd</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae Morfydd</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Cae Morfydd</i>	1847	EwBangor	B1847/138 17046
<i>Caemorfydd</i>	1854	Bangor	1094
<i>Cae-Morfydd</i>	1920	Map OS	XV S.E.
<i>Cae-Morfydd</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Morfydd</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**cae, e.p. Morfudd**

Ar gyrion deheuol Rhostryfan. Enw merch, sef *Morfudd / Morfydd*, yw'r ail elfen, ond ni wyddys pwy ydoedd. Cadwyd yr enw yn eithaf cywir ers y cofnod cynharaf uchod yn 1625, yn wahanol iawn i *Bant Morfudd ferch Iolo* yn Nhalwrn, Môn, a ddatblygodd dros y blynyddoedd i fod yn *Pantymorfil*, gan fagu esboniadau onomastig pur ffansiol yn y broses (ADG 1, 80; *ELIMôn*, 85).

**Cae'r-bongam****Llandwrog****SH 4657**

<i>Cae Bongam</i>	1724	Henblas B	164
<i>Cae=Bongam</i>	1743	Henblas B	168
<i>Cae Bongam</i>	1760	Henblas B	175
<i>Caur Bongam</i>	1763	EwBangor	B1763/201 2366
<i>Cae Brongam</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Câe Bengam</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Bongam</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer bongam</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Bengam</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>caer Bongam</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>care Pengam</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>care bongam</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>care bongam</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Bongam</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerbongam</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae'r bongam</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cae Bongam</i>	1795	Ll&Brynodol	M187

<i>Caer Bongam</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caevongam</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caebengan</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Bongam</i>	1807	NewGlynllifon	XD2 / 6697
<i>Caibengan</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Bongam</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer bongam</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerbongam</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Caer bongam</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerbongam</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae'r Bongam</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Cae-bong gam</i>	1845	Bangor	1084
<i>Caerbong gam</i>	1854	Bangor	1094
<i>Carbonggam</i>	1886	Postal Dir.	167
<i>Cae'r bongam</i>	1920	Map OS	XV S.E.

### *cae, y, bongam*

Wrth afon Carrog rhwng pentref Llanwnda a Bethesda-bach, ac ar y ffin rhwng plwyfi Llanwnda a Llandwrog. Ans. yw *bongam* yn golygu 'coesgam' ('*bow-legged*'), ac mae'n amlwg mai cyfeiriad sydd yma at rywun a llysenwid 'Y Bongam' oherwydd y nodwedd gorfforol hon. Mae hwn yn llysenw a gofnodir o bryd i'w gilydd: ceir cyfeiriad at *Dafydd Bongam Coch* yn y llys yng Nghaernarfon yn 1362 (CCR, 17), ceir *Gruffydd Vongham* yno yn 1371 (ibid. 79), a *Hywel ap Madog Goch ap y Bongam* yno yn 1396 (ibid. 128).

### **Caer'r-eglwys**

### **Llandwrog**

### **SH 4556**

<i>Caer'r Eglwys</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>Caer'r Eglwys</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Caer Eglwys</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>Caer'r Eglwys</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Careglwys</i>	1817	EwBangor	B1817/77 11348
<i>Cae Eglwys</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Eglwys</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

### *cae, yr, ewlwys*

Yng nghanol pentref Llandwrog.

### **Caer'r-ffridd**

### **Llandwrog**

### **SH 4556 (1) SH 4856 (2)**

<i>Caer Drydd</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Cae ffrydd</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Caer'r ffridd</i>	1766	EwBangor	B1766/86 3016
<i>Cae r ffridd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerffridd</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae yr Ffridd</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Car ffridd</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer ffridd</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>care friffdd</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerfrydd</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Cae Frydd</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Cae'r Ffridd Ucha</i>	1783	Tynyngogl	465
<i>Cae Ffridd David Evan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Caerffridd</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer ffridd (1) / Caer ffridd (2)</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cau ffridd</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3



<i>Cae ffrydd</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Cae'r ffridd</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gaufridd</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caifridd</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae'r Frydd</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7670
<i>Caer Ffridd</i> (1)	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Caerffrydd</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caerffridd</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Caerffridd</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Caerffridd Uchaf</i>	1836	Tynyngogl	572
<i>Cae-ffridd</i> (1)	1838	Map OS	75
<i>Caerffridd</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae'r ffridd</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Caerffridd</i>	1845	Bangor	1084
<i>Caerffridd</i>	1854	Bangor	1094
<i>Cae-r-fridd</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae-ffrîdd</i> (1)	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae-ffrîdd</i> (1)	1959	Map OS	SH 45
<i>Cae Ffridd</i> (1)	2000	CCPost	(Llandwrog)
<i>Cae Ffridd</i> (2)	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***cae, y, ffridd*, ans. *uchel*, gradd eithaf *uchaf***

Mae dau annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llandwrog. Gan fod y rhan fwyaf o gofnodion yn rhestru enwau anheddau gydag enw'r plwyf yn unig mae'n anodd iawn gwahaniaethu pan fo dau annedd o'r un enw yn yr un plwyf. Yn yr achos hwn, pan lwyddwyd i wneud hynny, nodir *Cae'r Ffridd* (Llandwrog) ag (1) a *Chae'r Ffridd* (Y Groeslon) â (2). Mae (1) i'r gogledd-ddwyrain o bentref Llandwrog, a (2) rhwng cyrion gogledd-ddwyrainiol Y Groeslon a chyrion deheuol Rhostryfan.

<b>Cae'r-loda</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4354</b>
<i>Cae'rlode</i>	1732	EwBangor B1732/105 98597
<i>Cae'r Ladai</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Caerloda</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>Caer loda</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r Loda</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cau yr Loda</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r lodda</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>care loda</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caer Loda</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r llodda</i>	1782	Ll&Brynodol R161
<i>Cae'r lod</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Caerloda</i>	1794	EwBangor B1794/65 7545
<i>Cae Lodai</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Caer lloda</i>	1796	NewGlynllifon XD2 / 6631
<i>Caelodau</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caeloda</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caloda</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cailoda</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Caer Loda</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r aelodau</i>	1810	CyGTan
<i>Cae'r Aulodau</i>	c.1815	NewGlynllifon XD2 / 8356
<i>Caerloda</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Carloda</i>	1819	EwBangor B1819/85 11666
<i>Caerloda</i>	1824	P. yr Aur 4101

<i>Caerloda</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae'r-loda</i>	1838	Map OS	75
<i>Caeloda</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae'r 'lodau</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Caerloda</i>	1845	Bangor	1084
<i>Cae'r Loda / Cae'r Lode</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Caerloda</i>	1854	Bangor	1094
<i>Caerloda</i>	1854	EwBangor	B1854/122 18719
<i>Cae loda or Caoi loda</i>	1862	NewGlynllifon	XD2 / 10877
<i>Cae Rloda</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae'rloda</i>	1886	Postal Dir.	167
<i>Caerlodd</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Cae'r-loda</i>	1891	Map OS	XX N.W.
<i>Cae'r-loda</i>	1920	Map OS	XX N.W.
<i>Caerloda</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Caerloda</i>	1996	Map OS Explorer	13
<i>Caer Loda</i>	2000	CCPost	(Ffordd Clynnog)

***cae, yr, aelod, llu. aelodau? / blodyn, llu.blodau?***

Rhwng yr A499 a'r môr wrth fynd o Llynllifon tuag at Bontllyfni. Mae'r enw hwn wedi peri penbleth i bawb a geisiodd ei ddehongli. Awgrymodd Myrddin Fardd y dylid ei gysylltu â'r gair *llawd*, sef 'awydd'. Meddai: 'Dichon i liaws fod wedi ymawyddu am y cae hwn' (*MFardd/ELISG*, 227). Ond gan fod *llawd* a *llodig* wedi eu cyfyngu i ddisgrifio awydd hwch ar wres am faedd, prin fod y dehongliad yn dal dŵr nac ychwaith yn esbonio presenoldeb y fannod. P'run bynnag, mae tuedd i'r ferf *llodi / llawdio / llodio* yn yr ystyr hon droi'n *llowdio* neu *llowtio* yn Arfon (*GPC*) ac yn *llywdio* ym Môn (*ISF*, 54; *CBamaeth* 3, 29) ac nid oes awgrym o'r newid llafarog hwn yn enw *Cae'r Loda*<sup>1</sup>.

Mae cofnodion *Cae'r aelodau* 1810 a *Cae'r Aulodau* c.1815 yn arbennig o ddiddorol, gan eu bod yn awgrymu fod yna ganfyddiad mai talfyriad o *aelodau* oedd yr elfen *loda*. Mae J. Lloyd Jones yn dehongli *loda* yn ddibetrus fel 'aelodau' (*ELISG*, 51). Cyfeiria at yr hanes yn chwedl Math ym mhedwaredd gainc y Mabinogi, lle mae Gwydion yn mynd i chwilio am Llew Llaw Gyffes a dod o hyd iddo ar ffurf eryr mewn coeden, a chynron a chig pwdr yn disgyn ohono. Mae Gwydion yn canu englyn iddo sydd yn diweddu: "Ony dywedaf i eu / O ulodeu Llew ban yw hynn" (*PKM*, 89). Dangosodd W.J.Gruffydd y gellid cysylltu nifer o e.lleoedd yn ardal Llandwrog â chwedl Llew, a dywedodd yntau mai cyfeiriad at yr un hanes sydd yma (*Math*, 340–1). Mae ef yn cyfuno'r *o + ulodeu* i roi *oulodeu* = *aelodau* = 'limbs'. Serch hynny, mae'n cyfaddef nad oes sôn mewn unrhyw fersiwn o'r chwedl am ddatgymalu *aelodau* Llew, ac mae'n bur betrus am ystyr yr 'aelodau' hyn yn gyffredinol. Ond mae'r gair 'aelodau' yn sicr yn gynnig dilys, os nad *aelodau* Llew fel y cyfryw.

Gwrthodir 'aelodau' yn bendant gan Syr Ifor Williams (*PKM*, 292). Yn hytrach mae ef yn cynnig mai datblygiad yn nhafodiaith Arfon o *Caer Flodeu* sydd yma. Yn yr ardal hon seindir 'blodau' yn *bloda*, a dengys sut y gellir colli *f* ar ddechrau ail elfen enw cyfansawdd, cf. *Rhiw(f)abon*. Mae'n anodd dadlau ag ef am darddiad posibl *Caer Loda* o *Caer Floda*, ond wedyn mae yntau'n mynnu cydio'r enw â chwedl Llew. Awgryma mai ystyr llinell olaf englyn Gwydion yw 'O Flodeu Llew y mae hyn', h.y. 'ar Flodeuwedd Llew mae'r bai am hyn', gan gyfeirio at ddichell gwraig Llew. Dywed y byddai'n addas iawn y cedwid cof am Flodeuwedd yn enw *Caer Loda* sydd mor agos at Ddinas Dinlleu lle honnir y coffeir Llew ei hun<sup>2</sup>.

<sup>1</sup> Wrth drafod *llawd* a *llodig*, mae'n ddiddorol nodi fod MR yn dehongli'r e.lle *Maes Lodwig* ym Mangor fel 'maes llodig', sef cae lle cedwid hwch pan fyddai'n golyfyn baedd. Ond nid oes dim i awgrymu mai hyn sydd yn *Cae'r Loda*, ac ni welwyd y ffurf *lloda* ar y berfenw.

<sup>2</sup> Mae'n wir fod yn yr ardal gyfoeth o enwau a gysylltir â chymeriadau'r Bedwaredd Gaine. Ceir cyfeiriad yn Englynion y Beddau ym Mheniarth 98B at fedd 'Gwydion ap Don ym morfa dinlleu', sef y morfa yng nghyffiniau Dinas Dinlle (*TYP*, 402), ac mae tŷ o'r enw *Bryn Gwydion* ym mhlwyf

Nid yw'r dehongliadau uchod o enw *Caer-r-loda* yn llwyr argyhoeddi, ond ni welwyd unrhyw ffurfiau cynharach a allai daflu goleuni pellach ar yr enw. Daw'r sylw mwyaf onest ar yr enw gan Syr John Rhys: "Caer-r-loda" is explained as Caer Aelodau...but I am sorry to say that I forgot to note the story explanatory of the name" (*Cel.Fol.*, 207-8).

Caeronwy	Llandwrog		SH 5254
<i>Caeronwy</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Gronwy</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Gronwy</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Caeronwy</i>	1838	Map OS	75
<i>Castell-caeronwy</i>	1838	Map OS	75
<i>Caeronwy-isaf / Caeronwy-uchaf</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Castell Caeronwy</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Caeronwy</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Castell Caeronwy</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Caeronwy</i>	2000	CCPost	(Nantlle)
<i>Castell Caeronwy</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)

**cae, castell, e.p. Gronwy, ans. isel / uchel, gradd eithaf isaf / uchaf**

Mae *Caeronwy* a *Chastell Caeronwy* mewn ardal ddiarffordd ar gyrion dwyreiniol eithaf Y Fron. Ceir *Cae Gronwy* mewn dau gofnod uchod o 1789. Mae'n bosib fod *Cae Gronwy* drwy broses naturiol o dreiglo'n feddal i *Cae Ronwy* wedi troi i fod yn *Caeronwy*. Fodd bynnag, mae'n bosib mai cyfeiriadau at *Gae-Gronw* (q.v.) yw'r ddau gofnod hyn. Yn yr enw *Caeronwy* ymddengys y daethpwyd i ddeall y sillaf gyntaf fel *caer* yn hytrach na *chae*. Mae'n debyg i'r syniad o 'gaer' a 'chastell' dyfu o'r olion hynafol helaeth sydd yng nghyffiniau'r anheddau hyn, sef cytiau hirion a chrynon ac o leiaf ddau loc (*IAMC*, 196).

Cae-sarn	Llandwrog		SH 4755
<i>Cae sarn</i>	1823	EwBangor	B1823/72 12276
<i>Caesarn</i>	1874	Worrall	213
<i>Cae-sarn</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae-sarn</i>	1959	Map OS	SH 45

**cae, sarn**

Ym mhentref Y Groeslon. Llwybr ar godiad i groesi dŵr neu gorstir yw *sarn*.

Cae-Siôn	Llandwrog		SH 4854
<i>Cae Sion Dafydd</i>	1718	P. yr Aur	21538
<i>Caision Davidd</i>	1763	EwBangor	B1763/203 2368
<i>Cae John David</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Cae Sion Dafudd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cau sion David</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caesion David</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Causon David</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cau Sion David</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Causion / Cae Sion</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Sion</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Cae Sion dafydd</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3

Clynnog nid nepell o *Gae'r Loda*. Gerllaw, yn Aberdesdach, ceir *Maen Dylan* ar lan y môr. Allan yn y môr ei hun mae'r cerrig a elwir yn *Caer Arianrhod*, neu *Tregaranthrag* ar lafar.

<i>Caeshion David</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae=sion=david</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caer Sion David</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Causion</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Causion David</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Sion Dafydd / Cae Shone Davydd</i>	1797	Bangor	28655
<i>Cae Sion Dafydd</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caesion Dafudd</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Sion Dafydd</i>	1808	EwBangor	B1808/70 9740
<i>Caesion Dafidd</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caesiondifydd</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caesion Dafydd</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Caesion Dafydd</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Caesiondifydd</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Causiondifydd</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae-sion</i>	1838	Map OS	75
<i>Cae Sion</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Caesion</i>	1855	EwBangor	B1855/159 18989
<i>Cae-Sion</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Cae-Sion</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Caesion Isaf</i>	2000	CCPost	(Carmel)

**cae, e.p. Siôn Dafydd**

Ar gyrion gorllewinol Carmel. Dyma gartref gor-hendaid Syr Thomas Parry, a disgrifiodd Syr Thomas yr annedd yn 1993 fel hyn: 'Tyddyn bach o ryw bum acer yw Caesion heddiw, ond yr oedd yn fferm go sylweddol rywdro, yn ôl a glywais . . .' (*AmBethau*, 42). Mewn man arall cyfeiria ato â'i enw llawn, *Cae Siôn Dafydd* (*ibid.* 268). Am ryw reswm cyfunwyd dwy elfen gyntaf yr enw llawn ac aethpwyd i ynganu'r enw yn *Ceision* gyda'r acen ar y sillaf gyntaf (*RWP*, 3). Ni wyddys pwy oedd *Siôn Dafydd*.

<b>Cae-tor-y-dŵr</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4856</b>
<i>Cae tor y Dwr</i>	1696	Mostyn B 1401
<i>Cae tor dwr</i>	1779	Ll&Brynodol D1097-8
<i>Cae tor y dwr</i>	1787	Tryfan 95-6
<i>Cae tory dwr</i>	1787	Ll&Brynodol D1102-3
<i>Cae tor y dwr</i>	1800	Ll&Brynodol D1105-6
<i>Cae twr Dwr</i>	1811	Tryfan 99
<i>Cae tor y dwr</i>	1811	Ll&Brynodol D110-11
<i>Caetorydwr</i>	1818	Tryfan 100
<i>part of Caetorydwr later called Beudynnewydd</i>	1819	Tryfan 101
<i>Cae-tor-y-dwr</i>	1842	Tryfan 102

**cae, tor, y, dŵr**

Mae'n amlwg fod yr annedd hwn a'i dir wedi eu llyncu gan *Beudy-newydd* (q.v.). Y cyfeiriad olaf a welwyd at *Gae-tor-y-dŵr* yw cyfeiriad yn 1842 at bum cae ym mhlwyf Llandwrog: 'the last five were part of Cae-tor-y-dwr' (Tryfan 102). Mae'n debyg mai'r afon Llifon yw'r dŵr sydd yn torri yn erbyn y tir yma, gan fod yr afon yn llifo heibio i'r llecyn hwn.

<b>Cae-tŷ / Cae-tŷ-du</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4756</b>
<i>Caety</i>	1772	P. yr Aur 14311
<i>Caety</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae ty</i>	1789	P. yr Aur 4062a

<i>Gauty</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caitu</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae ty</i>	1815	EwBangor	B1815/101 10988
<i>Caetu</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Caety / Caety bach</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cae'r Ty</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Caetu / Caetu bach</i>	1845	Bangor	1084

<i>Caety Du</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caetu du</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Tŷ du</i>	1771	Ll&Brynodol	D447
<i>Caety du</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cautu Du</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cautu Du</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae ty du</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae ty Du</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Caety du</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae ty du</i>	1857	EwBangor	B1857/113 19459

### *cae, tŷ, du*

Mae *Cae ty du*, *Pen cae'r Ty* a *Phen Cae ty du* wedi eu rhestru fel cacau Coed-y-brain yn RhPDegwm 1842. Tybed nad lle gwahanol yw'r annedd a nodir fel 'Cae'r Ty' yn RhPDegwm 1842? Mae map y Degwm yn nodi 'Caer ty' dros y ffordd i safle capel Bryn'rodyn gynt wrth ymyl y fynwent. Fodd bynnag, honnir mai *Caety* oedd enw'r annedd a safai lle mae mynwent Bryn'rodyn ac y gelwid hi yn 'fynwent y Caety' ar un adeg (*HyG.* 8: mae llun o adfeilion *Caety* yma).

### **Cefn-Badda**

### **Llandwrog**

### **SH 4554**

<i>Cefn y Badde</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Cae Evan ap Adda</i>	1767	P. yr Aur Add.	1844
<i>Cefn y Badda</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ceven Badda</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>ceven badda</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn y Badda</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn y Path</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Kefn y Badda</i>	1780	EwBangor	B1780/112 5432
<i>Cefny batha</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>ceven y Badda / Ceven y Badd</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn bedda</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Cefen y Badde</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Cefnybatha</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefnybatha</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn ab adda</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn abadda</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Cefnabadda</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn abdda</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn Abadda</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cae Evan ap Adda</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Cae Evan ab adda</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cefn-abadd</i>	1831	Bangor	8554
<i>Cefn y beddau</i>	1837	Rumsey Wms	42
<i>Cefn y Beddau</i>	1837	Rumsey Wms	433

<i>Cefnbeddau</i>	1837	NewGlynllifon	XD2 / 6640
<i>Cefn-y-beddau</i>	1838	Map OS	75
<i>Cae Evanabbadda</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cefn badda</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Cefny badda</i>	1845	Bangor	1084
<i>Cefn y Beddau</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cefnybadda</i>	1854	Bangor	1094
<i>Cefnmabadda</i>	1862	NewGlynllifon	XD2 / 10877

**cae, e.p. Evan ab Adda**

Dengys map Dawson (1816–20) a map OS 1838 leoliad yr annedd hwn yn yr ardal lle mae parc Glynllifon erbyn hyn. Ymddengys mai'r enw gwreiddiol oedd *Cae Evan ab Adda*, ond ni wyddys pwy oedd y gŵr hwnnw. Cymathwyd yr elfennau *cae* ac *Evan* i lunio *cefn*, a throdd *ab Adda* yn [y] *Badda*. Ambell dro, er bod *cefn* wedi disodli'r elfennau *Cae Evan*, cedwir yr elfennau *ab Adda*; dro arall adferir yr holl enw. Yng nghofnod 1862 aeth *ab Adda* yn *mab Adda*. Dro arall eto, ceisir egluro'r enw llurguniedig drwy gynnig *Cefn y Beddau* fel esboniad.

<b>Cefn-eithin</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656</b>
<i>Cefn Eithin</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ceven Eithin</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cefn eithin</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ceven Eithin</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cefnuthin</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cefneithyn</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Cefn-eithin</i>	1838	Map OS 75
<i>Cefn Eithin</i>	1839	Bangor 1065
<i>Cefn Eithin</i>	1842	RhPDegwm
<i>Cefn Eithin</i>	1845	Bangor 1084
<i>Cefn Eithin</i>	1854	Bangor 1094
<i>Cefneithin</i>	1857	EwBangor B1857/111 19457
<i>Cefn-eithin</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Cefneithin</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Cefn Eithin</i>	2000	CCPost (Bethesda-bach)

**cefn, eithin**

Yn ardal Bethesda-bach. Yma y ganed Catrin Cadwaladr, nain Kate Roberts ar ochr ei mam, yn 1823 (*LW*, 72)<sup>1</sup>.

<b>Cefn-Emrys</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556</b>
<i>Cefn Emrys</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cefn Emrys</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>ceven Emrus</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ceven Emris</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cefn Emrys</i>	1798	AI Pryce 755
<i>Cefn Emrys</i>	1800	EwBangor B1800/76 8452
<i>Cefn Emrys</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34801, D4
<i>Gefnemrus</i>	1818	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cefnemrys</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Cefnemrus</i>	1831	Bangor 8554

<sup>1</sup> Sonia KR amdani'i hun yn darganfod bedd William Hughes, Cefn Eithin, ym mynwent Llandwrog, a chasglu mai brawd ei nain ydoedd (*ErthKR*, 24).

<i>Cefn Emrys</i>	1835	Rumsey Wms	420
<i>Cefn-emrys</i>	1838	Map OS	75
<i>Cefn Emrys</i>	1839	Bangor	1065
<i>Cefn Emrys</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Cefn Emrys</i>	1845	Bangor	1084
<i>Cefn Emrys</i>	1874	Worrall	213
<i>Cefn-Emrys</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Garth Cefn Emrys</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***cefn, e.p. Emrys***

I'r gogledd o bentref Llandwrog. Ni wyddys pwy oedd *Emrys*, ond cedwir yr enw hefyd yn *Pant Emrys* yn yr un ardal.

<b>Cefn-nen</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4855</b>
<i>Cefnen</i>	1839	Bangor 1065
<i>Cefnen</i>	1842	RhPDegwm
<i>Cefn-nen</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Gefn nen</i>	1845	Bangor 1084
<i>Cefnen</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cefnen</i>	1854	Bangor 1094
<i>Cefn-nen</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Cefn Nen</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

***cefn, onnen?***

Ym mhentref Y Groeslon. Mae hwn yn enw anodd ei esbonio: yn sicr, nid *cefnen* = esgair neu grib mynydd sydd yma. Er gwaethaf ffurfiau 1839, 1842, a 1854, mae'r cofnodion eraill, a'r ynganiad llafar lleol, yn gwahanu'r enw'n glir yn ddwy elfen *cefn* + *nen*. O gofio y ceir *Bryn-nennau* a *Rhos-nennau* (q.v.) hefyd yn yr ardal hon rhaid ystyried efallai mai'r un elfen sydd yma. Ceir cyfeiriad at *Cefn rhos Nennau* hefyd yn RhPDegwm 1842 a *Chefn Rosenan* yng Nghyfrifiad 1851. Awgrymir mai hen ffurf luosog brin o 'onnen', sef 'onennau' sydd yn *nennau*. Mae'n bosib mai un o'r rheini sydd yn *Cefn-nen*, ac mai *Cefn-onnen* yw'r ystyr. Gweler *Penrhos-nenan* isod am drafodaeth lawnach o'r ail elfen. Hefyd *ELleoedd*, 68.

<b>Cilfoden</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5055</b>
<i>Cilfoden / Cilfodan</i>	1839	C. Vincent 2528
<i>Cilyfoden</i>	1839	Bangor 1065
<i>Cilfoden</i>	1842	RhPDegwm
<i>Gilyfodan</i>	1845	Bangor 1084
<i>Cil y Fodan</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Cilfodan</i>	1854	Bangor 1094
<i>Cilyfodan</i>	1860	Myn. Horeb 023
<i>Cilfoden</i>	1874	Worrall 213
<i>Cil-fodan-isaf / Cil-fodan-uchaf</i>	1920	Map OS XXI N.W.
<i>Cilfodan</i>	2000	CCPost (Carmel)

***cil, cawoden***

Yn ardal Cim, i'r gogledd-ddwyrain o Garmel a'r gogledd-orllewin o'r Fron. Ar yr olwg gyntaf ymddengys *-foden*, ail elfen yr enw hwn, yn gwbl anesboniadwy. Fodd bynnag, mae'r enw *Cilfodan* hefyd yn digwydd ym Methesda, ac wrth ymchwilio i ystyr hwnnw darganfu MR gofnod diddorol o tua 1560 sef 'Tothen kyle kavoden' (Penrhyn 1613)<sup>1</sup>. Er nad yw *GPC*

<sup>1</sup> Gweler trafodaeth MR o *Cilfodan*, Bethesda, yn *TCHSG*, 52-3, (1991-2), 24.

yn ei nodi, mae 'cafoden' yn awgrymu ffurf fachigol ar 'cawod', a gwyddys fod *f* ac *w* yn tueddu i ymglyfnewid. Byddai hyn yn rhoi ystyr ddeniadol iawn i'r enw, sef llecyn i ymochel rhag cawod fach sydyn o law. Ond, wedi dweud hyn, ceir *Cil-foden* arall yn Arberth, Sir Benfro. Llwyddodd B.G.Charles i olrhain yr enw hwn hefyd i 1562, bron union yr un dyddiad â 'kyle kavoden' Bethesda, gyda chanlyniadau pur wahanol (*PNPem*, 531). Ffurf *Cil-foden* Arberth yn 1562 oedd 'kilfedwen', sef 'cilfach dan y fedwen'. Nid oes cofnodion cynnar ar gyfer *Cilfoden* Carmel uchod, felly ni ellir penderfynu beth yw ei wir ystyr yma. Yn wir, mae'n hollol bosib fod yr enw wedi ei fenthyca o *Gilfodan*, Bethesda, a bod y sawl a'i henwodd wedi mudo o'r ardal chwarelyddol honno i ardal chwarelyddol Cim.

<b>Cil-llidiart</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4856</b>
<i>Cil y Llidiart / Cil Llidiart</i>	1839	Bangor 1065
<i>Cil y llidiart</i>	1842	RhPDEgwm
<i>Cillidard / Gilledurd</i>	1845	Bangor 1084
<i>Cil Llidiart</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

#### ***cil, y, llidiart***

Yn rhan ogleddol Y Groeslon.

<b>Cim</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5055</b>
<i>Cym?</i>	1604	Dolfriog 490
<i>Cim</i>	1838	Map OS 75
<i>Cim Newydd</i>	1842	RhPDEgwm
<i>Cim</i>	1849	Myn. Pisgah 028
<i>'land near Cim'</i>	1856	C.Vincent 2533
<i>Cim</i> [ardal]	1920	Map OS XX1 N.W.
<i>Cim</i> [ardal]	1957	Map OS SH 55
<i>Cim</i>	2000	CCPost (Carmel)

#### **cim**

Rhwng Carmel a'r Fron. Wrth drafod *cimle / ceimle*, mae *GPC* yn nodi y ceir yr elfen *cim* yn aml ar ei phen ei hun yn Arfon a Llŷn i ddynodi tir comin, gan gyfeirio at *Y Cim* uchod, rhai eraill yn Abersoch a Llanengan, a *Phont-y-Cim* ac *Efail-y-Cim* ger Brynaerau. Mae'r Athro Gwynedd Pierce yntau'n trafod *cim*, gan gyfeirio at sawl enghraifft o'r elfen hon ym Morgannwg, megis yn *Y Cimdda*, y tir comin ger Llantrisant, yn *Coed y Cymdda* yng Ngwenfô a Lecwydd, ac enghreifftiau eraill (*ADG 1*, 25; *PNGlam*, 42-3). Rhaid casglu mai tir comin yw'r ystyr yn yr ardal ger Carmel hefyd, a gwrthod cynigion J. Lloyd-Jones o ystyron megis 'ymyl', 'treth', 'iau', neu'r e.p. Gwydd. *Cimm / Cimme* (*ELISG*, 121).

<b>Coed-Howel</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4454</b>
<i>Coyd Howell</i>	1640	Ll&Brynodol D1038
<i>Coed Howell</i>	1725	NewGlynllifon XD2 / 7655
<i>Coed Howel</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed howel</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed Howel</i>	1783	P. yr Aur 20562
<i>Coedhowel</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Coed Howel</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed Howel</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Goed Howel</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed Howal</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed howell</i>	1811	P.S.Glynllifon 132
<i>Coed Howel</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 5/3



<i>Coedhowell</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Coed Howel</i>	1831	Bangor	8554
<i>Coed Howel</i>	1842	RhPDechw	
<i>Coed Howel</i>	1853	Bangor	8555
<i>Coed Hovel</i>	1878	Bangor	8555
<i>Coedhowel</i>	1890-1	Bangor	8560
<i>Coed Howell</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Coed Howell</i>	2000	CCPost	(Ffordd Clynnog)

***coeden, llu. coed, e.p. Howel***

Mae'n debyg fod yr annedd hwn ym mhlwyf Clynnog, er ei fod yn agos iawn at y ffin rhwng y ddau blwyf, i'r de o Llynllifon. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'i dir ym mhlwyf Llandwrog ac fe'i rhestrir dan y plwyf hwnnw yn RhPDechw a sawl cofnod arall. Ni wyddys pwy oedd *Howel*.

<b>Coed-y-brain</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>
<i>Coed y Braine</i>	1696	Vaynol 3744
<i>Coedybrain</i>	1730	EwBangor B1730/171 98088
<i>Coed y brain</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coyd y Brain</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coud Brain</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed y Brain</i>	1776-9	Vaynol 4054
<i>Coud Brain</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed Brain</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Coed y Brain</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Coed Brain</i>	1794	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed y Brain</i>	1799	Vaynol 3751
<i>Coedybrain</i>	1814	Rumsey Wms 886
<i>Coed y brain</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Coedydrain</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Coed y Brain</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Coed y brain</i>	1839	Bangor 1065
<i>Coed y Brain</i>	1842	RhPDechw
<i>Coed y brain</i>	1843	EwBangor B1843/87 16167
<i>Coed y Brain</i>	1869	Vaynol 3751
<i>Coed-y-brain</i>	1874	Worrall 213
<i>Coed-y-brain</i>	1919	Map OS XVI S.W.
<i>Coed Y Brain</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

***coeden, llu. coed, y, brân, llu. brain***

Ar gyrion deheuol pentref Rhostryfan. Enw disgrifiadol yw hwn: mae'n amlwg yn cyfeirio at nythfa frain a roes ei henw i'r annedd.

<b>Collfryn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4657</b>
<i>Ty yn y Collfryn</i>	[1721]	P. yr Aur 14581
<i>Tu Gwyn yn y Collfryn</i>	1721	NewGlynllifon XD2 / 7459
<i>Tu yn y Collfryn</i>	1721	NewGlynllifon XD2 / 7460
<i>Collfrin mawr</i>	1735	EwBangor B1735/77 99232
<i>Collfryn or Collfryn mawr</i>	1760	NewGlynllifon XD2 / 7462
<i>Ty Gwyn yn y Collfryn</i>	1760	NewGlynllifon XD2 / 7462
<i>Collfryn bach / Collfryn issa /</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Collfrin mawr</i>		
<i>Collfryn</i>	1768	P. yr Aur 14560

<i>Coll fryn Bach / Collfryn mawr</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Collfryn Bach / Collfryn mawr</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Collfrun mawr</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Collfran mawr</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Collfryn</i>	1785	P. yr Aur	20570
<i>Collfryn Bach / Collfryn Mawr</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Collfryn mawr</i>	1790	P. yr Aur	14561
<i>Collfryn Bach / Collfryn mawr</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Collfryn</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Collfign?</i>	1812	P. yr Aur Add.	1888
<i>Collfrynmawr</i>	1813	P. yr Aur Add.	1907
<i>Collfryn</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34801, D4
<i>Collfrynmawr</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Collfryn</i>	1838	Map OS	75
<i>Collfryn</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Collfrynmawr</i>	1848	NewGlynllifon	XD2 / 7486
<i>Mount Hazel (formerly Collfryn)</i>	1882	NewGlynllifon	XD2 / 6667
<i>Collfryn fawr</i>	1908	NewGlynllifon	XD2 / 6687
<i>Collfryn</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Collfryn</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Collfryn</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)
<i>Collfryn Cottage / Collfryn Uchaf</i>	2000	CCPost	(Bethesda-bach)

***coll, bryn, bach, mawr, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

I'r gogledd-ddwyrain o bentref Llandwrog yn ardal Bethesda-bach. Elfennau'r enw yw *coll*, sef llwyni neu goed bychain sy'n dwyn cnau ('hazel') + *bryn*. Sylwer fod cofnod 1882 yn dweud mai'r un lle yw *Collfryn* â *Mount Hazel* (q.v.) er bod y mapiau yn eu nodi fel dau annedd ar wahân. Yn sicr, mae enw *Mount Hazel* yn gyfieithiad o *Collfryn*.

<b>Court</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4754</b>
<i>Cwrt</i>	1738/9	NewGlynllifon XD2 / 6625
<i>Court</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Court</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Court</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (52)
<i>Court</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Curt</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cowrt</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Y Cowrt</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Cowrt</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Court</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Court</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Court</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Cwrt</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cwrt</i>	1838	Map OS 75
<i>Court</i>	1842	RhPDegwm
<i>Court</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Court</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Court</i>	2002	Map OS Explorer 254

***cwrt / court***

Ar gyrion deheuol eithaf Y Groeslon. Yn y cofnodion uchod mae'r enw i'w gael yn ei ffurf Gym. *cwrt*, ond ychydig yn amlach yn y ffurf Saes. *court*. Mae sawl ystyr i'r enw: iard, buarth fferm, neu blasty. Yn ne Cymru mae'n elfen sydd yn digwydd yn fynych mewn enwau anheddau, yn aml yn yr ystyr o fferm mynachlog ('grange'). Nid yw hyn yn arferol yn y

gogledd (*PNGlam*, 59), ond gweler *Cefn-hengwrt* dan Anheddau Llanwnda, a *Hengwrt* ger olion abaty Cymer yng nghyffiniau Dolgellau lle cedwir yr ystyr hon.

Dinlle / Dinas Dinlle	Llandwrog		SH 4356
<i>Dynthle</i>	1352	<i>Rec. C.</i>	20, 22
<i>Dynthle</i>	1422-3	<i>P. yr Aur Add.</i>	11
<i>Dynlle</i>	1456	<i>Cal. Pat. R.</i>	1452-61, 290
<i>Dynlle</i>	1464	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D5
<i>Dynlle</i>	1484	<i>Penrhyn</i>	42
<i>dynlle</i>	1505	<i>Penrhyn</i>	44
<i>Dynlle</i>	1525	<i>Penrhyn</i>	298
<i>Dynlley</i>	1544	<i>CCQSR</i>	i. 210
<i>dynlley</i>	1545	<i>Wynnstay</i>	67/243
<i>Tynlley</i>	1552	<i>Roger Lloyd I</i>	
<i>Dynlley</i>	1556	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 6621
<i>Dynlley</i>	1559	<i>Cal. Pat. R.</i>	1558-60, 197
<i>Dynlley</i>	1562	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D73
<i>Dynlley</i>	1569	<i>Cal. Pat. R.</i>	1566-9, 343
<i>Dynlley</i>	1585/6	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 6622
<i>Dynlley</i>	1590	<i>Nannau</i>	3123
<i>Dynlley</i>	1595	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 6623
<i>Dynlley</i>	1604	<i>Nannau</i>	1603
<i>Dinlley</i>	1604	<i>Dolfriog</i>	490
<i>Dynlley</i>	1622/3	<i>Garthewin</i>	805
<i>Dynlley</i>	1636	<i>Dolfriog</i>	324
<i>Dynlley</i>	1637	<i>Dolfriog</i>	364
<i>Dynlley</i>	1656	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D1032
<i>Dinlley</i>	1685	<i>Ll&amp;Brynodol</i>	D1047
<i>Dynlle</i>	1687-8	<i>Thorowgood</i>	2
<i>Dinlle</i>	1708	<i>Tynyngogl</i>	286
<i>Dinlley</i>	1719/20	<i>Tynyngogl</i>	300
<i>Dinlley</i>	1724	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 6624
<i>Dinlley</i>	1738/9	<i>NewGlynllifon</i>	XD2 / 6625
<i>Dinas Dinllef</i>	c.1200	<i>PKM</i>	81: n. 277-8
<i>Dinas Dinley</i>	1573-80	<i>Map Humphrey Lhuyd</i>	<i>AMW</i> , 15
<i>Dinas dynlle</i>	1610	<i>Speed</i>	
<i>Dinas Dinlley</i>	1641	<i>Cal Wynn P.</i>	275
<i>Dinas Dinle</i>	1643	<i>Map Van Langeren-Jenner</i>	<i>AMW</i> , 43
<i>Dinas dynlle</i>	1645	<i>Blaeu</i>	
<i>Dinas Dynlle</i>	1673	<i>Map Richard Blome</i>	<i>AMW</i> , 53
<i>Dinas Dinlle</i>	1737	<i>Add. Morris L.</i>	I, 54
<i>Dinas dynlle</i>	1748	<i>Map Thomas Osborne</i>	<i>AMW</i> , 79
<i>Dinas Dinlle</i>	1783	<i>Pennant</i>	II, 389
<i>Dinas Dinlle</i>	1795	<i>JE / MNW</i>	
<i>Dinas Dinlle</i>	1809-11	<i>Des. Caerns.</i>	175
<i>Dinas Dinlle</i>	1820	<i>Rumsey Wms</i>	2588
<i>Dinas Dinlle</i>	1838	<i>Map OS</i>	75
<i>Dinas Dinlle</i>	1839	<i>Bangor</i>	1065
<i>Dinas Dinlle</i>	1845	<i>Bangor</i>	1084
<i>Dinas Dinlleu</i>	1959	<i>Map OS</i>	SH 45
<i>Dinas Dinlle</i>	2002	<i>Map OS</i>	Explorer 254

**din, e.p. Lleu, dinas**

*Dinlleu* oedd enw'r drefgordd a oedd yn cynnwys rhan helaeth o blwyfi presennol Llanwnda a Llandwrog, a chyfeiriadau at y drefgordd yw llawer o'r cofnodion cynnar uchod. *Dinas Dinlle* yw'r fryngaer fawr sydd yn codi dros gan troedfedd o'r môr i'r gorllewin o bentref Llandwrog (*IAMC*, 190; llun ar blât 3). Yr oedd unwaith yn llawer mwy, ond mae'r môr wedi ei herydu ar ei hymyl gorllewinol. *Dinas Dinlle* hefyd yw enw'r clwstwr o anheddau sydd yn ymestyn yn rhimyn hyd ymyl y traeth i'r gogledd o'r fryngaer, ac mae cofnod 1820 yn cyfeirio at annedd o'r enw hwn. Os derbyniwn mai *din* + yr e.p. *Lleu* sydd yn *Dinlleu*, fel y credai Syr Ifor Williams, yr Athro Melville Richards, yr Athro Bedwyr Lewis Jones, a phawb arall hyd yn hyn, mae'n rhyfedd meddwl mai'r un yw gwraidd yr enw *Dinlle* â *Lyon* a *Laon* yn Ffrainc a *Leyden* yn yr Iseldiroedd, sef *Lugodunum*. Dyma ddinasoedd *Lugos*, duw'r goleuni. Fel y dangosodd MR, byddai'r enw *Lugodunum* wedi gallu esgor ar y ffurf *Lleuddin* yn Gymraeg, sef *Dinlleu* o chwith (*ETG*, 76). Atgof am yr hen dduw hwn sydd yng nghymeriad *Lleu* yn y Pedair Cainc, a honnir iddo gael ei goffáu eto ychydig filltiroedd o *Ddinas Dinlle* yn *Nantlle*, sef 'Nant Lleu' (q.v.). Mae'r ystyr o oleuni yma o hyd yn y Gymraeg, yn enw *Lleu* ei hun, ac yn *lleuad*, *lleufer* a *goleuni* (Gweler hefyd *PKM*, 275-6). Anghofiodd y sawl a enwodd *Ddinas Dinlle* mai elfen gyntaf *Dinlle* oedd *din*, sef cadarnle neu ddinas, felly nid oedd angen ailadrodd *Dinas* o'i flaen. (Gweler hefyd *Enwau*, 33-5; *PKM*, 81, 277-8n; *ELleoedd*, 78-9; *YYW*, 96; *TYP*, 420-21).

Fodd bynnag, ar ôl dweud hyn oll am *Leu*, rhaid cyfeirio at ddamcaniaeth hynod o ddiddorol gan yr Athro Hywel Wyn Owen sydd yn tansilio'r cwbl a honnwyd uchod. Wrth drafod *Kinnerley* yn Sir y Fflint mae ef yn cyfeirio at ffurf yr enw hwnnw yn y 13g. sef *Kinardinlle*, ac eto yn yr 17g. fel *plwyf Kenerdinlle* (*DELMald.*, 6-7). Dyma *ddinlle* heb sôn am *Leu*. Yn wir, yr oedd yr elfen *dinlle* yn y Gymraeg mor gynnar â Chanu Heledd yn yr enw *Dinlleu Vrecon*,<sup>1</sup> a Syr Ifor Williams yn hollol ymwybodol o hynny ond ei fod yn ymboeni fwy am *Vrecon* nag am *ddinlle* ar y pryd (*CLIH*, 229-30; *PKM*, 278). Y cwbl a ddywed Syr Ifor am *ddinlle* yno yw fod yr elfen *dinlle* yn efell i *Dinlle* Arfon. Cynigia'r Athro Hywel Wyn Owen fod *dinlle* yn elfen ynddi ei hun, gyda'r ystyr o 'lecyn lle ceir din neu gaer', sef y tir o gwmpas amddiffynfa. Meddai yn hollol bendant: 'A dyna ystyr *Dinlle*, Arfon, nid *din* yn perthyn i *Lleu*' (*DELMald.*, 7). Pa ddehongliad bynnag sydd yn gywir, mae unrhyw un yn well na chynnig ysbrydoledig Myrddin Fardd: *Dinas* + *tin* + *lle*, sef *Dinas* y *Gwaelodle* (*MFardd/ELISG*, 227).

**Dolbadarn**

**Llandwrog**

**SH 4557**

*Dolbadarn*  
*Dolbadarn*  
*Dolbadar*  
*Dôl Padarn*

1839  
1845  
1854  
1919

Bangor  
Bangor  
Bangor  
Map OS

1065  
1084  
1094  
XV S.E.

**dôl, e.p. Padarn**

Bron ar y ffin â phlwyf Llanwnda nid nepell o'r fan lle mae Pont Cae-doctor-bach yn croesi afon Carrog. Fel rheol, cysylltir yr enw *Dolbadarn* â Llanberis, ac â'r castell ar lan Llyn Padarn yno. Mae'n anodd gweld y cysylltiad â'r annedd uchod, onid enwyd hwn ar ôl *Dolbadarn*. Llanberis. Elfennau'r enw yw *dôl* + yr e.p. *Padarn*. Yr oedd *Padarn* yn un o brif seintiau'r eglwys gynnar yng Nghymru. Tardda ei enw o'r Lladin *Paternus*, ac fe'i coffeir mewn sawl Llanbadarn ar hyd a lled Cymru (*ETG*, 134-5).

**Dôl Feredydd**

**Llandwrog**

**SH 4557**

*Dôlfredidd*

1718

Bangor

6855

<sup>1</sup> 'Neur sylleis [olygon] o Dinlleu Vreconn / Ffreuer werydre / Hiraeth am damorth vrodyrde' (*CLIH*, 44).

<i>Dolfredidd</i>	1718	Laurie	WDT/2491
<i>Dolfredidd</i>	1734	Laurie	WDT/2492
<i>Dole Fredydd</i>	1762	Ll&Brynodol	M42
<i>Dol meredith</i>	1770	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dol Meredith</i>	1771	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>dol fredith</i>	1773	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dol fredudd</i>	1782	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dolfredydd</i>	1789	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dolfredydd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Dolfredur</i>	1792	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Doel fredudd</i>	1793	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dole Fredydd</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Tolfredydd</i>	1808	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dôl y Fredydd</i>	1822	ATT GAG	XAQ/LT 5/3
<i>Dolferdydd</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Dolfredydd</i>	1831	Bangor	8554
<i>Dol feredydd</i>	1842	RhPDeGwm	
<i>Dolmeredudd</i>	1853	EwBangor	B1853/142 18467
<i>Dôl-Meredith</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Dol Meredydd</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***dôl*, e.p. *Meredydd***

I'r gogledd-ddwyrain o bentref Llandwrog, bron ar y ffin â phlwyf Llanwnda. Collwyd y llafariad rhwng yr *f* a'r *r* mor gyson fel na ellir dweud ai Meredydd ynteu Maredudd oedd y ffurf gysefin. Ni wyddys pwy oedd y gŵr hwn.

<b>Dolydd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4757</b>
<i>Dolydd byrrion</i>	1746	Ll&Brynodol D1091
<i>Dolydd Byrion</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Doludd byrion</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd Byrion</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolud Byrion</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolyddpurion</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd otherwise Dolydd byrrion</i>	1787	Ll&Brynodol D1102-3
<i>Dolydd otherwise Dolyddbyrion</i>	1787	Tryfan 95-6
<i>Dolydd byrrion</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Dolydd byrion</i>	1790	P. yr Aur Add. 1867
<i>Doluddbyrion</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd Byrion</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Dolyddirion</i>	1795	JE/MNW
<i>Dolydd</i>	1801	EwBangor B1801/65 8593
<i>Dolydd</i>	1802	EwBangor B1802/101 8774
<i>Dolydd</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd</i>	1805	P. yr Aur 30802
<i>Dolydd</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd byrion</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd Byrion</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Dolydd otherwise Dolyddbyrion</i>	1811	Tryfan 99
<i>Dolydd</i>	1816-20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Dolydd byrrion</i>	1822	Rumsey Wms 641
<i>Dolyddbyrion</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Dolydd Byrion</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3

<i>Dolydd</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pentre Dolydd Byrion</i>	1838	EwBangor	B1838/104 15153
<i>Dolydd</i>	1838	Map OS	75
<i>Dollydd</i>	1839	Bangor	1065
<i>Dolydd</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Dolydd / Dolydd Cottage</i>	1845	Bangor	1084
<i>Dolydd / Plâs-dolydd</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Dolydd / Plâs-dolydd</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Dolydd (pentrefan)</i>	2000	CCPost	(Dolydd)

**dôl, llu. dolydd, ans. byr, llu. byrion**

Mae'r cofnodion uchod yn cyfeirio at yr anheddau o bobtu'r hen lôn sydd yn arwain o bentref Llanwnda i'r Groeslon ac yn rhedeg yn gyfochrog â'r A487, a hefyd at yr annedd a adwaenid unwaith fel *Dolydd*, ond bellach fel *Plas-dolydd*. Mae ardal *Dolydd* yn ymestyn o blwyf Llanwnda dros y ffin i blwyf Llandwrog, ond mae'r annedd ei hun ym mhlwyf Llandwrog. Yr enw llawn ar un adeg oedd *Dolydd-byrion*, ond bellach fe'i talfyrwyd i *Dolydd*. Ceir cofnod o'r flwyddyn 1556 (Vaynol 1406) yn cyfeirio at 'Dolythyren alias Dolith hirion' yn nhrefgordd Dinlle, felly mae'n amlwg fod yna ar un adeg *Ddolydd-hirion* a *Dolydd-byrion*.

<b>Drws-y-coed</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5453</b>
<i>Druscoyt</i>	1370/1	<i>Rec. C.</i>	154
<i>ffryth of Drossecoyde</i>	1550	<i>Rec. C.Aug.</i>	273
<i>ffrith of Drussecoid / ffrith of Drossecoyd</i>	1564/5	<i>Rec. C.Aug.</i>	300-01
<i>Drws y coed</i>	1651	TNA E317	Cheshire 8.5
<i>Drws y Coed</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Drws y Coud</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Drws Coed</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Draws y Coed</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Drws y Coed</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Drwsycoed</i>	1795	JE/MNW	
<i>Drws y coed</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Drwsycoed</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Drwscoed</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Drwsycoed</i>	1836	Vaynol	492
<i>Drwsycoed issa</i>	1836	Vaynol	534
<i>Drws-y-coed-issaf/Drws-y-coed-uchaf</i>	1838	Map OS	75
<i>Drws-y-coed</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Drws-y-coed</i>	2002	Map OS	Explorer 254

**drws, y, coed**

Enw ar ardal ac anheddau unigol o gwmpas yr hen waith copr rhwng Nantlle a Rhyd-ddu. Agorwyd y gwaith copr gan fwynwyr o Gernyw yn 1761 a bu'n gweithio tan tua 1918 (*IRNW*, 154; *Eryri*, 67-70). Dywed T.H.Parry Williams yr arferai trigolion Rhyd-ddu gynt gyfeirio'n watwarus at y copr fel 'aur Drws-y-coed'<sup>1</sup>. Mae'n ardal fynyddig ac unig, ac nid oes ryfedd fod yma draddodiadau wedi goroesi am y Tylwyth Teg. Credai rhai fod mab *Drws-y-coed-uchaf* wedi priodi merch o blith y Tylwyth Teg o'r enw Penelope (*HBD*, 10; *TT/JOH*, 60, *HCHPNN*, 52-4) neu Bela mewn ambell fersiwn o'r chwedl (*TT/JOH*, 57), tra dywedai eraill mai mab Ystrad, Betws Garmon, oedd gŵr Penelope (*Cel.Fol.* 39-40, *TT*, 15, *EO*, 12). Honnai rhai o'r hen drigolion mai disgynyddion Penelope oedd plant gwallt golau *Drws-y-coed* (*HBD*, 10).

<sup>1</sup> T.H.Parry-Williams, *Pensymnu*, 12.

Yn sicr, fe gynhyrchodd ardal *Drws-y-coed* un cymeriad hynod iawn, sef 'Marged vch Ifan' (1696–1801?), gwraig amryddawn a oedd yn enwog am ei dawn gerddorol ond yn fwy arbennig am ei chryfder a'i champau corfforol<sup>1</sup>. Yr oedd hi'n byw gyda'i gŵr Richard Morris y telynor yn nhafarn y Tylyrni islaw Gelli-ffrydau (*CCThA*, 14).

Ystyr yr elfen gyntaf *drws* yng nghyswllt yr enw *Drws-y-coed* yw bwlch neu adwy rhwng mynyddoedd, ac mae'r mynyddoedd yn codi'n serth o bobtu'r dyffryn cul (*ELleoedd*, 20). Am y *coed* yn yr enw, dywedir fod yr ardal yn hynod o goediog ar un adeg (*HBD*, 2). Yn wir, honnodd W.R.Ambrose, gyda pheth petruster rhaid cyfaddef, fod rhai hen drigolion a oedd yn fyw pan gyhoeddodd ef ei lyfr yn 1872 yn medru cofio coed mor drwchus yno nes y gellid 'cerdded hyd eu penau am filldroedd'<sup>2</sup>. Mae'n anodd gwybod pa mor wir yw'r traddodiad am yr holl goed neu a yw'n ymgais i esbonio'r enw. Ni welodd y Parch. William Bingley (1774–1823) nemor ddim coed pan ymwelodd y teithiwr talog hwnnw â'r lle yn 1801: 'destitute altogether of wood' oedd ei ddisgrifiad ef, er ei fod yn cyfaddef ei bod yn fwy coediog yng nghyffiniau llynnoedd Nantlle<sup>3</sup>. Ceir cryn nifer o goed heddiw ger Tal-y-mignedd (sydd ar ochr arall Afon Drws-y-coed ym mhlwyf Llanllyfni) wrth nesáu at *Ddrws-y-coed*.

<b>Dyffryn-Twrog</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5055</b>
<i>Dyffryn Twrog</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Dyffryntwrog</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Dyffryn Twrog</i>	1870	Myn. Pisgah	034
<i>Dyffryn-Twrog</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Dyffryn-Twrog</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Dyffryn Twrog</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)

#### *dyffryn, e.p. Twrog*

Yn ardal Y Fron. Mae enw nawdd-sant y plwyf yn ail elfen boblogaidd mewn enwau yn Y Fron: ceir *Bryn-Twrog*, *Llys Twrog* a *Maestwrog*. Am yr enw *Twrog*, gweler *Llandwrog* uchod.

<b>Felin-Forgan</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4856</b>
<i>Melin Forgan</i>	1838	Map OS	75
<i>Felin Forgan</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Felin Forgan</i>	1874	Worrall	213
<i>Felin Forgan</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Felin Forgan</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Felin Forgan</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

#### *melin, e.p. Morgan*

Ar afon Llifon, ac ar y lôn droellog sydd yn arwain i fyny o Gapel Bryn'rodyn i Garmel. Ffurf yr enw yng nghofnod 1838 sydd yn gystrawennol gywir: nid oes reswm dros dreiglo'r *m* gychwynnol yn yr enw *melin* gan na fyddai angen bannod o'i flaen, ond mae'r un peth yn digwydd yn *Felinwnda* (gw. Anheddau Llanwnda). Ni wyddys pwy oedd *Morgan*.

<sup>1</sup> Yn ôl yr hen rigwm: 'Mae gan Farged fwyn ferch Ifan / Delyn fawr a thelyn fechan; / Un i chwarae'n nhref Caernarfon / A'r llall i gadw'r gŵr yn ffyddlon. // Mae gan Farged fwyn ferch Ifan / Grafanc fawr a chrafanc fechan; / Un i dynnu'r cŵn o'r gongl / A'r llall i dorri esgyrn pobol.' (*CCThA*, 13; Gweler hefyd: *Byw*, 580; *LlafarGwlad*, 15, (Gaeaf 1986–7), 16; *LlafarGwlad*, 30 (Gaeaf 1990–1), 6; *LlafarGwlad*, 31, (Gwanwyn 1991), 14–15; *LlafarGwlad*, 36, (Haf 1992), 13; *LlafarGwlad*, 82, 8; *HTLlanberis*, 74–5; *CBLleu*, 88; *LIGSG*, 93; *Bye-gones*, 6 Mai, 1874; *HCHPNN*, 59–60).

<sup>2</sup> *HCHPNN*, 51.

<sup>3</sup> William Bingley, *North Wales delineated from Two Excursions*. . . (Llundain, 1814), 266.

<b>Ffrwd</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4556</b>
<i>Frode Skeuernok</i>	1536–9	Leland	86
<i>Ffrwd yscyfarnog</i>	1720	Sprott	2
<i>Frwd</i>	1753	EwBangor	B1753/78 538
<i>Frwd y Scyfarnog</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Ffrwd / Ffrwd Smithy</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>Frood</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ffrwd / Ffrwd Smithy</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Ffrwd Ysgyfarnog</i>	1776	EwBangor	B1776/77 4730
<i>Frode</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>frode Sufarnog</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ffrwyd</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>ffrood</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ffrwd</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>ffrod</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Frwd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Frwd / Frwd ysgyfarnog</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>ffrood / frood</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Frwd ysgfarnog</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Frwd</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Frwyd</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ffwrđ yscaf farnog</i>	1810	EwBangor	B1810/61 10042
<i>Friuyd Ysgafarnog</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081. D4
<i>frwdysgyfarnog</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ffrwdysgyfarnog</i>	1818	NewGlynllifon	XD2 / 6702
<i>Frwdysfarnog</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Frwdysgyfarnog / Ffrwd</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Frwd Ysgyfarnog</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>ffrwd ysgyfarnog</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ffrwydysfarnog</i>	1831	Bangor	8554
<i>Ffrwd Ysgyfarnog</i>	1838	EwBangor	B1838/105 15154
<i>Ffrwd-ysgyfarnog</i>	1838	Map OS	75
<i>Ffrwđ ysgyfarnog</i>	1839	Bangor	1065
<i>Ffrwd</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Ffrwd Ysgyfarnog</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Ffrwyd</i>	1854	Bangor	1094
<i>Ffrwd yr Ysgyfarnog</i>	1861	<i>HSThC</i>	81
<i>Ffrwdws cynfanog</i>	1862	NewGlynllifon	XD2 / 10877
<i>Ffrwđ</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Ffrwđ</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Ffrwd</i>	2002	Map OS	Explorer 254

### ***ffrwd, ysgyfarnog***

Mae Leland yn disgrifio '*Frode Skeuernok*' fel 'a litle broke a vi. miles above Abreseynt', ac yn cyfieithu'r enw: '*Angl. a quik streme*' (Leland. 86). Yn ddiweddarach, mae'r cofnodion uchod yn cyfeirio at glwstwr o adeiladau rhwng pentref Llandwrog a pharc Glynllifon. Ar wahanol adegau yr oedd yma efail, gweithdy saer, siop, marchnad a thŷ cwrw (*MTT*, 30). Efallai y gellir derbyn esboniad Leland o'r enw: hynny yw, bod yr elfen *ysgyfarnog*, sef anifail sionc iawn, yn disgrifio llif cyflym y ffrwd. Yn anffodus collwyd yr ail elfen erbyn heddiw gan wneud yr enw yn llai persain a diddorol.

<b>Gallt-y-pill</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4855</b>
<i>Gallt y Pill</i>	1695	Dolfrïog	326



<i>Gallt y Pill</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Galld y pill</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gall<sup>d</sup> y pill</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>galld y Pill</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt Pill</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Gallt y Pÿll</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt y Pwll</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Gallt y Pill</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Gallt y Pill</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt y pill</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Galltypill</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Gallt y pill</i>	1833	Rumsey Wms	596
<i>Gallt y Pill</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Gallt-y-pwll</i>	1898–1900	Map OS	Arg. 1af
<i>Gallt-y-pwll</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Gallt Y Pwll</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

### ***gallt, y, pill***

I'r gogledd o bentref Y Groeslon. *Gallt-y-pwll* sydd yn y cofnodion o ddechrau'r 20g. ymlaen, ac yng nghofnod 1789 (P. yr Aur) hefyd. Mae'n debyg mai ymgais i egluro'r elfen *pill* sydd yma. Ystyr fwyaf cyfarwydd *pill* yw 'pwt o gân', ond ni fyddai hynny'n gweddu yn y cyswllt hwn. Gall hefyd olygu cyff neu foncyff, polyn neu bostyn, ac mae'n bosib mai rhyw nodwedd amlwg o'r fath a gofféir yn yr enw uchod. Fodd bynnag, gall yn ogystal olygu amddiffynfa neu loches ac mae hynny hefyd yn ystyr a allai wneud synnwyr yma.

### **Gallt-y-pryf**

### **Llandwrog**

### **SH 4556**

<i>Galltypru</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>Gallt y Prÿ</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt y Pry</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>gallt pry</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt y pru</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>galld y Pru</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>gall y bru</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt-y-prû</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (51)
<i>Galld y pru</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gallt y pry</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Galld y Pruf</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Galltypru</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Galltybru</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Galltbru</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>gallt y Pru</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Galltyprif</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Gallt y pryf</i>	1839	Bangor	1065
<i>Gallt y pryf</i>	1845	Bangor	1084
<i>Gallt y Prÿf</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Gallt y Prÿf</i>	1959	Map OS	SH 45

### ***gallt, y, pryf***

Awgryma'r cofnodion uchod fod yna annedd o'r enw hwn ar un adeg, ond fe'i nodir ar fapiau OS 1920 a 1959 fel ardal ym mharc Glynllifon. Mae'n debyg mai llechwedd coediog yw'r *allt* yn yr elfen gyntaf, ond beth yw'r *pryf*? Byddai'r lluosog *pryfed* yn fwy naturiol os mai llecyn lle ceid llawer o drychfilod yw'r ystyr. Fodd bynnag, fe'i ceir yn yr unigol hefyd yn *Coed-y-pry*, Llanuwchllyn, cartref Syr O.M.Edwards. Mae ystyr arall i *pryf*, sef anifail gwyllt.

bychan ei faint fel rheol, megis ysgyfarnog<sup>1</sup>. Rhaid cofio hefyd mai 'pryf llwyd' yw un o enwau'r mochyn daear yn Arfon (WVBD, 445; LGW, 245)<sup>2</sup>.

Garth / Garth-uchaf	Llandwrog		SH 4754
<i>y Garth Uchel</i>	1556	NewGlynllifon	XD2 / 6621
<i>Garth</i>	1752	EwBangor	B1752/108 378
<i>Garth Ucha</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Garthûchaf</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>Garth</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Garth uchaf</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Garth</i>	1779	EwBangor	B1779/71 5235
<i>Garth Ucha</i>	1780–87	P.S.Glynllifon	84 (48)
<i>Garth Ucha</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Garth</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Garth</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Garth ucha</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Garth</i>	1815	EwBangor	B1815/100 10987
<i>Garth</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Garth</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Garth</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Garth</i>	1838	Map OS	75
<i>Garth</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Garth-uchaf</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Garth-uchaf</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Garth Uchaf</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

**garth, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

Mae lleoliad *Garth* ar fap OS 1838, a lleoliad *Garth-uchaf* ar y mapiau OS diweddarach yn awgrymu mai'r un annedd yw hwn, onid oedd dau annedd yn eithriadol o agos at ei gilydd ar un adeg. Saif i'r de o bentref Y Groeslon, yn gyfochrog â *Choed y Garth* ym mharc Glynllifon. Mae'n bosib ei fod wedi ei enwi'n *Garth-uchaf* i'w wahaniaethu oddi wrth *Garth-dorwen* (q.v.). Ceir dwy ystyr i *garth*: naill ai 'cefnen, pentir o fryn neu lynydd; gallt' neu 'gae amgaeedig, iard neu gwr't'.

Garth-dorwen	Llandwrog		SH 4753
<i>Tythyn y garth derwyn</i>	1622/3	Garthewin	805
<i>Garthdorwen</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Garthdorwen</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>garth Dorwen</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Garth Dorwen</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Garth Dorwen</i>	1771	Rumsey Wms	156
<i>garth dorwan</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Garth Dorwen</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Garthdorwen</i>	1780–87	P.S.Glynllifon	84 (48)
<i>Garthdorwen</i>	1782	Ll&Brynodol	R161

<sup>1</sup> Yn y Pedair Cainc cawn hanes Manawydan yn mynd i grogi llygoden a fu'n dwyn ei yd. Cyferchir ef gan Lwyd fab Cil Coed ar lun teithiwr o ysgolhaig. Meddai wrth Fanawydan: 'Pryf a welaf i'th law di val llygoden', hynny yw, anifail bychan fel llygoden oedd y *pryf* (PKM, 62). Yng Nghyfraith Hywel enwir tri 'phryf' y dylid talu eu gwerth i'r brenin os lleddid hwynt. Anifeiliaid gweddol fychan oedd y rhain hefyd, sef y llostlydan neu afanc, y bele (*marten*), a'r carlwm (*Blegywryd*, 114).

<sup>2</sup> Gweler trafodaeth o *pryf* yn yr ystyr o anifail bychan yn Tegwyn Jones, 'Ambell Air', *Llafar Gwlad*, 90, Hydref 2005, 15.

<i>Garthdorwen</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Garth Dorwen</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Garthdorwen</i>	1806	Rumsey Wms	143
<i>Garthdorwen</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Garth Dorwen</i>	1809	P. yr Aur	16954
<i>Garthdorwen</i>	1813	EwBangor	B1813/102 10616
<i>Garth Dorwen</i>	1816–20	Dawson. Bangor	f34081. D4
<i>Garthdorwen</i>	1817	EwBangor	B1817/76 11347
<i>Carthdorwan</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gartorwen</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Garth dorwen</i>	1820	Rumsey Wms	2588
<i>Garthdorwen</i>	1820	EwBangor	B1820/78 11831
<i>Garthdorwen</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Garth-dorwen</i>	1838	Map OS	75
<i>Garthdorwen</i>	1839	Bangor	1065
<i>Garth dorwen</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Garth derwan</i>	1845	Bangor	1084
<i>Garth darowen</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Garth-dorwen</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Garth-dorwen</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Garth Dorwen</i>	2000	CCPost	(Pen-y-groes)

***garth, dôr, ans. gwyn, ben. gwen***

I'r gogledd o Ben-y-groes, ac fe'i nodir dan Ben-y-groes yn y CCPost. Fodd bynnag, mae ym mhlwyf Llandwrog, bron ar y ffin â phlwyf Llanllyfni. Cysylltir un o chwedlau enwocaf y Tylwyth Teg â'r annedd hwn. Yn ôl yr hanes, dihangodd Eilian neu Elain, morwyn *Garthdorwen* gydag un o lanciau'r Tylwyth Teg ac ymhen ychydig amser galwyd ar ei meistres, a oedd yn fydwraig, i'w chynorthwyo ar enedigaeth ei phlentyn (*Cel.Fol.*, 210; *LIGSG*, 93; *TT*, 33; *TT(JOH)*, 30).

Mae'n debyg mai cyfuniad o *dôr*<sup>1</sup> + *gwyn* > *gwen* ar ôl eb. un. sydd yn yr ail elfen, ond mae'n ddiddorol sylwi ar y '*garth derwyn*' yng nghofnod 1622/3. Nid oes sôn am y ffurf *derwyn* mewn unrhyw gofnod arall a welwyd, er y ceir y ffurf *derwan* yng nghofnod 1845. Dywed Sir John Rhys am enw'r annedd hwn: 'This is commonly pronounced "Y Gath Dorwen"' (*Cel. Fol.* 210), ond nid ategir hyn gan yr un o'r cofnodion uchod. Dywed Syr Ifor Williams: 'Mi glywais rai yn ei galw yn *Gallt Dorwan*, eraill yn *Garth Dorwan* (eraill *Dor-w-an*, eraill *Derwen*)' (*BBCS*, II, (Ion. 1926), 129).

**Gelli-ffryd(i)au**

**Llandwrog**

**SH 5253**

<i>Gelli Ffrydiau</i>	1712	EwBangor	B1712/45 95703
<i>Gelli ffrydau</i>	1748	EwBangor	B1748/58 101143
<i>Gelli ffryda</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelli yffryda</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelli Ffryda</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelli yr fryda</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelliyrfryda</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gellyfruda</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Cellyr Frydau / Gellipiday</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Gelly-y-ffrydan</i>	1782	EwBangor	B1782/123 5747
<i>Gelly</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Gelli'r Ffrydau</i>	1784	EwBangor	B1784/57 6085
<i>Gelli</i>	1789	P. yr Aur	4062a

<sup>1</sup> Mae Syr Ifor Williams yn trafod y gwahaniaeth rhwng *drws* a *dôr* yn *MSL*, 111, gan esbonio mai'r adwy yw'r *drws*, a'r caead arno yw'r *ddôr*.

<i>Gelly</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelly</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gellirffryde</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Gelli</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gellirffrydau</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelliffrydau</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelli y ffrydau</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gellyfrydau</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gellu ffryda</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gelly fridda</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Gelly</i>	1816–20	Dawson. Bangor	f34081, D4
<i>Gelli</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Gellifryda</i>	1822	EwBangor	B1822/84 12132
<i>Gellifrygan</i>	1823	EwBangor	B1823/71 12275
<i>Gelli</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Gelli</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Y Gelli-ffrydau</i>	1838	Map OS	75
<i>Gelli ffrydau</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Gelliffryd</i>	1848	EwBangor	B1848/100 17294
<i>Gelliffrydau</i>	1863–4	Kinmel	S1761
<i>Gellifyda</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Gelli-ffrydiau</i>	1891	Map OS	XXI S.W.
<i>Gelli-ffrydiau</i>	1920	Map OS	XXI S.W.
<i>Gelliffrydiau</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Gelli Ffrydiau</i>	2000	CCPost	(Nantlle)

***celli, ffrwd, llu. ffryd(i)au***

Yn Nyffryn Nantlle rhwng Baladeulyn a Drws-y-coed. Dyma gartref William Hobley (1858–1933), hanesydd y Methodistiaid Calfaidd yn Arfon (*Byw*, 337; CA, 143). Yma hefyd y magwyd Angharad James, gwraig ddysgedig, bardd a thelynore, yn niwedd y 17g (*Byw*, 395; CCThA, 15; HCHPNN, 41). Cysylltir y Tylwyth Teg eto â'r lle hwn: dywedir i wr hysbys achub gwas *Gelli-ffryd(i)au* pan hudwyd ef i w dawns ger Llyn y Ffynhonnau (*TT (JOH)*, 73; *CBLleu*, 89–90).

Ystyr yr enw yw'r gelli, sef clwstwr o goed, ger y ffrydiau. O'r mapiau OS gellir gweld fod sawl afonig yn cydgyfarfod ger *Gelli-ffryd(i)au*: nodir 'aqueduct' gerllaw ar fap OS 1957, a chronfa ddŵr ar fap OS 2002 yn ogystal â ffynnon. Byddai presenoldeb yr holl ddŵr yn esbonio'r *ffrydiau*. Amrywia ffurf yr ail elfen rhwng *ffrydau* a *ffrydiau*: mae'r ddwy ffurf yn gywir. Er bod *ffrydiau* yn fwy arferol ar lafar yn Arfon fe welir bod *ffrydau* yn digwydd yn amlach yn y cofnodion uchod. *Gelli-ffrydiau* yw'r ffurf arferol heddiw.

<b>Gerlan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>
<i>Tyddyn y Gerlan</i>	1722	P. yr Aur 16801c
<i>Tyddyn y Gerlan</i>	1758	P. yr Aur 16801d
<i>Cae'r-lan</i>	1838	Map OS 75
<i>Gerlan / Gerlan bach</i>	1839	Bangor 1065
<i>Gerlan</i>	1842	RhPdegwm
<i>Gerlan /Gerlan bach</i>	1845	Bangor 1084
<i>Gerlan</i>	1849	Myn. Pisgah 064
<i>Gerlan /Gerlan bach</i>	1854	Bangor 1094
<i>Gerlan</i>	1850	EwBangor B1850/127 17768
<i>Gerlan</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Gerlan</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Gerlan</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)

**cerlan, bach**

Ar gyrion deheuol eithaf Rhostryfan. Ceir esboniad o'r elfen *cerlan* gan Syr Ifor Williams, sef mai cyfuniad ydyw o ddau air cyfystyr: 'cerdd' a 'glan', a'r ddau yn golygu 'codiad tir' (*ELleoedd*, 24). Gwelir ymgais i egluro'r elfen *cerlan* yng nghofnod 1838, er nad yw'n elfen ddieithr: mae'n digwydd ger Bethesda hefyd.

<b>Gerlan-y-cyff</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>
<i>karlen y kyff</i>	1548	Mostyn B 1182
<i>Cerlan Cyff</i>	1762	EwBangor B1762/122 2054
<i>Kerlan y Keef</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Cerlan y Cuff</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cerlan y Cuff</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cerlan Cuff</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cerlan Guff</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cerlan Guff</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Cerlan y Cuf</i>	1784	EwBangor B1784/101 6130
<i>Cerlan y cuff</i>	1787	Ll&Brynodol D1102-3
<i>Cerlan y Cuff</i>	1787	Tryfan 95-6
<i>Gerlan y cÿff</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gerlan Cyff</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Gerlany Cyff</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Gerlan y Cuff</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gerlan y Cuff</i>	1811	Ll&Brynodol D1110-1
<i>Gerlan y cyff</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Gerlangyff</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Gerlancyff</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Cae'r-lan</i>	1838	Map OS 75
<i>Gerlancyff</i>	1839	Bangor 1065
<i>Gerlan y Cyff</i>	1842	RhPdegwm
<i>Gerlanyguff</i>	1845	Bangor 1084
<i>Gerlan Gyff</i>	1851	Cyfrifiad

**cerlan, y, cyff**

Mae'n annhebygol mai'r un lle yw *Gerlan-y-cyff* a *Gerlan* gan y rhestrir y ddau enw yn RhPdegwm ac yn Bangor 1065 a 1084, ac mae map y Degwm hefyd yn eu nodi ar wahân ond yn yr un ardal. Am yr elfen *cerlan* gweler *Gerlan* uchod. Mae'n debyg mai ystyr *cyff* yn y cyswllt hwn yw boncyff neu weddillion marw neu doredig bôn coeden.

<b>Gilwern</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857 (1) / SH 4856 (2)</b>
<i>Gillwern</i>	1713	EwBangor B1713/27 95776
<i>Gilwern</i>	1722	P. yr Aur 16801c
<i>Gilwern</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>gilwern Isaf / gilwern uchaf</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gillwern</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gilwen</i>	1781	NewGlynllifon XD2 / 7658
<i>Gilwern</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Gilwarn</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gilwarn Issaf</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gilwern / Gilwern Issaf</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Gilwern</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Gilwarn isaf / Gilwarn ucha</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gilwern</i>	1813	P. yr Aur 1946
<i>Gilwern isaf / Gilwern uchaf</i>	1819	P. yr Aur 4095

<i>Gilwern</i>	1819	P. yr Aur	21201
<i>Gilwernuchaf</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Cil-y-wern</i>	1838	Map OS	75
<i>Gilwernisa / Gilwernuchaf</i>	1839	Bangor	1065
<i>Gilwern isa' / Gilwern Ucha'</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Gilwarn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Cil-y-Wern Uchaf</i>	1878	Bangor	8555
<i>Gilwern-isaf / Gilwern-uchaf</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Gilwern / Gilwern-isaf</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Gilwern Isaf / Gilwern Uchaf</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***cil, gwern, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Saif *Gilwern-uchaf* (1) ar gyrion deheuol eithaf Rhostryfan, a *Gilwern-isaf* (2) ymhellach fyth i'r de, yn nes at gyrion gogleddol Y Groeslon. Cofnodion 1788, 1810 ac 1851 sydd yn adlewyrchu ynganiad lleol yr enw, ond cofnodion 1838 a 1878 sydd yn dangos ei ystyr, sef annedd yng nghil neu ar ymyl gwern. Mae'n debyg yr ystyrid *cilwern* fel enw cyfansawdd ben., er mai gwr. yw *cil* ei hun yn yr ystyr hon. Byddai hyn wedi rhoi *Y Gilwern*; collwyd y fannod ond erys y treigladd meddal a achosodd (*YEE*, 38).

<b>Glan-y-morfa</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4356</b>
<i>Glan y Morfa</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Glan y Morfa</i>	1769	EwBangor B1769/69 3576
<i>glan y morfa</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glan y morfa</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glan y morfa</i>	1774	EwBangor B1774/76 4395
<i>Glan y Morfa</i>	1785	P. yr Aur 20570
<i>Glan y Morfa</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Glan y morfa</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glanymorfa</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glan y Morfa</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glanymorfa</i>	1812	P. yr Aur Add. 1888
<i>Glanmorfa</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Glan-y-morfa</i>	1838	Map OS 75
<i>Glany Morfa</i>	1839	Bangor 1065
<i>Glanmorfa</i>	1842	RhPDegwm

***glan, y, morfa***

Mae map OS 1838 yn nodi'r annedd hwn ychydig i'r gogledd-ddwyrain o Ddinas Dinlle. Ar fapiau diweddarach nodir *Morfa-coch* (q.v.) ar yr un safle. Yr elfen amlwg yw'r morfa, sef Morfa Dinlle, y gwastatir isel tywodlyd sydd yn ymestyn hyd at lannau bae'r Foryd. Caewyd dros ddwy fil o erwau o dir Morfa Dinlle yn sgîl cau'r tiroedd comin, er bod trigolion plwyfi Llandwrog a Llanwnda wedi llwyddo i wrthwynebu bwriad yr Arglwydd Newborough a thirfeddianwyr eraill i gau cymaint eto o dir yr ardal yn 1806 (*Atlas SGI*, 147).

<b>Glyn-iwrch</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556</b>
<i>Glyniwrch</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glyn iwrch</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>glun iwrch</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glyn Iyrch</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>glyn Iwrgh</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gluniwrg</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glyn yr iwrch</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Glynniwrch</i>	1789	P. yr Aur 4062a

<i>Glynne Iwrch</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gynn iwrch</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glynn Iwrch</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Glyniwrch</i>	1839	Bangor	1065
<i>Glyn Iwrch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Glyniwrch</i>	1845	Bangor	1084
<i>Glyniwrch</i>	1854	Bangor	1094
<i>Glanieurch</i>	1898	NewGlynllifon	XD2 / 8587
<i>Glyn-iwrch / Coed Glyn-iwrch</i>	1920	Map OS	XX N.E.

***glyn, iwrch***

Rhwng Bethesda-bach a Llandwrog. Carw bychan ('roebuck') yw *iwrch*.

<b>Glynllifon</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4555</b>
<i>Glynllivon</i>	1548	CCQSR	51
<i>glyn lliwon</i>	1570au	Bangor	5943 (339)
<i>Glyn . . Llifon</i>	1587/8	YEPWC	30, 36, 250n
<i>Glynllivon</i>	1607	Sotheby	380
<i>Glynnlivon</i>	1607	Carreg-lwyd	198
<i>Glynllivon</i>	1607	Carreg-lwyd	1856
<i>Glyn Llyuan</i>	1610	Speed	
<i>Glynllynan</i>	1610	Saxton	
<i>Glyn llivon</i>	1615	Carreg-lwyd	1572
<i>Glynlllyvon</i>	1629/30	Dolfrïog	192
<i>Glynllivon</i>	1629/30	Dolfrïog	245
<i>Glynlllyvon</i>	1633	Carreg-lwyd	1457
<i>Glynnellyfon</i>	1636/7	Ll&Brynodol	D1024
<i>Glyn Llyuan</i>	1645	Blaeu	
<i>Glynllifon</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7, 6 (4)
<i>Glynnelivon</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7, 6 (5)
<i>Glynne llivon</i>	1659	Coleman	D.D. 1033
<i>Glynne llyvon</i>	1662/3	Nanhoron	620
<i>Glyn Llivon</i>	1680	JA/IV	
<i>Glynn-llyfon</i>	1681	Plas Gwyn	5
<i>Glynllivon</i>	1718	Pantlludw	61
<i>Glynllivon</i>	1750	Pantlludw	107
<i>Glynllifon</i>	1753	EwBangor	B1753/77 537
<i>Glynllifon</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Glyn llivon</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn Lliffon</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glynn</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Glynn Llevon</i>	1766/9	Map John Ellis	AMW, 85
<i>Glynn Llivon</i>	c.1790	Map Thomas Conder	AMW, 90
<i>Glynlllyfon</i>	1795	JE/MNW	
<i>Glynn</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glynn</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glynnllivon</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Glynllifon</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Glynllifon</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Glynn Llevon</i>	1830	Map John Cary	AMW, 99
<i>Glynllifon</i>	1838	Map OS	75
<i>Glynllifon</i>	1839	Bangor	1065

<i>Glynllifon</i>	1842	RhPDeGwm	
<i>Glynllifon</i>	1845	Bangor	1084
<i>Glynllifon</i>	1854	Bangor	1094
<i>Glynllivon Park</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Glynllifon Park</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Coleg Glynllifon</i>	2002	Map OS	Explorer 254

### *glyn, e.p.Llifon*

Hwn yw plasty mwyaf yr ardal yr ymdrinnir â hi yn yr astudiaeth hon. Saif mewn parc helaeth oddi ar yr A499 yng nghyffiniau Llandwrog. Dechreuwyd adeiladu'r tŷ presennol tua 1836, ond bu o leiaf bedwar tŷ arall ar y safle cyn hynny (*IAMC*, 186; lluniau ar blatiau 66 a 78). Bu'r beirdd yn cyrchu i Lynllifon drwy'r canrifoedd. Y cyntaf o'r teulu<sup>1</sup> y gwyddys i fardd ei foli oedd Robert ap Maredudd ap Hwlcyn, a hynny gan Lewys Daron (*fl. c.* 1520), a phan fu farw Robert yn 1509 canodd Lewys Daron farwnad iddo: 'Cloi wnaeth y clai neithwyr / Galon *Glynllifon* yn llwyr' (*LILIL*, 4). Pan fu farw gwraig gyntaf Robert, sef Elin Bulkeley o Fiwmares, canodd Tudur Aled farwnad iddi hithau<sup>2</sup>. Molwyd mab Robert, y Dr Wiliam Glyn, a fu'n Ganghellor Esgobaeth Bangor, gan Lewys Daron, a chan Syr Dafydd Trefor, yntau'n ŵr eglwysig.<sup>3</sup> Un arall o deulu Glynllifon a folwyd gan y beirdd oedd Wiliam Glyn, neu Wiliam Glynllifon. Bu hwnnw'n swyddog lleol dan Harri VIII, Edward VI. Mari ac Elisabeth, a llwyddodd Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal yn eu hymryson enwog yn 1587/8 i gytuno ar ei haeddiant i dderbyn eu clod. 'Wiliam *Glyn*, a eilw am glêr, / *Llifon* heb penill ofer', meddai Edmwnd Prys (*YEPWC*, 30, 250n), ac ategodd Wiliam Cynwal ei glod: 'Wiliam *Glyn*, a glwm glanwawd, / *Llifon* wych, wr llyfn i wawd' (*ibid.* 36). Canodd Tomos Prys o Blas Iolyn farwnad i fab Wiliam, sef Tomas Glyn, ar farwolaeth hwnnw yn 1607 (*LILIL*, 9). Ceir cywydd gan Huw Machno (*fl.* 1585–1637) yn disgrifio'r daith anodd a gafodd ef wrth ymlwybro i Lynllifon un Nadolig: 'Llwybro, drwy frodio i'r fron, / Â llafur at *Lynllifon*.' (*ibid.*, 2). Cyfeiriodd Rhisiart Phylip (m. 1641) at y daith honno: 'Huw Machno'n llywio at *Lynlliwon* – deg / Gafodd daith echryslon' (*ibid.* 10). Bu Gruffudd Hiraethog, Simwnt Fychan a Siôn Brwynog hwythau'n ymweld â Glynllifon, a pharhaodd y beirdd i gyrchu yno tan ganol y ddeunawfed ganrif.

Ystyr yr enw yw 'glyn yr afon *Llifon*'. Mae'r afon *Llifon* yn llifo trwy dir y plas ac i lawr i'r môr rhwng Dinas Dinlle a Phontllyfni. Ceir nant o'r un enw ym Môn (*Af Môn*, 75), lle mae *Llifon* hefyd yn enw ar gwmwd (*ELIMôn*, 5). Mewn cofnodion cynnar o'r enw ym Môn ceir y ffurfiau *Lliwan* a *Lliwon* (*ibid.*): gwelir *glyn lliwon* hefyd yn y cofnod uchod o'r 1570au, a cheir cyfeiriad at *Lynlliwon* gan Risiart Phylip<sup>4</sup>. Awgryma MR mai 'llif' yw gwraidd yr enw *Llifon*, ond mae'n galw am fod yn ofalus rhag ofn mai e.p. neu'r e.cyff. *lliw* sydd yma, o sylwi ar yr ymgyfnewid rhwng yr -w- a'r -f- yng nghanol yr enw (*ETG*, 21). Gwelir y ffurf fer *Glyn* yn rhai o'r cofnodion uchod, a'r talfyriad hwn a ddefnyddir gan amlaf ar lafar gwlad<sup>5</sup>.

Cartref Arglwyddi Newborough oedd Glynllifon hyd yn weddol ddiweddar, ond erbyn heddiw (2007) mae adran amaethyddiaeth Coleg Meirion-Dwyfor yn rhai o adeiladau'r plas a'r plasty ei hun wedi ei werthu i berchenogion newydd.

<sup>1</sup> Am hanes teulu Glynllifon gweler Glyn Roberts, 'The Glynnes and the Wynns of Glynllifon', *TCHSG*, 9, (1948), 25–39; W. Gilbert Williams, 'Glyniaid Glynllifon', *TCHSG*, 10, (1949), 33–7; Colin A. Gresham, 'A Further Episode in the History of Clynnog Fawr', *Trans. Cymm.*, (1966), Rhan II, 299–315. Gweler hefyd *Eryri*, 31–2.

<sup>2</sup> Am gofnod o'r wraig hon a dyfyniad o'r farwnad, gweler *Cae-Elin Bulkeley* dan Anheddau Llanwnda.

<sup>3</sup> A. Cynfael Lake, 'Dau Gywydd i'r Doctor Wiliam Glyn', *TCHSG*, 54, (1993), 91–103. Gweler y cofnod dan *Cae-doctor* uchod.

<sup>4</sup> Ni ellir cytuno ag Iwan Wmffre mai *Lliwon* oedd y ffurf wreiddiol (*LPNW*, 120).

<sup>5</sup> Ni chlywodd awdur yr astudiaeth hon erioed mo'i nain yn cyfeirio at 'Glynllifon', dim ond at 'Y Glyn' bob amser. Yr oedd ei nain wedi ei magu yn Llandwrog, a'i thad hithau yn of yng Nglynllifon.



<b>Glyn-y-meibion</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4855</b>	
<i>Tir yn llyn y meibion issaphe</i>	1601	Poole	3359
<i>Llyn y meibion</i>	1667	EwBangor	B1667/68
<i>Llainymubion</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Llyn y Meibion bach / Llyn y meibion mawr</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Llyn-y-meibion</i>	1766	EwBangor	B1766/85 3015
<i>Llun y Meibion / Llyn y meibion bach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llyn y Meibion / Llŷn y Meibion Bach</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llun y Meibion / Llun y Meibion Bach</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llun y Meibion / Llun y Meibiôn Bach</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llun y meibon / Llun y meibon bach</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llunymeibon</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llunymeibion</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn y meibeon</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llunymeibeon / Glunymeibion</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llynymeibion / Glyn y meibion</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llyn-y-meibion</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (52)
<i>Glyn y meibion</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llanymeibion</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Llanymeibion</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661–2
<i>Glynymaibion / Glyn y Meibion</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn y Meibion</i>	1783	P. yr Aur	4068
<i>Llainy Meibion</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Glyn Meibion</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn y Meibion</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn y meibion</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn y Meibion</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Glynymeibion</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llyn y Meibion bach / Llyn y meibion mawr</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Llyn y meibion bach / Llyn y meibion mawr</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llyn y meibion Bach / Llyn y meibion mawr</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llyn y meibion mawr</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn y Mibion Bach / Glyn y Mibion Mawr</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glyn meibion Bach / Glyn meibion Mawr</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Glun Meibion bach / Glun Meibion mawr</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llynneibrimbach</i>	1810	NewGlynllifon	XD2 / 7671
<i>Llain y meibion otherwise</i>	1810	Rumsey Wms	444
<i>Penfforddvelen</i>			
<i>Llain y Meibion</i>	1814	C. Vincent	3222
<i>Glyn y Maibion</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Glyn y meibion / Glyn y meibion bach</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Glynymeibion / Glynymeibion Bach</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Glanymeibion Mawr</i>	1828	EwBangor	B1828/103 13211

<i>Llyn-y-meibion</i>	1838	Map OS	75
<i>Glyn y meibion bach</i>	1841	Ew Bangor	B1841/101 15781
<i>Glyn meibion isa' / Glyn meibion ucha'</i>	1842	RhP Degwm	
<i>Glyn y Meibion</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Glyn y Melon Bach</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Glan y Meibion Ucha</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Glynmeibion isaf / Glynmeibion ucha</i>	1863	Bangor	28503
<i>Glyn-y-meibion-bâch / Glyn-y-meibion-mawr</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Glyn-y-meibion-mawr</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Glyn Meibion Isaf / Glyn Meibion Mawr</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***glyn, llan, llain, llyn, mab, llu. meibion, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd uchaf, bach, mawr***

Rhwng Y Groeslon a Charmel. Mae'n amlwg mai *Llyn-y-meibion* neu *Llyn-y-meibion-mawr* a *Llyn-y-meibion-bach* oedd enw'r ddau annedd hyn yn wreiddiol, er bod y cyfeiriad cyntaf uchod yn defnyddio'r ans. *isaf* (*issaphe*). Yn ddiweddarach gwahaniaethwyd rhyngddynt trwy ddefnyddio *isaf* ac *uchaf*, ond erbyn heddiw defnyddir y ddau ans. anghymarus *isaf* a *mawr*. Sylwer hefyd mai *llyn* oedd yr elfen gyntaf, gydag ambell wyriad i *llan* a *llain*, nes iddi newid i *glyn* o 1778 ymlaen, er i *llain* ailymddangos yn 1783, a *llyn* am gyfnod ar dro'r ganrif ac eto yn 1838. Yng Nglyn-y-meibion ac ym Mhenbryn-hafoty yr arferid cynnal cyfarfodydd cynharaf yr Annibynwyr yn yr ardal cyn agor capel Pisgah (*HEgAC*, III, 229–30).

<b>Gogerddan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5154</b>
<i>Gogerdden</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gogerddan</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gogerddan</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gogerddan</i>	1831	Bangor 8554

***go-, cerdd, terf. bachigol –an***

Yn ardal y Cilgwyn. Yr un yw tarddiad yr enw hwn â *Gogarth* (*ELleoedd*, 24). Nid *garth* sydd yma: *Gogerdd* oedd ffurf wreiddiol *Gogarth*, a golygai *cerdd* math o ris neu stepen. Gris go isel oedd *gogerdd*, ac yn *Gogerddan*, gyda'r terfyniad bachigol *–an*, yr ystyr fyddai codiad bychan yn y tir neu lan afon. Ceir plasty o'r un enw ger Aberystwyth.

<b>Gorseddfa</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4657</b>
<i>Gorsedda</i>	1785	P. yr Aur 14327
<i>Gorsedda otherwise Ty'n y lôn</i>	1785	P. yr Aur 20570
<i>Ty yn y Lon or Gors Edda</i>	1787	NewGlynllifon XD2 / 6721–2
<i>Tynlongorseddfa</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tynlongorseddfa</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyn lon Orseddfa</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ty yn y lon or Gorsedda</i>	1806	NewGlynllifon XD2 / 6723
<i>Tynlon or Gorseddau</i>	1864	NewGlynllifon XD2 / 6725
<i>Gorseddfa</i>	2000	CCPost (Llandwrog Uchaf)

***gorsedd, llu. gorseddau / gorseddfa, ty/tyn, y. lôn***

Yng nghanol pentrefan Y Fron. Ymddengys mai *Gorseddau* oedd y ffurf wreiddiol, ond yng nghofnod 1787 camddehonglwyd y gair fel *cors* + e.p.? *Edda*. Wedyn ceir pendilio rhwng *Gorsedda(u)* a *Gorseddfa*. Ystyr *gorsedd* fel rheol mewn e.lle yw 'tomen' neu 'fryncyn', ac mae'r un ystyr hefyd i *gorseddfa*, yn ogystal â'r ystyr o 'orseddfainc' (*ELleoedd*, 25). Onid ar

fryncyn, sef *Gorsedd Arberth*, yr eisteddai Pwyll pan welodd Riannon am y tro cyntaf? (*PKM*, 9). Mae'n debyg i'r enw *Tyn-lôn* gael ei ollwng i osgoi cymysgu ag o leiaf un annedd arall o'r un enw ym Mhlwyf Llandwrog (q.v.).

<b>Grafog</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>
<i>Kay y Gravok</i>	1556	NewGlynllifon XD2 / 6621
<i>Griafog</i>	1838	Map OS 75
<i>Grafog</i>	1842	RhPDegwm
<i>Grafog</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Grafog</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Grafog</i>	2002	Map OS Explorer 254

### ***crafog***

I'r de o'r Groeslon. Mae *crafog* yn digwydd fel ans.. ond yma mae'n eb. un. 'y Grafog', sef man lle ceir llawer o graf neu arleg gwyllt yn tyfu (*ELleoedd*, 67). Mae'n elfen weddol gyffredin mewn e.lleoedd: ceir Craflwyn ger y Ro-wen ac ym Meddgelert, a Chrafnant a Llyn Crafnant ger Trefriw (*ELISG*, 24, 30).

Yma safai 'Injan Grafog', a'r olwyn fawr a yrrai'r gwaith lle cynhyrchid llechi ysgrifennu ar gyfer ysgolion gynt (*HyG*, 31-2). Mae'r diwydiant llechi yn parhau hyd heddiw yng ngweithdy enwog Inigo Jones.

<b>Greenland</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4953</b>
<i>Greenland</i>	1839	Bangor 1065
<i>Gringlands</i>	1845	Bangor 1084
<i>Green Land</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Greenland</i>	1854	Bangor 1094
<i>Greenland</i>	1867	Myn. Pisgah 021
<i>Greenland</i>	1920	Map OS XXI N.W.

### ***e.ll.Greenland***

Yn ardal y chwareli ar gyrion Mynydd y Cilgwyn. Mae'n amlwg fod enw *Greenland*, sef yr ynys fawr yng ngogledd Môr Iwerydd, wedi ei ddewis i gyfleu lle oer, anial a digroeso<sup>1</sup>. Ceir caeau ym Mhenfro o'r enw *North Pole* a *Siberia* (*PNPem*, lxi).

<b>Grugan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>
<i>Tyddyn Grugan isa</i>	1593/4	<i>Star Ch. Pro.</i> 30
<i>Tuthyn grigan</i>	1595	NewGlynllifon XD2 / 6623
<i>Tythyn Grugan</i>	1595/6	<i>Star Ch. Pro.</i> 30
<i>Grugan fawr / Grugan issa</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Gregan</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>Grugan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Gregan</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Grygan</i>	1775	EwBangor B1775/72 4578

<sup>1</sup> Byddai'n rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r enw *Greenland* ar gae yn Lloegr, oherwydd gan amlaf nid lle anial a olygir ond yn hollol i'r gwrthwyneb, sef cyfeiriad llythrennol at wyrddni'r tir (*EFN*, 32, 154). Fodd bynnag, ni fyddai'r enw *Greenland* yn golygu hyn i'r Cymry, ond yn hytrach rywle pellennig ac oer. Cafwyd enghraifft fodern o'r math hwn o enw yn nhref Caernarfon yn yr 20g, pan ddechreuodd y trigolion lleol gyfeirio at y bont oer a gwyntog sydd yn cysylltu ardal Twthill â'r dref dros y ffordd osgoi fel 'Siberian Bridge'. Yn wrthgyferbyniol, hefyd yng Nghaernarfon, cyfeiria'r brodorion at y llecyn cysgodol cynnes rhwng muriau'r castell a'r afon Saint yn y Cei Llechi fel 'South of France' (gwybodaeth bersonol).

<i>Grigan</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Gregan</i>	1780–87	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>Grygan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Grigan</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Grigan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Crûgan</i>	1795	JE/MNW	
<i>Grygan fawr / Grugan issa / Grygan uchaf</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Grugan ddu / Grugan ganol</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Grigan Canol / Grigan Issa</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Grugan ddu / Grugan ganol / Grugan wen</i>	1816–20	Dawson	Bangor f34081, D4
<i>Grigan ddu / Grigan ganol / Grugan wen</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Grugan ddu / Grugan Ganol / Gruganwen</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Grygan Uwchaf</i>	1834	EwBangor	B1834/85 14292
<i>Crugan-ddu / Crugan-wen</i>	1838	Map OS	75
<i>Grugan ddu / Grugan ganol / Grugan wen</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Grugan Wen</i>	1857	EwBangor	B1857/112 19458
<i>Crigan isa</i>	1870	NewGlynllifon	XD2/6656
<i>Grugan-ddû / Grugan-ganol / Grugan-wen / Grugan Ter.</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Grugan-ddû</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Grugan Bungalow / Grugan Ddu / Grugan Ganol Cottages / Grugan Newydd / Grugan Terrace / Grugan Wen</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***crugen, du, gwyn, ben. gwen, canol, mawr, ans, isel, gradd eithaf isaf, newydd, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Ar gyrion deheuol Y Groeslon<sup>1</sup>. Enw cyffredin ben. un. yw [*Y*] *Grugan*, sef ffurf lafar *crugen*. Ffurfiâu bachigol *crug* yw *crugyn* a *crugen* yn golygu 'bryncyn bach' neu 'boncen fach'.

#### **Gwern-afalau**

#### **Llandwrog**

#### **SH 4556**

<i>Gwern y fale</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Gwernyfala</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>Gwern y fala</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>gwern y Fala</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>gwern y fala</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gwerny Fala</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Gwern y Fala</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>gwern falla</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gwernyfala</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>Gwern y fala</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Gwern y fala</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Gwern y fale</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Gwern y Fala</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gwern fala</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gwernafala</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gwern y Fala</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/3

<sup>1</sup> Gweler *IAMC*. 188. am ddisgrifiad o *Grugan-wen*.

<i>Gwernyfala</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Gwern y afalau</i>	1831	Bangor	8554
<i>Gwern y fala</i>	1838	EwBangor	B1838/106 15155
<i>Gwernyfala</i>	1839	Bangor	1065
<i>Gwern afalau</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Gwernyfala</i>	1845	Bangor	1084
<i>Gwern y Falan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Gwernyfala</i>	1854	Bangor	1094
<i>Gwenfala</i>	1886	Postal Dir.	167
<i>Gwernofalon</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Gwern-afalau</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Gwern-afalau</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Gwern Afalau</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

### ***gwern, afal, llu. afalau***

I'r gogledd o bentref Llandwrog. Ystyr yr elfen gyntaf yw tir corsiog neu weirglodd laith lle mae coed gwern yn tyfu, er mai coed afalau oedd yn y wern hon. Mae'n fwy na thebyg mai afalau surion gwyllt sydd yma. Mae'n debyg nad y fannod yw'r y a geir mewn sawl un o'r cofnodion, er bod cofnod 1831 yn arbennig yn awgrymu hynny: pe bai'r fannod yn bresennol ceid 'Gwern yr afalau'. Yr *a* ar ddechrau *afalau* a drodd yn *y* ar lafar.

### **Hafod-boeth**

### **Llandwrog**

### **SH 4856**

<i>havod boeth</i>	1638–9	P. yr Aur	16801a
<i>yr havod Boeth</i>	1660	P. yr Aur	16801c
<i>Havod Boeth</i>	1683	Bangor	17605
<i>Havod-Boeth</i>	1705	EwBangor	B1705/37 95152
<i>Hafod Boeth</i>	1722	P. yr Aur	16801d
<i>Havod Boeth</i>	1733	EwBangor	B1733/98 98823
<i>Hafodboeth</i>	1758	P. yr Aur	16801g
<i>Havod boeth</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Havodboeth</i>	1769	P. yr Aur	16801i
<i>hafod boeth</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>hafod Bouth</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>hafod Bouth</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>havod Bouth</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Hafod boeth</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Hafod Boeth</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Hafod boeth</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Hafod poeth</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Hafod boeth</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Hafodboeth</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Hafod Boeth</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Hafod-boeth</i>	1838	Map OS	75
<i>Hafod Boeth</i>	1839	Bangor	1065
<i>Hafod boeth</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Hafod both</i>	1854	Bangor	1094
<i>Hafod-boeth</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Hafod-boeth</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Hafod Boeth</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

### ***hafod, poeth***

Ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Y Groeslon. Am yr elfen *hafod* gweler *Hafod-bach* dan Anheddau Llanbeblig. Ceir sawl annedd o'r enw *Hafod*, sef *Hafod-boeth*, *Hafod-y-coed*, *Hafod-Ifan* a *Hafoty-wen* (q.v.) ar hyd llechweddau dyffryn yr afon Llifon. Awgrymir eu bod

o bosib yn dangos datblygiad olynol defnyddio ac anheddu'r tir am i fyny, er nad oes yr un ohonynt yn uchel iawn o ran lleoliad<sup>1</sup>.

Mae *GPC* yn trafod yr elfen *poeth* mewn e.lleoedd, gan gyfeirio at *Bryn Poeth*, *Coed Poeth*, *Tre-boeth*, ac yn ei hesbonio fel 'wedi ei losgi', sydd yn eglurhad pur amwys. Gwell yw esboniad Syr Ifor Williams pan gyfeiria at groenen denau o bridd ar graig sydd yn dueddol i grasu yn yr haul (*ELleoedd*, 26).

<b>Hafod-Ifan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4856</b>
<i>Havod Evan</i>	1707	EwBangor B1707/34 95284
<i>Havod Evan</i>	1725	NewGlynllifon XD2 / 7655
<i>Havod Evan llwyd</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>hafod Evan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>hafod Evan</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Havodifan</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>havod Evan</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Havod Evan</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (50)
<i>Hafod Evan</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Hafod Evan Lleyar</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>havod Evan</i>	1795	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Havod Evan</i>	1806	P. yr Aur 19630
<i>Havodevan otherwise Penrhos cwta</i>	1813	P. yr Aur 19646
<i>Hafod Evan</i>	1814	Rumsey Wms 1873
<i>Hafod Evan</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Hafod evan</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Hafod Evan</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Hafodifan</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hafod Evan</i>	1834	Rumsey Wms 1046
<i>Hafod Evan</i>	1839	Bangor 1065
<i>Hafod Ifan</i>	1842	RhPdegwm
<i>Hafod Ifan</i>	1854	EwBangor B1854/124 18721
<i>Hafod Evan Lleuar</i>	1862	NewGlynllifon XD2 / 10877
<i>Hafod Ifan</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Hafod Ifan</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

#### ***hafod, e.p. Ifan / Evan***

Ar gyrion gogleddol eithaf Y Groeslon, ar y lôn sydd yn arwain o Gapel Bryn'rodyn i Garmel. Ni wyddys pwy oedd yr *Ifan / Evan* yn yr ail elfen, ond mae'n ddiddorol ei fod wedi ei gofnodi fel *Evan llwyd* yng nghofnod 1764, ac fel *Evan Lleyar* yng nghofnod Ll&Brynodol yn 1795 ac *Evan Lleuar* yn 1862. Ceir anheddau o'r enw *Lleuar-fawr* a *Lleuar-bach* rhwng Clynnog a Brynaerau. Gweler hefyd *Penrhos-cwta* isod.

<b>Hafod-y-coed</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4756</b>
<i>Hafod y Coed</i>	1764	Ll&Brynodol M187
<i>Hafod y Coud</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hafod y coed</i>	1777	EwBangor B1777/88 4912
<i>Havod y Coed</i>	1778	P. yr Aur 19691
<i>Havod y coed</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Hafod y Coed</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Hafod y coed</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Havo[d] y coed</i>	1806	P. yr Aur 19630
<i>Hafodycoed</i>	1811	P. yr Aur 20923

<sup>1</sup> Elwyn Davies, 'Hendre and Hafod in Caernarvonshire', *TCHSG*, 40, (1979), 44–5.

<i>Hafod-y-coed</i>	1813	P. yr Aur	19646. 21014
<i>Hafod y coed</i>	1814	Rumsey Wms	1873
<i>Hafod y coed</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Hafodycoed</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Hafod y Coed</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Hafod-y-coed</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Hafod-y-coed</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Hafod Y Coed / Hafod Y Coed Cottage</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***hafod, y, coed, llu. coed***

Nid nepell o Fryn'rodyn ar y lôn sydd yn arwain oddi yno i fyny i gyfeiriad Carmel.

<b>Hafoty-Caeronwy</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5254</b>
<i>Hafodty Cae'ronwy</i>	1842	RhPDegwm
<i>Hafod Caeronwy</i>	2000	CCPost (Llandwrog Uchaf)

***hafod, tŷ, e.ll. Caeronwy***

Yng nghyffiniau *Castell Caeronwy* ar gyrion dwyreiniol eithaf Y Fron. Cyfuniad yw'r elfen gyntaf o *hafod* + *tŷ*, sef llety'r haf. Yn aml talfyrrir *hafoty* i *foty* (*ELleoedd*, 80; *ELISG*, 51). Erbyn 2000 mae *hafodty* 1842 wedi troi'n *hafod*. Am yr ail elfen gweler *Caeronwy* uchod.

<b>Hafoty-Tŷ-newydd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4956</b>
<i>Hafotty-ty-newydd</i>	1838	Map OS 75
<i>Hafotty Tynewydd</i>	1839	Bangor 1065
<i>Hafodty Tynewydd</i>	1842	RhPDegwm
<i>Hafotty-newydd</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Hafoty Ty Newydd</i>	2000	CCPost (Rhostryfan)
<i>Hafotty-newydd</i>	2002	Map OS Explorer 254

***hafod, tŷ, e.ll. Tŷ-newydd***

Mae'n amlwg fod yr annedd uchod yn hafod i *Dŷ-newydd*, er bod y ddau annedd yn agos iawn at ei gilydd ar gyrion de-ddwyreiniol pellaf Rhostryfan. Ar fapiau OS 1959 a 2002 llynewyd yr elfen *tŷ* gan y terfyniad *-ty* yn *Hafoty* nes peri fod yr enw cyfan yn bum sillaf yn hytrach na chwech.

<b>Hafoty-wen</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4955</b>
<i>Hafotty Wen als Tu yn Cae Newydd</i>	1722	P. yr Aur 16801c
<i>Hafotty Wen otherwise Ty yn y Cae Newydd</i>	1758	P. yr Aur 16801d
<i>Hafodtywen</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hafodty wen</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hafotty Wenn</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hafotty wen</i>	1839	Bangor 1065
<i>Hafodtywen</i>	1842	RhPDegwm
<i>Hafotty-wen</i>	1920	Map OS XXI N.W.
<i>Hafotty-wen</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Hafod Ty Wen</i>	2000	CCPost (Carmel)

***hafod, tŷ, gwyn, ben. gwen***

I'r gogledd-orllewin o Garmel. Gall *hafoty* fod yn eb. neu'n eg. ond mae'r ans. ben. *wen* yn ymddangos yn rhyfedd iawn yng nghofnod 2000 gan fod dwy elfen *hafoty* wedi eu gwahanu.

<b>Hendre</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4654</b>
<i>hendre</i>	1635	Ll&Brynodol D162
<i>Hendre</i>	1656/7	CQSR XQS 1656/7. 7
<i>Hendre</i>	1720	Ll&Brynodol D344
<i>Hendre</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Tythyn mawr Hendre</i>	1747-8	Ll&Brynodol D399
<i>Hendre</i>	1748	Ll&Brynodol D402-3
<i>Hendre</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Hendre</i>	1769	EwBangor B1769/68 3575
<i>hendre</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>hendra</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>hendra</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>hen drea</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hentra</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hendre</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Hendre</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Hendraf</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hendre</i>	1803	EwBangor B1803/78 8938
<i>Hendraf</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hendre</i>	1811	EwBangor B1811/75 10239
<i>Hendre</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Hendre otherwise Hendref</i>	1827	Rumsey Wms 19
<i>Hendre otherwise Hendref</i>	1827	Ll&Brynodol D512
<i>Hen Dra</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Hendre</i>	1838	Map OS 75
<i>Hendre</i>	1842	RhPDegwm
<i>Rhendre</i>	1854	Bangor 1094
<i>Hendre</i>	1920	Map OS XX N.E.

### ***hendref***

Ar un adeg safai'r annedd hwn i'r gogledd-orllewin o Ben-y-groes, bron ar y ffin rhwng plwyfi Llandwrog a Llanllyfni. Erbyn hyn mae'r llecyn wedi ei gynnwys ym mharc Glynllifon, ac fe'i nodir ar fap OS 1920 fel ardal y tu mewn i'r parc. Yr *hendref* oedd llety'r gaeaf ar lawr gwlad tra oedd yr *hafod* fel rheol ar yr ucheldir.

<b>Henryd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4455</b>
<i>Henrhyd</i>	1839	Bangor 1065
<i>Henrhyd</i>	1845	Bangor 1084
<i>Henrhyd</i>	1854	Bangor 1094
<i>Henryd / Coed Henryd</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Coed Henryd</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Henrhyd</i>	2000	CCPost (Llandwrog)

### ***hen, rhyd***

I'r de-orllewin o bentref Llandwrog. Ffurfiâu 1920 a 1959 sydd yn gywir os mai cyfuniad o *hen* + *rhyd* sydd yma, gan y byddai cael ans. o flaen yr enw yn peri tr. meddal ar ddechrau'r enw. Efallai fod rhyd ar yr afon (afon Bodfan) sydd yn llifo heibio i'r llecyn hwn. Bellach nodir pont-droed yno ar y mapiau OS. Ceir *Henryd* hefyd a *Phont Henryd* ger Conwy (*ELISG*, 73).



<b>Llain-Fadyn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>	
<i>Llain fadyn</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llain Fadin</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Llainfadyn</i>	1839	Bangor	1065
<i>Llainfadyn</i>	1845	Bangor	1084
<i>Llainfadyn</i>	1854	Bangor	1094
<i>llain fatyn</i>	1858–9	Bangor	534
<i>Llain-fadyn</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Llainfadyn</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

***llain, e.p. Madyn***

Ar gyrion eithaf de-orllewinol Rhostryfan yn y rhan honno o Ros-isaf sydd ym mhlwyf Llandwrog. Gallai'r ail elfen fod yn enw cyff. *madyn*, sef 'llwynog', ond mae'n fwy tebygol o fod yn e.p. Mae *Madyn* yn ffurf fachigol ar yr e.p. *Madog* (WS, 156–7). Symudwyd hen fwthyn *Llain-Fadyn*, a adeiladwyd yn 1762, i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan a'i ailgodi yno yn 1962 (*AmgWC*, 20). Darn hirgul o dir yw *llain*.

<b>Llain-ffynnon</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>	
<i>Llainyffynon</i>	1839	Bangor	1065
<i>Llain y ffynnon</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Llainyffynon</i>	1845	Bangor	1084
<i>Llainyffynon</i>	1854	Bangor	1094
<i>Llain-ffynnon</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Llain-ffynnon</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Llain Ffynnon</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***llain, y, ffynnon***

I'r de o bentref Y Groeslon.

<b>Llain-y-llwynog</b>	<b>Llandwrog</b>		
<i>Llain y llwynog</i>	1779	Ll&Brynodol	D1097–8
<i>Llain y Llwynog</i>	1787	Ll&Brynodol	D1102–3
<i>Llain y llwyernog</i>	1795	EwBangor	B1795/74 7707
<i>Llain y llwynog</i>	1800	Ll&Brynodol	D1105–6
<i>Llainyllwynog</i>	1811	Ll&Brynodol	D1110–11

***llain, y, llwynog***

Mae'n amlwg mai annedd sydd uchod, ond ni lwyddwyd i'w leoli. Fodd bynnag, nodir cae o'r enw hwn ar Forfa Dinlle yn 1866 (Tryfan. 103), ac mae'n bosib mai yno oedd yr annedd hefyd.

<b>Llain yr Eglwys</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4455</b>	
<i>Llan</i>	1839	Bangor	1065
<i>Llain yr Eglwys + Tynesaf Llan</i>	1845	Bangor	1084
<i>Llaine glwys</i>	1854	Bangor	1094
<i>Llain Yr Eglwys</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***llain, yr, eglwys***

I'r gorllewin o ganol pentref Llandwrog. Mae'n bosib mai rhan o dir yr eglwys (*glebe*) oedd y tir hwn ar un adeg.

<b>Lleiniau</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4455 (1) / SH 4855 (2)</b>	
<i>Leinia</i>	1725	NewGlynllifon	XD2 / 7655
<i>Lleinia</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Lleinia</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>llainia</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Lleiniau</i>	1776	EwBangor	B1776/76 4729
<i>llineia</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Linia</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>lleinia</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Lleinia</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Lleinia</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Llinia</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llenia</i>	1809	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Lleinea</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Lleinia</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Lleinia</i>	1839	Bangor	1065
<i>Lleiniau</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Lleinan</i>	1844	EwBangor	B1844/113 16369
<i>Lleinia</i>	1845	Bangor	1084
<i>Lleinia</i>	1854	Bangor	1094
<i>Lleiniau (1 a 2)</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Lleiniau</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Lleiniau (1)</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)
<i>Lleiniau (2)</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

### ***llain, llu. lleiniau***

Mae dau anedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llandwrog. Saif y naill (1) i'r gogledd-orllewin o ganol pentref Llandwrog a'r llall (2) yn rhan ogleddol pentref Y Groeslon. Ym mwyafrif y cofnodion uchod gwelir ynganiad llafar lleol yr enw gyda'r terfyniad *-a* yn hytrach nag *-au*. Camddarllen *-n* am *-u* sydd yng nghofnod 1844.

<b>Llwyn-Cwla</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656</b>	
<i>Llwyn Cwlla</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>llwyn Cwla</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>llwun Cwla</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwun Cwla</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyncwla</i>	1773	NewGlynllifon	XD2/ 7833
<i>Lwyn gwla</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyn Cwla</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>Llwn gwla</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyn Cwla</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Llwyn Cwta</i>	1784	EwBangor	B1784/103 6132
<i>Llwyn Cwla</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Llwyn Cwlla</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Llwynygwla</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwynygwlla</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyncwla</i>	1815	EwBangor	B1815/102 10989
<i>Llwyn-cwla</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Llwyn Cwla</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Llwynygwlla</i>	1831	Bangor	8554
<i>Park Llwncwla</i>	1839	Bangor	1065
<i>Park Llwncwla</i>	1845	Bangor	1084
<i>Llwyn gwla</i>	1854	Bangor	1094

### *llwyn, cwla*

Mae map rhagbaratoawl Dawson ar gyfer yr OS (1816–20) yn lleoli'r annedd hwn rywle rhwng Bethesda-bach a Llandwrog, ond gan ei fod yn fap mor amhendant ei linellau mae'n anodd pennu'r union leoliad. Yn ôl y CCPost 2000, ceir annedd o'r enw *Llwyn* yn ardal Bethesda-bach heddiw, ond mae'n anodd dweud a yw ar yr un safle ai peidio. Mae dwy ystyr i'r ans. *cwla*. Yn Arfon, fel rheol, fe'i defnyddir i ddisgrifio rhywun gwael ei iechyd, ond gall olygu rhywbeth gwantau neu wachul yn gyffredinol. Gallai, felly, gyfeirio at llwyn gwywedig. Gall hefyd gyfeirio at rywbeth a'i glustiau wedi eu tocio, ond nid oes cyfeiriad at ei ddefnyddio i ddisgrifio llwyn wedi ei docio.

Yn wir, mae'r cyfuniad o'r ans. *cwla* â'r e. *llwyn* mor annisgwyl a diystyr fel y dylid gofyn ai ans. sydd yma o gwbl. Tybed nad e.p. sydd yma? Yn yr adroddiad o drafodion llys yng Nghaernarfon yn 1362 ceir cyfeiriad at ŵr o'r enw *Robert Culla* (CCR, 20), ac yn 1369 ceir cyfeiriad at *Ieuan ap Ken'* [Cynwrig] *Culla* (ibid. 53). Nid oes awgrym mai gwŷr o ardal Llandwrog oedd y rhain, ond o leiaf mae'n dangos fod *Cwla* yn enw neu'n llysenw a fodolai unwaith nid nepell o'r ardal hon. Ceir *Colla* fel e.p. yn gynnar iawn yn Iwerddon (DS, 133), ond ni wyddys a oedd cysylltiad rhyngddo â'r enw *Cwla*.

### **Llwyn-y-gwalch**

### **Llandwrog**

### **SH 4756**

<i>Llwyn y gwalch</i>	1656–7	CQSR	1656/7, 15 (1)
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1671	P. yr Aur Add.	1380
<i>Llwyn y gwalch</i>	1695	Dolfrïog	326
<i>Llwyn y Gwallch</i>	1708	EwBangor	B1708/46 95385
<i>Llwyn y gwalch</i>	1755	EwBangor	B1755/74 850
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1763	EwBangor	B1763/202 2367
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Llwyn y gwalch</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1772	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Llwyn y Gwalch</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Llwyn y gwalch</i>	1806	P. yr Aur	20820
<i>Llwyny gwalch</i>	1813	P. yr Aur	21021
<i>Llwyn Gwalch</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Llwyn y gwalch</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Llwynygwalch</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Llwynygwalch</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Llwyn-y-gwalch</i>	1838	Map OS	75
<i>Llwyn y gwalch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Llyn-y-Gwalch</i>	1889	NewGlynllifon	XD2 / 6672
<i>Llwynygwalch</i>	1889	NewGlynllifon	XD2 / 6673
<i>Llwyn-y-gwalch</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Llwyn-y-gwalch</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Llwyn Y Gwalch</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

### ***llwyn, y, gwalch***

Ar y lôn sydd yn dod i lawr o Garmel wrth nesáu at yr hen ffordd o Lanwnda i'r Groeslon trwy Dolydd. Yma y magwyd Ellis Roberts (Elis Wyn o Wyrfaï) (1827–95), y clerigwr, bardd, a beirniad eisteddfodol (*Byw*, 810–11).

Cadwodd yr enw ei ffurf yn ddigyfnewid trwy'r blynyddoedd, ac eithrio'r *Llyn* yn un o gofnodion 1889, a gellir cymryd mai camgopio sydd yma. Mae cyfuno *llwyn* + enw aderyn mewn e.lle yn eithaf cyffredin: ceir *Llwyn-y-piod* ym mhlwyf Llandwrog, *Llwyn-y-brain* yn Llanrug, *Llwyn-y-cogau* ger Brynrefail ac ym mharc Glynllifon, *Llwyn (y) petris* yn Llangyndeyrn a Phontyberem a sawl aderyn arall mewn llwyn ar hyd a lled Cymru.

<b>Llwyn-y-piod</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656</b>
<i>Llwyn-y-peiod</i>	1724	Henblas B 164
<i>Llwyn-y-piod</i>	1725	Cynhaiarn 472
<i>Llwyn y Piod</i>	1736	Henblas B 160
<i>Llwyn-y-peiod</i>	1743	Henblas B 168
<i>Llwyn Piod</i>	1760	Henblas B 175
<i>Llwyn y Piod</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>llwyn y Piod</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Llwyn Biodd</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Llwyn y piod</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Llwynypiod</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Llwyn y Piod</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Llwynybiod</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Llwyn y Piod</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Llwyn y Piod</i>	1807	NewGlynllifon XD2 / 6697
<i>Llwyn y Piod</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Llwynypiod</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Llwynypiod</i>	1826	Rumsey Wms 970
<i>Llwyn y piod (ucha' / Llwyn y piod (isa')</i>	1842	RhPDegwm
<i>Llwynypiod</i>	1858	NewGlynllifon XD2 / 6707
<i>Llwyn-piod</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Llwyn-piod</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Llwyn Piod</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

### ***llwyn, y, pioden, llu. piod***

Rhwng Y Groeslon a Llandwrog ar gyrion parc Glynllifon. Yr ail elfen yw *piod*, sef ffurf luosog *pioden*. Ceir *Llwyn-piod* hefyd ym Mynachlog-ddu (*PNPem*, 129) ac Aberteifi, ac yn ei ffurf unigol arall, *pia*, yn *Llwynypia* yn y Rhondda.

<b>Morfa-coch</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4356</b>
<i>Morfa Coch</i>	1839	Bangor 1065
<i>Morfa Coch</i>	1845	Bangor 1084
<i>Morfa Coch</i>	1854	Bangor 1094
<i>Morfa-coch</i>	1959	Map OS SH 45

### ***morfa, coch***

Gweler *Glan-y-morfa* uchod.

<b>Mount Hazel</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656</b>
<i>Mount Hazel</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Mounthazel</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Mount Hazal</i>	1810	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Mount hazel</i>	1814	Rumsey Wms 879
<i>Mount Hazel</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081, D4
<i>Mount Hazael</i>	1822	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Mounthazel</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Mount hazele</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Mountazal</i>	1831	Bangor 8554
<i>Mount Hazel</i>	1838	Map OS 75
<i>Mounthazel</i>	1839	Bangor 1065
<i>Mounthazel</i>	1845	Bangor 1084

<i>Mounthazel</i>	1854	Bangor	1094
<i>Mount hazel</i>	1856	EwBangor	B1856/104 19227
<i>Mount Hazel (formerly Collfryn)</i>	1882	NewGlynllifon	XD2 / 6667
<i>Mount Hazel</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Mount Hazel</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Mount Hazel</i>	2002	Map OS	Explorer 254

**Saes. *mount, hazel***

Rhwng Bethesda-bach a Llandwrog. Y cofnod mwyaf arwyddocaol uchod yw un 1882 sydd yn uniaethu *Mount Hazel* â *Chollfryn* (q.v.). Nid yw hyn yn hollol gywir gan fod *Mount Hazel* a *Chollfryn* yn bodoli hyd heddiw fel dau annedd ar wahân, er eu bod yn agos i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod cysylltiad rhyngddynt: mae'n debyg fod *Mount Hazel* wedi ei adeiladu ar dir *Collfryn*. Cyfieithiad eithaf rhodresgar o *Collfryn* yw *Mount Hazel* mewn gwirionedd. Cyfeiria William Hopley yn syml ato fel 'yr Hazel'<sup>1</sup>.

<b>Nantlle</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 5153</b>
<i>Nantllew</i>	c. 1200	<i>PKM</i>	89. 291n
<i>Nanthlyne</i>	1291	<i>Tax. Nich.</i>	292
<i>Naulle</i>	1612	Speed	
<i>Nanlley Bach</i>	1625	Mostyn B	409
<i>Nauelle</i>	1645	Blaeu	
<i>Nanlley</i>	1658	Mostyn B	1391
<i>Nanlley</i>	1658	Nannau	1894
<i>Nanlley</i>	1675	EwBangor	B1675/25
<i>Nanlle</i>	1740	EwBangor	B1740/63 99991
<i>Nantlle</i>	1769	EwBangor	B1769/70 3577
<i>Nanlley</i>	1770	AI Pryce	707
<i>Nanlley</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nanlla</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plas yn Nantlley</i>	1771	Poole	1922
<i>nanlley &amp; tu nant</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nanlly</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plas yn y Nant Eley alias Dolefellen</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>Plas yn y Nant Elly</i>	1782	NewGlynllifon	XD2 / 7661-2
<i>Nally / Nanlly</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Melin Nantley</i>	1788	Poole	1972
<i>Nant lley</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Nantlleu</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nanlle</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nantlle</i>	1795	JE/MNW	
<i>Nantlley</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nantlle</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nantlle</i>	1809	EwBangor	B1809/63 9890
<i>Nanthe</i>	1816-20	Dawson. Bangor	f34081, D4
<i>Nantlla</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Nantlla</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nantlle</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Nanlla</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nantlle</i>	1835	Rumsey Wms	381
<i>Nant-y-llef</i>	1838	Map OS	75
<i>Nantlle</i>	1839	EwBangor	B1839/111 15360
<i>Nantlle</i>	1920	Map OS	XXI S.W.

<sup>1</sup> *Hanes Methodistiaeth Arfon: Dos. Clynnog*, 180.

<i>Nantlle</i>	1957	Map OS	SH 55
<i>Nantlle</i>	2000	CCPost	(Nantlle)

***nant, e.p. Lleu***

Mae *Nantlle* heddiw yn bentref, a *Dyffryn Nantlle* yn ardal, rhwng Pen-y-groes a Drws-y-coed. Dengys y cofnodion uchod fod yna annedd o'r enw *Plas yn Nantlle* ar un adeg. Fe'i hadeiladwyd tua 1350 a daeth yn rhan o stad Kinmel yn y 19g. (*Eryri*, 32).

Mae *Nantlle* yn enw a esgorodd ar sawl cais i'w esbonio. Arferid credu ers talwm mai 'Nant y llef' oedd yr ystyr, a chyfeirid at y traddodiad fod bwystfil disglair ei wedd o'r enw Aurwrychyn yn byw yno ar un adeg (*HCHPNN*, 52). Cafodd y creadur druan ei erlid gan helwyr i gyffiniau Baladeulyn, lle rhoddodd lef dorcalonnus a bythgofiadwy (*Cymru*, IX (1895), 103). Sonia hanesyn arall am dân ofnadwy a ysodd y coed yn Nrws-y-coed, ac mai'r 'llef' oedd sŵn udo anifeiliaid y goedwig wrth iddynt drengi yn y tân (ibid.).

Dywed Syr Ifor Williams mai *Nant* yw enw'r dyffryn, ac mai 'Nanlla (Nantlle)' yw enw'r cwrr uchaf ohono o gwmpas Baladeulyn (*PKM*, 291n). Ym mhedwaredd gainc y Mabinogi ceir hanes hwch yn arwain Gwydion at y fan lle mae Llew Llaw Gyffes yng nghudd ar lun eryr mewn derwen. Disgrifir Gwydion yn dilyn trywydd yr hwch i fyny'r afon 'a chyrchu nant a wnaeth, a elwir weithon *Nantllew*' (ibid. 89). Eglura Syr Ifor mai camddarllen yr *u* yn *Nantlleu* am *w* a geir yma (ibid. 291n). Cyfeiria hefyd at yr englyn yn Pen. 98B.50: 'Y bedd yngorthir *nanllau* / ni wyr neb ei gynneddfau / mabon vab mydrion glau' fel enghraifft gynnar o'r enw a'i ynganiad naturiol. Gan ddilyn dadl Syr Ifor, rhaid casglu mai 'Nant Llew' neu 'ddyffryn Llew' yw ystyr yr enw (Gweler hefyd *Enwau*, 33–5). Afraid yw ailadrodd y ddwy elfen gyfystyr *dyffryn* a *nant* yn enw ardal *Dyffryn Nantlle*. Mae'r *Bro Llew* a geir yn enw ysgol gynradd Pen-y-groes yn fwy cywir.

Ond wedi dweud hyn oll am *Leu*, mae gan yr Athro Hywel Wyn Owen ddadl sydd yn tanseilio'r cwbl a gynigiwyd uchod. Gwrthododd mai *din* + *Lleu* oedd elfennau *Dinlle* (*DELLMald.*, 6–7: gweler dan *Dinas Dinlle* uchod). Mae hefyd yn amau nad *nant* + *Lleu* sydd yn *Nantlle*. Mae'n seilio ei ddamcaniaeth y tro hwn ar y cofnod o 1291 a nodir yn y tabl uchod, sef *Nanthlyne*. Cred mai 'Nant Llynau' sydd yma, yn cyfeirio at y ddau lyn o bobtu Baladeulyn gynt. Fodd bynnag, mae ei ddamcaniaeth am *Dinlle* yn argyhoeddi'n fwy na'r un am *Nantlle* gan nad oes awgrym o'r elfen *llyn* yn yr un o'r cofnodion eraill a nodwyd uchod. Rhaid cyfaddef bod y rheiny, wrth gwrs, yn rhai llawer diweddarach, ond ni ellir diystyru'r ffurf yn *PKM* ychwaith.

**Pen-bryn-Bwlan**

**Llandwrog**

<i>ben y bryn Bwlan</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen y brun bwlan</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen Bryn-Bwlan</i>	1772	EwBangor	B1772/71 4068
<i>Pen bryn bwlan</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen Pryn Pwlan</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penbryn bwlan</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>bembrun bwlan</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen Brynbwlen</i>	1781	EwBangor	B1781/75 5552
<i>Penbryn Bwlan</i>	1785	EwBangor	B1785/78 6292
<i>Penbryn bwlan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Penbrunbwlan</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen bryn bwlan</i>	1818	EwBangor	B1818/90 11497
<i>Penbrynbwlan</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Pen Bryn Bwlan</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penbrynbwlan</i>	1839	Bangor	1065

***pen, bryn, e.ll. Bwlan***

Heb ei leoli, ond rhaid casglu ei fod yng nghyffiniau *Bwlan* (q.v.). Mae'n debyg ei fod wedi magu'r cynffon *Bwlan* i wahaniaethu rhyngddo â *Phenbryn Hafoty* (Cim) a *Phenbryn Rhos* (Y Groeslon).

<b>Penbryn-Hafoty</b>	<b>Llandwrog</b>		
<i>Penbrynhafodty</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penbryn Hafodty</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penbryn Hafotty</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen Bryn Hafoty</i>	1849	Myn. Pisgah	039
<i>Pen y Bryn Foty / Pen y Bryn Foty Cottage</i>	2000	CCPost	(Carmel)

**pen, bryn, e.ll. Hafoty**

Yn ardal Cim, i'r gogledd-orllewin o bentrefan Y Fron ac i'r de o chwareli Moel Tryfan. Ambell dro cyfeirir at yr annedd hwn fel *Hafoty Pen-bryn* (*TyCh*, 25). Yma, ac yng Nglynmeibion yr arferid cynnal cyfarfodydd cynharaf yr Annibynwyr yn yr ardal cyn agor capel Pisgah (*HEgA*, III, 229–30).

<b>Pencaesion</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4854</b>
<i>Pen cae Sion</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Pencaesion</i>	2000	CCPost	(Carmel)

**pen, cae, e.p.Siôn**

Ar gyrion gorllewinol Carmel, nid nepell o *Gae Siôn Dafydd* (*Caesion*) q.v. Gyda *Phencaesion* fel gyda *Chaesion* cyfunwyd yr elfennau *cae* a *Siôn* yn un gair gyda'r acen ar *cae* > *cei*. Dywed Syr Thomas Parry mai tyddyn ar dir *Caesion* oedd *Pencaesion* yn wreiddiol (*AmBethau*, 42).

<b>Penfforddfelen</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4855</b>
<i>penfforddfelan</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen ffordd felan / penfforddfelan</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penfforddfelan</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Pen y ffordd felan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Pen y ffordd felen</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen-y-ffordd felan</i>	1791	EwBangor	B1791/55 7054
<i>penyffordd</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Pen y ffordd felen</i>	1803	EwBangor	B1803/79 8939
<i>Llain y meibion otherwise</i>	1810	Rumsey Wms	444
<i>Penfforddvelen</i>			
<i>penfforddfelan</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Penfordd felan</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penforddellen</i>	1820	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penfforddfelin</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Penffordd Helen</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penfforddfelan</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penfforddfelan</i>	1831	Bangor	8554
<i>Pen ffordd felen / Penfforddellan</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Pen-ffordd-Helen</i>	1891	Map OS	XX N.E.
<i>Pen-ffordd-Helen</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Penfforddellan</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

**pen, ffordd, ans. melyn, ben. melen**

Yn rhan ogledd-ddwyreiniol Y Groeslon. Fe welir mai'r ans. ben. *melen* sydd yn y drydedd elfen tan 1820 yn y cofnodion uchod. Wedyn mae'r chwiw o dynnu Elen / Helen i mewn i enwau lleoedd yn dechrau yma eto fel mewn cynifer o enwau eraill yn ardal yr astudiaeth hon. Fodd bynnag, datblygiad gweddol ddiweddar yw hyn yn yr enw uchod<sup>1</sup>. Yn achos *Penfforddfelen*, mae hyd yn oed y brodorion braidd yn ansicr ynglŷn â pha ffurf i'w harddel. *Penfforddelen* meddai Syr Thomas Parry (*Atgofion*, 41): felly hefyd ei frawd Gruffudd Parry (*CO*, 142). *Penfforddelen* meddai John Gwilym Jones yntau ar un achlysur (*ADaAH*, 29), ond *Penfforddfelen* dro arall (*Atgofion*, 104). Eto, credai John Gwilym Jones mai Elen Luyddog a roes ei henw i'r lle hwn<sup>2</sup>; felly hefyd y cred llawer o drigolion presennol Y Groeslon (*HyG*, 15). Fodd bynnag, mae rhai am ddwyn Elen arall, sef chwaer Gwennan a Maelan, oddi ar Landwrog a'i throsglwyddo o Dyddyn-Elen, Llandwrog i Benfforddelen i geisio esbonio'r enw (ibid.; am yr Elen hon gweler *Tyddyn-Elen* isod).

Pen-lan	Llandwrog / Llanwnda		SH 4857
<i>Penlan bach</i>	1814	EwBangor	B1814/85 10832
<i>Penlan</i>	1842	RhPDEgwm	
<i>Pen-lan-isaf / Pen-lan-uchaf</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Penlan Isaf / Penlan Uchaf</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

#### **pen, glan**

Mae *Penlan-isaf* a *Phenlan-uchaf* ar gyrion deheuol eithaf Rhostryfan yn ardal Rhos-isaf, ond fod *Penlan-isaf* ym mhlwyf Llanwnda a *Phenlan-uchaf* dros y ffin ym mhlwyf Llandwrog. Mae sawl ystyr i *glan*: torlan, traeth, llethr, bryncyn. Gweler hefyd *Penlan* dan Anheddau Llanwnda.

Penllech	Llandwrog		SH 4456
<i>Benllach</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Pen llach</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penllach</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>benllach</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ben Llach</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Benllech</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Benllech</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Ben Llach</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penllech</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Benllech</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Benllach mawr</i>	1831	Bangor	8554
<i>Benllach</i>	1839	Bangor	1065
<i>Penllach</i>	1842	RhPDEgwm	

#### **pen, llech**

Mae map y Degwm yn nodi'r annedd hwn rhwng *Plas-tan-dinas* a *Bodfan* (q.v.) nid nepell o'r môr, fel yr awgryma'r 'Cae bach glan môr' sydd ar ei dir (RhPDEgwm). Nodir cae o'r enw 'Cae Benllach' ar dir *Bodfan* (ibid.). Y *benllech* fel rheol oedd y maen mawr a orwedda fel to ar ben tri neu ragor o feini ar eu sefyll mewn cromlech. Ceir *Penllech* hefyd rhwng Tudweiliog ac Aberdaron yn Llŷn, a'r *Benllech* ar arfordir dwyreiniol Môn (*YEE*, 17).

<sup>1</sup> Ym mhlwyf Llanbeblig trodd *Coed-Alun* > *Coed-Helen* yng nghanol y 18g. ac *Is-Alun* > *Is-Helen* yn niwedd y 18g. ond nid yw Elen yn cyrraedd Y Groeslon tan 1820.

<sup>2</sup> *Capel ac Ysgol*, (Darlith Flynyddol Llyfrgell Pen-y-groes, 1970–1), 17.



<b>Penrallt</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656 / SH 4855</b>	
<i>pen r allt / Penyrallt</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penyralld</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>pen r allt</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penrallt</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Penrallt</i>	1784	EwBangor <sup>1</sup>	B1784/102 6131
<i>Penrallt</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>penralld</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>pen r allt</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penrhallt</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Penrallt</i>	1814	Rumsey Wms	1873
<i>penrallt</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Penrallt</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Penyrallt / Pen'rallt</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Pen-yr-allt</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Penrallt</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***pen, yr, allt***

Mae cofnod 1789 yn nodi *Penrallt* ddwy waith, dan 'Upper Llandwrog' a 'Lower Llandwrog', a rhestrir yr enw ddwywaith hefyd yn RhPDegwm. Mae map y Degwm yn nodi'r un yn Llandwrog Uchaf yn rhan ogleddol pentref Y Groeslon, oddi ar yr allt sydd yn dringo i fyny i gyfeiriad Carmel, tra bo'r un sydd yn Llandwrog Isaf ychydig i'r de o Fethesda-bach.

<b>Penrhiwiau</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4954</b>	
<i>Pen Rhiwiau</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Penrhiwiau</i>	2000	CCPost	(Cilgwyn)

***pen, rhiw, llu. rhiwiau***

Yn ardal y Cilgwyn i'r de o Fynydd y Cilgwyn.

<b>Penrhosgwta</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4857</b>	
<i>Havodevan otherwise Penrhos cwta</i>	1813	P. yr Aur	19646
<i>Penrhosgwtta</i>	1830	EwBangor	B1830/85 13582
<i>Penrhos cwta</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Penrhosgwta</i>	1851	EwBangor	B1851/131 17994
<i>Pen Rhoes Gwtta</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pen-rhôs-gwta</i>	1920	Map OS	XV S.E.
<i>Pen-rhôs-gwta</i>	1959	Map OS	SH 45

***pen, rhos, cwta***

Rhwng Dolydd a chyrion Rhos-isaf ar y ffin rhwng plwyfi Llanwnda a Llandwrog. Eb. yw *rhos*, er na threiglir yr ans. ar ei ôl yng nghofnodion 1813 ac 1842. Er bod cofnod 1813 yn uniaethu *Penrhosgwta* â Hafod Ifan mae'r annedd hwnnw ychydig i'r de o *Benrhosgwta*.

<b>Penrhos-nenan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755</b>	
<i>Penrhosnenan</i>	1822	P. yr Aur Add.	1966
<i>Penrhos Nenan</i>	1841	C. Vincent	2529

<sup>1</sup> Enw anghyffredin y wraig y cofnodir ei hewyllys yng nghofnod 1784 oedd Hoccadavia Roberts.

<i>Penrhos Nenan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Penrhos-nenan</i>	1920	Map OS	XX N.E.

***pen, rhos, onnen, llu.onennau?***

Ar gyrion deheuol Y Groeslon. Mae'n anodd esbonio'r drydedd elfen. Wrth drafod lluosogion dwbl, cyfeiria Syr Ifor Williams at yr enw *Clenennau* gan esbonio *celynennau* fel lluosog amgen *celynnen*, a chyfeiria hefyd at *Onennau Meigiawn* rywle ar y gororau<sup>1</sup> (*ELleoedd*, 68). Tybed nad 'onennau', sef ffurf luosog brin ar 'onnen' sydd yma hefyd? Er mai *n* sydd ar ddiwedd *nenan*, mae'r ffurf *nennau* hefyd yn digwydd fel amrywiad ar yr enw hwn ac mewn enwau eraill yn yr ardal: gweler *Bryn-nennau* uchod. Mae *Cefn-nen* hefyd (q.v.) yn peri penbleth. Isod gwelir yr enghreifftiau a nodwyd o'r enw *Rhos-nennau / Rhos-nenan*.

<i>Rros Nenna</i>	1556	NewGlynllifon	XD2 / 6621
<i>Rhos Ninian</i>	1809–11	<i>Des. Caerns.</i>	213
<i>Rhosynenau</i>	1821	Rumsey Wms	936
<i>Rhosnenan</i>	1838	Map OS	75
<i>Rhos Nennau</i>	1857	C. Vincent	2526

Byddai'n hawdd iawn cymysgu *n* ac *u* wrth ddarllen llawysgrifen ond ymddengys fod yma gymysgu ar lafar hefyd sydd yn anodd ei esbonio. Efallai fod cofnod 1556 yn arwyddocaol, yn enwedig gan ei fod yn weddol gynnar. Nid oes terfyniad cyflawn iddo, ond mae'n fwy tebygol i *u* fod wedi ei cholli nag *n*. Dywed Dewi Tomos mai *Rhos-nennan* oedd yr hen enw ar ardal Y Groeslon (*CBLleu*, 12) ond cyfeiria Dafydd Glyn Jones, brodor o'r un ardal, ato fel *Rhos-nennau* (gwybodaeth bersonol). Arferai Annibynwyr cynnar yr ardal gyfarfod yn *Rhos-nennau* o 1843 ymlaen nes agor capel Gosen yn 1849 (*HEgA*, III, 233–4).

<b>Pen-y-bwth / Pen-y-bythod</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4455</b>
<i>Pen y Booth</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen y bwth</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Peny Bothod</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Pen y Pooth</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen y Booth</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen y bwth</i>	1779	EwBangor B1779/70 5234
<i>pen bwth</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Penybothed</i>	1780–87	P.S.Glynllifon 84 (-48)
<i>pen y Bwth</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Peny Bwthod</i>	1782	Ll&Brynodol R161
<i>Penarbythod</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen'r bythod</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Penrbythod</i>	1789	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen y Bythod</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Penybutthod</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Penybythod</i>	1803	EwBangor B1803/77 8937
<i>Penybwthod</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Benybutthod</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen y Bythod</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Pen y Bythod</i>	1816–20	Dawson. Bangor f34081, D4
<i>Benybythod</i>	1819	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Penybythod</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Peny Bwth</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Peny Bwth / Bwthog</i>	1834	EwBangor B1834/84 14291
<i>Pen-y-bwth</i>	1838	Map OS 75

<sup>1</sup> Mae R.J. Thomas yn lleoli'r lle hwn ger Bridgnorth. Swydd Amwythig (*EANC*, 103).

<i>Penybythod</i>	1839	Bangor	1065
<i>Pen y Bwth</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Pen y Bythod</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Penybythod</i>	1854	Bangor	1094
<i>Pen-y-bythod</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Penybythod</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Pen Y Bythod</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

***pen, y, bwth, llu. bythod***

I'r de-orllewin o bentref Llandwrog rhwng yr A499 a'r môr. Mae'r enw yn cychwyn fel *Pen-y-bwth* ond yn newid i *Ben-y-bythod* tua 1780 ac eithrio un enghraifft gynharach o'r *llu. bythod* yn 1773. Ni fu'r trawsnewid yn llwyr a phendant, fodd bynnag, oherwydd ceir tair enghraifft o *Pen-y-bwth* yn 1838, 1839 a 1842 cyn adfer y ffurf *Pen-y-bythod* unwaith yn rhagor. Ystyr *bwth* yw caban neu gwt.

<b>Pen-y-gamfa</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4855</b>	
<i>Pengamdda</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Pen y Gamdda</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Pen y Gamfa</i>	1855	EwBangor	B1855/157 18987
<i>Pen-y-gamfa</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Pen Y Gamfa</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***pen, y, camfa***

I'r gogledd o bentref Y Groeslon. Sylwer ar yr ynganiad llafar lleol *gamdda* yng ngofnodion 1842 a 1851, gyda'r *f > dd*. Yng nghofnod 1842 mae'r fannod wedi ei cholli ond y tr. meddal wedi ei gadw.

<b>Pen-yr-orsedd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5153</b>	
<i>Pen-yr-orsedd</i>	1838	Map OS	75
<i>Pen yr Orsedd</i>	1842	RhPDegwm	

***pen, y, gorsedd***

Ar lethrau Mynydd y Cilgwyn. Yr oedd hefyd yn enw ar chwarel lechi a agorwyd yno yn 1816. Yn 1886 hon oedd y fwyaf o chwareli Dyffryn Nantlle; yn 1892 yr oedd ynddi 445 o weithwyr ond erbyn heddiw pedwar yn unig a gyflogir (*TyCh*, 32–3). Ystyr *gorsedd* yma yw 'tomen', 'crug' neu 'garnedd'.

<b>Plas-mawr</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4756</b>	
<i>Y Plas Mawr</i>	1601	Poole	3359
<i>Plas Mawr</i>	1764	Ll&Brynodol	M187
<i>Plass mawr</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plasmawr</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plasmawr</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (52)
<i>Plas Mawr</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>Plas mawr</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>y Plas fawr</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Palasmawr</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plasmawr</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plas Mawr</i>	1814	C. Vincent	3222
<i>Plas mawr</i>	1816–20	Dawson, Bangor	134081, D4
<i>Plase Mawr</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Plasmawr</i>	1824	P. yr Aur	4101

<i>Plâs-mawr</i>	1838	Map OS	75
<i>Plas Mawr</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Plas-mawr</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Plâs-mawr</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Plâs-mawr</i>	2002	Map OS	Explorer 254

**plas, mawr**

Gellir gweld y tŷ solet hwn ar y chwith wrth adael y gylchfan sydd yn arwain i'r Groeslon oddi ar yr A487 wrth fynd i gyfeiriad Caernarfon. Honnai Kate Roberts mai'r *Plas-mawr* oedd cartref ei hen-hen-hen daid William Robinson (*LW*, 72, 74).

<b>Plas-newydd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4554</b>
<i>Plase newydd</i>	1668	P. yr Aur Add. 1432
<i>Plas Newydd</i>	1703	EwBangor B1703/29 94999
<i>Plasnewydd</i>	1707	EwBangor B1707/36 95286
<i>Plasnewydd</i>	1723	EwBangor B1723/69 96865
<i>Plasnewydd</i>	1725	NewGlynllifon XD2 / 7655
<i>Plas Newydd</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Plas newydd</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Plas newydd</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Plas newydd</i>	1775	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Blasnewydd</i>	1778	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Plas Newydd</i>	1780	Nanhoron 410-11
<i>plas Newydd</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Plasnewydd</i>	1783	P. yr Aur Add. 20562
<i>Plasnewydd</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Plase Newydd</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Plas Newydd</i>	1811	P.S.Glynllifon 132
<i>Plasnewydd</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Plâs-newydd</i>	1838	Map OS 75
<i>Plâs-newydd (Remains of)</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Plasnewydd (Remains of)</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Plas Newydd</i>	2000	CCPost (Ffordd Clynnog)
<i>Plas Newydd</i>	2002	Map OS Explorer 254

**plas, newydd**

Rhwng yr A499 a'r lôn sydd yn arwain ohoni i gyfeiriad Pen-y-groes yng nghyffiniau Glynllifon. Y tŷ hwn oedd cartref y teulu Glynne yn y 17g. Mae cnewyllyn y tŷ yn dyddio o 1632, ond fe'i hatgyweirwyd yn helaeth yn y 19g (*IAMC*, 183-4; lluniau ar blatiau 65 a 79; *Eryri*, 32). Er bod mapiau OS 1920 a 1959 yn awgrymu fod yr annedd yn adfeilion, mae hyn yn gamarweiniol: yn 1960 disgrifiwyd ei gyflwr fel 'good, restored' (*ibid.* 184).

<b>Plas Tal-y-sarn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4953</b>
<i>Plas Talsarn</i>	1842	RhPDegwm
<i>Tal-y-sarn Hall</i>	1920	Map OS XXI S.W.
<i>Tal-y-sarn Hall</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Talysarn Hall</i>	2002	Map OS Explorer 254

**plas, tal, y, sarn**

Er bod y rhan fwyaf o bentref *Tal-y-sarn* ym mhlwyf Llanllyfni, mae *Plas Tal-y-sarn* ac anheddau *Tal-y-sarn Isaf* ac *Uchaf* (q.v.) ym mhlwyf Llandwrog. Mae *Plas Tal-y-sarn* i'r

gogledd o chwarel lechi enwog Dorothea<sup>1</sup> yn Nyffryn Nantlle. Fodd bynnag, mae'r tŷ bellach yn adfeilion, er bod yn hawdd gweld iddo fod yn adeilad trawiadol ar un adeg gyda gerddi hardd o'i amgylch (*CBLleu*, 56–7).

<b>Plas-tan-dinas</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4356</b>
<i>tan Dinas</i>	1656/7	CQSR XQS 1656/7, 18
<i>Tan y Dinas</i>	1835	TyD&P M/361 1
<i>Tanydinas</i>	1835	TyD&P M/361 2
<i>Tan y Dinas</i>	1835	Rumsey Wms 420
<i>Tan-y-dinas</i>	1838	Map OS 75
<i>Tanydinas</i>	1839	Bangor 1065
<i>Tan dinas</i>	1842	RhPDegwm
<i>Plastandinas</i>	1845	Bangor 1084
<i>Plastandinas</i>	1854	Bangor 1094
<i>Plas-lan-dinas</i>	1920	Map OS XX N.W.
<i>Plas-tan-dinas</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Plas Tan Dinas (Hotel)</i>	2002	Map OS Explorer 254

#### **plas, tan, dinas**

Yn Ninas-Dinlle, yng nghysgod y fryngaer, fel yr awgryma'r enw. Mae'r tŷ bellach yn westy. Sylwer mai fel eg. yr ystyrir *dinas*: ni threiglir ar ôl y fannod. Eg. yn wir ydoedd gynt, a dyna pam y ceir sawl enghraifft o *Y Dinas* fel e.lle (*ELleoedd*, 78–9).

<b>Rhiwafallen</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4656</b>
<i>Rhiwallen</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>rhiw allan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>rhidallan</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>rhiw hallan</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Rhiwallon</i>	1777	EwBangor B1777/89 4913
<i>Rhuallan</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Riw all</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Rhiwallan</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Riwallen</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Rhewallan</i>	1805	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Rhewfallan</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Rhiwfallan</i>	1819	EwBangor B1819/84 11665
<i>Rhiwfallen</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Rhywafallan</i>	1831	Bangor 8554
<i>Rhiw</i>	1838	Map OS 75
<i>Rhiw allan</i>	1840	Rumsey Wms 49
<i>Rhiwallen otherwise Rhivallon</i>	1840	NewGlynllifon XD2 / 6644
<i>Rhiwallen</i>	1842	RhPDegwm
<i>Rhiwallan</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Rhiw-afallen</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Rhiwafallen</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Rhiwfallen</i>	2000	CCPost (Llandwrog)

#### **rhiw, afallen**

Oddi ar yr A499 rhwng Bethesda-bach a Llandwrog. Llyncwyd sillaf gyntaf yr ail elfen *afallen* ym mwyafrif y cofnodion cynharaf. Adferwyd yr *f* yng nghofnodion 1813, 1819 a

<sup>1</sup> Enwyd y chwarel ar ôl Dorothea Garnons, gwraig perchennog y tir a'r chwarel; felly hefyd *Garnons Street* yn nhref Caernarfon.

1824, er bod yr *a* ar goll o hyd, ac ar goll hyd heddiw yn y CCPost. Ni chafwyd yr enw yn gyflawn uchod ac eithrio yng nghofnodion 1920 a 1959, ac mewn ffurf sathredig yn 1831. Mac J. Lloyd-Jones yn ei nodi fel *Rhiw'r Afallen* (*ELISG*, 22). ond ni welwyd cofnod arall sydd yn cynnwys y fannod.

Rhos-Maelan	Llandwrog		SH 4455
<i>rhos maulen</i>	1773	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>rhos moiolea</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhos Maelan</i>	1774	P. yr Aur	20529a
<i>rhos maulen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rosmalan</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>roshmalan</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhosmachlan</i>	1781	NewGlynllifon	XD2 / 7658
<i>rhose maelan</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>ros Maylan</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhosmaelan</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Rhose maelan</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>rhosemaelan</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhoesmailan</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhosmaelon</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhosmylan</i>	1815	EwBangor	B1815/98 10985
<i>Rhosmeulan</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhosymeilan</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Rhos y Maelan</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhos-y-meilan</i>	1838	Map OS	75
<i>Rhosmeulan</i>	1839	Bangor	1065
<i>Rhosymaelan</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Rhosmaelan</i>	1845	Bangor	1084
<i>Rhos y mi lan</i>	1845	EwBangor	B1845/87 16569
<i>Rhos Maulan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Rhosmeilian</i>	1855	EwBangor	B1855/169 18999
<i>Rhos-y-maelan</i>	1863	Bangor	28503
<i>Rhosmeilon</i>	1898	NewGlynllifon	XD2 / 8591
<i>Rhôs-Maelan</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Rhos Meulan</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

### *rhos, y, maelan*

I'r de-orllewin o bentref Llandwrog. Mae'r elfen *maelan* yn anodd ei hesbonio. Y gred yn yr ardal yw mai enw merch ydyw, a'i bod hi a'i chwiorydd Gwennan ac Elen, yn ôl yr hanes, wedi llwyddo i ddianc i'r tir mawr pan foddwyd Caer Arianrhod (*Cel. Fol.* 208; *AENM*, 29; *WCD*, 87; *Math*, 188, n.59. Gweler hefyd dan *Beddgwenan* uchod). Mae'r enw *Malan / Malen* yn digwydd fel amrywiad ar *Magdalen*, ond mae'r *ae* yn hytrach nag *a* yn sillaf gyntaf yr enw *Maelan* uchod yn rhy gyson i awgrymu mai hyn sydd yma. Ceir *mael* fel elfen mewn e.p. yn Gymraeg, mewn eg. fel rheol, e.e. *Maelgwn*, *Maelog*, *Maelwas*, yn yr ystyr o bennaeth neu dywysog, ac mae'n bosib mai eb. ar yr un patrwm sydd yma. Nid yw presenoldeb y fannod yn peri problem: ceir digon o enghreifftiau o'r fannod o flaen e.p. mewn e.lleoedd.

Rhwng-y-ddwy-afon	Llandwrog		SH 5154
<i>Rhwngddwyafon</i>	1826	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhwng ddwy afon</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhwng y Ddwy Affon</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Rhwngddwyafon</i>	1831	Bangor	8554
<i>Rhwng y ddwy afon</i>	1842	RhPDegwm	

<i>Rhwng Dwyafon</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Rhwng Y Ddwyafon</i>	2000	CCPost	(Llandwrog Uchaf)

***rhwng, y, dau, ben. dwy, afon***  
Ar gyrion y Fron.

<b>Samaria</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4953</b>	
<i>Sammaria</i>	1839	Bangor	1065
<i>Samaria / Sammaria</i>	1845	Bangor	1084
<i>Samaria</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Samaria</i>	1920	Map OS	XXI N.W.
<i>Samaria</i>	2004	TyCh	81

***e.ll.Samaria***

Yn ardal y chwareli llechi ar gyrion Mynydd y Cilgwyn. Yr oedd y Samaria feiblaidd yn enwog fel prifddinas ogleddol y deg llwyth (1Bren.16, 24). Erbyn amser y Testament Newydd yr oedd teyrnas Samaria wedi diflannu, ond defnyddid yr enw 'Samariaid' am drigolion yr ardal honno ac fe'u hystyrid yn estroniaid. Yn wir, fel y tystia dameg y Samariad trugarog, bron nad oedd y Samariaid yn esgymun gan yr Iddewon (Luc 10, 30–7), a gorchmynnodd yr Iesu ei ddisgyblion i osgoi eu dinasoedd pan aent i bregethu'r Eifengyl (Matt. 10, 5). Efallai fod yr annedd uchod mor anghysbell nes peri i'r trigolion feddwl amdano fel rhywle na fyddai neb yn awyddus i fynd iddo. Ceir caeau o'r enw *Babylon* a *Nineveh* yn Lloegr i gyfleu eu lleoliad diarffordd (*EFN*, 158; *NaH*, 84–5)<sup>1</sup>. Mae'n arwyddocaol fod tyddyn arall gerllaw o'r enw *Greenland* (q.v.), sydd yn awgrymu lle oer, anial a digroeso. Dywedir fod hen wreigan dduwiol o'r enw Jane Roberts, a adwaenid fel 'Siân Fwyn' ac a oedd yn dipyn o emynyddes, yn byw yn yr annedd hwn tua dechrau'r 19g. (*HCHPNN*, 62).

<b>Siamber-wen</b>	<b>Llandwrog</b>		
<i>Siamberwen</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Shamberwen</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Shamperwen</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Siampar When</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Chamberwen</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Shamberwen</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Chamber wenn</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Shiamber wen</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Siamberwen</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Siamberwen</i>	1839	Bangor	1065
<i>Shamberwen</i>	1845	Bangor	1084

***siamber, ans. gwyn, ben. gwen***

Heb ei leoli. Benth. yw'r elfen gyntaf *siamber*, naill ai o Saes. Can. neu Saes. Diw. cynnar *chamber*, neu o bosib yn syth o'r Hen Ffrangeg. Yr ystyr fel rheol mewn annedd gwledig yw ystafell wely.

<b>Tafarn-Dudur</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4754</b>	
<i>Tythyn Tuder</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7, 7

<sup>1</sup> Mae'n debyg fod yna lefydd gwaeth: ceir *Sodom* nid nepell o Fodfari, a cheir *Sodom Field* yn Brampton, Swydd Derby a *Gomorrah Close* yn Snaith, Swydd Efrog. (John Field, 'Derogatory Field-Names', *EPNSJ*, 9, (1976–7), 24).

<i>Tythyn Tudur</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7. 9
<i>Tythyn Tudr</i>	1656/7	CQSR	XQS 1656/7. 22
<i>Tavarne Tudur</i>	1710	NewGlynllifon	XD2 / 7690
<i>Taverne Tudor</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Tafarn Dudur</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tfarn Dudur</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>tafarn dudur</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Daffarn Dudur</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Tudor</i>	1780–87	P.S.Glynllifon	84 (48)
<i>Tafarn Tutyr</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Davern dydyr</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tafarndudur</i>	1788	EwBangor	B1788/71 6673
<i>Dafarn dydur</i>	1789	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Dafarndydyr</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Davarn</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tafarn Tudor</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Davarn</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Taverndydyr</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tafarn Dudur</i>	1803	P. yr Aur	20761
<i>Davarn Tydur</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Dafarndudur</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Tafarn Tudor</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Dafarn Dydyr</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tafarn Tudur</i>	1838	Map OS	75
<i>Tafarn dudur</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Dafarn Dudur</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Dafarn-Dudur / Pont Dafarn-Dudur</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Pont Dafarn-Dudur</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tafarn Tudor</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***tafarn, e.p. Tudur***

Oddi ar yr hen lôn (a ddisodlwyd bellach gan yr A487 newydd) sydd yn rhedeg o'r Groeslon i Ben-y-groes. Mae'r annedd a'r bont i'r gogledd o Ben-y-groes, nid nepell o'r ffin rhwng plwyfi Llandwrog a Llanllyfni. *Tyddyn Tudur* oedd yr enw i gychwyn, ond trodd yr elfen gyntaf yn *Tafarn* yn ddiweddarach. Ni wyddys pwy oedd *Tudur*.

**Tafarn-dywarch**

**Llandwrog**

**SH 5056**

<i>Dafarn dowyuche</i>	1779	Ll&Brynodol	D1097–8
<i>Dafarn dywyrch</i>	1787	Ll&Brynodol	D1102–3
<i>Dafarn dywyrch</i>	1811	Ll&Brynodol	D1110–11
<i>Tafarn-dywarch</i>	1838	Map OS	75
<i>Tafarn Dywyrch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Tafarn-dywarch</i>	1920	Map OS	XXI N.W.

***tafarn, tywarch, llu. tyweirch / tywyrch***

Mewn llecyn diarffordd rhwng cyrion deheuol eithaf Rhosgadfan a chyrion gogleddol pellaf Cim. Yr ail elfen yw naill ai *tywarch*, enw sydd yn fwy cyfarwydd yn ei ffurf fachigol *tywarchen*, sef talp o bridd neu glai, neu'r ffurf luosog *tyweirch / tywyrch*, a fyddai o bosib yn gwneud mwy o synnwyr. Mae W.Gilbert Williams yn esbonio tarddiad yr enw<sup>1</sup>. Dywed mai rhyw fath o westy cyntefig oedd yma i letya'r sawl a gludai'r copr o fwyngloddiau Drws-y-coed dros y mynydd i Gaernarfon. Gwneid to'r dafarn o dywyrch cyn i'r diwydiant llechi

<sup>1</sup> Mewn erthygl o'r enw 'Ffrwd Cae-Du' yn y *Caernarvon and Denbigh Herald*, 12 Mai, 1933. Ceir copi o'r erthygl yn Bangor 21043.



ddod i'r ardal. Nid yw'r enw yn unigryw: ceir *Dafarn-dyweirch* ger Rhos-y-bol, Môn (GM-J. 85), a chyfeiria George Borrow at dafarn o'r enw 'Tafarn Tywarch' rhwng Rhuthun a Wrecsam, a oedd ar un adeg yn 'turf hovel' nes iddi gael ei hailadeiladu<sup>1</sup>.

<b>Tai Elen Glyn</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4556</b>
<i>Alms House</i>	1847	EwBangor	B1847 / 137 17045
<i>Almshouses</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Almshouses</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tai Elen Glyn</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)
<i>Tai Elen Glyn</i>	2002	Map OS	Explorer 254

**tŷ, llu. tai, e.p.Elen Glyn**

Mae'r adeilad hardd hwn i'r gogledd o bentref Llandwrog. Yr oedd Ellen Glynne yn ferch ac yn aeres i Richard Glynne ap William Glynne o Fryn-Gwydion ym mhlwyf Llanllyfni. Bu Ellen farw c.1753 (*JEGPed*, 175) a chymynnodd ran o'i hetfeddiaeth tuag at sefydlu elusendai ar gyfer deuddeg o ferched bonedd amddifaid neu dlawd. Erbyn heddiw addaswyd yr elusendai yn fflatiau (*CBLleu*, 23).

<b>Tai-gwynion</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4456</b>
<i>Tai Gwynnion</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>tai Gwnion</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>tai gwnion</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tai gwnion / Tai gwynnion</i>	1778	P. yr Aur	14494
<i>Tai Gwinion</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tai gwnion</i>	1785	P. yr Aur	20570
<i>Tai Gwnion</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tai Gwnion</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tai Gwnion</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Taigwinion</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tai Gwynion</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Taigwnion</i>	1812	P. yr Aur Add.	1888
<i>Tai gwnion</i>	1812	EwBangor	B1812/68 10431
<i>Taigwnion</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Cae-gwynion</i>	1838	Map OS	75
<i>Taigwynion</i>	1839	Bangor	1065
<i>Tai Gwynion</i>	1842	RhPDeqwm	
<i>Tai gwynion</i>	1846	EwBangor	B1846/126 16805
<i>Tai-gwynion</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Tai-gwynion</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tai Gwynion</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)

**tŷ, llu. tai, ans. gwyn, llu. gwynion**

Rhwng pentref Llandwrog a Dinas-Dinlle. Yma y magwyd nain John Gwilym Jones, y dramodydd (*ADaAH*, 13). Camgymeriad yw'r *Cae-gwynion* yng nghofnod 1838: mae'r enw hwn wedi ei nodi ar safle *Tai-gwynion*. Mae'n debyg mai'r 'tai allan', sef y cytiau a'r stordai, a oedd wedi eu gwyngalchu oedd y 'tai gwynion'.

<b>Talar-Siencyn</b>	<b>Llandwrog</b>		<b>SH 4756</b>
<i>Talar Shienkin</i>	1720	Ll&Brynodol	D344
<i>Talar Shienkin</i>	1720	Ll&Brynodol	D345

<sup>1</sup> George Borrow, *Wild Wales*, 85-6.

<i>Talar Shenkin</i>	1748	Ll&Brynodol	D402-3
<i>Tau Sienkin</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Talar Shienkyn</i>	1766	Ll&Brynodol	R46
<i>taler Sienkin</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talar Sinkin</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talar Shienkyn</i>	1771	Ll&Brynodol	R48
<i>Talar Shienkin</i>	1772	Ll&Brynodol	R49
<i>tal Sienkin</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>tal y siencyn</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talsincyn</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>tal y Senkin</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talar Jenkins</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talar sengin</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talsencin</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>talarseincin</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talar Jenkin</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talar Shienkyn</i>	1795	Ll&Brynodol	R80
<i>Tal Sinkin</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Talar Sheinkin</i>	1796	Poole	3802
<i>Talarsengin</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talersenkin</i>	1804	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tal Sencin</i>	1805	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talsengin</i>	1819	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talar sy Negin</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talar Siencyn</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Talar Sengin</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talarsiencin</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tal Siencyn</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Talshenkin</i>	1843	Ll&Brynodol	D524
<i>Tal Senior or Taler Siencyn</i>	1872	NewGlynllifon	XD2 6658
<i>Talar-Siencyn</i>	1920	Map OS	XX N.E.

***talar*, e.p. *Siencyn***

Safai'r annedd hwn, sydd bellach yn furddun, ar gyrion pentref Y Groeslon wrth nesáu ato o gyfeiriad Dolydd<sup>1</sup>. Elfen gyntaf yr enw yw'r eb.g. *talar*, sef rhimyn o dir hyd ymyl cae a adewid heb ei aredig er mwyn i'r aradr gael lle i droi. Mae'n elfen gyffredin mewn e.lleoedd, e.e. *Y Dalar*, Bodedern, a *Talardy*, Llanelwy (*CBAMAeth*, IV, 138-9). Mae'r ffurf *Tal* a geir o bryd i'w gilydd yn awgrymu fod tuedd ar lafar i gollir ail sillaf. Yr ail elfen yw'r e.p. *Siencyn*. Daw'r ffurf Gym. *Siencyn* a'r Saes. *Jenkin* o'r e.p. canoloesol *Jankin* (*DFN*, 175). Ni wyddys pwy oedd *Siencyn*. Mae'n anodd esbonio'r ffurf annisgwyl *Senior* (1872) onid yw'n gamgopio.

<b>Tal-y-sarn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4953</b>	
<i>Tythyn Tal y Sarn</i>	1525	Penrhyn	298
<i>Talysarn</i>	1661	EwBangor	B1661/66
<i>Talysarn / Talysarn Uchaf</i> <sup>2</sup>	1769	C. Vincent	2524
<i>tal y sarn</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talvar ucha</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>talvarn ucha</i>	1775	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tallsarn</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talvarn</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3

<sup>1</sup> Ceir llun o adfeilion *Talar Siencyn* yn HyG, 8.

<sup>2</sup> Am ddisgrifiad o *Dal-y-sarn Uchaf* gweler IAMC, 188.

<i>Talsarn</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Talysarn</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Talysarn ucha</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Talysarn farm</i> <sup>1</sup>	1810	Rumsey Wms	2693
<i>Talysarn</i>	1812	P. yr Aur Add.	1906
<i>Talsarn isaf</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Talysarnisaf</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Tal y Sarn</i>	1825	EwBangor	B1825/115 12610
<i>Tal y sarn</i>	c. 1825	Rumsey Wms	959
<i>Talsarn uchaf</i>	1838	EwBangor	B1838/90 15139
<i>Talysarn ucha</i>	1838	Rumsey Wms	2741
<i>Tal-y-sarn</i>	1838	Map OS	75
<i>Tal y sarn ucha</i>	1839	Rumsey Wms	2709
<i>Talsarn</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Tal-y-sarn-uchaf</i>	1920	Map OS	XXI S.W.

*tal, y, sarn, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf*

Mae'r rhan helaethaf o bentref chwarelyddol *Tal-y-sarn* ym mhlwyf Llanllyfni, ond mae'r anheddau uchod, er eu bod yng nghyffiniau'r pentref hwnnw, ym mhlwyf Llandwrog; felly hefyd *Blas Tal-y-sarn* neu *Tal-y-sarn Hall* (gweler *Plas Tal-y-sarn* uchod). Yr oedd llawer o'r chwareli llechi ar dir *Tal-y-sarn Uchaf* neu *Ben-y-bryn*, a'r chwareli hyn a roddodd fodolaeth i'r pentref cyfagos. Pentref gweddol ifanc yw *Tal-y-sarn*: codwyd y rhan fwyaf ohono rhwng 1850 ac 1870 (*Eryri*, 104).

<b>Tan-y-ffordd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4954</b>
<i>Tan y ffordd</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tanyffordd</i>	1798	P. yr Aur 20652
<i>Tanyffordd</i>	1826	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tanyffordd</i>	1827	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tan y ffordd</i>	1842	RhPDegwm
<i>Tan-y-ffordd</i>	1920	Map OS XXI N.W.
<i>Tan Y Ffordd</i>	2000	CCPost (Carmel)

*tan, y, ffordd*

I'r de o Garmel. Mae'r 'ffordd' yn yr enw yn rhedeg hyd odre Mynydd y Cilgwyn ac yn diweddu yn Y Cilgwyn ei hun.

<b>Tirion-Twrog</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556</b>
<i>Tiriontwrog / Tirionbach</i>	1839	Bangor 1065
<i>Tirion Twrog</i>	1842	RhPDegwm
<i>Tiriontwrog bach</i>	1845	Bangor 1084

*tir, llu. tirion, e.p. Twrog, bach*

Mae map y Degwm yn nodi *Tir Twrog* yng nghyffiniau Glyn-iwrch i'r de-orllewin o Fethesda-bach, ac mae'n debyg mai'r un lle yw hwn â *Thirion-Twrog*. Ffurf lu. hynafol *tir* yw *tirion*: mae *GPC* yn nodi sawl enghraifft o'r ffurf o'r 12g. a'r 13g. Ceir *Tirion-Pelyn* ym mhlwyf Clynnog<sup>2</sup>. Mae hon yn ffurf debyg i *Dirion-Twrog* lle cyfunir yr elfen *tirion* ag enw'r sawl oedd biau'r tir. Er mai gŵr o'r enw *Pelyn* yn ddiau oedd biau'r tir yng Nghlynnog, mae'n bosib mai ystyr yr enw *Tirion-Twrog* yw tir a oedd yn perthyn i'r eglwys yn Llandwrog. Fodd bynnag, mae'r ffurf *tirion* yn awgrymu fod yr enw hwn yn bur hynafol, ac

<sup>1</sup> Cyfeirir yma at 'slate quarries upon a farm called Talysarn farm'.

<sup>2</sup> Mae Cyfrifiad 1851 yn nodi hwn fel *Tirian pelan* dan blwyf Llandwrog.

efallai fod traddodiad yn cysylltu Twrog Sant â'r llecyn hwn. Ceir *Tirion-bach* a *Thirion-mawr* yng Ngheredigion (*GPC; YEE*, 83). Am yr elfen *Twrog* gweler *Llandwrog* uchod.

<b>Trosglwyn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4854</b>
<i>Trysclwyn</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Trosglwyn</i>	1764	EwBangor B1764/100 2612
<i>Trosglwyn</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Trosglwyn</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Trosglwyn</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Trosglwyn</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Trosglwyn</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Trosglwyn</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Traws Glwyn</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Trosglwyn</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Trosglwyn</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Trosglwyn</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Trosglwyn</i>	1842	RhPdegwm
<i>Trosglwyn</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Trosglwyn</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Trosglwyn</i>	2000	CCPost (Carmel)

#### ***trwsgl / trysgl?, llwyn***

I'r de-orllewin o Garmel ar y ffin rhwng plwyfi Llandwrog a Llanllyfni. Er mor fynych y ceir y ffurf *Trosglwyn*, mae'n bosib mai'r ffurf gynharaf a nodir uchod, sef *Trysclwyn*, sydd yn dod agosaf at esbonio'r enw. Mae'n debyg mai'r hyn sydd yma yw'r ans. *trwsgl / trysgl + llwyn*<sup>1</sup>. Er bod *trwsgl* i ni heddiw yn ans. a ddefnyddir i ddisgrifio rhywun afrosgo, dangosodd Syr Ifor Williams y gallai hefyd olygu gerwinder o bob math, yn ogystal â chrach a chroen garw (*ELleoedd*, 18–19; *BBCS*, XI, (Tach. 1944), 140–2). Tybed nad llwyn crebachlyd a gofféir yma?

<b>Tryfan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4856</b>
<i>Y Tryfan</i>	1571	P.S.Peniarth DC31
<i>Tryfan</i>	1646/7	Baron Hill 3236
<i>Tryfan Issa</i>	1733	EwBangor B1733/97 98822
<i>Tryfan</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Tryfan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tryfan</i>	1771	JTR 2
<i>Tryfan mawr</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tryfan</i>	1778	P. yr Aur 19691
<i>Tryfan</i>	1779	EwBangor B1779/69 5233
<i>Tryfan</i>	1779	Ll&Brynodol D1097–8
<i>Tryfan</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tryfan</i>	1787	Ll&Brynodol D1102–3
<i>Tryfan bâch</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tryfan bach / Tryfan mawr</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tryfan</i>	1790	EwBangor B1790/96 6879
<i>Tryfan</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tryfan Mawr</i>	1801	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tryfan mawr</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tryfan</i>	1816–20	Dawson, Bangor f34081. D4
<i>Tryfan</i>	1818	Rumsey Wms 1912

<sup>1</sup> Trafodir yr elfen *trwsgl* mewn e.lle yn fanwl dan *Trosgol* yn yr adran ar Anheddau Llanwnda (q.v.).

<i>Tryfan bach / Tryfan mawr</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Tryfan bach</i>	1821	EwBangor	B1821/72 11985
<i>Tryfan bach</i>	1824	EwBangor	B1824/80 12416
<i>Tryfanbach / Tryfan fawr</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Tryfan bach</i>	1832	EwBangor	B1832/94 13936
<i>Tryfan</i>	1838	Map OS	75
<i>Tryfan bach / Tryfan fawr</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Tryfan-mawr</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Tryfan Hall</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tryfan Bungalow / Tryfan Hall / Tryfan Uchaf</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

**tryfan, bach, mawr, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

Rhwng cyrion gogleddol eithaf Y Groeslon a chyrion deheuol eithaf Rhostryfan. Mae'r elfen *tryfan* yn digwydd mewn sawl e.lle yn yr ardal : ym mhentref *Rhostryfan*, ym *Moel Tryfan*, ac yma yn enwau'r anheddau uchod<sup>1</sup>. Mae *GPC* yn nodi *tryfan* fel ans. â'r ystyr 'blaenfain' a hefyd gyda grym enwol. Esbonia Syr Ifor Williams yr enw fel *try-* + *bann* (*ELleoedd*, 15). Nid *tri* sydd yma ond y *try-* a geir mewn geiriau megis *tryloyw* lle mae'n cryfhau'r ans. Ystyr *bann* fel enw yw 'pig', neu 'bwynt', a'i ystyr fel ans. yw 'uchel'. Ceir ffurf gyfatebol yn yr e.lle Cern. *Trevan Point* (*Corn.PNE*, 16, 233-4). Felly, gellir deall *Tryfan* fel mynydd uchel iawn, neu fynydd â phig main iddo. Mae hyn yn wir am y mynydd o'r enw *Tryfan* nid nepell o Fethesda, ond nid yw mor addas yn yr enwau uchod. Er eu bod yn yr ucheldir nid oes unrhyw fynydd pigfain yn y cyffiniau. Ceir hanesion am y Tylwyth Teg yma eto: honnid eu bod yn gadael hanner coron yn rhodd yn ddyddiol ger *Tryfan* ers talwm (*TT/JOH*, 48<sup>2</sup>).

<b>Tŷ-coch</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556 (1) / SH 4855 (2)</b>	
<i>Ty Coch</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>ty Coch</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>tu coch</i>	1771	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ty coch</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>tu goch</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tŷ-coch</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (50)
<i>Ty Coch</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Ty Coch</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Tycoch</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ty coch</i>	1820	EwBangor	B1820/77 11830
<i>Ty Coch</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Tŷcoch</i>	1839	Bangor	1065
<i>Ty Coch / Ty coch</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Ty Coch</i>	1856	EwBangor	B1856/105 19228
<i>Ty-côch (1) / Ty-côch (2)</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Ty-côch (1)</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Ty Coch (1)</i>	2000	CCPost	(Llandwrog)
<i>Ty Coch (2)</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)
<i>Ty Coch (3)</i>	2000	CCPost	(Nantlle)

**tŷ, coch**

Ceir o leiaf dri annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llandwrog. Mae *Tŷ-coch* (1) yn rhan ogleddol pentref Llandwrog, *Tŷ-coch* (2) yn rhan uchaf pentref Y Groeslon, a *Thŷ-coch* (3) yn Nantlle. Mae'n debyg fod y cofnodion cynharaf uchod yn cyfeirio at *Dŷ-coch* (1).

<sup>1</sup> Ceir trafodaeth o hanes y teulu gan W. Gilbert Williams yn 'Hen Deuluoedd Llanwnda VI, Llwydiaid y Tryfan Bach', *TCHSG*, 9, (1948), 59-65.

<sup>2</sup> Ceir llun o *Tryfan Hall* yn *TT/JOH*, 48, a cheir disgrifiad o'r tŷ yn *IAMC*, 185.

<b>Tŷ-gwyn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4657</b>
<i>Y Tu Gwyn yn y Collfryn</i>	1721	NewGlynllifon XD2 / 7459
<i>Ty Gwyn</i>	1730	EwBangor B1730/173 98090
<i>Ty Gwyn yn y Collfryn</i>	1760	NewGlynllifon XD2 / 7462
<i>Ty Gwyn</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Ty gwyn</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tŷ Gwŷn</i>	1809	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tygywn</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Tŷgwun</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tygywn bach / Tygywn Mawre</i>	1839	Bangor 1065
<i>TygywynynCollfryn</i>	1848	NewGlynllifon XD2 / 7486
<i>Ty-gwyn</i>	1919	Map OS XV S.E.
<i>Ty-gwyn</i>	1959	Map OS SH 45

**tŷ, gwyn, yn, y, e.ll. Collfryn**

Fel yr awgryma'r enw, yr oedd yr annedd hwn yn agos iawn at y Collfryn (q.v.) yn ardal Bethesda-bach. Er ei fod wedi ei nodi ar fap OS 1959, fe'i disgrifir yn 1960 fel 'ruined rubble-built cottage' (IAMC, 188 ).

<b>Tŷ-nant</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 5154</b>
<i>Tyn y nant</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>ty yn y nant</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyn nant</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tu yn y nant</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ty Nant</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ty'n y Nant</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyn nant</i>	1807	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyn y nant</i>	1807	EwBangor B1807/55 9586
<i>Ty n y nant</i>	1814	EwBangor B1814/84 10831
<i>Tynnant</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Tynynant</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Ty Nant / Tynant</i>	1842	RhPdegwm
<i>Ty-nant-uchaf</i>	1957	Map OS SH 55
<i>Ty Nant</i>	2000	CCPost (Nantlle)

**tŷ, yn, y, nant**

I'r gogledd o Nantlle. Mae P.yr Aur 4062a (1789) yn rhestru'r enw hwn ddwywaith, unwaith dan Landwrog isaf ac unwaith dan Landwrog Uchaf, felly mae'n bosib fod dau annedd o'r enw hwn ym mhlwyf Llandwrog ar un adeg. Un yn unig a restrir heddiw.

<b>Tŷ-newydd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4957 (1) / SH 4656 (2)</b>
<i>Tu newydd</i>	1756	Ll&Brynodol D415
<i>Tu newydd</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tu Newudd</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tu-newydd</i>	1780-7	P.S.Glynllifon 84 (52)
<i>Ty Newydd</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Ty newydd</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ty newydd</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ty newydd</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Tynewydd</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Ty Newydd</i>	1830	ATT GAG XQA/LT 5/3

<i>Ty newydd</i>	1833	EwBangor	B1833/105 14133
<i>Ty-newydd (1)</i>	1838	Map OS	75
<i>Ty-newydd (2)</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Ty Newydd (2)</i>	2000	CCPost	(Bethesda-bach)

***tŷ, newydd***

Mae bron yn amhosibl amcangyfrif faint o anheddau o'r enw hwn a fu mewn plwyf mor fawr â Llandwrog ar wahanol adegau. Gellir adnabod dau yn weddol bendant: mae *Ty-newydd (1)* ar gyrion de-ddwyreiniol eithaf Rhostryfan, ac yn agos at *Hafoty-Tŷ-newydd* (q.v.), tra bo *Tŷ-newydd (2)* ym Methesda-bach. Gellir hefyd nodi'r anheddau canlynol o'r un enw:

<i>Ty newydd Cim</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Ty Newydd Cim</i>	2000	CCPost	(Carmel)

Mae hwn yn ardal Cim yng Ngharmel.

<i>Tynwydd Collfryn</i>	1839	Bangor	1065
<i>Tynwydd Collfryn</i>	1845	Bangor	1084
<i>Tynwydd Collfryn</i>	1854	Bangor	1094

Mae'n bosib mai'r un annedd yw hwn â *Thŷ-newydd (2)* gan fod hwnnw'n bur agos at Gollfryn.

<i>Ty newydd y fron</i>	1842	RhPDegwm	
-------------------------	------	----------	--

Yn ardal Y Fron i'r gogledd-orllewin o Hafoty-Caeronwy.

<b>Tyddyn-ab Engan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4754</b>
<i>Tyddyn Ednyved ap Engan</i>	1707	NewGlynllifon XD2 / 7689
<i>Tyddyn Ednyfed ap Engan</i>	1710	NewGlynllifon XD2 / 7690
<i>Tyddyn Ednyfed David ap Engan</i>	1728	Plas Coch 580
<i>Tyddyn Ednyfed David ap Engan</i>	1733	Plas Coch 584
<i>Tythyn Ednyfed David ap Engan</i>	1760	NewGlynllifon XD2 / 6627
<i>Tyddyn ab Engan bach</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Tyddyndebenganbach</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>tyddun ty Bengan /Tyddun ty Bengan Bach</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddunabeinion / tyddun dy bengam Bach</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>ty Dy Bengan /tyddun Dy Benan Bach</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Debengan</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>tyddun dybengan /tyddun Dybengan bach</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun dy Bengan /tyddun dybengan Pach</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Dobeinion/tyddun Dobeinion bach</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Dabengham</i>	1780–7	P.S.Glynllifon 84 (50)
<i>tyddun tybengan</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Dabengan</i>	1782	Ll&Brynodol R161
<i>Tyddundybengan /Tyddyn Dobengan / -Bach</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn y bengam / Tyddyn dy bengam bach</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tuddundybengan</i>	1792	ATT GAG XQA/LT 5/3

<i>Tyddun Dybengan</i>	1793	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddunybeng</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn ab Enganbach / Tyddyn ab Enganfawr</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Tuddun begnan</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Ab Engan</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn abengan / Tyddyn dy bengan</i>	1813	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn mabengan</i>	1815	P. yr Aur	21092
<i>Tyddyn dab Engan</i>	1816–20	Dawson, Bangor	f34081, D4
<i>Tyddyn Abengan</i>	1822	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn ab Engan</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Tyddyn Dobengan Bach / Tyddyndobengan Mawr</i>	1827	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn du bengan Bach / Tydd[ ] Dobengan Mawr</i>	1830	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddun abeinon</i>	1839	Bangor	1065
<i>Tyddyn ab Engan mawr / Tyddyn ab Engan bach</i>	1842	RhPdegwm	
<i>Tyddundabenan</i>	1845	Bangor	1084
<i>Tyddyn Dy Engan</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddunbengan</i>	1854	Bangor	1094
<i>Tyddyn Mabengan / Tyuddyn mabingam</i>	1862	NewGlynllifon	XD2 / 10877
<i>Tyddyn-bengam</i>	1920	Map OS	XX N.E.

***tyddyn, e.p.Ednyfed Dafydd ab Einion***

Mae map Dawson 1816–20 a map OS 1920 yn nodi'r annedd hwn rhwng Garth Dorwen a Thafarn Dudur rhwng Y Groeslon a Phen-y-groes. Mae'n ddiddorol sylwi'r modd y llurguniwyd enw digon cyffredin, sef *Tyddyn Ednyfed Dafydd ab Einion* dros y blynyddoedd. Er mai mewn tri chofnod uchod yn unig y nodir *Dafydd* fel rhan o'r enw, a hynny yn y ffurf *David*, arhosodd ei ddylanwad ar y modd y datblygodd yr enw. Dangosodd MR fod y cyfuniad *Dafydd ab* yn tueddu i droi'n *Dab* mewn e.lleoedd (*TCHSG*, 52–3, (1991–2), 25–6). Cyfeiria at enghreifftiau megis *Cae Dab Ithel* yn Llanfairfechan, *Llwyn Dabnyfed* (< *Dafydd ab Ednyfed*) yn Llanllechid, ac eraill (Gweler hefyd *LPNW*, 107). Yn *Nhyddyn ab Engan* uchod cawn nid yn unig *dab*, ond *deb*, *dob* a *dyb* yn datblygu o flaen yr e.p. *Einion*, a geir yma gan amlaf yn ei ffurf amgen *Engan*.

<b>Tyddyn-botwm</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4557</b>
<i>Tyddyn y Bottwm</i>	1650	P. yr Aur Add. 1229
<i>Tyddyn bottom</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun y botom</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun y Botwm</i>	1772	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun y botwm</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun Potwm</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddun y Botwm</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn y Bottwm</i>	1778	EwBangor B1778/69 5065
<i>Tyddunbodwm</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddun y Bottwm / Tuddun Bodwm</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Bodwm</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn y Bottwm</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tyddyn Bottwm</i>	1810	CyGTan
<i>Tyddun bottwm bach / Tyddun bottwm mawr</i>	1839	Bangor 1065
<i>Tyddundabolwm mawr</i>	1845	Bangor 1084



<i>Tyddyn Botwm</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddun botwm</i>	1854	Bangor	1094
<i>Tyddyn-botwm</i>	1891	Map OS	XV S.E.
<i>Tyddyn-botwm</i>	1919	Map OS	XV S.E.

### **tyddyn, botwm**

Ym mhen gogledd-orllewinol plwyf Llandwrog, bron ar y ffin â phlwyf Llanwnda. Mae'n anodd esbonio ail elfen yr enw. Mae'n bosib mai'r e.cyff. *botwm* sydd yma. Gallai fod yn ddefnydd difriol o'r gair i ddynodi rhywbeth diwerth<sup>1</sup>, gan gyfeirio efallai at ansawdd gwael y tir. Gallai hefyd fod yn e.p. Datblygodd *Plas Brereton* ar gyrion Caernarfon i fod yn *Plas Botwm* ar lafar (atgof personol), ac mae'n bosib mai'r enw *Brereton* sydd yma hefyd. Yr oedd gan y teulu Brereton gysylltiadau â phlwyfi Llandwrog, Llanwnda, Llanbeblig a Llanfair-isgaer. Gallai hefyd fod yn ffurf lafar ar y cyfenw *Bottom / Botham*. Ni welwyd cyfeiriad at y cyfenw hwn yn yr ardal ei hun, er bod cyfeiriad at ryw *Iorwerth Bottom* yng nghofnodion y llys yng Nghaernarfon yn 1362 (CCR, 16, 18), a *Gwenllian Bottom* yno yn 1371 (ibid. 59). Ym Mangor, ar y llaw arall, datblygodd yr enw *Tyddyn Botwm* yno o'r cyfenw *Bolton* (FC1800, 59; Vaynol 4057, 89).

<b>Tyddyn-Dafydd</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4756</b>
<i>Tythyn Davydd Ddû</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Tythyn David Ddû</i>	1735	Ll&Brynodol R40
<i>Tythyn Dawydd Ddu</i>	1748	Ll&Brynodol D402-3
<i>Tythyn David Dû</i>	1766	Ll&Brynodol R46
<i>Tythyn David Dû</i>	1768	Ll&Brynodol R47
<i>Tyddun Dafudd</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun Dafudd</i>	1774	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun David</i>	1777	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddun David</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddynn David</i>	1781	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddun David</i>	1782	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Dafydd</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn Davidd</i>	1788	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn David</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tythyn D<sup>d</sup> Dû</i>	1794	Ll&Brynodol R79
<i>Tyddyn Dafydd ddu</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tyddyn Dawydd ddu alias Tyddyn Dafydd Adu</i>	1796	Poole 3802
<i>Tyddyn Dafidd</i>	1806	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Davidd</i>	1813	Ll&Brynodol D505
<i>Tyddyn Dafydd</i>	1813	EwBangor B1813/99 10613
<i>Tyddyn ddafydd</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Tyddyn Dafydd</i>	1824	P. yr Aur 4102
<i>Tyddyn ddafydd</i>	1842	RhPDegwm
<i>Tyddyn David Farm</i>	1851	Cyfrifiad
<i>Tyddyn David ddu</i>	1872	NewGlynllifon XD2 / 6658
<i>Tyddyn Dafydd</i>	1876	NewGlynllifon XD2 / 6659
<i>Tyddyn-Dafydd</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Tyddyn-Dafydd</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Tyddyn Dafydd</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

### **tyddyn, e.p. Dafydd, du**

<sup>1</sup> Noda GPC ddefnydd ffigurol *botwm* i ddynodi rhywbeth diwerth: fe'i ceir yn yr ymadrodd 'dim yn malio'r un botwm corn'. Gweler hefyd WVBD, 50 a 285.

Ar gyrion pentref Y Groeslon, ar y chwith i'r hen ffordd drwy Ddolydd o Lanwnda i'r Groeslon. Cyfeirir at Ddafydd *Ddu* yn y ffurfiau cynharaf, ond collwyd yr ans. yn ddiweddarach (cf. colli'r ans. yn *Rhosdican-goch* a *Thyddyn Elen-ddu* ym mhlwyf Llanbeblig). Ambell dro ceir tr. meddal ar ddechrau'r e.p.: dywed MR (*TCHSG*, 52-3. (1991-2), 27) y ceir tr. meddal yn bur gyffredin mewn e.p. ar ôl *tyddyn*, *tŷ* a *chae*, ac mai'r esboniad mwyaf tebygol yw'r canfyddiad mai e. cyfansawdd tynn yw'r e.lle. ac o'r herwydd dilynir y rheol ramadegol ar gyfer enwau o'r fath. Ni wyddys pwy oedd *Dafydd Ddu*.

<b>Tyddyn-Elen</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4454</b>
<i>Tuddyn Ellen</i>	1661/2	EwBangor B1661/65
<i>Tyddyn-Ellen</i>	1725	EwBangor B1725/42 97079
<i>Tyddyn Elen</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>tyddun Elan</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddun Ellan</i>	1779	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Elan</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyddun Ellan</i>	1793	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Elan</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tyddunelan</i>	1802	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddynelan</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn elan</i>	1813	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddynelan</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Tyddunelen</i>	1839	Bangor 1065
<i>Tyddyn Helen</i>	1842	RhPDegwm
<i>Tyddun elan</i>	1845	Bangor 1084
<i>Tyddunelan</i>	1854	Bangor 1094
<i>Tyddyn-Elen</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Tyddyn-Elen</i>	1959	Map OS SH 45

#### ***tyddyn*, e.p. *Elen***

I'r de o bentref Llandwrog, rhwng yr A499 a'r môr. Yn yr ail elfen *Elen*, ceir adlais eto o hanes y tair chwaer, *Elen*, *Maelan* a *Gwennan* a ddihangodd i'r tir mawr pan foddwyd Caer Arianrhod (Gweler dan *Beddgwennan* a *Rhos-Maelan* uchod; *Cel. Fol.* 208; *AENM*, 29; *WCD*, 87; *Math*, 188, n.59). Chwedl onomastig yw hon yn ddiau: ni wyddys pwy oedd yr un o'r merched a goffeir yn enwau'r anheddau hyn. Mae'n ddiddorol mai un ymgais yn unig a gafwyd yn y cofnodion a nodwyd o'r enw uchod i wthio *Helen* i mewn i'r enw, yn wahanol i'r duedd a nodwyd mewn sawl enw arall yn ardal yr astudiaeth hon. Efallai fod yr ymwybyddiaeth leol am hanes y tair chwaer mor fyw fel nad oedd lle i'r traddodiadau am *Elen* Luyddog ymwthio i'r enw hwn.

<b>Tyddyn-Gwian</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4655</b>
<i>Tyddyn Gwian issa / Tyddyn Gwian ucha</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Tyddyn gwianissaf / Tyddyn gwianuchaf</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>tyddun Gwian isa / tyddun Gwian ucha</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Gwian issa</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Tyddun giwon isaf</i>	1777	EwBangor B1777/92 4916
<i>Tyddun gwan ucha</i>	1780	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Gwian issa / Tyddyn Gwian Ucha</i>	1780-7	P.S.Glynllifon 84 (48)
<i>Tyddyn Gwian issa / Tyddyn Gwian Ucha</i>	1782	Ll&Brynodol R161
<i>Tyddyn Gwian Ucha</i>	1782	EwBangor B1782/124 5748
<i>Tyddyn Gwian Isa / Tyddyn Gian Isa</i>	1784	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn gwian Issa / Tyddyn gwian Ucha</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyddyn-gwian-isaf</i>	1791	EwBangor B1791/54 7053

<i>Tyddun Gwian</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn gwian issa /Tyddyn gwian ucha</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Tyddyn Gwyan isa</i>	1798	EwBangor	B1798/63 8143
<i>Tyddungwian</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tuddunygwian</i>	1807	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Gwion isaf / Gwion Ucha</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Tyddyn Gwian</i>	1816–20	Dawson. Bangor	f34081. D4
<i>Tyddyingwianisaf /</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Tyddyingwianuchaf</i>			
<i>Parc Tyddyn-Gwian / Tyddyn-Gwian</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Plantation</i>			
<i>Parc Tyddyn-Gwian / Tyddyn-Gwian</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Plantation</i>			
<i>Tyddyn-Gwian-Plantation</i>	2002	Map OS	Explorer 254

***tyddyn, e.p. Gwian, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Er bod dau annedd o'r enw hwn ar un adeg, sef *Tyddyn-Gwian-isaf* a *Tyddyn-Gwian-uchaf*, erbyn heddiw fe'i cedwir yn unig fel enw ar ran o Barc Glynllifon. Amrywiad ar yr e.p. gwr. *Gwion* yw *Gwian*. Mae'r ffurf *Gwion* yn fwy cyfarwydd oherwydd y chwedl am *Wion Bach* a anwyd eilwaith fel Taliesin (*ELISG*, 9–10). Hyd heddiw mae'n enw eithaf poblogaidd yn y ffurf *Gwion*. Fodd bynnag, fe'i ceir yn bur aml yn y ffurf *Gwian* mewn e.lleoedd, e.e. *Tyddyn Gwian* yn Nolbenmaen, *Bedd Gwian* ym Meddgelert, *Bron Gwian* yn Llangollen, *Cae Gwian* yn Llanaber, Meirionnydd, a *Nant Gwian* yn Llangoed, Môn (AMR).

**Tyddyn-Lawrence**

**Llandwrog**

<i>tyddun lorans</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>tyddyn Loranc</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddun Lorange</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tuddun Lorang</i>	1779	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddun Lorange</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Laurance</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (52)
<i>tyddun y Lorange</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddun Lawrance / Tyddyn Lor ans</i>	1782	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddun Laurence</i>	1783	Ll&Brynodol	R163
<i>tyddyn Lwrans</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn lowrance</i>	1788	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn lowrance</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyddyn Lawrance</i>	1792	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn lorange</i>	1808	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Lawrance</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Lawrence</i>	1814	C. Vincent	3222
<i>Tyddyn Lawrence</i>	1815	EwBangor	B1815/99 10986
<i>tyddynlorans</i>	1818	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Laurence</i>	1824	P. yr Aur	4101
<i>Tyddyn Lawrence</i>	1824	Rumsey Wms.	530
<i>Tyddun laurance</i>	1839	Bangor	1065
<i>Tyddunloras</i>	1845	Bangor	1084
<i>Tyddyn Lawrence</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddyn Lawrence</i>	1866	NewGlynllifon	XD2 / 6654

***tyddyn, e.p. Laurence***

Ni lwyddwyd i leoli'r annedd hwn, ac eithrio fod cofnod 1866 yn cyplysu ei enw ag enw Plas Mawr ac yn nodi eu bod ill dau yn rhan o stad Glanrafon. Felly, mae'n bosib ei fod yng nghyffiniau Plas Mawr (q.v.). Ni lwyddwyd chwaith i ddarganfod pwy oedd *Laurence*. Ceir

*Hafod Laurence* ym mhlwyf Llanbeblig (q.v.). Cofnodir enw *Rob't Lorance/Robert Lawrence* yn y llys yng Nghaernarfon yn 1543 (CQSR, XQS/1543.196) a *Katherine Laurens*, gwraig *William Laurens* yno yn 1578 (CQSR, XQS/1578, 26), ond ni wyddys a oedd y bobl hyn yn perthyn i'r sawl a roes ei enw i *Hafod Laurence* na *Thyddyn Laurence*. Ceir tystiolaeth hefyd fod teulu o'r enw Lawrence wedi priodi i mewn i deulu dylanwadol Spicer yng Nghaernarfon yn y 17g. (Dolfrïog, 257).

Tyddyn-Madyn	Llandwrog		SH 4857
<i>Tythyn Madyn</i>	1696	Mostyn B	1400
<i>Tythyn Madin</i>	1779	Ll&Brynodol	D1097-8
<i>Tyddun Madyn</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Madun</i>	1787	Ll&Brynodol	D1102-3
<i>Tyddyn Madyn</i>	1800	Ll&Brynodol	D1105-6
<i>Tyddyn Madyn</i>	1811	Ll&Brynodol	D1110-11
<i>Tyddyn Madyn</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Tyddyn Madyn</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddyn-madyn</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Tyddn Madyn</i>	2000	CCPost	(Rhostryfan)

#### *tyddyn, e.p. Madyn*

Ar gyrion eithaf de-orllewinol Rhostryfan yn y rhan honno o Ros-isaf sydd ym mhlwyf Llandwrog. Gallai'r ail elfen fod yn enw cyff. *madyn*, sef llwynog, ond mae'n fwy tebygol o fod yn e.p. Mae *Madyn* yn ffurf fachigol ar yr e.p. *Madog* (WS, 156-7). Ceir *Llain-Fadyn* (q.v.) hefyd gerllaw.

Tyddyn-mansier	Llandwrog		SH 4755
<i>Tuthyn y mansier</i>	1635	Ll&Brynodol	D162
<i>Tythyn y Manshier</i>	1720	Ll&Brynodol	D345
<i>Tythyn y Manshier</i>	1747-8	Ll&Brynodol	D399
<i>Tythyn y Manshier</i>	1748	Ll&Brynodol	D402-3
<i>Tythyn y Mansier</i>	1766	Ll&Brynodol	R46
<i>Tythyn y Mansier</i>	1768	Ll&Brynodol	R47
<i>Tyddun y Mainsier</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tythyn y' Mansier</i>	1772	Ll&Brynodol	R49
<i>Tythyn y Manshier</i>	1774	Ll&Brynodol	R51
<i>Tyddun y mainsier</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn y Mansher</i>	1775	NewGlynllifon	XD2 / 6628/9
<i>Tyddun minser</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn-y-Mansier</i>	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (52)
<i>Tyddyn y Mansier</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Tyddun mansiar</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn y Mansier</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tyddyn y mainsier</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Tyddynmainsiar</i>	1795	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn y Mainsher</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn Mansher</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn mansiar</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyddyn mansiar</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Tyddyn maincer</i>	1831	Bangor	8554
<i>Tyddyn Mainsior</i>	1833	NewGlynllifon	XD2 / 6638
<i>Tyddyn y maensier</i>	1836	EwBangor	B1836/117 14695
<i>Tyddyn-manser</i>	1838	Map OS	75
<i>Tyddyn Maensier</i>	1842	RhPDegwm	

<i>Tyddyn Meinsier</i>	1851	Cyfrifiad	
<i>Tyddynmansier</i>	1862	NewGlynllifon	XD2 /10877
<i>Tyddynmansias</i>	1868–9	Bangor	8555
<i>Tyddyn mansier</i>	1878	Bangor	8555
<i>Tyddynmeisier</i>	1890–1	Bangor	8560
<i>Tyddyn-meinsier</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Tyddynmeinsier</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Tyddyn Meinsier</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

### **tyddyn, mansier**

Rhwng Y Groeslon a Charmel. Yr ail elfen yw *mansier*, benthyciad o'r Saes. *manger*, sef cafn neu focs agored i ddal bwyd anifeiliaid. Ceir llawer o amrywiadau yn sillafiad y gair hwn o'r naill ardal i'r llall. *Mansier* yw'r ffurf a gydnabyddir gan GPC, ond mae'n nodi'r ffurfiau *minsiar*, *mensier*, *meinsiar*, *manjar* a *manjer*. Gwelir ychwaneg o amrywiadau yn y cofnodion uchod. Honna rhai fod gwahaniaeth rhwng mansier a phreseb: fod mansier mewn stabal ar gyfer bwyd y ceffylau a'i fod wedi ei godi oddi ar y llawr, tra bo preseb ar lawr mewn beudy ar gyfer bwyd y gwartheg (*CBAmaeth*, III, 114; hefyd *ELISG*, 42). Tybed beth oedd hynodrwydd y mansier arbennig hwn? Mae W.J. Gruffydd (*Llenor*, VII, (1928), 245) yn awgrymu mai'r e.p. *Mangeor* sydd yma, ond ni welwyd dim yn y cofnodion uchod i gefnogi'r ddamcaniaeth hon. (Gwelir hefyd *Cae-bryn-y-manger* dan Gaeau Llandwrog).

<b>Tyddyn-mawr</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4855</b>
<i>Tythyn Mawr</i>	1720	Ll&Brynodol D344
<i>Tythyn Mawr</i>	1720	Ll&Brynodol D345
<i>Tythyn mawr</i>	1735	Ll&Brynodol R40
<i>Tythyn Mawr</i>	1741	Ll&Brynodol D384
<i>Tythyn mawr</i>	1743	Ll&Brynodol D387–8
<i>Tythyn-mawr</i>	1748	Ll&Brynodol D402–3
<i>Tythin mawr</i>	1764	Ll&Brynodol M42
<i>Tyddun mawr</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddun Mawr</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tythyn Mawr</i>	1776	P. yr Aur 15547
<i>Tyddyn Mawr</i>	1783	P. yr Aur 4058
<i>Tyddyn mawr</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Tyddyn mawr</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tyddyn mawr</i>	1803	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tyddynmawr</i>	1819	P. yr Aur 4095
<i>Tyddyn mawr</i>	1842	RhPdegwm
<i>Tyddyn-mawr</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Tyddyn Mawr</i>	2000	CCPost (Y Groeslon)

### **tyddyn, mawr**

Yng nghanol pentref Y Groeslon.

<b>Tyddyn-mur-y-cwppwl</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4754</b>
<i>Mur y Cwppwl</i>	1556	NewGlynllifon XD2 / 6621
<i>Tuthyn myr y Cuppl</i>	1585/6	NewGlynllifon XD2 / 6622
<i>Tyddyn-Mur-Cwppwl</i>	1724	NewGlynllifon XD2 / 6624
<i>Tyddyn Mury Cwppwl</i>	1738/9	NewGlynllifon XD2 / 6625
<i>Tythin mûr y Cwppwl</i>	1754	NewGlynllifon XD2 / 6626

### **tyddyn, mur, y, cwp(w)l**

Mae cofnodion 1738/9 a 1754 yn nodi mai ar dir *Court* (q.v.) yr oedd yr annedd hwn sef ar gyrion deheuol eithaf Y Groeslon. Gall *cwpl* olygu un o'r ddau brif drawst sydd yn cynnal to adeilad, neu'r rhan o adeilad sydd rhwng dau gwpl mewn ysgubor neu dŷ gwair, neu hyd yn oed y gwair neu'r ŷd a gedwid yn y rhan honno rhwng y ddau gwpl. Ambell dro, yn drosiadol, gallai olygu siamber fechan. Yn rhai o'r cofnodion uchod gwelir yr w ymwithiol a geir ar lafar yn ail sillaf *cwplw*. Ceir *Mur-y-cwplw* hefyd yng Nghilan, a *Mur Cyplau* ger Llangybi (*ELISG*, 40).

<b>Tyn-lôn</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4657</b>
<i>Tyddyn Owen alias Tyddyn y Lone</i>	1725	Plas Coch 580
<i>Tyddyn Owen otherwise Tyddyn y Lone</i>	1733	Plas Coch 584
<i>Tythyn Owen alias Tythyn y Lone</i>	1760	NewGlynllifon XD2 / 6627
<i>Tŷnŷlon</i>	1769	NewGlynllifon XD2 / 8709
<i>ty yn y lone isa / ty yn y lone uch</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tu yn y lone isa / tu yn y lone ucha</i>	1771	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ty'n y Lôn</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Ty yn y lôn issa</i>	1785	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Tŷn y Lôn Ucha</i>	1789	P. yr Aur 4062a
<i>Ty yn lon</i>	1795	Ll&Brynodol M187
<i>Tylon</i>	1804	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Tulon</i>	1808	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ty yn y Lon</i>	1810	Rumsey Wms 434-5
<i>Tynlonisaf/Tynlon issa /Tynlonucha</i>	1824	P. yr Aur 4101
<i>Tynylone</i>	1830	NewGlynllifon XD2 / 6716
<i>Tynlon</i>	1834	EwBangor B1834/86 14293
<i>Tynlone</i>	1839	Bangor 1065
<i>Ty'n Lôn</i>	1842	RhPDegwm 6718
<i>Tyn lon</i>	1843	EwBangor B1843/88 16168
<i>Tynlon</i>	1886	NewGlynllifon XD2 /
<i>Ty'n-lôn</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Tyn-lon</i>	1959	Map OS SH 45
<i>Tyn Lon</i>	2000	CCPost (Llandwrog)

***tyn / tyddyn, y, lôn, ans. isel, gradd eithaf isaf, ans. uchel, gradd eithaf uchaf***

Yn ardal Bethesda-bach. Mae capel o'r enw hwn ar lôn gul y tu cefn i Bethesda-bach. Gydag enw mor gyffredin, pan na cheir rhagor o fanylion nag enw'r plwyf, ni ellir bod yn hollol sicr mai'r un annedd sydd ym mhob un o'r cofnodion cynharach. Ceir cofnod yn 1764 o annedd o'r enw *Ty'n y lone Howell* hefyd ym mhlwyf Llandwrog (Ll&Brynodol M42).

### **Tyn-lôn Gorseddfa**

Gweler *Gorseddfa* uchod.

<b>Tyn-llan</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4556</b>
<i>Tyddun Llan</i>	1770	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>tyddun llan</i>	1773	ATT GAG XQA/LT 5/3
<i>Ty'n y Llan</i>	1773	NewGlynllifon XD2 / 7833
<i>Tynyllan</i>	1780-7	P.S.Glynllifon 84 (49)
<i>Ty'n Llan</i>	1782	Ll&Brynodol R161
<i>Tyn llan</i>	1853	EwBangor B1853/141 18460
<i>Ty'n-llan Hotel</i>	1920	Map OS XX N.E.
<i>Tyn-llan / Harp Inn</i>	2006	gwybodaeth bersonol

**tyn / tyddyn, y, llan**

Gyferbyn â giat yr eglwys ym mhentref Llandwrog, fel yr awgryma'r enw. Tafarn yw'r tŷ hwn ac fe'i nodir fel y cyfryw ar fapiau cyfoes. Ei henw fel tafarn yw'r *Harp*: 'Harp Inn neu Tŷ'n Llan i'r trigolion' (*CBLleu*, 13). Yr oedd yn dafarn erbyn adeg Eben Fardd (1802–63) a chanodd ef ddau englyn iddi sydd ar lechen ar wal yr adeilad<sup>1</sup>.

<b>Tyn-rhos</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4755(1)/SH 4857(2)/SH 4554(3)</b>	
<i>tu yn y Rhos</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ty'n rhos</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Tuny-rhôs</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (50)
<i>Tyn rhose</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Tŷn Rhos</i>	1806	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ty'n Rhos</i>	1810	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Tyn rhos</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Tynrhos</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Ty'n-y-rhos (3)</i>	1838	Map OS	75
<i>Ty'n Rhos</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Tynrhos</i>	1848	EwBangor	B1848/104 17295
<i>Ty'n-rhôs (2)</i>	1919	Map OS	XV S.E.
<i>Ty'n-rhôs (1)</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Tyn Rhos (1)</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

**tyn, y, rhos**

Nodir tri annedd o'r enw hwn ar wahanol adegau ym mhlwyf Llandwrog. Mae *Tyn-rhos (1)* ym mhentref Y Groeslon; *Tyn-rhos (2)* ar gyrion Rhos-isaf, ac yr oedd *Tyn-rhos (3)* yn yr ardal sydd bellach wedi ei chynnwys ym mharc Glynllifon. Mae'n bosib mai'r un annedd yw *Tyn-rhos (3)* â *Thynrhosbettws* a gofnodir yn 1839 a 1845 (Bangor 1065, 1084): gan fod *Betws* yn yr un ardal (gweler *Betws Gwe(r)nrhiw* uchod).

<b>Uwchlaw'r-rhos</b>	<b>Llandwrog</b>	<b>SH 4754</b>	
<i>Uwchlaw'r Rhose</i>	1764	Ll&Brynodol	M42
<i>Uwchlaw rhos</i>	1768	EwBangor	B1767/78 3420
<i>Uwchlaw rhos</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Uwchlaurhos</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>uchlaw rhos</i>	1774	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Uchlaurhos</i>	1780–87	P.S.Glynllifon	84 (48)
<i>Uchlaurhos</i>	1783	P. yr Aur	4058
<i>Uwch Lawrhrs</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Uwchlaw'r Rhôs</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>Uwchlaurhos</i>	1790	EwBangor	B1790/97 6880
<i>Uchlaurhose</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Uchlaw Rhos</i>	1795	Ll&Brynodol	M187
<i>Uwchlaurhos</i>	1819	P. yr Aur	4095
<i>Uwchlaurhos</i>	1819	Rumsey Wms	926
<i>Uwchlaurffos</i>	1824	P. yr Aur	4102
<i>Euchlaurhos</i>	1831	Bangor	8554
<i>Uwch-law'r-rhos</i>	1838	Map OS	75
<i>Uwchlaw'r Rhos</i>	1842	RhPDegwm	
<i>Uwchlaurhos</i>	1851	Cyfrifiad	

<sup>1</sup> 'Mae'n gwesty teg mewn gwastad dir – a mwyn gân / O'r mân goed a glywir: / Dogn o Fwyd, digon o Fîr / Ro'ir o'i fewn rawr a fynir. // Suliau a Gwyliau o gwel – na feddwer, / Mae'n fuddiol ymochel: / Bywyd teg – Byd diogel / A diod dda doed a ddêl.' (gwybodaeth bersonol; CA, 191; *ErthKR*, 23).

<i>Uchlansrhos</i>	1889–90	Sutton	139
<i>Uwchlaw'r-rhôs</i>	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Uwchlaw'r-rhos</i>	1959	Map OS	SH 45
<i>Uwchlaw Rhos</i>	2000	CCPost	(Y Groeslon)

***uwchlaw, y, rhos***

Ym mhen deheuol eithaf Y Groeslon, bron ar y ffin â phlwyf Llanllyfni.

**Ynysoedd**

**Llandwrog**

<i>Ynysodd</i>	1769	NewGlynllifon	XD2 / 8709
<i>Nysoedd</i>	1770	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynysodd</i>	1773	NewGlynllifon	XD2 / 7833
<i>Unysoedd</i>	1777	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>nasoudd</i>	1778	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynysodd</i>	1778	EwBangor	B1778/67 5063
<i>nusodd</i>	1780	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynysboeth</i>	1780–7	P.S.Glynllifon	84 (49)
<i>Nysoudd</i>	1781	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynysoedd</i>	1782	Ll&Brynodol	R161
<i>Nysodd</i>	1784	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Nyssoedd</i>	1789	P. yr Aur	4062a
<i>ynysoedd</i>	1794	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynysoedd</i>	1801	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynusodd</i>	1802	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Unusoedd</i>	1803	ATT GAG	XQA/LT 5/3
<i>Ynys boeth als. Ynysoedd</i>	c.1815	NewGlynllifon	XD2 / 8356
<i>Ynysoedd</i>	1822	EwBangor	B1822/85 12133
<i>Nysoedd</i>	1824	P. yr Aur	4101

***ynys, llu. ynysoedd***

Heb ei leoli'n bendant, ond mae caeau o'r enw *Cae ur Nysoedd* a *Nant u Nysoedd* wedi eu nodi yn nemên Glynllifon yn 1751 (Bangor 5679; Ll&Brynodol R160), a *Pharc Ynysoedd* yn y demên yn RhPDegwm 1842, sydd yn awgrymu fod yr annedd hwn ar y tir o amgylch plas Glynllifon. Un ystyr lai arferol i *ynys* yw dôl ar lan afon (*ELleoedd*, 36–7), ac mae'n bosib mai hyn sydd yma. Gwelir yr arfer o golli'r y ddechreuol ar lafar mewn sawl cofnod uchod. Mewn dau gofnod yn unig (1780–87 a c.1815) y nodir enw arall ar y lle hwn, sef *Ynys-boeth*.



## CAEAU LLANDWROG

*‘Yn Llandwrog y teimlwn fwyaf cartrefol a byddai rhyw ysgafnder yn dod imi wrth imi groesi’r ffordd haearn a chychwyn i lawr Lôn Cefn Glyn.’*

*John Gwilym Jones, Ar Draws ac Ar Hyd, 21*

<b>Aelod?</b>	<b>Llandwrog</b>			
'Lodau <i>aelod, llu. aelodau? blodau?</i>	Cae'r-loda	1842	RhPDegwm	264
Am yr enw dyrys hwn gweler yr ymdriniaeth dan <i>Cae'r-loda</i> yn Anheddau Llandwrog.				
<b>Ala</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Ala las</i> <i>ala, glas</i>	Tyddyn-mansier	1842	RhPDegwm	1352
Lôn fach gul yw <i>ala</i> , a byddai'r <i>ala las</i> yn welltog. Gweler <i>Ala-las</i> dan Anheddau Llanbeblig.				
<b>Allt / Gallt</b>	<b>Llandwrog</b>			
'Rallt	Cae'r -Bongam	1842	RhPDegwm	465
'Rallt	Pen-y-bryn	1842	RhPDegwm	2106
'Rallt	Pen-y-bwth	1842	RhPDegwm	301
Allt / 'Rallt	Plas-mawr	1842	RhPDegwm	601, 614
'Rallt <i>yr, allt</i>	Rhiwafallen	1842	RhPDegwm	641
'Rallt goch <i>yr, allt, coch</i>	Hafod-boeth	1842	RhPDegwm	1416
'Rallt Ucha' <i>yr, allt, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i>	Pen-y-bwth	1842	RhPDegwm	312
'Rallt goed <i>yr, allt, coed</i>	Tŷ-newydd	1842	RhPDegwm	1511
Gallt y fedw <i>gallt, y, bedwen, llu, bedw</i>	Tal-y-sarn	1842	RhPDegwm	1962-3
Gallt y neuadd <i>gallt, y, neuadd</i>	Hafod-boeth	1842	RhPDegwm	1235
Galtypru <i>e.lle, gallt, y, pryf</i> Gweler <i>Gallt-y-pryf</i> dan Anheddau Llandwrog.	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
<b>Belmount</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Belmount</i> <i>e.ll. Belmount</i>	Pen-rhiwiau	1842	RhPDegwm	1930
Yr oedd <i>Belmount</i> yn enw ar annedd yng nghyffiniau chwareli llechi'r Cilgwyn (q.v).				
<b>Beudy</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Beudy Isa'</i> <i>beudy, ans. isel, gradd eithaf isaf</i>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	850
<i>Beudy'r offt</i> <i>beudy, y, crofft</i>	Plas-mawr	1842	RhPDegwm	602

Benth. o'r Saes. *croft* yw *crofft*. Gan ei fod yn eb. fe'i treiglir yn feddal ar ôl y fannod gan roi *grofft*. Daethpwyd i ystyried mai hon oedd y ffurf gysefin, ac esgorodd y gamdybiaeth ar ffurfiau megis 'y rofft', ac, fel uchod, 'yr offt'. Yr ystyr yw cae bychan yn agos at y tŷ.

*Beudy'r Sclates* Bryn'rodyn 1780 Watkin 49  
***beudy, y, sclaters***  
 Am *Sclates* gweler *Tyddyn-Sclaters* dan Anheddau Llanrug.

**Blaen Llandwrog**

*Blaen y Cae* Plas Tal-y-sarn 1842 RhPDegwm 1933  
***blaen, y, cae***

**Bod Llandwrog**

*Bodfan* Bodfan 1842 RhPDegwm 248-9  
*Bodfan* Cae-Siôn 1842 RhPDegwm 1690  
***e.ll. Bodfan***  
 Gweler *Bodfan* dan Anheddau Llandwrog.

*Bodrin ty* Bodryn 1842 RhPDegwm 116  
***e.ll. Bodryn***  
 Gweler *Bodryn* dan Anheddau Llandwrog.

*Fodwern* Pen-y-bwth 1842 RhPDegwm 274  
***bod, gwern***

**Boncyff Llandwrog**

*Boncyff* Hafod-y-coed 1842 RhPDegwm 1023  
***boncyff***

**Bron Llandwrog**

*Fron* Pen-y-bryn 1842 RhPDegwm 2108  
***bron***

Yn yr enghraifft uchod ac yn llawer o'r rhai canlynol isod collwyd y fannod o flaen yr enw ond cadwyd y tr. meddal ar ei ddechrau.

*Frondirion* Cim-newydd 1842 RhPDegwm 1912  
***bron, tirion***

*Fron duchar* Tŷ-newydd-y-Fron 1842 RhPDegwm 2039  
***bron, tuchar***

Mae'r enw hwn yn un o'r math sydd yn cwyno am ansawdd anhydrin y tir, cf. *Drafferth* (Cae Forgan, Llandwrog); *Ffwdan* (PNPem. 79); ac yn Lloegr: *Troublesome a Hard Struggle* (EFN, 106).

*Fron gadair* Bron-rhiw 1842 RhPDegwm 1989  
***bron, cadair***

*Bron goch* Tir demên 1842 RhPDegwm 723  
***bron, coch***

*Vron heulog* Gerlan 1842 RhPDegwm 1883

*bron, heulog*

**Brwyn**

**Llandwrog**

*Brwyn* Tai-gwynion 1842 RhPDegwm 123  
*brwynen, llu. brwyn*

Tir corsiog fyddai hwn a llawer o frwyn yn tyfu ynddo.

*Brwynog* Cefn-nen 1842 RhPDegwm 1311-12  
*brwynog*

Mae'r enw hwn ar batrwm enwau megis Eithinog, Banhadlog, Rhedynog. lle mae'r ans. yn cyfeirio at y planhigyn sydd yn tyfu yno.

**Bryn**

**Llandwrog**

*Bryn* Beudy-newydd 1842 RhPDegwm 1445-6  
*Bryn* Bodfan 1842 RhPDegwm 108  
*Bryn* Bryn-naid-hir 1842 RhPDegwm 1705a  
*Bryn* Bwlan 1842 RhPDegwm 377, 388, 390  
*Bryn* Cae'r-ffridd 1842 RhPDegwm 400  
*Bryn* Cae-Siôn 1842 RhPDegwm 1689  
*Bryn* Cae-tŷ 1842 RhPDegwm 498  
*Bryn* Cefn-Badda 1837 Rumsey Wms 433  
*Bryn* Cefn-nen 1842 RhPDegwm 1360  
*Bryn* Court 1842 RhPDegwm 1322a  
*Bryn* Garth 1842 RhPDegwm 847, 860, 870  
*Bryn* Garth-dorwen 1842 RhPDegwm 828  
*Bryn* Gelli-ffrydau 1842 RhPDegwm 2144  
*Bryn* Tal-y-sarn 1842 RhPDegwm 1961  
*bryn*

*Bryn amlwg* Braich-y-trigwr-uchaf 1842 RhPDegwm 1609  
*bryn, amlwg*

*Bryn Bach* Bryngwyn 1842 RhPDegwm 1562  
*bryn, bach*

*Bryn Bedd* Trosglwyn 1842 RhPDegwm 1766  
*bryn, bedd*

*Bryn Bugeiliaid* Gerlan 1842 RhPDegwm 1886  
*bryn, bugail, llu. bugeiliaid*

*Bryn Bystwn* Ffrwd 1842 RhPDegwm 384  
*bryn, bystwn*

Ewinor neu gasgliad chwyddedig o gwmpas ewin yw *bystwn* ('whitlow'). Mae'n anodd deall ei arwyddocâd yma onis defnyddir yn drosiadol i olygu poncen foliog gron. Fodd bynnag, ceir planhigyn o'r enw *llysiâu'r bystwn*, sef 'marsh woundwort', 'wood sage', neu 'whitlow grass'. Mae'n amlwg oddi wrth yr enw Cym. a'r enw Saes. 'whitlow grass' yr ystyrir y planhigyn hwn yn dda at wella'r bystwn, ac mae'n bosib ei fod yn tyfu ar y bryn hwn. Byddai ein hynafiaid yn ymwybodol iawn o rinweddau meddyginiaethol planhigion arbennig ac yn gwybod ymhle i fynd i chwilio amdanynt.

*Bryn Cerrig* Cae-haidd-mawr 1842 RhPDegwm 1554  
*bryn, carreg, llu. cerrig*

<i>Bryn y Cocksith</i>	Demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Bryn-cocsydd</i>	Glynllifon	1920	Map OS	XX N.E.
<i>Bryn-cocsydd</i>	Glynllifon	1959	Map OS	SH 45
<i>Bryn-cocsydd</i>	Glynllifon	2002	Map OS	Explorer 254

***bryn, cocsydd***

Mae sawl amr. i'r e. *cocsydd*: *cocsut*, *cocset*, *cocsyth*. Benth. yw o'r Saes. *cockshut*, sef man lle delid cyfflogod ac adar hela eraill. Gweler *Cocsidia* dan Anheddau Llanbeblig am ymdriniaeth lawn o'r elfen hon.

<i>Bryn coch bach</i>	Bodfan	1842	RhPDeGwm	245
-----------------------	--------	------	----------	-----

***bryn, coch, bach***

<i>Bryn coch garw</i>	Bodfan	1842	RhPDeGwm	327
-----------------------	--------	------	----------	-----

***bryn, coch, garw***

<i>Bryn coch pella'</i>	Bodfan	1842	RhPDeGwm	330
-------------------------	--------	------	----------	-----

***bryn, coch, ans. pell, gradd eithaf pellaf***

<i>Bryn coch rhywiog</i>	Bodfan	1842	RhPDeGwm	328
--------------------------	--------	------	----------	-----

***bryn, coch, rhywiog***

<i>Bryn Colomendy</i>	Bodfan	1842	RhPDeGwm	110
-----------------------	--------	------	----------	-----

***bryn, colomendy***

<i>Bryn cwla</i>	Tyddyn-mansier	1842	RhPDeGwm	1348
------------------	----------------	------	----------	------

***bryn, cwla***

Rhaid ystyried mai e.p. sydd yn yr ail elfen yn hytrach na'r ans. *cwla*; ceir cofnod o'r enw *Culla* yng Nghaernarfon. (Gweler ymdriniaeth lawn o'r elfen dan *Llwyn-cwla* yn Anheddau Llandwrog).

<i>Bryn ddraenen</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDeGwm	1653-4
----------------------	----------------------	------	----------	--------

***bryn, draenen***

Byddai 'Bryn-drain' yn fwy naturiol, onid yw'n cyfeirio at lwyn neilltuol.

<i>Bryn Ebolion</i>	Tyddyn-Twrog	1842	RhPDeGwm	2001
---------------------	--------------	------	----------	------

***bryn, ebol, llu. ebolion***

<i>Bryn Eithin</i>	Cae-haidd-mawr	1842	RhPDeGwm	1481
<i>Bryn Eithin</i>	Tŷ-newydd	1842	RhPDeGwm	1844

***bryn, eithin***

<i>Bryn fferam</i>	Tan-y-muriau	1842	RhPDeGwm	1976
--------------------	--------------	------	----------	------

***bryn, fferam***

'Fferm' yw *fferam*. Mae'r ffurf hon yn fwy cyffredin ym Môn nag yn Arfon, ond ceir mwy nag un enghraifft ohoni ym mhlwyf Llandwrog.

<i>Bryn ffidil</i>	Pen-rhiwiau	1842	RhPDeGwm	1967
--------------------	-------------	------	----------	------

***bryn, ffidil***

Ceir sawl enghraifft o gacau a elwir yn *Fiddle Case* yn Swydd Gaerhirfryn (*EFN*, 137-8) Gellir dychmygu cae o'r siâp hwn, ond nid yw mor hawdd gweld sut y gallai bryn fod yr un siâp.

<i>Bryn ffynnon</i>	Glan'rafon	1842	RhPDeGwm	1787
---------------------	------------	------	----------	------

***bryn, ffynnon***

<i>Bryn gorlan</i> <b>bryn, corlan</b>	Garth-dorwen	1842	RhPDegwm	823
<i>Bryn Gwenith</i> <b>bryn, gwenith</b>	Pen-y-bwth	1842	RhPDegwm	303
<i>Bryngwyn</i> <i>Cae Bryngwyn</i> <b>cae, bryn, gwyn</b>	Bryngwyn Bryngwyn	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	1561 1557-8
<i>Bryngwyn Bach</i> <b>bryn, gwyn, bach</b>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1477
<i>Bryn Hamen</i> <b>bryn, hamen?</b> Mae'n anodd iawn dirnad beth yw <i>hamen</i> .	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPDegwm	1604
<i>Bryn hir</i> <b>bryn, hir</b>	Bryngwyn	1842	RhPDegwm	1559
<i>Bryn Isa'</i> <b>bryn, ans. isel, gradd eithaf isaf</b>	Cefn-nen	1842	RhPDegwm	1363
<i>Bryn llety</i> <b>bryn, llety</b>	Cilfoden	1842	RhPDegwm	1847
<i>Bryn Mawr</i> <b>bryn, mawr</b>	Cefn-Emrys	1842	RhPDegwm	152, 152a, 153
<i>Bryn Pibor</i> <i>Bryn pipion</i> <b>bryn, pibwr?</b> Mae'n debyg mai'r un enw, y naill yn un. a'r llall yn llu., sydd yn ail elfen y ddau gofnod uchod. Gellir cynnig mai <i>pibwr</i> , sef 'pibydd', sydd yng nghofnod 1556. Mae MR yn deall <i>Aberpibor</i> yn Llandyfaelog, Caerf. fel 'aber <i>Pibwr</i> ' a 'Pibwr' yw ynganiad arferol enw'r afon yn y fan honno. Ceir sawl enghraifft o'r elfen <i>pibwr</i> mewn e.lleoedd, yn sir Gaerfyrddin yn bennaf: <i>Allt Pibwr</i> , <i>Felin Pibwr</i> , <i>Pont Pibwr</i> ac eraill (AMR). Mae <i>pipion</i> yn anodd ei esbonio, onid yw'n llurguniad o 'pibyddion', a bod y pibwr gwreiddiol dros gyfnod wedi cynhyrchu teulu o bibyddion. <i>Bryn y Pibion</i> yw'r ffurf a gofnodir gan Fyrddin Fardd yn 1908 ( <i>LIGSG</i> , 93).	? Garth	1556 1842	NewGlynllifon RhPDegwm	XD2 / 6621 1326
<i>Bryn 'r orsedd</i> <b>bryn, y, gorsedd</b> <i>Pen-yr-orsedd</i> (q.v. dan Anheddau Llandwrog) oedd enw'r chwarel lechi fwyaf yn Nyffryn Nantlle. Ceir annedd hefyd o'r enw <i>Tyn-lôn-gorseddfa / Gorseddfa</i> yn Llandwrog Uchaf. Un o ystyron <i>gorsedd</i> yw tomen, crug, carnedd neu fryncyn, felly mae dwy elfen <i>Bryn 'r orsedd</i> bron yn gyfystyr â'i gilydd.	Nantlle	1842	RhPDegwm	2094
<i>Bryn rhydd</i> <b>bryn, rhydd</b> Gellid esbonio'r enw hwn fel 'bryn rhydd' neu 'bryn yr hydd'.	Dylfryn-Twrog	1842	RhPDegwm	2009
<i>Bryntirion</i> <i>Bryntirion</i>	Cim-newydd Pen-rhiwiau	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	1910 1919

**bryn, tirion**

<i>Bryn trallwyn</i>	Cim-newydd	1842	RhPDegwm	1913
----------------------	------------	------	----------	------

**e.ll. Bryn-trallwyn**

Mae annedd o'r enw hwn yng nghyffiniau Carmel (q.v.). Nid yw *GPC* yn nodi *trallwyn*, ond mae'n nodi'r ffurf *trallwn* fel amrywiad ar *trallwng*, sef pwll budr neu fan corsiog; cf. *Y Trallwng* (Welshpool).

<i>Bryn ucha'</i>	Cefn-nen	1842	RhPDegwm	1362
-------------------	----------	------	----------	------

<i>Bryn Ucha'</i>	Court	1842	RhPDegwm	1323
-------------------	-------	------	----------	------

**bryn, ans. uchel, gradd eithaf uchaf**

<i>Bryn wern</i>	Bryn'rodyn	1842	RhPDegwm	1020
------------------	------------	------	----------	------

**bryn, gwern**

<i>Brin y Garreg</i>	Hafod-boeth	1660	P. yr Aur	16801b
----------------------	-------------	------	-----------	--------

<i>Bryn y Garreg</i>	Hafod-boeth	1722	P. yr Aur	16801d
----------------------	-------------	------	-----------	--------

<i>Bryn y Garreg</i>	Hafod-boeth	1758	P. yr Aur	16801g
----------------------	-------------	------	-----------	--------

<i>Bryny Garreg</i>	Hafod-boeth	1769	P. yr Aur	16801i
---------------------	-------------	------	-----------	--------

<i>Bryn y garreg</i>	Hafoty-wen	1842	RhPDegwm	1435
----------------------	------------	------	----------	------

**bryn, y, carreg**

<i>Bryniau</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1647
----------------	----------------------	------	----------	------

**bryn, llu. bryniau**

<i>Bryniau Corsyth</i>	Nantlle	1842	RhPDegwm	2093
------------------------	---------	------	----------	------

**bryn, llu. bryniau, cors, llu. corsydd**

Mae'n bosib mai *corsydd* yw'r ail elfen, onid yw'n wall copio am *cocsyth*. Gweler *Bryn-cocsydd* uchod.

**Buarth****Llandwrog**

<i>Buarth</i>	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPDegwm	1617
<i>Buarth</i>	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1196-7
<i>Buarth</i>	Garth	1842	RhPDegwm	867
<i>Buarth</i>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2141, 2149, 2162-4, 2166-7

<i>Buarth</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1432
<i>Buarth</i>	Grafog	1842	RhPDegwm	944
<i>Buarth</i>	Hafoty-Tŷ-Newydd	1842	RhPDegwm	1871
<i>Buarth</i>	Pen-y-bryn	1842	RhPDegwm	2102-4, 2119
<i>Buarth</i>	Pen-y-bwth	1842	RhPDegwm	276
<i>Buarth</i>	Plas-mawr	1842	RhPDegwm	611-12
<i>Buarth</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1104
<i>Buarth</i>	Tŷ-newydd	1842	RhPDegwm	1497, 1513-18
<i>Buarth</i>	Tyn-rhos	1842	RhPDegwm	1309-10

**bruarth**

<i>Buarth Cregin</i>	Gilwern-isaf	1842	RhPDegwm	1123
----------------------	--------------	------	----------	------

**bruarth, cragen, llu. cregyn**

<i>Buarth dwfr</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1708-9
<i>Buarth dwr</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503

**bruarth, dŵr**

<i>Buarth dwr ucha</i> <b><i>buarth, dŵr, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>y Biarth glas</i> <b><i>y, buarth, glas</i></b>	Hafod-boeth	1660	P. yr Aur	16801b
<i>Buarth Graig</i> <i>Buarth y graig</i> <b><i>buarth, y, craig</i></b>	Glyn-y-meibion-isaf Glyn-y-meibion-isaf	1842 1863	RhPDegwm Bangor	1663 28503
<i>Buarth gron</i> <b><i>buarth, ans. crwn, ben, cron</i></b> Mae'r ans. ben. yn taro'n rhyfedd ar y glust: eg. yw <i>buarth</i> .	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1656
<i>Buarth Gwyn</i> <i>Buarth gwyn</i> <b><i>buarth, gwyn</i></b>	Nantlle Tal-y-sarn	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	2135 1950
<i>y Buarth isaf</i> <i>Buarth isa</i> <i>Buarth isa'</i> <b><i>buarth, ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>	? Coed-y-brain Coed-y-brain	1719/20 1798–9 1842	Tynygongl Vaynol RhPDegwm	300 4059 1495
<i>Buarth Lloia</i> <b><i>buarth, llo, llu. lloiau</i></b>	Coed-y-brain	1798–9	Vaynol	4059
<i>Buarth Newydd</i> <i>Buarth newydd</i> <b><i>buarth, newydd</i></b>	Coed-y-brain Bron-rhiw	1798–9 1842	Vaynol RhPDegwm	4059 1984, 1998, 2005
<i>Buarth Parry</i> <b><i>buarth, e.p. Parry</i></b>	Coed-y-brain	1798–9	Vaynol	4059
<i>Buarth 'Rallt goch</i> <b><i>buarth, yr, allt, coch</i></b>	Hafod-boeth	1842	RhPDegwm	1429
<i>Buarth 'rodyn</i> <b><i>buarth, yr, odyn</i></b>	Cae-tŷ	1842	RhPDegwm	502
<i>Buarth rhwng y</i> <i>ddwyffos</i> <b><i>buarth, rhwng, y, dwy, ffos</i></b>	Collfryn	1760	NewGlynllifon	XD2 / 7462
<i>Buarth tan y ffordd</i> <b><i>buarth, tan, y, ffordd</i></b>	?	1727	Ll&Brynodol	D910–11
<i>Buarth Tyfod</i> <i>Buarth tywod</i> <b><i>buarth, tywod</i></b> Amr. ar tywod yw <i>tyfod</i> : cf. <i>cawod / cafod</i> .	Coed-y-brain Tŷ-newydd	1798–9 1842	Vaynol RhPDegwm	4059 1531
<i>Buarth ucha</i> <b><i>buarth, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</i></b>	Coed-y-brain	1798–9	Vaynol	4059
<i>Buarth Werglodd</i>	Hendre	1842	RhPDegwm	777



**buarth, gweirglodd**

<i>Buarth y big</i> <b>buarth, y, pig</b>	Tyddyn-mansier	1842	RhPDegwm	1345
<i>Buarth y Cae Rhedyn</i> <b>buarth, y, cae, rhedyn</b>	?	1745	Dinam Hall	210
<i>Buarth y Rhiw</i> <b>buarth, y, rhiw</b>	Pen-yr-allt	1842	RhPDegwm	638
<i>Buartha'</i> <i>Buarthau</i> <b>buarth, llu. buarthau</b>	Coed-y-brain Gelli-ffrydau	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	2154, 2155a 1503–5

**Buarthgae Llandwrog**

<i>Buarthgae</i> <b>buarthgae</b>	Coed-y-brain	1798–9	Vaynol	4059
--------------------------------------	--------------	--------	--------	------

**Buches Llandwrog**

<i>Fuches</i>	Cae-Forgan	1842	RhPDegwm	1759
<i>Fuches</i>	Garth-dorwen	1842	RhPDegwm	831
<i>Fychas</i> <b>buches</b>	Glyn-y-meibion-isaf	1863	Bangor	28503

Er ein bod yn fwy tueddol o feddwl am *buches* fel 'gyr o wartheg', e.e. 'buches odro', gall hefyd olygu'r buarth lle cesglir y gwartheg i'w godro, ac mae'n debyg mai'r ystyr hon sydd yma. (Gweler MR yn *TCHSG*, 52–3, (1991–2), 20). Y fannod a gollwyd a barodd y tr. meddal ar ddechrau'r enghreifftiau uchod. Sylwer ar yr ynganiad llafar lleol yng nghofnod 1863.

<i>Fuches las</i>	Cae-Forgan	1842	RhPDegwm	1760–1
<i>Fuches las</i> <b>buches, glas</b>	Tyddyn-mansier	1842	RhPDegwm	1324

**Bwlan Llandwrog**

<i>Bwlan Mawr</i> <b>bwlan, mawr</b>	Cefn-Emrys	1842	RhPDegwm	158
---	------------	------	----------	-----

Enw cyff. yw *bwlan* (amr. *bylan*), a'r ystyr yw llestr neu fasedd gron i ddal grawn ŷd neu wlân. Y syniad yw rhywbeth boliog a chrwn, ac yma cyfeiria at fryncyn crwn. Gweler *Bwlan* dan Anheddau Llandwrog.

**Bwlch Llandwrog**

<i>Bwlch glas</i> <b>bwllch, glas</b>	Bron-rhiw	1842	RhPDegwm	1988
<i>Bwlch y Ffordd</i> <b>bwllch, y, ffordd</b>	Gerlan	1842	RhPDegwm	1905

**Cae Llandwrog**

<i>Cae</i>	Cae-Llywarch	1842	RhPDegwm	547
<i>Cae</i>	Lleiniau	1842	RhPDegwm	231

<i>Cae</i>	Nantlle	1842	RhPDeGwm	2097-9
<i>Cae</i>	Pen-y-bryn	1842	RhPDeGwm	2112
<i>Cae</i>	Tafarn-dywyrch	1842	RhPDeGwm	1859
<b><i>cae</i></b>				

*Cae gosa' i'r lon* Glyn-y-meibion-isaf 1863 Bangor 28503  
***cae, ans. agos, gradd eithaf agosaf, i, y, lôn***

*Cae Arddwr* Gelli-ffrydau 1842 RhPDeGwm 2148  
***cae, arddwr, ar, ddwr?***

Os mai *garddwr* sydd yn yr ail elfen ni ddisgwylid cael y treigladd. Os yw hwn yn hen enw sydd yn mynd yn ôl lawer ymhellach na'r cofnod uchod, efallai mai *arddwr*, sef hen derm am amaethwr, neu'n fwy penodol 'aradrwr', sydd yma. Mae'n bosib mai 'cae ar ddwr' yw'r ystyr, er y byddai hwnnw'n ymadrodd od. Yn sicr, mae digon o ddwr yng nghyffiniau Gelli-ffrydau.

<i>Cae Bach</i>	Bodryn	1842	RhPDeGwm	329
<i>Cae bach</i>	Bodryn	1863	Bangor	28503
<i>Cae Bach</i>	Braich-y-trigwr-isaf	1842	RhPDeGwm	1441
<i>Cae Bach</i>	Bryn-glas	1842	RhPDeGwm	334
<i>Cae Bach</i>	Bwlan	1842	RhPDeGwm	391
<i>Cae Bach</i>	Cae'r Ffridd	1842	RhPDeGwm	
<i>Cae Bach</i>	Cae'r-ffridd	1842	RhPDeGwm	418, 1252
<i>Cae Bach</i>	Cae'r-loda	1842	RhPDeGwm	284-5
<i>Cae Bach</i>	Cae-garw	1842	RhPDeGwm	472
<i>Cae Bach</i>	Cae-haidd-bach	1842	RhPDeGwm	1542
<i>Cae Bach</i>	Cae-Llywarch	1842	RhPDeGwm	622
<i>Cae Bach</i>	Cefn-Badda	1842	RhPDeGwm	756
<i>Cae Bach</i>	Ffrwd	1842	RhPDeGwm	403
<i>Cae Bach</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDeGwm	1715
<i>Cae bach</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Cae Bach</i>	Hafoty-Tŷ-Newydd	1842	RhPDeGwm	1527
<i>Cae Bach</i>	Llwyn-y-piod-isaf	1842	RhPDeGwm	572
<i>Cae Bach</i>	Nantlle	1842	RhPDeGwm	2127-8
<i>Cae Bach</i>	Pen-y-bwth	1842	RhPDeGwm	298
<i>Cae Bach</i>	Rhiwafallen	1842	RhPDeGwm	645
<i>Cae Bach</i>	Talar-Siencyn	1842	RhPDeGwm	586, 983-4
<i>Cae Bach</i>	Trosglwyn	1842	RhPDeGwm	1763
<i>Cae Bach</i>	Tyddyn-Dafydd	1842	RhPDeGwm	980
<i>Cae Bach</i>	Tŷ-nant	1842	RhPDeGwm	795
<i>Cae Bach</i>	Tŷ-newydd	1842	RhPDeGwm	1512
<i>Cae Bach</i>	Tyn-lôn	1842	RhPDeGwm	840
<i>Cae Bach</i>	Tyn-rhos	1842	RhPDeGwm	1305
<i>Cae Bach</i>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDeGwm	857
<b><i>cae, bach</i></b>				

*Cae Bach Garreg* Cae'r-loda 1842 RhPDeGwm 286  
***cae, bach, carreg***

*Cae bach Glan mor* Penllech 1842 RhPDeGwm 107  
***cae, bach, glan. môr***

*Cae bach Sion* Glyn-y-meibion-uchaf 1842 RhPDeGwm 1643  
***cae, bach, e.p. Siôn***

<i>Cae Benllach</i> <i>cae, e.ll Penllech</i> Gweler <i>Penllech</i> dan Anheddau Llandwrog.	Bodfan	1842	RhPDegwm	111
<i>Cae Bennett</i> <i>cae, e.p. Bennett</i> Ni wyddys pwy oedd <i>Bennett</i> .	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	790
<i>Cae Berllen</i> <i>cae, perllan</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Cae Berllan Newydd</i> <i>cae, perllan, newydd</i>	Hafod Boeth	1842	RhPDegwm	1425-6
<i>Cae Bison</i> <i>cae, bison?</i> Mae'n anodd dirnad beth yw'r <i>bison</i> . Go brin mai'r Saes. <i>bison</i> sydd yma. Ceir <i>Cae bigson</i> ym mhlwyf Llanwnda (q.v.). Tybed ai datblygiad o <i>pigsofl</i> sydd yma, sef y enwd cyntaf o wair ifanc ar ôl hadu cae.	Braich-y-trigwr-isaf	1842	RhPDegwm	1442
<i>Cae Boncan</i> <i>cae, poncen</i>	Tyddyn-ab-Engan-bach	1842	RhPDegwm	782
<i>Cae Bricks</i> <i>Cae Bricks</i> <i>cae, Saes. brick, llu. bricks</i>	Tyn-y-parc Tyn-y-parc	1842 1908	RhPDegwm NewGlynllifon	14 XD2 / 6686
<i>Cae brwyn</i> <i>Cae Brwyn / Cae'r</i> <i>Brwyn</i> <i>Cae Brwyn</i> <i>Cae brwyn</i> <i>cae, y, brwynen, llu. brwyn</i>	Gallt-y-pill Glan'rafon Glan-y-morfa Tan-dinas	1842 1842 1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm RhPDegwm RhPDegwm	1263 64, 154 134 89
<i>Cae Brwyn Bach</i> <i>cae, y, brwynen, llu. brwyn, bach</i>	Cefn-Emrys	1842	RhPDegwm	133
<i>Cae brynhyfryd</i> <i>cae, bryn, hyfryd</i>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2083
<i>Bryn y Munger</i> <i>Kay bryn y maynger</i> <i>Cae-bryn-y-manger</i> <i>Cae Bryn y manger</i> <i>Cae Bryn y Manger</i> <i>cae, bryn, y, Saes. manger</i> Gan fod <i>Court</i> yn agos iawn at <i>Dyddyn-mansier</i> (q.v.) mae'n amlwg mai'r un <i>mansier</i> y cyfeirir ato yn y ddau enw.	Court? Court? Court? Court Court	1556 1585/6 1724 1738/9 1754	NewGlynllifon NewGlynllifon NewGlynllifon NewGlynllifon NewGlynllifon	XD2 / 6621 XD2 / 6622 XD2 / 6624 XD2 / 6625 XD2 / 6626
<i>Cae Bryn March</i> <i>Cae brynmarch</i> <i>Caebryn March</i> <i>cae, bryn, march</i>	Collfryn Collfryn Collfryn	1760 1804 1848	NewGlynllifon NewGlynllifon NewGlynllifon	XD2 / 7462 XD2 / 7468 XD2 / 7486
<i>Cae Bryn twrch</i>	Bryngwyn	1842	RhPDegwm	1570-73

*cae, bryn, twrch*

<i>Cae bryniau</i> <i>cae, bryn, llu. bryniau</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Cae Bugeiliaid</i> <i>cae, bugail, llu. bugeiliaid</i>	Bodfan	1842	RhPdegwm	109
<i>Cae Cader</i> <i>cae, cadair</i>	Cefn-badda	1837	Rumsey Wms	433
<i>Cae caled</i> <i>cae, caled</i>	Bodryn	1863	Bangor	28503
<i>Cae Cam</i> <i>cae, cam</i>	Cae-haidd-mawr	1842	RhPdegwm	1553
<i>y Kay Kanol</i>	yn nhrefgordd Dinlle	1585/6	NewGlynllifon	XD2 / 6622
<i>Cae Canol</i>	?	1724	NewGlynllifon	XD2 / 6624
<i>Cae Canol</i>	Bodryn	1842	RhPdegwm	243
<i>Cae Canol</i>	Bryn'rodyn	1842	RhPdegwm	1083
<i>Cae Canol</i>	Bryntrefeilir	1842	RhPdegwm	37
<i>Cae Canol</i>	Bryntrefeilir	1842	RhPdegwm	
<i>Cae Canol</i>	Cae-Forgan	1842	RhPdegwm	1756
<i>Cae Canol</i>	Cae-garw	1842	RhPdegwm	478
<i>Cae Canol</i>	Cae-Llywarch	1842	RhPdegwm	566
<i>Cae Canol</i>	Cae-Siôn	1842	RhPdegwm	1686
<i>Cae Canol</i>	Cwrt	1738/9	NewGlynllifon	XD2 / 6625
<i>Cae Canol</i>	Cwrt	1754	NewGlynllifon	XD2 / 6626
<i>Cae Canol</i>	Glan'rafon	1842	RhPdegwm	165
<i>Cae Canol</i>	Glan-y-morfa	1842	RhPdegwm	145
<i>Cae Canol</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Cae Canol</i>	Grugan-wen	1842	RhPdegwm	912
<i>Cae Canol</i>	Gwern-afalau	1842	RhPdegwm	203
<i>Cae Canol</i>	Penllech	1842	RhPdegwm	104
<i>Cae Canol</i>	Rhiwafallen	1842	RhPdegwm	649
<i>Cae Canol</i>	Talar-Siencyn	1842	RhPdegwm	589
<i>Cae Canol</i>	Tan-dinas	1842	RhPdegwm	80
<i>Cae Canol</i>	Trosglwyn	1842	RhPdegwm	1768
<i>Cae Canol</i> <i>cae, canol</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPdegwm	1456, 1478-9
<i>Cae Canol Bach</i> <i>cae, canol, bach</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPdegwm	1473-4
<i>Cae Cappel</i> <i>cae, capel</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
Am y 'capel' gweler <i>Betws</i> dan Anheddau Llandwrog uchod.				
<i>Cae Cefn</i> <i>cae, cefn</i>	Tyddyn-ab-Engan-bach	1842	RhPdegwm	784
<i>Cae Cefn Beudy</i>	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPdegwm	1614
<i>Cae cefn Beudy</i> <i>cae, cefn, beudy</i>	Cae-tŷ	1842	RhPdegwm	503

<i>Cae Cefn Cae Tywyrch</i> <b>cae, cefn, cae, tywarchen, llu. tyweirch</b>	Rhiwallen	1842	RhPDegwm	639
<i>Cae Cefn Efel</i> <i>Cae cefn'r efail</i> <b>cae, cefn, y, gefail</b>	Glyn-y-meibion-isaf Glyn-y-meibion-isaf	1842 1863	RhPDegwm Bangor	1668–9 28503
<i>Cae Cefn Gweithdy</i> <b>cae, cefn, gweithdy</b>	Tyddyn-mawr	1842	RhPDegwm	1292
<i>Cae Cefn yard</i> <b>cae, cefn, Saes. yard</b>	Garth-dorwen	1842	RhPDegwm	820
<i>Cae Cefn 'r Ardd</i> <b>cae, cefn, y, gardd</b>	Ysgubor-fawr	1842	RhPDegwm	463
<i>Cae Cefn Rhos</i> <b>cae, cefn, rhos</b>	Cae'r-loda	1842	RhPDegwm	287
<i>Cae Cefn 'Scybor</i> <b>cae, cefn, ysgubor</b>	Cae-Iago	1842	RhPDegwm	976
<i>Cae Cefn ty</i>	Bodryn	1842	RhPDegwm	117
<i>Cae Cefn ty</i>	Bryn-naid-hir	1842	RhPDegwm	1703
<i>Cae Cefn Ty</i>	Bryntrefeilir	1842	RhPDegwm	32
<i>Cae Cefn ty</i>	Bryntrefeilir	1885	NewGlynllifon	XD2 / 7451
<i>Cae Cefn ty</i>	Cae'r-Bongam	1842	RhPDegwm	479
<i>Cae Cefn ty</i>	Cae'r-ffridd	1842	RhPDegwm	1248
<i>Cae Cefn ty</i>	Cae-Morfudd	1842	RhPDegwm	1210
<i>Cae Cefn ty</i>	Cae-tŷ	1842	RhPDegwm	508
<i>Cae Cefn ty</i>	Ffrwd	1842	RhPDegwm	355
<i>Cae Cefn ty</i>	Garth	1842	RhPDegwm	861
<i>Cae Cefn ty</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1842	RhPDegwm	1406
<i>Cae cefn Ty</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1863	Bangor	28503
<i>Cae Cefn ty</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1716
<i>Cae cefn Ty</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Cae Cefn ty</i>	Hafod-Ifan	1842	RhPDegwm	1090
<i>Cae cefn ty</i>	Hafoty-Tŷ-Newydd	1842	RhPDegwm	1868
<i>Cae'r Cefn ty</i>	Hendref	1842	RhPDegwm	768
<i>Cae Cefn ty</i>	Penfforddfelen	1842	RhPDegwm	1396
<i>Cae Cefn ty</i>	Penllech	1842	RhPDegwm	103
<i>Cae Cefn ty</i>	Rhiwafallen	1842	RhPDegwm	644
<i>Cae Cefn ty</i>	Tafarn-Dudur	1842	RhPDegwm	803
<i>Cae Cefn ty</i>	Talar-Siencyn	1842	RhPDegwm	590
<i>Cae Cefn ty</i> <b>cae, cefn, tŷ</b>	Tyddyn-mawr	1842	RhPDegwm	1283
<i>Cae Cefn ty Ucha'</i> <b>cae, cefn, tŷ, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</b>	Hafod-Ifan	1842	RhPDegwm	1092
<i>Cae Cefn Hoiwel</i>	Cae-Llywarch	1842	RhPDegwm	623
<i>Cae Cefn'r hoiwel</i> <b>cae, cefn, yr, hoywal</b>	Bryn-naid-hir	1842	RhPDegwm	1718

Math o gwt neu sied led-agored yw *hoywal*. Benth. yw o'r Saes. *hovel*.

<i>Cae cyffylau</i> <i>cae, ceffyl, llu. ceffylau</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
Mae'r ail elfen yn dangos yr ynganiad lleol.				
<i>Cae Celyn</i> <i>cae, celynnen, llu. celyn</i>	Tyddyn-mawr	1842	RhPDegwm	1277-8
<i>Cae Cil Llidiart</i> <i>cae, cil, llidiart</i>	Collfryn	1842	RhPDegwm	529
<i>Cae Clay</i>	yn nhrefgordd Dinlle	1696	Mostyn B	1401
<i>Cae Clai</i>	Tan-dinas	1842	RhPDegwm	88
<i>Cae Clai</i> <i>cae, clai</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1459
<i>Cae Coch</i>	Benallt	1842	RhPDegwm	449
<i>Cae Coch</i>	Bryngwyn	1842	RhPDegwm	1563-4
<i>Cae Coch</i>	Caeanu'r demên	1842	RhPDegwm	743
<i>Cae Coch</i>	Cae-Siôn	1842	RhPDegwm	1700
<i>Cae Coch</i>	Cefn-eithin	1842	RhPDegwm	559
<i>Cae coch</i>	Cefn-Emrys	1842	RhPDegwm	191
<i>Cae Coch</i>	Penllech	1842	RhPDegwm	101-2
<i>Cae Coch</i>	Tŷ-coch	1842	RhPDegwm	220
<i>Cae Coch</i> <i>cae, coch</i>	Ysgubor-fawr	1842	RhPDegwm	459, 488
<i>Cae Coch isa'</i> <i>cae, coch, ans. isel, gradd eithaf isaf</i>	Tyddyn-Dafydd	1842	RhPDegwm	981
<i>Cae Coed</i>	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1489
<i>Cae Coed</i>	Factory Land	1842	RhPDegwm	1102
<i>Cae'r Coed</i>	Gilwern-isaf	1842	RhPDegwm	1109
<i>Cae Coed</i>	Talar-Siencyn	1842	RhPDegwm	591
<i>Cae Coed</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1101
<i>Cae Coed</i> <i>cae, y, coed</i>	Tŷ-newydd	1842	RhPDegwm	1492-4
<i>Cae court</i> <i>cae, Saes. court</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
Mae'n debyg fod <i>Glyn-y-meibion-uchaf</i> braidd yn bell oddi wrth yr annedd <i>Court</i> (q.v.) i awgrymu mai enw hwnnw sydd yma. Mae'n debyg mai'r e. cyff. sydd yma yn yr ystyr o feili neu fuarth.				
<i>Cae Cras</i> <i>cae, cras</i>	Cae-haidd-mawr	1842	RhPDegwm	1540
<i>Cae Cwm</i> <i>cae, cwm</i>	Tafarn-Dywyrch	1842	RhPDegwm	1855
<i>Cae Cwt</i>	Cefn-badda	1837	Rumsey Wms	433
<i>Cae y Cwt</i>	Cefn-badda	1842	RhPDegwm	758
<i>Cae Cwt</i> <i>cae, y, cwt</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1637

<i>Cae Cwtta</i> <b>cae, cwta</b>	Bryntrefeilir	1885	NewGlynllifon	XD2 / 7451
Tybed nad yr un cae sydd yn y cofnod hwn a'r nesaf a bod <i>cwter</i> wedi troi'n <i>cwta</i> gyda threigladau amser?				
<i>Cae Cwtter</i> <b>cae, cwter</b>	Bryntrefeilir	1842	RhPdegwm	41
Benth. o'r Saes. <i>gutter</i> yw <i>cwter</i> .				
<i>Cae Cyd</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPdegwm	1714
<i>Cae Cyd</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<b>cae, cyd</b>	Gallai hwn olygu cae a rennid yn gyffredin. Ceir yr ymadrodd <i>tir cyd</i> a'i amrywiad <i>cytir</i> am dir comin.			
<i>Cau Dauar y</i> <i>Llwynogod</i>	?	1696	Mostyn B	872
<i>Daear Llwynog</i> <b>cae, daear, y, llwynog, llu. llwynogod</b>	Factory Land	1842	RhPdegwm	1100
<i>Daear</i> y llwynog yw'r ffau neu loches lle mae'n magu'r cenawon. Ceir <i>Daear Llwynog</i> ym Mhwlheli a <i>Daear Cenawon</i> yn Llanuwchllyn (AMR), a'r enwau cyfatebol Saes. yn <i>Foxenhole</i> yn ardal Arberth (PNPem, 553); <i>Fox Holes</i> yn Steeple Morden, Swydd Gaergrawnt (EFN, 72) a <i>Foxhole</i> a <i>Foxhole Wood</i> yn St. Andrews, Morgannwg (PNDPH, 222).				
<i>Cae dros ty Coch</i> <b>cae, dros, e.ll Tŷ-coch</b>	Cefn-badda	1837	Rumsey Wms	433
<i>Cae drws y Beudy</i> <b>cae, drws, y, beudy</b>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPdegwm	1641
<i>Cae drws y Cwt</i> <b>cae, drws, y, cwt</b>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPdegwm	1635
<i>Cae drws yr' Scybor</i> <b>cae, drws, yr, ysgubor</b>	Cae'r-ffridd	1842	RhPdegwm	394
<i>Werglodd fwyaf</i> <b><i>gweirglodd, ans. mawr, gradd eithaf mwyaf</i></b>	Tyn-ros	1842	RhPDegwm	1274
<i>Werglodd ffynon</i>	Bodfan	1842	RhPDegwm	268
<i>Werglodd ffynon</i>	Bryn`rodyn	1842	RhPDegwm	1072
<i>Werglodd ffynon</i>	Court	1842	RhPDegwm	1317
<i>Werglodd ffynon</i> <b><i>gweirglodd, ffynnon</i></b>	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	2091
<i>Werglodd ganol</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1842	RhPDegwm	1657
<i>Werglodd ganol</i> <b><i>gweirglodd, canol</i></b>	Glyn-y-meibion-isaf	1863	Bangor	28503
<i>Werglodd Gate</i> <b><i>gweirglodd, Saes. gate</i></b>	Bodfan	1842	RhPDegwm	275
<i>Werglodd Gerlan</i> <b><i>gweirglodd, e.ll. Gerlan</i></b>	Gerlan-y-cyff	1842	RhPDegwm	1485
<i>Werglodd goch</i> <b><i>gweirglodd, coch</i></b>	Plas-mawr	1842	RhPDegwm	603
<i>Werglodd gron</i>	Bodfan	1842	RhPDegwm	112
<i>Werglodd gron</i>	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPDegwm	1621
<i>Werglodd gron</i>	Cae-tŷ	1842	RhPDegwm	512
<i>Werglodd gron</i>	Gilwern-uchaf	1842	RhPDegwm	1096, 1108
<i>Werglodd gron</i> <b><i>gweirglodd, ans. crwn, ben. cron</i></b>	Uwchlaw`r-ros	1842	RhPDegwm	1339
<i>Werglodd Hafod</i> <b><i>gweirglodd, hafod</i></b>	Hafoty-wen	1842	RhPDegwm	1588, 1622
<i>Werglodd Hendre</i> <b><i>gweirglodd, e.ll. Hendre</i></b>	Hendre	1842	RhPDegwm	760
<i>Werglodd isa'</i>	Braich-y-trigwr-isaf	1842	RhPDegwm	1438
<i>Werglodd isa'</i>	Cae-Llywarch	1842	RhPDegwm	550-1
<i>Werglawdd issa</i>	Cefn-badda	1837	Rumsey Wms	433
<i>Werglodd isa'</i>	Collfryn	1842	RhPDegwm	440
<i>Werglodd isa'</i>	Glan-y-morfa	1842	RhPDegwm	147
<i>Werglodd isa'</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1842	RhPDegwm	1410
<i>Werglodd isaf</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1863	Bangor	28503
<i>Werglodd isa'</i> <b><i>gweirglodd, ans. isel, gradd eithaf, isaf</i></b>	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	2092
<i>Werglodd mawn</i> <b><i>gweirglodd, mawn</i></b>	Gallt-y-pill	1842	RhPDegwm	1264
<i>Werglodd Mynydd</i>	Cae-Siôn	1842	RhPDegwm	1680

<i>Werglodd Mynydd</i> <b><i>gweirglodd, mynydd</i></b>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2160
<i>Werglodd nesa'</i> <b><i>gweirglodd, ans. agos, gradd eithaf nesaf</i></b>	Cae'r-ffridd	1842	RhPDegwm	1060
<i>Werglodd newydd</i>	?	1800	Ll&Brynodol	D1105-6
<i>Werglodd newydd</i>	?	1811	Ll&Brynodol	D1110-11
<i>Werglodd Newydd</i>	Beudy-newydd	1842	RhPDegwm	1230
<i>Gwerglodd nywydd</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Gwerglodd newydd</i>	demên Glynllifon	1751	Ll&Brynodol	R160
<i>Werglodd newydd</i> <b><i>gweirglodd, newydd</i></b>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
<i>Gw<sup>dd</sup>. Parry</i>	Coed-y-brain	1798-9	Vaynol	4059
<i>Werglodd Parry</i> <b><i>gweirglodd, e.p. Parry</i></b> Ni wyddys pwy oedd <i>Parry</i> .	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1194-5
<i>Werglodd Pentrygan</i> <b><i>gweirglodd, e.ll. Pentrygan</i></b>	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	2063-4
Yr unig gofnod o <i>trygan</i> yn <i>GPC</i> yw un o Lyfr Taliesin o'r 14g yn yr ystyr o gân neu gytgan, sydd yn bur annhebygol yng nghyd-destun yr enw hwn. Fodd bynnag, ceir yr enw <i>Llandrygarn</i> ym Môn. Fel y dengys MR, camddehonglir yr enw hwnnw ambell dro fel <i>Llandrygan</i> , a cheisiwyd darganfod sant i esbonio'r enw ( <i>ETG</i> , 144). Esbonia MR mai <i>trygarn</i> sydd yno mewn gwirionedd, sef <i>carn</i> gyda'r rhagddodiad cryfhaol <i>try-</i> . Yr ystyr yw 'carn fawr', ac mae'n bosib mai hyn sydd ym <i>Mhentrygan</i> hefyd.				
<i>Werglodd perthi</i> <b><i>gweirglodd, perth, llu. perthi</i></b>	Hafoty-wen	1842	RhPDegwm	1629
<i>Gwerglodd Pwll Marl</i>	demên Glynllifon	1751	Ll&Brynodol	R160
<i>Werglodd pwll marl</i> <b><i>gweirglodd, pwll, marl</i></b>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
<i>Werglodd Rhos</i> <b><i>gweirglodd, rhos</i></b>	Gilwern-uchaf	1842	RhPDegwm	1152
<i>Werglodd 'Scybor</i> <b><i>gweirglodd, ysgubor</i></b>	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	2089
<i>Werglodd tan ty</i>	Gilwern-uchaf	1842	RhPDegwm	1111
<i>Werglodd tan ty</i>	Gwern-afalau	1842	RhPDegwm	199
<i>Werglodd tan ty</i> <b><i>gweirglodd, tan, tŷ</i></b>	Penrhos-cwta	1842	RhPDegwm	1125
<i>Werglodd toccyn</i> <b><i>gweirglodd, tocyn</i></b>	Tyddyn-Elen	1842	RhPDegwm	260
Mae <i>tocyn</i> yn digwydd yn Arfon yn yr ystyr o dwmpath, e.e. <i>tocyn morgrug</i> , <i>tocyn twrch daear</i> ( <i>GPC</i> ; <i>WVBD</i> , 535), ac yn yr ystyr o rywbeth sydd wedi ei docio neu ei dorri'n gwta. Fe'i ceir hefyd yn enw <i>Bwlchtocyn</i> yn Llŷn.				
<i>Gwerglodd Tyfod</i> <b><i>gweirglodd, tywod</i></b> Amr. ar <i>tywod</i> yw <i>tyfod</i> , cf. <i>cawod</i> / <i>cafod</i> .	Coed-y-brain	1798-9	Vaynol	4059

<i>Werglodd ty'n pant</i> <b><i>gweirglodd, e.ll.Tyn-pant</i></b>	Hafod-y-coed	1842	RhPDegwm	1009
<i>Werglodd ucha'</i>	Cae-Llywarch	1842	RhPDegwm	549
<i>Werglawdd ucha</i>	Cefn-badda	1837	Rumsey Wms	433
<i>Werglodd ucha'</i>	Collfryn	1842	RhPDegwm	441
<i>Werglodd ucha'</i>	Hafod-Ifan	1842	RhPDegwm	1095
<i>Werglodd ucha'</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1476
<i>Werglodd ucha'</i> <b><i>gweirglodd, ans. uchel, gradd eithaf, uchaf</i></b>	Tyddyn-Dafydd	1842	RhPDegwm	996
<i>Werglodd wen</i>	Bodryn	1842	RhPDegwm	244
<i>Werglodd wen</i>	Bodryn	1863	Bangor	28503
<i>Werglodd wen</i>	Cae-haidd-mawr	1842	RhPDegwm	1555
<i>Werglodd wen</i>	Cae-Siôn	1842	RhPDegwm	1702
<i>Werglodd wen</i> <b><i>gweirglodd, ans. gwyn, ben. gwen</i></b>	Pen-y-bryn	1842	RhPDegwm	2115
<i>Gwerglodd y Cay</i> <i>Newydd</i> <b><i>gweirglodd, y, cae, newydd</i></b>	Hafod-boeth	1660	P. yr Aur	16801b
<i>Werglodd y llyn</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1863	Bangor	28503
<i>Werglodd y llyn</i> <b><i>gweirglodd, y, llyn</i></b>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1226
<i>Werglodd Ynys</i> <b><i>gweirglodd, ynys</i></b>	Cae'r-loda	1842	RhPDegwm	265
<b>Gwern</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Wern</i>	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1502
<i>Wern</i>	Gilwern-isaf	1842	RhPDegwm	1116
<i>Gwern</i>	Gwern-afalau	1842	RhPDegwm	201
<i>Wern</i>	Nantlle	1842	RhPDegwm	2100
<i>Y Wern</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1463
<i>Wern</i>	Tyddyn-Dafydd	1842	RhPDegwm	995
<i>Wern</i> <b><i>gwern</i></b>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	845
<i>Wern bach</i> <b><i>gwern, bach</i></b>	Coed-y-brain	1798-9	Vaynol	4059
<i>Wern Evan</i> <b><i>gwern, e.p. Evan</i></b> Ni wyddys pwy oedd <i>Evan</i> .	Nantlle	1842	RhPDegwm	2132
<i>Wern Isaf</i> <b><i>gwern, e.p. ans. isel, gradd eithaf, isaf</i></b>	Hafod-y-wern	1842	Ll&Brynodol	D522
<i>Wern Uchaf</i> <b><i>gwern, e.p. ans. uchel, gradd eithaf, uchaf</i></b>	Hafod-y-wern	1842	Ll&Brynodol	D522
<i>Wern y Moch</i>	Llwyn-y-gwalch	1842	RhPDegwm	506

**gwern, y, moch**

<i>Gwern'r Egal</i> <b>gwern, yr, egel</b>	Bryn'rodyn	1780	Watkin	49
---	------------	------	--------	----

**Gwinllan**

**Llandwrog**

<i>Winllan</i>	Cae-Siôn	1842	RhPdegwm	1695
<i>Winllan</i>	Garth	1842	RhPdegwm	877
<i>Winllan</i>	Tyddyn-mansier	1842	RhPdegwm	1344
<i>Winllan</i>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPdegwm	848

**gwinllan**

Gweler dan Gaeau Llanbeblig am ymdriniacth o'r enw hwn.

<i>Winllan Park mawr</i> <b>gwinllan, Saes. park, mawr</b>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
---	------------------	------	--------	------

**Gwndwn**

**Llandwrog**

<i>Gwndwn</i>	Cae-haidd-bach	1842	RhPdegwm	1546
<i>Gwndwn</i>	Glyn-y-meibion-isaf	1842	RhPdegwm	1661

**gwndwn**

Tir heb ei droi ers blynyddoedd yw *gwndwn* / *gwyndwn* / *gwyndon*.

**Gwrach**

**Llandwrog**

<i>Wrach</i>	Tŷ-nant	1842	RhPdegwm	2074
--------------	---------	------	----------	------

**gwrach**

Ystyr arferol *gwrach* yw gwiddon neu ddewines, ond fe'i defnyddir yn drosiadol ambell dro am rywbeth sydd yn hen neu'n hagr megis adeilad wedi mynd â'i ben iddo.

**Gwyn**

**Llandwrog**

<i>Gwynion</i> <i>ans. gwyn, llu. gwynion</i>	Tai-gwynion	1842	RhPdegwm	236
--	-------------	------	----------	-----

**Hafod**

**Llandwrog**

<i>Hafod</i>	Hafod-boeth	1842	RhPdegwm	1236
--------------	-------------	------	----------	------

**hafod**

<i>Hafod Dolog</i>	Cae-haidd-mawr	1842	RhPdegwm	1482
--------------------	----------------	------	----------	------

**hafod, dolog**

Nid yw *GPC* yn nodi *dolog*. Gallai o bosib fod yn ans. i ddisgrifio man lle ceir llawer o ddolydd, ond wedyn disgwylid cael tr. meddal ar ôl yr eb. un. *hafod*. Tybed nad un gair sydd yma, sef *hafodolog*? Mae *hafodol* yn digwydd (< *hafod* + *dôl*?): fe'i ceir yn *Fodol*, *Hafodol-newydd*, *Hafodol-uchaf* a *Fodol-isaf* yn ardal Nant-y-garth ar gyrion Y Felinheli (Map OS 1920). Cyfeirir at yr anheddau hyn fel *Y Fodolydd*. Ceir yr un elfen ym Modewryd, Môn. Fodd bynnag, mae'n anodd dirnad beth fyddai ystyr *hafodolog*.

**Hafoty**

**Llandwrog**

<i>Hafodty</i>	Hafoty-Tŷ-newydd	1842	RhPdegwm	1523
----------------	------------------	------	----------	------

<i>Hafodty</i>	Hafoty-wen	1842	RhPdegwm	1630
----------------	------------	------	----------	------

**hafoty**

<b>Haidd</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Haidd</i> <i>heidden, llu. haidd</i>	Cae-haidd-mawr	1842	RhPDegwm	1552
<b>Halen</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Halen</i> <i>halen</i>	Cae-halen-mawr	1842	RhPDegwm	208
<b>Hendref</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Hendre</i> <i>hendref</i>	Hendre	1842	RhPDegwm	768
<b>Hoywal</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Hoiwel</i> <i>hoywal</i>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2140
<b>Hwylfa</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Hwylfa</i> <i>hwylfa</i>	Hafoty-Tŷ-newydd	1842	RhPDegwm	1530

Llwybr cul yw'r ystyr. Cyfeiria J.Lloyd-Jones at yr un enw ym Mhenmachno; at *Hwylfa'r Ceirw* ar ben y Gogarth, *Bryn Hwylfa* ger Brynaerau, a *Phen yr Hwylfa* ym Maenan, er ei fod yn amau nad *hwylfa* ond (*g*)*wylfa* sydd yn rhai o'r enghreifftiau (*ELISG*, 124).

Yr un syniad sydd yma ag ym *Mraich-y-drygwr* (q.v.), o gofio mai *bach* yw'r elfen gyntaf yn yr enw hwnnw mewn gwirionedd, a hefyd yng *Nghil Drygwr* yn Nolbenmaen. Ystyr *llac* yma, fel *bach* a *chil*, yw llecyn lle gallai dihiryn ymguddio. Ystyr arferol *llac* yn Arfon yw pantle bach ar lan y môr â dŵr ynddo (*WVBD*, 340). Benth. yw o'r Saes. *slack*, ac yn Llŷn mae iddo'r ystyr hefyd o fwllch neu adwy. Mae'r gair yn llawer mwy cyfarwydd yn ei ffurf fachigol *lleccyn*. Rhaid tybio mai 'lleccyn' yn syml yw'r ystyr yn yr enw uchod, a bod *llac*, yn hytrach na *bach* neu *gil*, wedi ei gyfuno â *lleidr* oherwydd sŵn cyflythrennol dymunol yr ymadrodd. Gweler *Llety'r lleidr* isod. Yn ddiau, yr un lle yw hwnnw â'r cae uchod, ac yma yr un yw'r ystyr yn *llac* a *llety*. Enw arall eto arno oedd *Llain lleidr* isod (q.v.). Ceir ystyr

gyffelyb yn *Pant y Lladron* yng Nghroesoswallt a Niwbwrch (AMR), yn *Gwely Lleidr* rhwng Penmachno ac Ysbyty-Ifan<sup>1</sup>, ac yn *Thieves Den* yn Harthill, Swydd Derby<sup>2</sup>.

<b>Llain</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Llain</i>	Beddgwenan	1842	RhPDegwm	213
<i>Llain</i>	Bryn-naid-hir	1842	RhPDegwm	1354, 1722
<i>Llain</i>	Cae-doctor-bach	1842	RhPDegwm	173
<i>Llain</i>	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1265
<i>Llain</i>	Garth	1842	RhPDegwm	865
<i>Llain</i>	Garth-dorwen	1842	RhPDegwm	815-6
<i>Llain</i>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2143
<i>Llain</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Llain</i>	Grugan-ddu	1842	RhPDegwm	888-9, 891
<i>Llain</i>	Grugan-ganol	1842	RhPDegwm	905
<i>Llain</i>	Grugan-wen	1842	RhPDegwm	916
<i>Llain</i>	Gwern-afalau	1842	RhPDegwm	202
<i>Llain</i>	Hafod-y-coed	1842	RhPDegwm	1024-5
<i>Llain</i>	Lleiniau	1842	RhPDegwm	227
<i>Llain</i>	Llwyn-y-piod-isaf	1842	RhPDegwm	574
<i>Llain</i>	Llwyn-y-piod-uchaf	1842	RhPDegwm	577
<i>Llain</i>	Penrhos-cwta	1842	RhPDegwm	1127
<i>Llain</i>	Pen-y-bryn	1842	RhPDegwm	2113
<i>Llain</i>	Pen-yr-allt	1842	RhPDegwm	630
<i>Llain</i>	Plas-mawr	1842	RhPDegwm	598
<i>Llain</i>	Tal-y-sarn	1842	RhPDegwm	2117
<i>Llain</i>	Tyddyn-mansier	1842	RhPDegwm	1346-7
<i>Llain</i>	Tyddyn-mawr	1842	RhPDegwm	1278a, 1293
<i>Llain</i>	Tŷ-hen	1842	RhPDegwm	1148-9
<i>Llain</i>	Tyn-lôn	1842	RhPDegwm	844
<i>Llain</i>	Uwchlaw`r-rhos	1842	RhPDegwm	851
<b><i>llain</i></b>				
<i>Llain Bach</i>	Gilwern-uchaf	1842	RhPDegwm	1142
<b><i>llain, bach</i></b>				
	Yma eto ni threiglir yr ans. <i>bach</i> ar ôl eb.un.			
<i>Llain Fadyn</i>	Llain-Fadyn	1842	RhPDegwm	1158
<i>Llainfadyn otherwise</i>	Morfa-Dinlle	1866	Tryfan	103
<i>Llainyllwynog</i>				
<b><i>llain, e.p. Madyn</i></b>				
	Ceir ymdriniaeth o`r enw hwn dan <i>Llain-Fadyn</i> yn Anheddau Llandwrog. O edrych ar y ddau enw yng nghofnod 1866, mae`n amlwg fod y perchenogion yn achos <i>Morfa-Dinlle</i> yn deall yr elfen <i>madyn</i> fel `llwynog` yn hytrach nag fel yr e.p. <i>Madyn</i> , ffurf fachigol <i>Madog</i> .			
<i>Llain fain</i>	Cae-Iago	1842	RhPDegwm	974
<i>Llain fain</i>	Court	1842	RhPDegwm	1314
<i>Llain fain</i>	Gilwern-isaf	1842	RhPDegwm	1115
<i>Llain fain</i>	Trosglwyn	1842	RhPDegwm	1774
<b><i>llain, main</i></b>				
<i>Llain ficcws</i>	Coed-y-brain	1798-9	Vaynol	4059

<sup>1</sup> Arthur Thomas. 'Enwau Caeau'. *Llafar Gwlad*, 95 (Gaeaf, 2006-7), 8

<sup>2</sup> John Field. 'Derogatory Field-Names', *EPNSJ*, 9, (1976-7), 23.

***Llain, bicws?***

Gall *bicws / picws / micws* olygu 'y mymryn lleiaf', neu gall olygu math o fwyd a wneir trwy falu bara ceirch mewn llaeth enwyn, a elwir fel rheol yn 'picws / bicws mali' (WVBD, 429). Mae'n bosib mai pwt bach o dir a olygir yma.

<i>Llain Ffynon</i> <b><i>llain, ffynnon</i></b>	Rhiwafallen	1842	RhPDegwm	633
<i>Llain garreg</i> <b><i>llain, carreg</i></b>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	1329
<i>Llain George</i> <b><i>llain, e.p. George</i></b> Ni wyddys pwy oedd <i>George</i> .	Hendre	1842	RhPDegwm	763
<i>Llain Gerlan</i> <b><i>llain, e.ll. Gerlan</i></b>	Gilwern-isaf	1842	RhPDegwm	1110
<i>Llain Glan'rafon</i> <b><i>llain, e.ll. Glan'rafon</i></b>	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPDegwm	1619
<i>Llain grepach</i> <b><i>llain, crepach</i></b> Ceir ymdriniaeth lawn o'r elfen <i>crepach</i> dan <i>Cae Grepach</i> uchod.	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPDegwm	1611
<i>Llain hir</i> <i>Llain hir</i> <b><i>llain, hir</i></b>	Gelli-ffrydau Plas-Tal-y-sarn	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	2142 1936
<i>Llain hyll</i> <b><i>llain, hyll</i></b>	Tyddyn-mansier	1842	RhPDegwm	1729
<i>Llain isa'</i> <b><i>llain, ans. isel, gradd eithaf isaf</i></b>	Cae-Iago	1842	RhPDegwm	989
<i>Llain las</i> <b><i>llain, glas</i></b>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1461-2
<i>Llain Lleidor</i> <i>letty'r lleidr</i> <i>otherwise Llain-y-lleidr</i> <b><i>llain, lleidr</i></b> Ymddengys mai'r un lle oedd <i>Llac / Llety</i> a <i>Llain-y-lleidr</i> .	Tryfan-fawr Tryfan-fawr	1829 1829	Tryfan Tryfan	102 102
<i>Llain 'r Odyn</i> <b><i>llain, yr, odyr</i></b>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1227-8
<i>Llain rhwng y ddwy</i> <i>offt</i>	Gilwern	1722	P. yr Aur	16801d
<i>Llain rhwng y ddwy</i> <i>offt</i> <b><i>llain, rhwng, y, dwy, crofft</i></b>	Gilwern	1758	P. yr Aur	16801g
<i>Llain tan yr Ardd Wair</i>	Gilwern	1722	P. yr Aur	16801d

<i>Llain tan yr ardd wair</i> <b>llain, tan, y, gardd, gwair</b>	Gilwern	1758	P. yr Aur	16801g
<i>Llain Ucha'</i>	Cae-Iago	1842	RhPDegwm	979
<i>Llain Ucha'</i>	Tal-y-sarn	1842	RhPDegwm	1952
<b>llain, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</b>				
<i>Llain Wenith</i> <b>llain, gwenith</b>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	854
<i>Llainy gaseg</i>	Cefn-badda	1837	Rumsey Wms	433
<i>Llain y gaseg</i> <b>llain, y, caseg</b>	Hendre	1842	RhPDegwm	759
<i>Llain y Llwynog</i>	?	1787	Tryfan	95-6
<i>Llainfadyn otherwise</i>	Morfa-Dinlle	1866	Tryfan	103
<i>Llainyllwynog</i> <b>llain, y, llwynog</b>				
Gweler y nodyn ar <i>Llain-Fadyn</i> uchod.				
<i>Llain y Werglodd</i> <b>llain, y, gweirglodd</b>	Trosglwyn	1842	RhPDegwm	1764
<i>Llain yr Ardd Wair</i>	Gilwern	1722	P. yr Aur	16801d
<i>Llain yr ardd wair</i> <b>llain, y, gardd, gwair</b>	Gilwern	1758	P. yr Aur	16801g
<i>Lleiniau</i>	Bodryn	1842	RhPDegwm	121
<i>Lleiniau</i>	Cae-Siôn	1842	RhPDegwm	1677
<i>Lleiniau</i> <b>llain, llu. lleiniau</b>	Hendre	1842	RhPDegwm	762
<i>Lleiniau Cae'r lon</i> <b>llain, llu. lleiniau, cae, y, lôn</b>	Cae-Siôn	1842	RhPDegwm	1683
<i>Lleinia' Glover</i> <b>llain, llu. lleiniau, Saes. clover</b>	Glan-y-morfa	1842	RhPDegwm	140
<i>Lleiniau W<sup>m</sup> Edw<sup>d</sup></i> <b>llain, llu. lleiniau, e.p. William Edward</b>	Bodryn	1863	Bangor	28503
Ni wyddys pwy oedd <i>William Edward</i> .				
<b>Llan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Llan</i> <b>llan</b>	Ysgubor-isaf	1842	RhPDegwm	349
<b>Llannerch</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Llanerchy pan</i> <b>llannerch, y, pan</b>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
Gweler hefyd <i>Cefn gallt y pan</i> a <i>Coed llannerch y pan</i> uchod.				



<b>Llathen</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Cae llathen</i> <b>cae, llathen</b>	Gwern-afalau	1842	RhPDegwm	212
<i>Kay y pedair Llathen</i>	?	1585/6	NewGlynllifon	XD2 / 6622
<i>Cae-y-pedair-llathen</i>	Court?	1724	NewGlynllifon	XD2 / 6624
<i>Cae y pedair lathen</i>	Court	1738/9	NewGlynllifon	XD2 / 6625
<i>y Pedair Llathen</i>	Court	1754	NewGlynllifon	XD2 / 6626
<b>cae, y, pedair, llathen</b>				
<i>Cae wyth lathen</i> <b>cae, wyth, llathen</b>	Cae-tŷ	1842	RhPDegwm	101
<i>Cae naw llathen</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1717
<i>Cae naw llathen</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<b>cae, naw, llathen</b>				
<i>Kay y deg llathen</i>	?	1585/6	NewGlynllifon	XD2 / 6622
<i>Cae-y- deg llathen</i>	Court?	1724	NewGlynllifon	XD2 / 6624
<i>Cae y deg lathen</i>	Court	1738/9	NewGlynllifon	XD2 / 6625
<i>Cae y Deg Llathen</i>	Court	1754	NewGlynllifon	XD2 / 6626
<b>cae, y, deg, llathen</b>				

### **Llety Llandwrog**

<i>Lletti yr Lleider</i> <b>llety, y, lleidr</b>	Tryfan	1829	Tryfan	102
---	--------	------	--------	-----

Mae'n amlwg mai'r un cae yw hwn â *Llac y lleidr* a *Llain-y-lleidr*, (q.v.). Yr un yw ystyr yr elfen gyntaf ym mhob un, sef rhyw fath o wâl i'r lleidr, pwy bynnag ydoedd.

### **Llidiart Llandwrog**

<i>Llidiart Mynydd</i> <b>llidiart, mynydd</b>	Gerlan	1842	RhPDegwm	1837
---	--------	------	----------	------

Llidiart y mynydd yw'r llidiart yn wal y mynydd sydd yn arwain o'r tir caeedig is i'r tir agored ar y mynydd ei hun.

### **Lloc Llandwrog**

<i>Lloc</i>	Hafod-Ifan	1842	RhPDegwm	1089
<i>Lloc</i>	Llwyn-y-gwalch	1842	RhPDegwm	1005
<i>Lloc</i>	Pen-y-bryn	1842	RhPDegwm	1973, 2101
<i>Lloc</i>	Trosglwyn	1842	RhPDegwm	1762
<i>Lloc</i>	Tyddyn-mawr	1842	RhPDegwm	1289
<i>Lloc</i>	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	357

#### **lloc**

Corlan neu ffald yw *lloc*.

<i>Lloc Bach</i> <b>lloc, bach</b>	Gilwern-isaf	1842	RhPDegwm	1112
---------------------------------------	--------------	------	----------	------

### **Llwyn Llandwrog**

<i>Llwyn</i>	Llwyn-y-gwalch	1842	RhPDegwm	998
--------------	----------------	------	----------	-----

<i>Llwyn llwyn</i>	Rhiwafallen	1842	RhPDegwm	653
<i>Llwyn Cae Gate llwyn, cae, Saes. gate</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Llwyn Cae Scubor llwyn, cae, ysgubor</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Llwyn Fawrth bach llwyn, Mawrth, bach</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
Mae'n anodd gwybod beth yw ystyr yr enw hwn. Ceir 'llwyd Mawrth' yn enw ar bluen pysgota, ond ni fyddai'r ystyr honno'n gwneud dim mwy o synnwyr yma. Tybed ai llwyn penodol a oedd yn blodeuo ym mis Mawrth sydd yma, ond mae'n anodd esbonio'r tr. meddal yn <i>Fawrth</i> .				
<i>Llwyn Fawrth mawr llwyn, Mawrth, mawr</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Llwyn glas Llwyn glas llwyn, glas</i>	Coed-y-brain Coed-y-brain	1798-9 1842	Vaynol RhPDegwm	4059 1500
<i>Llwyn Ifan Cae Scubor llwyn, e.p. Ifan, e.ll. Cae-ysgubor</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Llwyn mawr llwyn, mawr</i>	Ysgubor-isaf	1842	RhPDegwm	344
<i>Llwyn sych llwyn, sych</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1225
<b>Llydan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Llydan llydan</i>	Tŷ-newydd	1842	RhPDegwm	1520-1, 1525
Enghraifft arall o'r ans. ar ei ben ei hun mewn enw cae.				
<b>Llyn</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Llyn y groes llyn, y, croes</i>	Tan-dinas	1842	RhPDegwm	77
<b>Maes</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Maes gwaed maes, gwaed</i>	Hafoty-wen	1842	RhPDegwm	1620
Ni wyddys pam yr ystyrir y maes hwn yn waedlyd, ddim mwy na'r <i>Dryllie gwaedlyd</i> a grybwyllwyd uchod.				
<i>Maes gwyn Maes gwyn maes, gwyn</i>	Gerlan-y-cyff Tryfan-fawr	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	1486 1409

**Magwyr****Llandwrog**

<i>Fagwyr</i>	Coed-y-brain	1798-9	Vaynol	4059
<i>Fagwyr</i>	Coed-y-brain	1842	RhPdegwm	1499

**magwyr**

Ystyr arferol *magwyr* yw mur, pared neu wal gerrig. Ceir yr elfen Gern. gyfatebol \**magoer* yn yr e.lleoedd *Maker* a *Magor* yng Nghernyw (*Corn. PNE.* 156). Yn y Gym. mae i'r elfen hefyd ystyr arbenigol brinnach ym myd amaeth, sef colofn sgwâr o wair a dorwyd i lawr ochr tas wair fesul tafell.

**Mansier****Llandwrog**

<i>Maensier</i>	Tyddyn-mansier	1842	RhPdegwm	1351
-----------------	----------------	------	----------	------

**mansier**

Gweler *Tyddyn-mansier* dan Anheddau Llandwrog am ymdriniaeth o'r elfen hon.

**Mawnog****Llandwrog**

<i>Fawnog</i>	Tai-gwynion	1842	RhPdegwm	129
---------------	-------------	------	----------	-----

**mawnog****Meddiant****Llandwrog**

<i>Meddiant twrog</i>	?	1839	Bangor	1065
<i>Meddiant Twrog</i>	Tan-y-muriau	1842	RhPdegwm	1985
<i>Meddiant twrog</i>	?	1845	Bangor	1084
<i>Meddiant twrog</i>	?	1854	Bangor	1094

**meddiant, e.p. Twrog**

Un o ystyron *meddiant* yw bywoliaeth eglwysig, ac mae'n bosib fod y cae hwn ar un adeg yn rhan o dir yr eglwys ym mhlwyf Llandwrog. Am yr e.p. *Twrog* gweler *Llandwrog*.

**Morfa****Llandwrog**

<i>Morfa</i>	Cefn-Emrys	1842	RhPdegwm	65
<i>Morfa</i>	Glan-y-morfa	1842	RhPdegwm	131

**morfa****Morgan****Llandwrog**

<i>Forgan</i>	Cae-Forgan	1842	RhPdegwm	1753. 1773
---------------	------------	------	----------	------------

**e.p.Morgan**

Am y dull hwn o enwi cae gweler dan *Cae-hen* uchod.

**Mount****Llandwrog**

<i>Mount hazle</i>	Mount Hazel	1842	RhPdegwm	423
--------------------	-------------	------	----------	-----

**e.ll. Saes. Mount Hazel**

Gweler *Mount Hazel* dan Anheddau Llandwrog.

**Nant****Llandwrog**

<i>Nant</i>	Beudy-isaf	1842	RhPdegwm	1249
<i>Nant</i>	Cae'r-ffridd	1842	RhPdegwm	396
<i>Nant</i>	Factory Land	1842	RhPdegwm	1094
<i>Nant</i>	Ffrwd	1842	RhPdegwm	404

<i>Nant</i>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2062, 2152
<i>Nant</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1431, 1431a, 1649, 1652
<i>Nant</i>	Hafod-boeth	1842	RhPDegwm	1234
<i>Nant</i>	Hafoty-wen	1842	RhPDegwm	1607-8, 1615-16
<i>Nant</i>	Hendre	1842	RhPDegwm	769-70
<b><i>nant</i></b>				

*Nant Cefn y Bettws* demên Glynllifon 1751 Bangor 5679  
***nant, cefn, y, e.ll. Betws***  
 Am *Betws* gweler *Betws Gwe(r)nrhiw* dan Anheddau Llandwrog.

*Nant ganol* Glyn-y-meibion-uchaf 1842 RhPDegwm 1434  
***nant, canol***

*Nant Tû y twll* demên Glynllifon 1751 Bangor 5679  
***nant, tû, y, twll***

*Nanty Coppa* ? 1800 Ll&Brynodol D1105-6  
*Nant y Coppa* ? 1811 Ll&Brynodol D1110-11  
***nant, y, copa***

*Nant y felin* demên Glynllifon 1751 Bangor 5679  
*Nantŷ Felin* demên Glynllifon 1751 Ll&Brynodol R160  
***nant, y, melin***

*Nant y Pandu* demên Glynllifon 1751 Bangor 5679  
*Nantŷ Pandu* demên Glynllifon 1751 Ll&Brynodol R160  
***nant, y, pandy***

*Nant u Nysoedd* demên Glynllifon 1751 Bangor 5679  
***nant, e.ll. Ynysoedd***  
 Gweler *Ynysoedd* dan Anheddau Llandwrog.

**Odyn Llandwrog**

*Odyn* Grugan-ddu 1842 RhPDegwm 898  
*'Rodyn* Plas-mawr 1842 RhPDegwm 604  
***yr, ody***

**Pant Llandwrog**

*Pant* Cefn-nen 1842 RhPDegwm 1364  
*Pant* Coed-y-brain 1842 RhPDegwm 1206  
*Pant* Hafoty-Tŷ-newydd 1842 RhPDegwm 1870, 1872-4  
***pant***

*Pant iccws* Rhos-maelan 1842 RhPDegwm 281  
***pant, e.p. Iocws***

Mae'n debyg mai *Iocws* sydd yn yr ail elfen, sef ffurf fachigol ar yr e.p. *Iorwerth*. Fel y dangosodd MR, mae sawl ffurf fachigol i'r enw hwn: *Iol, Iola, Ioca, Iwca, Iolyn, Iwcws, Iocws, Iolo* a *Iolcyn* (TCHSG, 52-3, (1991-2), 27). Erbyn heddiw, collwyd y ffurfiau hyn fwy neu lai i gyd ac eithrio *Iolo*. Mae enw *Tyddyn Iocws* yn Aber-erch wedi troi'n syml yn *Iocws* a hyd yn oed yn *Yokehouse* (ibid.).

<i>Pant 'r Ebolion</i> <i>pant, yr, ebol, llu. ebolion</i>	Bron-rhiw	1842	RhPDegwm	2000
<i>Pant y Gwryrod</i> <i>pant, y, gweryrad?</i>	Coed-y-brain	1798-9	Vaynol	4059
Mae'n anodd gwybod beth yw'r drydedd elfen: yr unig air tebyg yw <i>gweryrad</i> , sef y swm a wna ceffyl, ond nid yw hyn yn gwneud llawer o synnwyr yn y cyd-destun.				
<i>Pant y pwll</i> <i>pant, y, pwll</i>	Cim-newydd	1842	RhPDegwm	1907
<b>Parc</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Parc</i>	Bodfan	1842	RhPDegwm	72, 76
<i>Parc</i>	Bryn-glas	1842	RhPDegwm	68
<i>Parc</i>	Bryntrefeilir	1842	RhPDegwm	7-8
<i>Parc</i>	Bwlan	1842	RhPDegwm	54
<i>Parc</i>	Cae'r-ffridd	1842	RhPDegwm	86, 130
<i>Parc</i>	Cae-haidd-bach	1842	RhPDegwm	1529, 1534, 1536, 1539
<i>Parc</i>	Collfryn	1842	RhPDegwm	55
<i>Parc</i>	Gallt-y-pill	1842	RhPDegwm	51
<i>Parc</i>	Grugan-ganol	1842	RhPDegwm	2-5, 62-3, 73-4
<i>Parc</i>	Gwern-afalau	1842	RhPDegwm	56
<i>Y Parc</i>	Hafoty-Tŷ-newydd	1842	RhPDegwm	1819
<i>Parc</i>	Parc	1842	RhPDegwm	31
<i>Parc</i>	Penllech	1842	RhPDegwm	48-50
<i>Parc</i>	Penrhos-cwta	1842	RhPDegwm	1126
<i>Parc</i>	Rheithordy Llandwrog	1842	RhPDegwm	67
<i>Parc</i>	Tai-gwynion	1842	RhPDegwm	87
<i>Parc</i>	tir demên	1842	RhPDegwm	605, 610, 712, 736
<i>Parc</i>	Tyn-rhos	1842	RhPDegwm	715-16
<i>Parc</i>	Tyn-y-parc	1842	RhPDegwm	6, 19, 21, 26
<i>Parc</i> <i>y, parc</i>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	28-30
<i>Park bach</i> <i>Saes. park, bach</i>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
<i>Parc Marsh</i> <i>parc, Saes. marsh</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	58-9
<i>Park mawr</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Park Mawr</i>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
<i>Parc Mawr</i> <i>parc, Saes. park, mawr</i>	Tyn-y-parc	1842	RhPDegwm	27
<i>Park nywydd</i> <i>Saes. park, newydd</i>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<i>Parc tan y foel</i> <i>parc, tan, y, moel</i>	Tŷ-newydd-y-Fron	1842	RhPDegwm	2049
<i>Park tan ŷ twll</i>	tir demên	1751	Ll&Brynodol	R160
<i>Park Tunytwll</i>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (54)

<i>Parc ty'n twll</i> <b>parc, Saes. park, tan / tyn, y, twll</b>	tir demên	1842	RhPDegwm	661
<i>Parc Ucha'</i> <b>parc, ans. uchel, gradd eithaf uchaf</b>	tir demên	1842	RhPDegwm	699
<i>Parc y Morfa</i> <b>parc, y, morfa</b>	Parc-y-morfa	1842	RhPDegwm	52. 61
<i>Parc Ynysoedd</i> <b>parc, e.ll. Ynysoedd</b> Gweler <i>Ynysoedd</i> dan Anheddau Llandwrog.	tir demên	1842	RhPDegwm	695
<i>Parcia' Bach</i> <b>parc, llu. parciau, bach</b>	Hafod-y-coed	1842	RhPDegwm	1007
<i>Parcia' Mawr</i> <b>parc, llu. parciau, mawr</b>	Hafod-y-coed	1842	RhPDegwm	1002
<b>Pen</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Penbryn Fodty</i> <b>pen, bryn, hafoty</b>	Gerlan	1842	RhPDegwm	1839
<i>Pen cae'r Ty</i> <b>pen, e.ll. Cae-tŷ</b> Gweler <i>Cae-tŷ</i> dan Anheddau Llandwrog.	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1496
<i>Pen Cae ty du</i> <b>pen, e.ll. Cae-tŷ-du</b> Gweler <i>Cae-tŷ</i> dan Anheddau Llandwrog.	Coed-y-brain	1842	RhPDegwm	1490
<i>Pen carmel</i> <b>pen, e.ll. Carmel</b> Am yr ail elfen gweler y nodyn a'r troednodyn ar <i>Garmel</i> dan y cofnod ar <i>Landwrog</i> .	Bryn-eithin	1842	RhPDegwm	1823
<i>Pen isa'r bryn</i> <b>pen, ans. isel, gradd eithaf isaf, y, bryn</b>	Braich-y-trigwr-uchaf	1842	RhPDegwm	1605
<i>Penlon cerrig gwynion</i> <b>pen, lôn, carreg, llu. cerrig, ans. gwyn, llu. gwynion</b>	Cim-newydd	1842	RhPDegwm	1911
<i>Pen Werglodd</i> <i>Pen y Werglodd</i> <b>pen, y, gweirglodd</b>	Grugan-ddu Penrhos-cwta	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	894 1078
<i>Pen y Bonc Bryntwrog</i> <b>pen, y, ponc, e.ll. Bryntwrog</b> Ardal yn y Fron yw <i>Bryntwrog</i> .	Tŷ-newydd-Cim	1842	RhPDegwm	1977
<i>Pen y Bont</i> <i>Penybont</i> <b>pen, y, pont</b>	Pen-y-bont Plas-mawr	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	1239 615
<i>Pen y Bryn</i>	Bryn-eithin	1842	RhPDegwm	1631

<i>Pen y bryn</i> <b>pen, y, bryn</b>	Garth	1842	RhPDegwm	864
<i>Pen y Bwlch</i> <b>pen, y, bwlch</b>	Bron-rhiw	1842	RhPDegwm	1986
<i>Pen y Foel</i> <b>pen, y, moel</b>	Bron-'hedydd	1842	RhPDegwm	2034
<i>Pen y ffynon</i> <b>pen, y, ffynnon</b>	Tai-gwynion	1842	RhPDegwm	126
<i>Pen y Nant</i> <b>pen, y, nant</b>	Glyn-y-meibion-uchaf	1842	RhPDegwm	1651
<i>Benallt</i> <i>Penyrallt</i> <b>pen, yr, allt</b>	Gelli-ffrydau Pen-yr-allt	1842 1842	RhPDegwm RhPDegwm	2168 630
<b>Penllech</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Penllach</i> <b>penllech</b>	Penllech	1842	RhPDegwm	100
	Gweler <i>Penllech</i> dan Anheddau Llandwrog.			
<b>Pentrygan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Pentrygan</i> <b>pentrygan</b>	Tŷ-nant	1842	RhPDegwm	2066
	Gweler y nodyn ar <i>Werglodd Pentrygan</i> uchod.			
<b>Pentan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Pentan Bedd</i> <b>pentan, bedd</b>	Trosglwyn	1842	RhPDegwm	1769–70
	Fel rheol, defnyddir <i>pentan</i> am silff gerllaw lle tân gynt i ddal tegell, ac ambell dro fe'i defnyddir am yr aelwyd ei hun. Gall hefyd olygu adeiladwaith sydd yn cynnal rhywbeth arall ac ymddengys fod bedd o ryw fath yma. Mae'n bosib mai hen garreg fedd sydd yma wedi ei defnyddio i gynnal rhywbeth. Cyfeiria Kate Roberts at garreg fedd (a ddyddiwyd 1836) a ddefnyddid yn ei chartref hi, wedi ei hollti'n dair rhan: un i fod yn rhan o'r aelwyd, a'r ddwy arall y tu cefn i resel y gwartheg yn y beudy ( <i>Atgofion</i> , 8–9).			
<b>Perllan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Berllan</i> <b>perllan</b>	Nantlle	1842	RhPDegwm	2123
	Collwyd y fannod o flaen yr eb. un. <i>perllan</i> , ond cadwyd y tr. meddal ar ei ddechrau.			
<i>Perllan Newydd</i> <b>perllan, newydd</b>	demên Glynllifon	1751	Bangor	5679
<b>Pig / Pigyn</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Piga Eithin</i> <b>pig / pigyn, llu. pigau, eithinen, llu. eithin</b>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	849

<b>Planwydd</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Planwydd</i>	Tai-gwynion	1842	RhPDegwm	237
<b><i>planwydden, llu. planwydd</i></b>				
Planhigfa o goed ifainc yw'r ystyr fel arfer. Gweler <i>Planwydd</i> dan Anheddau Llanwnda.				
<b>Plas</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Plas</i>	Plas-mawr	1842	RhPDegwm	597
<b><i>plas</i></b>				
<b>Ponc / Poncen</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Boncan</i>	Bryn-naid-hir	1842	RhPDegwm	1721
<i>Y Bonc</i>	Tyddyn-mawr	1842	RhPDegwm	1285
<b><i>y, ponc, poncen</i></b>				
<i>Bonc eithin</i>	Glyn-y-meibion-uchaf	1863	Bangor	28503
<i>Ponc Eithin</i>	Hafod-y-coed	1842	RhPDegwm	1026
<i>Poncen Eithin</i>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	852
<b><i>ponc, poncen, eithinen, llu. eithin</i></b>				
<i>Ponc Galed</i>	Cae-Forgan	1842	RhPDegwm	1737
<b><i>ponc, caled</i></b>				
<i>Boncan y Beudy</i>	Bryn-naid-hir	1842	RhPDegwm	1719
<b><i>poncen, y, beudy</i></b>				
Nid oes angen y tr. ar ddechrau'r elfen gyntaf gan na chollwyd y fannod yn y gystrawen hon.				
<i>Ponciau</i>	Penrhos-cwta	1842	RhPDegwm	1079
<b><i>ponc, llu. ponciau</i></b>				
<b>Porfa</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Borfa</i>	Cefn-eithin	1842	RhPDegwm	556
<b><i>porfa</i></b>				
Collwyd y fannod o flaen yr eb. un. <i>porfa</i> , ond cadwyd y tr. meddal ar ei ddechrau				
<b>Porth</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Borth</i>	Gelli-ffrydau	1842	RhPDegwm	2145
<b><i>porth</i></b>				
<b>Pwll</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Pwll Marl</i>	Ysgubor-isaf	1842	RhPDegwm	342
<b><i>pwll, marl</i></b>				
Am esboniad o'r enw gweler dan <i>Pwll Marl</i> yn Anheddau Llanfaglan.				
<i>Pwll mawnog</i>	Bryn-naid-hir	1842	RhPDegwm	1355
<b><i>pwll, mawnog</i></b>				
Yr enw arferol yw <i>pwll mawn</i> , sef y twll y cloddir y mawn ohono.				
<i>Pwll 'r olwyn</i>	Llwyn-y-gwalch	1842	RhPDegwm	582



***pwll, yr, olwyn***

Pwll olwyn y felin yn Llwyn-y-gwalch fyddai hwn.

*Pwll y big* Hafoty-Tŷ-newydd 1842 RhPDegwm 1867  
***pwll, y, pig***

*Pwll y ffynnon* Collfryn 1804 NewGlynllifon 7468  
*pwll y ffynnon* Collfryn 1848 NewGlynllifon 7486

***pwll, y, ffynnon***

Mae lleoliad yr enw ar restrau NewGlynllifon yn awgrymu mai'r un lle yw hwn â *Dryll y Ffynnon* q.v.

**Rhigol**

**Llandwrog**

*Rhigol* Cae-haidd-bach 1842 RhPDegwm 1544-5  
***rhigol***

**Rhiw**

**Llandwrog**

*Rhiw* Ffrwd 1842 RhPDegwm 656-8  
***rhiw***

**Rhiwallen**

**Llandwrog**

*Rhiwallen* Rhiwafallen 1842 RhPDegwm 645  
***e.ll. Rhiwafallen***

Gweler *Rhiwafallen* dan Anheddau Llandwrog.

**Rhos**

**Llandwrog**

*Rhos* Cefn-nen 1842 RhPDegwm 1366  
*Rhos* Garth-dorwen 1842 RhPDegwm 832  
*Rhos* Gelli-ffrydau 1842 RhPDegwm 2165, 2169-70  
*Rhos* Gilwern-isaf 1842 RhPDegwm 1124, 1134  
*Rhos* Grafog 1842 RhPDegwm 874-5, 880  
*Rhos* Grugan-wen 1842 RhPDegwm 919  
*Rhos* Hafod-boeth 1842 RhPDegwm 1260  
*Rhos* Llwyn-y-gwalch 1842 RhPDegwm 1034  
*Rhos* Pen-cae-rhos 1842 RhPDegwm 1053  
*Rhos* Penfforddfelen 1842 RhPDegwm 1390, 1392-3  
*Rhos* Rhos-maelan 1842 RhPDegwm 294  
*Rhos* Tafarn-Dudur 1842 RhPDegwm 813, 817, 833-4  
*Rhos* Tyddyn-Elen 1842 RhPDegwm 289-90  
***rhos***

*Rhos Bach* Hafod-boeth 1842 RhPDegwm 1422  
***rhos, bach***

Yma eto ni cheir tr. meddal yn yr ans. *bach* ar ôl eb. un.

*Rhos fain* Gilwern-isaf 1842 RhPDegwm 1122  
***rhos, main***

*Rhos tros y ffordd* Beudy-newydd 1842 RhPDegwm 1232a  
*Rhos tros y ffordd* Tyddyn-mawr 1842 RhPDegwm 1294  
***rhos, tros, y, ffordd***

*Rhos wyllt* Grugan-wen 1842 RhPDegwm 920  
*rhos, gwyllt*

*Rhos y pyttiau* Tai-gwynion 1842 RhPDegwm 221  
*rhos, y, pwt, llu. pyttiau*

Mymryn neu damaid bach o rywbeth yw *pwt*, ond mae'n amhosib gwybod beth oedd y *pyttiau* yma.

**Samaria Llandwrog**

*Samaria* Pen-rhiwiau 1842 RhPDegwm 1925  
*e.ll. Samaria*

Yr oedd *Samaria* yn enw ar dyddyn hefyd, ond yr oedd hwnnw ychydig o bellter o *Ben-rhiwiau* (*TyCh*, 81). Gweler *Samaria* dan Anheddau Llandwrog am ymgais i esbonio arwyddocâd yr enw.

**Sarn Llandwrog**

*Sarn* Tal-y-sarn 1842 RhPDegwm 1960

**Siôn Llandwrog**

*Sion Bach* Glan`rafon 1842 RhPDegwm 1788  
*e.p. Siôn, bach*

Tybed ai John Williams, a oedd yn ddeiliad y cae hwn yn 1842, oedd *Siôn Bach*?

*Sion Hughes* Glyn-y-meibion-uchaf 1842 RhPDegwm 1634  
*e.p. Siôn Hughes*

Ni wyddys pwy oedd *Siôn Hughes*; gŵr o'r enw John Roberts oedd yn byw yng *Nglyn-y-meibion-uchaf* adeg llunio RhPDegwm 1842.

**Sling Llandwrog**

*Sling* Tyddyn-ab-Engan-mawr 1842 RhPDegwm 796–800  
*sling*

Defnyddir *sling* a *slang* (benth. o'r Saes. *sling, slang*) am rimyn o dir, yn aml o siâp hirgul. Mae John Field yn awgrymu mai siâp fel ffon dafl (*sling*) ydoedd (*EFN*, 132). Gweler hefyd *ELleoedd*, 81; *YEE*, 82.

**Talcen Llandwrog**

*Talcen* Cae-Forgan 1842 RhPDegwm 1772  
*talcen*

**Tan Llandwrog**

*Tan y Braich* Tan-y-muriau 1842 RhPDegwm 1879  
*tan, y, braich*

*Tan y Buarth* Bryn-trallwyn 1842 RhPDegwm 1899  
*tan, y, buarth*

*Tan y Bwlch* Bryn-eithin 1842 RhPDegwm 1828  
*tan, y, bwlch*

<i>Tan y Cae</i> <b><i>tan, y, cae</i></b>	Pen-rhiwiau	1842	RhPDegwm	1928
<i>Tan y Castell</i> <b><i>tan, y, castell</i></b>	Penrhydgan	1842	RhPDegwm	2053–4
<i>Tan y foel</i> <b><i>tan, y, moel</i></b>	Bryn-coch	1842	RhPDegwm	1890
<i>Tan y ffordd</i> <b><i>tan, y, ffordd</i></b>	Gerlan	1842	RhPDegwm	1835
<i>Tan y gors</i> <b><i>tan, y, cors</i></b>	Bron-rhiw	1842	RhPDegwm	1991
<i>Tan y graig</i> <b><i>tan, y, craig</i></b>	Pen-rhiwiau	1842	RhPDegwm	1918

**Telyn Llandwrog**

<i>Telyn</i> <b><i>telyn</i></b>	Garth-dorwen	1842	RhPDegwm	829
-------------------------------------	--------------	------	----------	-----

Disgrifiad o siâp y cae sydd yma. Ceir *Llain* (y) *Delyn* ym mhlwyfi Llanwnda a Llanfair-is-gaer a *Buarth y delyn* ym mhlwyf Llanbeblig. ond mae'r enw yma yn fwy syml, gan ddilyn y patrwm enwi cryno a geir ym mhlwyf Llandwrog. Ceir yr un defnydd disgrifiadol yn Lloegr: e.e. *Harp Field*, *Harp Mead*, *Welsh Harp Piece* (EFN, 138).

**Trafferth Llandwrog**

<i>Drafferth</i> <b><i>trafferth</i></b>	Cae-Forgan	1842	RhPDegwm	1745
---	------------	------	----------	------

Enghraifft arall o'r enwau cryno a geir yn Llandwrog. Cae anhydrin neu ddigynnyrch fyddai hwn. Cf. *Ffwdan* yn Llanfyrnach (PNPem, 79); *Troublesome*, *Hard Struggle*, *Sorrowful*, *Dreadful* a *Terrible* mewn gwahanol rannau o Loegr (EFN, 106–7), a *Misery* yn Ynysoedd Falkland (PNFI, 46).

**Tre Llandwrog**

<i>Tre</i> <b><i>tre</i></b>	Gerlan	1842	RhPDegwm	1885
---------------------------------	--------	------	----------	------

**Tros Llandwrog**

<i>Tros y lôn</i> <b><i>tros, y, lôn</i></b>	Bodryn	1842	RhPDegwm	242
---	--------	------	----------	-----

<i>Tros y Werglodd</i> <b><i>tros, y, gwerglodd</i></b>	Pen-y-bwth	1842	RhPDegwm	302
--	------------	------	----------	-----

**Trosglwyn Llandwrog**

<i>Trosglwyn</i> <b><i>trwsgl +llwyn</i></b>	Trosglwyn	1842	RhPDegwm	1785a
---	-----------	------	----------	-------

Gweler *Trosglwyn* dan Anheddau Llandwrog am ymdriniaeth o'r enw hwn.

<b>Tryfan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Tryfan</i> <b>try+bann</b>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1460
Gweler y nodyn ar <i>Tryfan</i> dan Anheddau Llandwrog.				
<b>Tudur</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Dudur</i> <b>e.p.Tudur</b>	Tafarn-Dudur	1842	RhPDegwm	835
Ni wyddys pwy oedd <i>Tudur</i> . Gweler y nodyn ar <i>Gae-hen</i> uchod am ymdriniaeth o'r dull cryno hwn o enwi caeau.				
<b>Tu hwnt</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Tu hwnt i'r bwlch</i> <b>tu, hwnt, i, y, bwlch</b>	Tan-y-muriau	1842	RhPDegwm	1888
<b>Tŷ</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Ty Cerrig</i> <b>tŷ, carreg, llu. cerrig</b>	Bron-rhiw	1842	RhPDegwm	1987
<i>Tu rhwng y ddwyffos</i>	Collfryn	1760	NewGlynllifon	7462
<i>Ty rhwng y ddwyffos</i>	Collfryn	1804	NewGlynllifon	7468
<i>Tyrhwngyddwyffos</i> <b>tŷ, rhwng, y, dwy, ffos</b>	Collfryn	1848	NewGlynllifon	7486
<b>Tyddyn / Tyn</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Tyddyn betty</i> <b>tyddyn, e.p.Betty? beting?</b>	Glan'rafon	1842	RhPDegwm	1789
Mae'n anodd dweud beth sydd yn yr ail elfen: ai'r e.p.ben. <i>Betty</i> , ynteu llurguniad o <i>betin</i> / <i>batin</i> / <i>beting</i> . Ystyr <i>betin</i> yw tyweirch ar wyneb y tir wedi eu ceibio ac yna eu llosgi cyn gwasgaru'r lludw fel gwrtaiith ( <i>CBAMAeth 1</i> , 76; <i>ADG2</i> , 19; <i>YEE</i> , 33). Yr oedd y potash a geid yn y lludw hwn yn llesol iawn i'r tir. Os mai <i>betin</i> > <i>Betty</i> sydd yma, nid yw'r newid hwn yn gyfyngedig i Arfon; yn ardal yr Alltwen ger Pontardawe hefyd trodd <i>betin</i> yn <i>Beti</i> , a chyfeirid at y lludw fel 'llyti <i>Beti</i> ' <sup>1</sup> .				
<i>Tyddyn Bottwm</i> <b>e.ll. Tyddyn-botwm</b>	Cefn-Emrys	1842	RhPDegwm	166
Gweler y nodyn ar <i>Dyddyn-botwm</i> dan Anheddau Llandwrog.				
<i>Tyddyn difyr</i> <b>e.ll. Tyddyn-difyr</b>	Tan-y-buarth	1842	RhPDegwm	1830
Enw annedd yng Ngharmel yw <i>Tyddyn-difyr</i>				
<i>Tyddyn Evan</i> <b>e.ll. Tyddyn-Evan</b>	Penlan	1842	RhPDegwm	1790

<sup>1</sup> Gwynallt Bowen, 'Beting', *Llafar Gwlad*, 24, (Haf 1989), 23

<i>Tyddyn-heilyn</i> <i>e.ll. Tyddyn-Heilyn</i>	Bryntrefeilir	1842	RhPDegwm	1132
<i>Tyddyn Helen</i> <i>tyddyn, e.p. Helen</i>	Tyddyn-Elen	1842	RhPDegwm	304
Gweler <i>Tyddyn-Elen</i> dan Anheddau Llandwrog. Fel rheol, cedwir at <i>Elen</i> yn enw'r annedd hwn gan osgoi'r duedd boblogaidd i gynnwys yr enw <i>Helen</i> .				
<i>Tyddyn madyn</i> <i>e.ll. Tyddyn-Madyn</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1147
Gweler <i>Tyddyn-Madyn</i> dan Anheddau Llandwrog.				
<i>Tyddyn madyn isa'</i> <i>e.ll. Tyddyn-Madyn, ans. isel, gradd eithaf isaf</i>	Tryfan-fawr	1842	RhPDegwm	1223
<i>Tythyn y Gorsedd</i>	Tŷ-gwyn-yn-y-Collfryn	1721	Ll&Brynodol	D1068-9
<i>Tythyn y Gorsedd</i>	Tŷ-gwyn-yn-y-Collfryn	1721	NewGlynllifon	XD2 / 7459
<i>Tythyn y Gorsedd</i>	Tŷ-gwyn-yn-y-Collfryn	1760	NewGlynllifon	XD2 / 7462
<i>Tyddyn y Gorsedd</i>	Tŷ-gwyn-yn-y-Collfryn	1804	NewGlynllifon	XD2 / 7468
<i>Tyddynyngorsedd</i> <i>tyddyn, y, gorsedd</i>	Tŷ-gwyn-yn-y-Collfryn	1848	NewGlynllifon	XD2 / 7486
Eb.g. yw <i>gorsedd</i> , ond mae'n eb. fel rheol yn yr ardal hon, felly mae'r diffyg tr. meddal ar ôl y fannod yn swnio'n ddiethr. Ystyr <i>gorsedd</i> mewn e.lle yw twmpath neu fryncyn.				
<i>Ty'n lon</i> <i>tyn, lôn</i>	Garth	1842	RhPDegwm	841
<i>Ty'n pant</i> <i>tyn, pant</i>	Tan-y-muriau	1842	RhPDegwm	1880
<i>Tyntwlth</i> <i>tyn, twll</i>	demên Glynllifon	1780-7	P.S.Glynllifon	84 (53)
<i>Ty'n y Bryn</i> <i>tyn, y, bryn</i>	Tai-gwynion	1842	RhPDegwm	223
<i>Ty'n y Maes</i> <i>tyn, y, maes</i>	Dyffryn-Twrog	1842	RhPDegwm	2010
<b>Tywyrch</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Dywyrch</i> <i>tywarchen, tywyrch / tyweirch</i>	Cae-Forgan	1842	RhPDegwm	1744
<b>Ugan</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Ugan</i> <i>ugan?</i>	Grugan-ddu	1842	RhPDegwm	899-900
Mae'n anodd esbonio'r enw hwn fel y mae. Gallai fod yn <i>ugain</i> gan gyfeirio at fesur y cae, neu. gan gofio ei leoliad a dull cryno plwyf Llandwrog o enwi'r caeau, gallai fod yn llurguniad o <i>Grugan</i> .				
<b>Ynys</b>	<b>Llandwrog</b>			
<i>Ynys</i>	Uwehllaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	1334-6

**ynys**

Mae sawl ystyr i *ynys*: gall fod yn ddarn o dir wedi ei amgylchynu nid yn unig â'r môr ond ag afon neu gors, neu fe all fod yn ddôl neu dir gwastad ar lan y môr neu lan afon. Fel y dywed Syr Ifor: 'Ceir digon o leoedd a elwir *Ynys* yng nghanol y wlad, ac ymhell o'r môr, hyd yn oed yn y bryniau. Ni flina hynny neb bellach.' (*ELleoedd*, 37). Felly hefyd yma yn *Uwchlaw'r-rhos*.

<i>Ynys Bach</i> <b><i>ynys, bach</i></b>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	1337
--	----------------	------	----------	------

Yma eto ni threiglir yr ans. *bach* ar ôl eb.un.

<i>Ynys Hir</i> <b><i>ynys, hir</i></b>	Uwchlaw'r-rhos	1842	RhPDegwm	1338
--	----------------	------	----------	------

<b>Ysgubor</b>	<b>Llandwrog</b>			
----------------	------------------	--	--	--

' <i>Scybor</i> <b><i>ysgubor</i></b>	Ysgubor-isaf	1842	RhPDegwm	318
--	--------------	------	----------	-----